

Bangor University

DOCTOR OF PHILOSOPHY

Hanes y Degwm yng Nghymru yn ystod y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg, gyda sylw arbennig i 'Ryfel y Degwm'.

Jones, Siôn

Award date:
2017

Awarding institution:
Bangor University

[Link to publication](#)

General rights

Copyright and moral rights for the publications made accessible in the public portal are retained by the authors and/or other copyright owners and it is a condition of accessing publications that users recognise and abide by the legal requirements associated with these rights.

- Users may download and print one copy of any publication from the public portal for the purpose of private study or research.
- You may not further distribute the material or use it for any profit-making activity or commercial gain
- You may freely distribute the URL identifying the publication in the public portal ?

Take down policy

If you believe that this document breaches copyright please contact us providing details, and we will remove access to the work immediately and investigate your claim.

Nodyn.

Nid ydyw deunydd trydydd parti ar gael yn y fersiwn digidol hwn.

Gweler y copi clawr caled.

**Hanes y Degwm yng Nghymru yn
ystod y Bedwaredd Ganrif ar
Bymtheg,
gyda sylw arbennig i ‘Ryfel y Degwm’.**

Siôn Edward Jones

Traethawd Doethuriaeth

Ysgol Hanes

Prifysgol Bangor

2017

Cydnabyddiaeth

Hoffwn ddiolch i Dr. Lowri Ann Rees am oruchwyllo'r traethawd hwn ac am ei chymorth, anogaeth a chefnogaeth drwy gydol y pedair mlynedd diwethaf. Carwn ddatgan fy niolch hefyd i Dr. Huw Pryce am ddarllen dros y ddrafft derfynol.

Hoffwn ddiolch hefyd i Dr. Mari Elin Wiliam a Dr. Eryn White am eu hadborth. Yr wyf yn ddiolchgar dros ben i staff Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth; Archifdy Sir Ddinbych, Rhuthun; Archifdy Gwynedd, Dolgellau; Archifdy Prifysgol Bangor. Rwy'n ddyledus i Robin Gwyndaf am rannu ei nodiadau personol gyda mi, yn ogystal ag am ei groeso cynnes pan ymwelais ag Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan. Hoffwn ddiolch iddo hefyd am anogi mi i ysgrifennu'r traethawd hwn yn y Gymraeg. Y mae fy nyled yn fawr hefyd i Rhian Llewelyn Jones am gymryd yr amser i ddarllen dros y traethawd hwn. Yn olaf, hoffwn ddiolch yn arbennig i fy nheulu am eu cymorth a'u cefnogaeth parhaol ar hyd y blynyddoedd.

Crynodeb

Y mae'r traethawd hwn yn astudio hanes y degwm yng Nghymru o'r 1790au hyd at yr 1890au. Rhoddir sylw neilltuol i wrthglerigiaeth er mwyn asesu a oedd talu degymau i'r Eglwys Sefydledig wedi creu drwgdeimlad ar y lefel sylfaenol. Yn ogystal â hyn, edrychir ar yr elfen 'foesol' ynghylch talu'r degymau, ac i ba raddau y chwaraeodd y 'gydwybod Ymneilltuol' rôl yn hyn. Wedi arolygu'r llenyddiaeth berthnasol, y mae'r traethawd yn edrych yn fanwl ar y 'wedd gyntaf' o anniddigrwydd ynghylch y degymau yng Nghymru yn ystod cyfnod y Chwyldro yn Ffrainc. Dilynir hyn gan astudiaeth o'r 'ail wedd' yn ystod yr 1830au, cyn mynd ymlaen i edrych ar y cyfnod 'distaw' hwnnw o bron i hanner canrif rhwng 1836-1886. Y mae ail hanner o'r traethawd yn ffocysu ar 'Ryfel y Degwm' (fel y'i gelwid), rhwng 1886-1895. Rhoddir cyfrif cryno o'r cythrwfl yn gyntaf er mwyn gosod y penodau thematig sydd i'w dilyn o fewn cyd-destun cronolegol. Y mae'r bennod thematig gyntaf yn archwilio'r enghreifftiau o wrthglerigiaeth ar y lefel sylfaenol, megis creu a llosgi delwau o glerigwyr, yn ogystal ag enghreifftiau o fandaliaeth a bygythiadau. Dilynir hyn gan arolwg o gyflwr ariannol y clerigwyr ar y pryd, ac i ba raddau yr effeithiodd hyn ar eu bywydau beunyddiol. Diweddir yr adran drwy edrych yn fanwl ar y 'cynhyrfwyr a'r cynhyrfus', sef y bobl gyffredin a gymerodd ran yn 'Rhyfel y Degwm'. Drwy ymdrin â hanes y degwm yng Nghymru yn y modd hwn, y mae'n bosib ychwanegu at ein dealltwriaeth drwy ail-gloriannu'r hen chwedl bod talu'r degymau yn anathema i Anghyddfurfwyr, yn ogystal â chwalu'r fytholeg sydd wedi datblygu ynghylch 'Rhyfel y Degwm'.

CYNNWYS

Cydnabyddiaeth

Crynodeb

Lluniau

Ffigyrau

Tablau

Cyflwyniad.....t. 1

RHAN I. Y DEGWM YNG NGHYMRU, c.1789-1885

Pennod I – Y Degwm yng Nghymru Adeg y Chwyldro yn Ffrainc, c.1790au.....t. 25

Pennod II - Y Dadlau yn Poethi, 1830-1836.....t. 72

Pennod III – Hanner Canrif o Lonyddwch? 1836-1885.....t. 91

RHAN II. ‘RHYFEL Y DEGWM’, 1886-1895

Pennod IV – Braslun o’r Helynt.....t. 143

RHAN III. RHAI AGWEDDAU O ‘RYFEL Y DEGWM’

Pennod V – Caneuon, Gwŷr Gwellt a Fandaliaeth.....t. 177

Pennod VI – ‘Newyn Clerigol?’t. 233

Pennod VII – Y Cynhyrfwyr a’r Cynhyrfus.....t. 260

Diwedd glo.....t. 320

Atodiadau.....t. 327

Llyfryddiaeth.....t. 343

Lluniau

0.1 Cartŵn dychanol ynghylch y ‘gydwybod Ymneilltuol’ yn y <i>Western Mail</i> , 1894.....	t. 8
1.1 Cartŵn gwleidyddol cyntaf gyda phennill dychanol yn y Gymraeg gan Jac Glan-y-gors a gyhoeddwyd fel wyneb-darlun yn Thomas Roberts (Llwynrhudol), <i>Cwyn yn Erbyn Gorthrymder</i> (1798).....	t. 32
4.1 Yr helynt yn Llanarmon-yn-iâl ar 23 Awst 1886.....	t. 149
4.2 Digwyddiad y tarw ym mhlwyf Llandrillo, Sir Feirionnydd, Mai 1887.....	t. 154
4.3 Y ‘13 th Hussars’ yn Nhreffynnon, Ionawr 1888.....	t. 161
4.4 Atafaelu yn Chwitffordd, Sir y Fflint, Ionawr 1888.....	t. 163
5.1 Hysbysiad a ymddangosodd yn <i>Y Faner</i> o 1887 ymlaen pan gyhoeddwyd y llyfryn ‘Caneuon y Degwm’.....	t. 181
5.2 ‘Gŵr gwellt’ ar fferm Wernllygos, Llanfallteg, ger Hendy-gwyn ar Daf (21 Ionawr 1888).....	t. 209
5.3 Y Parchg. W. Venables Williams.....	t. 215
5.4. Y Parchg. Thomas Jones, Penbryn.....	t. 228
6.1 A. G. Edwards, Esgob Llanelwy.....	t. 247
6.2 John Owen, Deon Llanelwy.....	t. 247
7.1 Y Parchg. T. D. Evans (Gwernogle).....	t. 267
7.2 Y Parchg. W. Thomas, Hendy-gwŷn ar daf.....	t. 268
7.3 Y Parchg. J. Gwynoro Davies.....	t. 270
7.4 R. R. Parry, Brynala, Môn.....	t. 281
7.5 Gwilym Parry, Dinbych.....	t. 282
7.6 Ifor Evans, Maer Aberteifi.....	t. 283
7.7 John Parry, Llanarmon.....	t. 286

7.8 Dr. Enoch Davies, Llandysul.....t.	288
7.9 Merthyron y Degwm, Llangwm.....t.	303

Ffigyrau

1.1 Nifer o achosion ynglŷn â'r degwm a dygwyd ger bron y llys eglwysig yn Esgobaeth Llanelwy, 1783-1836.....t.	53
1.2 Nifer o achosion ynglŷn â'r degwm a dygwyd ger bron y llys eglwysig yn Esgobaeth Llandaf, 1750au-1820au.....t.	53
1.3 Dosbarthiad canran rhent-dal y degwm oedd yn nwylo'r gwahanol berchnogion yng Nghymru a Lloegr erbyn hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg.....t.	64
1.4 Dosbarthiad canran rhent-dal y degwm oedd yn nwylo'r gwahanol berchnogion yng Nghymru erbyn hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg.....t.	64
1.5 Canran rhent-dal y degwm oedd yn nwylo'r gwahanol berchnogion yng Nghymru erbyn hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn ôl Sir.....t.	65
5.1 Ardaloedd a welodd achos neu achosion o greu 'gŵr gwellt' i gynrychioli offeiriaid yr Eglwys, 1887-1895.....t.	194
6.1 Graff yn dangos y gwahanol ganrannau a ostyngwyd yn eu degymau gan glerigwyr yr Eglwys rhwng 1886-1889.....t.	237
7.1 Rhifiau i ddynodi pob un o'r 'merthyron' i gyd-fynd â thabl 7.3..... t.	304
8.1 Canran o'r bywoliaethau gyda naill ai Eglwysywr neu Anghyddfurfwyr fel y mwyafrif o'r degwm dalwyr yn Esgobaeth Llanelwy, 1906-1907.....t.	320

Tablau

3.1 Perchenogion rhentdal-y-degwm o fewn y pedwar Esgobaethau yng Nghymru erbyn 1890.....t.	115
3.2 Cyfanswm rhent-dal y degwm a ategwyd gan y Dirprwywr Eglwysig i bedair bywoliaeth yn Sir Feirionnydd rhwng 1875-1876.....t.	118
3.3 Gwerth y degymau a neilltuwyd gan y Dirprwywr Eglwysig i Esgobaeth Tyddewi.....t.	136
5.1 Nifer o flynyddoedd y treuliwyd offeiriaid yr Eglwys yn y bywoliaethau hynny a welodd achos neu achosion o ddifrodi adeiladau yn gysylltiedig â'r Eglwys Sefydledig yn ystod 'Rhyfel y Degwm'.....t.	230
6.1 Tabl yn crynhoi dargynfyddiadau R. E. Prothero ynghylch ôl-ddyledion a gostyngiadau'r degwm yn Esgobaethau Bangor a Llanelwy, 1886-1889.....t.	235
6.2 Asesiad treth y tlodion ar gyfer rhent-dal y degwm a oedd ym meddiant y Parch. William Williams, Llanfihangel Glyn Myfyr.....t.	240
7.1 Rhestr o bobl a wysiwyd o flaen y llys ynghylch â throstedd neu droseddau a oedd yn gysylltiedig â chasglu'r degwm yng Nghymru, 1886-1895.....tt.	292-295
7.2 Galwedigaethau merched mewn pump plwyf yng Nghymru lle gwelwyd protestio yn erbyn y degymau; yn seiliedig ar gyfrifiad 1881.....t.	299
7.3 Enwau, oedrannau, cyfeiriadau a galwedigaethau'r 'merthyron'.....tt.	305-306
7.4 Nifer o gymunwyr/aelodau yn ardal Uwchaled gyda'u henwadau ym 1905.....t.	308

Cyflwyniad

Y mae'r traethawd hwn yn cyplysu dau gysyniad â'i gilydd: y 'gydwybod Ymneilltuol' a gwrthglerigiaeth. Y maent ill dau yn osgoi diffiniadau pendant, ac y mae'r hyn sy'n gymwys yn nhyb un hanesydd yn siŵr o fod yn anghymwys ym marn y llall. Ar y naill law gellid ystyried hyn yn faen tramgwydd i'r hanesydd. Ond ar y llaw arall y mae'n caniatáu i ni daro golwg amgen ar bwnc penodol yn hanes Cymru. Ar ôl craffu dros hanesyddiaeth Cymru, penderfynwyd mai y degwm y dylai'r pwnc hwnnw fod. Y mae angen ail-gloriannu pwysigrwydd y degwm o ran yr anghytgord a greodd yn sgil yr ymgyrch chwerw hwnnw i ddatgysylltu a dadwaddoli'r Eglwys yng Nghymru. Trwy ymgorffori'r ddau gysyniad uchod yn y ddadl, dichon cawn well dealltwriaeth o'r degwm o fewn y cyd-destun hwn.

Dyma felly'r tair prif elfen o fewn yr astudiaeth hon. Bydd hi o fantais yn awr i edrych arnynt un ar y tro er mwyn ceisio dyfod i ryw fath o ddiffiniad, ac i werthuso'r hyn sydd wedi'i ysgrifennu yn barod. Ond cyn parhau, gosodir y prif gwestiwn ymchwil yma'n gyntaf: i ba raddau yr arddangosodd y 'gydwybod Ymneilltuol' dueddiadau gwrthglerigol yng Nghymru yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg, a pha ran y chwaraeodd y degwm yn hyn? Y mae'r cwestiwn hyn yn gysylltiedig ag arsylliad diweddar gan John Morgan-Guy hefyd, sef, 'the question of how much the disestablishment debates and arguments affected the daily life of the parishes is one that still needs answering'.¹

I.

Y 'gydwybod Ymneilltuol'

Daeth yr ymadrodd 'y gydwybod Ymneilltuol' i amlygrwydd ym 1890 yn sgil sgandal godineb rhwng y gwleidydd dylanwadol o Wyddel Charles Stewart Parnell, a gwraig briod o'r enw Mrs Katharine O'Shea. I'r sawl Anghydfurfiwr a oedd yn coelio'n gryf mewn 'glendid moesol', yr oedd y digwyddiad yn mynd yn

¹ John Morgan-Guy, 'The Church in Wales', yn Richard C. Allen a David Ceri Jones (gol.), *The Religious History of Wales: Religious Life and Practice in Wales from the Seventeenth Century to the Present Day* (Caerdydd, 2014), t. 20.

groes i'w cydwybod, ac yn groes i air Duw, 'Na odineba'.² Ysgrifennodd 'Wesleyan Minister' (o bosib y Parchg. Hugh Price Hughes, gweinidog gyda'r Wesleiaid yn Lloegr ond brodor o Gymru yn wreiddiol) i'r *Times* yn galw am ymddiswyddiad di-oed Parnell, gan honni, 'nothing else will satisfy the Nonconformist conscience'.³ Cynhyrfwyd y fintai o Ymneilltuwyr cefnogol i'r Blaid Ryddfrydol (a oedd ar y pryd o blaid Ymreolaeth i'r Iwerddon) a bygythiodd hwy gilio yn eu cefnogaeth os na ymddiswyddai Parnell.⁴ Dyma Price Hughes drachefn yn datgan:

We have sacrificed much for Ireland. She is entitled to many sacrifices at our hands; but there is one thing we will never sacrifice, and that is our religion. We stand immovably on this eternal rock: what is morally wrong can never be politically right...⁵

Yn sicr fe chwaraeodd yr Ymneilltuwyr eu rhan yng nghwmp gwleidyddol Parnell. Llawenhaodd gwŷr megis Hughes yn y cwmp hwn, fel y gwnaethant yn ôl ym 1885-1886 pan y daeth hi'n hysbys fod Syr Charles Dilke, A.S., wedi godinebu.⁶

'To assert that the Conscience "arrived" in 1890', meddai William Charles Richards Hancock, 'is to say that the event that propelled it into prominence was the occasion rather than the reason for its appearance'.⁷ Y mae haneswyr ar y cyfan yn gytûn â'r ddamcaniaeth hon. Ond yn naturiol ddigon, ceir gwahaniaethau ynghylch dyddio tarddiad y ffenomenon. Dywedir y cofnod ar gyfer yr Anghydfurfwyr yn *The Welsh Academy Encyclopedia of Wales*, 'By the early 19th century, a strong Nonconformist conscience was evident, especially on issues such as temperance'.⁸ Maentumiodd Syr Ivor Jennings y gellid olrhain y gydwybod Ymeilltuol i'r

² Exodus 20:14.

³ *The Times* (28 Tachwedd 1890). *Y Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940* (Llundain, 1953), t. 357.

⁴ Am drafodaeth lawnach gw. John F. Glaser, 'Parnell's fall and the Nonconformist Conscience', *Irish Historical Studies*, cyf. 12, rhif. 46 (Hydref, 1960), tt. 119-138; Christopher Oldstone-Moore, 'The fall of Parnell: Hugh Price Hughes and the Nonconformist Conscience', *Éire-Ireland*, cyf. 30, rhif. 4 (1996), tt. 94-110.

⁵ Dorothea Price Hughes, *The Life of Hugh Price Hughes* (Llundain, 1904), t. 353. Gw. hefyd Christopher Oldstone-Moore, *Hugh Price Hughes: Founder of a New Methodism, Conscience of a New Nonconformity* (Caerdydd, 1999).

⁶ 'Sir Charles Dilke defied the Nonconformist conscience and is a political outcast today. Parnell despised the Nonconformist conscience and he destroyed himself and his party. Lord Rosebery ignored the Nonconformist conscience for a race-horse, and the world sees the result'. *Methodist Times* (1896).

⁷ William Charles Richards Hancock, 'Passion Without Perception: Nonconformity and Politics from 1893 to 1914' (Traethawd Doethuriaeth Anghyhoeddedig, Coleg Birkbeck, Prifysgol Llundain, 1991), tt. 76-77.

⁸ John Davies, Nigel Jenkins, Menna Baines a Peredur I. Lynch (goln.), *The Welsh Academy Encyclopedia of Wales* (Caerdydd, 2008), t. 620.

flwyddyn 1810.⁹ Honnir fod Arglwydd Palmerston wedi datgan tua'r un adeg, 'English politics would follow the consciences of dissenters'.¹⁰ Clywn adlais y gred hon yng ngeiriau'r Arglwydd John Russell hefyd, 'I know the Dissenters. They carried the Reform Bill; the abolition of slavery; Free Trade, and they'll carry the abolition of the Church Rates'.¹¹

Gan aros ar y trywydd hwn o gynnig dyddiadau go bendant, dywed G. W. Rusling fod y term wedi ei ddefnyddio gan amlaf i ddisgrifio agweddau a gweithredoedd Anghydfurfiol dros gyfnod o oddeutu 75 mlynedd, gan gychwyn tua'r flwyddyn 1835.¹² Ond datganodd mai ffrâm gronolegol gyfyngedig oedd hon, a bod yn rhaid gosod y term yn gadarn o fewn hanes Ymneilltuaeth. Cyfeiriodd at y ffaith bod yr Athro A. H. Dodd wedi defnyddio'r term a'r cysyniad wrth ddelio'n bennaf â'r ail ganrif ar bymtheg.¹³ Gellir dadlau fod y 'gydwybod Ymneilltuol' wedi'i llunio gan y Piwritaniaid yn ystod y ganrif honno. Fel y dywed Robert Pope:

Thus a conscience which had been claimed as sacred as far as matters of faith were concerned was inevitably politicized by drawing attention to social and political injustice based on religious difference and working towards its mitigation. Consequently, at least in part, the 'Nonconformist Conscience' of the late nineteenth century, as public witness to the highest principles, can be traced to events of the seventeenth.¹⁴

Dyma droi yn awr at ddiffiniadau, syniadau a damcaniaethau o barthed y 'gydwybod Ymneilltuol'. Yn ôl H. F. Lovell Cocks, 'The Nonconformist Conscience is the mark of a spiritual aristocracy, a counterblast to coronets and mitres ... [an] insistence upon the authority of moral principle in all matters of public policy'.¹⁵ Credai David Bebbington, 'The Nonconformist conscience consisted of a series of crusades ... every question they took up was moralised'.¹⁶ Mater moesol felly oedd

⁹ Sir Ivor Jennings, *Party Politics Vol. III: The Stuff of Politics* (Caergrawnt, 1962), tt. 116-118.

¹⁰ *Ibid.*, tn. 1., t. 118.

¹¹ Dyfynwyd yn Trebor Lloyd Evans, *Pris ein Rhyddid* (Abertawe, 1961), t. 51.

¹² G. W. Rusling, 'The Nonconformist Conscience', *The Baptist Quarterly*, Cyf. 22, Rhif. 3 (Gorffennaf, 1967), t. 126.

¹³ A. H. Dodd, 'The Nonconformist Conscience in public life', *The Hibbert Journal*, cyf. 46 (Hydref 1937-Gorffennaf 1938).

¹⁴ Robert Pope, 'The Nonconformist Conscience', yn Robert Pope (gol.), *T&T Clarke Companion to Nonconformity* (Llundain, 2013), t. 443.

¹⁵ H. F. Lovell Cocks, *The Nonconformist Conscience* (Llundain, 1943), tt. 7 a 35.

¹⁶ David Bebbington, *The Nonconformist Conscience: Chapel and Politics, 1870-1914* (Llundain, 1982), t. 15.

cwestiynau gwleidyddol a chymdeithasol i nifer o Anghydfurfwyr. Arweiniwyd hwy gan eu cydwybod i benderfynu rhwng iawn ac aniawn yn ôl eu hegwyddorion.¹⁷

Ym marn y Parchg. Trebor Lloyd Evans, yr oedd pedair cainc i'r 'gydwybod Ymneilltuol: 1) y gydwybod dros gydraddoldeb crefyddol, 2) y gydwybod ynghylch addysg, 3) cydwybod gymdeithasol a 4) cydwybod ar faterion moesol.¹⁸ Wrth gwrs, gellir dadlau fod y naill yn dylanwadu ar y llall, a'u bod yn deillio o'r un gwreiddyn megis. Ond y mae'r dosbarthiad uchod yn ddefnyddiol iawn o ran torri lawr cysyniad go ddyrys a maith i rannau mwy cydlynol. Y llinyn a glymodd hwy oll at ei gilydd, yn nhyb Lloyd Evans, oedd y wireb, '... na ddichon dim sy'n foesol ddrwg fod yn iawn mewn unrhyw ffordd arall'.¹⁹ Ceir dosbarthiad defnyddiol gan Rusling hefyd. Yn ei ôl ef, mynegodd y 'gydwybod' ei hun yn y 'sfferau' canlynol: 1) unioni cwynion e.e. treth yr Eglwys a.y.b., 2) pryderu dros les eraill a 3) digwyddiadau a pholisïau gwleidyddol.²⁰ Dichon mai pwyntiau 1 a 3 sydd o ddiddordeb uniongyrchol i'r astudiaeth hon.

Cyhoeddwyd dwy erthygl yn y *Geninen* yn Ionawr ac Ebrill 1904 yn trafod rhinweddau'r 'gydwybod Ymneilltuol'. Ysgrifenyddwyd y llith cyntaf gan Charles Davies (Anghydfurfiwr) a'r diwethaf gan W.W. (Eglwyswr).²¹ Yn nhyb Davies, yr oedd y gair 'cydwybod' yn sefyll am, 'y "synwyr moesol" sydd gan ddyn, sef y gallu i wahaniaethu rhwng drwg a da, ac sydd yn condemnio y naill ac yn cymeradwyo y llall'.²² Am y 'gydwybod Ymneilltuol' yr oedd ganddo hyn i'w ddweud:

Am y math o gydwybod a adnabyddir fel y gydwybod *Anghydfurfiol*, gwelir mai yr hyn a olygir yw y farn foesol a ffurfiwr gan Anghydfurfwyr ar y pynciau hyny yn mha rai y gwahaniaethant oddiwrth Gristionogion ereill [sic.], yn neillduol yr Eglwyswyr ... y mae y gydbwybod Anghydfurfiol yn gofyn, a hyny ar dir rheswm yn gystal a Beibl, am *berffaith gydraddoldeb crefyddol*.²³

¹⁷ James Obelkevich, 'Religion', yn F. M. L. Thompson (gol.), *The Cambridge Social History of Britain, 1750-1950, Vol. 3, Social Agencies and Institutions* (Caergrawnt, 1990), t. 344.

¹⁸ Evans, *Pris ein Rhyddid*, tt. 51-58.

¹⁹ Evans, *Pris ein Rhyddid*, t. 58. 'What is morally wrong can never be politically right'. Charles James Fox. Arglwydd Shaftesbury (Anthony Ashley Cooper.)

²⁰ Rusling, 'The Nonconformist Conscience', t. 128.

²¹ Charles Davies, 'Y Gydwybod Anghydfurfiol', *Y Geninen* (1904), tt. 58-62; W. W., 'Y Gydwybod Anghydfurfiol', *Y Geninen* (1904), tt. 102-107.

²² Davies, 'Y Gydwybod Anghydfurfiol,' t. 58.

²³ Ibid.

Nid oedd Davies yn crybwyll bod un blaid o bobtu yn fwy cydwybodol na'r llall, ond beiddiodd i gredu bod y, 'gydwybod Anghyddfurfiol yn un oleuedig a chywir ar y pynciau sydd yn ein gwahaniaethu oddiwrth Eglwyswyr'.²⁴ Y ddau brif bwnc, ac mewn gwirionedd yr unig ddau beth oedd ar ôl i ddadlau drostynt yn y cyd-destun hwn erbyn 1904, a drafodwyd yn y llith oedd Datgysylltu'r Eglwys Wladol a Deddf Addysg 1902.

Beth oedd ymateb W.W., i hyn? Credodd fod Davies wedi ceisio dangos rhagoriaeth y 'gydwybod Anghyddfurfiol' ar draul y 'gydwybod Eglwysig'. 'Y mae Eglwyswyr erbyn hyn', meddai, 'yn hen gyfarwydd â honiadau eu brodyr Ymneillduol mai hwy, a hwy yn unig, sydd yn iawn ar bob pwnc dan haul ...'²⁵ Nid lle'r hanesydd ydyw cyflafareddu'r fath ddadleuon er mwyn dyfod i ryw fath o ddyfarniad ynghylch pwy oedd yn iawn a phwy oedd ddim. Wrth gwrs, gellir cynnig barn o barthed dadleuon y ddwy ochr a nodi'r hyn oedd yn ddilys ac yn wallus yn eu rhesymeg. Ond rhyfygus fyddai cwestiynu a barnu *cydwybod* unigolion o'r gorffennol mewn materion yn deillio o deimladau cryf. Ni ellir barnu unigolyn am hyrwyddo datgysylltiad dim mwy na ellir barnu unigolyn arall am ymladd yn ddygn yn ei erbyn.

Rhaid, fodd bynnag, cymryd gofal rhag distadlu yma. Cyfeiliornus fyddai rhannu Anghyddfurfwr ac Eglwyswyr yn ddestlus ac yn daclus drwy grybwyll bod y blaenaf i gyd yn cydymffurfio i'r 'gydwybod Ymneilltuol' tra bod y diwethaf oll yn cydymffurfio i'r 'gydwybod Eglwysig'. Wrth gwrs, gellid crybwyll mewn termau cyffredinol mai Anghyddfurfwr oedd hyrwyddwyr selocaf Datgysylltiad tra mai Eglwyswyr oedd amddiffynyddion mwyaf dygn y drefn ag yr oedd. Ond ni ellir diystyru'r Eglwyswyr hynny a oedd o blaid Datgysylltiad a materion eraill oedd yn wleidyddol bwysig i Anghyddfurfwr. Onid yw hi'n arwyddocaol mai George Osborne Morgan, mab i ficer Conwy, oedd y prif rym y tu ôl i Ddeddf y Claddedigaethau (1880) a roddodd yr hawl i weinidogion Ymneilltuol i weinyddu mewn mynwentydd yr Eglwys? Onid yw hi'n arwyddocaol mai William Gladstone, Arweinydd y Blaid Ryddfrydol ac arch-Eglwyswr, a enillodd ymddiriedaeth yr Anghyddfurfwr i weithredu ar eu cwynion?

²⁴ Davies, 'Y Gydwybod Anghyddfurfiol', t. 59.

²⁵ W.W., 'Y Gydwybod Anghyddfurfiol', t. 102.

Ni ellir diystyru ychwaith y ffaith, fel y dengys K. O. Morgan, fod rhai Anghydfurfwr o Gymru wedi arwyddo deisebau yn erbyn y mesurau olaf ynghylch datgysylltiad rhwng 1912-1914 oblegid eu hymrwymiad i'r hen gred y fod yr Eglwys Wladol yn *parhau* fel rhagfur yn erbyn Pabyddiaeth, a peth pheryglus fyddai i'w datgysylltu a'i dadwaddoli.²⁶ Erbyn troad yr ugeinfed ganrif yr oedd elfen o ddifaterwch hefyd wedi llywio barn ambell i Anghydfurfiwr o barthed y pwnc, ac ystyriwyd datgysylltiad fel rhyw grair Fictorianaid. Dyma W. J. Gruffydd yn edrych yn ôl i 1906, ac yn adrodd ei farn ef o barthed datgysylltiad yn y *Llenor* ym 1934:

Ni chynhyrfwyd fi, yn bresenol, erioed gan yr awydd hwn [datgysylltiad], a bûm ar hyd f'oes – hyd nes y caed Datgysylltiad – yn ei wrthwynebu ... Credwn, ar waethaf popeth, fod mudiad Datgysylltiad wedi bod rywdro yn rhan fyw o awydd y bedwaredd ganrif ar bymtheg am Ryddid, ac felly yn un o brif agweddau Rhyddfrydiaeth boliticaidd yr oes; ond edrychwn ar ei barhad yn yr ugeinfed ganrif fel esiampl odidog o'r "llusgiad amser," "y *time-lag*" mewn hanes, - un o'r hen ofynion politicaidd wedi aros ar ôl i'r gwir arwyddocâd ddiplannu ...²⁷

Wrth wraidd y safbwynt uchod oedd y cred nad oedd datgysylltiad, drwy feithrin culni enwadol, y ffordd orau i hyrwyddo, '... [c]ydymwybyddiaeth o dreftadaeth genedlaethol', a hynny ar draul ymgyrchoedd eraill.²⁸ O'i anterth yn ystod yr 1890au cynnar, yr oedd datgysylltiad wedi dyfod yn anacroniaeth yng Nghymru mewn llai na chenhedlaeth. Y mae'r cwmp hyn oddi wrth ras yn un hynod. Ond yn baradocsaid, fe herciodd datgysylltiad dros y llinell derfyn ym 1914 ac fe ddaeth yn realedd yng Nghymru ym 1920. Dichon mai arweinyddiaeth Lloyd George oedd yn bennaf gyfrifol am lywio'r hen long weglyd hon i'w angorle terfynol.

Teimlodd rhyw unigolyn yn ddigon hyderus i draethu mor gynnar â 1912 (yr un flwyddyn y cyflwynwyd y trydydd mesur i Ddatgysylltu'r Eglwys yng Nghymru) ynghylch dyrchafiad a *dirywiad* Anghydfurfiaeth yng Nghymru.²⁹ Eglwyswr oedd yr awdur mwy na thebyg, ond ysywaeth, ni chawn ei enw iawn, dim ond y *nom de*

²⁶ K. O. Morgan, *Freedom or Sacrifice? A History of the Campaign for Welsh Disestablishment* (Penarth, 1966), t. 28.

²⁷ W. J. Gruffydd, 'Adolygiad o hanes Cymru yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg', *Y Llenor* (1934), t. 123.

²⁸ John Davies, *Hanes Cymru* (Llundain, 1990), t. 419.

²⁹ 'Vitor Cambrensis', *The Rise and Decline of Welsh Nonconformity: An Impartial Investigation* (Llundain, 1912).

plume ‘Viator Cambrensis’.³⁰ Dywedodd, ‘When the history of the disestablishment campaign comes to be written, it will be sad reading’.³¹ Condemniodd ef yn ddi-flewyn ar dafod rôl y ‘gydwybod Ymneilltuol’ yn yr ymgyrch hwnnw:

Nonconformist ministers, and Nonconformist politicians, have not deemed it beneath their dignity, and the dignity of the office which they hold, to slide falsehoods off their tongues with such an easy grace, as to cause one to wonder whether they really know the difference between truth and falsehood ... Political purity is not one of the virtues of the “Nonconformist conscience.”³²

‘Brwydr drist oedd Brwydr Datgysylltiad’, meddai R. Tudur Jones, ‘Y mae ynddi holl elfennau trasiedi Roegaidd.’³³ Aeth ymlaen i ddweud, ‘Yr oedd yn anorfod oherwydd bod ar y naill ochr a’r llall wŷr didwyll yn ufuddhau i’w cydwybodau ac yn gweithredu ar sail egwyddorion aruchel. Ond esgorodd ar gasineb a bryntni a adawodd greithiau gleision ar fywyd ysbrydol Cymru’.³⁴

Yr hyn a welwyd ynghylch sgandal Parnell oedd yr ymgais i foesoli gwleidyddiaeth; y disgwyliad y dylai cynrychiolwyr y bobl yn y Senedd ddilyn fuchedd rinweddol, a phan fo’r amser yn galw, wedyn gosbi’r sawl a feiddiai mynd yn erbyn y graen moesol.³⁵ Estyniad oedd hwn o gredoau piwritaniadd eu naws, ‘An inflexible sabbatarianism, a stern condemnation of the sins of self-indulgence – sexual vice, drunkenness, gambling – and an ostentatious avoidance of every appearance of evil ...’³⁶ Mewn cartŵn dychanol a ymddangosodd yn y *Western Mail* ym 1894 (llun 0.1), gwelwn ymosodiad ar y ‘Radical Nonconformist Conscience’, fel y gelwid gan y papur hwnnw, sydd yn crybwyll mai rhagrithwyr oedd ymarferwyr y ‘gydwybod’. Gwneud hwyl am ben arweinydd y Blaid Ryddfrydol ar y

³⁰ Gweler ‘Viator Cambrensis’ yn gresynu’r ffaith fod drysau rhai o eglwysi Ceredigion wedi’u cloi, ‘from Sunday to Sunday,’ mewn llythyr i’r cylchgrawn, *Transactions and Archaeological Record, Cardiganshire Antiquarian Society*, cyf. 1, rhif. 4 (1914), tt. 68-69.

³¹ Viator Cambrensis, *The Rise and Decline of Welsh Nonconformity*, t. 70.

³² Ibid. t. 70.

³³ R. Tudur Jones, *Ffydd ac Argyfwng Cenedl: Hanes Crefydd yng Nghynru 1890-1914 – Cyfrol 2: Dryswch a Diwygiad* (Abertawe, 1982), t. 231.

³⁴ Ibid.

³⁵ Robert Pope, ‘The Nonconformist Conscience,’ yn Robert Pope (gol.), *T&T Clarke Companion to Nonconformity* (Llundain, 2013), t. 438.

³⁶ Lovell Cocks, *The Nonconformist Conscience*, t. 8

pryd oedd y Torïaid, sef yr Arglwydd Rosebery, am ei fod yn cymryd diddordeb mawr mewn rasio ceffylau; adloniant, wrth gwrs, a oedd yn gysylltiedig â gamblo.³⁷

Llun 0.1 Cartŵn dychanol ynghylch y 'gydwybod Ymneilltuol' yn y *Western Mail*, 1894.

Ffynhonnell: Western Mail (12 Mehefin 1894).

Dichon fod yna gamsyniaeth poblogaidd yn bodoli mai rhywbeth yn eiddo i'r garfan Ymneilltuol yn gyfan gwbl oedd y moesau hyn. Ond fel y dywedodd H. F. Lovell Cocks, 'Puritanism has never been the monopoly of the Free Churches ...'³⁸ Dyma barn Timothy Larsen hefyd. Yn ei dyb ef, gellid gwahaniaethu rhwng dau 'cydwybod Ymneilltuol'. Yr oedd y 'gydwybod' ble a roddwyd pwyslais ar fuchedd foesol a'r gwrthgiliad o demtasiynau pechadurus yn rhan o'r 'gydwybod efengylaidd' mwy cyffredinol a rannwyd gan efengylwyr yr Eglwys, yn ogystal ag Anghydfurfwyr.³⁹ Cyfeiliornus felly fyddai ystyried yr agwedd hon o'r 'cydwybod' fel rhagorfrant yr Anghydfurfwyr yn unig. Yn hytrach, troediwn ar dir mwy cadarn wrth drafod y 'gydwybod ymneilltuol' yng nghyd-destun ei rôl yn hysbysu'r

³⁷ Yn rhifyn 1899 o'r *Eurgrawn*, sef cylchgrawn y Wesleaid, gwelwn y Parchg. John Hughes (*Glanystywth*) yn datgan: 'Mae ef [Rosebery] yn ormod o *sportsman*, ac o syniadau aristocratiadd, i gyfarfod a gofynion y *Nonconformist conscience*'. *Yr Eurgrawn* (1899), t. 32.

³⁸ Lovell Cocks, *The Nonconformist Conscience*, t. 8.

³⁹ Timothy Larsen, 'A Nonconformist Conscience? Free Churchmen in Parliament in Nineteenth-Century England', *Parliamentary History*, cyf. 24. rhif. 1 (2005), t. 108

unigolyn o barthed materion gwleidyddol a effeithiodd ar ei ryddid personol fel Anghydfurfiwr. Dyma'r wir 'cydwybod Ymneilltuol' yn nhyb Larsen, '... a political stance motivated and orientated by a commitment to religious equality ...' ⁴⁰ Yr agwedd hon o'r 'gydwybod Ymneilltuol' yw testun trafod y traethawd hwn.

II.

Gwrthglerigiaeth

Wedi delio â'r 'gydwybod Ymneilltuol', trown ein sylw yn awr at wrthglerigiaeth. Dyma derm arall â'i wreiddiau yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Yn ôl Eric Hobsbawm daeth gwrthglerigiaeth yn ganolog i wleidyddiaeth yng ngwledydd Catholig Ewrop o ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg ymlaen. ⁴¹ Yn nhyb Owen Chadwick, yr oedd yn air '... which identified churches, or rather the Roman Catholic Church, with antagonism to modern liberties'. ⁴² Nid syndod felly mai yng ngwledydd megis Ffrainc, Sbaen, yr Eidal a.y.b. y gwelwyd gwrthglerigiaeth ar ei ffyrnicaf. ⁴³ Serch hynny, nid ydyw hyn yn golygu bod Prydain yn hollol amddifad o unrhyw fynegiant gwrthglerigol yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Yr oedd yn llawer mwy cymedrol na'r hyn a welwyd ar y cyfandir, ond eto'n fwy amlwg nag yr oedd yn yr U.D.A. ⁴⁴ Ys dywedodd Glanmor Williams:

Furthermore, whatever the shortcomings of the Church of England and its adherents, as an established church it was decidedly more tolerant and less repressive than most state churches. It was never so completely the creature of an authoritarian state or political reaction as to provoke the savage and relentless anti-clericalism witnessed in a number of European countries. ⁴⁵

⁴⁰ Larsen, 'A Nonconformist Conscience?', t. 109.

⁴¹ Eric Hobsbawm, *The Age of Empire, 1875-1914* (Llundain, 1987), tt. 265-267.

⁴² Gw. y bennod 'The Rise of Anticlericalism' yn Owen Chadwick, *The Secularization of the European Mind in the Nineteenth Century* (Caergrawnt, 1975), tt. 107-139.

⁴³ Am hanes cyffredinol defnyddiol gw. José M. Sánchez, *Anticlericalism: A Brief History* (1972); Ceir darn o waith crefftus ar hanes gwrthglerigiaeth yn Sbaen yn ystod yr 1930au gan Angharad Maria Thomas, 'The Faith and the Fury: Popular Anticlerical Violence and Iconoclasm in Spain, 1931-1936', (Traethawd Doethuriaeth, Prifysgol Royal Holloway, Llundain, 2012); Rhifyn arbenning o'r *European History Quarterly*, cyf. 13, rhif. 2 (1983) sydd yn ymdrin â gwrthglerigiaeth yng ngwahanol wledydd, megis, Ffrainc, Sbaen, Lloegr, Rwsia, Eidal a'r Almaen.

⁴⁴ Hugh McLeod, 'Anticlericalism in late Victorian England', yn Nigel Aston a Matthew Cragoe (goln.), *Anticlericalism in Britain, c. 1500-1914* (Stroud, 2000), t. 198.

⁴⁵ Glanmor Williams, *Religion, Language and Nationality in Wales* (Caerdydd, 1979), tt. 167-168.

Ond nid ydyw hyn yn golygu fod gwrthglerigiaeth wedi bod yn hollol absennol ym Mhrydain.

Gorchwyl anodd ydyw ceisio diffinio gwrthglerigiaeth. Yn wir, disgrifiodd J. J. Scaresbrick ef fel, ‘sarff nawpen’.⁴⁶ Credai Nigel Aston a Matthew Cragoe fod y term yn beiddio unrhyw ddiffiniad syml.⁴⁷ Ond gellid fod yn sicr o un peth: rhaid cymryd i ystyriaeth gofod ac amser wrth gynnig diffiniad o wrthglerigiaeth.⁴⁸ Gellir ddechrau gyda diffiniad pragmatig Daron Burrows fel man cychwyn defnyddiol, ‘[Anticlericalism] simply denotes negative treatment of the clergy’.⁴⁹ Deuir yn amlwg mai term hwylus ydyw gwrthglerigiaeth sydd yn cofleidio pob math o agweddau gwahanol.

Ym 1831 cafwyd terfysgoedd ym Mryste, Nottingham a Derby yn sgil trechiad yr ail fesur i ddiwygio’r senedd, pan ddaeth hi’n hysbys bod 21 o’r 26 esgobion wedi pleidleisio yn ei erbyn.⁵⁰ Ym Mryste fe losgwyd plas yr Esgob, bygythiwyd ac aflonyddwyd eraill, tra dodwyd delwau o Esgobion yn lle Guto Ffowc a’r Pab i’w llosgi ar 5 Tachwedd.⁵¹ Mentumiodd Simon Skinner, ‘It was ... the most serious wave of anticlerical sentiment in modern British history’, tra credai Eric Evans mai dyma’r agosaf a ddaeth Prydain i chwyldro adeg y cyfnod diwydiannol.⁵² Dyma pinacl gwrthglerigiaeth drefol yn Lloegr.⁵³ Ond cynhyrfwyd y cefn gwlad yr adeg yma hefyd. ‘The Swing Riots’, meddai Evans, ‘were the high water mark of rural anticlericalism’.⁵⁴ I gloi ei ddadl, honnodd Evans, ‘By the end of the century, anticlericalism was largely insignificant ... Church influence was gradually eroded by

⁴⁶ J. J. Scaresbrick, *Henry VIII* (Argraffiad newydd, 1997), t. 243.

⁴⁷ Nigel Aston a Matthew Cragoe, ‘Introduction’, *Anticlericalism in Britain*, t. xiv.

⁴⁸ G. M. Ditchfield, ‘The changing nature of English anticlericalism’, *Anticlericalism in Britain*, t.93; ‘Above all, the perimeters of our investigation had to be drawn in a way that would allow for different perspectives on anticlericalism, namely in *time*, *place* and *carrier*. Thus important contributions from specialists covering the entire period from the late middle ages to the seventeenth century alert us to the differences in tone of anticlericalism as fermenting and fomenting in 1400, 1500 and 1600’. Heiko A. Oberman, ‘Anticlericalism as an Agent of Change,’ yn Peter A. Dykema and Heiko A. Oberman (eds.), *Anticlericalism in Late Medieval and Early Modern Europe* (1993), cyflwyniad i’r llyfr.

⁴⁹ Daron Burrows, *The Stereotype of the Priest in the Old French Fabliaux: Anticlerical Satire and Lay Identity* (Rhydychen, 2005), t. 20.

⁵⁰ Eric Evans, ‘Some reasons for the growth of English rural anticlericalism, c.1750-c.1830’, *Past & Present*, 66 (Chwefror, 1975), t. 84.

⁵¹ Simon Skinner, ‘Religion’, yn David Craig a James Thompson (gol.), *Language of Politics in Nineteenth Century Britain* (Basingstoke, 2013), t. 101.

⁵² *Ibid.*, t. 100; Eric Evans, ‘The church in danger? Anticlericalism in nineteenth-century England’, *European Studies Review*, cyf. 12, rhif 2. (1983), t. 207.

⁵³ Evans, ‘Church in danger’, t. 216.

⁵⁴ *Ibid.*, 214.

indifference, not by anticlerical sentiment'.⁵⁵ Er nad ydyw'r arsylliad olaf bellach yn dal dŵr (gan fod Evans wedi gorliwio difaterwch crefyddol erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg), y mae'r syniad cyntaf bod gwrthglerigiaeth mewn cyflwr o ddirywiad wedi cael ei dderbyn gan haneswyr.⁵⁶

Oherwydd hyn, nid ydyw gwrthglerigiaeth yn ystod ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg wedi denu'r un fath o sylw gan haneswyr. Ond y mae yna ddigon o resymau i'n hargyhoeddi bod gwrthglerigiaeth o ryw *fath* yn dal i fyddoli y pryd hwn. Nid rhyfedd efallai ydyw canfod yr hanesydd o Eidalwr, Eugenio F. Biagini, yn neilltuo pennod gyfan i wrthglerigiaeth yn ei ddadansoddiad o Ryddfrydiaeth Gladstonaidd yn y cyfnod rhwng 1860-1880.⁵⁷ Triniaeth ddiddorol arall ydyw ymgais Robert Lee i ddadansoddi'r berthynas rhwng tlodion cefn gwlad Norfolk a chlerigwyr yr Eglwys yn y sir honno rhwng 1815-1914.⁵⁸ Hynod o ddifyr ydyw'r arsylliad bod Anghydfurfiaeth (Methodistiaeth Gyntefig yn yr achos hwn), wedi lledu gorwelion drwy herio'r hen rwydwaith teyrngarol plwyfol a weithredwyd gan y tîrfeddianwyr a'r clerigwyr.⁵⁹ Yn anffodus nid oes yna unrhyw gyfeiriad i'r gyfrol bwysig *Anticlericalism in Britain* yn yr erthygl, a gyhoeddwyd tair blynedd ynghynt.

Nid syndod felly ydyw canfod mai gwrthglerigiaeth yn Lloegr sydd wedi dominyddu hanesyddiaeth y pwnc. Os ystyrir yr 1830au fel uchafbwynt gwrthglerigiaeth yn y wlad honno, gellir dadlau mai'r 1880au a'r 1890au oedd uchafbwynt gwrthglerigiaeth yng Nghymru. Dyma'r cyfnod y cyrhaeddodd yr ymgyrch i ddatgysylltu'r Eglwys yng Nghymru ei hanterth. Yr unig darn o waith hyd yn hyn sydd wedi ymdrin â gwrthglerigiaeth o fewn cyd-destun Cymreig ydyw pennod Matthew Cragoe yn *Anticlericalism in Britain*, a edrychodd ar y cyfnod rhwng 1832-1868.⁶⁰

⁵⁵ Evans, 'Church in danger', t. 219.

⁵⁶ McLeod, 'Anticlericalism in late Victorian England', *Anticlericalism in Britain*, tt. 198-199.

⁵⁷ Eugenio F. Biagini, *Liberty, Rentrenchment and Reform: Popular Liberalism in the Age of Gladstone, 1860-1880* (Caergrawnt, 1992), tt. 192-253. Canolbwyntiwyd ar faterion ynghylch cydraddoldeb crefyddol yn gyffredinol, megis addysg a datgysylltiad.

⁵⁸ Robert Lee, 'Customs in conflict: some causes of anti-clericalism in rural Norfolk, 1815-1914', *Rural History*, cyf. 14, rhif. 2 (2003), tt. 197-218.

⁵⁹ *Ibid.*, tt. 211-213. Tra bod dylanwad y clerigwyr oblegid y gyfundrefn blwyfol yn gyfyngedig i un ardal, yr oedd cyfundrefn cylchol Anghydfurfiaeth yn trawesgyn ffiniau plwyfol, ac felly yr oedd sffêr ei ddylanwad yn llawer ehangach.

⁶⁰ Matthew Cragoe, 'Anticlericalism and politics in mid-Victorian Wales', *Anticlericalism in Britain*, tt. 179-197.

Yn nhyb Cragoe, ffenomenon rhethregol yn bennaf oedd gwrthglerigiaeth yng Nghymru a fynegodd ei hun gan amlaf ar y llwyfan gwleidyddol pleidiol yn hytrach nag ar y lefel sylfaenol. Neidiodd ymlaen yn gronolegol yn ei gasgliad i sôn ychydig am helyntion y degwm yng Nghymru yn ystod yr 1880au ac 1890au, gan dibynnu'n bennaf ar ambell i arsylliad gan J. P. D. Dunbabin.⁶¹ Fodd bynnag, nid oes yna unrhyw gyfeiriadau at y degymau ym mhrif gorff y bennod. Serch hynny, gellir cytuno gyda'i ddatganiad, '... what is perhaps most striking about the display of anticlerical feeling manifested during the tithe war is how unique such an exhibition was'.⁶² Nid oes neb wedi edrych yn fanwl i'r mathau o wrthglerigiaeth a gafwyd yn ystod 'Rhyfel y Degwm', ac y mae'r tamaid a rodda Cragoe yn cael ei droi yn bryd llawn yn y traethawd hwn. Yr astudiaeth hon fydd yr ymgais gyntaf i asesu cyffredinolrwydd gwrthglerigiaeth yn ystod yr 1880au a'r 1890au yng Nghymru.

Hwyrach mai'r ddadl fwyaf profoclyd o fewn hanesyddiaeth gwrthglerigiaeth ym Mhrydain yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg ydyw'r un gan Frances Knight.⁶³ Er mai dadl yng nghyd-destun Lloegr yw un Knight, y mae'r casgliadau a'r cwestiynau a godwyd yn hollol ddilys i'r astudiaeth hon. Darn o waith critegol o rai o ddamcaniaethau Eric Evans ydyw yn ei hanfod. Ei phrif daliad ydyw mai digwyddiadau eithafol oedd llosgi palas Esgob Bryste a'r wrthglerigiaeth a geir yn nherfysgoedd Swing ac nid amlygiad o'r wir berthynas rhwng clerigwyr yr Eglwys a lleygwyr. Yr oedd yna densiynau, ond anfynych gwelid trais.⁶⁴ Tra fod Evans wedi ystyried rhai o ddigwyddiadau'r 1830au fel uchafbwyntiau gwrthglerigiaeth yn Lloegr, maentumiodd Knight nad oedd gwrthglerigiaeth, mewn gwirionedd, yn nodwedd amlwg yn nherfysg Littleport ym 1816 na'r terfysgoedd Swing rhwng 1830-31.⁶⁵

Ond yn bwysicach fyth i'r astudiaeth hon ydyw damcaniaethau Knight ynghylch y degymau. Priodolodd Evans y gwrthwynebiad i glerigwyr yr Eglwys adeg y cyfnod hwn i dri phrif ffactor: clerigwyr fel degwm feddianwyr, ynadon a thirfeddianwyr.⁶⁶ Ond honnodd Knight:

⁶¹ Sonnir mwy am Dunbabin yn rhan 3 o'r bennod hon.

⁶² Cragoe, 'Anticlericalism and politics in mid-Victorian Wales', t. 194.

⁶³ Frances Knight, 'Did anticlericalism exist in the English countryside in the early nineteenth century?', *Anticlericalism in Britain*, tt. 159-178.

⁶⁴ *Ibid.*

⁶⁵ *Ibid.*, tt. 163-167.

⁶⁶ Evans, 'English rural anti-clericalism', t. 85.

The weakness of his argument is that he does not distinguish between when a clergyman might have been mobbed as a tithe-owner or as a magistrate rather than as a churchman ... The fact that neither tithe-collection nor the magistracy were confined to the clergy muddies the definition of 'anticlericalism' and makes it an ambiguous concept.⁶⁷

Credai y dylai haneswyr, sydd yn arfer y term, wahaniaethu rhwng yr enghreifftiau o wrthwynebiadau yn erbyn y clerigwyr yn rhinwedd eu swydd, oddi wrth y rheini pan fo'r cwyn yn ymwneud â clerigwr fel degwm feddianwyr.⁶⁸ Yn nhyb Knight perthynai'r blaenaf i ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg, yn enwedig i helyntion gwrth-ddefodaeth.⁶⁹

Y gwir ydi mai cymhleth iawn ydyw pwnc y degwm, a sonnir mwy amdano yn y rhan nesaf. Y mae'n hollol wir nad rhagorfraint yr Eglwys yn unig oedd y degymau. Yr oedd gwŷr lleyg yn amlwg iawn o fewn y gyfundrefn degymol, naill ai fel casglwyr, prydleswyr neu fel perchnogion. Serch hynny, yr oedd rhan fwyaf o'r degymau yn nwylo'r Eglwys, er bod hyn yn amrywio o le i le. Ond os ydyw'r term gwrthglerigiaeth i fod o unrhyw werth yn y cyd-destun hwn, rhaid ceisio darganfod os oedd anghydfodau ynghylch y degymau wedi'u seilio a'r ideolegau aeth tu hwnt i gwynion economaidd. Ceisir dangos yn y traethawd hwn fod y degymau (fel pwnc), wedi bod ynghlwm â'r cwestiwn o ddatgysylltu'r Eglwys Wladol ers diwedd y ddeunawfed ganrif, ac yn enwedig o'r 1830au ymlaen. Ceir digon o dystiolaeth fel â'r ganrif yn ei blaen bod Anghydfurfwyr yn dadlau yn erbyn y degymau drwy ddilyn llinynnau penodol megis ei fod yn rhywbeth anysrythyrol ac yn faich ar ysgwyddau'r Ymneilltuwyr; yn ariannol ac yn foisol. Ond gorchwyl anodd iawn ydyw canfod os hysbyswyd y rheini a wrthodwyd dalu'r degwm yn brydlon gan ddadleuon o'r fath. Fodd bynnag, erbyn diwedd y ganrif yn ystod 'Rhyfel y Degwm', nid oes dim amheuaeth fod arweinwyr yr ymgyrch wedi cymryd gafael yn yr awenau a'i dywys ar hyd ffordd gydraddoldeb crefyddol h.y. dros ddatgysylltiad ac i wneuthur degymau'r Eglwys yn eiddo'r genedl. Dyma a roddodd nodwedd unigryw i wrthglerigiaeth yng Nghymru erbyn diwedd y bedwredd ganrif ar bymtheg.

⁶⁷ Knight, 'Did anticlericalism exist in the English countryside in the early nineteenth century?' t. 162 a t. 173.

⁶⁸ Ibid., t. 173.

⁶⁹ Ibid., t. 161.

Rhaid egluro un peth o'r dechrau ynglŷn â gwrthglerigiaeth yng Nghymru; ni liwid ef gan anffyddiaeth. Gwir, fe âi cydraddoldeb crefyddol a seciwlareiddio law yn llaw, ond nid ceisio ymyleiddio Cristionogaeth o fewn cymdeithas oedd nod y rheini a hyrwyddodd datgysylltiad a dadwaddoliad yr Eglwys Sefydledig. Dim o gwbl, canys mai Anghydfurfwyr Protestannaidd oedd pen praffaf ei gefnogwyr. Na, yr hyn a gawn yma ydyw Cristionogion (Anghydfurfwyr a rhai Eglwyswyr cofier) yn beirniadu un enwad Cristnogol oblegid y canfyddiad bod yr enwad hwnnw yn derbyn ffafriaeth arbennig gan y wladwriaeth ar draul y gweddill, tra'n methu hawlio y mwyafrif o addolwyr yn y wlad hwnnw. Ys dywedodd Keith Robbins:

Separation of Church and State in France reflected the gulf in French life between clericalism and anti-clericalism, between Catholicism and an articulate and self-conscious 'secularism'. That gulf did not yet exist in Wales. Disestablishment was not seen as the first step towards the 'secular State' or the marginalisation of the Church/es. It was, rather, merely the removal from a privileged position accorded by the British State to one (minority) Church in Wales.⁷⁰

Yn nhyb Biagini:

the contrast between Dissent and the Church was so complete that it was actually similar to the conflict between secular anti-clericalism and the established churches on the continent. Indeed, the greatest issue in English and Welsh anti-clericalism was the struggle for 'civil and religious liberty' for all non-Anglicans, including atheists.⁷¹

Delia'r traethawd hwn â dau fath o wrthglerigaeth: gwrthglerigaeth rethregol a gwrthglerigaeth ar y lefel sylfaenol. Diffinnir y blaenaf fel ymosodiadau ysgrifenedig ar yr Eglwys a'i chlerigwyr; naill ai'n goeth neu'n ddychanol. Golygir y diwethaf ddiacter tuag at glerigwyr yr Eglwys a amlygodd drwy nifer o wahanol ffurf: eiconoclastiaeth, ymosodiadau corfforol a geiriol, ymosodiadau ar eu heiddo (anheddu), llosgi delwau gwellt, creu placardiau a.y.b. Gellir ychwanegu gwrthod talu'r degwm ar sail egwyddor cydraddoldeb crefyddol i'r rhestr ddiwethaf hyn hefyd. Er bod hi'n bosib defnyddio'r cysyniad o wrthglerigaeth i astudio'r berthynas rhwng gweinidogion Ymneilltuol a'u cynulleidfa, delia'r traethawd hwn gyda'r gainc

⁷⁰ Keith Robbins, 'Establishing disestablishment: some reflections on Wales and Scotland', yn Stewart J. Brown a George Newlands, *Scottish Christianity in the Modern World* (Caeredin, 2000), t. 243.

⁷¹ Biagini, *Retrenchment and Reform*, t. 220.

Anglicanaidd o wrthglerigaeth, neu i ddefnyddio terminoleg Cragoe, 'Anghydfurfwyr a gwrthglerigiaeth gwrth-Eglwysig'.⁷²

I derfynu, dehonglir gwrthglerigiaeth yn yr astudiaeth hon fel y canlyn: gwrthwynebiad i'r Eglwys Anglicanaidd a'i chlerigwyr gan Anghydfurfwyr, *nid* oherwydd eu bod hwy eisiau llwyr waredigaeth o'r Eglwys, ond oherwydd bod yr Eglwys yn un *sefydledig*, a bod ei chlerigwyr yn cael eu cynnal gan y degymau. Creiddiwyd hyn yn ideolegol gan y gainc cydraddoldeb crefyddol o'r gydwybod Ymneilltuol.

III.

Y Degwm

Y mae hanes y degwm yn un astrus. Po gyntaf y mae hanesydd yn meddwl ei fod wedi gwneud synnwyr o ryw ffrwd fechan, y mae ffynhonnell arall yn ymddangos i leidio'r dyfroedd ymhellach. Gorchwyl einioes fyddai'r dasg o ysgrifennu hanes cyflawn o'r degwm, hyd yn oed pe cyfyngir ef i Gymru yn unig. Felly, nid hanes cyflawn o'r degwm yng Nghymru ydyw'r astudiaeth hon fel y cyfryw. Yn hytrach, dilynir edefyn penodol er mwyn ceisio taflu goleuni ar agwedd neilltuol o fewn yr hanes ehangach hwnnw. Serch hynny, hwn ydyw'r ymgais gyntaf i gynnig dadansoddiad a naratif *estynedig* a *chydlynol* o'r degwm yng Nghymru yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Â Lloegr yn bennaf a ddelir yr astudiaethau hynny sydd yn dod i'r degwm wrth wraidd eu dadansoddiad.⁷³ Erys *The Contentious Tithe* (1976) gan Eric Evans fel y gwaith mwyaf maith ar y pwnc, ac hyd yn oed y pryd hynny dywedodd, 'It is perhaps surprising that, although most textbooks acknowledge its importance, so little direct attention has been given to it [tithe]'.⁷⁴ Cafwyd ddehongliad amgen yn

⁷² Cragoe, 'Anticlericalism in welsh politics', t. 180.

⁷³ Margaret James, 'The political importance of the tithes controversy in the English Revolution, 1640-60', *History*, cyf. xxvi (1941), tt. 1-18; W. R. Ward, 'The tithe question in England in the early nineteenth century', *The Journal of Ecclesiastical History*, cyf. 16, rhif. 1 (Ebrill, 1965), tt. 67-81; Eric Evans, 'A History of the Tithe System in England, 1690-1850 with Special Reference to Staffordshire', (1970); idem., *The Contentious Tithe: The Tithe Problem and English Agriculture 1750-1850* (Llundain, 1976); idem., *Tithes and the Tithe Commutation Act 1836* (Llundain, 1978); Daniel Cummins, 'The social significance of tithes in eighteenth century England', *English Historical Review*, cyf. 128, rhif. 534 (2013), tt. 1129-1154.

⁷⁴ Evans, *Contentious Tithe*, Rhagair, ix.

ddiweddar gan Daniel Cummins. Tra bod Evans wedi canolbwyntio ar natur gynhennus degymau, y mae Cummins ar y llaw arall, er yn cydnabod fod y degymau yn medru achosi ffrwgwd, yn edrych ar sut yr oedd y degymau yn creu a chryfhau cysylltiadau cymdeithasol yn hytrach na'i dinistrio. Yn ôl Cummins yr oedd yr economi moesol yn ystod rhan fwyaf o'r deunawfed ganrif yn hyrwyddo gweithredoedd nifer o glerigwyr ynghylch eu degymau, ac felly'n lleihau'r siawns am anghydfod.⁷⁵

Ond prin iawn ydyw'r dadansoddiadau o barthed y degwm yn ystod ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Dim ond saith a hanner o dudalennau y neilltuodd Evans i'r cyfnod rhwng 1850-1936 fel 'epilog' i'w lyfr.⁷⁶ Nid oedd helyntion y degwm yn Lloegr yn ystod yr 1930au ar yr un raddfa â'r helyntion a fu yng Nghymru yn ystod yr 1880au a'r 1890au, a'r helyntion yn Iwerddon yn ystod yr 1830au. Oblegid hyn, 'Rhyfel y Degwm' ydyw uchafbwynt hanes y degwm yng Nghymru, ac felly gwaith ar y ffenomenon hwnnw sydd yn dominyddu'r hanesyddiaeth.⁷⁷ Serch hynny, nid oes yna un darn o waith swmpus ar y pwnc fel y ceir yn hanesyddiaeth Terfysgoedd Beca, mwy na thebyg y protest gwladol mwyaf adnabyddus yng Nghymru yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg.⁷⁸

Dyma edrych yn awr ar ddatblygiad hanesyddiaeth 'Rhyfel y Degwm' yng Nghymru. Ym 1913 fe gyhoeddodd T. Gwynn Jones ei gyfrol swmpus, *Cofiant Thomas Gee*, yn seiliedig ar bapurau a adawyd gan y gŵr gweithgar hwnnw a'r peth wmbreth o erthyglau a ymddangosodd dros y blynyddoedd yn *Y Faner*. O fewn ei 650 o dudalennau ceir hanes cronolegol cyntaf o 'helynt y degwm', bron i ddegawd ar ôl i'r cythrwbl hwnnw dod i ben.⁷⁹ Er bod y gwaith yn dwyn yr enw 'cofiant', y

⁷⁵ Cummins, 'The Social Significance of Tithes in Eighteenth Century England', t. 1134-1135.

⁷⁶ Evans, *Contentious Tithe*, tt. 161-168.

⁷⁷ Cawn ymdrin â'r gwaith hynny nes ymlaen. Dyma restr fer o ambell i astudiaeth sydd yn ymdrin â'r degwm yng Nghymru yn gyffredinol neu agwedd penodol ohono cyn 'Rhyfel y Degwm': Francis Jones, 'The Mathry tithe suit', *Journal of the Historical Society of the Church in Wales*, 2 (1950); David Williams, *The Rebecca Riots* (Caerdydd, 1955), tt. 129-136; Vincent Williams, 'Tithing troubles: farmers' revolt against tithes 1747/8', *Gelligaer Historical Society*, 9 (1972), tt. 24-30; Jill Barber, 'A fair and just demand?' Tithe unrest in Cardiganshire, 1796-1823', *Cylchgrawn Hanes Cymru*, cyf. 16, rhif. 2 (1992), tt. 177-206; W. J. Probert, 'Monmouthshire parishes and the tithe commutation act 1836', *Gwent Local History: The Journal of Gwent Local History Council*, cyf. 73 (Hydref, 1992), tt. 35-43; D. W. Smith, 'The tithes to their end in Montgomeryshire', *Montgomeryshire Collections*, cyf. 84 (1996), tt. 123-136.

⁷⁸ Williams, *The Rebecca Riots*; David J. V. Jones, *Rebecca's Children: A Study of Rural Society, Crime, and Protest* (Rhydychen, 1989); ac yn ddiweddar iawn, Rhian E. Jones, *Petticoat Heroes: Gender, Culture and Popular Protest in the Rebecca Riots* (Caerdydd, 2015).

⁷⁹ T. Gwynn Jones, *Cofiant Thomas Gee* (Dinbych, 1913), tt. 449-493.

mae'n arolwg defnyddiol o hanes gwleidyddol yng Nghymru yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg, a gosodir hanes cyffro'r degwm o fewn ei gyd-destun priodol. Adrodd yr hanes y gwnâi Jones, yn hytrach na chynnig barn neu ddadansoddiad critigol o'r ymgyrch, a rhaid cofio hefyd ei fod wedi ymuno â staff y *Faner* ym 1891.

Yn wir, nodwedd gyffelyb yn perthyn i nifer o'r cyhoeddiadau cynnar o barthed 'Rhyfel y Degwm' ydyw'r ffaith bod eu hawduron efo cysylltiadau emosiynol gyda'r ymgyrch. Yr oedd nofel y Parchg. E. Tegla Davies, *Gŵr Pen y Bryn* (1923), a osodwyd adeg yr helynt wedi'i ysbrydoli gan atgofion ei blentyndod o'r helyntion yn ardal Llanarmon.⁸⁰ Brodor o Uwchaled, Sir Ddinbych, oedd Hugh Evans, a rhwng 1931 ac 1950 cafwyd pum gwahanol argraffiad o'i lyfr *Cwm Eithin* (hanesion a storiâu o'r ardal). Ynddo ceir hanes o'r helynt yn Llangwm, ac yn amlwg yr oedd ef yn adnabod rhai o'r gwŷr hynny a dygwyd ger bron y llys ym 1887 am rwystro arwerthiant y degwm.⁸¹ Ceir hanes arall o'r cythrwfl yn Llangwm yn *Y Pethe* (1955) gan Robert Lloyd (Llwyd o'r Bryn), sef mab i un o 'ferthyron y degwm'.⁸²

Gan mai'r helynt yn Llangwm oedd y *cause celebre* yn ystod 'Rhyfel y Degwm', nid syndod mai'r digwyddiad hwn sydd wedi denu sylw haneswyr a'r cyhoedd yn fwy nag unrhyw ddigwyddiad arall. Ymddangosodd gyfres o erthyglau rhwng 1937 ac 1938 yn *Y Ddraig Goch* yn adrodd hanes gwŷr Llangwm a'r degwm. Cofier mai organ Plaid Cymru oedd hwn.⁸³ Yr hyn a gawn yma ydyw ymarferiad mewn cysylltu digwyddiad o'r gorffennol gyda digwyddiad mwy diweddar er mwyn dysgu 'gwersi'. Yn yr achos hwn, gwelodd A. O. H. Jarman debygolrwydd rhwng safiad gwŷr Llangwm yn erbyn yr awdurdodau gydag ymddygiad a safiad Saunders Lewis, Lewis Valentine a D. J. Williams wrth 'amddiffyn y genedl Gymreig'.⁸⁴ Erbyn heddiw y mae'r erthyglau yma eu hunain o ddiddordeb hanesyddol.

Dim ond o'r 1950au ymlaen y cawn yr astudiaethau mwy dadansoddol. Gosododd David Williams yr helynt o fewn naratif eang iawn yn ei *A History of*

⁸⁰ E. Tegla Davies, 'Fy mhererindod llenyddol', *Y Traethodydd* (1965), t. 108; Gwyn Erfyl, 'Poenau gŵr Pen y Bryn', *Efrydiau Athronyddol* (1998), tt. 1-12. Gellir ychwanegu Henry Thomas 'Elwyn', a'i nofel *Cynwyn Rhys, pregethwr* (Caerdydd, 1900) i'r categori yma hefyd.

⁸¹ Hugh Evans, *Cwm Eithin* (Lerpwl, 1950), t. 218-220.

⁸² Robert Lloyd, *Y Pethe* (Bala, 1955, 1956 ac 1962), tt. 95-101.

⁸³ A. O. H. Jarman, 'Gwŷr Llangwm', *Y Ddraig Goch* (Mehefin 1937 – Ebrill 1938).

⁸⁴ *Ibid.*, (Ebrill, 1938), t. 4.

Modern Wales (1950), er byr ydyw ei driniaeth ohono.⁸⁵ Ond efallai mai erthygl ‘Rhyfel y Degwm’ (1953) gan Frank Price Jones oedd yr ysgrif pwysicaf ar yr helynt ers gwaith T. Gwynn Jones deugain mlynedd ynghynt.⁸⁶ Yn wir, erys erthygl Jones yn ddarlleniad hanfodol o fewn yr hanesyddiaeth hyd heddiw oblegid ei arsylliadau treiddgar a’i syniadaeth ef ynglŷn â ‘phwy oedd yn gyfrifol. Ond y mae’r driniaeth wedi ei chyfyngu yn ddaearyddol i’r gogledd-ddwyrain yn unig. Araf iawn oedd datblygiad y pwnc dros yr ugain mlynedd nesaf. Neilltuodd K. O. Morgan ddeg o dudalennau i ‘Ryfel y Degwm’ yn ei lyfr adnabyddus *Wales in British Politics* (1963), ond yr oedd yn rhaid aros nes dechrau’r 1970au cyn i’r cyhoeddiad nesaf o bwys ymddangos.

Er nad ydyw astudiaeth John P. D. Dunbabin, *Rural Discontent in Nineteenth-Century Britain* (1974), yn canolbwyntio’n uniongyrchol ar helynt y degwm yng Nghymru, gellir ystyried y ddwy bennod a neilltuwyd i’r ymgyrch hwnnw fel y dadansoddiad mwyaf gwreiddiol a heriol o fewn yr hanesyddiaeth hyd heddiw.⁸⁷ Yn wir, credai Matthew Cragoe mai astudiaeth Dunbabin ydyw’r gorau ar y pwnc.⁸⁸ Arwyddocaol hefyd ydyw’r ffaith fod David W. Howell mor ddiweddar â 2013 yn gwneud defnydd trwm o waith Dunbabin wrth drafod ‘Rhyfel y Degwm’.⁸⁹ Yn wahanol iawn i’r haneswyr Cymreig a dueddai roi pwyslais sylweddol i rôl Thomas Gee yn ystod ‘Rhyfel y Degwm’, credai Dunbabin (er ei fod yn cydnabod dylanwad a bri Gee yr adeg hon) bod y penderfyniadau pwysig o barthed y degymau wedi cael eu gwneud yn lleol yn y plwyfi, yn hytrach nag o ryw bencadlys canolog.⁹⁰ Dichon mai prif wendid y gwaith ydyw’r diffyg ymrwymiad gyda ffynonellau yn y Gymraeg. Ond y mae’n drueni nad ydyw gwaith Dunbabin wedi cael mwy o sylw o fewn yr hanesyddiaeth, yn enwedig gan haneswyr o Gymru. Oherwydd hyn, erys rhai o arsylliadau Dunbabin yn annatblygedig.

⁸⁵ David Williams, *A History of Modern Wales* (Llundain, ail-argraffiad, 1977), tt. 264-265. Cafwyd triniaeth fer yn ei lyfryn bach, *History of Wales, 1485-1931* (Llundain, ail-argraffiad, 1948), t. 95.

⁸⁶ Frank Price Jones, ‘Rhyfel y Degwm’, yn Alun Llywelyn-Williams ac Elfed ap Nefydd Roberts (gol.), *Radicaliaeth a’r Werin Cymreig yn y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg: Casgliad o Ysgrifau Frank Price Jones* (Caerdydd, 1977), tt. 72-105. Gw. hefyd George Lerry, ‘The policemen of Denbighshire’, *Trafodion Hanes Cymdeithas Sir Ddinbych* (1954), tt. 131-134.

⁸⁷ John P. D. Dunbabin, *Rural Discontent in Nineteenth-Century Britain* (Llundain, 1974), tt. 221-231 a 282-296.

⁸⁸ Matthew Cragoe, *An Anglican Aristocracy: The Moral Economy of the Landed Estate in Carmarthenshire 1832-1895* (Rhydychen, 1996), t. 235. tn. 206.

⁸⁹ David W. Howell, ‘The land question in nineteenth-century Wales, Ireland and Scotland: A comparative study’, *Agricultural History Review*, cyf. 61, rhif 1. (Mehefin, 2013), tt.83-110.

⁹⁰ Dunbabin, *Rural Discontent*, t. 227.

Ond o ddiwedd y 1970au ymlaen gwelwyd ffrwydrad yn y nifer o astudiaethau yn edrych ar wahanol elfennau o'r helynt.⁹¹ Rhoddwyd sylw neilltuol i ardaloedd eraill o Gymru a welodd gyffro o barthed y degwm. Gosododd Emyr Price yr helynt yn Llŷn ac Eifionydd o fewn cyd-destun gweithgareddau gwleidyddol cynnar David Lloyd George, a oedd yn gynhyrfwr amlwg yn yr ardal yr adeg hon.⁹² Y mae *The Tithe War in Pembrokeshire* (1982) gan Pamela Horn yn bamffled byr ond cynhwysfawr, ac yn ffynhonnell werthfawr o wybodaeth ynglŷn â'r cyffro yn Sir Benfro. Y mae hyn yn bwysig yn enwedig gan fod yr helynt yn y gogledd wedi bwrw cysgod dros y de o ran sylw. Astudiaeth leol ddefnyddiol arall ydyw ymchwil Gwyn Lloyd Jones i'r helyntion yn Llanefydd, plwyf a ddangosodd mwy o ystyfnigrwydd nag unrhyw blwyf arall yng ngogledd Cymru o ran gwrthod talu'r degymau.⁹³ Gwnâi Menna Cunningham ddefnydd helaeth o bapurau'r Eglwys yn ei thraethawd ymchwil er mwyn taflu goleuni ar wahanol elfennau o'r gwrthdaro yn Nyffryn Clwyd.⁹⁴

Dyweddodd D. Tecwyn Lloyd yn ei gyflwyniad i *Gwaedu Gwerin* (1983) gan Elwyn L. Jones, 'Ychydig o hanes y Rhyfel Degwm sydd wedi ei sgrifennu ac ni wn am unrhyw lyfr sy'n delio ag ef yn benodol'.⁹⁵ Y mae'r rhan gyntaf o'i arsylliad yn rhannol gywir ar ddechrau'r 1980au, er ni ellir fod yn siwr pa mor gyfarwydd ydoedd â'r hanesyddiaeth. Ond yr oedd yn gwbl gywir nad oedd yna lyfr yn delio â 'Rhyfel y Degwm' yn uniongyrchol yn bodoli cyn hynny. Y mae'n baradocs bod toreth o waith ar helynt y degwm wedi ymddangos ers 1983, ond erys *Gwaedu Gwerin* yr unig 'lyfr' ar y pwnc hyd heddiw. Traethawd buddugol gwobr Beatrice Grenfell yn Eisteddfod Genedlaethol Maldwyn, 1981, ydyw *Gwaedu Gwerin*, ac yr oedd yr awdur yn ddigon gwylaidd i ddatgan am ei waith, 'Er mai braslun ydyw fe'm hargyhoeddwyd wrth baratoi'r gwaith fod cyfrol lawnach yn bosibl ac yn disgwyl am

⁹¹ Rhoddodd David W. Howell bwyslais sylweddol i rôl pregethwyr Anghydfurfiol yn yr ymgyrch, *Land and People in Nineteenth-Century Wales* (Llundain, 1977), tt.83-85. Ceir crynodeb byr o'r helynt yn y pamffled byr *Rhyfel y Degwm* (1978) gan Archifdy Clwyd. Ond cyfyngwyd y naratif i Ddyffryn Clwyd yn unig.

⁹² Emyr Price, 'Lloyd George a 'Rhyfel y Degwm' yn Llŷn ac Eifionydd 1886-8', *Trafodion Hanes Cymdeithas Sir Gaernarfon*, cyf. 39 (1978), tt. 150-169.

⁹³ Gwyn Lloyd Jones, 'Llanefydd a Rhyfel y Degwm', *Trafodion Hanes Cymdeithas Hanes Sir Ddinbych*, cyf. 37 (1989), tt. 19-34. Erys helynt Llangwm yn destun poblogaidd, Eirlys Lewis Evans a Gwilym Evans, 'Rhyfel y Degwm yn Llangwm a'r cylch,' *Llen y Llannau* (1986), tt. 57-76, er nid ydyw'r gwaith yn ychwanegu llawer at ein dealltwriaeth o'r helynt.

⁹⁴ Menna Cunningham, 'Y Gymdeithas Amaethyddol yn Nyffryn Clwyd, 1880-1900', (Traethawd M.A., Prifysgol Cymru, Bangor, 1977), tt. 164-226.

⁹⁵ Elwyn L. Jones, *Gwaedu Gwerin: Braslun o Hanes Rhyfel y Degwm yng Nghymru* (Dinbych, 1983), t. 6.

rywun i'w chynhyrchu'.⁹⁶ Y mae'n arolwg defnyddiol o'r cythrwfl gan gydnabod nad rhywbeth a berthyn i'r gogledd-ddwyrain yn unig oedd helynt y degwm. Serch hynny, nid ydyw heb ei wendidau ychwaith. Y mae ei harsylliad mai, 'tebyg i'w gilydd oedd y terfysgoedd ymhobman a gwir bob gair, wrth gwrs, yr honiad fod Thomas Gee ynghlwm wrth yr holl weithgaredd', yn tueddu i symleiddio y gwahaniaethau oedd yn bodoli o le i le.⁹⁷ Credai David Pretty a T. M. Bassett bod yr ymadrodd 'Gwaedu Gwerin' yn gor-symleiddio'r gwahaniaethau oedd yn bodoli o fewn y gymdeithas wledig yng Nghymru ar y pryd; chwedl y gymdeithas 'ddi-ddosbarth gytûn'.⁹⁸

Yn yr un flwyddyn cyhoeddwyd erthygl Robert (Bob) Morris, 'The Tithe War', nad oedd yn annhebyg yn ei strwythur i'r hyn a geir yn erthygl Frank Price-Jones; eithr y ffaith fod Morris yn edrych yn fwy manwl ar helyntion eraill yn y gogledd megis y terfysg ym Mochdre a Llanefydd, er efallai nid mor dreiddgar o ran casgliadau.⁹⁹ Cymerodd 'Ryfel y Degwm' ei le â phrotestiadau poblogaidd eraill y bedwaredd ganrif ar bymtheg yng Nghymru fel rhan o sylabws newydd TGAU hanes Cymru. Addaswyd erthygl Morris i'r diben hon a cheir gwrslyfr defnyddiol arall gan David Egan hefyd, gyda'r ffocws wrth gwrs ar ddeall ac ymdrin â ffynonellau hanesyddol.¹⁰⁰

Ym 1984 fe mabwysiadodd Donald Richter y strwythur 'arolwg' yn ei erthygl, 'The Welsh Police, The Home Office, and the Welsh Tithe War of 1886-1891'.¹⁰¹ Dengys mai'r broblem fwyaf erbyn hyn ydyw'r ffaith nad oes yna fawr o gydlynid o un astudiaeth i'r llall, h.y., nid oes yna fawr o drafodaeth ynghylch arsylliadau a damcaniaethau haneswyr eraill. Bron y gellid crybwyll mai'r hyn a gawn yma ydyw cyfres o astudiaethau annibynnol, ac o ganlyniad i hyn, ceir tipyn o ail adrodd a throedio'r un llwybr treuliedig. Mi fyddai erthygl Richter wedi bod yn

⁹⁶ Jones, *Gwaedu Gwerin*, t. 5.

⁹⁷ *Ibid.*, t. 41.

⁹⁸ David Pretty, *The Rural Revolt that Failed: Farm Workers' Trade Unions in Wales 1889-1950* (Caerdydd, 1989), t. 16; T. M. Bassett, 'Rhyfel chwerv', *Cristion*, 5, Gorff/Awst (1984), t. 22.

⁹⁹ Robert Morris, 'The Tithe War', *Trafodion Cymdeithas Hanes sir Ddinbych*, cyf. 31 (1983), tt. 51-97.

¹⁰⁰ David Egan, *People, Protest and Politics: Case Studies in Nineteenth Century Wales* (Gwerslyfr) (Llandysul, 1987), tt. 90-116; Robert Morris, *The Tithe War/Rhyfel y Degwm* (Gwerslyfr) (Rhydychen, 1989). Gw. hefyd Merfyn Jones, 'Rural and industrial protest in north Wales', yn Trevor Herbert a Gareth Elwyn Jones (gol.), *People and Protest: Wales 1815-1880* (Caerdydd, 1988), tt. 166-167.

¹⁰¹ Donald Richter, 'The Welsh police, the Home Office, and the Welsh tithe war of 1886-1891', *Cylchgrawn Hanes Cymru*, cyf. 12 (1984), tt. 50-75.

llawer mwy defnyddiol pe buasai wedi neilltuo'r gofod sylweddol a roddai i'r cefndir cyffredinol, a oedd yn eithaf hysbys erbyn hynny, i ganolbwyntio mwy ar ymateb y Swyddfa Gartref a'r heddlu.¹⁰²

Yr 1980au yn ddiamau oedd oes aur hanesyddiaeth 'Rhyfel y Degwm' yng Nghymru, ac wrth ddarllen yr holl waith hyd at ddiwedd y cyfnod hwnnw, cawn arolwg eithaf cyflawn o'r hanes hwnnw. Arafodd llyf y gwaith ymchwil o'r 1990au ymlaen. Cafodd rôl y wasg sylw neilltuol gan Aled Jones a Hywel Wyn Matthews, tra ychwanegodd Kenneth H. Birch at ein gwybodaeth o ran ymateb yr heddlu yng ngogledd Cymru.¹⁰³ Ym 1996 neilltuodd Russell Davies ychydig o dudalennau i'r helynt yn y de-orllewin gan ei osod o fewn cyd-destun y gymdeithas a thrais yn Sir Gaerfyrddin.¹⁰⁴ Triniaethau naratif eu naws a geir ym mywgraffiadur Ieuan Wyn Jones o Thomas Gee a llyfr Tim Jones ar y terfysgoedd yng Ngogledd Cymru a gyhoeddwyd ym 1998.¹⁰⁵

Dichon mai'r un darn o waith sydd yn sefyll allan yn y cyfnod hwn ydyw erthygl diweddar Manon Jones, 'Y Lleol a'r Cenedlaethol: Rhyfel y Degwm yn Llangwm'.¹⁰⁶ Er mai astudiaeth arall o'r helyntion yn Llangwm ydyw, y mae Jones yn torri tir newydd drwy edrych yn fanwl ar rai o'r 'actorion' hanesyddol drwy ddangos mai unigolion lleol oedd 'gwir' arweinwyr y bobl ar y lefel sylfaenol. Gresyn nad ydyw Jones yn cyfeirio at waith Dunbabin, a oedd eisoes wedi crybwyll hyn 35 mlynedd ynghynt. Ond hwyrach mai'r peth pwysicaf y gellid diddwytho o waith Jones ydyw'r angen i ddatgelu mwy o'r 'actorion' hanesyddol hyn ar y lefel plwyfol; y cynhyrfwyr, y cynhyrfus ac, wrth gwrs, y clerigwyr.

Yn gyffredinol, gellid crynhoi prif bwyntiau'r astudiaethau ynglŷn â 'Rhyfel y Degwm' fel y canlyn:

¹⁰² Ceir hanes cyffredinol arall yr ymgyrch yng ngogledd-ddwyrain Cymru mewn darlith gan E. Roger Edwards, *The Tithe Wars of North East Wales* (1989).

¹⁰³ Aled Jones, *Press, Politics and Society: A History of Journalism in Wales* (Caerdydd, 1993), tt.168-176; Hywel Wyn Matthews, 'Y Wasg a Rhyfel y Degwm', (Traethawd M.A., Prifysgol Cymru, Aberystwyth, 1999); Kenneth H. Birch, *The History of Policing in North Wales* (Pwllheli, 2008), tt. 205-217.

¹⁰⁴ Russell Davies, *Secret Sins: Sex, Violence and Society in Carmarthenshire, 1870-1920* (Caerdydd, 1996), tt. 135-139.

¹⁰⁵ Tim Jones, *Rioting in North East Wales 1536-1918* (Wrecsam, 1997), tt.56-73; Ieuan Wyn Jones, *Y Llyn Arian: Agweddau o Fywyd a Chyfnod Thomas Gee* (Denbigh, 1998), tt.124-142.

¹⁰⁶ Manon Jones, 'Y lleol a'r cenedlaethol: Rhyfel y Degwm yn Llangwm', *Trafodion Cymdeithas Hanes sir Ddinbych*, cyf. 57 (2009), tt. 65-82.

- (a) Dirwasgiad Amaethyddol wedi rhoi bod i'r mudiad.
- (b) Grym Anghydfurfiaeth a Rhyddfrydiaeth yng Nghymru wedi sichrau ei ffyniant.
- (c) Bod y symudiad wedi datblygu cysylltiadau cryf â'r ymgyrch i Ddatgysylltu'r Eglwys, tra bod ei gysylltiad â chwestiwn y tir yn llawer gwannach.
- (ch) Pwysigrwydd rôl gwŷr megis Thomas Gee ar y lefel genedlaethol, yn ogystal â dylanwad arweinwyr lleol ar y lefel sylfaenol.
- (d) Y gogledd a'r de-orllewin oedd prif ganolfannau'r helynt, h.y. yr ardaloedd Cymreicaf o ran eu hiaith a hefyd y cryfaf o ran eu Anghydfurfiaeth.

IV.

Strwythur

Sut felly y mae'r astudiaeth hon yn ychwanegu at yr hyn a wyddom yn barod ynglŷn â'r degwm? Dichon mai'r peth pwysicaf i ystyried yn hyn o beth ydyw strwythur y traethawd. Pwysleisir mai golwg ar agwedd y Cymry tuag at y degwm yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg ydyw'r astudiaeth hon, ac nid hanes 'Rhyfel y Degwm' yn unig. Gwir, neilltuwyd gofod sylweddol ar gyfer y protest hwnnw canys ei fod yn ddigwyddiad mor arwyddocaol yn hanes Cymru. Gallesid wedi defnyddio'r model 'arolwg' clasurol o osod 'Rhyfel y Degwm' o fewn cyd-destun y gymdeithas, crefydd, diwydiant, gwleidyddiaeth a.y.b. drwy neilltuo pennod ar gyfer pob un o'r agweddau hyn.¹⁰⁷ Fodd bynnag, daeth hi'n amlwg nad oedd y model hwn yn gymwys ar gyfer anghenion yr astudiaeth hon.

Gan fod y traethawd yn dilyn hynt y degwm yn gronolegol, mi fuasai penodau thematig fel y disgrifiwyd uchod wedi amharu ar lif y ddadl. Teimlwyd hefyd mai troedio'r un tir treuliedig y byddai mabwysiadu model 'arolwg' o'r fath, yn enwedig pan ystyriwn mai dyma'r dull a welwyd yn gyson yn y gwaith hynny ar y degwm yng Nghymru hyd yn hyn. Yn hytrach, rhoddir y degwm wrth wraidd y

¹⁰⁷ Gwelir fersiynau gwahanol o'r fath yma o strwythur ar gyfer protestiadau yng Nghymru yn: David Williams, *The Rebecca Riots: A Study in Agrarian Discontent* (Caerdydd, 1955); David J. V. Jones, *The Last Rising: The Newport Chartist Insurrection of 1839* (Caerdydd, argraffiad 2013; argraffwyd cyntaf ym 1985); Ivor Wilks, *South Wales and the Rising of 1839* (Llandysul, 1989); David J. V. Jones, *Rebecca's Children: A Study of Rural Society, Crime, and Protest* (Rhydychen, 1989).

ddadl o'r dechrau hyd at ei ddiwedd. Er nad ydyw natur a strwythur y traethawd yn gwbl gyffelyb â gwaith Evans ar y degwm yn Lloegr, y mae, serch hynny, y peth agosaf at hwnnw o ran y degwm yng Nghymru.

Yn Rhan I cawn hanes y degwm o amser y chwyldro yn Ffrainc hyd at ddiwedd 1885. Pwrpas yr adran hon ydyw dangos beth oedd natur y dadleuon ynghylch y degymau, yn ogystal â cheisio dirnad pa faint o anfonlonrwydd, os o gwbl, oedd yna ar y lefel sylfaenol cyn 'Rhyfel y Degwm'. Ceisir dangos hefyd pa mor gymhleth oedd y gyfundrefn degymol ei hun, a'r cytgord oedd yn bodoli rhwng y realiti hwn ar ideoleg Anghydfurfiol o barthed cydraddoldeb crefyddol. Yn ogystal â hyn rhaid asesu rôl y degwm o fewn gwrthglerigiaeth yn ystod y cyfnod hwn, a gwerthuso pa ddylanwad a gafodd y 'gydwybod Ymneilltuol' yn annog y bobl i beidio â thalu'r degymau ar sail foesol.

Ysbrydolwyd Rhannau II a III gan yr hyn a welwn yn llyfr R. R. Davies, *The Revolt of Owain Glyn Dŵr*.¹⁰⁸ Neilltuodd Davies un bennod naratif ar wrthryfel Glyndŵr er mwyn gosod fframwaith cronolegol i weddill y llyfr. Gan mai penodau thematig dadansoddol ydyw'r penodau sydd yn dilyn, a chan eu bod yn neidio o un dyddiad i'r llall, y mae'n hanfodol cael un bennod naratif gryno sydd yn angori'r cyfan yn gronolegol. Y mae'r strwythur cyffelyb hwn yn gymwys i'r astudiaeth hon hefyd. Yn Rhan II. ceir naratif o 'Ryfel y Degwm' rhwng 1886-1895. Oherwydd natur y strwythur a geir yng ngwaith hanesyddol ar 'Ryfel y Degwm', nid oes yna un gronoleg eang yn bodoli sydd yn cyfuno'r holl helyntion ledled Cymru yn ystod y cyfnod hwn. Y mae'r bennod yn Rhan II., o'r traethawd hwn yn llenwi bwloch felly yn hyn o beth.

Gosodwyd 'sgerbwd' yr anghydfod yn Rhan II, ac fe roddir 'cig ar yr esgryn' yn Rhan III. Yn gyffelyb i astudiaeth Davies, penodau thematig ydyw'r rhain yn edrych ar wahanol elfennau o fewn 'Rhyfel y Degwm'. Y mae pennod V yn edrych ar wahanol fathau o wrthglerigiaeth ar y lefel sylfaenol, gan gynnwys 'gwŷr gwellt' o glerigwyr, caneuon dychanol, bygythiadau a fandaliaeth. Gwelir pennod VI yn canolbwyntio ar effaith ariannol yr ymgyrch gwrth-ddegymol ar fywyd beunyddiol clerigwyr yr Eglwys, gan mai'r degwm oedd prif ffynhonnell cyflog nifer fawr ohonynt. Prif amcan pennod VII ydyw proffilio rhai o'r rheini a roddodd amser dyrys

¹⁰⁸ R. R. Davies, *The Revolt of Owain Glyndŵr* (Rhydychen, 1995).

i'r clerigwyr, sef y 'cynhyrfwyr' a'r 'cynhyrfus'. Rhoddir sylw sylweddol i'r cynhyrfwyr, boed hwy'n weinidogion Anghyddfurfiol neu'n lleygwyr Anghyddfurfiol er mwyn ceisio asesu eu dylanwad. Hefyd, rhoddir mwy o sylw nag o'r blaen i rôl merched yn ystod 'Rhyfel y Degwm'. Gwelir bod eu presenoldeb hwy'n holl bwysig ar ddiwrnod yr arwerthiannau a'r atafaeliadau. Defnyddir 'merthyron y degwm, Llangwm' fel astudiaeth 'micro' er mwyn proffilio rhai o'r gwŷr 'cynhyrfus' adeg 'Rhyfel y Degwm'.

Cofier mai edefyn penodol y traethawd ydyw asesu pa ran y chwaraeodd y degwm mewn enghreifftiau o wrthglerigiaeth yng Nghymru cyn ac yn ystod 'Rhyfel y Degwm'. Hefyd, i ba raddau yr oedd hyn yn rhan o gainc cydraddoldeb crefyddol y gydwybod Ymneilltuol? Ceisir dirnad i ba raddau y ddaru'r ymgyrch i ddatgysylltu'r Eglwys effeithio ar y Cymry cyffredin, ac ar y berthynas rhwng plwyfolion a chlerigwyr. Y mae'r themâu hyn yn rhedeg drwy'r astudiaeth i gyd.

RHAN I

Y DEGWM YNG NGHVMRU, *c.* 1789-1885

Pennod I

Y Degwm yng Nghymru Adeg y Chwyldro yn Ffrainc, c.1790au.

Rhagarweiniad

Beth oedd y Degwm? Ymddengys y cwestiwn yn un syml, ond mewn gwirionedd nid oedd nemor dim yn syml ynghylch y gyfundrefn degymol yn unrhyw wlad.¹ Fel y nodwyd gan Carol Twinch, 'tithes history is international, its origins obscured by time, and its passage through the centuries as long and complicated as that of humanity itself'.² Y mae'n destun eang, fel y tystiodd R. Parry yn *Y Dysgedydd* ym 1844, 'Wel, dylasem fedru cynnwys brawddeg yn mhob gair, a phwnc yn mhob brawddeg!'³ Gellid wedi defnyddio'r pennawd a ymddangosodd yn *Monmouthshire Merlin* ym 1833: 'History and Mystery of Tithes' fel teitl i'r traethawd hwn.⁴ Y mae llawer o bobl wedi ceisio datrys y 'dirgel' hyn ar hyd y canrifoedd, ac o ganlyniad, 'Many more books and pamphlets', meddai G. F. A. Best, 'must have been written about tithes than about any other of the conventionally distinguished departments of church affairs'.⁵ Ond fel y cawn weld, nid ydyw pwnc y degwm wedi ennyn yr un diddordeb ymhlith haneswyr modern.⁶

Ystyr y gair degwm, fel y gair *tithe* yn Saesneg, ydyw y degfed rhan o rywbeth. Yn hanesyddol, golygai hyn y ddegfed ran o gynnyrch y tir a gymerwyd yn flynyddol, ynghyd â'r degfed ran o'r da byw a feithrinwyd ar y tir.⁷ Dosbarthwyd y

¹ Yr oedd y gyfundrefn degymol yn yr Iwerddon yn ddarostyngedig i ddeddfwrfa ar wahân i Gymru a Lloegr, a'r gyfundrefn 'teinds' yn yr Alban yn wahanol eto.

² Carol Twinch, *Tithe War 1918-1939: The Countryside in Revolt* (Norwich, 2001), t. 9.

³ *Y Dysgedydd* (1844), t. 74.

⁴ *Monmouthshire Merlin* (14 Medi 1833).

⁵ G. F. A. Best, *Temporal Pillars: Queen Anne's Bounty, the Ecclesiastical Commissioners, and the Church of England* (Caergrawnt, 1964), t. 465.

⁶ Ceir peth wmbreth o weithiau ynghylch hanes y degwm dros y canrifoedd, fel arfer i geisio profi rhyw safbwynt neilltuol: John Seldon, *A Historie of Tithes* (1618); Sir George Wood, *Observations on Tithes and Tithe Laws* (Llundain, 1832); Rev. W. M. Hawkins, *Key to the Tithe Question: A Handbook on Tithes* (Llundain, 1887); William Easterby, *The History of the Law of Tithes in England: Being the York Prize Essay of the University of Cambridge for 1887* (Caergrawnt, 1888); Rev. Henry William Clarke, *A History of Tithes* (Llundain, 1891); Percy William Millard, *The Law Relating to Tithe Rentcharge and other Payments in Lieu of Tithe* (Llundain, 1912). O ddiddordeb neilltuol i Gymru, ceir adran cynhwysfar yn D. Brynmor Jones (gol.), *The Disestablishment and Disendowment of the Church of England in Wales: A Handbook on the Subject* (1912), tt. 91-133.

⁷ R. E. Prothero, *English Farming, Past and Present* (Llundain, 1912), t. 332; Eric J. Evans, 'A History of the Tithe System in England, 1690-1850 with Special Reference to Staffordshire' (Traethawd Doethuriaeth anghyhoeddedig, Prifysgol Warwick, 1970), t. 1.

degymau mewn i dri rhan: 1) Degymau *Predial* – cynnyrch a deilliodd yn uniongyrchol o'r ddaear, megis yd, gwair, llin, ffrwythau, pren a.y.b. 2) Degymau cymysg – cynnyrch a fagwyd gan ffrwythau'r ddaear, megis defaid, gwartheg, moch, da pluog, wyau, gwlan, caws ayb. 3) Degymau personol - y ddegfed ran o'r elw a gynhyrchwyd gan lafur dyn. Yn ymarferol, her arswydus oedd ceisio asesu'r elwau ar gyfer y degymau personol, ac ym 1549 fe basiwyd deddf yn rhyddhau mwyngloddiau copr, tun a melinoedd haearn rhag bod yn rhwymedigaeth i'w talu.⁸ Yn fuan iawn fe ddirywiodd y degymau personol nes dyfod yn rhywbeth amherthnasol erbyn y ddeunawfed ganrif, er ceir enghrafftiau hwnt ac yma o bysgotwyr yn gorfod talu degwm ar eu dalfeydd.⁹ Arferid casglu'r cynnyrch yn llythrennol, ond gyda threigl amser daeth taliad ariannol yn fwyfwy cyffredin.

Diben y bennod hon a'r un nesaf ydyw olrhain hanes y degwm yng Nghymru o amser y chwyldro Ffrengig hyd at ddechrau 'Rhyfel y Degwm' ym 1886. Nid oes yna ddarn o waith swmpus o fewn hanesyddiaeth Cymru sydd yn edrych yn fanwl ac yn uniongyrchol ar y degwm yn ystod y cyfnod modern. Nid ydyw hyn o reidrwydd yn golygu bod y pwnc wedi cael ei esgeuluso, ond y mae yna ddiffyg cydlynid o ran creu naratif o un cyfnod i'r llall. Ceir arolwg cryno o hanes y degwm yng Nghymru mewn ambell i waith gan osod 'Rhyfel y Degwm' o fewn ei gyd-destun hanesyddol.¹⁰ Er bod y triniaethau hyn yn gyfyngedig o ran diffyg manylder ynglŷn â chymhlethdodau'r gyfundrefn degymol a'r dadleuon o'i gylch, y maent, serch hynny, yn gosod sylfaen i adeiladu arno. Ymgais y bennod hon a'r un nesaf felly ydyw ychwanegu at ein dealltwriaeth o'r degwm yng Nghymru drwy edrych yn fanwl ar agweddau o'r pwnc sydd hyd yma wedi cael eu hesgeuluso.

Oherwydd natur troellog y pwnc, rhaid dadadeiladu hanes y degwm yng Nghymru a'i ddadansoddi bob yn damaid. Dyma'r unig ffordd i geisio gwneud synnwyr o bwnc mor helaeth. Wrth reswm, rhyfygus fyddai ceisio ymdrin â phob elfen o fewn hanes y degwm yng Nghymru. Rhaid, o reidrwydd, gulhâi'r ffocws a

⁸ Evans, 'A History of the Tithe System in England, 1690-1850 with Special Reference to Staffordshire', t. 9.

⁹ Ibid., t. 10.

¹⁰ Elwyn L. Jones, *Gwaedu Gwerin* (Dinbych, 1983), tt. 7-29; Frank Price Jones, 'Rhyfel y Degwm', yn Alun Llywelyn-Williams ac Elfed ap Nefydd Roberts (gol.), *Radicaliaeth a'r Werin Gymreig yn y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg: Casgliad o Ysgrifau gan Frank Price Jones*, tt. 73-78; Robert M. Morris, 'The Tithe War', *Cylchgrawn Hanes Cymru*, cyf. 32 (1983), tt. 51-66; David Egan, *People, Protest and Politics: Case Studies in Nineteenth Century Wales* (1987), tt. 90-106.

dilyn trywydd penodol. Yr oedd ffactorau economaidd a chyfreithiol yn nodweddion anochel o fewn anghydfodau ynglŷn â'r degwm, megis gwasgedd ariannol neu ddadlau ynghylch cyfreithlondeb arferion lleol a'r hawl i ddegymu a.y.b. Ond i ba raddau y dylanwadodd dadleuon mwy coeth o barthed y degwm meddylfryd y rheini oedd yn gorfod talu'r degwm? 'Payment of tithe', ebe D. Lleufer Thomas yn niwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, 'had always been, more or less, unpopular with the bulk of people'.¹¹ Ond amhoblogaidd ym mha ffordd? Fel taliad gorfodol i gynnal crefydd? Ynteu am resymau cwbl economaidd?

Honnodd K. O. Morgan fod Anghydfurfwyr, ers o leiaf Deddf Cyfnewid y Degwm ym 1836, wedi gwrthwynebu'r degwm ar sail crefydd.¹² Yn wir, y mae'r ddelwedd o Anghydfurfwyr yn gorfod talu degwm i gynnal Eglwys nad mynychant yn un poblogaidd, anhepgor hyd yn oed, o fewn hanesyddiaeth y degwm yng Nghymru.¹³ Fodd bynnag, ymddengys mai prin iawn oedd protestiadau poblogaidd ynghylch y degwm yng Nghymru cyn 1886, er bod y prif ddadleuon a geir yn ystod 'Rhyfel y Degwm' wedi eu ffurfio ers dros hanner canrif. Ceisir plethu enghreifftiau o anghydfodau ynglŷn â'r degwm gyda'r dadleuon a geir yn y wasg brintiedig er mwyn dangos mai ffenomenon rhethregol oedd yr ymgyrch gwrth-ddegymol am ran helaeth o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Yn ogystal â hyn, edrychir ar sut effeithiodd y degwm ar y berthynas rhwng clerigwyr yr Eglwys a'r plwyfolion er mwyn dirnad i ba raddau y creodd y degwm agweddau gwrthglerigol cyn 'Rhyfel y Degwm'.¹⁴

¹¹ D. Lleufer Thomas, *The Welsh Land Commission: A Digest of Its Report* (1896).

¹² K. O. Morgan, *Wales in British Politics 1868-1922* (Caerdydd, Trydydd argraffiad, 1991), t. 84. Gw. hefyd, D. Gareth Evans, *A History of Wales 1815-1906* (Caerdydd, 1989), t. 207; John Davies, *Hanes Cymru* (1990), t. 436. Philip Jenkins, *A History of Modern Wales 1536-1990* (1992), t. 338.

¹³ R. Tudur Jones, *Ffydd ac Argyfwng Cenedl: Hanes Crefydd yng Nghymru 1890-1914: Cyfrol 2: Dryswch a Diwygiad* (Abertawe, 1982), t. 234; Archifdy Clwyd, *Rhyfel y Degwm* (Penarlâg, 1978), t. 1; Egan, *People, Protest and Politics*, t. 105.

¹⁴ Yr oedd diffyg gofod yn golygu nad oedd hi'n bosib edrych ar agweddau'r Ymneilltuwyr cynnar tuag at y degymau yng Nghymru cyn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Am fwy ynghylch hyn gw. William Erbery, *The Grand Oppressor, Or, The Terror of Tithes; First Felt, and now Confest*, yn *The Testimony of William Erbery, Left Upon Record for the Saints of Succeeding Ages being a Collection of the Writings of the aforesaid Author, for the Benefit of Posterity* (Llundain, 1658); Joseph Besse, *A Collection of the Sufferings of the People called Quakers for the Testimony of a Good Conscience, From the Time of Their Being First Distinguished by that Name in the Year 1650, to the Time of the Act, Commonly Called the Act of Toleration, Granted to Protestant Dissenters in the First Year of the Reign of King William the Third and Queen Mary, in the Year 1689* (Llundain, 1753); Richard Davies, *An Account of the Convincement, Exercises, Services, and Travels, of that Ancient Servant of the Lords, Richard Davies etc.* (Llundain, trydydd argraffiad, 1771); John Humphreys Davies, 'Y Crynwyr yng Nghymru', *Y Traethodydd* (1913); W. J. Gruffydd, 'Morgan Llwyd a Llyfr y Tri Aderyn', *Y Cofiadur: Sef Cylchgrawn Cymdeithas Hanes Annibynwyr Cymru*, rhif 3 (Maw. 1925);

I.

Cynhyrfwyr, dychanwyr a cheidwadwyr, 1789-1815

Croesawyd y gri o *Liberté, égalité a fraternité* oddi draws y culfor gyda brwdfrydedd gan radicaliaid ac eraill fel toriad gwawr o newid yn ymddangos ar y gorwel. I'r garfan fwy ceidwadol, codwyd ddim byd llai nag arswyd arnynt. Ychwanegwyd at eu galar pan gyhoeddwyd gwaith Tom Paine, *Rights of Man*, mewn dau ran ym 1791 a 1792 fel ymosodiad ar ddehongliad ceidwadol Edmund Burke o'r Chwyldro yn Ffrainc. Yn fwy na dim, gosododd gwaith Paine sylfaen ddeallusol i herio'r awdurdodau mewn gwlad ac Eglwys. Ymosodwyd ar Eglwysi Sefydledig ('The Church established by Law' fel y galwyd hwy) fel ffactor llygredig mewn crefydd. Gan ddefnyddio America fel model lle nad oedd yna Eglwys Sefydledig, honnwyd, 'Take away the law-establishment, and every religion reassumes its original benignity'.¹⁵ Cyfeiriodd at sut yr oedd yr Eglwys yn Ffrainc wedi ei diwygio, ac yn enwedig at ymrwymiad y clerigwyr tlotaf mewn ymateb i weithredoedd yr Esgobion a'r offeiriad mwy ariannog.¹⁶

Nid oedd gan Paine fawr o feddwl o'r degymau ychwaith, 'that source of perpetual discontent between the tythe-holder and the parishioner', gan lawenhau eu bod wedi eu diddymu yn Ffrainc.¹⁷ Yr oedd y degwm (*le dîme*) yn biler pwysig o gyllid i'r Eglwys yn Ffrainc; oddeutu dwy ran o dair o'i hincwm yn ôl un ffynhonnell.¹⁸ Yr oedd y gyfundrefn degymol yno yn hafal i'r un yng Nghymru a Lloegr o ran ei chymhlethdod.¹⁹ Gwelwyd llifeiriant o ymgyfreithiadau o barthed y

Margaret James, 'The political importance of the tithes controversy in the English Revolution, 1640-60', *History*, cyf. xxvi (1941); Barry Reay, 'Quaker opposition to tithes 1652-1660', *Past and Present*, cyf. 86 (1980); Gareth Wyn, *Blynyddoedd y Cythrwfl, 1603-1660* (Llanrwst, 1983); G. M. Ditchfield, 'Parliament, the Quakers and the tithe question, 1750-1850', *Parliamentary History*, 4 (1985). Geraint H. Jenkins, *The Foundations of Modern Wales 1642-1780* (Rhydychen, 1987); John R. Knott, 'Joseph Besse and the Quaker culture of suffering,' yn Thomas N. Corns a David Loewenstein (gol.), *The Emergence of Quaker Writing: Dissenting Literature in Seventeenth-Century England* (Llundain, 1995); Richard C. Allen, *Quaker Communities in Early Modern Wales: From Resistance to Respectability* (Caerdydd, 2007).

¹⁵ Thomas Paine, *The Rights of Man: Being an Answer to Mr. Burke's Attack on the French Revolution, Vol 1* (Llundain, 1791), t. 81.

¹⁶ *Ibid.*, t. 77

¹⁷ *Ibid.*, tt. 77-78 ac 80.

¹⁸ James Lowth Goldsmith, *Lordship in France 1500-1789* (Efrog Newydd, 2005), t. 60.

¹⁹ John McManners, 'Tithe in eighteenth-Century France: a focus for rural anticlericalism', yn D. Beales a G. Best (gol.), *History, Society and the Churches: Essays in Honour of Owen Chadwick* (Caergrawnt, 1985), tt. 147-168; John McManners, *Church and Society in Eighteenth Century France: Volume 1: The Clerical Establishment and its Social Ramifications* (Rhydychen, 1998), tt. 122-140; Joseph Goy, 'The tithe in France and elsewhere', yn Emmanuel Le Roy Ladurie a Joseph

degwm erbyn canol y ddeunawfed ganrif, a daeth y gwrthwynebiad yn fwy llym yn y de am gyfnod o ugain mlynedd cyn y chwyldro.²⁰ Er mai diwygio'r degwm oedd y galwad cyffredinol yn y *cahiers*, eithr am bymtheg ffurflen a alwodd am lwyrr ddiddymiad, ni lwyddodd yr hen daliad 'ffiwddal' hwn i oroesi'r Chwyldro Ffrengig, yn ei ffurf hynafol o leiaf.²¹ Yn ffurfiol fe ddiddymwyd y degwm yn Ffrainc ar 4 Awst 1789. Ond gan mai cymhlethdod oedd nodwedd amlycaf y degwm, yn ogystal ag addewid y Cynulliad Cenedlaethol i ategu hawliau eiddo, nid oedd diddymu'r degwm yn orchwyl mor syml â hynny.²² Pa fodd bynnag, ar 2 Tachwedd 1789 dadwysgwyd y degwm o'i uwchseiniau crefyddol, a daeth eiddo'r Eglwys dan 'warediad y Genedl'.

A gafodd tynged y degwm a'r Eglwys Sefydledig yn Ffrainc yn ystod y Chwyldro unrhyw effaith ar agweddau'r Cymry ynghylch y degymau? Yn sicr nid oedd yna ddiffyg trafodaeth ynglŷn â'r taliad, boed mewn pamffledi gwleidyddol, erthyglau yn y cylchgronau cynnar, baledi, anterliwtiau neu farddoniaeth. Y mae ein dealltwriaeth o effaith y Chwyldro Ffrengig ar Gymru wedi'i ehangu'n ddirfawr yn ddiweddar o ganlyniad i ffrwyth ymchwil prosiect 'Cymru a'r Chwyldro Ffrengig' yn y Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru.²³ Gellid olrhain tarddiad dadleuon hyddysg ynglŷn â'r degwm yng Nghymru Fodern i'r Ymneilltuwyr Rhesymol (*Rational Dissenters*) hynny a gafodd eu dylanwadu gan y chwyldroadau yn America a Ffrainc. Fel y dywed Geraint H. Jenkins, 'Am y tro

Goy (goln.), *Tithe and Agrarian History from the Fourteenth to the Nineteenth Century* (Caergrawnt, 1982), tt. 14-16. Yr oedd meddianwyr lleyg (*dimes inféodées*) yn nodwedd o'r gyfundrefn ddegynnol yn Ffrainc hefyd. O'r 719 o blwyfi yn Esgobaeth Poitiers, roedd oddeutu 114 gyda meddianwyr lleyg.

²⁰ Un o'r rhesymau pennaf am hyn oedd y ffaith nad oedd yna opsiwn amgen o gyllid yn y de ar wahan i'r degwm. Felly, roedd clerigwyr yr Eglwys yno yn fwy gorthymus wrth fynnu eu degymau. McManners, 'Tithe in Eighteenth-Century France', tt. 147, 165-167.

²¹ Roger Chartier, *The Cultural Origins of the French Revolution* (1991; argraff. 2004), tt. 147-148.

²² Talwyd y degwm i'r Eglwys ym 1789, i'r Genedl ym 1790 ac wedi hynny, crëwyd yr hyn a alwyd yn 'neo-tithe', neu 'bourgeois tithe'. Yn ymarferol, y perchnogion preswyl a elwodd fwyaf o'r drefn newydd, tra fod tenantiaid yn dal i orfod talu'r 'neo-tithe', sef cyfwerth ariannol y degwm, i'w landlordiaid yn y rhent. Erbyn 1836 roedd y taliad hwn wedi diflannu o orllewin Ffrainc, tra fod o wedi dal ymlaen mewn rhai mannau yn y de orllewin nes yr 1890au. Duncan Gallie, *Social Inequality and Class Radicalism in France and Britain* (Caergrawnt, 1983), t. 208; P. M. Jones, *The Peasantry in the French Revolution* (Caergrawnt, 1988), tt. 94-102; Sylvia Neely, *A Concise History of the French Revolution* (Plymouth, 2008) t. 173; François Furet, 'Night of August 4', yn François Furet a Mona Ozouf (gol.), *A Critical Dictionary of the French Revolution* (1989), tt. 110-111.

²³ Mary-Ann Constantine a Dafydd Johnston (gol.), *Footsteps of Liberty and Revolt: Essays on Wales and the French Revolution* (Caerdydd, 2013); Marion Löffler, *Welsh Responses to the Revolution: Press and Public Discourse, 1789-1802* (Caerdydd, 2012); *Idem.*, *Political Pamphlets and Sermons from Wales 1790-1806* (Caerdydd, 2014); Ffion Mair Jones, *Welsh Ballads of the French Revolution: 1793-1815* (Caerdydd, 2012); Cathryn A. Charnell-White, *Welsh Poetry of the French Revolution, 1789-1805* (Caerdydd, 2012).

cyntaf ers dros ganrif a hanner clywid cwynion yng Nghymru ynglŷn â gormes tîrfeiddianwyr, twyll gwŷr y gyfraith, anghyfiawnder y degwm, annhegwch yr etholfraint a ffolindeb rhyfel'.²⁴ 'Politics in Wales', meddai Gwyn A. Williams, 'began with the American Revolution'.²⁵

(i) Y Pamffledi

Yn gyffredinol gwelir *Seren Tan Gwmmwl* (1795) gan John Jones (Jac Glan y Gors) fel rhyw fath o fersiwn Cymraeg o waith Tom Paine. Yr oedd ei gynnwys gwrth-monarchiaeth yn ddigon fflamboeth i beri Jones i honni yn ei ail bamffled, *Toriad Dydd* (1797), y bod 'locistiaid' (h.y. gweithredwyr yr adwaith) yn 'cerdded o'r naill dŷ i'r llall, i losgi y llyfr a ysgrifenis'.²⁶ Ymysg y cynnwys dadleuol yr oedd beirniadaeth finiog o'r degwm. Darluniodd Glan y Gors y degwm fel baich anferthol ar ysgwyddau'r tlawd, 'a phan welo dyn fod cnafiaid segyrllud wedi ei drethu a'i ddegymmu ef allan o'i gaban, a fod rhaid iddo o herwydd ei onestrwydd fyned i grwydro am damaid o fara'.²⁷ I wrthgyferbynnu â'r ddelwedd hwn, cyfeiriwyd at y ffaith nad oedd yn rhaid talu'r degymau trwy'r gyfraith yn yr America, ac '... y mae'r America yn rhydd i bob dyn addoli fel ag y mynno, a thalu at y grefydd a fynno ...'.²⁸ Yr oedd y ddelwedd ddelfrydol hon o'r America fel gwlad lle nad oedd yna ddegwm nag Eglwys Wladol yn un hir oesol.

Yr oedd Morgan John Rhys, pregethwr gyda'r Bedyddwyr a sylfaenydd *Y Cylchgrawn Cyn-mraeg/Cymraeg*, yn edmygu, yn ei dyb ef, 'gwladwriaeth ddelfrydol' yr Amerig.²⁹ Yn rhifyn Awst 1793 o'r *Cylchgrawn Cyn-mraeg*, cyfieithwyd a selwyd cynnwys yr erthygl, 'Ychydig o Ddesgrifiad [sic] Kentucky, y Dalaith Newydd yn America' o *A Topographical Description of the Western Territory of North America* (1792) gan Gilbert Imlay.³⁰ Ceir yma'r gri am gydraddoldeb crefyddol, 'Mai gosod pawb enwau (neu sectau) yn gyd-radd yw'r

²⁴ Geraint H. Jenkins, 'Rhyfel yr Oen: y mudiad heddwch 1653-1816', *Cof Cenedl*, I (1986), t. 91.

²⁵ Gwyn A. Williams, *When was Wales?* (Llundain, 1985), t. 167.

²⁶ John Jones (Jac Glan y Gors), *Toriad y Dydd; neu Sylw Byr ar Hen Gyfreithiau ac Arferion Llywodraethol: Ynghyd a Chrybwylliad am Freintiau Dyn &c. Wedi ei Ysgrifennu er Mwyn y Cymry Uniaith* (Llundain, 1797), t. 23.

²⁷ John Jones (Jac Glan y Gors), *Seren Tan Gwmmwl, neu Ychydig Sylw ar Frenhinoedd, Escobion, Arglwyddi, a Llywodraeth Lloegr yn Gyffredin. Wedi ei Ysgrifennu er Mwyn y Cymru Uniaith* (Llundain, 1795), t. 10.

²⁸ Jones, *Seren Tan Gwmmwl*, t. 38

²⁹ J. J. Evans, *Morgan John Rhys A'i Amserau* (Caerdydd, 1935), tt. 35-36.

³⁰ Löffler, *Press and Public Discourse*, troednodyn 81, t. 305.

ffordd gyntaf i ddinystrio pob math o genfigen, cynnen, rhagfarn, erledigaeth, ac anioddefgarwch ...³¹ Ymhelaethodd ar hyn yn ei bamffled *Y Drefn o Gynnal Crefydd yn Unol Daleithiau America* (1794). Yr oedd y llesteiriant a deimlodd ef o ran y sefyllfa ym Mhrydain o'i gymharu â'r un yn America yn glir i weld, 'Ni all yr Ymneillduwyr, yn y deyrnas hon, mwynhau un fwydd o ymddiried, anrhydedd, neu elw, heb gyd-ymffurfio â'r eglwys Sefydliedig!!!'³² Yn wir, cyn i'r flwyddyn 1794 ddod i derfyn, yr oedd Morgan John Rhys wedi allforio i America. Nid oherwydd erledigaeth, ond drwy ewylllys ef ei hun, ac yno bu hyd ei farwolaeth ym 1804.³³

Cefnogi cydraddoldeb crefyddol a wnâi David Jones hefyd dan y ffug-enw 'The Welsh Freeholder'. Ysgrifennodd nifer o bamffledi i amddiffyn ei gyd Undodwr, Joseph Priestly yn erbyn ymosodiadau Esgob Tyddewi, sef Samuel Horsley.³⁴ Datganodd yn ei bamffled *Strictures on a Pamphlet Entitled, Thoughts on the Late Riot at Birmingham* (1791):

... you compel us to it [Ymneilltuwyr yn ymyrryd ym musnes yr Eglwys] by exacting from us your fees, your dues, and tythes.³⁵ We are not without hopes [sic] that the members of the Church of England will in time themselves discern the unfairness of requiring other sects to contribute to the support of their religion; that they will come forward and determine to support their own faith without the helps [sic] of those who prefer another.³⁶

Beth bynnag oedd y sefyllfa gyfreithiol o ran gweinyddiaeth y degwm, dyma, yn ei hanfod, oedd wrth wraidd y cwyn Ymneilltuol yn erbyn y degymau hyd at ac yn ystod 'Rhyfel y Degwm', ac fe'i glwyd mor gynnar â'r 1790au.

³¹ *Cylchgrawn Cymraeg*. Am Awst 1793 (Rhifyn III), tt. 164-6. Atgynhyrchwyd yn Löffler, *Press and Public Discourse* (2012), t. 210.

³² Morgan John Rhys, *Y Drefn o Gynnal Crefydd yn Unol Daleithiau America ynghyd â Darluniad byr o Kentucky ... a chyngor i'r Cymry* (1794), t. 9.

³³ Evans, *Morgan John Rhys A'i Amserau*, tt. 34-44.

³⁴ Gw. rhestr o'i lythyrau yn J. J. Evans, 'David Jones', yn *Y Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940*, t. 424.

³⁵ Davies Jones (The Welsh Freeholder), *Strictures on a Pamphlet Entitled, Thoughts on the Late Riot at Birmingham* (Llundain, 1791), t. 25.

³⁶ *Ibid.*, t. 27.

Llun 1.1 [Offeiriad. Nid Ne ydyw lle. dyn llwm. Oni ddwg i ni. ddegwm.]

Ffynhonnell: Thomas Roberts, *Cwyn yn Erbyn Gorthrymder* (Llundain, 1798;
adarg. gan Wasg Prifysgol Cymru, Caerdydd, 1928)

[Nodyn: Trwy ryw wall, fe dorrwyd geiriau'r 'offeiriad' allan o'r adargraffiad. Ychwanegwyd hwy yma.]

Ond odid mai Thomas Roberts, Llwynrhudol, a roddodd y sylw mwyaf i'r degymau yn ei bamffled *Cwyn yn Erbyn Gorthrymder* (1797). Yn ôl Marion Löffler, *Cwyn* oedd, 'the most original radical pamphlet to emerge from Wales in response to the French Revolution'.³⁷ Y mae yna sawl rheswm am hyn. Yn gyntaf, gwelwyd y ddyfais arloesol o gyfuno llun dychanol ag ysgrifen yn y Gymraeg. Yn amlwg yr oedd gwawdio clerigwyr yr Eglwys a'r degymau drwy ddarluniau dychanol mewn bri ym 1797, oblegid gwelwyd cartŵn enwog Isaac Cruikshank, 'Clerical Anticipation', yn yr un flwyddyn. Yn y darlun hwnnw gwelir clerigwr blonegog yn cyfrif gyda'i ddwylo wrth lygadrythu'r moch oedd am ei gymryd, gyda'r hwch yn sylu'n filain arno.

Portread cyffelyb a geir yn y *Cwyn* hefyd (llun 1.1). Portreadwyd y person fel un boliog i ddynodi hunanfodhad, â'i geffyl blinedig, dichon i gynrychioli'r degwm dalwyr, yn gwegian dan bwysau'r holl ddegymau: wyau, ieir, moch bach a gwyddau. Yn y cefndir gwelir meindwr eglwys y plwyf. Ar y naill law, y mae'n ffordd cyfrwys o gysylltu'r clerigwr 'barus' â'r Eglwys Sefydliedig. Ar y llall, gellid symboleiddio'r ffaith fod eglwys y plwyf wedi ei gwthio i'r cefndir fel petai, gan mai'r degwm oedd y peth pwysicaf ym mywyd y parson. Symbol crefyddol amlwg arall ydyw'r degfed gorchymyn ar y llechfaen, 'Na chwennych ... na dim a'r sydd eiddo dy gymmydog', sydd naill ai yn ffordd cyfrwys o farnu anghysondeb yn y Beibl, neu yn dangos ymddygiad 'anghristnogol' y clerigwr drwy wthio'r gorchymyn hwn i'r eithaf gan rodresa'i eiddo (y degymau) yn gyhoeddus. Wrth gwrs, y mae hyn yn agored i wahanol ddehongliadau.

I gyferbynnu â'r clerigwr, cawn y ddau ffigur gwasaid yn gwargrymu yn ei bresenoldeb. Trosiad gweledol ydynt o'r hyn a dywedodd Thomas Roberts yn ei bamffled, sef ei ddicter o:

gweled hen bobl diniwaid, cystal ag ieuanc, pan gyfarfyddant, neu pan welont glamp o Esgob neu Berson, maent o fewn cant llath cyn dyfod atto yn dechrau ymgrymu, a gosgwyddo eu penau a'u cyrff hyd lawr.³⁸

³⁷ Löffler, *Press and Public Discourse*, t. 37.

³⁸ Thomas Roberts, *Cwyn yn Erbyn Gorthrymder, Yn ghyd a Sylwiadau ar Hawl Esgobion, a'u Gweinidogion i Ddegymau &c. Wedi ei Ysgrifenu er Mwyn Gwerinos Cymru* (Llundain, 1798; adarg. gan Wasg Prifysgol Cymru, Caerdydd, 1928), t. 25.

Agwedd gwyrddroadol, gellid dadlau, o ran herio'r drefn a'r hierarchaeth o fewn y gymdeithas. Cwblheir y symbolaeth o 'ormes' gan y chwip yn llaw'r offeiriad, a ellir fod yn gyfeiriad at gaethwasiaeth, sef bod sefyllfa'r Cymry o ganlyniad i wladychiaeth, yn gyfystyrol â bod yn gaethweision. Dyma'r elfen sydd yn gwneud gwaith Roberts mor wreiddiol yn ei amser, y mynegiant cynnar hwn o ryw fath o genedlaetholdeb Cymreig a'r pwyslais ar gwynion Cymreig.³⁹

Yr oedd cynnwys y Cwyn mor ddamniol â'r llun. Cawn y feirniadaeth gymdeithasol:

Mae tri math o ddyinion yn y wlad hon nad oes angenrhaid *mawr* am danynt; (oddieithr fod dynion yn mawr chennych byw dan orthrymder, a than balfau y rhai'n ag fydd ar bôb achlysur yn eu twyllo o'r hyn a feddant) a rhai'n yw'r *Personiaid*, y *Doctoriaid*, a'r *Cyfreithwyr*. Efugus y person yw cymmeryd gofal efo *eneidiau* dynion, one mae yn *rhaid* iddo gael y degymau!⁴⁰

Ymosodwyd ar offeiriaid yr Eglwys hefyd am hyrwyddo cwrw a meddwdod pan 'gosodwyd' y degwm.⁴¹ Y mae yna rhywbeth yn hyn, fel y gwelir y mhennod 2. Ac hyd yn oed erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, yr oedd yna gysylltiad agos rhwng yr offeiriaid, cwrw a'r degwm.⁴² Yn ogystal â hyn ceir y cyfeiriad diroddol i Babyddiaeth ac i wreiddiad y degwm fel taliad gorfodol yn y gorffennol.⁴³ Ond nid cwyno yn unig a wnâi Roberts. Fe gynigodd modd o *wneud* rhywbeth ymarferol ynglŷn â'r degymau. Awgrymodd y dylai pob plwyf yng Nghymru, yn ogystal â Lloegr a gwledydd eraill, gynnal festri er mwyn trafod a dylid talu'r degwm neu beidio.⁴⁴ Ei obaith, afrealistig gellir dadlau yn ei oes ef, oedd i bob plwyf wrthod talu'r degwm nes peri'r Llywodraeth i wneud rhywbeth o'i gylch.

Ceir triniaeth o barthed faint o anniddigrwydd oedd yna ym mhlwyfi Cymru ynghylch y degwm yn y man. Ond nid oes yna reswm i gredu fod cynllun Roberts wedi ei fabwysiadau dros Gymru gyfan, os o gwbl. Ym 1806 cawn ef yn dal i achwyn ynghylch y degymau, a cheir dinc o siomedigaeth yn ei eiriau pan ddywedodd, 'Y'r wyf yn credu bod yr Eglwyswyr yn cael, ryw ffordd neu gilydd, yn

³⁹ Löffler, *Press and Public Discourse*, tt. 35-38.

⁴⁰ Roberts, *Cwyn yn Erbyn Gorthrymder*, t. 15.

⁴¹ *Ibid.*, tt. 27-28.

⁴² Gw. Pennod II a phennod IV.

⁴³ Roberts, *Cwyn yn Erbyn Gorthrymder*, t. 39.

⁴⁴ *Ibid.*, tt. 48-49.

bur agos i'r chweched o lafur y rhai fydd *mor wirion* [pwyslais yr awdur] a thalu degymau, yn lle y ddegfed'.⁴⁵ Rhannwyd ei deimlad o lesteiriant gan Morgan John Rhys ychydig cyn iddo ymadael am yr Amerig.⁴⁶

Y mae'r pamffled *Religion in Danger* (1795) yn un hynod. Yr oedd ei gynnwys yn ddigon gwyrddroadol i beri'r Parchg. Peter Bailey Williams i nodi ar glawr ei gopi ef, 'A Jacobin Pamphlet'.⁴⁷ Yn ôl pob tebygolrwydd, y Parchg. Dr Charles Symmons, rheithor Narberth a Llanbedr Efelfre oedd yr awdur.⁴⁸ Yr hyn oedd yn gofidio Symmons oedd 'llygredigaeth' crefydd, yn enwedig yr Eglwys Wladol, ac iddo ef, dymunol fuasai dychwelyd i grefydd fwy cyntefig a phur.⁴⁹ Yn naturiol, yr oedd yn rhaid ystyried y degymau o fewn y cyd-destun hwn. Ond nid ydyw'n hollol eglur beth oedd gweledigaeth Symmons ynghylch hwy. Ar y naill law, yr oedd o'r farn y dylid darganfod modd, 'less odious' na'r degymau i gyflogi clerigwyr yr Eglwys.⁵⁰ Ar y llall, ac yn sgil ei feirniadaeth lem o ymddygiad gwŷr lleyg, addefodd y buasai'n well pe bai'r degymau lleyg yn nwylo'r periglorion plwyfol i wario'n lleol.⁵¹ Cymhlethwyd pethau hefyd oherwydd y ffordd y gorffennodd ef ei lith. Datganodd, o bosib i leithio'r naws radicalaidd yn ei waith, ei barodrwydd i amddiffyn, 'our liberties, our properties, and our country, however our political opinions may vary'.⁵² O ran amddiffyn, 'our properties', a olygai hyn nad oedd ef am weld y degwm yn cael ei ddiddymu?

Yr oedd archddiacon Meirionnydd, y Parchg. Peter Williams, Llanbedrog, yn llawer mwy cadarn a diffuant yn ei driniaeth o'r degwm. Yn ei bamffled, *A Short Vindication of the Established Church* (1803), neilltuodd adran gyfan i ymdrin ar degwm.⁵³ Priodolodd y 'gelyniaeth ar casineb' ymysg yr Ymneilltuwyr a'r 'declaimers among the Methodists' tuag yr Eglwys Wladol', 'partly from jealousy, partly also from the envy they feel on account of the maintenance allowed to the

⁴⁵ Thomas Roberts 'Arvonius', *Amddiffyniad y Methodistiaid* (1806), t. 10.

⁴⁶ Gw. t. 31.

⁴⁷ Löffler, *Political Pamphlets and Sermons*, t. 33.

⁴⁸ Ibid.

⁴⁹ Charles Symmons, *Religion in Danger: Addressed to the Archbishop of Canterbury, by the Curate of Snowdon; and Submitted to the Consideration of the Clergy of all Denominations* (Llundain, 1795), t. 17.

⁵⁰ Ibid., t. vi.

⁵¹ Symmons, *Religion in Danger* tt. 55-56.

⁵² Ibid., t. 62.

⁵³ Peter Williams, *A Short Vindication of the Established Church* etc. (Rhydychen, 1803), tt. 89-118.

Established Clergy'.⁵⁴ Yr oedd yr un mor hallt yn ei driniaeth o glerigwyr yr Eglwys hefyd a oedd wedi lleisio eu pryderon ynglŷn â'r degwm.⁵⁵ Yn ogystal â hyn, ni chredodd Williams fod gan y tenantiaid reswm i gwyno:

If the Tenant complains, his complaints must be still more unreasonable, more invidious, and absurd. He voluntarily takes his farm liable to the payment of Tithes; and it can make little difference to him, whether he pays Tithes to his Rector, or a rent proportionably greater to his Landlord: for it is an undoubted fact, that wherever lands are Tithe-free, the value of the tenth proportion [is] let a great deal higher to the tenant.⁵⁶

Ceir triniaeth fwy helaeth o barthed cymhlethdod y gyfundrefn degymol nes ymlaen yn y bennod. Ond y mae'r arsylliad uchod yn adlewyrchu'r dryswch a fu o ran sut a faint o ddegwm oedd i'w gasglu. Mewn gwirionedd, ni ddaeth pethau yn hollol eglur o ran sefyllfa'r tenantiaid a'r degwm nes 1891.

(ii) Y Cylchgronau

Yr un fath o gwynion ynglŷn â'r degymau a gawn yn y cylchgronau gwleidyddol cynnar hefyd. Nid syndod ydyw canfod hwy yng nghylchgrawn Morgan John Rhys, sef *Y Cylch-grawn Cymraeg (Y Cylchgrawn Cymraeg* erbyn y rhifau olaf) a redodd rhwng Chwefror 1793 a Chwefror 1794.⁵⁷ Er bod y cylchgrawn wedi rhoddi'r cyfle i bawb, boed yn radical neu'n geidwadwr, i leisio'i barn, heb os cylchgrawn radical oedd y *Cylch-grawn Cymraeg*. I roi blas ar y fath o syniadau radicalaidd ynghylch yr Eglwys Sefydledig gan ambell i radical, dyma ddyfynu barn 'Philo Rectum', 'Y mae rhyddid dinasaidd ac eglwysaidd yn wastad yn cyd-fyned; ac yn sefyll, neu syrthio gyd â'u gilydd'.⁵⁸ Ni welodd pam y dylid cael Eglwys Sefydledig trwy gyfraith.⁵⁹ Aeth ymlaen i ddatgan, 'Gwell o lawer fyddai iddynt gynghori'r llywodraeth, i roddi'r holl arian sydd yn myned ar gynal esgobion ac

⁵⁴ *Ibid.*, t. 89. Rhoddodd Williams sylw neilltuol i'r Crynwyr o ran eu gwrthwynebiad moesol i'r degwm: 'The Quakers look upon Tithes as iniquitous and sinful, and therefore object to pay them'. Troednodyn, t. 92.

⁵⁵ *Ibid.*

⁵⁶ Williams, *A Short Vindication of the Established Church*, t. 92.

⁵⁷ Gw. Hywel M. Davies, 'Morgan John Rhys, "y Cylchgrawn Cymraeg," a'r Cymry uniaith,' *Efrydiau Athronyddol*, cyf. 62 (1999), tt. 40-54; Löffler, *Press and Public Discourse*, tt. 179-224.

⁵⁸ *Cylchgrawn Cymraeg: Neu, Drysorfa Gwybodaeth*. Am Awst 1793 (Rhifyn III), tt. 147-9.

Atgynhychwyd yn Löffler, *Press and Public Discourse*, t. 206.

⁵⁹ *Ibid.*

offeiriaid i dalu dyled y goron, rhag ofn i'r trethi fyned yn rhy drwm i'r werin i'w dwyn ...'⁶⁰ Ceir yma gysyniad diddorol o ysbeilio'r Eglwys o'i degymau er mwyn lleihau dyled y wlad.

Cafodd y degymau sylw neilltuol yn rhifyn Awst y cylchgrawn dan y bennod boblogaidd ond ddyrys hwnnw, 'Hanes Degymau'.⁶¹ Cysylltwyd y degymau gyda'r cysyniad o 'ddirywiad' mewn crefydd o'i ddechreuad 'pur', ac yr oedd ymddangosiad y degymau fel taliad gorfodol yn adlewyrchu'r 'malltod' hyn.⁶² Cyfeiriwyd hefyd at arfer darllen y bobl gyffredin, ac nid syndod ydyw'r arsylliad ei bod hwy'n hyddysg iawn yn y Beibl, 'Y mae'r cyffredin bobl yn ddiweddar yn darllen cymaint ar y testament newydd, fel ag y maent yn gweled na wiw iddynt geisio profi eu hawl i ddegymau oddiar un sail arall ond cyfreithiau eu gwlad ...'⁶³ Ys dywedir Gwyn Alf Williams, yr oedd iaith wleidyddol y cyfnod yn, 'steeped in the Bible', iaith gyfarwydd i'r bobl cyffredin.⁶⁴ Efallai mai'r modd gorau i labyddio'r degwm oedd i'w bortreadu fel rhywbeth ansgrythurol. Yr oedd hyn yn wir am yr Eglwys Sefydledig hefyd.

Yr oedd 'Peris', sef y Parchg. Peter Bailey Williams, eisoes wedi amddiffyn yr Eglwys Wladol yn erbyn ymosodiadau y radicaliaid yn y *Cylchgrawn Cyn-mraeg*.⁶⁵ Credodd bod yna sylfaen hanesyddol dilys rhwng yr Eglwys Sefydliedig, ond wrth gwrs, yr oedd yn rhaid cael ymateb i wfftio'r ddamcaniaeth hyn. O dan y pennawd, 'Atteb i Amddiffynwr [sic] y Grefydd Sefydliedig,' ceir y gwrthateb diffuant hwn:

... nad yw'r briodas hon ddim yn gyfreithlon yn amgen ni buasai'r Ysbryd Glân yn yr ysgrythur ddim yn galw'r eglwys yn ei dirywiaeth, a hynny cyn gynted ag yr ymgysylltiodd â'r llywodraeth wladol, yn buttain, a phuttain fawr; ac fe elwir eglwys Rhufain yn fam putteiniaid yr holl fyd.⁶⁶

⁶⁰ *Cylchgrawn Cymraeg: Neu, Drysorfa Gwybodaeth*. Am Awst 1793 (Rhifyn III). Atgynhyrchwyd yn Löffler, *Press and Public Discourse*, t. 207.

⁶¹ *Cylchgrawn Cyn-mraeg*, Chwefror (1793), tt.150-54

⁶² Löffler, *Press and Public Discourse*, t. 45. Gw. hefyd 'Hanes Crefydd o ran ei Dirywaeth

⁶³ *Cylchgrawn Cyn-mraeg*, Chwefror (1793) t, 150, '... ac er clod i lawer o honynt – y maent am ddiddymu'r hên arfer lygredig a chynnenllyd!'

⁶⁴ Gwyn Alf Williams, *Artisans and Sans-Culottes: Popular Movements in France and Britain during the French Revolution* (Llundain, 1968), tt. 12-13.

⁶⁵ *Y Cylchgrawn Cymraeg*, cyf. V, am Ionawr a Chwefror (1794), tt. 245-248.

⁶⁶ *Ibid.*, t. 260.

Atebodd Williams ymosodiadau o'r fath mewn llith yn *Y Geirgrawn* ym 1796. Cwestiynodd teyrngarwch y radicaliaid, nid yn unig i'r Brenin, ond hefyd i grefydd drwy labelu hwy fel canlynwyr Tom Paine:

Mae canlynwyr *Tom Paine* ... yn llwyr elyniaethol i Frenhinoedd, Esgobion, Offeriadon, Degymmau, a chrefydd sefydledig, (ie yn fy marn i, y maent yn cashau, ac yn gwrthwynebu pob math o grefydd a Duwioldeb ...)⁶⁷

Ymosodiad oedd hwn ar *Seren Tan Gwmmwl*, ac yn annhebyg i Jac Glan y Gors ac eraill, ni welodd Williams ddim byd amheus nag anghristionogol o barthed talu'r degymau at gynhaliaeth y weinidogaeth:

Ynghylch Degymmau, mae'n ddiamau mae hwn oedd y modd a arferid ymhlith yr Iddewon cyn dyfodiad ein Iachawdwr; ac ymysg y crist'nogion wedi ei enedigaeth; i dalu gweinidogion yr Efengyl ...⁶⁸

Gosododd y dadleuon cynnar hyn rhyw fath o gynsail i'r dadleuon a fu drwy gydol y bedwaredd ganrif ar bymtheg ynglŷn â'r degymau a'r Eglwys Sefydledig. Y mae Marion Löffler yn sicr yn gweld cydlyniaeth yma o ran y drafodaeth wleidyddol, 'Precedents set and ideas formulated in the 1790s would find expression in the golden age of Welsh publishing ... they would run through the anti-tithe agitation and literature which climaxed in the 1880s tithe wars of Wales'.⁶⁹

(iii) Barddoniaeth

Er coethder y cyhoeddiadau mwy difrifol, y mae yna reswm i gredu mai'r cynhyrchion dychanol, a'u hawduron, a arhosodd yng nghof y Cymry drwy gydol y bedwaredd ganrif ar bymtheg.⁷⁰

Dyma enghraifft o rigwm bach gwrthglerigol ei naws:

Dyma gae o wenith gwyn,
Yn tyfu i fyny'n raddol,
A degfed ran o gnwd y maes

⁶⁷ *Y Geirgrawn: Neu Drysorfa Gwybodaeth*. Am Fehefin, 1796. Rhif V. Atgynhyrchwyd yn Löffler, *Press and Public Discourse*, t. 279.

⁶⁸ *Ibid.*, t. 281.

⁶⁹ Löffler, *Press and Public Discourse*, t. 70

⁷⁰ Yn ôl R. T. Jenkins, aeth dynion megis Morgan John Rhys yn angof am bron i ganrif gyfan. Jenkins, *Hanes Cymru yn y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg*, t. 24.

I gadw gwas y diafol.⁷¹

Yn gyffredinol, atodwyd enw Twm o'r Nant fel ei awdur, er awgrymwyd enw Jac Glan-y-gors hefyd.⁷² Addaswyd y pennill bach o le i le i weddu â thafodiaith yr ardal, ac mae'n arwyddocaol ei fod wedi goroesi ar hyd treigl y blynyddoedd ar lafar gwlad, hyd yn oed hyd heddiw.⁷³ Priodolwyd y ddwy linell gyntaf i offeiriad yr Eglwys, wrth iddo fwrw ei lygaid ar gae o wenith. Atodwyd y ddwy linell lidus olaf i Dwm o'r Nant, i Ymneilltuwr neu bregethwr Ymneilltuol.⁷⁴ Ond gellir amau mai lluniad o gyfnod diweddarach ydyw'r awgrym olaf hyn, cyfnod lle yr oedd y 'frwydr' dros ddatgysylltu'r Eglwys yng Nghymru wedi poethi cryn dipyn a'r hinsawdd wleidyddol wedi newid yn gyfan gwbl. Yn amlwg yr oedd y pennill bach hwn wedi taro tant ymysg y Cymry cyffredin, oherwydd os na chytunodd hwy a'i neges, ni fuasai wedi goroesi'r blynyddoedd ar lafar gwlad.

Enghraifft ddiddorol arall o gerdd yn cael ei haddasu o gyfnod i gyfnod ydyw *Marwnad i'r Degymau* gan awdur anhysbys. Ni ellir fod yn hollol sicr pa bryd y perfformiwyd y darn gwaith yma yn gyhoeddus am y tro cyntaf, ond cofnododd Evan Evans ambell i bennill ohono yn ei lyfr cyffredin rhywdro yn ystod yr 1790au.⁷⁵ Ymddengys ni chafodd ei gyhoeddi nes 1811, dan y teitl, *Marwnad i'r*

⁷¹ Cyhoeddiad Archifdy Clwyd, *Rhyfel y Degwm* (Penarlâg, 1978), t. 1.

⁷² Nodiadau anghyhoeddedig gan Robin Gwyndaf.

⁷³ Fersiynau eraill:

Dyma gae o wenith gweddol
Yn tyfu i fyny'n raddol.
Ar ddegfed ran yn mynd i mâs
I borthi gwas y Diafol.

Dyma gnwd o wenith graddol
Tyfu i fyny yn rhagorol
Ar bymthegfed ran o'r maes
A aeth i gadw gwas y Diafol.
Huw Thomas, Cefn Brith.

(Nodiadau anghyhoeddedig gan Robin Gwyndaf.)

Dyma gae o wenith rhagorol,
Yn tyfu i fyny'n raddol.
A degfed ran o gnwd y llan
I borthi gwas y diafol.
Lyn Rees, Brynchrug ger Tywyn.

⁷⁴ Pennod anghyhoeddedig gan Robin Gwyndaf, 'Cofio Rhyfel y Degwm yn Llangwm, 1887-1987'.

⁷⁵ Aberystwyth, Llyfrgell Genedlaethol Cymru [LLGC], 8201A, Common Place Book of Evan Evans (Llanina and Castellhywel) – 1790-1797/9.

degymau yn Ffrainc, a ganwyd gan ŵr eglwysig o brofiad galarus ar eu hôl (i'r dôn 'Mentra Gwen' ond odid) er dim ond y teitl mewn gwirionedd sydd yn cysylltu Ffrainc â'i chynnwys.⁷⁶ Erys y pennill gyntaf yr un fath ym mhob fersiwn ohoni:

Mae'r degwm mewn peryglon, beth a wnawn? Beth a wnawn?

Mae gofid ar ein calon, beth a wnawn?

Mae'r bobol yn ei erbyn

A'u golwg fel y gelyn;

Ni cheir mo'r gwenith melyn, beth a wnawn? Beth a wnawn?

Mae hyn yn fyd anhydyn! Beth a wnawn?

A dyma'r pennill olaf:

Ffarwél i'r holl ddegymau, byth y mwy, byth y mwy,

Ni welwn ddim fath ddyddiau, &c.;

Mae miloedd yn galaru

I'w weld e'n cael ei gladdu

A mynd i'r bedd i bydru, &c., &c.

Heb obaith daw e'i fyny, &c.⁷⁷

Llais o safbwynt y Ffrancwyr y ceir yma, y clericwyr yn galaru dros golli'r degymau a'r bobl yn llawenhau yn ei, 'weld e'n cael ei gladdu'. Ond y mae yna ddwy elfen i'r faled: 1) Yr elfen wrth-Babyddol; yr ymfalchïo o weled yr offeiriaid Pabyddol wedi eu hysbeilio o'u degymau, a'r 'Pab nawr bron yn gelain'.⁷⁸ 2) Ond odid ei bod hi'n bosibl mai ffurf gyfrwys ydyw hefyd o estyn y feirniadaeth i Eglwys Lloegr? Taro'r post i'r pared glywed? Mewn un llinell dywedir, 'Mae Babel fawr yn syrthio ...', a Babel wrth gwrs (defnyddwyd Babylon hefyd), oedd y term a briodolwyd i Eglwysi Sefydledig. Ys dywedodd Morgan John Rhys yn ddi-flewin-ar-dafod, 'Os porthir y buttain, nid oes dim lle i ddisgwyl y bydd hi marw. Y mae rhai wedi ymrwymo, na roddant gymmaint a hadling, o'u bodd, mwy na'r Crynwyr, i gynnal Babylon - Sylfaen Babylon yw crefydd sefydledig'.⁷⁹ Ymddangosodd dychangerdd o'r enw 'Can i'r Degwm mewn dull o ymddiddan rhwng yr offeiriad a'r bobl' gan 'A Real

⁷⁶ Ffion Mair Jones, *Welsh Ballads of the French Revolution: 1793-1815* (Caerdydd, 2012), tt. 414-416.

⁷⁷ Atgynhychwyd yn Jones, *Welsh Ballads of the French Revolution*, tt. 300-304.

⁷⁸ Jones, *Welsh Ballads of the French Revolution*, t. 302.

⁷⁹ Morgan John Rhys, *Y Drefn o Gynnal Crefydd yn Unol Daleithiau America ynghyd â Darluniad byr o Kentucky ... a chyngor i'r Cymry* (1794), t. 10.

Reformer' yn y *Y Dysgedydd* ym 1835.⁸⁰ Yn amlwg addasiad ydyw o'r ddau fersiwn blaenorol, canys yr oedd y dull o 'ymddiddan' yn boblogaidd ar y pryd.

Nid ydyw'n syndod bod enw Twm o'r Nant yn gysylltiedig â'r pennill bach ar ddechrau'r adran hwn. Daeth ei enw ef yn gyfystyrol, ymhell ar ôl ei farwolaeth, â dychanu clerigwyr yr Eglwys. Cynhyrchion o safbwynt y person cyffredin oedd yr anterliwtiau a'r baledi, yn 'rhoddi darlun da o arferion, chwaeth, a bywyd y werin'.⁸¹ Yr oedd yna gysylltiad uniongyrchol rhwng yr awdur a'i gynulleidfa, canys fe berfformiwyd yr anterliwtiau a'r baledi yn gyhoeddus o flaen tyrfa o bobl, cyn gwerthu'r cynnwys ymlaen. Yn un o'i anterliwtiau cynharaf, *Pedair Colofn Gwladwriaeth* (1786), barnwyd yr offeiriaid am boeni mwy am eu degymau nag am ofalaeth ysbrydol eu plwyfolion:

Mae un ysgub ddegwm gan ambell Berson,
Yn werthfawrocach nag eneidiau'r holl blwyfolion,
Ran os can' hwy ddim colled yn y degwm cu,
Hwy â'n' i gwerylu'n greulon.⁸²

Ceir neges gyffelyb yn ei anterliwt *Tri Chryfion Byd* (1798) yn yr ymddiddan rhwng 'Tom Tell Tro'th', ac 'Ifan Offeiriad':

Oes pe galynech ffordd y goleuni,
Ond eich gwaith ydyw meddwi a *Hwrio* am wn I,
A'm eich degwm, a chyscu, a diogi.⁸³

Er swynwyd Twm o'r Nant gan y Methodistiaid erbyn diwedd ei oes, ni phallodd ei feirniadaeth o ymddygiad honedig offeiriaid yr Eglwys o barthed y degwm. Yn un o'i weithiau olaf, sef, *Bannau y Byd; neu Greglais o Grogloff* (1808), barnwyd trefniadau'r llysoedd eglwysig yn llym ynglŷn ag achosion o beidio â thalu'r degwm:

Ond y pechod mwya' gorthrwm yw cam attal degwm,
Mae'r personiaid yn chwerw am gospi'r drwg hwnnw;
Pwy bynnag a'i gwnelo bydd perygl o'i 'sgymuno,

⁸⁰ *Y Dysgedydd* (1835), t. 284. Gw. hefyd *Rhondda Leader* (6 Gorffennaf 1901) dan y golofn 'Barddoniaeth'.

⁸¹ R. W. Jones, *Bywyd Cymdeithasol Cymru yn y Ddeunawfed Ganrif* (Llundain, 1931), tt. 128-137.

⁸² Thomas Edwards (Twm o'r Nant), *Pedair Colofn Gwladwriaeth ... Ar Ddull yr hyn a Gyfenwir Interlude* (Caerfyrddin, 1840), tt. 26-27.

⁸³ Thomas Edwards (Twm o'r Nant), *Tri Chryfion Byd, sef Tlodi, Cariad, ac Angau. Yn y Canlyniad o hyn, y dangosir y modd y mae'r Tri yn Gryfion byd* (1789), t. 27.

Fel na byddo'n gymmwys i fynwent nac eglwys,
Nes talu'n lled helaeth y'nghwrt yr esgobaeth;
Ac ar ol iddynt dalu a dyfod drwy hynny,
Dyna hwy allan fel pardwn o'r purdan.⁸⁴

Ceir trafodaeth fwy helaeth o'r llysoedd eglwysig nes ymlaen yn y bennod. Ond ynghylch *Bannau y Byd*, diddorol yw arsylliad Ffion Mair Jones nad oedd yr anterliwt hon, mewn gwirionedd, yn ymarferol o ran ei pherfformio'n fyw.⁸⁵ Yr oedd bri'r anterliwtiau fel modd o ddifyrru'r bobl wedi pallu'n sylweddol erbyn dechrau'r bedwaredd ganrif a'r bymtheg, a'r rheswm traddodiadol am hyn oedd y dyrchafiad mewn crefyddoldeb; yn enwedig dylanwad Methodistiaeth.⁸⁶ Gwelodd Twm o'r Nant nad oedd yr anterliwtiau bellach yn apelio yn eu ffurf perfformiadol-celfyddydol gan fod yna, 'cymaint o gynhyrriad i argraffu llyfrau a dysgu darllen'.⁸⁷ Felly, gwaith ar gyfer gynulleidfa lythrennog oedd *Bannau y Byd*. Yn yr hir dymor, dichon i waith Twm o'r Nant gael fwy o ddylanwad ar y Cymry yn eu ffurf brintiedig nag a gafodd yn ystod oes ei hun. Nid syndod ydyw canfod enw Twm o'r Nant ar wefusau'r Cymry drwy gydol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, os ystyriwn y cynifer o gyhoeddiadau o'i waith a argraffwyd yn y ganrif honno.⁸⁸

Mewn dychangerdd a geryddodd offeiriaid yr Eglwys adeg 'Rhyfel y Degwm', defnyddiodd y dychanwr 'Ysbryd Twm o'r Nant' fel ei ffugenw.⁸⁹ Ar achlysur arall, derbyniodd Deon Llanelwy llythyr anhysbys yn beirniadu ei sylwadau yn y *Times* gan berson a alwodd ei hunain yn 'Twm or Nant Jr'.⁹⁰ Ym 1888 ceir hanesyn bach doniol o'r enw 'Twm o'r Nant a'r Offeiriad' mewn sawl papurau newydd.⁹¹ Tro arall ym 1897, gwelir stori bach arall yn ymwneud â Twm o'r Nant ac

⁸⁴ Thomas Edwards (Twm o'r Nant), *Bannau y Byd; neu Greglais o Groglofft ... Sef, Ychydid Sylwadau ar Gwrs y Byd, a'r Llygredigaeth sydd ynddo* (Dolgellau, 1826), tt. 17. Gw. hefyd tt. 13 a 22.

⁸⁵ Ffion Mair Jones, "'Brave Republicans": Representing the revolution in a Welsh interlude', yn Mary-Ann Constantine a Dafydd Johnston (gol.), *Footsteps of Liberty and Revolt: Essays on Wales and the French Revolution* (Caerdydd, 2013), t. 193.

⁸⁶ G. G. Evans, 'Henaint a thranc yr anterliwt', *Taliesin*, 54 (1985), tt. 14-29; E. Wyn James, 'Rhai Methodistiaid a'r anterliwt', *Taliesin*, 57 (1986), tt. 8-19.

⁸⁷ I. Foulkes (gol.), *Gwaith Thomas Edwards (Twm o'r Nant)* (Lerpwl, 1874), t. 214.

⁸⁸ *Pedair Colofn Gwladwriaeth* (1786, 1810, 1817, 1829, 1836, 1848); *Tri Chryfion Byd* (1789, 1848, 1850, 189-); *Bannau y Byd* (1808, 1810, 1819, 1823, 1826, 1839, 1850, 1857); *Gwaith Thomas Edwards (Twm o'r Nant)* (1849 – cyhoeddiad rhad gan David Jones, Merthyr, 1874, 1889, 1909.)

⁸⁹ Amryw, *Caneuon y Degwm – Cyfansoddiadau Buddugol* (Dinbych, 1887), tt. 22-23.

⁹⁰ LLGC Papurau John Owen, Tithe Rent Charge Letters, 1888-1890 (Box 2/8), Llythyr anhysbys diddyddiad. Detholiad o'r *London Echo* (6 Tachwedd 1889) wedi ei gludo i'r llythyr. Barnodd yr ysgrifennwr Esgob Llanelwy fel 'Humbug.'

⁹¹ *Tarian y Gweithiwr* (23 Awst 1888) a'r *Werin* (1 Medi 1888).

Offeiriad yr Eglwys. Yr oedd y neges tu ôl i'r hanes yn ddigon clir. Gofynnodd y person iddo, 'Thomas, a wnewch chwi ddweyd eich barn am y gwahanol enwadau yma sydd yn codi yn awr?' Atebodd Twm o'r Nant, 'Wel, mae y Wesleyaid yna yn eu hel hwy i gyd i'r gorlan, a'r Bedyddwyr yn eu golchi, a'r Calfiniaid yn ethol y rhai goreu, a chwithau yn cneifio y cwbl'.⁹²

Er bod Twm o'r Nant yn feirniadol dros ben o ddiffygiadau moesol personau'r plwyf, nid oedd hyn yn golygu ei fod yn elyniaethus tuag at yr Eglwys fel y cyfryw. Fel y dywed Enid Roberts, 'Twm o'r Nant saw nothing wrong with the system; the fault lay with the individual'.⁹³ Mynegodd E. Gwynn Matthews farn gyffelyb, 'Clerigwyr Eglwys Loegr yn hytrach na'i chredo sy'n llygredig. Yn ei sefydliad ymddengys fod Eglwys Loegr yn ddilys ym marn Twm o'r Nant'.⁹⁴ Felly, yr oedd yna elfen o amwyster yn perthyn yw waith ynglŷn â'i agwedd tuag at grefydd sefydledig. Gellir dadlau mai disgwyliadau uwch o weinidogion yr Eglwys oedd gan Twm o'r Nant mewn golwg, er budd yr Eglwys – er budd Cristionogaeth. Dyma John Edwards (Siôn Ceiriog), yn mynegi barn gyffelyb gan rybuddio'r offeiriaid rhag meddwl mwy am eu degymau nag eu praidd:

Ped faech gan bured i'ch defeidie
Ag ych am gymryd eich degymme
Fe dyfe ein ffydd yn grefydd gryfach,
Ac yn sicr dau gwresocchach!
Fe aeth yn gwilydd mawr rwy'n gweled
Fod llafurwyr, yn pasio synwyr y personied
Eisie'ch bod chwi hwyr a bore, fel gweithwyr poenus
Yn fwy llafurus yn eich llyfre.⁹⁵

Er bod Jac Glan-y-gors wedi troi ei law at gynhyrchu dau bamffled gwleidyddol eu naws, dichon mai fel dychanwr yr oedd ef fwyaf toreithiog. Yn wir, â'i R. T. Jenkins cyn belled ag awgrymu mai fel, 'dychanwr, nid fel meddyliwr gwleidyddol, y mae ef wedi gadael ei ôl ar Gymru'.⁹⁶ Yn gyffelyb i Twm o'r Nant,

⁹² *Tarian y Gweithiwr* (26 Awst 1897). Gw. hefyd *Werin* (25 Rhagfyr 1897) am stori arall.

⁹³ Dr. Enid Roberts, 'William Jones, Dolhywel', *Montgomeryshire Collections*, cyf. 70 (1982), t. 44.

⁹⁴ E. Gwynn Matthews, 'Y Brenin a'i Eglwys: themau yng ngherddi Twm o'r Nant', *Cymdeithas Hanes y Methodistaidd Calfaidd*, 35 (2011), t. 69.

⁹⁵ Dyfynwyd yn Jones, *Bywyd Cymdeithasol Cymru yn y Ddeunawfed Ganrif*, tt. 164-165.

⁹⁶ Jenkins, *Hanes Cymru yn y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg*, t. 20.

crëwyd teipgast o glerigwr yr Eglwys fel meddwyn anfoesol oedd yn esgeuloso ei ddyletswydd sanctaidd fel bugail dros ei braidd. Gwelir hyn yn amlwg yn *Cân y Person – Person Sir Aberteifi*, a oedd i’w chanu i dôn ‘Derry down’.⁹⁷ Fel y gwelsom eisoes, yr oedd Jac Glan-y-gors yn feirniadol iawn o’r degwm, ac nid syndod ydyw canfod ei fod yr un mor llawdrwm yn ei gerddi. Yn *Cerdd Newydd – Gwrandawed Pob Cymro ar dôn Cil y Fwyalch, neu Queen Bess*, dywedodd:

Gwrandawed pob Cymro a garo swm gwirion,
Cewch glywed cryn barsel o hanes rhyw berson,
Sy’n byw rhwng yr Eglwys a Chae’r Domen Riglo, -
‘Ran degwm odiaethol fydd lle bo gwrteithio;
Ac felly mae fynte, am ei fantais yn hynod,
Rhwng rhent anhaeddiannol a dwyn rhai tyddynod.⁹⁸

Yn ei gerdd o’r enw *Twyll y Person*, sydd yn ddamniol yn ei hun, soniwyd am adeiladu ‘Sgubor Ddegwm, i borthi diogi’, yn ogystal â’r detholiad isod:

Beth bynnag, wrth bwnio a swnio am bersoniaid,
Mae llawer am ddegwm, yn byw’r un ymddygiad;
Am hwn gyda’i gastiau, fe ddywed rhai gystal,
Fod bai ar yr esgob am swcro’r fath rasgal;
A chan iddo haeddu perthynu’r fath hanes,
Y cythraul ac uffern fydd diwedd ei gyffes.⁹⁹

Nid syndod ydyw gweld yr undodwr Iolo Morganwg yn ei gerdd wrthglerigiol, *Trioedd yr offeiriad a gant Iolo Morganwg yng Ngorsedd yr Alban Hefin ar ben [Mynydd] y Garth ym Morgannwg 1797*, yn cynnwys y degwm fel un o dri o bethau oedd yn peri galar iddo:

Tri pheth sy’n dost i ‘nheimplad:

⁹⁷ John Jones (Jac Glan y Gors), ‘Cerdd Newydd – Gwrandawed Pob Cymro’, yn *Gwaith Glan y Gors – Cyfres y Casglydd* (1905), t. 35. Ceir ‘Person wedi Meddwi’, neu ‘Hanes Offeiriad wedi Meddwi’, fel teitlau mewn rhai manau hefyd.

⁹⁸ *Gwaith Glan y Gors*, t. 37.

⁹⁹ *Ibid.*, t. 39.

Fy rhannu oddiwrth nghariad,
Cwrdd â gelyn ym mhob man,
A'r ddegfed ran i'r 'ffeirad'.¹⁰⁰

Ni chredodd R. T. Jenkins bod yna, 'unrhyw athroniaeth boliticaidd' yn perthyn i'r anterliwtiau, 'gweiddi lle mae'r esgid yn gwasgu y mae Twm a'i gyffelyb'.¹⁰¹ Y mae'r arsylliad hwn yn un dealladwy. Y mae'n annhebygol fod Twm o'r Nant wedi llunio'i feirniadaeth o glerigwyr yr Eglwys gyda'r syniad gwleidyddol o ddatgysylltiad yn ymdroi yn ei feddwl. Yr oedd hedyn y symudiad a ddaeth i ddominyddu'r cydymddiddan gwleidyddol yng Nghymru megis ond wedi ei blannu'r adeg hynny. Ond fel yr eginodd y symudiad hwnnw a thyfu'n raddol drwy gydol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, daeth y delweddau dychanol o offeiriaid yr Eglwys a'r degymau, yn gam neu'n gymwys, yn gydnaws gyda'r 'taflu baw' gwleidyddol a fu rhwng Anghydfurfwyr ac Eglwyswyr yn ystod yr ymgyrch i ddatgysylltu'r Eglwys. Ni ellir fod yn hollol siŵr os mai dyma yw un o'r prif resymau am apêl hirhoedledd gwaith Twm o'r Nant drwy gydol y bedwaredd ganrif a'r bymtheg. Ond craidd y ddadl ydyw hyn: daeth y gweithiau dychanol o barthed y degwm a'r Eglwys yn arf defnyddiol ac effeithiol i drosglwyddo syniadau gwleidyddol mewn modd 'ysgafn' a 'di-goeth' a erys ar lafar gwlad.

(iv) Yr elfen geidwadol

Fel y cawn weld ym mhennod V, yr oedd creu a llosgi 'gwŷr gwellt' (delwau gwellt) o glerigwyr yr Eglwys yn rhywbeth nodweddiadol yn ystod 'Rhyfel y Degwm' bron i gan mlynedd yn ddiweddarach. Ond gan ystyried awyrgylch tanllyd chwyldroadol yr 1790au, annychmygadwy oedd gweithredoedd terfysglyd o'r fath yn ystod y cyfnod hwn. Wedi'r cwbl, yr oedd ymosod ar yr Eglwys Sefydledig yn gyfystyrol âg ymosod ar y gyfundrefn sefydledig.¹⁰² Serch hynny, fe oddefwyd llosgi delwau o Tom Paine yn ystod gaeaf 1792/3.¹⁰³ Yn Rhagfyr 1892 tybiodd y *Times*,

¹⁰⁰ Atgynhyrchwyd yn Charnell-White, *Welsh Poetry of the French Revolution*, t. 180.

¹⁰¹ Jenkins, *Hanes Cymru yn y Ddeunawfed Ganrif*, t. 131; 'cwyno gwasgarog a digyswllt a geir yn y baledwyr ac yng ngwaith Twm o'r Nant', Idem., *Hanes Cymru yn y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg*, tt. 21-22.

¹⁰² Löffler, *Press and Public Discourse*, t. 44.

¹⁰³ Williams, *Artisans and Sans-Culottes*, t. 74. Am drafodaeth fanwl o'r 'fffenomenon' hwn, gw. Frank O'Gorman, 'The Paine burnings of 1792-1793', *Past & Present*, cyf. 193 (Tach. 2006), tt. 111-155.

'effigies of Paine had been burnt in every principal town in the kingdom'.¹⁰⁴ Ceir astudiaeth drwyadl o deyrngarwch yng Nghymru yn ystod y cyfnod hwn gan Hywel M. Davies.¹⁰⁵ Yn ei ôl ef, llosgwyd delw o Paine yng Nghaerdydd yn ystod Rhagfyr 1792, ac yng Nghaerfyrddin a Llanymddyfri dechrau 1793.¹⁰⁶ Gellid ychwanegu at y rhestr arsylliad John Bird, arlunydd o Gaerdydd, fod delw o Tom Paine wedi ei grogi, ei saethau a'i losgi yn y 'Bullring' yn Llantrisant.¹⁰⁷ Tua'r un adeg, adroddodd yr *Adam's Weekly Courant* weithred gyffelyb yng Nghas-gwent. Ond yn anffodus i un o'r gwylwyr, ni ddaliodd y crocbren sigledig straen y 'Tom Paine' crogiedig, ac fe ddisgynnodd y fframyn 50 troedfedd ar ei ben. Bu farw o'i anafiadau yn fuan wedyn.¹⁰⁸

Yn ystod 'Rhyfel y Degwm' yr oedd nifer o Fethodistiaid, yn enwedig yn y gogledd, o flaen y gad yn cynhyrfu yn erbyn talu'r degymau. Ond bron i ganrif ynghynt, ni ellir dychmygu hwy yn gwneud y fath beth. Yng ngeiriau E. D. Evans, ymddengys y Methodistiaid erbyn diwedd y ddeunawfed ganrif fel 'cuckoos in the nest'.¹⁰⁹ Y nyth, wrth gwrs, oedd yr Eglwys Sefydledig. Ystyriodd nifer o Eglwyswyr y Methodistiaid yn fygythiad, nid yn unig i'r Eglwys ond hefyd i'r wladwriaeth. Maentumiwyd fod y 'brwdfrydedd' a gysylltwyd efo seiadau'r Methodistiaid yn hybu democratiaeth ymysg y bobl, ac felly'n magu teimladau o ddiffyg gwrogaeth tuag at yr haenau uchaf o'r gymdeithas. Fel y dywed Evans, 'It was mooted that the rejection of episcopal authority would end eventually in the rejection of royal authority'.¹¹⁰ Mewn ffordd, fe ddalwyd y Methodistiaid allan yn 'nhir neb'. Ar y naill law, nid oeddynt yn Ymneilltuwyr 'swyddogol' fel petai, canys nid oeddynt wedi ymneilltuo o Eglwys Loegr, ac felly nid oedd gosodiadau'r Ddeddf Goddefiad yn berthnasol iddynt. Ar y llall, fel yr ydym wedi trafod, yr oedd eu safle oddi fewn yr Eglwys yn brysur ddyfod yn un annaliadwy.

¹⁰⁴ *The Times* (21 Rhagfyr 1792).

¹⁰⁵ Hywel M. Davies, 'Loyalism in Wales, 1792-1793', *Cylchgrawn Hanes Cymru*, cyf. 20, rhif. 4 (Rhag. 2001), tt. 687-716

¹⁰⁶ Sharon Howard, 'Riotous community: crowds, politics and society in Wales, c. 1700-1840', *Cylchgrawn Hanes Cymru*, cyf. 20, rhif. 4 (Rhag, 2001), t. 675; Davies, 'Loyalism in Wales, 1792-1793', tt. 693-694.

¹⁰⁷ LIGC, Bute Estate Records L46/30.

¹⁰⁸ *Adam's Weekly Courant* (22 Ionawr 1793). Atgynhyrchwyd yn Löffler, *Press and Public Discourse* (2012), t. 174.

¹⁰⁹ E. D. Evans, 'The road to 1811', *Cylchgrawn Hanes Cymdeithas Hanes y Methodistiaid Calffinaidd*, rhif. 35 (2011), t. 49

¹¹⁰ *Ibid.*, tt. 50-51.

Gan ddal hyn mewn cof, nid syndod felly ydyw canfod lluo o gyhuddiadau yn erbyn y Methodistiaid, gydag awgrym o baranoia mae'n wir, adeg y Chwyldro yn Ffrainc. Cyhuddwyd hwy'n aml o ddsbarthu a chyfieithu 'Hawliau Dyn' Tom Paine ac o symbylu terfysgoedd, yn enwedig yng ngogledd Cymru; o Fôn i Wrecsam.¹¹¹ Aeth Edward Corbet, Ysw., Ynysymaengwyn, Tywyn, cyn belled a datgan bod Methodistiaid Meirion ar fin gwrthryfel.¹¹² Yn ogystal â hyn, cyhuddodd teyrngarwyr hwy'n gyson o fod yn 'Jacobiniaid', eto y mae'n anodd credu bod John Elias, y dyn a ddaeth yn biler o geidwadaeth o fewn y corff, wedi cael ei labelu'n 'Jacobin' pan aeth drosodd i Iwerddon i bregethu i'r milwyr Cymreig yno, dan y ddrwgdybiaeth ei fod am achosi miwtini!¹¹³ Honnodd 'W. M. B', Dinbych, yn y *Gentleman's Magazine* ym 1799:

What renders this sect more dangerous is, that the preachers are in general instruments of Jacobinism, sent into this country to disseminate their doctrines; and, I assure you, that Paine's Works, and other books of the like tendency, have been translated into Welsh, and secretly distributed about by the leaders of this sect.¹¹⁴

Ond yn ôl R. Watcyn James, 'di-sail', oedd y cyhuddiadau hyn, 'enw [Jacobiniaid] ydoedd a fwriai wawd a sen ar eu proffes o deyrngarwch i'r Brenin, i'r Llywodraeth ac i'r Eglwys Sefydliedig'.¹¹⁵

Gwthiwyd y Methodistiaid i broffesu eu teyrngarwch i'r Eglwys, i'r wlad ac i'r Brenin yn gyhoeddus, ac ym 1798 cyhoeddodd Thomas Jones o Ddinbych, gweinidog gyda'r Methodistiaid, ei bamffled *Gair yn ei Amser*. Ymddengys mai prif nod y *Gair* oedd llethu effaith pamffledau Glan-y-gors, ac yn ôl Thomas Charles, fe brintiwyd dros ddeng mil o gopiâu i gyflawni'r diben hwn.¹¹⁶ Credai John Davies, '...

¹¹¹ Löffler, *Press and Public Discourse*, t. 30; *Idem.*, *Political Pamphlets and Sermons*, t. 24-32; Jenkins, *Hanes Cymru yn y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg*, tt. 33-34; Evans, 'The Road to 1811', t. 51.

¹¹² Evans, 'The Road to 1811', t. 51; Davies, 'Loyalism in Wales', tt. 705-707.

¹¹³ Jenkins, *Hanes Cymru yn y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg*, t. 34.

¹¹⁴ *Gentleman's Magazine* (1799), t. 741. Gw. hefyd llythyr 'D', t. 579 o barthed seiat y Methodistiaid (neu 'Jumpers' fel y galwyd hwy yn aml) yng Nghaernarfon: '... that those poor ignorant deluded wretches should be led to a style of worship so dissonant to the form of the Estbalished Church of England' Ym 1798 ysgrifenydd 'Urbicus', 'The preachers [Methodistiaid] of this doctrine are embodied under the guidance of a regular system to overthrow the Church and State', t. 750.

¹¹⁵ R. Watcyn James, 'Ymateb y Methodistiaid Calfinaidd Cymraeg i'r Chwyldro Ffrengig', *Cylchgrawn Hanes Cymdeithas Hanes y Methodistiaid Calfinaidd*, rhif.12/13 (1988/89), t. 46.

¹¹⁶ Frank Price Jones, "'Gair yn Ei Amser" Thomas Jones o Ddinbych', yn *Radicaliaeth a'r Werin Gymreig*, t. 28.

dichon iddo gyrraedd mwy o gartrefi na'r cwbl o lyfrau radicalaidd y cyfnod'.¹¹⁷ Daliad Jones oedd, 'Pwy bynnag sydd yn ymosod ar awdurdod sydd yn gwrthwynebu ordinhad Duw'.¹¹⁸ Eto, dyma ddyd, cymhedrol ei Galfiniaeth, a wrthododd arwyddo deiseb sirol yn erbyn rhyddfrenio'r Catholigion ym 1812, ac yr oedd ei lyfr, *Merthyr-draith* (1813), yn llawer mwy rhyddfrydig ei naws na'r *Gair*.¹¹⁹

Daeth Thomas Charles ei hun ymlaen ym 1800 i amddiffyn y Methodistiaid yn y *Gentleman's Magazine* gan ddatgan, 'I cannot find one single tract of that enemy of all godliness T. Paine translated into the Welsh language'.¹²⁰ Ymosododd ar *Seren Tan Gwmmwl* drwy arddel ar goedd, 'The leaders of the Welsh Methodists, without any exception, detest the principles contained in it'.¹²¹ Dwy flynedd yn ddiweddarach fe gyhoeddodd ei bamffled swmpus, *The Welsh Methodists Vindicated* (1802) er mwyn cadarnhau safiad teyrngar y Methodistiaid Calфинаidd yng Nghymru i'r Frenhiniaeth a'r Wladwriaeth. Yn amlwg nid oedd Peter Williams wedi ei ddarbwylllo gan amddiffyniad Charles, oblegid ym 1803 fe ddywedodd, 'In making a short excursion last year through part of North Wales, I was sorry to find, that the Methodists, and other fastidious objectors to the Established Church, were in some places becoming more numerous'.¹²²

II.

Achwyn yn y plwyfi

Yr ydym hyd yn hyn wedi ymdrin â'r ymgais yn y cyfnod hwn i 'gynhyrfu' drwy'r ysgrifbin, ond a oedd yna ymdrech fwy uniongyrchol ar y lefel sylfaenol? Creda Melvin Humphreys, 'A new dimension was being given to tithe collection by the presence of stridently anti-Anglican Dissenting ministers'.¹²³ Pa fodd bynnag, cyfeiliornus fyddai dychmygu unrhyw beth cyffelyb i'r hyn a welwyd yn ystod 'Rhyfel y Degwm'. Eto, haerodd Edgar W. Parry, ynghylch y Parchg. Peter Bailey

¹¹⁷ Davies, *Hanes Cymru*, t. 327.

¹¹⁸ *Ibid.*, t. 327.

¹¹⁹ R. Tudur Jones, 'The origins of the Nonconformist disestablishment campaign, 1830-1840', *Journal of the Historical Society of the Church in Wales*, cyf. 20, rhif. 25 (1970), t. 48.

¹²⁰ *Gentleman's Magazine* (1800), t. 47.

¹²¹ *Ibid.*, t. 47.

¹²² Peter Williams, *A Short Vindication of the Established Church* etc. (Rhydychen, 1803), t. 1.

¹²³ Melvin Humphreys, *The Crisis of Community: Montgomeryshire, 1680-1815* (Caerdydd, 1996), t. 79.

Williams a'i ddegymau, bod, 'ryfel y degwm yn egino yn nhir Arfon ym mlynnyddoedd olaf y ddeunawfed ganrif'.¹²⁴ Serch hynny, y mae yna berygl yma i aflunio'r darlun drwy impio term a'i holl oblygiadau ar gyfnod arall. Datgelodd Parry fod Williams, er ei safiad o blaid y degymau, wedi tynnu sawl, 'achos cyfreithiol yn ôl ar ôl deall yr amgylchiadau pam nad oedd ambell ddegwm yn cael ei dalu ...'¹²⁵ Gellir honni nad safiad er hyrwyddo cydraddoldeb crefyddol y geir yma, oblegid ni fuasai Williams wedi tynnu allan o'r achosion os mai dyna oedd wrth wraidd y diffyg talu.

Diddorol hefyd ydyw arsylliadau Hywel Davies ynglŷn â sylwadau ambell i deyrngarwr o Gymru i'r cyfreithiwr John Reeves, sylfaenydd y Gymdeithas er Cadwedigaeth Rhyddid ac Eiddo yn erbyn Gweriniaethwyr a Lefelwyr. Ymddengys bod yna aflonyddwch o barthed y degwm yn swyddi Maesyfed, Trefaldwyn a Dinbych yn ystod blynnyddoedd cynnar y 1790au. Credodd David Morgan o Lanandras os gellid diwygio'r degwm heb niweidio'r clerigwyr, fyddai'r nifer o'r 'disaffected' yn lleihau 'to a cypher'.¹²⁶ Ar 2 Gorffennaf 1794 nid syndod ydyw darganfod Morgan John Rhys yn cynhyrfu ei gyd Fedyddwyr ym mro Glyn-Ceiriog, ger Llangollen. Datganodd yn un o'i bregethau bod, 'yr ysgyb a'r oen degwm &c. yn cael eu cymmeryd oddiwrthynt i gynnal dynion na wnaethant wasanaeth i chwi erioed'.¹²⁷ Yn y fersiwn printiedig ceir y troednodyn canlynol i'r uchod, 'O na bae yr holl ymneilldywyr, yn achos degymau, yn ymddwyn fel y Crynwyr'.¹²⁸ Gellir canfod tinc o lesteiriant yn ei eiriau, cyfaddefiad mai gorchwyl caled oedd ceisio ymysgwyd yr Ymneilltuwyr i ymddwyn fel y Crynwyr.¹²⁹

Ymddengys mai un o nodweddion y degwm oedd i gorddi'r gwaed a dwysáu tymherau. Mewn rhai achosion, eithriadol o brin gellir tybio, yr oedd hi'n bosib i ddadleuon ynghylch y degymau arwain at ganlyniadau angheuol. Ar 20 Medi 1778, ym mhlwyf Llanddarog, Sir Gaerfyrddin, fe laddwyd David John gan Griffith

¹²⁴ Edgar W. Parry, 'Yr offeiriad a anghofiwyd', *Y Casglwr*, 45, (1991), t. 9.

¹²⁵ Parry, 'Yr offeiriad a anghofiwyd', t. 9.

¹²⁶ Dyfynwyd yn Davies, 'Loyalism in Wales', t. 711.

¹²⁷ Morgan John Rhys, *Sylwedd Dwy Bregeth a'r Neillduaeth, John Edward a Thomas Jones i Swydd Henuriaid; ac Edward Hughes a John Roberts i Swydd Diaconiaid yn Nhy Cyfarfod Y Bobl, a Elwyr, Fedyddwyr; yn Glyn-Ceiriog, Gorph 2, 1794. Y Bregeth Gyntaf, A'r Ddyledswyddau Wyddogion Eglwysig A'r Ail, A'r Ddyledswyddau'r Bobl, At eu Swyddogion* (Gwrecsam, 1794), t. 22.

¹²⁸ Ibid.

¹²⁹ Cyhoeddodd Morgan John Rhys ei edmygedd tuag at y Crynwyr yn y *Cylchgrawn-Cymraeg* (Awst, 1793) 'Nid rhyfedd fod y corph anrhydeddus, a elwir yn Cwaceriaid, yn cyfrif y degwm a'r offrwm a gymmeryd oddiwrthynt bob blwyddyn, drwy drais, yn erledigaeth ...' tt. 156-157.

Rowland, iwmon, gyda rhaw ar ôl i ddadl chwyrn ynglŷn â'r degwm droi'n drychineb. Cafwyd Rowland yn euog o lofruddiaeth, ei ddedfrydu i farwolaeth, ac anfonwyd ei gorff i ffwrdd er budd gwyddoniaeth meddygol.¹³⁰ Ym 1796 cawn enghraifft llai difrifol, ond nid llai diddorol serch hynny, yr anghydfod rhwng John Williams, bonheddwr o Rudbaxton, Sir Benfro, a'r Parchg. Benjamin Gibbon, Wiston. Nid oedd Williams, am ryw reswm, wedi talu porfelaeth y degymau i Gibbon fel curad nag i'r rheithor ers rhai blynyddoedd, ac yn amlwg yr oedd y berthynas rhwng ef a'r offeiriaid wedi suro. Ymosodwyd ar Gibbon gan Williams wrth rodio'r ffordd ym mhlwyf Prendergast, ac fe osodwyd dirwy ar y bonheddwr.¹³¹

Arhoswn gyda Chwrt y Sesiwn Fawr i edrych ar ddau achos hynod o debyg yng Ngheredigion ym 1818. Fel y daw yn amlwg yn yr astudiaeth hon, nid gor-ddweud ydyw crybwyll mai plwyf Penbryn, Ceredigion, oedd y plwyf mwyaf tanbaid o ran mynegiant wrth-ddegymol yng Nghymru yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Yr oedd Benjamin Thomas, ffermwr o blwyf Penbryn, wedi gwrthod talu ei ddegymau i'r amfeddwr lleyg, Walter Rice, Ysw. O ganlyniad, fe atafaelwyd ei geffyl, ond nid oedd Thomas am gydymffurfio. Ar 19 Chwefror 1818, fe 'achubwyd' y creadur gan Mary Harry (llafurwraig), James James, James Thomas (llafurwyr) a Benjamin Thomas ei hun.¹³² Diddorol iawn ydyw'r ffaith fod digwyddiad cyffelyb wedi digwydd yn y plwyf cyfagos o Flaenporth dim ond dau fis yn ddiweddarach. Yn ôl y ddogfen, gwrthododd David Jenkins, llafurwr, dalu ei ddegymau bach i'r amfeddwr lleyg, y bonheddwr John Vaughan Lloyd, Ysw. Atafaelwyd buwch Jenkins, ond ar y 20 Ebrill, a gyda help Jenkinsiaid eraill (o bosib aelodau teuluol) fe achubwyd y fuwch a oedd dan warchodaeth dau gwnstabl.¹³³

Ond pa mor gyffredin oedd anghydfodau o barthed y degwm yng Nghymru yn ystod y cyfnod dan sylw? Dim ond dyrniad o achosion eithafol ei naws y ddygwyd ger bron y llysoedd y Sesiwn Fawr, ac felly nid ydyw'n darlunio'r sefyllfa yn ei gyfanrwydd. Un ffynhonnell arall y gellid troi ati am atebion ydyw cofnodion y llysoedd eglwysig. Yn ôl W. M. Jacob, 'The Church courts provided a forum where communal tensions could be defused and anger allowed to cool'.¹³⁴ Dichon mai'r

¹³⁰ LIGC, Cofnodion Cwrt y Sesiwn Fawr 4/745/2 (1778).

¹³¹ LIGC, Cofnodion Cwrt y Sesiwn Fawr 4/827/2 (1796).

¹³² LIGC Cofnodion Cwrt y Sesiwn Fawr 4/913/3 (1818).

¹³³ LIGC Cofnodion Cwrt y Sesiwn Fawr 4/913/4 (1818).

¹³⁴ W. M. Jacob, "In love and charity with your neighbours ...": ecclesiastical courts and justices of the peace in England in the eighteenth century', *Studies in Church History*, 40 (2004), t. 208.

llysoedd eglwysig oedd y cam cyntaf i nifer o gasglwyr y degwm i geisio datrys yr anghydfod rhyngddynt hwy ac ambell i ddegwm dalwr ystyfnig. Yr oedd y llysoedd ecwiti yn opsiwn amgen arall, ond costus iawn oedd dilyn y trywydd hwn.¹³⁵

Y mae Jacob eisoes wedi gwneud defnydd diddorol o ddogfennau'r llysoedd eglwysig i gofnodi achosion ynglŷn â'r degwm, trethi'r eglwys, difenwad, bastardiaeth a.y.b., rhwng 1662-1759 yng Nghymru.¹³⁶ Wrth edrych ar dablau Jacob, gellid tybio bod y degwm yn bwnc cynhennus mewn sawl ardal yng Nghymru. Er enghraifft, yn Esgobaeth Llandâf rhwng 1710-1759, dygwyd dros 273 o achosion ger bron y llys eglwysig.¹³⁷ Yn archddiaconiaeth Brycheiniog yr oedd y ffigwr yn 197 o fewn yr un cyfnod.¹³⁸ Eto, dros gyfnod o hanner canrif, nid ydyw'r ffigyrau hyn yn afresymol o uchel. Yn amlwg fe amrywiodd y nifer o achosion ynglŷn â'r degwm o flwyddyn i flwyddyn. Ond er mwyn symleiddio'r darlun, gwelwyd ar gyfartaledd pum achos y flwyddyn yn Esgobaeth Llandâf a phedwar yn archddiaconiaeth Brycheiniog. Ymddengys bod y ffigyrau yn llai fyth yn Esgobaeth Bangor, gyda dim ond pum achos rhwng 1739-1759.¹³⁹

Yn wir, y ddelwedd boblogaidd o'r llysoedd eglwysig a geir gan haneswyr ydyw un o ddirywiad mewn prysurdeb drwy gydol y ddeunawfed ganrif hyd ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg.¹⁴⁰ Yn ôl R. B. Outhwaite, fe ddaru'r nifer o achosion ynglŷn â'r degwm yn llysoedd eglwysig Efrog a Lichfield ddisgyn yn gyson drwy gydol y ddeunawfed ganrif ac mewn i'r bedwaredd ganrif ar bymtheg.¹⁴¹ Clywodd y llys eglwysig yn Efrog ddim ond 36 o achosion ym 1700-1; 21 ym 1727-8; a rhwng 1827-29, dim ond pedwar achos a ddygwyd ger bron y llys. Ymdriniodd y llys eglwysig yn Lichfield ar gyfartaledd â 22 o achosion rhwng 1700-19; 12 pob blwyddyn rhwng 1770-89; a llai nag wyth y flwyddyn rhwng 1810-29. Erbyn 1827-9, y cyfanswm am y tair blynedd oedd saith achos ynglŷn â'r degwm.¹⁴² Darlun tebyg a geir gan Donald A. Spaeth o lys consistori Salisbury, gan honni bod y

¹³⁵ Eric Evans, *Tithes and the Tithe Commutation Act 1836* (Llundain, 1978), t. 5.

¹³⁶ William Jacob, 'Rhan II: 1660-1780', yn Sir Glanmor Williams, William Jacob, Nigel Yates a Frances Knight, *The Welsh Church from Reformation to Disestablishment, 1603-1920* (Caerdydd, 2007), tt. 101-105 a tt.110-111.

¹³⁷ Jacob, 'Rhan II: 1660-1780', t.111.

¹³⁸ Ibid.

¹³⁹ Ibid.

¹⁴⁰ Gw. W. M. Jacob, 'In love and charity with your neighbours', tt. 203-217.

¹⁴¹ R. B. Outhwaite, *The Rise and Fall of the English Ecclesiastical Courts, 1500-10860* (Caergrawnt, 2006), t. 87.

¹⁴² Ibid., tt. 87-88.

disgyniad yn y nifer o achosion yn ymwneud â'r degwm yn arwydd o ddisgyniad cyffredinol yn y nifer o achosion a ddygwyd ger bron y llysoedd consistori.¹⁴³

Ymddengys mai patrwm tebyg a geir yng Nghymru hefyd. Er enghraifft, gwelwyd lleihad yn y nifer o achosion ynghylch y degwm yn llys eglwysig Llanelwy rhwng 1783-1836 (ffig. 1.1). Yn llys eglwysig Llandâf (ffig. 1.2), gwelwyd dim ond oddeutu 13 o achosion o barthed y degwm yn ystod yr 1780au o'i gymharu â 76 rhwng 1720-29.¹⁴⁴ Serch hynny, gwelir mai ymchwyddo ac nid plymio wnaeth y nifer o achosion yn Llandâf o hynny ymlaen, gan gyrraedd bron i 100 yn ystod yr 1820au. Ai amlygiad o'r 'werin' wedi'i deffro yn y deheudir ac yn gwrthod talu'r degwm ar sail egwyddor oedd hyn? Hwyrach ddim. Os edrychwn yn fwy manwl daw un peth yn glir; nid nifer fawr o achosion gwasgaredig yn ddaearyddol a geir yma, ond un neu ddau o feddianwyr y degwm yn cymryd achos yn erbyn mwy nag un person mewn un cymdogaeth. O'r 95 achosion a ddygwyd ger bron y llys eglwysig yn ystod yr 1820au, yr oedd 45 (47% o'r cyfanswm) yn ymwneud â thri degwm feddianwyr mewn dau leoliad yn unig. Dau o'r rheiny oedd Walter Edmunds a William John ('ffermwyr y degwm'), a rhwng 1822 a 1823 cymerodd hwy achos yn erbyn 16 o bobl yn Ystradyfodwg a Phentyrch.¹⁴⁵ Y llall oedd y Parchg. Thomas Thomas a wysiodd ym 1827 nid llai na 29 o blwyfolion Pentyrch ynglŷn â'r degymau.¹⁴⁶

Pa faint o bwysau y gellir priodoli i'r ffigyrau uchod wrth geisio llunio newid yn agweddau'r Cymry ynghylch y degwm dros gyfnod o amser? Oherwydd y canfyddiad negyddol ymysg cyfoeswyr bod y llysoedd eglwysig yn aneffeithiol, anodd ydyw dirnad i ba raddau y mae'r lleihad cyffredinol yn y nifer o achosion ynglŷn â'r degymau yn arwyddol o rywbeth dyfnach namyn y dirywiad ym musnes y llysoedd.¹⁴⁷ Y mae'r ffigyrau ar gyfer llys eglwysig Llandâf yn mynd yn groes i'r patrwm cyffredinol, ond fel y dangoswyd eisoes, rhaid bod yn wylidwrus rhag gwneud melin a phandy o hyn o ran athrawiaeth wleidyddol.

¹⁴³ Donald A. Spaeth, *The Church in an Age of Danger: Parsons and Parishioners, 1660-1740* (Caergrawnt, 2000), tt. 72-84.


¹⁴⁴ Jacob, 'Rhan II: 1660-1780', t. 111.

¹⁴⁵ LIGC, LL/CC/G/1856-1864; LL/CC/G/1868-1873.

¹⁴⁶ LIGC, LL/CC/G/1953-1982.


¹⁴⁷ Spaeth, *The Church in an Age of Danger*, t. 80.

Ffig. 1.1 Nifer o achosion ynglŷn â'r degwm a ddygwyd ger bron y llys eglwysig yn Esgobaeth Llanelwy, 1783-1836.¹⁴⁸



Ffynhonnell: LIGC, Llyfrau Llys Consistori Llanelwy, SA/CB/21 (1783-1799); SA/CB/23 (1800-1821); SA/CB/24 (1821-).

Ffig. 1.2 Nifer o achosion ynglŷn â'r degwm a ddygwyd ger bron y llys eglwysig yn Esgobaeth Llandâf, 1750au-1820au.¹⁴⁹



Ffynhonnell: LIGC, Papurau Llys Consistori Esgobaeth Llandaf, LL/CC/G.

¹⁴⁸ LIGC, Llyfrau Llys Consistori Llanelwy - SA/CB/21 (1783-1799); SA/CB/23 (1800-1821); SA/CB/24 (1821-).

¹⁴⁹ LIGC, Papurau Llys Consistori Esgobaeth Llandaf LL/CC/G.

Nid oes unrhyw beth yn nogfennau'r llysoedd eglwysig i'n hargyhoeddi mai safiad cydwybodol dros gydraddoldeb crefyddol a geir yma. Yn hytrach, cwynion ynglŷn ag hen arferion lleol ac ystyriaethau economaidd eraill o barthed y degwm oedd wrth wraidd yr anghydfodau; ymgais i hyrwyddo rhyw fath o economi moesol.¹⁵⁰ Ar 12 Mawrth 1747 cynhaliwyd cyfarfod wrth-ddegymol ym mhlwyf Gelligaer er mwyn gwneud safiad yn erbyn yr 'Gorthrymwr'.¹⁵¹ Lluniwyd deiseb gan y ffermwyr a'r rhydd-ddeiliaid yn datgan:

Whereas the parish of Kelligare [sic] have for several years past suffered much by the vexatious Suits and other oppressive ways and treatments of farmers of the tythes of the said parish and whereas severall [sic] of the Freeholders and Farmers, inhabitants of the said parish come to a resolution accordingly agreed to bind themselves to each other in the following articles, covenants and agreements ...¹⁵²

Llofnodwyd y ddeiseb gan 49 o bobl, ac yn nhyb Vincent Williams, yr oedd y protest yn dyddio'n gynt na'r Undebau Llafur.¹⁵³ Awgrymodd Williams hefyd bod Anghydfurfiaeth, o bosib, yn ffactor.¹⁵⁴ Er, ymddengys mai gosod telerau teg a chyfiawn oedd prif fwriad y degwm dalwyr er mwyn sefydlu economi moesol yn seiliedig ar hawliau hynafol. Yr oeddynt yn ddigon bodlon i dalu'r degwm pe buasai'r rheithor a'r degwm meddianwyr eraill yn tanysgrifo i'r telerau a osodwyd, a nid oes yna unrhyw beth i'n hargyhoeddi bod yna safiad crefyddol yma; o leiaf ni fynegwyd mewn ffurf ysgrifenedig.

Ym 1781 fe gyhuddwyd Richard Willy a Henry Thomas, wardeiniaid yr eglwys ym mhlwyf Llanbedr Felffre, o symbylu'r plwyfolion i beidio talu'r degymau i'r Parchg. Edward Philipps. Dengys y ddogfen llysol nad oeddynt yn fodlon talu, 'over and beyond what was customarily paid in the said parish'.¹⁵⁵ Unwaith eto, enghraifft arall o geisio gosod economi moesol. Mynnodd rhai echdynnu pob gronyn

¹⁵⁰ Yn ôl Daniel Cummins mewn astudiaeth ddiweddar, 'Many of these relationships [rhwng y degwm dalwyr a'r degwm meddianwyr] functioned within the context of customary practices, whereby owners were expected to uphold the obligations of a moral economy by not always taking everything to which they were legally entitled and abiding by established tithing practices'. Daniel Cummins, 'The social significance of tithes in eighteenth century England', *English Historical Review*, cyf. CXXVIII, Rhif. 534 (2013), t. 1153.

¹⁵¹ Vincent Williams, 'Tithing troubles: farmers' revolt against tithes 1747/8', *Gelligaer Historical Society*, 9, (1972), t. 25.

¹⁵² *Ibid.*, t. 27.

¹⁵³ *Ibid.*, t. 28.

¹⁵⁴ *Ibid.*, t. 30.

¹⁵⁵ LIGC, SD/CCCm(G)/468.

o'r degwm yr oeddynt yn hawlio, ac yn fodlon cymryd camau cyfreithiol i wneud hynny. Gwelir y bobl gyffredin hyn fel ymosodiad ar yr hen gysyniad ceidwadol hwn o anrhydeddu'r defodau lleol.

Dichon mai'r meddiannwr lleyg mwyaf drwg-enwog yng Nghymru oedd J. B. S. Chichester o Swydd Dyfnaint. Yn ôl Ieuan Gwynedd Jones, derbyniodd Chichester gwerth oddeutu £5,411 o ddegymau mewn naw plwyf yng Ngheredigion.¹⁵⁶ Yr oedd y gŵr o Ddyfnaint yn benderfynol hawlio pob ceiniog o'i ddegymau, gan gynnwys hawlio'r rhai nad oedd yn ddaliadwy, yn nhyb y trigolion, yn ôl amodau'r hen arferion lleol.¹⁵⁷ Ym 1823 fe gymerodd Chichester gamau cyfreithiol yn erbyn lliaws o bobl er mwyn sefydlu ei hawliau i'r degymau hyn.¹⁵⁸ Enillodd ei achos i dderbyn degymau pren (pren a dorwyd i lawr) yn Llanbadarn Fawr, Ceredigion, ac fe enillodd ei achos hefyd i dderbyn degymau gwair a llefrith ym mhlwyf Gwnnws.¹⁵⁹ Ysgubwyd cyfreithlondeb yr hen ddefodau lleol ymaith yn y llys barn, ac efo hwy unrhyw obaith i sefydlu economi moesol.

Gwrthododd William Roberts, Tregidreg, plwyf Mathri, Sir Benfro, dalu ei ddegwm ym 1754. Am ba reswm ni ellir fod yn gwbl siŵr. Y cwbl y ddywedodd Francis Jones oedd, '... he seems to have developed some conscientious scruple to the payment of the tithe'.¹⁶⁰ Cymerodd y Parchg. James Griffith, y periglor, gamau cyfreithiol er mwyn adfer ei ddegwm. Ond ar ddiwrnod yr arwerthiant ni adawodd Williams i'r fintai clerigol fyned i'w gae; tacteg rwystrol a welwyd tro ar ôl tro yn ystod 'Rhyfel y Degwm' dros ganrif yn ddiweddarach.¹⁶¹ Dygodd y Parchg. Thomas Watkins, ficer Talacharn, Sir Gaerfyrddin, saith o bysgotwyr ger bron y llys eglwysig ym 1792 er mwyn hawlio'i ddegymau pysgod. Dengys bod rhwng swllt a dau swllt yn ddyledus o'u dalfa gan y pysgotwyr, ac yn amlwg nid oeddynt am gydweithredu.¹⁶²

¹⁵⁶ Ieuan Gwynedd Jones, *Communities: Essays in the Social History of Victorian Wales* (Llandysul, 1987), t. 41.

¹⁵⁷ Am yr holl hanes gwelir, Jill Barber, 'A fair and just demand?' tithe unrest in Cardiganshire, 1796-1823,' *Cylchgrawn Hanes Cymru*, cyf. 16, rhif. 2 (1992), tt. 177-206.

¹⁵⁸ *The Cambrian* (2 Awst 1823); *North Wales Gazette* (7 Awst 1823).

¹⁵⁹ *Ibid.*

¹⁶⁰ Francis Jones, 'The Mathry tithe suit', *Journal of the Historical Society of the Church in Wales*, 2 (1950), t. 99.

¹⁶¹ *Ibid.*, t. 101.

¹⁶² LIGC SD/CCCM(G)/491-497.

Rhwng Mai a Medi 1818 ym mhlwyf Llanstadwel gwelwyd helbul, yn perthyn i gomedi bron, ynghylch y degymau llefrith. Yr oedd degymau mawr a bach y plwyf yn perthyn i'r Parchg. Thomas Owen, ond heb yr un modd pendant ynglŷn â'r ffordd y casglwyd hwy.¹⁶³ Ar 20 Mai y dechreuodd y drafferth pan fethodd ei was, A. M. Rees, gasglu'r llefrith dyledus o deulu'r Davisiaid, Norton. Dengys mai craidd yr anghydfod oedd y ffaith bod rhai o'r gwartheg yn pori yn y plwyf drws nesaf, ac fe orchynnodd Owen fod Rees i gadw llygaid ar y gwartheg hyn er mwyn deall beth yn union oedd yn mynd ymlaen. Cyfrodd Rees y gwartheg yn ddiwyd am dros wythnos, ac yn amlwg yr oedd ei bresenoldeb cyson ar y fferm wedi gwylltio'r perchnogion, 'Mrs. Davies was very violent and abused his master much, and threw the milk on the ground'. Derbyniodd Rees rhywfaint o lefrith rhwng 9 Mehefin a'r 17 Medi, ond yn amlwg yr oedd Owen yn teimlo ei fod wedi cael ei dwyllo, ac fe ofynnwyd am farn gyfreithiol ar y mater. Yn ogystal â hyn, fe fynnodd Owen dwy wŷdd o'r Davisiaid, ond gwrthodant gydymffurfio ag ef, ac fe gafodd un yn lle.

Ond ymysg yr holl enwau a geir yng nghyfnodion y llysoedd eglwysig, y mae yna un sydd yn sefyll allan; Walter Coffin. Heb os nac onibai dyma aelod o'r tylwyth adnabyddus hynny o Benybont-ar-Ogwr, yr Ymneilltuwyr a oedd yn perthyn i'r enwog Dr Richard Price.¹⁶⁴ Ond pa aelod ni ellir fod yn hollol siŵr. Yr oedd yna Walter Coffin yr hynaf, a'i fab mwy adnabyddus, Walter Coffin yr ieuengaf, sef yr Undodwr, diwydiannwr ac aelod seneddol Anghydfurfiol cyntaf Cymru pan dorrodd ef hegomoni teulu'r Bute dros etholaeth Caerdydd ym 1852. Nôl ym 1811, fodd bynnag, dygwyd Walter Coffin, Morgan Hopkin a Thomas Edwards ger bron y llys eglwysig i ateb y Parchg. Thomas Hancorne, ficer plwyf Y Castellnewydd ger Penybont-ar-Ogwr, ynglŷn â'u degymau.¹⁶⁵ Er, dadleuon ynglŷn â hen hawliau degymau llefrith a chynnyrch yr ardd a geir yma.¹⁶⁶

Gwyddom mai Anghydfurfwr oedd y Coffiniaid, a dichon fod Jenkin ac Edwards hefyd. Ond ai mater o ffaith, yn hytrach na mater o bwys, oedd hyn yn yr

¹⁶³ Mae'r paragraff hwn yn seiliedig ar dystiolaeth a geir yn LIGC, Casgliad Williams and Williams, 15,400, Haverfordwest – Pembrokeshire Tithe Notices – Complaints and Agitation, 1818-1889.

¹⁶⁴ R. T. Jenkins, 'Walter Coffin', yn *Y Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940*, t. 73.

¹⁶⁵ LIGC, LL/CC/G 1719-1720. Ymddengys fod yr achosion yn erbyn Hopkin ac Edwards wedi mynd ymlaen hyd at 1813, ond nid oes yna unrhyw bapurau yn achos Coffin ar ôl 1811. Gwyddom fod Walter Coffin yr hynaf wedi marw yn 81 oed ar 5 Gorffennaf 1812 a bod Walter Coffin yr ieuengaf wedi symud y teulu i Gaerdydd yn yr un flwyddyn:

<http://hellohistoria.blogspot.co.uk/2014/07/edward-loveluck-and-lost-coffin-family.html>

¹⁶⁶ LIGC, LL/CC/G/1720.

achos yma a sawl un arall? Credai Eryn M. White, ‘... most of these demurrals did not arise from resentment towards having to pay tithes to a church which one did not attend or support. People on the whole refused to pay tithes or rates whenever they felt it had been unfairly assessed rather than as a matter of principle’.¹⁶⁷ Nid ydyw’r cofnodion llysoedd eglwysig yn awgrymu fod pobl wedi denu trwbl drwy wrthod talu’r degwm yn enw cydraddoldeb crefyddol, ond mater arall, wrth gwrs, oedd daliadau personol a phreifat.

III.

Perchnogion y degwm

Yr oedd Robert Davies yn llygaid ei le pan honnodd, ‘The simplistic idea that all tithe (and the subsequent tithe rent-charge) was for the benefit of the parish incumbent is far from reality’.¹⁶⁸ Daeth y ffaith hwn yn amlwg yn yr adran ddiwethaf. Bwriad yr adran hon ydyw ymdrin ag ef yn fanylach. Gellir rhannu perchenogion y degwm i bedwar categori: 1) y periglorion plwyfol 2) adfeddwyr clerigol, h.y., Esgobion, Archddiaconiaid, prebendariaid, canoniaid a.y.b. 3) amfeddwyr lleyg a 4) ysgolion, colegau, elusennau a.y.b.

Ni ellir fod yn hollol sicr faint o berchnogion y degwm a ymrwymodd eu hunain yn y broses o’i gasglu. Dengys mai’r weithred gyffredin oedd rhoddi’r baich ar ysgwyddau rhywun arall drwy ei gynnig ar brydles; ei ‘ffermio’ allan. Daw hyn yn amlwg wrth bori drwy’r achosion o barthed y degwm yn y llysoedd eglwysig, lle gwelir cyfeiriadau mynych at ‘farmer of tithes’ neu ‘lessee of tithes’. Yn aml yr oedd y ‘ffermwyr degymol’ hyn yn gweithredu ar ran y clerigwyr. Dynion megis Morris Williams, gof o Sir Fôn, ‘farmer of the tithes of the Rev. Hugh Owen’, a wysiodd pum ffermwyr ym mhlwyf Aberffraw ynglŷn â’r degymau ym 1807.¹⁶⁹ Mewn achosion eraill gwelir rhyw fath o ‘gadwyn’ degymol. Yr oedd John Parry, Henllan, ‘taker or occupier of the tithes’, yn gweithredu i Sir Edward Pryce Lloyd, Barwnig,

¹⁶⁷ Eryn M. White, ‘A “poor, benighted Church”? Church and society in mid-eighteenth-century Wales’, yn R. R. Davies a Geraint H. Jenkins (goln.), *From Medieval to Modern Wales: Historical Essays in Honour of Kenneth O. Morgan and Ralph A. Griffiths* (Caerdydd, 2004), tt. 139-40.

¹⁶⁸ Robert Davies, *The Tithe Maps of Wales* (Aberystwyth, 1999), t. 83.

¹⁶⁹ LIGC, B/CC/C(G)/206-210.

sef prydleswr y degymau oedd ym meddiant deon Llanelwy.¹⁷⁰ Gan feddwl yn ôl i'r darlun dychanol a geir ym mhamffled Thomas Roberts o'r clerigwr yn casglu'r degwm, rhaid cwestiynu pa mor gyffredin, mewn gwirionedd, oedd y fath olygfa.

Yn wir, nid gorchwyl clerigol yn unig oedd busnes y degwm. Hyd yn oed cyn y diwygiad Protestannaidd, dengys Evans mai gweithred go gyffredin oedd prydlesu degymau'r mynachlogydd i wŷr lleyg. Ond yn sgil diddymiad y mynachlogydd, a hwythau yn berchen ar oddeutu traean o ddegymau Lloegr, y daeth canran sylweddol o'r degymau i ddwylo gwŷr lleyg fel *perchenogion*.¹⁷¹ Am ganrifoedd felly, yr oedd gwŷr lleyg wedi bod yn ymglymedig yn y cyfundrefn degymol, boed fel perchnogion neu fel prydleswyr.

Awgrymodd Best bod prydleswyr y degymau yn ddidostur dros ben tra'n casglu'r degymau. Yn wir, yr oeddynt mor ddrwg-enwog fe fygythiodd un clerigwr brydlesu ei ddegymau i'r cynigydd uchaf os na chydweithredai rhai o'i blwyfolion.¹⁷² Delwedd gyffelyb a geir gan R. E. Prothero hefyd o berchnogion lleyg absennol a'i prydleswyr, 'who ... exacted their legal dues with a strictness which was relatively rare among clerical tithe-owners'.¹⁷³ Yn sicr dyma'r ddelwedd a grëwyd gan Eglwyswyr oedd yn pryderu dros gyflwr yr Eglwys gynnddiwygiadol; pobl fel Erasmus Saunders, a ymdrechodd mor gynnar â 1721 i ddenu sylw'r cyhoedd at sefyllfa athrist y bywoliaethau eglwysig o fewn Esgobaeth Tyddewi.¹⁷⁴ Yn ei lyfr, *A View of the State of Religion in the Diocese of St. David's in the Diocese of St. David's*, dywedodd, mewn tŷn ddolefus:

so great are the Desolations of Religion in this Country; so many of our Churches are in actual Ruins; so many more are ready to fall, and almost all are robb'd and pillag'd by a sweeping Alienation of all Tyths, as well as of the Lands and Glebes once belonging to them, and become the Properties of such Persons as generally seem to

¹⁷⁰ LIGC, SA/CB/23, t. 155.

¹⁷¹ Evans, 'A History of the Tithe System in England', tt. 5-6. Gw. hefyd, Giles Constable, *Monastic Tithes from their Origins to the Twelfth Century* (Caergrawnt, 1964).

¹⁷² Best, *Temporal Pillars*, t. 67.

¹⁷³ Rowland E. Prothero, *English Farming: Past and Present* (Caergrawnt, 1912), t. 340.

¹⁷⁴ Erasmus Saunders, *A View of the State of Religion in the Diocese of St. David's in the Diocese of St. David's About the Beginning of the 18th Century: With Some Accounts of the Causes of its Decay, Together with Considerations of the Reasonableness of Augmenting the Revenues of Improprate Churches* (Llundain, 1721); adarg. gan Wasg Prifysgol Cymru, Caerdydd, 1949).

think themselves neither by Law nor Conscience bound to maintain the Worship of God in them.¹⁷⁵

Dichon iddo fod braidd yn felodramatig, ond yr oedd ei bryderon ynglŷn ag aralliad y degymau yn Nhyddewi yn rhai digon real, fel y gwelir nes ymlaen yn y bennod hon. Dengys y ffigyrau yn yr atodiad bod dros 75% o fywoliaethau yn yr Esgobaeth yn werth llai na £50 y flwyddyn.¹⁷⁶ Diddorol ydyw cymharu hyn gydag Esgobaeth Llanelwy, lle gwelir 54% o fywoliaethau oedd yn werth llai na £51 y flwyddyn ar ddechrau'r ddeunawfed ganrif.¹⁷⁷

Yn naturiol, cadw rhan y periglorion plwyfol a wnaeth y Parchg. Walter Davies (Gwallter Mechain) yn ei archwiliad adnabyddus i gyflwr amaethyddiaeth a'r economi yng Nghymru.¹⁷⁸ Creodd ddarlun digon cyd-oddefol o weithredoedd clerigwyr yr Eglwys o barthed y degwm, ac yn y gogledd cyfeiriodd at sawl enghraifft o 'liberality' ymysg yr offeiriad, gan gynnwys yr enghraifft hon:

When we consider that, upon average of the whole district, not above one-twentieth, or from that to one-thirtieth, of titheable articles is exacted, we must naturally expect the clergy to live upon friendly terms with their parishioners; and so it is, litigations seldom or never occur.¹⁷⁹

Am y de dywedodd, 'Where tithes are farmed out by whole or entire parishes, they are generally re-let very high; but this is seldom the case where resident clergy are concerned'.¹⁸⁰ Digon teg oedd ei honiad, 'Litigations seldom occur'. Ond yr oedd y datganiad, 'Litigations never occur' yn troedio ar dir mwy ansad. Rhwng 1783-1820 yng nghwrt eglwysig Esgobaeth Llanelwy (yr Esgobaeth oedd Davies yn gweithredu ynddi) gwelwyd 18 o achosion ynglŷn â'r degymau ac enwid clerigwyr yr Eglwys yn unig fel y rhai a dygwyd hwy ymlaen.¹⁸¹

¹⁷⁵ Ibid., tt.4-5.

¹⁷⁶ Ibid., tt. 129-144.

¹⁷⁷ Jacob, 'Part II: 1660-1780', t. 108.

¹⁷⁸ Yr oedd Davies yn gohebu'n aml gyda Peter Bailey Williams.

¹⁷⁹ Walter Davies, *General View of the Agriculture and Domestic Economy of North Wales; Containing the Counties of Anglesey, Caernarvon, Denbigh, Flint, Meirionnydd, Montgomery* (Llundain, 1810) tt. 96-97.

¹⁸⁰ Walter Davies, *General View of the Agriculture and Domestic Economy of South Wales; Containing the Counties of Brecon, Caermarthen, Cardigan, Glamorgan, Pembroke, Radnor, Vol. I* (Llundain, 1815), t. 184.

¹⁸¹ LIGC, SA/CB/21; SA/CB/23.

Atseiniwyd y sentiment hwn gan Eglwyswr pryderus arall, sef Arthur James Johnes; gŵr a ymchwiliodd yn fanwl i'r rhesymau dros dwf Ymneilltuaeth yng Nghymru a chyflwr yr Eglwys erbyn dechrau'r 1830au.¹⁸² Credodd fod yr amfeddwyr lleyg wedi creu niwed mawr i'r Eglwys. Nid oeddynt, yn ei dyb ef, yn rhannu'r un pryderon na'r un moesau â'r clerigwyr hynny a oedd yn byw yn barhaol ymysg eu plwyfolion.¹⁸³ I gadarnhau hyn dyfynnodd arsylliad a barn rhyw unigolyn anhysbys; mwy na thebyg clerigwr yr Eglwys o Gymru:

... impropiators in general are more strict in the valuation and letting of their tithes, so as to bring an odium not only upon themselves and their agents, but also upon the clergy as a body ...¹⁸⁴

Daeth y person hwn i'r casgliad:

... the full exactation of tithes, in such parishes, by such impropiators or the lessees of such dignitaries who are non-resident, has the effect of creating a coolness between the parishioners of such places and their resident vicars, who have little or nothing to do with the tithe grievances complained of. These coolnesses between parishioners and their pastors have been the causes of Dissent in thousands of instances, where opportunities of Dissent were at hand.¹⁸⁵

Y mae'r arsylliad hwn yn un diddorol oblegid fe welwyd rhywbeth cyffelyb yn ystod 'Rhyfel y Degwm', pan wrthododd y Dirprwywyr Eglwysig (corff â'i bencadlys yn Llundain) roddi dim yn ôl yn eu degymau. Ond i ba raddau yr oedd y degwm yn gyfrifol am ddenu'r bobl o'r Eglwys ac i fynwes Ymneilltuaeth?

Nid oedd gan yr Eglwys awdurdod dros y degymau lleyg. Yn wir, fe achosodd y degymau hyn ddipyn o benbleth o ran eu perthynas gyda'r cysyniad o ddatgysylltu a dadwaddolir Eglwys Wladol yng Nghymru. Eiddo preifat unigolion a sefydliadau eraill oeddynt wedi'r cwbl.¹⁸⁶ Disgwyliwyd i'r amfeddwyr lleyg ddarparu tâl offeiriad (*stipend*) os na dderbyniodd y periglor plwyfol yr un geiniog

¹⁸² Arthur James Johnes, *An Essay on the Causes which have Produced Dissent from the Established Church in the Principality of Wales* (Llanidloes, 1870; ail-argraffiad),

¹⁸³ Johnes, *An Essay on the Causes which have Produced Dissent from the Established Church in the Principality of Wales*, tt. 68-69.

¹⁸⁴ *Ibid.*, t. 69.

¹⁸⁵ *Ibid.*, tt. 69-70.

¹⁸⁶ Jones (gol.), *The Disestablishment and Disendowment of the Church of England in Wales*, t. 123.

o'r degwm.¹⁸⁷ Dengys, fodd bynnag, mai difaterwch llwyr oedd agwedd nifer o'r gwŷr lleyg tuag at les ariannol y periglorion.¹⁸⁸

Cymerodd rhai o glerigwyr yr Eglwys a'r wardeiniaid y cyfle i fynegi eu llesteiriant ynglŷn â'r amfeddwyr lleyg wrth lenwi ffurflenni'r cyfrifiad crefyddol ym 1851. Dywedodd Edward Pryce, warden eglwys Pennal, Sir Feirionnydd, 'The Tythes amount to about £225 now in the hands of Lord Seaham who allows only £22 for the maintainance of the Minister and the Parish Clerk'.¹⁸⁹ Yr oedd y Parchg. George Phillips, curad parhaol, yn gorfod gwasanaethu plwyfi Llanfachreth a Llanelltyd ger Dolgellau, Sir Feirionnydd. Gresynodd na thalodd Sir Robert William Vaughan nemor dim iddo. Y mae'n werth dyfynnu ei sylwadau'n llawn:

The Tithes of this Parish [Llanfachreth], the Annual Value of which is between [£]300 and [£]400 belong to the Patron and Impropiator, Sir R. W. Vaughan, Bart, out of which he pays his poor Curate the paltry sum above specified [£7]- a sum at which his scullery girl would turn up her nose.¹⁹⁰

The Tithes of this Parish [Llanelltyd], the Annual Value of which is £80, belong to the Patron and Impropiator, Sir R. W. Vaughan, Bart., out of which he pays the munificent sum above specified [£7] - 4d a day - to his unfortunate Curate - the average weekly allowance given to a pauper in this Union.¹⁹¹

Yn y de, datgelodd Ficer plwyf Nanhyfer, Sir Benfro, nad oedd y meddianwr lleyg yn cyfrannu dim tuag at anghenion ysbrydol y plwyfolion, eithr un neu ddau o boteli gwin adeg y Pasg a oedd, mae'n ymddengys, yn hen arferiad yno.¹⁹²

O'r £5,411 o ddegymau a hawliodd Chichester, dim ond £60 i £70 y flwyddyn a dalodd i'r periglorion yn gyfan gwbl.¹⁹³ Er enghraifft, dim ond £6 13s 4c y flwyddyn a dderbyniodd curadiaid parhaol plwyfi Llangwryfon, Llangynfelyn a Llanychaeearn mewn tâl offeiriedig gosodedig, a ficer Llanbadarn fawr £20. Nid oedd y symiau hyn wedi newid o gwbl ers y canol oesoedd, er bod yr incwm a

¹⁸⁷ Walter T. Morgan, 'The Diocese of St. David's in the nineteenth century – A. The unreformed Church', *Journal of the Historical Society of the Church in Wales*, cyf. VI, rhif. 12 (1957), t. 25.

¹⁸⁸ *Ibid.*, tt. 25-26.

¹⁸⁹ Ieuan Gwynedd Jones (gol.), *The Religious Census of 1851: A Calendar of the Returns Relating to Wales, Vol. II* (Caerdydd, 1981), t. 9.

¹⁹⁰ *Ibid.*, t. 270.

¹⁹¹ *Ibid.*, t. 271.

¹⁹² Ieuan Gwynedd Jones a David Williams (gol.), *The Religious Census of 1851: A Calendar of the Returns Relating to Wales, Vol. I: South Wales* (Caerdydd, 1976), t. 464.

¹⁹³ Jones, *Communities*, t. 41.

gynhyrchwyd gan y degymau wedi codi o £120 i £6,000 erbyn y bedwaredd ganrif ar bymtheg!¹⁹⁴ Nid oedd Chichester, yn ôl Jill Barber, hyd yn oed yn fodlon talu'r symiau pitw hyn. Pan osododd ef ei ddegymau allan i brydleswr o'r enw William Allen o'r Amwythig, gwnaeth yn siŵr mai Allen oedd yn gorfod talu'r clerigwyr. Pa fodd bynnag, nid oedd y gŵr o'r Amwythig yn ymwybodol o hyn, ac o ganlyniad ni dderbyniodd y clerigwyr eu tâl.¹⁹⁵

Credodd David Williams, 'The underlying cause of all the defects from which the church suffered in Wales was poverty, and this poverty was due, above all else, to the fact that the tithes had passed in so many parishes into the hands of lay owners, and were not applied to religious purposes'.¹⁹⁶ Y broblem gyda chyffredinoliad Williams ydyw'r ffaith nad ydyw'n cymryd i ystyriaeth natur anghytwys perchenogaeth y degwm drwy Gymru benbaladr. Codwyd y gwyll a oedd wedi amlyncu'r gwir darlun ers hydion yn nogfennau cymudo'r degymau ar ôl 1836. Dengys ffigur 1.3 bod 59% o'r degymau yn nwylo'r periglorion plwyfol a bod 41% wedi eu arallu i berchenogion eraill ar draws Cymru a Lloegr. Ond os cyfunwn ffigurau'r periglorion plwyfol a'r adfeddwyr clerigol gyda'i gilydd, gwelir bod 76% o'r degymau yn perthyn i Eglwys Loegr.

Wrth edrych ar ffig 1.4, sef y ffigurau tros Gymru'n unig, gwelir newid yn y sefyllfa. Dim ond 51% o'r degymau oedd yn nwylo'r periglorion plwyfol, gyda 49% wedi'u arallu o'r plwyfi. Serch hynny, yr oedd 75% o'r degymau ym meddiant yr Eglwys yng Nghymru. Dyma'r darlun yn gyffredinol. Ond fel y gwelir wrth edrych ar ffig. 1.5., yr roedd yna wahaniaethau rhanbarthol. Dichon mai'r peth sydd yn taro rhywun gyntaf ydyw'r ffaith bod bron i dri chwarter o'r degymau yn Sir Aberteifi a Sir Gaerfyrddin yn nwylo perchnogion eraill eithr y periglorion plwyfol. Nid syndod felly mai clerigwyr Tyddewi oedd ymhlith y tlotaf yng Nghymru erbyn 1831.¹⁹⁷ Eto, gwelir mai eithriad oedd y ddwy sir yma oblegid ni feddiannodd amfeddwyr lleyg ddim mwy na chwarter o'r degymau yn siroedd eraill yng Nghymru. Rhywbeth oedd yn gymwysedig i ambell i ardal yng Nghymru oedd y ddelwedd yma o amfeddwyr

¹⁹⁴ Morgan, 'The Diocese of St. David's in the nineteenth century,' t. 26; Barber, 'A fair and just demand?,' t. 204.

¹⁹⁵ Barber, 'A fair and just demand?' t. 204.

¹⁹⁶ David Williams, *A History of Wales* (Llundain, 1977; ail-argraffiad), t. 136.

¹⁹⁷ Rev. H. W. Clarke, *A History of the Church of Wales* (Llundain, 1896), Appendix, t. 242.

lleyg yn echdynnu symiau sylweddol o ddegymau o'r plwyfi, yn hytrach nag i Gymru gyfan.

Gellir plethu hyn i arsylliad Ieuan Gwynedd Jones ynglŷn âg enwadaeth grefyddol yn Sir Gaernarfon. Gan mai dim ond oddeutu gwerth 17% o ddegymau'r sir oedd yn ddaliadwy i amfeddwyr lleyg, gellir cytuno gyda'i ddyfarniad, 'the resentments which it [tithes] undoubtedly generated were against the Church as tithe owners and not against laymen as tithe owners'.¹⁹⁸ Er hynny, yr oedd 42 ardal allan o 69 yn y sir yn talu degwm i amfeddwyr lleyg; 25 yn talu symiau eithaf pitw i swyddogion lleyg a gynorthwyodd offeiriad y plwyf ac 17 i lleygwyr eraill.¹⁹⁹ Ond nid ydyw hyn yn newid y ffaith bod rhan helaeth o'r degymau yn nwylo'r Eglwys. Fel y dywed Ieuan Gwynedd Jones, 'Her [Church] tragedy lay rather in that she failed in areas where she was strong'.²⁰⁰ Dichon nad oedd yna sir cyn gryfed ei Ymneilltuaeth yng Nghymru nag Sir Feirionnydd erbyn canol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Eto, dim ond 6% o ddegymau'r sir, yr isaf yng Nghymru heblaw am Sir Faesyfed, oedd yn cael eu hawlio gan amfeddwyr lleyg. Rhaid felly bod yn wyliadwrus rhag gor-bwysleisio effaith colled y degymau i wŷr lleyg fel un o'r prif resymau am dwf Ymneilltuaeth yng Nghymru.

Wedi trafod pechodau'r amfeddwyr lleyg, rhaid cymryd i ystyriaeth ffaelecteddau'r adfeddwyr clerigol hefyd. Yr oedd y degymau hyn yn perthyn i'r Eglwys, ac fel y daw'n glir yn y bennod nesaf, yr oedd hyn o fantais enfawr i'r Eglwys yn yr hir dymor pan ddaethant i ddwylo'r Dirprwywyr Eglwysig. Ond cyn hyn, nid oeddynt, fel y dangosir gan Evans, dim gwahanol i ddegymau'r amfeddwyr lleyg oblegid mai gwŷr lleyg oedd yn bennaf gyfrifol am eu casglu; fel prydleswyr neu 'ffermwyr'.²⁰¹ Credodd Walter T. Morgan fod yr adfeddwyr clerigol yn Esgobaeth Tyddewi wedi bod mor analluog yn eu goruchwyliaeth o'i degymau nes peri iddo alw eu hymddygiad yn dramgwyddus.²⁰² Nid oedd Cabidwl Tyddewi

¹⁹⁸ Ieuan Gwynedd Jones, *Explorations and Explanations: Essays in the Social History of Victorian Wales* (1981), tt. 34-35.


¹⁹⁹ Davies, *The Tithe Maps of Wales*, t. 92. Ymddengys mai rhywbeth cyfyngedig i ogledd Cymru oedd talu rhan o'r degwm i'r swyddogion lleyg hyn. *Ibid.*, t. 89.

²⁰⁰ Jones, *Explorations and Explanations*, t. 35.


²⁰¹ Evans, 'A History of the Tithe System in England', tt. 20-21.

²⁰² Morgan, 'The Diocese of St. David's in the nineteenth century – A. The unreformed Church', t. 7.

Ffig. 1.3 Dosbarthiad canran rhent-dal y degwm oedd yn nwylo'r gwahanol berchnogion yng Nghymru a Lloegr erbyn hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg




Ffig. 1.4 Dosbarthiad canran rhent-dal y degwm oedd yn nwylo'r gwahanol berchnogion yng Nghymru erbyn hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg



Ffynhonnellau: Ffigyrau 1.3 a 1.4 yn seiliedig ar y ffigyrau a geir yn: Davies, *The Tithes Maps of Wales*, t. 83; PP 1887 CCXIII, Return of all Tithes Commuted and Apportioned under the Acts for the Commutation of Tithes, distinguishing between those assigned to Clerical Appropriators and their Lessees, Lay Impropiators, Parochial Incumbents, and Schools, Colleges, etc. ... and completing the Return up to the 30th day of June 1887, tt. 269-292.

Ffig. 1.5 Canran rhent-dal y degwm oedd yn nwylo'r gwahanol berchnogion yng Nghymru erbyn hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn ôl Sir.



Ffynonellau: Map yn seiliedig ar ffigyrau a geir yn Davies, *The Tithe Maps of Wales*, t.85; PP 1887 CCXIII, Return of all Tithes Commuted and Apportioned under the Acts for the Commutation of Tithes, distinguishing between those assigned to Clerical Appropriators and their Lessees, Lay Impropropriators, Parochial Incumbents, and Schools, Colleges, etc. ... and completing the Return up to the 30th day of June 1887, tt. 269-292.

mewn sawl achos yn derbyn dim mwy na thraean o wir werth eu degymau pan logwyd hwy i wŷr lleyg.²⁰³

Yn ogystal â hyn, nid oedd nepotistiaeth rhai o Esgobion yr Eglwys yng Nghymru wedi helpu'r sefyllfa ychwaith. Dichon mai Esgob Luxmoore (Esgob Llanelwy rhwng 1815-1830) oedd y mwyaf drwg-enwog, 'the King of Nepotists', meddai'r Parchg. Henry William Clarke.²⁰⁴ Amcangyfrifwyd bod Luxmoore a'i deulu yn derbyn rhwng £25,000-£27,000 yn flynyddol o'r Eglwys, gyda chanran sylweddol ohono yn deillio o ddegymau esgobaeth Llanelwy. Yn wir, yr oedd Esgob Luxmoore ei hun yn derbyn gwerth £8,120 o ddegymau (£10,828 cyn cymudo) o 24 o blwyfi tra yr oedd ei feibion a pherthnasau eraill yn derbyn oddeutu £7,226 o'r esgobaeth.²⁰⁵ Dengys mai dilyn esiampl rhai o'i ragflaenwyr oedd yr Esgob Luxmoore, oblegid yr oedd perthnasau a ffrindiau Esgob Horsley, Cleaver a Bagot wedi derbyn £2,690, £2,126 a £1,100 yn ôl eu trefn.²⁰⁶

Drwg arall a rwystrodd yr Eglwys rhag gwneud defnydd llawn o'i chyllid oedd y weithred anonest gan ambell i adfeddwr clerigol o brydlesu eu degymau 'am fywyd' (Leases for Lives). Maentumiodd Clarke mai'r prebendariaid oedd y gwaethaf, oblegid fe brydlesodd hwy gwerth sylweddol o'u degymau cyn iddynt ddyfod i ddwylo'r Dirprwywyr Eglwysig ym 1840. Erbyn diwedd y ganrif yr oedd degymau'r prebendariaid mewn 14 o blwyfi allan o 26 yn Nhyddewi dal allan ar brydles, ac felly allan o afael y Dirprwywyr am y tro.²⁰⁷ Yr oedd gwerth £6,064 o ddegymau yng Nghymru a oedd yn ddyledus i'r Dirprwywyr Eglwysig ym 1893 dal allan ar brydles, gyda £5343 (88% o'r cyfanswm) yn ddyledus o Esgobaeth Tyddewi yn unig.²⁰⁸

Cyn ymadael a'r adfeddwyr clerigol, rhaid nodi un peth arall o bwys. Yn ystod 'Rhyfel y Degwm', rhoddodd ambell i wrth-ddegymwr chwedl ar goedd fod canran o ddegymau Cymru wedi eu disbyddu allan o'r wlad er budd Esgobion a chabidylau yn Lloegr. Edrychwn yn fanylach ar hyn yn y bennod nesaf, ond cyfeirio

²⁰³ Ibid., tt. 7-8.

²⁰⁴ Clarke, *A History of the Church of Wales*, t. 142.

²⁰⁵ Ibid., tt. 142-144; Idem., *A History of Tithes*, t. 220; Johnes, *Dissent in Wales*, t. 219; D. R. Thomas, *A History of the Diocese of St. Asaph* (1874), t. 153.

²⁰⁶ Thomas, *A History of the Diocese of St. Asaph*, t. 153.

²⁰⁷ Clarke, *A History of the Church of Wales*, tt. 146-147; Idem., *A History of Tithes*, tt. 221-222.

²⁰⁸ PP 1894 LXIV, Church in Wales and Monmouthshire (glebe and tithe). Return, by parishes and counties, of the property of the church in Wales and Monmouthshire in glebe and tithe rentcharge, and from other sources, tt. 43-44.

yr oeddynt at sefyllfa oedd yn *arfer* bod, yn hytrach na'r sefyllfa *oedd* yn bod erbyn diwedd y ganrif. Gwir, pan gyfnewidiwyd y degwm dengys bod oddeutu £15,660 (21%) o ddegymau'r adfeddwyr clerigol yn ddaliadwy i Esgobion a chabidylau o Loegr. Er enghraifft, yr oedd Esgob a chabidwl Caerloyw a Bryste yn hawlio gwerth £4,974. 7s. 9c. o ddegymau yn y de ddwyrain, tra bod Esgob Caerlwygoed (Lichfield) a Chofentri yn berchen ar £1,456. 10s. 0c. mewn pedair blwyf yn ne Sir Feirionnydd.²⁰⁹ Dichon yr oedd y ffaith hon yn ddigon i adael ei farc ar yr ardal, canys hyd heddiw gwelir yr enw 'Lichfield Terrace' ar res o dai ym mhentref Abergynolwyn; pentref yng nghrombil Sir Feirionnydd.²¹⁰

IV.

Cymhlethdod y gyfundrefn ddegymol

Erbyn dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac yn sgil sêl diwygio'r 1830au, ymddangosodd y gyfundrefn degwm yn un hynafol, dyrys ac aneffeithlon. Yn glytwaith cymhleth o arferion lleol, nid oedd un dull cyffredin i bennu beth, faint a sut oedd i'w gasglu. Y mae'n angenrheidiol edrych yn fanwl ar yr agwedd yma o'r degwm er mwyn dangos yn glir nad taliad syml o 10 y cant o gynnyrch rhywun ydoedd. Ym 1883 dywedodd Samuel Roberts (S.R.), Llanbryn-mair, 'Gwaith anhawdd a gofidus ydyw cynnull y Degwm.'²¹¹ Sylwodd pa mor anwastad oedd y degwm, a sut yr oedd yn amrywio o le i le:

Mewn rhai manau derbynir y ddeuddegfed ran yn lle y ddegfed ran, ac mewn manau eraill gwna pedair ceiniog y tro am ddegwm y tyddyn. Mewn rhai manau ni chodir ond dwy geiniog am y cyfair gwneith, pan mewn manau eraill o'r braidd yr ymfodlonir ar y dau can ceiniog ... Degymir weithiau un peth, ac weithiau beth arall, ac weithiau bron bob peth.²¹²

Os gwir oedd hyn, 'degwm' mewn gair yn unig oedd y taliad erbyn hynny.

²⁰⁹ Davies, *The Tithe Maps of Wales*, t. 86.

²¹⁰ Ymddengys bod gwerth £40 o ddegymau Llanfihangel-y-Pennant (allan o £190 ar ôl iddynt gael eu cyfnewid) yn cael eu rhoddi'n ôl yn flynyddol at gynhaliath periglwr y plwyf, a oedd fel arall yn derbyn dim o ddegymau'r plwyf. Elwyn Roberts, *Wrth Odre Cadair Idris* (Penygroes, 1989), tt. 20-21.

²¹¹ *Y Dysgedydd* (1833), t. 169.

²¹² *Ibid.*

Cyn 1836, talwyd y degymau mewn dau brif fodd: naill ai mewn nwyddau neu mewn arian. Yn ymarferol, yr oedd casglu'r degymau mewn nwyddau yn waith blinderus hyd yn oed mewn plwyfi cymharol fach a gwastad, felly gellir dychmygu graddfa'r gorchwyl mewn plwyfi eang a mynyddig.²¹³ Dyfynnir yma un arfer ynghylch degymau ŵyn ym mhlwyf Mallwyd, Sir Feirionydd, yn gyflawn er mwyn dangos natur troellog rhai o'r arferion lleol:

Yr oedd y perchenog i ddyfod a'r holl ŵyn i'r un gorlan wrthynt eu hunain, - yna cai y perchenog wneyd y dewisiad cyntaf, a'r Rheithor yr ail, &c., felly y cymerid hwy i fyny yn eu tro hyd nes y degymid hwy oll. Os byddai ŵyn y perchenog o dan bedwar o nifer, yr oedd i dalu dwy geiniog i'r Rheithor am bob oen. Os byddai nifer yr ŵyn yn bedwar, pump, neu chwech, cymerid un oen i fyny gan y Rheithor i'w brisio, a'r perchenog oedd i roddi pris arno; ond yr oedd y Rheithor at ei ddewisiad i gymeryd neu adael yr oen am y pris appwyntiedig. Yr oedd gan y Rheithor hawl i un oen o bob saith, a'r un modd o saith i dri-ar-ddeg.²¹⁴

Ceir darlun gan Gwallter Mechain o'r gybolfa o ffurf y dalwyd y degwm yng Nghymru yn ei waith adnabyddus, *General View of the Agriculture and Domestic Economy of North Wales* (1810) a *South Wales* (1815).²¹⁵ Yn y gogledd sylwodd:

In some parishes, the tithes of their own grain is left to the growers; in others, one person takes a township, and collects it in kind: and the custom, in many parts, from time immemorial, is to take the eleventh instead of the tenth, as a compensation to the farmer for harvesting the grain fit to be carried. Hay is tithed in kind in some places; in others, an easy composition per acre, or per pound rent, is accepted.²¹⁶

Yn anffodus nid yw ei sylwadau ynglŷn ag arferion degymol y de mor drwyadl â'r rhai a luniwyd am y gogledd. Ond digon tebyg oedd y sefyllfa yno hefyd, 'In some places they [tithes] are raised in kind; in others a composition or modus is paid ... Commutation is the general cry'.²¹⁷ Gwelir felly sut y daeth arferion lleol i fodolaeth.

²¹³ Evans, *Tithes and the Tithe Commutation Act 1836*, t. 2.

²¹⁴ Thomas Davies (Tegwyn), *Dinas Mawddwy a'i Hamgylchoedd: Yn Cynnwys Hanes Gwladol, Cymdeithasol, Crefyddol, Hynafiaethol, a Thraddodiadol &c.* (Machynlleth, 1893), tt. 39-40.

²¹⁵ Walter Davies, *General View of the Agriculture and Domestic Economy of North Wales; Containing the Counties of Anglesey, Caernarvon, Denbigh, Flint, Meirionydd, Montgomery* (Llundain, 1810); *Idem., General View of the Agriculture and Domestic Economy of South Wales; Containing the Counties of Brecon, Caermarthen, Cardigan, Glamorgan, Pembroke, Radnor, Vol. I & II* (Llundain, 1815).

²¹⁶ Davies, *General View of the Agriculture and Domestic Economy of North Wales* (1810), t. 96.

²¹⁷ Davies, *General View of the Agriculture and Domestic Economy of South Wales, Vol I* (1815), t. 184.

Er mwyn cyfleustra, daeth taliadau ariannol yn fwyfwy cyffredin erbyn y ddeunawfed ganrif. Ond ni olygodd hynny lwyr ddiflaniad taliadau mewn nwyddau. Er enghraifft, casglodd periglor plwyf St. Andrews, Sir Forgannwg, ei ddegymau mewn cynnyrch mor hwyrdd â 1 Hydref 1840 (cyn i delerau Deddf y Degwm 1836 dod i effaith yno).²¹⁸ Ond rhaid pwysleisio'r ffaith bod taliadau ariannol yn nodwedd gyffredin o fewn y gyfundrefn degymol cyn i'r degymau cael eu cyfnewid o 1836 ymlaen.

Os mai casglu'r degwm mewn nwyddau oedd y ffordd orau i gythruddo ffermwyr wrth iddynt weled eu cynnyrch yn cael ei gludo i ffwrdd mewn cert, dichon mai taliadau *modus* oedd y modd lleiaf boddhaol i'r degwm feddianwyr.²¹⁹ Taliadau traddodiadol oedd y rhain a drawsffurfiwyd mewn i arfer mewn nifer o blwyfi dros gyfnod maith o amser. Ond erbyn diwedd y ddeunawfed ganrif nid oedd nifer o'r *modi* hyn yn cynrychioli gwir werth y degwm.²²⁰ 'A modus of 2d. or 4d. per farm', meddai Davies am ogledd Cymru, 'frequently precludes the tithe-owner's claim; even where the crop of hay may be worth from £100 to £200.'²²¹ Ymestynnwyd y taliadau *modus* i gynnyrch eraill hefyd. I roi un enghraifft ar hap, ym mhlwyf Tal-y-llyn, Sir Feirionnydd, yr oedd pedair ceiniog yn daliadwy am bob oen dan bump mewn nifer; pedair ceiniog am bob ugain o ŵyn yn lle llefrith mamogiaid; pedair ceiniog am bob tenement yn lle degwm gwair; dwy geiniog am bob buwch laethog; un geiniog am bob heffer ar ôl bwrw llo am y tro cyntaf a chwe cheiniog am bob caseg ac ebol.²²²

Nid oedd pob *modus*, fodd bynnag, yn daliad ariannol. Cafwyd un o'r enghreifftiau rhyfeddaf ym mhlwyf Llanfihangel Esgeifiog gyda Llanffinan, Sir Fôn. Yn hytrach na thalu degwm y gwair (eithr am un cae) mewn arian neu mewn cynnyrch, y telerau a darwyd arno rhwng fferm Tyddynmawr a'r periglor plwyfol oedd, 'A dinner for the Minister and a feed for his Horse every alternate Sunday'.²²³

²¹⁸ LIGC, Dinas Powis, 418, llythyr drafft gan E. H. Lee Ysw., (21 Hydref 1841).

²¹⁹ Roger J. P. Kain a Hugh C. Price, *The Tithe Surveys of England and Wales* (Caergrawnt, 1985), tt. 15-16.

²²⁰ Evans, *Tithes and the Tithe Commutation Act 1836*, t. 4.

²²¹ Davies, *General View of the Agriculture and Domestic Economy of North Wales* (1810), t. 96.

²²² Dogfen dosraniad y degwm ym mhlwyf Tal-y-Llyn, Sir Feirionnydd – 52/31 - <http://cynefin.archiveswales.org>.

²²³ Dogfen dosraniad y degwm ym mhlwyf Llanfihangel Esgeifiog gyda Llanffinan, Sir Fôn - 44/36 - <http://cynefin.archiveswales.org>.

Ond ni aeth yr offeiriad na'i geffyl yn newynog ar y Sul arall, canys yr oedd yn cael ei ginio yn fferm Hendrefaig, Llanffinan, o dan yr un telerau!²²⁴

Cyfeiriwyd eisoes am, 'letting' neu 'setting the tithes'.²²⁵ Ni ellir fod yn hollol siŵr am y sefyllfa yn y de, ond yn sicr yr oedd gosod y degymau yn y modd hyn yn nodweddiadol o'r gyfundrefn degymol yn y gogledd; yn enwedig yn Sir Fôn a Sir Ddinbych.²²⁶ Ym 1812 dywedodd John Maughan yn ei arolwg a gyflwynodd i R. O. Meyrick, Ysw., (Bodorgan, Sir Fôn), 'The cruel and destructive system practised in the Diocese of St. Asaph and Bangor, of letting the Tithes by auction compels the occupier to pay £10 per cent. for his own property ...'²²⁷ Ceir mewnwelediad diddorol i'r ymarfer yma, yn ogystal â chasglu'r degwm yn gyffredinol, yn Sir Fôn yn ystod y deunawfed ganrif gan G. Nesta Evans. Y mae ei thystoliaeth yn seiliedig ar arsylliadau William Bulkeley Ysw., Brynddu. Ym mhlwyf Llanfechell, cymerwyd y degymau mawr (eithr un fferm) mewn cynnyrch, ond yn hytrach na gorfod mynd o gwmpas y ffermydd hyn i'w casglu, cynhaliodd person y plwyf arwerthiant bob blwyddyn i dderbyn ei ddegymau.²²⁸ Yn ôl Evans, '... he sold to the highest bidder the tithes of the different districts in the parish, receiving for himself a definite sum of money in lieu of goods'.²²⁹ Gwelir bod Bulkeley ei hun yr un mor ymglymedig â'r offeiriad pan 'ffermiodd' ef ei ddegymau allan i wŷr lleyg.

V.

Casgliad

Nid oedd nemor dim yn syml ynghylch y degwm. Yr oedd pob golygwedd ohono yn ddyrys ac aneglur; o'i darddiad gwirfoddol hyd at ei ymddangosiad fel taliad cyfreithiol, o'r perchenogion hyd at y rhai oedd yn ei dalu, o'r modd y casglwyd ef hyd at y bobl oedd yn ei gasglu. Nid ydyw'n syndod bod hi mor anodd i dynnu llinell derfyn o dan yr holl ddadlau o'i gylch, gydag ystyriaethau moesol a

²²⁴ Ibid.

²²⁵ G. Nesta Evans, *Religion and Politics in Mid-Eighteenth Century Anglesey* (Caerdydd, 1953), t. 168.

²²⁶ Kain a Price, *The Tithe Surveys of England and Wales*, t. 12.

²²⁷ Dyfynwyd yn Evan J. Jones, 'The Enclosure Movement in Anglesey (1788-1866)', *Transactions and Reports of the Anglesey Antiquarian Society and Field Club* (1925), t. 38.

²²⁸ Evans, *Religion and Politics*, t. 168.

²²⁹ Ibid., t. 168.

chfreithiol yn ymdoddi i greu darlun eithaf cymhleth o ran tynged y taliad hynafol. Yr hyn sydd yn ddiddorol yma ydyw'r gwrthgyferbyniad a gawn rhwng y realiti o dalu'r degymau a'r dadleuon coeth eu naws yn tarddu o foesoldeb. Y gwirionedd ar y naill law a'r ideoleg ar y llall. Nid oedd hyn am newid nes y datgysylltwyd a dadwaddolwyd yr Eglwys yng Nghymru ym 1920. Wrth symud ymlaen mewn amser i'r 1830au, sut ddatblygodd y gwrthgyferbyniad wrth i 'ail wedd' o ddadleuon ymddangos?

Pennod II

Y Dadlau yn Poethi, 1830-1836

Rhagarweiniad

Ym 1830 y dechreuodd yr ymgyrch i ddatgysylltu'r Eglwys Loegr o ddifrif yng Nghymru.¹ Hyd yn oed ychydig o flynyddoedd ynghynt, yr oedd darllenwyr y cylchgronau Cymraeg yn mynnu atebion i'w cwestiynau o barthed y degwm. Ym 1828 gofynnodd 'T.M' i ddarllenwyr *Greal y Bedyddwr*, 'A ydyw yn beth efengylaidd dan yr oruchwyliaeth bresennol i dalu degwm?'² Yn yr un flwyddyn, gofynnodd 'Ab Ceredig' i ddarllenwyr *Seren Gomer* ynglŷn â Genesis 14:20, 'Pa un ai o'i ewyllys da, neu ynte yn gyfreithiol, yr oedd Abraham yn gwneuthur felly?'³ Rhyfeddaf oll ydyw canfod David Owen (Brutus), gwron yr Eglwyswyr ymhen llai na degawd yn ei rôl fel golygydd *Yr Haul*, yn datgan yn *Lleuad yr Oes* ym 1828 o barthed y degwm a'r Eglwys Sefydledig, 'ond gyda phob dyledus barch i urddasolion yr Eglwys Sefydledig, rhoddaf hêr iddynt ddangos eu hawl i'w cyflogau, oddi wrth orchymyn Crist, neu ymarferiad apostolaidd'.⁴ Serch hynny, nid aeth cyn belled ag awgrymu datgysylltiad.

Nid ydyw'n syndod canfod ymchwyddiad sylweddol yn y nifer o ddadleuon chwyrn ynglŷn â'r degwm a hawl yr Eglwys iddo yn ystod cyfnod tymhestlog yr 1830au cynnar. Aeth Evans cyn belled â datgan, 'In the period 1831-4, it seems safe to say, that the Church of England stood in more imminent danger of disestablishment than at any time before or since'.⁵ Y mae'r bennod hon yn edrych yn fanwl ar y rhethreg danllyd ynghylch y degymau yng Nghymru yn ystod 'oes y diwygio'. Ceir driniaeth hefyd o'r helyntion yn Iwerddon o barthed y degymau, gan ofyn pam na gafodd Cymru hefyd 'Rhyfel y Degwm' yr un adeg?

¹ Ceir astudiaeth fanwl o'r ymgyrch rhwng 1839-1840 yn R. Tudur Jones, 'The origins of the Nonconformist disestablishment campaign 1830-1840', *Journal of the Historical Society of the Church in Wales*, cyf. 20, rhif. 25 (1970), tt. 39-76.

² *Greal y Bedyddwyr* (1828), t. 244.

³ *Seren Gomer* (1828), t. 181; 'A rhoddodd Abram iddo ddegwm o'r cwbl' i Melchisedec.

⁴ *Lleuad yr Oes* (1828), t. 673.

⁵ Eric Evans, *The Contentious Tithe: The Tithe Problem and English Agriculture, 1750-1850* (Llundain, 1976), t. 121.

I.

Y dadleuon

Pam 1830 yng Nghymru? Ymddengys mai'r sbardun a daniodd ffiws y ddadl dros ddatgysylltu Eglwys Loegr ymhlith y Cymry oedd llith o dan y pennawd 'Yr Eglwys' gan ŵr o'r enw 'Cristion', a ymddangosodd yn *Seren Gomer* yn ystod y flwyddyn honno.⁶ Hugh Hughes 'yr arlunydd' oedd yr awdur, Methodist wedi newid corlan pan ymunodd ef â'r Annibynwyr oblegid ei safbwyntiau Rhyddfrydol a radicalaidd.⁷ Ym 1910 dywedodd y Parchg. James 'Spinther' James (gŵr a chwaraeodd rhan yn ystod 'Rhyfel y Degwm') amdano:

Dyma'r gwr a ddaeth yn Ddadgysylltwr cyn bod sôn am "Gymdeithas y Dadgysylltiad;" ac i ddynoethi yn *Seren Gomer* orthrwm ac anghyfiawnder y degwm gorfodol at gynnal Eglwys nad oedd y bobl yn cael dim budd oddiwrthi, tra yr oedd yr Ymneillduwyr yn gyffredin eto yn ymfoddloni ar gael llonydd yn rhywle i addoli Duw a chynnal eu crefydd, tra ar yr un pryd y gorfodid hwy i gynnal Eglwys oedd yn eu gorthrymu!⁸

Yr oedd James yn hyrwyddwr selog o ddatgysylltiad, ac fe ystyriwyd Hughes yn olynnydd teilwng i Morgan John Rhys, 'Dyma Apostol Rhyddid Crefyddol yn dadgan yn eofn yr un egwyddorion ag a ddatganasai Morgan John Rhys trwy Gymru ...'⁹

Ym 1828 yr oedd Hughes yn aelod o gapel M.C. Jewin yn Llundain, ac yn y flwyddyn honno fe arwyddodd (a sawl aelod arall hefyd) ddeiseb o blaid rhyddfrenio'r Catholigion. Hysbyswyd John Elias o'r weithred, a mynnodd fod eglwys Jewin yn diarddel y deisebwyr, ac fe ysgymunwyd Hughes gan y sasiynau.¹⁰ Deliw'n gyda Elias a'i agwedd tuag at y degwm yn y man. Ond yn ddiamau yr oedd ysgaru â'r Methodistiaid wedi galluogi Hughes i ymryddhau ei hun o efyynnau ceidwadol ei gyn enwad.

⁶ *Seren Gomer* (1830), tt.144-145.

⁷ R. T. Jenkins, 'Hugh Hughes', *Y Bywgraffiadaur Cymreig Hyd 1940*, tt. 355-356. Efô oedd yn gyfrifol am y darluniau dychanol o'r enw 'Pictures for the Million of Wales', ym 1848 wedi cyhoeddiad y 'llyfrau gleision'.

⁸ James 'Spinther' James, 'Hugh Hughes, yr Arlunydd', *Y Traethodydd* (1910), t. 292.

⁹ Spinther, t. 301.

¹⁰ Jones, 'The origins of the Nonconformist disestablishment campaign', tt. 49-50. Ymosododd Hughes ar awdurdodau'r M.C., ac yn enwedig John Elias yn y *Seren Gomer* ym 1828, ac fe gyhoeddodd yr ysgrifau mewn pamffled o'r enw *Y Trefnyddion a'r Pabyddion: Rhyddid Gwladol ac Eglwysig, Cyfeiriedig at y Cymry, y Trefnyddion Calviniaidd, a Mr. John Elias* (Llundain, 1829).

O'r dechrau, defnyddiwyd y degwm fel cansen i guro'r Eglwys Sefydledig. Tebyg i drethi'r eglwys, ystyriwyd y degwm gan radicaliaid fel agen ym muriau'r Eglwys y gellid gweithio arni; man gwan, fel petai, mewn sefydliad a ymddangosai bron yn anghyffyrddadwy. Ond dyma'n union a wnâi Hughes am oddeutu dwy flynedd pan ymosododd ar yr Eglwys a'i freiniau yn y *Seren Gomer*, a'r degwm, wrth gwrs, oedd cnewellyn y ddadl.¹¹ Yn ei lith gyntaf dywedodd mai 'cam' oedd gorfod talu'r degwm, a 'pe bai *pawb* yn erfyn am wardigaeth ni pharhéid y cam yn hŵy'.¹² Gan gofio mai dyddiau cynnar iawn oedd y rhain i fentro cynhyrfu'r bobl i ystyried yr Eglwys Sefydledig fel un 'anghristnogol', nid oedd rhethreg Hughes dim llai fflamboeth ag yr oedd erbyn chwarter olaf y ganrif:

Nid *crefydd* a gynnaliwch trwy y degwm, ond sefydliad sydd yn peri anfeidrol niwed i wir grefydd yn y byd;- *Babilon*, y *Butain*, yr *Anghrist*, a *phyrth uffern*. Nid y grefydd esgobawl wyf yn olygu, ond y peth fel SEFYDLIAD GWLADOL, tan rith *Eglwys*, peth y mae yn rhaid ei ddiddymu cyn y bydd dyn yn rhydd, na'r nef yn ogoneddedig, na'r wlad yn llwyddiannus.¹³

Yn sicr mae yna elfen o bregethu 'tân a brwmstan' yma, ond fel y dywed R. Tudur Jones, 'such violent language would not be approved by many Dissenters at the time, but it does mark the emergence of a new militancy'.¹⁴ Er yr iaith filwriaethus, yn ei hanfod, dyma oedd safiad Anghydfurfwyr drwy gydol y ganrif. *Diwygio*, nid *dinistrïo* 'r Eglwys Anglicanaidd oedd y prif amcan. Cydraddoldeb crefyddol oedd y gri.

Dyn dewr oedd 'Gwr Lleyg', *nom de plume* Evan Evans (Ieuan Glan Geirionydd), curad Christleton, Swydd Gaer, ar y pryd.¹⁵ Llais unig ydoedd yn dadlau o blaid y degwm mewn cylchgrawn oedd yn Rhyddfrydol yn ei wleidyddiaeth ac Anghydfurfiol ei naws.¹⁶ Serch hynny, daliodd y curad ei gornel a dadlodd yn ddygn yn erbyn Hughes a gohebwyd eraill oedd wedi ymuno â'r frwydyr. Gohebwyd

¹¹ Hugh Hughes, 'Cristion', *Seren Gomer* (1830), tt.144-145, tt.357-359; (1831), tt. 137-138, tt. 241-243; (1832), tt. 76-77, 105-107, 171-173, 236-237, 299-301.

¹² *Seren Gomer* (1830), t. 144.

¹³ *Seren Gomer* (1831), t. 243.

¹⁴ Jones, 'The origins of the Nonconformist disestablishment campaign', t. 44.

¹⁵ *Y Bywgraffiadur Cymreig Ar-lein*, 'Evan Evans (Ieuan Glan Geirionydd), gan David Gwenallt Jones.

¹⁶ Evan Evans, 'Gwr Lleyg', *Seren Gomer* (1830), tt. 203-206, tt.356-357; (1831), tt. 38-39, tt. 134-137, tt.173-176, tt.302-305; (1832), tt. 6-7, tt. 138-141. Gwelir llith gan 'Gwr Lleyg' ar dudalennau tt. 299-300 (1831), ond dengys mai twyllwr oedd y gohebydd hwn yn ôl Evan Evans, t. 6 (1832).

megis ‘Yr Oen’, a welodd yr anghyfiawnder o dalu’r degwm er mwyn cynnal, ‘*un blaid grefyddol*’.¹⁷ Ysgrifennodd D. Griffiths o Ferthyl Tudful i hysbysu fod cymdeithas newydd wedi ei sefydlu yn y dref o’r enw, ‘Rhydd Ymofynwyr’, i’r diben o, ‘arferyd eu doniau mewn prydyddiaeth ac araethyddiaeth, yn yr Iaith Gymraeg ar destunau moesol a difrifol’.¹⁸ Ymosododd ar Evans gan awgrymu ei fod yn, ‘amddiffyn sefydliad Pabaidd’, cysyniad y welwyd yn gyson ar hyd y blynyddoedd o barthed y degwm.¹⁹ Dyfynnodd un o gynhyrchion y gymdeithas honno, ‘I’r Degwm yn Ffrainc’, cerdd oedd yn clodfori tranc y degwm yn Ffrainc (nid yn annhebyg i ‘farwnad y degwm’), gan ledawgrymu, gellir honni, mai’r un peth y dylai tynged y degwm fod ym Mhrydain hefyd.²⁰

Nid oedd Evans yn gwbl amddifad o gefnogwyr. Ymunodd y Parchg. J. M, ‘Person y Plwyf’, â’r ddadl. Ond odid y cwbl a wnaeth ef oedd ennyn llid y radicaliaid drwy bledio am ufudd-dod, ‘Dymunwn i’n brodyr oll ddeffrô, ac i’r Archesgob wneyd gweddi am dawelu y bobl, a’u dwyn i fyw yn foddiawn, fel yn y dyddiau gynt’.²¹ Bron y gellid amau mai ‘twyllwr’ oedd yn gyfrifol. I grynhoi’r ‘frwydr’, dododd Evans ddadl gref ymlaen, o safbwynt economaidd, ynghylch y berthynas rhwng y degwm a’r rhenti.²² Credai’n bybr mai’r tîrffeddiawyr oedd yn talu’r degwm, a nad oedd y ‘bobl yn talu dim tuag at yr Eglwys, ond yr offrymau!’²³ Ond yn ymarferol o leiaf, ni ddaeth y pwynt yma’n hollol eglur nes Deddf y Degwm 1891.

¹⁷ *Seren Gomer* (1831), t. 11.

¹⁸ *Seren Gomer* (1831), t. 118.

¹⁹ *Ibid.* Gw. hefyd sylwadau ‘Hwsmon’, *Seren Gomer* (1831), ‘Ydyw, yn gywilyddus o anghyfiawn, i ni yn yr oes oleu hon, ddwyn hen iau Babyddawl Eglwys Rhufain’, tt. 176-179.

²⁰ *Seren Gomer* (1831), t. 119. Gw. hefyd, *Seren Gomer* (1831), ‘Blaid’, tt. 138-140; ‘Cyfeiliog’, ‘Y mae prif golofn yr Eglwys Wladol, sef y Degwm, yn gogwyddo, a mawr yw trafferth Llen a Lleyg berchenogion y meddiant etifeddiaethawl i’w ategu,’ a’r pennill bach ar ddiwedd y llith:

Y Degwm – rhad i’w ogwydd!
Annheilwng fu’n dramgwydd,
Doed i lawr, a diwyd lwydd
Hir wedi ei waradwydd!

tt. 205-206; *Seren Gomer* (1832) ‘Ond Pwy?’ tt.38-42.

²¹ *Seren Gomer* (1832), t. 111.

²² D. Lleufer Thomas, ‘Appendix C. A Memorandum on Welsh Agriculture and Land Tenure in Periodical Literature’, yn PP 1896 XXXII Bibliographical, Statistical, and other Miscellaneous Memoranda, being Appendices to the Report of the Royal Commission on Land in Wales and Monmouthshire, t. 187.

²³ *Seren Gomer* (1831), t. 300.

Nid argyhoeddwyd Hughes gan ddadleuon Evans. Erbyn diwedd 1832 dewisiodd, ‘Gwendid a Methiant Amddiffyniad y Degwm’ fel pennawd un o’i ysgrifau.²⁴ ‘Mae y Degwm’, meddai, ‘yn *anghyfiawn* yn ei ddechreuad a’i barhad, er ei fod yn *gyfreithlawn*’.²⁵ Cysyniad syml ond hynod effeithiol a ddaeth yn gonglfaen dadl yr Anghydfurfwyr drwy gydol y bedwaredd ganrif ar bymtheg o barthed y degwm; y syniad o’r mwyafrif (Anghydfurfwyr) yn gorfod talu drwy gyfraith at gynnal eglwys y lleiafrif (yr Eglwyswyr). Yr oedd rhaid talu’r degymau gan ei fod yn anghyfreithlon i wrthod gwneud hynny. Ond yr hyn a ofynnodd yr Ymneilltuwyr ydoedd; a oedd yna sail foesol dros wneud hynny?

Ymledodd y cynnwrf a gwmpasodd y degwm fel tân gwyllt i dudalennau’r cylchgronau eraill, yn enwedig *Y Dysgedydd*. Ym 1832 ymddangosodd llith yn y cyhoeddiad hwnnw o dan y pennawd, ‘I’r Cymry, o Barthed y Degwm’, gan ‘A Real Reformer’, Trefgarn; gŵr yr ydym eisoes yn gyfarwydd efo.²⁶ Rhestrodd ei ddadleuon ynghylch y degwm fel y canlyn:

1. Nid oedd y prif Gristnogion boreuol yn talu Degwm.
2. Dyben sefydliad Degwm ar y cyntaf.
3. Ymddygiadau rhai Offeiriaid yn ngwyneb y Degwm.
4. Y mae talu Degwm yn beth anysgrythol.
5. Y mae y Degwm yn faich gorthrwm ar ysgwyddau’r Ymneillduwyr.
6. Nid oes anghenrheidrwydd am Ddegwm er cynal y Grefydd Gristionogol.
7. Cynnydd y Degwm.
8. Y cam ddefnydd a wneir o’r Degwm.
9. Y mae gwledydd ereill heb fod yn talu Degwm.

²⁴ *Seren Gomer* (1832), tt. 236-237.

²⁵ *Seren Gomer* (1831), t. 137.

²⁶ *Y Dysgedydd* (1832), tt. 234-236.

10. Nis gellit cael y Degwm i lawr heb gydsyniad y Brenin a'r Senedd.²⁷

Gwelwn felly sawl 'cynnwys' gwahanol a gymysgwyd efo'i gilydd i greu'r 'cawl' o anfoddogrwydd; ffactorau hanesyddol, ysgrythurol, crefyddol, cymdeithasol, economaidd a gwleidyddol. I bob pwrpas, ni newidiwyd dim ar y patrymlun hwn drwy gydol y ganrif. Diddorol, fodd bynnag, ydyw ei sylwadau ar ddiwedd y llith. Dywedodd, 'Er diddymu y Degwm, ni fydd hyn yn diddymu Eglwys Lloegr o fod yn Eglwys Sefydlog, nac o fod yn Eglwys Esgobaethol ond bydd diddymiad y Degwm yn ysgafnder mawr ar ein gwlad'.²⁸ Moddion i gyrraedd diben (datgysylltiad) ynteu diben yn ei hun oedd cael gwardigaeth o'r trethi eglwys, degwm a.y.b? Gellir awgrymu yr oedd yr ymgais i drechu breintiau'r Eglwys Sefydledig, darn wrth ddarn, yn fodd ymarferol i geisio nesáu at y sefyllfa ddelfrydol o gydraddoldeb crefyddol a sifil. Dim ond yn ystod chwarter olaf y ganrif, yn sgil datgysylltu'r Eglwys yn yr Iwerddon ym 1868, y daeth hi'n amlwg mai trwy ddatgysylltu'r Eglwys yng Nghymru y gellid dargyfeirio cyllid y degwm at ddibenion seciwlar.²⁹

Ond yn ystod yr 1830au, diddymu'r degwm yn gyfan gwbl oedd y gri. Fel yr ysgrifennodd S.R. yn *Y Dysgedydd* ym 1833:

Y mae Rhyddid am ei ddiddymu, a Rheswm am ei ddiddymu, a Chyfiawnder am ei ddiddymu, a'r Gwirionedd am ei ddiddymu, a Gwladgarwch am ei ddiddymu, a Chariad am ei ddiddymu, a Chrefydd am ei ddiddymu.³⁰

Nid oedd S.R. yn elyniaethus tuag at fodolaeth yr Eglwys Anglicanaidd fel 'enwad'. Yn wir, credodd, 'Y mae sefydliad y Degwm yn niweidiol ofnadwy i'r drefn esgobaethol'.³¹ Er nid oedd hyn yn rhwystr iddo difrïo ymddygiad rhai o offeiriad yr Eglwys o barthed y degwm, yn, '[g]wibio yn lladronaidd o bentref i bentref er oeri ei "cynddaredd" trwy fytheirio cableddau yn erbyn Ymneillduwyr ystyriol a chydwybodol ...'³² Nid oed W. Jones, Erwddu, Machynlleth, fodd bynnag, yn cytuno

²⁷ *Y Dysgedydd* (1832), tt. 234-236.

²⁸ *Ibid.*, t. 236.

²⁹ Trafodir hyn yn fanylach mewn pennod arall.

³⁰ *Y Dysgedydd* (1833), t. 172.

³¹ *Ibid.*, tt. 170-171.

³² *Y Dysgedydd* (1833), t. 330.

gydag ef. Ystyriodd y degwm yn sefydliad ‘dwyfol’, ac felly anghyfiawn oedd ei ddiddymu:

Dod i’r Iôn dirion doreth, - yn ddigwl

Ei ddegwm o bob-peth:

Dy faes dan gnwd fydd difeth,

Ond tâl pur, nid attal peth.³³

Yn ei atebiad, datganodd S.R., ‘... fod GORFODI dynion i dalu at gynnalïaeth a lledaeniad egwyddorion a defodau crefyddol yn ORMES ANGHRISTAIDD, ac nad oes dim eisiau rhoi tro trwy eilfyd er gwybod fod “canïadau y nef” ac “ochneidiau Gehena” am ddiddymu y fath ormes’.³⁴ Yr oedd y naill blaïd mor benderfynol â’r llall, ac nid oedd yna gyfaddawdu i fod.

Dichon mai’r unigolyn mwyaf gweithgar o barthed trafod y degwm a datgysylltiad yn ystod y cyfnod cynnar hwn oedd y Parchg. Hugh Pugh. Yr oedd yn weinïdog gyda’r Annibynwyr yn ardal Edeirnion, Sir Feirionnydd, ac wedyn Mostyn, Sir y Fflint ym 1837.³⁵ Ym 1833 cyhoeddwyd ei bamffled *Y Degwm, yn ei Berthynas ag Iuddewaeth, Cristionogaeth, a’r Wladwriaeth*, llith, yn ôl Pugh, a oedd wedi, ‘achosi cryn lawer o gynhwrf mewn amrai ardaloedd ...’³⁶ Ynddo, barnodd y degwm fel sefydliad oedd yn groes i ‘ysbryd yr efengyl’.³⁷ Anogodd golygydd *Y Dysgedydd* yn ei adolygiad i bob Ymneilltuwyr, yn ogystal ag Eglwyswyr, i’w ddarllen, ‘fel y canfyddont fod y drefn a bleïdiant [Eglwyswyr] yn groes i’r gwirionedd, yn orthrwm ar ein gwlad, ac yn anghyfiawnder dirfawr â phawb Ymneillduwyr cydwybodol’.³⁸ Dilynodd Pugh ei draethawd gyda chatecism ynglŷn â’r degwm fel modd o drosglwyddo ei synïadau mewn dull syml ond effeithiol.³⁹ Hwyrach ymlaen ym 1834 fe gyhoeddwyd ei holwyddoreg mwy adnabyddus, sef *Catecism yr Ymneillduwr*.

³³ *Y Dysgedydd* (1834), tt. 86-87.

³⁴ *Y Dysgedydd* (1834), tt. 141-143.

³⁵ *Y Bywgraffiadur Cymreig Ar-lein*, ‘Hugh Pugh,’ gan y Parchg. Richard Griffith Owen. Gw. hefyd, Rees a Roberts, *Cofiant am y diweddar Barch. Hugh Pugh, Mostyn* (Lerpwl, 1870.)

³⁶ *Y Dysgedydd* (1833) t. 274. Hugh Pugh, *Y Degwm, yn ei Berthynas ag Iuddewaeth, Cristionogaeth, a’r Wladwriaeth* (1833). Gw. hefyd, idem., *Traethawd ar Hawl, Cymmwysder, a Dyledswydd Pob Dyn i Farnu Drosto ei Hun* (Wyddgrug, 1839).

³⁷ *Y Dysgedydd* (1833), t. 218.

³⁸ *Ibid.*

³⁹ *Y Dysgedydd* (1833), tt. 274-276.

Ffurfiodd Eglwyswyr catecism eu hunain ynghylch y degwm. Datganodd un cwestiwn yn y cylchgrawn Eglwysig, *Y Gwyliedydd*, ‘Onid yw yn ormes i ofyn i Ymneillduwyr dalu degwm?’ Yr ateb oedd, ‘Ni ofynir degwm ganddynt fel Ymneillduwyr ond y tir a dalai y degwm. Daeth y tir i’w meddiant trwy roddiad neu trwy bryniad, ac yr oedd y degwm yn gynnwysedig ynddo’.⁴⁰

Ym 1833 fe sefydlodd Pugh ‘Gymdeithas Gwŷr Ieuainc Penllyn ac Edeyrnion’. Yn ôl R. T. Jenkins, amcan y gymdeithas oedd i, ‘egwyddori’r ardaloedd hynny mewn Rhyddfrydiaeth, yn enwedig ar bwnc yr Eglwys a’r Wladwriaeth’.⁴¹ Mwy na thebyg trafodwyd testun y degwm yn ystod y cyfarfodydd hefyd. Ceir tystiolaeth ryfeddol o gyfarfod a gynhaliwyd ar ben copa Cadair Idris ar 1 Ebrill (mwy na thebyg rhywbryd rhwng 1833-1835) yn llyfr cyffredin y Parchg. Jeffrey Davies, Penrhiw, Llangamarch.⁴² Adroddwyd, *Hanes Cymanfa a Gynhalwyd ar Gopa Cader Idris ... i Ystyried y Mwyaf Effeithiol i Dynu Lawer yr Hen Eglwys Loegr ac i Ymwrthod a’r Degymau*, mewn 12 o benillion. Ond gwawdio, a nid canmol y cyfarfod ,a wnâi’r awdur yn ei faled.

Er nad yw’r llawysgrifen yn hollol eglur, ymddengys mai Hugh Pugh oedd y prif siaradwr (a phrif destun llid yr awdur) canys mewn pennill arall y mae’r awdur yn cyfeirio at y Bala a Llandrillo, lle yr oedd Pugh yn weinidog ac yn feistr ysgol:

Ond Satan a gipiodd Mr. Pugh wrth eu gorph a

Dros Greigydd a llynoedd a thrwy dref y Bala

Ymaith ag ef nes ddaeth i Landrillo

A phwy a all dywedyd nad yno mae etto.⁴³

‘[T]ylwyth Sattanau’ oedd y rheini ar ben y mynydd yn nhyb yr awdur, ac ail-adroddodd y gair ‘satan’ yn aml, i gadarnhau’r syniad mae rhywbeth anghristnogol oedd, ‘curo’r hen Eglwys a Dwrn’.⁴⁴ Ond i rai Ymneilltuwyr gwleidyddol, gwaith ‘Satan’ oedd yr Eglwys Sefydledig a’r degymau. Ceir enghraifft dda o hyn yn, *Yr*

⁴⁰ *Y Gwyliedydd* (1836), t. 140.

⁴¹ R. T. Jenkins, *Hanes Cymru yn y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg* (Caerdydd, 1933), t. 97.

⁴² Aberystwyth, Llyfrgell Genedlaethol Cymru [LIGC], Cwrtmawr MS 693A, Nodiadau Pregethau, 1833-1840.

⁴³ *Ibid.*, pennill 11. Diddorol yw sylwad un ysgrifennydd yn *Y Dysgedydd* (1850), ‘Hugh Pugh yn galw y tylwyth teg o lochesau mynyddoedd Cader Idris’, t. 137.

⁴⁴ LIGC, Cwrtmawr MS 693A, penillion 1, 9, 11 a 12.

Araith Satanaidd ar Eglwysi Sefydliedig a Degymau a gyhoeddwyd gan Josiah Thomas Jones ym 1835.⁴⁵ Dichon mai Hugh Hughes neu William Williams ‘Caledfryn’, oedd yr awdur. Ond arwyddwyd y llith fel y canlyn: ‘SATAN, Gorsedd y Bwystfil, Rhufain Anghristaidd, Cload y Seithfed Ganrif’.⁴⁶ Cysylltwyd yr Eglwys Sefydliedig a gorfodeb Ymneilltuwyr i dalu’r degwm â phaganiaeth, eglwysi Iddewig, a mwy na dim, gyda Eglwys Pabyddol Rhufain, ‘brenhines yr eglwysi gwladol’, ym marn yr awdur.⁴⁷

Dichon mai’r gŵr a ymgorfforodd tueddiadau mwyaf gwrthglerigol yr adeg hon oedd Dr Owen Owen Roberts o Fangor. Yr oedd yn wrthwynebydd pybyr i ddylanwad offeiriaid yr Eglwys mewn gwleidyddiaeth ac addysg, er nid oes prawf, yn ôl Emyr Hywel Owen, ei fod yn ‘grefyddwr selog’.⁴⁸ Yn hytrach, ‘... beirniad oedd yn edrych ar y ddadl rhwng llan a chapel, o’r tu allan i rengau’r rhai hynny, ond beirniad, er hynny, oedd a’i holl gydymdeimlad gydag Ymneilltuaeth’.⁴⁹ Neilltuwyd y degwm gan Roberts fel y petai’n fan gwan y ‘citadel’ Eglwysig y gellid ymosod arno. Ysgrifennodd, *Church Revenues Revealed, or, the True Origin of Tithes* (1831) mewn atebiad i bamffled gan y Parchg. J. W. Trevor, Llanbeblig, *Traethawd Byr a Dealladwy; yn cynnwys Eglurhad ar y Degwm ...* (1831). Ymddengys bod rhai o blwyfolion Llanbeblig wedi cael eu cynhyrfu, mwy na thebyg gan Roberts, a mynnent roi perswâd ar y ficer iddo annog y senedd i ddileu’r degwm.⁵⁰ Amddiffynnodd Trevor hawl moesol yr Eglwys i’r degymau gan bwysleisio’r manteision y deuai ohonynt er budd y gymuned wrth, ‘... gyfrannu at dreth y tlodion, a threth y ffordd fawr ... a chynorthwyo yr anghenus, yr oedrannus, y claf, a’r amddifad’.⁵¹

Ond hwyrach mai trwy ei bamffled creadigol-ffeithiol, *Y Bugail* (1835), mewn ffurf o ymddiddan rhwng ‘Howel Hunlle’, y person, ‘Sion Bryn Teg’, ffermwr

⁴⁵ Dienw, *Yr Araith Satanaidd ar Eglwysi Sefydliedig a Degymau* (Caernarfon, 1835).

⁴⁶ Ibid., t. 13. J. T. Jones oedd argraffydd y *Seren Ogleddol* rhwng 1835-1836 a Chaledfryn a Hughes oedd y golygyddion. Gw., Maldwyn Thomas, ‘Josiah Thomas Jones yn Nhref Caernarfon’, *Y Cofiadur*, Rhif 37 (1972), tt. 77-80

⁴⁷ Ibid., t. 13.

⁴⁸ Emyr Hywel Owen, ‘Bywyd a Gwaith Dr. Owen Owen Roberts, 1793-1866’ (Traethawd M.A anghyoeodedig, Prifysgol Cymru, 1939), t. 211.

⁴⁹ Ibid.

⁵⁰ Ibid., t. 229.

⁵¹ Parchg. J. W. Trevor, *Traethawd Byr a Dealladwy; yn cynnwys Eglurhad ar y Degwm, ac yn dangos y Gwreiddiol Achos o Hono: Wedi ei gyfeirio yn bennaf at Blwyfolion Llanbeblig, Swydd Caernarfon* (Caernarfon, 1831), t. 4.

a 'Dafydd Dweyd y Gwir', ymdeithydd, y cafodd ei ddamcaniaethau ynglŷn â'r degwm ei trosglwyddo mewn ffurf effeithiol ar gyfer y 'werin'. Efelychu Twm o'r Nant y gwnâi Roberts, ac fe ddangosodd ei edmygedd tuag at yr anterliwtiwr o Ddinbych drwy ddyfynnu darnau o'i waith.⁵² Gresynodd nad oedd Twm o'r Nant yn fyw, 'yn y dyddiau yma'.⁵³ Ymosododd ar foesoldeb y Parchg. Howel Hunlle, y clerigwr Eglwysig, drwy gysylltu'r degwm â'r ddiod feddwol:

Sion: ... fe fydd y Parchedig Mr. Howel Hunlle, y person, yn dwad am fy mhen fel barcud ar gyw iar, ac yn gwerthu yn glir y ddegfed ran o hono wrth aucsiwn, i bwy bynag, yn haner meddw, a rydd y geiniog uchaf am dano.⁵⁴

Yr oedd yr arsylliad yma'n seiliedig ar dystiolaeth a roddodd Roberts ger bron y Pwyllgor oedd yn ymchwilio mewn i feddwod ym 1834. Yn ei ôl ef, yr oedd degymau'r plwyfi wedi eu rhannu mewn i barseli bach, ac unwaith y flwyddyn fe'u llogwyd allan drwy arwerthiant.⁵⁵ Honnodd bod cwrw yn cael ei ddostrarthu'n rhydd ymysg y cynigwyr er mwyn llacio'i synnwyr o ymresymiad, '... and many a one is often surprised on being congratulated the next morning as the taker of one, two or three parcels of tithes'.⁵⁶ Fe osododd Roberts glerigwyr yr Eglwys wrth wraidd y problemau uchod:

I have seen respectable ministers, if they may be considered so from a multiplicity of church preferment, a plurality of livings, handing the drink about as well as the most expert waiter in any tavern about town.⁵⁷

Gwelir nes ymlaen yn y traethawd bod y berthynas rhwng y degwm a chwrw yn un bwysig o ran creu delwedd negyddol o glerigwyr yr Eglwys yn ystod 'Rhyfel y Degwm'.

Aeth Roberts ymlaen i gondemnio'r degwm fel, 'arwyddair Judas Isgariot', gan grybwyll nad oedd yr arian a dderbyniwyd Esgobion Seisnig yng Nghymru (yr 'esgyb Eingl' fel galwodd Ieuan Fardd hwy) a'r offeiriaid absennol, '... ond cyffelyb

⁵² O. O. Roberts, *Y Bugail; neu Flaidd yn rhith Dafad, mewn ffurf o Ymddiddan rhwng y Parch. Howel Hunlle y Person, Sion Bryn Teg, ffarmwr, un o'i blwyfolion, a Dafydd Dweyd y Gwir, Ymdeithydd* (Caernarfon, 1835), t. 4. 'Mae un ysub o ddegwm, gan ambell berson ...' ayb.

⁵³ O. O. Roberts, *Y Parchedig Gecryn Penchwiban; neu Ddrych y Bugail Drwg, mewn ffurf o Ymddiddan rhwng Sion Bryn Teg a Dafydd Dweyd y Gwir* (Caernarfon, 1835), t. 6.

⁵⁴ Roberts, *Y Bugail*, t. 3.

⁵⁵ PP 1834 VIII, Report from the Select Committee on Inquiry into Drunkenness, with Minutes of Evidence, and Appendix, c.1863, t. 158.

⁵⁶ *Ibid.*, tt. 158-159.

⁵⁷ *Ibid.*, c.1866, t. 159.

i'r arian a dderbyniodd Judas'.⁵⁸ Ceir feirniadaeth gyffelyb o'r Eglwys Sefydliedig yn ei lith arall hefyd, sef *Y Parchedig Gecryn Penchwiban* (1835). Unwaith eto gwelir iaith ysgrythurol yn cysylltu'r degwm a 'cnafon' y Beibl:

Sonnir fod *Herod* yn ddyn mileinig,
Ni wnaeth on gogleisio wrth rai gwyr Eglwysig.
Sy'n 'sglyfaethu wrth eu pleser ddegymau'r plwy
Ar eneidiaid sydd fwy, enwedig.⁵⁹

Rhwng Ionawr 1835 a Gorffennaf 1836 defnyddiwyd yr arddull o ymryson yn y *Seren Ogleddol*. Cyhoeddiad misol oedd hwn dan olygyddiaeth William Williams (Caledfryn) a Hugh Hughes. Er yr enw, yr oedd y Gymdeithas er Taenu Gwybodaeth Eglwysig yn rhyw fath o ragredegydd i'r Gymdeithas Rhyddhad Crefydd, ac hwy oedd y tu ôl i olygiaeth y cylchgrawn. Yn wir, yr oedd Caledfryn a Hughes ill dau yn aelodau.⁶⁰ Nid rhyfedd ydyw canfod negeseuon digydymdeimlad tuag at yr Eglwys Wladol ynddo. Gwelwyd ymysg ei dudalennau ddarn o waith gan 'Gelyn Gorthrymder', sef, *Gosod y Degwm. Ymddiddan rhwng Sion y Bugail a Dic y Prydydd*.⁶¹ Hwyrach mai O. O. Roberts oedd yr awdur, er ni ellir fod yn sicr. Yr oedd y geiriau a roddwyd i Dic yn gynrychiadol o'r fath o ddadleuon ynglŷn â'r degwm a glywsom eisioes, 'Rhaid addef fod gorfodi Ymneillduwyr i gryfhau breichiau sefydliad sydd, yn ôl eu barn hŵy, yn groes i reswm ac arfer y cristionogion cyntefig, yn orthrymder tost'.⁶² Unwaith eto, ceir y ddelwedd yma o'r eglwys Gristionogol gyntefig gynnar yn rhydd o dalu'r degwm, cysyniad a hyrwyddodd Wiliam Rees (Gwilym Hiraethog), yn ei ddyddiau cynnar ym myd gwleidyddiaeth

Ar ewyllys da y bu awdwr ein crefydd byw pan oedd ar y ddear yn ei sefydlu; ni cheisioedd na degwm na tholl at ei gynnalïaeth ei hun na'i ddysgyblion; anfonodd ei apostolion allan i bregethu ... a gorchymynodd iddynt gymeryd eu cynnalïaeth gan bwy bynag a'u gwahoddent.⁶³

⁵⁸ Roberts, *Y Bugail*, t. 8.

⁵⁹ Roberts, *Y Parchedig Gecryn Penchwiban*, tudalen flaen.

⁶⁰ Maldwyn Thomas, 'Josiah Thomas Jones yn nhref Caernarfon', *Y Cofiadur: sef Cylchgrawn Cymdeithas Hanes Annibynwyr Cymru*, Rhif 37 (1972), tt. 76-81.

⁶¹ *Seren Ogleddol*, cyf. 1, rhif 7 (Gorffennaf 1835), tt. 209-211. Gw. Hefyd 'Degwm Cabbage,' sef hanes helynt gŵr o Staffordshire o barthed y degwm, 'ei "fugail tirion" yn mynu 9c', o ddegwm, tt.200-201; Llythyr gan H. Pugh 'Cristion', 'At y Parchg. Ellis Annwyl Owen', tt. 205-209.

⁶² *Ibid.*, tt. 209-210.

⁶³ *Y Dysgedydd* (1834), t. 14.

Wedi marw Thomas Jones, Dinbych, daeth John Elias o Fôn y ffigwr amlycaf a mwyaf dylanwadol o fewn y Cyfundeb. Uchel ei Galfiniaeth, difrifol ei gymeriad a cheidwadol yn ei wleidyddiaeth (pan deimlodd bod rhaid ymyrryd) yr oedd Elias, serch hynny, yn bregethwr poblogaidd dros ben, ac yn un o sêr oes aur y pregethwyr mawr yn ystod hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mor uchel oedd ei statws ymhlith y Methodistiaid nes llysenwyd ef, yn goeglyd, yn ‘Bab’ gan rai Annibynwyr.⁶⁴ Credai Elias mai rhagluniaeth Duw oedd yn gyfrifol am statws unigolyn mewn bywyd, ac yn lle herio’r drefn, dylid bod yn deyrngar i’r llywodraeth, canys mai swyddogaeth y wladwriaeth oedd i gadw trefn.⁶⁵ Nid syndod felly mai pregethu ufudd-dod y gwnâi o ran derbyn cysylltiad yr Eglwys Anglicanaidd â’r wladwriaeth, ac felly, anathema iddo ef oedd meddwl am Fethodistiaid yn gwrthod talu’r degwm. Yn ôl Harri Williams, ‘Ymfrydai John Elias nad oedd yr un Methodist yn gwrthod talu’r degwm ...’⁶⁶ Gofynnodd un cyfoeswr, ‘Ai gwir ydyw i John Elias ddywedyd mai cyssegryspail gwarthus fyddai cymmeryd y Degwm oddiar y Personiaid?’⁶⁷

Ar 11 Mehefin 1834, cynigiodd John Elias ger bron dros 500 o bregethwyr, na ddylai’r Methodistiaid fel corff ymyrryd mewn materion gwleidyddol. Pasiwyd y cynnigiad yn unfrydol. Ond fel y dywedodd R. Tudur Jones, ‘Are we not being forced to the conclusion that the June resolution of 1834 at Bala is best understood not as the high water-mark of political quietism amongst the Methodists but rather as the writing on the wall for Elias?’⁶⁸ Yn sicr ni fyddai John Elias wedi cefnogi ‘Rhyfel y Degwm’ nac ymglymiad ei gyd Fethodistiaid yn yr ymgyrch hwnnw. Y mae’n anhygoel meddwl am y trawsffurfiad gwleidyddol hwn mewn ychydig dros ddwy genhedlaeth. Yn wir, galwodd Robert Pope hyn yn, ‘ddim byd llai na chwyldroad’.⁶⁹

II.

⁶⁴ Jenkins, *Hanes Cymru yn y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg*, t. 40.

⁶⁵ Robert Pope, ‘Methodistiaeth a chymdeithas’, yn John Gwynfor Jones a Marian Beech Hughes (goln.), *Hanes Methodistiaeth Galfiniaidd Cymru: Cyf III: Y Twf a’r Cadarnhau c.1814-1914* (2011), t. 359.

⁶⁶ Harri Williams, ‘John Elias a’i Gyffes Ffydd’, *Y Traethodydd*, Cyf. CXXIX (1974), t. 249.

⁶⁷ *Y Dysgedydd* (1834), t. 316.

⁶⁸ Jones, ‘The origins of the nonconformist disestablishment campaign’, t. 59.

⁶⁹ Pope, ‘Methodistiaeth a Chymdeithas’, t. 386.

'Rhyfel y Degwm' yn Iwerddon, c.1830-38

'Tithe War!' ebe'r *Cobbett's Weekly Political Register* ar fwy na un achlysur ym 1832, a daeth y term, slogan hyd yn oed, yn fwy poblogaidd o'r flwyddyn hynny ymlaen.⁷⁰ Mwy na thebyg dyma darddiad gwreiddiol y term 'Rhyfel y Degwm' a roddwyd, yn ei dro, i'r cyffro gwrth-ddegymol yng Nghymru dros hanner canrif yn ddiweddarach. Er y gwelwyd ysbeidiau treisgar yng Nghymru adeg gwerthiannau'r degwm yn ystod yr 1880au-1890au, nid oeddynt ar yr un raddfa â'r gwaed a dolltwyd yn ystod yr ymgyrch yn yr Iwerddon; yn enwedig ym mlynnyddoedd cynnar yr ymgyrch hwnnw.⁷¹ Lladdwyd rhwng 12-14 o bobl ac anafwyd oddeutu 20 yn Bunclody ar 18 Mehefin 1831;⁷² 11-12 o blismyn a 3-4 o bobl cyffredin yn Carrickshock ar 14 Rhagfyr 1831;⁷³ a lladdwyd 11-13 ac anafwyd oddeutu 40 yn Rathcormac ar 18 Rhagfyr 1834.⁷⁴

Serch hynny, yn ôl Higgins-McHugh, ffurfiodd achosion o drais eithafol ddim ond rhan fechan o'r anghydfod gwrth-ddegymol yn ei gyfanrwydd yn yr Iwerddon.⁷⁵ Ond yr elfen dreisgar sydd bob amser yn dal sylw'r dychymyg, ac wrth gwrs, y penawdau. Ceir adroddiadau o'r anghydfod yn y cylchgronau Cymraeg, cyfieithiadau talfyredig o adroddiadau yn y wasg Saesneg; fel arfer o dan y pennawd 'Yr Iwerddon'. Ond ysgrifennwyd erthyglau gwreiddiol hefyd yn ymdrin â'r ymgyrch gwrth-ddegymol yn yr Iwerddon. Ym 1836 barnodd 'Philo O'Connel' ymddygiad y wladwriaeth yn ei lith, 'Anffyddiaeth a Rhyfel y Degwm', gan ddatgan, 'Ymresymu â dynion yr oedd yr Apostolion, ac nid efo yr *argumentum bacillum*

⁷⁰ *Cobbett's Weekly Political Register* (21 Ebrill; 2 Mehefin; 28 Gorffennaf 1832).

⁷¹ Patrick O'Donoghue, 'Causes of the oppositions to tithes, 1830-38', *Studia Hibernica*, rhif. 5 (1965), tt. 7-28; *idem.*, 'Opposition to tithe payments in 1830-31', *Studia Hibernica*, rhif. 6 (1966), tt. 69-98; *idem.*, 'Opposition to tithe payments in 1832-33', *Studia Hibernica*, rhif. 12 (1972), tt. 76-108; Nora Higgins, *Tipperary's Tithe War 1830-1838: Parish Accounts of Resistance against a Church Tax* (Tipperary, 2002); Noreen Higgins-McHugh, 'The 1830s tithe riots', yn William Sheehan a Maura Cronin (gol.), *Riotous Assemblies: Rebels, Riots and Revolts in Ireland* Cork, 2011), tt. 80-95, 280-285; Elizabeth Farrell, 'Interdenominational co-operation in a Tipperary parish during the 'tithe war'', *Tipperary Historical Journal* (2005), tt. 97-104.

⁷² Patrick O'Donoghue, 'Opposition to the tithe payments in 1830-31', tt. 76-77; *Freeman's Journal* (Mehefin, 21, 23, 28, 29 a 30, 1831).

⁷³ Michael O'Hanrahan, 'The tithe war in County Kilkenny', tt. 498-499; O'Donoghue, 'Opposition to the tithe payments 1831-31', tt. 80-81; Stephen McCormac, 'The tithe war: reports by Church of Ireland clergymen to Dublin Castle', *History Ireland*, Cyf. 13, Rhif. 4 (2005), t. 44; *Freeman's Journal* (22 Rhagfyr 1831).

⁷⁴ Higgins-McHugh, 'The 1830s tithe riots', t. 81; Cormac F. Lowth, 'Thomas Steele, patriot extraordinary', *Dublin Historical Record*, Cyf. 53, rhif 2 (2000), t. 107; *The Examiner* (Rhagfyr 28 1834); *Belfast-News-Letter* (23 Rhagfyr 1834).

⁷⁵ Higgins-McHugh, 'The 1830s tithe riots', t. 80.

(cyfraith y pastwn). Nid oedd fawr o ysbryd yr apostolion yn milwriaeth y degwm yn Rathcormac'.⁷⁶ Gofynnodd ŵr arall o'r enw William Rowlands yn ddiweddarach, 'Pwy a all ddarllen am y lladdfa a fu yn Rathcormac a Carrickshock heb deimlo arswyd?'⁷⁷ Ond odid bod hanesion gwaedlyd o'r Iwerddon wedi darbwylo'r Cymry nad hwn oedd y trywydd i gymryd o ran y degwm.

Nid oedd yna wrthdystio treisgar yn ymwneud yn uniongyrchol â'r degwm yng Nghymru yn ystod diwedd y ddeunawfed ganrif a dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Tebyg oedd y sefyllfa yn Lloegr hefyd, 'The amount of popular protest against tithes', meddai Evans, 'was limited'.⁷⁸ Credai fod y wasg radicalaidd-drefol wedi methu cynhyrfu'r haenau tlotaf o'r gymdeithas oherwydd nad oedd y degwm, yn sgil dirywiad y degymau personol, yn rhywbeth a gyfforddodd nifer fawr ohonynt o'i gymharu â Iwerddon.⁷⁹ Y mae'n arwyddocaol bod degymu cnwd o datws, ffynhonnell anhepgor o fwyd i liaws o Wyddelod y pryd hwnnw, mewn grym yn Munster a de Leinster, gan eithrio glaswelltir. Felly, yn ôl Higgins-McHugh, 'it meant that the poorer sections of Irish society – the tenant farmers, cottiers and labourers – paid the greater part of the tithe burden'.⁸⁰ Yn wir, yr oedd gweithredoedd treisgar ynglŷn â'r degwm wedi dod yn rhan annatod o aflonyddwch amaethyddol yn Iwerddon: protest y 'Rightboys' rhwng 1785-87, protest y 'Connacht Trashers' rhwng 1806-07 a chynnwrf 'Rockite' rhwng 1821-4.⁸¹

Pasiwyd tair Deddf 'Composition' y Degwm yn Iwerddon yn ystod yr 1820au i liniaru'r cwynion economaidd. Yr oedd tiroedd pori nawr yn agored i'w degymu, a oedd wrth gwrs yn boblogaidd ymysg yr haenau tlotaf. Ond gan nad oedd hyn yn orfodol, pleidleisiwyd yn eu herbyn yn y plwyfi hynny gyda ffermwyr mawr.⁸² Ond ni ddaru'r mesurau hyn fynd i'r afael gydag un ffynhonnell amlwg o ddicter, sef Catholigion (y mwyafrif) yn gorfod talu tuag at gynhaliaeth yr Eglwys Sefydledig Brotestannaidd. Ni welodd Daniel O'Connell pam y dylai'r y mwyafrif dalu er budd

⁷⁶ *Greal y Bedyddwyr* (1836), tt. 103-104. Gw. hefyd, 'Degwm a Gwaed', yn *Y Dysgedydd* (1836), t. 227.

⁷⁷ *Y Traethodydd* (1851), t. 195.

⁷⁸ Evans, *Contentious Tithe*, t. 80.

⁷⁹ Evans, 'Some reasons for the growth of English rural anti-clericalism', *Past & Present*, 66 (1975), tt. 90-91.

⁸⁰ Higgins-McHugh, 'The 1830s Tithe Riots', t. 82.

⁸¹ R. E. Burns, 'Parsons, priests, and the people: the rise of Irish anti-clericalism 1785-1789', *Church History*, cyf. 31, rhif 2 (1962), tt. 151-163; Higgins-McHugh, 'The 1830s Tithe Riots', t. 82.

⁸² Higgins-McHugh, 'The 1830s Tithe Riots', t. 83.

y lleiafrif, ac meddai sylwebydd arall, 'In Ireland, the religion of the Established Church is not the religion of the country; the clergy, therefore, who receive the tithes, perform no religious duties in return, for the mass of the population'.⁸³ Arwyddocaol hefyd oedd y ffaith fod nifer o glerigwyr Anglicanaidd wedi ymgyrchu yn erbyn Deddf Rhyddfrenio'r Catholigion a basiwyd ym 1829, a wnaeth nemor ddim i esmwytho talu'r degwm.⁸⁴ Yr oedd yn rhaid i Gatholigion (a Phrotestaniaid eraill hefyd nad oedd yn Anglicaniaid) ddal i gyfrannu at yr Eglwys. Crybwyllodd Patrick O'Donoghue, '... [This] rekindled the smouldering dislike always felt by the Irish farmer for the sacred tenth'.⁸⁵

Y gwahaniaeth mawr rhwng Cymru a'r Iwerddon yn hyn o beth ydyw'r ffaith bod y chwerwder yma yn yr Iwerddon wedi bod yn cynyddu ers canrifoedd. Cysylltwyd yr Eglwys Sefydledig yno gyda'r 'conquering nation', ac yn rhan o'r oruchafiaeth Brotestannaidd: Eglwys y lleiafrif.⁸⁶ Am dros ddwy ganrif a rhagor, yr oedd y rhan helaeth o'r Cymry wedi derbyn Eglwys Lloegr fel yr Eglwys Sefydledig.⁸⁷ Wrth i'r nifer o'r hen Ymneilltuwyr gynyddu yn sgil y Diwygiad Methodistaidd, ac i'r Methodistiaid eu hunain adael yr Eglwys yn y pen draw ym 1811, gellid dadlau mai dyma wir ddechreuad rhagoriaeth rifiadol Anghydfurfiaeth yng Nghymru. Ond Ymneilltuwyr Protestannaidd oeddynt wedi'r cyfan, ac nid oedd y rhwystrau sifil yn eu herbyn mor llym nag mor anodd i'w trechu o'i gymharu â'r hyn a wynebodd y Catholigion. Nid oes ond gorfod ystyried y stŵr a grëwyd o amgylch y Ddeddf Rhyddfrenio o'i gymharu â diddymiad di-ffwdan y Deddfau Corfforaethau a'r Prawflwon blwyddyn ynghynt.

Gwir, yr oedd y degwm yn destun achwyn adeg terfysgoedd Swing yn Lloegr yn ystod yr 1830au cynnar. Yr oedd hyn yn wir adeg terfysgoedd 'Beca hefyd, fel y cawn weld yn y bennod nesaf. Ond er gwaethaf tuedd Elwyn L. Jones i labelu anghydfodau nodedig Deheudir Cymru yn ystod y cyfnod hyn fel 'Rhyfel Degwm y De', rhaid bod yn ofalus i beidio cam ddefnyddio'r term fel un llaw-fer i ddisgrifio

⁸³ HC Deb 19 Gorffennaf 1838, cyf. 44, col. 332-372; PP 1831-32 XXI, Second Report from the Select Committee on Tithes in Ireland. Minutes of Evidence, C. 4423 (Tystiolaeth R. Blake.)

⁸⁴ Higgins-McHugh, 'The 1830s tithe riots', t. 83.

⁸⁵ O'Donoghue, 'Causes of oppositions to the tithes 1830-38', t. 7.

⁸⁶ Ibid., tt. 7-8.

⁸⁷ John Davies, 'Wales and Ireland: parallels and differences in the nineteenth century', *Planet*, 95 (1992), t. 15.

pob anghydfod ynghylch y degwm fel testun o ofid.⁸⁸ Gellir dadlau mai'r unig dro y daeth y degwm yn brif ffocws canolig o fewn protest poblogaidd yng Nghymru oedd adeg 'Rhyfel y Degwm'.

III.

Deddf Cyfnewid y Degwm 1836

Ar 13 Awst 1836, ar ôl pedair ymgais gan bedair gweinyddiaeth wahanol (tair Chwig ac un Toriaidd) rhwng 1833 a 1836 i gyflwyno mesur llwyddiannus i gymudo'r degymau, fe basiwyd Deddf Cyfnewid y Degwm. Rhoddwyd terfyn i'r hen arferion o dalu mewn cynnyrch neu drwy *composition*, a dodwyd yn eu lle taliad ariannol newydd o'r enw rhent-dal y degwm.⁸⁹ Clymwyd gwerth y rhent-dal hwn i'r farchnad gwenith, haidd a cheirch. Er enghraifft, ym mis Rhagfyr 1836 fe sefydlwyd bod gwerth £100 o ddegwm yn prynu 94.95 bwysel o wenith, 168.42 o haidd a 242.42 o geirch, yn seiliedig ar gyfartaledd y saith mlynedd flaenorol. Felly, os disgynnodd prisiau'r grawn, fe ddisgynnodd gwerth y degwm. Os cododd prisiau'r grawn, fe godwyd gwerth y degwm. Yr holl bwrpas o hyn oedd fod gwerth y degwm yn 'cywiro' ei hun dros gyfnod o amser. Er enghraifft, os disgynnodd gwerth yr yd a.y.b., yn sydyn, yr oedd y degwm dalwr yn talu swm uwch y saith mlynedd blaenorol, er ei fod yn cael llai o bres am ei gynnyrch y flwyddyn honno. Ond mewn theori, os cododd gwerth yr yd a.y.b., fe ddyliodd swm y degwm adlewyrchu'r cyfnod o wasgfa pan cyfrifwyd y gyfartaledd am y saith mlynedd diwethaf. Felly, yr oedd y degwm dalwr yn talu llai o ddegwm nag ei wir werth y flwyddyn honno fel iawndal am y blynyddoedd gynt. Yr oedd y gwerthoedd hyn yn unffurf ledled Cymru a Lloegr. Felly, am y tro cyntaf erioed, yr oedd yna unffurfiaeth i bennu'r degwm o flwyddyn i flwyddyn.⁹⁰

Yr oedd R. T. Jenkins yn llygaid ei le pan ddywedodd, 'nid oedd y Mesur, boed ef welliant neu beidio, yn cyffwrdd â'r egwyddor yr oedd llan a chapel yn dadlau arni'.⁹¹ Llabyddiodd David Rees, Llanelli, y ddeddf yn ddirugaredd yn ei

⁸⁸ Jones, *Gwaedu Gwerin: Braslun o Hanes Rhyfel y Degwm yng Nghymru* (Dinbych, 1983), t. 19.

⁸⁹ G. E. Mingay, 'Agricultural taxation', yn E. J. Collins (gol.), *The Agrarian History of England and Wales: 1850-1914*, VII (1) (Caergrawnt, 2000), t. 937.

⁹⁰ Gw. gwaith Eric Evans a gyfeiriwyd ato gynt am fwy o wybodaeth o barthed hyn.

⁹¹ Jenkins, *Hanes Cymru yn y Bedwaredd Ganrif*, t. 109.

bamffled, *Deddfau Newyddion* (1836). Maentumiodd, ‘Mae y Degwm yn eglur ddwyn nod y bwystfil arno, wyneb a chefn ... mae [Deddf Cyfnewid y Degwm] yn drewi yn uchel gan sawr drwm Archesgobion, Esgobion, ac Offeiriaid, - mae pob erthygl ynnddi yn fanteisiol iddynt hwy’.⁹² Gwir, yr oedd y degwm wedi cymryd gwedd newydd, enw newydd hefyd (yn swyddogol o leiaf), ond y ‘degwm’ ydoedd o hyd. Ac wrth i’r dadlau o barthed datgysylltu’r Eglwys Sefydledig godi stêm, ac wrth i’r cwestiwn gymryd gwedd fwy Cymreig ar ôl 1868, nid syndod ydyw canfod bod pwnc y degwm mor gynhennus ag erioed.

Yn yr un flwyddyn a basiwyd Deddf Cyfnewid y Degwm fe sefydlwyd y Dirprwywyr Eglwysig yn swyddogol, ‘a Perpetual Corporation ... with power to hold real property’.⁹³ Yr oedd yr eiddo hwn yn cynnwys degymau rhan fwyaf o’r adfeddwyr clerigol, sef yr Esgobion a.y.b. Ond yr oedd y broses o drosglwyddo eiddo yn un araf iawn, fel yr esbonnir yn y bennod nesaf. Dyma ddisgrifiad o amcan y Dirprwywyr yn eu hadroddiad cyffredinol cyntaf ym 1846:

... the main purpose, for which the Commissioners are intrusted with these revenues, is defined to be, that of making better provision for the cure of souls in parishes where such assistance is most required; with and express direction, in the case of tithes actually vested in the Commissioners, to give due consideration to the wants and circumstances of the places in which they arise.⁹⁴

Yr oedd y bwriad hwn yn un canmoladwy er budd y clerigwyr cyffredinol ac er budd Eglwys o ran gwneud defnydd gwell o’i chyllid.

O ran y Dirprwywyr eu hunain, yr oedd yna 13 ohonynt yn wreiddiol: dau Archesgob, Esgob Llundain a dau Esgob arall i’w cyfnewid gan y goron ymysg yr Esgobion eraill; pum aelod ‘ex officio’ y Llywodraeth a tri lleygwr.⁹⁵ Gwelir felly na ddominyddwyd y corff gan glerigwyr yr Eglwys. Serch hynny, ym 1840 fe newidiwyd cyfansoddiad y corff i gynnwys yr esgobion i gyd.⁹⁶ Er fe ychwanegwyd mwy o leygwr, yr oedd ychwanegu’r esgobion yn golygu bod dros 60% o’r

⁹² David Rees, *Deddfau Newyddion: Gwelliant Deddf y Tlodion, y Degwm, at yr hyn y ‘chwanegir Sylwadau Eglurhaol ar y Dreth Eglwys* (Llanelli, 1836), tt. 33-34.

⁹³ PP 1846 XXIV, First General Report to Her Majesty, from the Ecclesiastical Commissioners for England, t. 3.

⁹⁴ PP 1846 XXIV, First General Report, t. 4.

⁹⁵ PP 1846 XXIV First General Report to Her Majesty, from the Ecclesiastical Commissioners for England, p. 3.

⁹⁶ 3 & 4 Vict. c.113.

Dirprwywyr yn awr yn dal swydd glerigol.⁹⁷ Yn ôl Frances Knight fe ychwanegwyd tri deon oherwydd, '[the] magnification of the episcopal office seemed unwelcome'.⁹⁸

IV.

Casgliad

Ym 1865 fe ysgrifennodd David Rees ei 'Anerchiad Ymadawol' fel golygydd *Y Diwygiwr*. Am Gymru a Chymry'r 1830au yr oedd ganddo hyn i'w ddweud:

Yr oedd yr Ymneillduwyr hyd yn hyn yn lled anwybodus o'u hiawnderau, ac yn eithaf syrthlyd a diofal o'u cylch. Nid oeddynt yn amheu nad oedd talu degwm yn hollol ysgrythol, ac mai pechod fuasai gwrthwynebu yr hyn ystyrient yn ordinhad Duw.⁹⁹

Y mae'r arsylliad uchod yn fewnwelediad diddorol i feddwl gŵr a gyhoeddodd ym 1838, 'Cynhyrfer! Cynhyrfer Cynhyrfer! Yw ein cais atoch, gydwladwyr ...'¹⁰⁰ Cyfeiriodd at y Gwyddelod a'i 'rhyfel' hwy yn erbyn y degymau, 'Cynhyrfodd nes yw yr offeiriaid wedi rhoddifynu casglu Degwm fel *bad job*'.¹⁰¹ Ceir yma dinc o siomedigaeth yng ngeiriau Rees nad oedd ei gydwladwyr wedi dilyn eu 'cydwybod' a gwrthod talu'r degymau; yr un fath o siomedigaeth a gawn yng ngeiriau Morgan John Rhys yn niwedd y ddeunawfed ganrif.

Ym 1866 cawn Henry Richard yn datgan y sylwad adnabyddys hwnnw, 'It may be stated in general terms that the Welsh are now a nation of Nonconformists'.¹⁰² Heb os yr oedd canlyniadau Cyfrifiad Crefyddol 1851 wedi

⁹⁷ 'The constitution of the Board was materially changed by the last-mentioned Act, under the provisions of which the Corporation now includes, *ex officio*, the two Archbishops, five members of the Government, all the Bishops of England and Wales, three deans, and six common law, equity, and ecclesiastical judges, - together with eight permanent lay commissioners, six of whom are in the appointment of the Crown and two is that of the Archbishop of Canterbury'. PP 1846 XXIV, First General Report, t. 3.

⁹⁸ Frances Knight, *The Nineteenth-Century Church and English Society* (Caergrawnt, 1995), tt. 154-155.

⁹⁹ *Y Diwygiwr* (1865), t. 355-56.

¹⁰⁰ *Y Diwygiwr* (1838), t. 122.

¹⁰¹ *Y Diwygiwr* (1838), t. 122.

¹⁰² Dyfynwyd yn D. Densil Morgan, 'Nonconformity in Wales', yn Robert Pope (gol.), *T&T Clark Companion to Nonconformity* (Llundain, 2013), t. 40.

dangos cynnydd aruthrol yn y nifer o Anghydfurfwyr yng Nghymru. ¹⁰³ Er rhaid fod yn wylidwrus rhag llyncu rhethreg Richard heb feirniadaeth. Dengys mai dim ond oddeutu trean o boblogaeth a fynychodd addoldy ar ddiwrnod y cyfrifiad. ¹⁰⁴ Ac fel y datganodd John Davies, ‘A derbyn mai tua 40 y cant o’r Cymry a aeth i addoldy ar 30 Mawrth 1851, rhaid fod y Cymry digrefydd yn bur niferus ganol y ganrif ddiwethaf ...’¹⁰⁵ Serch hynny, yr oedd y nifer o Anghydfurfwyr yn rhifo mwy nag erioed, ac yn cynyddu. Eto, ni welwyd symudiad poblogaidd yn erbyn talu’r degymau nes chwarter olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Onid oedd y ‘gydwybod Ymneilltuol’ wedi’i gythruddo ddigon? A oedd gwrthglerigiaeth wedi pallu?

¹⁰³ Am astudiaethau rhifiadol diweddar gw. Michael R. Watts, *The Dissenters, Vol. II: The Expansion of Evangelical Nonconformity* (Rhydychen, 1995), ffigyrau yng nghefn y llyfr; K. D. M. Snell a P. S. Ell, *Rival Jerusalems: The Geography of Victorian Religion* (Caergrawnt, 2000).

¹⁰⁴ Ieuan Gwynedd Jones, *Explorations and Explanations: Essays in the Social History of Victorian Wales* (Llandysul, 1981), t. 221.

¹⁰⁵ John Davies, *Hanes Cymru* (Llundain, 1990), t. 412.

Pennod III

Hanner Canrif o Lonyddwch? 1836-1885

Rhagarweiniad

Cyfnod digon rhyfedd oedd y cyfnod hwnnw rhwng 1836 ac 1886 o ran y degwm yng Nghymru. Credai Best, ‘... the early and mid-Victorian Church of England was relatively untroubled by tithes. After centuries of wrangling and wrong, the Commutation Act of 1836 put them, as it was hoped, to rest’.¹ ‘For about a half a century’, meddai Eric Evans, ‘it seemed that commutation had finally solved the tithe problem’.² Dengys sylwadau rhai o wŷr y cyfnod mai dyma oedd eu barn hwythau hefyd. Dywedodd John Bridge yn ei adroddiad i helyntion y degwm ym 1887, ‘The tithe rentcharge had been regularly paid up to the end of 1885 ...’.³ Atgoffodd John Parry, Llanarmon-yn-iâl, clericwyr yr Eglwys nad oedd ffermwyr Cymru wedi gofyn am ostyngiad yn eu degymau ers 50 mlynedd.⁴

Wrth gwrs, y mae’n hysbys i bawb bellach bod y degymau yn ffynhonnell amlwg o anniddigrwydd ymhlith carfan o brotestwyr yn ystod terfysgoedd ‘Beca’ erbyn 1843, a cheir triniaeth o’r elfen hon yn yr adran gyntaf. Edrychir hefyd os gafodd Symudiad Rhydychen unrhyw effaith ar y lefel sylfaenol o ran gwrthod talu’r degymau i offeiriaid Uwch-Eglwysig. Diddorol ydyw edrych hefyd ar yr ymgyrch yn erbyn talu’r dreth Eglwys, ac i geisio dirnad pam y datblygodd hwnnw i fod yn symudiad poblogaidd ac nid felly’r degymau. Cawn gip olwg ar yr enghreifftiau o ddiffyg talu’r degymau, yn ogystal â chwalu mytholeg a grewyd gan ddatgysylltwyr y cyfnod o ran gwaith y Dirprwywyr Eglwysig ynghylch y degymau. Gorffennir y bennod drwy edrych ar sut gafodd y dirwasgiad amaethyddol, a ddechreuodd yn ystod diwedd yr 1870au, effaith ar gwestiwn y degwm.

¹ G. F. A. Best, *Temporal Pillars: Queen Anne’s Bounty, the Ecclesiastical Commissioners, and the Church of England* (Caergrawnt, 1964), t. 465.

² Eric Evans, *The Contentious Tithe: The Tithe Problem and English Agriculture, 1750-1850* (Llundain, 1976), t. 161. Dim ond triniaeth fer (8 tudalen) o’r cyfnod rhwng 1850-1936 a geir yma fel diwedd glo i’w astudiaeth a ganolbwyntiodd yn bennaf ar y cyfnod hyd at 1850.

³ PP 1887 XXXVIII, Report of an Inquiry as to Disturbances Connected with the Levying of the Tithe Rentcharge in Wales, t. 3.

⁴ *Cardiff Times* (11 Medi 1886).

I.

Terfysgoedd Beca

Ym 1896 dywedodd D. Lleufer Thomas, 'In one sense, the anti-tithe movement was the Rebecca riots over again, but this time in North Wales'.⁵ Atseiniodd y gred hon ychydig dros hanner canrif yn ddiweddarach pan ddywedodd David Williams, 'The "tithe war" was the Rebecca Riots of north Wales ...'⁶ Y mae'r ddamcaniaeth hon yn un ddealladwy. Ni ellir ond gweld tebygrwydd wrth ddarllen sylwadau megis yr un a geir yn y *Dysgedydd* ym 1843 yn gofyn, 'Os dylai perchenogion tiroedd ostwng mewn cydymdeimlad â'r wlad, paham na ddylai perchnogion y degwm ostwng hefyd?'⁷ Datgelodd *Seren Gomer* yn yr un flwyddyn fod degwm dalwyr Llanbadarn-fawr, Maesyfed, wedi cael gostyngiad o 15% gan y Parchg. L. P. Jones, tra bu eraill yn amharod i gynnig unrhyw ostyngiad.⁸ Dyma'r fath o weithredoedd a chwestiynau a gafwyd ar drothwy ac yn ystod 'Rhyfel y Degwm'.

Dichon mai'r peth pwysicaf i'w ystyried wrth gymharu dau ffenomenon ydyw gofod ac amser. Yn amlwg y mae'r hinsawdd y ganed hwy iddynt yn mynd i fod yn wahanol. Fel y dywed Philip Jenkins, 'it is interesting to speculate what might have become of that earlier insurrection [Terfysgoedd Beca] if popular action had been reinforced by a caucus of militant MP's [fel y gwelir yn ystod 'Rhyfel y Degwm]'.⁹ Yr oedd datgysylltu a dadwaddoli'r Eglwys wedi dyfod yn bwnc llosg erbyn diwedd y ganrif, ac yn naturiol fe sugnwyd yr helyntion ynghylch y degymau i'r ymgyrch hwnnw. Megis codi ei ben yn unig ydoedd adeg terfysgoedd Beca.

Dywedodd George Rudé am yr elfen grefyddol adeg y terfysgoedd, 'Nonconformity lay at the heart of the Rebecca movement ...'¹⁰ A olygai hyn bod egwyddorion crefyddol yn elfen nodweddiadol o'r gwrthwynebiadau yn erbyn talu'r degwm? Credai David Howell, '... dislike of tithes and church rates stemmed as

⁵ Dyfynnwyd yn David Egan, *People, Protests and Politics: Case Studies in Nineteenth Century Wales* (Llandysul, 1987), t. 105. Yn wreiddiol yn D. Lleufer Thomas, *The Welsh Land Commission: A Digest of Its Report* (1896.)

⁶ David Williams, *A History of Modern Wales* (Llundain, 1977; ail-argraffiad), t. 264.

⁷ *Y Dysgedydd* (1843), t. 383.

⁸ *Seren Gomer* (1843), t. 64; David J. V. Jones, *Rebecca's Children: A Study of Rural Society, Crime, and Protest* (Rhydychen, 1989), t. 127.

⁹ Philip Jenkins, *A History of Modern Wales 1536-1900* (1992), tt. 338-339.

¹⁰ George Rudé, *The Crowd in History* (Llundain, 1981; argraffiad diwygiedig), t. 156.

much from religious principle as financial hardship ...'¹¹ Yr oedd David Williams hefyd o'r un farn:

Now the objection [to tithes] had become more fundamental ... When there was added to this the disinclination of the growing nonconformist majority in a parish to support a Church frequented by only a handful of parishioners, the payment of tithes became a subject of discussion in every parish in the countryside.¹²

Ond rhaid cymryd gofal rhag gor-symleiddio'r sefyllfa. Ni welwyd unrhyw gynnwrf ynglŷn â'r degwm yn y gogledd. Os oedd yna deimlad o anghyfiawnder ar sail cydraddoldeb crefyddol ymysg Anghydfurfwyr y gogledd ynghylch y degwm, dioddef mewn distawrwydd a wnaeth y rhan helaeth ohonynt. Ond fel y sonnir eisoes, efallai fod dylanwad ceidwadol y Methodistiaid (y Calfiniaid a'r Wesleaid) yno wedi lleithio unrhyw fynegiant cyhoeddus yn erbyn talu'r degwm o safbwynt crefyddol.¹³ Honnodd R. T. Davies mai o 1846 ymlaen dechreuodd Sasiwn y de ymdrin â phryderon cyffelyb i'r rhai a fynegwyd gan y cyrff Anghydfurfiol eraill, er na chyfeiriodd y Methodistiaid, yn swyddogol o leiaf, at eu hunain fel Anghydfurfwyr nes 1871.¹⁴ Y mae'n debyg mai dyma pam, fel y honnodd Howell, mai'r Bedyddwyr a'r Annibynwyr oedd y mwyaf blaenllaw adeg helyntion 'Beca. Ond yr oedd digon ohonynt yn y gogledd hefyd. Felly, nid ydyw'r darlun yn un du a gwyn.

Dyma droi felly i edrych ar y degwm yn neilltuol dros gyfnod terfysgoedd Beca. Yn ôl y Comisiynwyr a ymchwiliodd i achosion yr helynt:

Second only to the Turnpike system as a cause of discontent, we have to notice the Tithe Commutation Act, respecting the working of which great dissatisfaction was

¹¹ David W. Howell, *Land and People in Nineteenth-Century Wales* (Llundain, 1978), t. 11.

¹² David Williams, *The Rebecca Riots* (Caerdydd, 1955), t. 129.

¹³ Gwelwyd ambell i fflach o gynnwrf ynglŷn â'r tollbyrth yng Ngogledd Cymru. Torrwyd tollborth yn ystod Gorffennaf 1843 ger Dolbenmaen, Sir Gaernarfon gan oddeutu 20 i 40 o "blant Rebecca." Mary Aris, Julia Latham a Jo Pott, *Crime and Punishment: A Welsh Perspective - Nineteenth Century Crime and Protest* (Cyhoeddiad Gwasanaeth Archifdy Gwynedd, 1987), tt. 17-20. Ar 20 Tachwedd 1843 fe ddinistriwyd tollborth ger Maerdy, Corwen, Sir Ddinbych, ac fe adawyd llythyr bygythiol i'r doll geidwad. *The Times* (22 Tachwedd 1843); Henry Tobit Evans, *Rebecca and Her Daughters* (Caerdydd, 1910), t. 215. Ardal Bangor a Porthaethwy, 'If allowed to continue, I, for one, shall not be surprised if a less legitimate means should be adopted, so that a really crying evil may be at once removed'. 'Anti Rebecca', *Caernarvon and Denbigh Herald* (2 Rhagfyr 1843). Achos o losgyddiaeth yn Sir Ddinbych: David J. V. Jones, 'Crime, protest and community in nineteenth century Wales', *Llafur* 1/3 (Mai 1974), t. 10; Tim Jones, *Rioting in North East Wales, 1536-1918* (Wrecsam, 1997), tt. 44-45. Er mae'n ymddengys bod John Ellis, yr un a ddrwgdybir, yn wallgof. *Cambrian* (11 Tachwedd 1841).

¹⁴ R. T. Davies, *Religion in the Industrial Revolution in South Wales* (Caerdydd, 1965), t. 90.

expressed to us by the owners and occupiers of land, especially in the western portion of South Wales.¹⁵

Cytunodd cyfoeswyr eraill hefyd, megis Edward Crompton Hall (bargyfreithiwr o ogwydd radicalaidd) pan osododd y degwm yn uchel ar restr o gwynion Beca.¹⁶ Yn wir, erbyn 1843 nododd *Y Dysgedydd*:

Mae y toll-lidiardau yn suddo mewn pwysigrwydd fel gormes; ac y mae gwrthwynebiadau i ddeddf newydd y tlodion, degymau, ac ardrethoedd uchel, yn dechreu ymrestru yn y rhenc flaenaf. Y degwm-dalwyr a ddywedant yn awr, “Yr ydym yn penderfynu na chaiff yr un eglwyswr fwy na chan punt y flwyddyn oddiwrth ddegwm.”¹⁷

Yn anffodus i'r rheini a luniodd Deddf Cyfnewid y Degwm, gwelwyd cyfres o gynaeafau gwael ym more oes y ddeddf honno, ac effaith y caledwch amaethyddol hwn oedd creu anysgymod adeg y broses o gymudo'r degymau. Serch hynny, dengys nad oedd yna wrthwynebiad ledled y wlad (Cymru a Lloegr) i'r broses hon, oddieithr un ardal: de-orllewin Cymru.¹⁸ Honnodd y Comisiynwyr fod y degwm yn ne Cymru wedi codi oddeutu 7 y cant yn sgil y cymudiadau, gyda'r cynnydd mwyaf yng Ngheredigion, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro.¹⁹ Ond yr oedd yna wahaniaethau o fewn y siroedd hyn. Er enghraifft, yng ngogledd Ceredigion fe ymlwybrodd y broses o gymudo yn ei flaen wrth ei bwysau, ac ni welwyd lawer o helynt ynglŷn â'r degwm yn y rhan honno o'r wlad, nac, o ran hynny, mewn nifer o lefydd eraill yng Nghymru ychwaith.²⁰

Fel y dangoswyd eisoes, yr oedd dros hanner o ddegymau Ceredigion a Sir Gaerfyrddin yn nwylo gwŷr lleyg. Un meddianwr lleyg amlwg oedd y tîrfeddianwr absennol o Lanon, Rees Goring Thomas, a ddaeth yn ffigwr cynhenus yn ystod helyntion ‘Beca.’²¹ Efallai nad ydyw hyn yn syndod, gan fod holl ddegymau plwyf Llanelli, £270 (gwerth cymudo), yn ei ddwylo ef, yn ogystal â holl degymau Llangyndeyrn, £889, a'r cwbl o ddegymau plwyf Lanon, £775. Dyna gyfanswm o

¹⁵ PP 1844 XVI Report of the Commissioners of Inquiry for South Wales ... Report, t. 26.

¹⁶ Lowri Ann Rees, ‘Paternalism and rural protest: the Rebecca riots and the landed interest of south-west Wales’, *Agricultural History Review*, 59, 1 (2011), t. 43. Gw. hefyd, PP 1844 XVI, Minutes, c.5493, t. 234.

¹⁷ *Y Dysgedydd* (1843), t. 321.

¹⁸ Evans, *The Contentious Tithe*, t. 157.

¹⁹ PP 1844 XVI, Report, t. 27.

²⁰ Jones, *Rebecca's Children*, t. 127.

²¹ Williams, *Rebecca Riots*, t. 127.

£1,934 o ddegymau yn ei feddiant ef yn unig. Felly, yn y siroedd hyn yr oedd y degwm yn broblem leyg i'r un raddau ag yr oedd yn broblem glerigol.²² Gellir dadlau, fel y gwnaeth Frances Knight, bod hyn yn lleidio'r dyfroedd o ran y term gwrthglerigiaeth.²³ Er bod Cragoe ar y trywydd iawn pan honnodd nad oedd gwrthglerigiaeth yn nodweddedig o derfysgoedd Beca, nid oedd yn gywir pan dybiodd na welwyd ymosodiadau ar glerigwyr Anglicanaidd a'u heiddo.²⁴ Yn ôl David Jones fe dargedwyd o leiaf pymtheg o glerigwyr yr Eglwys gan ddilynwyr Beca.²⁵ Un clerigwr a ddaeth dan y lach oedd y Parchg. John Hughes, periglor plwyf Penbryn, Ceredigion.

Gweithredwyd dosraniad y degwm ym mhlwyf Penbryn mewn modd anniben iawn, ac, ar ôl tair blynedd, pan gwblhawyd y dosraniad ym 1842, yr oedd y degymau wedi saethu i fyny o £525 i £700.²⁶ Gwrthododd un plwyfolyn ystyfnig dalu ei ddegwm a oedd yn ddyledus i ficer y plwyf. Yn nhyb David Williams a Pat Molloy, Ymneilltuwr, yn ôl pob tebyg, oedd y plwyfolyn hwn ac fe ddewisodd Hughes gymryd camau cyfreithiol er mwyn adfer ei ddegwm.²⁷ Gorchmynnwyd y beili i atafaelu nwyddau'r diffygdalwr (gwerth y swm a oedd yn ddyledus), ond mewn gweithred o ffolineb, cymerwyd yr unig eitem o unrhyw werth ariannol yn y tŷ; y Beibl teuluol. Fe ddaeth y weithred yma o amddifadiad ysbrydol ac ariannol yn destun siarad, nid yn unig yn yr ardal, ond ym marn John Rees, ffermwr o Lanarth, '... all the way from Holyhead to Newport'.²⁸ Yn anffodus i'r ficer, daeth yr achos i sylw 'Beca, ac anfonwyd llythyr bygythiol iddo yn ei rybuddio os na ddychwelai'r Beibl, '... mi doraf dwy och aelodau un glyn ac un fraich a rhoddaf yr hyn oll sydd genych ar dân ...'²⁹ Yr oedd y bygythiad corfforol penodol hwn yn ddigon

²² Disgrifiwyd Ieuan Gwynedd Jones y degwm fel problem glerigol yn sir Gaernarfon oherwydd mai'r Eglwys oedd yn meddiannu y rhan helaeth ohono, yn hytrach na gwŷr lleyg. Ieuan Gwynedd Jones, *Exploration and Explanations: Essays in the Social History of Victorian Wales* (Llandysul, 1981), tt. 34-35. Frances Knight, 'Did anticlericalism exist in the English countryside in the early nineteenth century?' yn Nigel Aston a Matthew Cragoe (gol.), *Anticlericalism in Britain c. 1500-1914*, tt.159-174.

²³ Ibid., t. 173.

²⁴ Matthew Cragoe, 'Anticlericalism and politics in mid-Victorian Wales', yn Nigel Aston and Matthew Cragoe (gol.), *Anticlericalism in Britain c. 1500-1914* (Stroud, 2001), t. 188.

²⁵ Jones, *Rebecca's Children*, t. 303.

²⁶ Williams, *The Rebecca Riots*, t. 134.

²⁷ Ibid.; Pat Molloy, *And They Blessed Rebecca: An Account of the Toll-Gate Riots 1839-1844* (Llandysul, 1983), t. 95.

²⁸ PP 1844 XVI, Minutes, c.1261, t. 58.

²⁹ Ffotograff o'r gwreiddiol wedi ei ail-gynhyrchu yn Robert M. Morris, *'Beca!'* (Caerdydd, 1986), t. 46.

brawychus i gaethiwo Hughes yn ei ficerdy, a oedd erbyn hyn dan wylidwraeth milwrol.³⁰

Diddorol ydyw darllen barn Capten Charles Arthur Pritchard, ymddiriedolwr y degymau ar ran Uwchgapten Walter Rice, y meddianwr lleyg ym mhlwyf Penbryn. Dywedodd Pritchard wrth y Comisiynwyr:

The chief accusation has been against the clergyman of that parish [Penbryn], and I have not the slightest hesitation in saying that it is in fact an attack upon the church; there is no doubt of that in my opinion, because they have been so very angry with the clergyman, and he is one of the most inoffensive men in the country.³¹

Y mae'n debyg fod yr achos ynglŷn â'r Beibl wedi cythruddo'r Anghydfurfwyr yn y plwyf, ac o ganlyniad, y degymau clerigol a ystyriwyd i fod y mwyaf cynhennus. Yr oedd ficer Penbryn yn darged cyfleus ac archolladwy o fewn y plwyf, nid fel yr Uchgapten Rice, a oedd i ffwrdd dramor. Er, cyfaddefodd Pritchard fod ef ei hun wedi derbyn llythyrau bygythiol. Nid oedd plwyfolion Penbryn yn gytûn ychwaith ynglŷn â'r degwm, gyda rhai eisiau talu swm penodol a rhai eraill ddim eisiau talu o gwbl.³²

Os cafodd Hughes amser gresynus ohoni, gellid dadlau fod profiad ei gymydog, y Parchg. Eleazar Evans, Llangrannog, wedi bod yn un llawer gwaeth. Yr oedd Evans wedi preswyllo yn y plwyf er pymtheg mlynedd, a dywedodd wrth y Comisiwn, '... I have been exceedingly annoyed, and my life threatened in the parish, for a long time; I cannot conceive for what cause; merely because I wished to demand what has been my due'.³³ Cynyddodd cyfran degymau Evans yn y plwyf oddeutu £17. 10s. ar ôl y cymudiad, a dywedodd y ficer wrth y Comisiwn nad oedd ei ddegymau wedi cael eu talu'n llawn nac yn gyson ers chwe mlynedd, gan golli 6s. yn y bunt o ganlyniad i gredyd hir.³⁴ Pan holwyd beth oedd rheswm y bobl dros beidio â thalu'r degwm, atebodd Evans, 'That they should be destroyed by the people

³⁰ Williams, *Rebecca Riots*, t. 135.

³¹ PP 1844 XVI, Minutes, c.5222, t. 225.

³² Ibid.

³³ Ibid., c.5906, t. 255 a c.5884, t. 254.

³⁴ Ibid., c.5931, t. 256; Jones, *Rebecca's Children*, t. 278.

of Carmarthenshire if they paid according to the present average'.³⁵ Er maentumiodd y ficer bod rhai wedi ei dalu, ond yn gyfrinachol.³⁶

Cymhlethwyd y sefyllfa ynglŷn â'r degwm yn Llangrannog oherwydd ymddygiad Evans yng nghysylltiad â'r adeilad ysgol yn y plwyf. Yr oedd rhai o Anghydfurfwyr y plwyf wedi cyfrannu'n ariannol tuag at yr adeilad, dan yr argraff mai diben yr adeilad oedd fel man addysgu'n unig.³⁷ Fe gyfaddefodd y periglor, yn ddigon didwyll, nad oedd y tanysgrifwyr hynny wedi cael eu hysbysu am y bwriad i drwyddedu'r adeilad fel man addoli dwyfol drwy ffurf yr Eglwys.³⁸ Credai Evans hyd yn oed pe buasai'r Anghydfurfwyr hynny wedi gwybod o flaen llaw am ei weledigaeth hir dymor, fe buasent dal wedi cyfrannu beth bynnag. Serch hynny, cyfaddefodd fod ei weithred wedi denu llid nifer o Anghydfurfwyr y gymdogaeth.³⁹ Ym marn y ficer, 'I consider all the disturbance in that parish is nothing more nor less than the spirit of dissent and attack upon the church'.⁴⁰

Oblegid ei ymddygiad nad oedd, y mae'n amlwg, yn dderbyniol yng ngolwg 'Beca, derbyniodd Evans lythyr bygythiol ar 19 Mehefin 1843, yn mynnu ei fod yn rhoi arian yr ysgol yn ei ôl:

... otherwise, if you do not, I with 500 or 600 of my daughters will come and visit you, and destroy your property five time to the value of it, and make you subject to scorn and reproach throughout the whole neighbourhood.⁴¹

Ar 5 Awst derbyniodd ail lythyr, y tro hyn yn ei geryddu ynglŷn â'i ddegwm, ac os na yrrwyd y blaenswm yn ôl:

... they desire me [Parchg. Evans] to find a place for my soul, and the place for my body was to be at the end of the National Whore, that is at the end of the Established Church, that is the title they gave it.⁴²

Dim ond diwrnod ynghynt ymosodwyd ar gurad Evans yn ddifrifol, a thorrwyd sawl asen.⁴³ Y rheswm, y mae'n debyg, oedd y ffaith fod y curad wedi rhoddi tystiolaeth

³⁵ PP 1844 XVI, Minutes, c.5936-5938, t. 256.

³⁶ Ibid.

³⁷ Ibid., c.5899-5901, t. 255.

³⁸ Ibid., c.5900, t. 255; Molloy, *And they Blessed Rebecca*, t. 161.

³⁹ PP 1844 XVI, Minutes, c.5903, t. 254 a c. 5887, t. 254.

⁴⁰ Ibid., c.5887, t. 254.

⁴¹ Ibid., c.5896, t. 254.

⁴² Ibid., c.5905, t. 255.

⁴³ *The Welshman* (18 August 1843); Molloy, *And they blessed Rebecca*, t. 161.

ger bron yr ynadon. Cyfeiriodd y llythyr at y digwyddiad yma mewn termau beiblaidd. Mewn awgrym a gyfeiriodd David Jones ato fel rhyw fath o ‘ffwndamentalïaeth grefyddol’, tynnodd ysgrifennydd y llythyr sylw Evans at Lyfr y Barnwyr, pennod 6, adnodau 27 ac 28, sef hanes Gideon yn tynnu i lawr allor Baal yn y nôs, a’r ail ych wedi ei offrymu ar yr allor oedd wedi ei chodi.⁴⁴ Yr oedd gan y ficer syniad da o beth oedd y neges:

The meaning I suppose was, that the men were coming to destroy my house [yn ystod y nôs], and I was intended for the second bullock, because my curate [yr ‘aberth’ cyntaf] had been attacked; and they desired me to read much of the Old Testament, to see whether my conduct was like that of Pharaoh, and that I had doubled the task of the people.⁴⁵

Gorffennodd y llythyr gydag elfen wrthglerigiol gryf gan gyfeirio at Evans fel, ‘Minister of the National Whore’.⁴⁶

Yr oedd yna ddigwyddiadau eraill bygythiol tuag at glerigwyr yr Eglwys a oedd yn ymddangos yn ddiamcan. Ond awgrymodd David Jones bod y degymau a hefyd y trethi eglwys yn gysylltiedig â hwy.⁴⁷ Cafwyd y Parchedigion John Williams, Llandybie a David Lewis Cilwen, Abernant, ddeisebau ynglŷn â’u degymau, ac er bod y ddau wedi ildio er mwyn heddwch, nid oedd yr olygfa o fwg yn byrlymu allan o das gwair a dynion arfog yn cylchynu eu tai yn eu rhoi mewn cyflwr o ddibryder meddyliol.⁴⁸ Yr oedd y Parchg. Isaac Hughes, Llandyfrïog (yn y rhan honno o Geredigion lle’r oedd y cynnwrf wrth-ddegymol ar ei waethaf) wedi pryderu ers tro ynglŷn â’i ddiogelwch, ac yn anffodus iddo ef, dirweddwyd ei bryderon pan ddymchwelwyd ei fwthyn, dinistriwyd cae o haidd ac anafwyd ei geffyl gwerthfawr.⁴⁹

Heblaw am y degymau, fe dargedwyd clerigwyr Anglicanaidd am resymau eraill hefyd. Yr oedd y Parchg. James W. James, yn ôl y *Cambrian*:

... a very zealous Magistrate ... and he had made very active (the Rebeccaites say “officious”) endeavours to trace out the leaders and perpetrators of the various

⁴⁴ Jones, *Rebecca’s Children*, t. 313.

⁴⁵ PP 1844 XVI, Minutes, c.5905, t. 255.

⁴⁶ Ibid.

⁴⁷ Jones, *Rebecca Children*, t. 304.

⁴⁸ Ibid.

⁴⁹ Ibid.

nocturnal outrages which have lately disgraced Pembrokeshire and the adjoining counties.⁵⁰

Nid oedd y weithred yma wedi anwylo ef yn yr ardal, ac un noson wrth edrych drwy ei ffenestr, saethodd rhywun ato sawl gwaith, gydag un ergyd yn rhwygo drwy ran o'i fraich.⁵¹ Nid syndod felly ydyw darganfod fod yr ynad clerigol wedi cilio o'r fainc ychydig o fisoedd yn ddiweddarach.⁵² Barnodd y Parchg. Henry Nathan, Abergwaun, ymdrechion dilynwy'r Beca yn ei ardal yn llym. Yn amlwg yr oedd gan ei gynulleidfa eglwysig feddwl mawr ohono, wrth iddo dderbyn gown sidan fel, '...token of their esteem, and in approbation of the zealous and faithful discharge of his pastoral duties since residence among them'.⁵³ Nid pawb, fodd bynnag, oedd o'r un barn. Y gred oedd mai ef oedd yn gyfrifol am alw'r fyddin i Abergwaun er mwyn cadw'r heddwch, ond pan adawodd y milwyr y dref yn Ionawr 1845, gwastraffodd rhai o'r trigolion ddim amser yn ymosod ar dŷ'r periglor.⁵⁴

Targedwyd periglorion a oedd yn berchen ar dir hefyd, fel y Parchedigion. J. Jones, Llansadwrn a David Prothero, Eglwyswrw. Ymwelodd dorf, rhai gydag arfau y mae'n ymddengys, â ficerdy Jones ynglŷn â darn o dir oedd y ficer wedi prynu'n ddiweddar.⁵⁵ Rhybuddiwyd ef i beidio a chymeryd meddiant o'r tir, neu byddent yn rhoi ei dŷ ar dân.⁵⁶ Yr oedd Jones wedi brawychu cymaint fe symudodd ef ei deulu a'i ddodrefn i Lanymddyfri; dewisiad doeth, oblegid y noson olynol fe wnaeth rhywun saethu at ddrws stabl y ficerdy.⁵⁷ Targedwyd Prothero oherwydd fod 'Beca wedi digio am adael i ddefaid a cheffylau pori fynwent eglwys y plwyf, a heriodd hi'r sefydliad Eglwysig am hawlio tir. Yn ôl un hysbysiad, 'I fear there is nothing short of a visit from Rebecca will bring him [Prothero] to his proper senses'.⁵⁸

Gan edrych yn ôl ar y digwyddiadau yr ydym newydd sôn amdanynt, y mae'n ddigon posib fe saethwyd at James James oherwydd mai ynad amhoblogaidd ydoedd, yn hytrach na oblegid ei alwedigaeth fel offeiriad yr Eglwys. Yr un mor debygol ydyw'r rhesymau ynghylch yr ymosodiad ar y curad. Fel y dywedodd David Jones,

⁵⁰ *Cambrian* (23 Rhagfyr 1843); *Carmarthen Journal* (22 a'r 29 Rhagfyr 1843).

⁵¹ *Cambrian* (23 Rhagfyr 1843).

⁵² Jones, *Rebecca's Children*, t. 303.

⁵³ *Glamorgan, Monmouth and Brecon Gazette and Merthyr Guardian* (22 February 1840).

⁵⁴ *Carmarthen Journal* (10 Ionawr 1845).

⁵⁵ *The Times* (7 Hydref 1843).

⁵⁶ *Ibid.*

⁵⁷ *Ibid.*

⁵⁸ Jones, *Rebecca's Children*, t. 290.

‘Rebecca was always much more than just “a farmers’ Rebecca”, or an anti-landlord one ... Those close to the protest movement were surprised by ‘the multifarious subjects to the redress of which Rebeccaism is turning its attention’.⁵⁹ Gellir dadlau fe dargedwyd rhai o glerigwyr yr Eglwys fel gweithredwyr amhoblogaidd yn y gymdeithas yn yr un modd a thargedwyd eraill nad oedd yn y weinidogaeth. Gellid deall pam fod ambell i glerigwr ac Eglwyswr wedi dehongli’r elyniaeth tuag at dalu’r degymau clerigol fel ymosodiad Ymneilltuol ar yr Eglwys. Fel y crybillwyd eisoes, yr oedd y rhethreg ambell i dro yn adlewyrchu hynny. Ond wrth ddarllen geiriau'r sawl a gwynodd am y degymau ger bron y Comisiynwyr, anaf i’r boced, yn hytrach nag i’r gydwylbod, y gwelwn yma. Fel y dywed Jenkins, ‘Nid cŵyn Ymneilltuaeth yn erbyn yr Eglwys sydd yma (er bod digon o hynny hefyd yng Ngorllewin Cymru), ond cŵyn economaidd y tyddynnwr’.⁶⁰

Rhaid cael gwared o’r hen syniad traddodiadol a chamarweiniol mai ‘Rhyfel y Degwm’ oedd terfysgoedd ‘Beca y gogledd. Ni chyfyngwyd helyntion y degwm i’r gogledd yn unig, ac yr oedd hen ardal ‘Beca wedi ei chynhyrfu hefyd. Yn ddiamau hwy oedd y ddau brif symudiad protest yng nghefn gwlad Cymru yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ond dyna derfyn ar y gymhariaeth. Fel y dengys yr enw, cwynion o barthed y degymau (yn enwedig y degymau clerigol) oedd cnewyllyn ‘Rhyfel y Degwm’, hynny yw ar sail ffactorau economaidd ac ar sail yr egwyddor o gydraddoldeb crefyddol. Yr oedd gan ‘Beca nifer o dargedau o fewn y gymdeithas, a nifer o wahanol amcanion. Ffurfiodd y degymau ddim ond rhan o’r cwynion hynny, ac felly ymylol iawn oedd gwrthglerigiaeth. Ni ddaeth clerigwyr yr Eglwys o dan y lach i’r un raddau ag y daethant yn ystod ‘Rhyfel y Degwm’. Os rhywbeth, yr oedd ‘Rhyfel y Degwm’ yng Nghymru yn debycach i’r ymgyrch o’r un enw yn Iwerddon yn ystod yr 1830au.

⁵⁹ Ibid., t. 263.

⁶⁰ Jenkins, *Hanes Cymru yn y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg*, t. 145.

II.

Helynt y dreth eglwys

Ni ddylid ymhelaethu llawer yma ynglŷn â'r ymgyrch i ddifa'r dreth eglwys yng Nghymru.⁶¹ Ond y mae'n bwysig sôn ychydig amdano oherwydd mai taliad ariannol oedd y dreth, fel y degwm, tuag at gynnal rhyw agwedd neilltuol o'r Eglwys Sefydledig. Yr oedd yna wahaniaethau sylweddol rhwng y ddau daliad. Pennwyd swm y dreth gan wardeiniaid yr Eglwys mewn festri blwyfol os oedd angen arian i atgyweirio eglwys y plwyf, neu at fân dreuliau eraill megis bara a gwin cymun.⁶² O safbwynt ariannol, nid oedd y dreth eglwys mor bwysig i'r Eglwys ag oedd y degymau. Cofier mai hawl eiddo oedd y degymau ac yn ffynhonnell bwysig iawn o gyllid er mwyn ariannu'r offeiriadaeth. Nid oedd gan y plwyfolion ychwaith unrhyw ddylanwad o ran symiau y degymau a oedd i'w talu. Oherwydd hyn, yr oedd hi'n llawer haws i Ymneilltuwyr targedu'r dreth eglwys yn y festri.

Y mae Walter T. Morgan wedi dangos fod achosion o wrthod talu'r dreth eglwysig wedi dyfod ger bron y llysoedd eglwysig ymhell cyn i'r pwnc dod yn un, 'militant a pronounced'.⁶³ Wedi hyn daeth yn niwed, nid yn unig i'r boced, ond i'r 'gydwybod Ymneilltuol' hefyd. Cafwyd 'brwydr' nodedig rhwng 1832-33 yn Aberystwyth yn erbyn talu'r dreth eglwys dan arweinyddiaeth Ymneilltuwr gwleidyddol o'r enw John Matthews.⁶⁴ Ym 1849 cawn gyfeiriad at, 'very violent proceedings', mewn cyfarfod festri yn Old Radnor rhwng neb llai na'r Crynwyr a'r plwyfolion eraill ynghylch y dreth eglwys.⁶⁵ Yr oedd Matthews yn dal i frwydro yn erbyn y dreth eglwys ym 1855 pan drefnodd ef ddeiseb gan Fethodistiaid gogledd Ceredigion yn cefnogi Mesur Syr William Clay i ddiddymu'r dreth. Llwyddod i hel 2,302 o enwau y flwyddyn honno, a mewn deiseb arall ym 1860 cafodd 1,710 o

⁶¹ Yr astudiaeth orau sydd yn edrych yn gyffredinol ar yr helynt hwn ydyw, J. P. Ellens, *Religious Routes to Gladstonian Liberalism: The Church Rate Conflict in England and Wales, 1832-1868* (Pennsylvania, 1994). Gw. hefyd, Walter T. Morgan, 'Cases of subtraction of church-rate before the consistory court of St. David's', *Journal of the Historical Society for the Church in Wales*, IX (1959), tt. 70-91; G. I. T. Machin, 'A Welsh church rate fracas, Aberystwyth, 1832-33', *Cylchgrawn Hanes Cymru*, cyf. 6, rhif. 4 (1973), tt. 462-468.

⁶² Jenkins, *Hanes Cymru yn ystod y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg*, t. 106.

⁶³ Morgan, 'Cases of subtraction of church-rates', t. 89.

⁶⁴ Machin, 'A Welsh church rate fracas', tt.464-468.

⁶⁵ LIGC, Papurau Ormathwaite, FG1/18, Dyddiadur – Cofnod ar gyfer (14-16 Tachwedd 1849).

enwau.⁶⁶ Y mae hyn yn dangos bod yna cryn dipyn o gefnogaeth ymysg Ymneillduwyr Cymru i ddiddymu'r dreth eglwys, gan gofio mai dim ond ar gyfer Methodistiaid gogledd Ceredigion oedd y ffigyrau uchod. Ond cawn weld nes ymlaen nad oedd y sefyllfa mor ddu a gwyn ag hynny.

Y mae'n werth nodi mai Thomas Gee oedd un o brif ffigyrau'r anghydfod yn Ninbych rhwng 1852 a 1854. Yr oedd yr atafaeliadau yno o ganlyniad i ddiffyg taliad y dreth yn ryw fath o ragflaenydd i helyntion y degwm dros 30 mlynedd yn ddiweddarach.⁶⁷ Yn wir, dywedodd J. P. D. Dunbabin fod y protestiadau yn erbyn talu'r degymau erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg wedi'i ysbrydoli gan helyntion y dreth eglwys.⁶⁸ Yn sicr yr oedd mecanwaith y gwrthdystio yn gyffelyb; gwrthod talu er mwyn gorfodi arwerthiant a fuasai'n sicrhau bod y broses yn dyfod yn un anodd a chostus i'r awdurdodau erlynyddion. Diddorol ydyw'r ffaith fod Gee wedi gorfodi arwerthiant yn ystod helynt y dreth eglwys ac yn ystod 'Rhyfel y Degwm'.⁶⁹

Cawn fewnwelediad i'r fath o ddeunydd oedd yr Anghydfurfwyr yn ei ddarllen o barthed y dreth eglwys, y degymau a'r Eglwys Sefydledig yn gyffredinol mewn llyfryn a grëwyd gan y Parchg. William Thomas, Bwlchnewydd, gweinidog gyda'r Annibynwyr. Casgliad o bamffledi gwleidyddol wedi'u rhwymo ydyw'r llyfryn. Pamffledi gan y 'Tracts of the British Anti-State Church Association' ydyw nifer ohonynt, a hefyd cawn ambell i bamffled gan y Dr. O. O. Roberts.⁷⁰ Y mae yna

⁶⁶ Archifdy Prifysgol Bangor, Bangor (APB), Amlwch/73, Llyfr Llythyrau John Matthews, Matthews i Iarll Lisburne (27 Mehefin 1855); APB, Amlwch/73, Matthews i Rt. Hon. H. Lord Mostyn (28 Mehefin 1855); Matthews i Capten Pryse, A.S. (26 Mawrth 1860).

⁶⁷ Tim Jones, *Rioting in North East Wales, 1536-1918* (Wrecsam, 1997), t. 47; T. Gwynne Jones, *Cofiant Thomas Gee* (Dinbych, 1913), tt. 120-130; Ieuan Wyn Jones, *Y Llynyn Arian: Agweddau o Fywyd a Chyfnod Thomas Gee, 1815-1898* (Dinbych, 1998), tt. 68-73.

⁶⁸ J. P. D. Dunbabin, *Rural Discontent in Nineteenth Century Britain* (LLundain, 1974), t. 296.

⁶⁹ Gw. pennod VII.

⁷⁰ LIGC, 935A, Cwrtmawr, Pamffledi gwleidyddol ynghylch yr Eglwys Sefydledig wedi'u rhwymo gan y Parchg. William Thomas, Bwlchnewydd (1823-1899). Dyma'r Pamffledi: *Facts and Figures Relating to the Irish Church [British Anti State Church Association]* (Llundain, 1850); *The Church Establishment in Wales: Its Past History and Present Condition [Tracts of the British Anti State Association]* (Llundain, 1851); *Scotland and Its Kirk [Tracts of the British Anti State Church Association]* (Llundain, 1851); *The New Burial Acts, As They Affect Dissenters with Practical Hints for their Guidance* (Llundain, pedwerydd argraffiad, 1857); *Practical Directions to the Opponents of Church-Rates. Part I. [Society for the Liberation of Religion from State Patronage and Control]* (Llundain, trydydd argraffiad, 1857); *Illegal Church-Rates: Being Practical Directions to the Opponents of the Church Rates. Part II. [Society for the Liberation of Religion from State Patronage and Control]* (Llundain, 185[?]); *Tracts of the British Anti-State Church Association: Church Property and Revenues in England and Wales* (Llundain, 1860). Gw. y bennod flaenorol am waith O. O. Roberts.

ddigon o gwyno ynglŷn â'r degymau i'w gael yma. Yn wir, ceir pennill bach o'r enw 'Cyffes yr Offeiriaid' sydd yn cwyno am y degwm a'r dreth eglwys ynghyd:

Os ffwrdd aiff y Degwm ni wnaeth geni pwy,

Fo'n caru pregethu yn Eglwys y Plwy';

Ar ol cwn hela 'rwy'n meddwl af I,

Mi gadwaf gwmpeini rhai penaf eu bri.

Hwy waeddant am dynu'r Dreth Eglwys I lawr,

Aent ymaith a'r degwm pe gallent yn awr,

A gadael yr Eglwys heb waddol I mi,

Ffei! scandal, y scoundrels ai dyma'r byd sy?⁷¹

Serch hynny, does yna ddim byd cyffelyb i'r ddau bamffled ynghylch y dreth eglwys ble y cynigir cyngor *ymarferol* i wrthod talu y dreth eglwys. Dyma ddetholiad bach er mwyn cael blas ar y fath o gyngor a roddwyd:

Form a small Committee; agree, as far as practicable, on the course to be pursued at the vestry; and draw up forms of motions, amendments, protests etc. Choose a cool-headed man as your leader, and resolve to act strictly under his leadership.⁷²

Ni ellir ond gweld tebygolrwydd yma rhwng y cyngor uchod a'r un a gynigwyd gan Thomas Roberts, Llwynrhudol, ynghylch y degymau dros hanner canrif yn ddiweddarach. Ond fel y crybwyllwyd eisoes, yr oedd yn llawer haws gwrthdystio yn erbyn y dreth eglwys, o safbwynt ymarferol, nag ydoedd yn erbyn y degymau.

Ysgrifennodd Thomas llith yn *Y Diwygiwr* o dan yr enw 'Ap Gryphydh' ynghylch helynt y dreth eglwys ym mhlwyf Cayo, Sir Gaerfyrddin.⁷³ Ym 1857 dengys bod John Johns, Ysw., Dolau Cothi, a warden yr eglwys wedi gwysio ffermwr o'r enw David Walter am wrthod talu £1. 7s. 6c., sef swm y dreth eglwys

⁷¹ LIGC, 935A, Llawysgrif gwreiddiol ym meddiant William Thomas, Bwlchnewydd (2 Ebrill 1860). Wedi ei greu gan William Davies, PH.D., Ffrwdfâl.

⁷² *Practical Directions to the Opponents of Church-Rates. Part I.*, t. 5.

⁷³ LIGC, 935A, 'Y Dreth Eglwys yn Mhlwyf Cynwyl Gaio (Cayo)', (11 Tachwedd 1857).

ddyledus.⁷⁴ Yr oedd Thomas yn crybwyll bod y tiffeddianwyr yn cyd-weithio â'r offeiriaid er mwyn sicrhau bod y dreth yn cael ei dalu:

Gwelais unwaith offeiriad mewn cyfarfod plwyfol (vestry) er gwneud Treth Eglwys, yn dal papyr yn ei law, ac yn dweyd mai llythyr oddiwrth oruchwyliwr un o'r tiffeddianwyr eangaf y plwyf oedd, yn gorchymyn pawb o'r deiliaid i bleidleisio dros y dreth. Darllenodd ef ar gyhoedd yn yr eglwys, a gofynai i'r deiliaid pa ateb oedd i'w roddi i'w meistir tir?⁷⁵

Cafwyd ychydig o stŵr ynghylch cofnodion y festri ym 1866 hefyd, ac fel un o wardeiniaid yr eglwys, fe gadwodd John Johns, Dolau Cothi, dorriadau o'r *Western Mail* ynghylch y dadlau.⁷⁶

Ym 1856 fe gyhoeddwyd arolwg a ymchwiliodd i'r nifer o achosion o wrthod talu'r dreth eglwys yn ystod y pymtheg mlynedd blaenorol yng Nghymru a Lloegr.⁷⁷ Yn ogystal â gofyn a oedd y dreth wedi cael ei gwrthod yn y plwyf, gofynnwyd hefyd a oedd y dreth yn dal i gael ei chodi yno, ynteu a oedd y gwardeiniaid wedi rhoddi gorau iddi'n gyfan gwbl? Anodd ydyw mesur yn union yr atebion ar gyfer Cymru oherwydd nid 'ia' neu 'na' clir a geir ym mhob ateb. Ond i greu darlun cyffredinol, dim ond oddeutu 17% o blwyfi yng Nghymru (eithrio Sir Fynwy) a oedd wedi rhoddi gorau i gasglu'r dreth eglwys tra bod 83% yn dal i'w chasglu erbyn canol yr 1850au.⁷⁸ Y mae'r ffigyrau hyn yn adlewyrchu'r ffigyrau a geir gan Matthew Cragoe. Ym 1854, yn ôl adroddiad ymweliadau Esgob Tyddewi, yr oedd 82% o blwyfi yn Archddiaconiaeth Maesyfed a Brycheiniog yn talu'r dreth; 81% yn Archddiaconiaeth Caerfyrddin; 67% yn Archddiaconiaeth Tyddewi; a 82% yn Archddiaconiaeth Aberteifi.⁷⁹

Yn ogystal â'r elfen feintiol, y mae'r elfen ansoddol hefyd yn ychwanegu at ein dealltwriaeth o'r sefyllfa. Nid rhyfedd ydyw sylwi bod y cofnod ar gyfer Aberystwyth yn datgan, 'powerful opposition of Dissenters', tra'n Llanfair ym Muellt dywedir, 'Dissenters opposed – not collected'.⁸⁰ Ym Machynlleth sonnir am

⁷⁴ LIGC, 935A, 'Y Dreth Eglwys yn Mhlwyf Cynwyl Gaiio (Cayo)', (11 Tachwedd 1857).

⁷⁵ Ibid.

⁷⁶ LIGC, Papurau Dolaucothi, 3393-98.

⁷⁷ PP 1856 XLVIII, Abstract Return of Names of Parishes in Cities or Parliamentary Boroughs in England and Wales, in which Church Rates were Refused, t. 206 ymlaen.

⁷⁸ Ibid.

⁷⁹ Cragoe, 'Anticlericalism and politics in Wales', t. 192.

⁸⁰ PP 1856 XLVIII, t. 208.

deimlad cryf iawn yn erbyn y dreth, ond ni wrthodwyd hi.⁸¹ Ceir sylw tebyg ar gyfer Gwenfô hefyd, lle casglwyd y dreth, 'with difficulty and dissatisfaction'.⁸² Ond eto, yn Eglwys Newydd dywedir nad oedd y dreth erioed wedi'i gwrthod, er mai Ymneilltuwyr oedd rhan helaeth o'r boblogaeth yno.⁸³ Ni chafwyd unrhyw drafferth yn Llanilltyd Fawr, er bod yna saith capel Ymneilltuol yno.⁸⁴ 'Cheerfully and willingly granted', oedd y sylwad ar gyfer Crughywel.⁸⁵ Dengys y sylwadau uchod mai anghyson iawn oedd y gwrthwynebiad i'r dreth eglwys. Yr oedd rhai plwyfi wedi rhoddi gorau yn gyfan gwbl oherwydd y gwrthwynebiad; eraill yn dal i godi'r dreth er gwaethaf y gwrthwynebiad; ac eraill yn cael dim trafferth o gwbl. Dylid nodi nad oedd y dreth yn cael ei chodi'n flynyddol ymhobman, ac mewn ambell i le yr oedd trefniadau amgen wedi cymryd lle'r dreth eglwys.⁸⁶

Ond dyfarniad Braintree ym 1853 oedd dechreuad y dirywiad sylweddol yn nifer o blwyfi a dalodd y dreth. Dyma oblygiadau'r dyfarniad; er bod treth dalwyr y plwyf yn gorfod talu'r dreth eglwys drwy cyfraith gwlad, nid oedd hi'n bosib i wardeiniaid yr Eglwys ei chasglu os oedd mwyafrif y festri yn erbyn codi'r dreth.⁸⁷ Y mae Cragoe wedi dangos mai llai na thraean o blwyfi yng Ngheredigion oedd yn talu'r dreth erbyn 1866.⁸⁸ Eto, mewn rhannau o Sir Benfro, Sir Maesyfed, Sir Frycheiniog a Sir Gaerfyrddin, yr oedd bron i hanner o'r plwyfi yn dal i'w thalu. Serch hynny, ym 1868 fe ddi-ddymwyd y dreth eglwys ac fe ddisodlwyd hi gan dreth *wirfoddol*.

Yr oedd diddymu'r dreth eglwys yn un o'r chwe prif beth (o safbwynt rhwystrau ymarferol) a hawliwyd gan yr Ymneilltuwyr ers yr 1830au. Y gweddill oedd: Cael priodi mewn capeli Ymneilltuol, cynllun seciwlar ar gyfer genedigaethau a marwolaethau, yr hawl i weinidogion Ymneilltuol gael gweinyddu mewn angladdau mewn mynwentydd yr Eglwys, cael mynediad i'r prifysgolion ac i ryddhau'r capeli o'r rhwymedigaeth i dalu treth y tlodion.⁸⁹ Er bod yna ddigon o gwyno ynghylch y degymau, nid ydyw'n ymddengys eu bod yn rhan o'r rhestr

⁸¹ PP 1856 XLVIII, t. 218.

⁸² Ibid., t. 216.

⁸³ Ibid.

⁸⁴ Ibid., t. 215.

⁸⁵ Ibid., t. 207.

⁸⁶ Ibid., t.206-218.

⁸⁷ Ellens, *Religious Routes to Gladstonian Liberalism*, t. 113.

⁸⁸ Cragoe, 'Anticlericalism and Politics in Wales', t. 193.

⁸⁹ R. Tudur Jones, *Hanes Annibynwyr Cymru* (Abertawe, 1966), t. 208.

uchod. Gellir awgrymu'r pwyntiau canlynol fel y rhesymau posib pam na welwyd symudiad cyffelyb i'r un dreth eglwys yn ystod y cyfnod hwn: 1) y Ddeddf Cymudo wedi pallu rhywfaint ar yr ymgyrch yn erbyn y degymau, 2) bod cyfundrefn y dreth eglwys yn fwy moddiannol nâ'r gyfundrefn degymol i gynnig cyfle i brotestio ac i rwystro talu'r dreth, 3) yr oedd cynsail o wrthod talu'r dreth eglwys eisoes wedi'i osod yn Lloegr, 4) diddordebau ariannol gwŷr lleyg yn y gyfundrefn degymol, a 5.) amaethwyr oedd rhan helaeth o'r degwm dalwyr tra bod y dreth eglwys yn ddaliadwy gan dreth dalwyr trefol a gwledig ill dau, ac felly'n lledaenu maes yr anufuddwyr.⁹⁰

III.

Mudiad Rhydychen

Fel y trafodwyd yn y bennod flaenorol, yr oedd labelu'r degymau fel rhywbeth 'Pabyddol' wedi dod yn rhan o 'repertoire' y radicaliaid a beirniadwyr eraill yr Eglwys erbyn dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Oherwydd y syniad fod Protestaniaid, boed yn Gapelwyr neu'n Eglwyswyr, yr Eglwys Wladol fel rhagfur yn erbyn Eglwys Rufain, crëwyd echryndod ymysg eu rhengoedd o'r 1830au ymlaen pan ymddangosodd y symudiad Tractariaeth o fewn y sefydliad hwnnw.⁹¹ Adfywiad oedd Mudiad Rhydychen o ragolwg catholig (nid Catholigiaeth Rufeinig cofier) yr aden Uwch Eglwysig o fewn yr Eglwys. Rhoddant bwyslais ar yr Olyniaeth Apostolaidd, y llyfr gweddi a Chatholigrwydd yr Eglwys, sef, yn eu tyb hwy, Catholigiaeth yr hen Eglwys Gyntefig Brydeinig cyn dyfodiad St. Augustine.⁹²

⁹⁰ Gw. hefyd damcaniaeth David J. V. Jones, *Rebecca's Children: A Study of Rural Society, Crime, and Protest* (Rhydychen, 1989), t. 125.

⁹¹ Peter Freeman ydyw'r arbenigwr ar Fudiad Rhydychen/Tractariaeth yng Nghymru. Gw. Freeman, 'The effect of the Oxford Movement on some election campaigns in Wales in the mid-nineteenth century', *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, cyf. 31, rhif. 4 (Gaeaf 2000), tt. 369-380; 'The response of Welsh Nonconformity to the Oxford Movement', *Cylchgrawn Hanes Cymru*, cyf. 20, rhif. 3 (Mehefin 2001), tt. 435-465; 'Baner y Groes', *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, cyf. 32, rhif. 3 (Haf 2002), tt. 305-316. Gw. hefyd, Frances Knight, 'The Oxford Movement in Wales', yn Caroline Litzenberger ac Eileen Groth Lyon (gol.), *The Human Tradition in Modern Britain* (2006), tt. 82-95; Nigel Yates, 'The progress of ecclesiology and ritualism in Wales, 1840-1875', *Archaeologia Cambrensis*, cyf. CXLIX (2000), tt. 59-88. Gw. cyfres o erthyglau gan D. Eifion Evans yn y *Journal of the Historical Society of the Church in Wales*, cyf. 4, rhif. 9 (1954), tt. 45-57; cyf. 6, rhif. 11 (1956), tt. 92-104; cyf. 7, rhif. 12 (1957), tt. 92-100; cyf. 8, rhif. 13 (1958), tt. 82-92.

⁹² Freeman, 'Baner y Groes', t. 305.

Er bod y Tractariaid ar y cyfan yn proffesu eu bod yn wrth-Babyddol, ni ddaru wrthgiliad un o'u hoelion wyth, John Henry Newman, a'i gyfaill o Gymro, David Lewis, i Eglwys Rufain helpu i esmwytho pryderon y beirniaid.⁹³ Ychwanegwyd elfen arall i'r cawl o chwerwder a pharanoia o barthed Catholigiaeth y pryd hwn, sef yr hyn a elwyd gan Brotestaniaid y 'Papal Aggression' pan sefydlodd Eglwys Rufain 12 o esgobaethau yn Lloegr ym 1850. Ffactor arall hefyd a ychwanegodd at y tensiwn oedd y Symudiad Defodol a ffynnodd o Dractariaeth, sef gogwydd offeiriaid Uchel-Eglwysig i ddefnyddio defodwysg adeg yr Ewcharist, canhwyllau ac i osod lle amlwg i'r Groes yn eu heglwysi.⁹⁴

Yn ôl *Y Drysorfa*, yr oedd '... y Puseyaid, wrth ddyfod ymlaen yn awr yn erbyn Pabyddiaeth, yn ceisio twyllo y wlad fel na feddylier eu bod hwy yn delio yn nwyddau Rhufain'.⁹⁵ Ceisiodd gohebydd i'r *Dysgedydd* ddangos bod, 'Puseyaeth a Phabyddiaeth yn Gyfystyr'.⁹⁶ Blwyddyn yn ddiweddarach yn yr un cylchgrawn gwelwyd y rhybydd canlynol:

Yr ydym rai gweithiau wedi dwyn sylw darllenwyr y Traethodydd at egwyddorion Eglwys Rhufain, fel y mae yn ymdrechu lefeinio yr holl fyd – naill ai yn ei lliw a than ei henw, neu trwy y rhai hyny o Brotestaniaid Prydain yn yr Eglwys Wladol a elwir Puseyaid, neu Uchel-eglwyswyr; ac o'r ddau, cyfrifwn y rhai diweddaf y mwyaf peryglus.⁹⁷

Ysgrifennodd golygydd *Seren Gomer* ym 1843:

Mae Puseyaeth yn bras-gamu yn gyflym drwy'r wlad, a phriodolir ei chyflymdra i'r nodded y mae yn dderbyn oddiwrth benau mitrog a phersonau pendefigaidd. Cyfrifod miloedd o'r offeiriaid wedi llyncu egwyddorion Puseyaeth, y rhai ydynt yr un ag egwyddorion Pabyddiaeth ... Nid oes un dadl genym na wna lawer o niwed i'r Eglwys Sefydliedig, a meddylia lluoedd fod pryf yn cael ei fagu yn yr Eglwys, yr hwn a ddifa ei grym, ac a fyd yn gynnorthwy i effeithio ei dadymchweliad yn y diwedd.⁹⁸

Dyma flas felly ar y math o bethau a barablwyd yn y cyfnodolion; negeseuon tanbaid a wnaethant nemor dim i lonyddu'r teimlad o arswyd ynghylch Catholigiaeth. Ond i

⁹³ *Y Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940*, tt. 516-517.

⁹⁴ Freeman, 'The response of Welsh Nonconformity to the Oxford Movement', t. 444.

⁹⁵ *Y Drysorfa* (1850), t. 387.

⁹⁶ *Y Dysgedydd* (1845), tt. 13-16. Ceir yr erthygl gyntaf o'r gyfres hwn ar 'Puseyaeth' yn *Y Dysgedydd* (1844), t. 236-238.

⁹⁷ *Y Traethodydd* (1846), t. 353.

⁹⁸ *Seren Gomer* (1843), t. iv. Gw. hefyd yr erthygl 'Puseyaeth' yn *Seren Gomer* (1857), tt. 193-200.

ba raddau y treiddiodd yr ymdeimlad a'r cyflwr hyn o arswyd o barthed Tractarieth i'r lefel sylfaenol, yn enwedig o ran y degymau?

Er mai fel ffrwd fain araf y diferiodd y symudiad Tractaraidd i Gymru yn hytrach nag fel rhyw don apocalyptaidd, fel y rhagdybiodd gwŷr megis golygydd *Seren Gomer*, fe welwyd ambell i ddiferyn o Eingl-Gatholigiaeth yn sefydlu ei hun mewn môr o Brotestaniaeth Efengylaidd. Rhoddwyd hwb i'r symudiad pan ddychwelodd nifer o glerigwyr Cymreig (a oedd wedi'u dylanwadu gan syniadaeth Tractariaeth) yn ôl o Goleg yr Iesu, Rhydychen, i Gymru ac ymrwymo'u hunain yng ngwaith yr Eglwys.⁹⁹ Y mae John Williams 'Ab Ithel' yn enghraifft nodedig. Eto, gwasgaredig ar y cyfan oedd patrwm cyffredinol Tractariaeth yng Nghymru oblegid mai dylanwad clerigwr fel unigolyn neu noddwyr cefnog mewn ambell i ardal oedd yn bennaf gyfrifol am gyflwyno'r meddylfryd yn y plwyf, yn hytrach nag unrhyw gadwyn di-dor o blwyfi o un pen o Gymru i'r llall.¹⁰⁰

Yn y gogledd, os nad drwy Gymru gyfan erbyn canol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ymddengys mai Esgobaeth Bangor oedd y fwyaf parod i groesawu athrawiaeth Tractariaeth ymysg y pedair Esgobaeth Gymreig. Yn wir, yr oedd Esgob Bangor, Christopher Bethell, ymhlith yr ychydig iawn o Esgobion oedd yn barod i gynnig ei gefnogaeth i'r symudiad.¹⁰¹ Erbyn 1859, yn nhyb A. H. Dodd yr oedd oddeutu un allan o bob tri o glerigwyr Esgobaeth Bangor wedi'u dylanwadu gan Dractariaeth. Ond y flwyddyn honno cryfhaodd y diwygiad y garfan oedd fwyaf elyniaethus tuag ati.¹⁰²

Yn y de, heb os drwy ddylanwad y trydydd ardalydd Bute y daeth Tractariaeth yn rym mewn nifer o blwyfi yng nghyffiniau Caerdydd a'r cymoedd. Yr oedd y teulu Bute yn ymddiriedolwyr ar 13 o blwyfi o fewn esgobaeth Llandâf, ond oherwydd tröedigaeth y trydydd ardalydd ym 1868 i Eglwys Rufain, nid oedd ef trwy gyfraith yn medru gweithredu fel ymddiriedolwr. Felly, penododd ef fagad o'i gyfeillion Uwch-Eglwysig i weithredu ar ei ran, a phenodasant hwythau offeiriad

⁹⁹ Freeman, 'The response of Welsh Nonconformity to the Oxford Movement', tt. 435-36.

¹⁰⁰ Knight, 'The Oxford Movement in Wales', tt. 90-91.

¹⁰¹ Roger L. Brown, *The Welsh Evangelicals* (Caerdydd, 1986), t. 157.

¹⁰² A. H. Dodd, *A History of Caernarvonshire* (Caernarfon, 1968), t. 351.

uchel eu heglwysyddiaeth i'r bywoliaethau. Yn wir, daeth Aberdâr yn un o'r plwyfi amlycaf ei Dractariaeth yng Nghymru.¹⁰³

Y mae Peter Freeman wedi dangos bod talu'r dreth eglwys er mwyn prynu eitemau i ddibenion 'defodol', megis gosod croes uwch ben yr eglwys, yn y plwyfi Tractariadd wedi ychwanegu at y chwerwder ymhlith yr Anghydfurfwyr o barthed y taliad yma.¹⁰⁴ Yn sicr mi fyddai hyn wedi teimlo'n fwy niweidiol nag arfer i Anghydfurfwyr (ac i Eglwyswyr Efengylaidd hefyd). Ond rhaid cofio bod y rhan helaeth o blwyfi yng Nghymru'r adeg hon yn Isel-Eglwysig o ran eu rhagolwg. Mewn nifer o'r plwyfi hyn, yr oedd talu'r dreth eglwys yr un mor amhoblogaidd ymysg yr Ymneilltuwyr ag yr oedd yn y plwyfi Tractaraidd.

Dywed Freeman hefyd, 'The literature of the period indicates that the Movement was causing consternation among Welsh Dissent, and this was to find expression in a renewed campaign against tithes and rates and in favour of disestablishment'.¹⁰⁵ Yr ydym eisoes wedi darllen y rhethreg y mae Freeman yn cyferio ato. Ond o ran y degwm, nid oes yna dystiolaeth (fel y gwelir nes ymlaen yn y bennod) i awgrymu fod yna ymgyrch fwriadol ar y lefel sylfaenol wedi dechrau er mwyn amddifadu clerigwyr Tractaraidd ac Efengylaidd o'u degymau. Honnodd Freeman hefyd, 'Welsh nonconformists ... resented Church rates and tithes being used to support a Church being Catholicized'.¹⁰⁶ Unwaith eto, o ran y degymau, ni ddaru'r dicter hyn ymledu fawr pellach na thudalennau'r cyfnodolion a'r papurau newydd am gyfnod hir iawn. Ymgyrch 'eiriol' oedd yr hyn y mae Freeman yn cyfeirio ato. Yn wir, credai Elwyn L. Jones bod y term 'Rhyfel y Degwm' yr un mor berthnasol i'r 'rhyfel geiriau' ag ydoedd i'r 'ymladd poeth' yn ystod yr 1880au a'r 1890au.¹⁰⁷

Ym 1870 cawn ddarn o waith creadigol diddorol yn *Y Cenhadwr Americanaidd* a wnaeth y cysylltiad rhwng y degymau a'r cysyniad bod yr Eglwys Anglicanaidd, yn nhyb yr Anghydfurfwyr, yn 'troi tua Rhufain'. Ymddiddan ydyw rhwng 'uchel-eglwyswr' a 'Phrotestant', yn cwyno mai rhywbeth 'Pabyddol' oedd

¹⁰³ Knight, 'The Oxford Movement in Wales,' t. 91; Brown, *The Welsh Evangelicals*, t. 158.

¹⁰⁴ Freeman, 'The response of Welsh Nonconformity to the Oxford Movement', tt. 444-47.

¹⁰⁵ Ibid., t. 436.

¹⁰⁶ Ibid., t. 464.

¹⁰⁷ Elwyn L. Jones, *Gwaedu Gwerin: Braslun o Hanes Rhyfel y Degwm yng Nghymru* (Dinbych, 1983), t. 62.

talw'r degwm, a dichon fod mudiad Tractaraidd wedi ychwanegu at y poendod hwn.

Y mae'r iaith yn un fflamychol:

Ni ddylai'r Protestaniaid
Gofleidio'r bwystfil du
Sy'n difa cynnyrch tiroedd,
Yr awrhon fel y bu
Yn yr hen oesau tywyll,
Barbaraidd a di-ras;
Hys sydd yn anghrist'nogol
Ar wyneb dear las.

Barn Uchel-eglwyswr

Os na wneir talu degwm,
Fel cynt yn Brydain Fawr,
Beth wneir i'r holl Offeiriaid?
Yr eglwys aiff i lawr,
Yn sicr mae'n rhaid cynal,
Yr eglwys yn mhob plwy,'
Os na wneir talu degwm,
Yr eglwys aiff yn ddwy. (nodyn – 'Un haner aidd i Rufain)

Protestant yn ateb

Mae miloedd yn dymuno
Am wel'd y dydd yn dod,
Pan na wneir talu degwm
Yn unlle is y rhod,

Mae'n rhaid rho'i llythyr-ysgar,
I'r eglwys wael ei llun,
Fel byddo iddi gynal
Ei phethau hen ei hun.

Iorwerth, *Birmingham, Pa.*¹⁰⁸

Cofier mai gwaith Cymro yn America ydyw hwn, gwlad a edmygwyd gan yr Anghydfurfwyr ynghylch 'rhyddid crefyddol'.

Cawn enghraifft fwy uniongyrchol o ran y teimlad ar y lefel sylfaenol mewn llythyr gan T. P. Edwards yn *Y Gwyllyddydd*. Yn ysgrifennu ym 1874, teimlodd Edwards mor gryf yn erbyn y defodau 'Catholig' a welodd yn eglwys Llanddulas nes peri iddo fwrw ei ddiacter gan ddweud:

Degwm dalwyr ac Ymneillduwyr yr ardal, mae'n bryd deffroi, neu bydd y wlad wedi ei gorchuddio gan waeth dosbarth o Babyddion nag yn nyddiau Luther, a hyny trwy eich degymau a'ch goddefiadau chwi.¹⁰⁹

Dyma esiampl felly o ymdrech gan Anghydfurfiwr i geisio cynhyrfu'r dyfroedd yn Llanddulas drwy honni bod y degymau yn cael eu talu er mwyn cynnal Eglwys a oedd yn cael ei 'Babyddio'. Yr oedd yr arswyd rhag y posibilrwydd hwn yn sicr yn bodoli. Ond dichon nad oedd Symudiad Rhydychen yn un digon eang yng Nghymru i achosi protestiadau ledled y wlad.

Yn ôl Frances Knight, 'It may be concluded that the influence of the Oxford Movement in nineteenth-century Wales was strictly limited, and its progress was slow and patchy'.¹¹⁰ Y mae hyn yn wir o ran y nifer o offeiriad yr Eglwys a fabwysiadodd syniadaeth Tractaraidd yng Nghymru, ac o ran y nifer o eglwysi lle gwelwyd defodau 'Catholig' o ryw fath adeg gwasanaethau. Y mae D. Eifion Evans eisoes wedi rhestru'r rhesymau pam.¹¹¹ Ond yn nhyb Brown, 'The impact of the tractarian movement on the evangelicals in Wales was substantial. It tended to make them defensive and thus turned them from a positive movement into a negative

¹⁰⁸ *Y Cenhadwr Americanaidd* (1870), t. 370.

¹⁰⁹ *Y Gwyllyddydd* (31 Hydref 1878.)

¹¹⁰ Knight, 'The Oxford Movement in Wales', t. 92.

¹¹¹ Evans, 'Mudiad rhydychen yng ngogledd sir Aberteifi', *Journal of the Historical Society of the Church in Wales*, vol. Iv, no. 9. (1954), t. 55.

one'.¹¹² Dim ond ar ôl datgysylltiad y cymerodd yr Eglwys yng Nghymru drywydd Eingl-Catholig, mewn cyfnod lle nad oedd y gydwybod Ymneilltuol bellach mor bigog ag yr oedd yn ystod oes Fictoria.¹¹³

IV.

Y Wladfa

Teg ydyw gofyn beth a wnelo'r Wladfa â'r degymau yng Nghymru? O'i sefydliad ym 1865 hyd at ddiwedd y ganrif, clywid y gri, 'na degwm na rhent' yn aml gan gefnogwyr y fenter. Ym 1868 dywedodd Richard H. Fox, 'Nid oedd degwm na threth Eglwys mewn bodolaeth yn y Wladfa Gymreig'.¹¹⁴ Er mai Anghydfurfwrwyr oedd pen praffaf o'r gwladychwyr a aeth i Batagonia, yr oedd dyrnaid bach o Eglwyswyr yn eu plith hefyd. Yn ôl y Parchg. Michael D. Jones:

Mae nifer fechan o Eglwyswyr wedi myned i'r Wladfa, ac y mae mor iawn iddynt gael gweinidog o offeiriad ag yw i'r Annibynwyr gael pregethwr. Mae yn wir nad oes na degwm na threth Eglwys yn y Wladfa; er hyny [sic], y mae'n debyg yr â ryw offeiriad yno, a mawr rwydd iddo os bydd yn ddyn efengylaidd a da.¹¹⁵

Nid oedd Jones eisiau gweld gelyniaeth enwadol yn y Wladfa. Arbrawf eciwmenaid oedd y Wladfa o safbwynt crefyddol; gwireddu'r delfryd Anghydfurfiol o gydraddoldeb crefyddol ar sail y model gwirfoddol. O ran yr Anglicaniaid, yr oedd Edwin C. Roberts yn un o arweinwyr cynnar y fenter. Efô oedd hoelen wyth yr Anglicaniaid yn y Wladfa, ond ni sicrhawyd hwy eu gweinidog cyntaf (Parchg. Hugh Davies neu Huw Ddu o Arfon) yno nes 1883. Cynhaliwyd y gwasanaethau yn nhŷ Roberts nes adeiladwyd eglwys Llanddewi yn ardal Bethesda, Dolafon, ym 1891 ymhlith y capeli Anghydfurfiol.¹¹⁶

Ym 1874 yn *Y Gwladgarwr* fe bortreadodd person o'r enw 'Mynwy' y Wladfa fel darn bach o baradwys, 'Y mae yno le i bawb, cartref i bawb, a ffortiwn i

¹¹² Brown, *The Welsh Evangelicals*, t. 160.

¹¹³ Knight, 'The Oxford Movement in Wales', t. 92.

¹¹⁴ *Y Dydd* (10 Gorffennaf 1868).

¹¹⁵ *Y Dydd* (10 Gorffennaf 1868).

¹¹⁶ Gw. R. Bryn Williams, *Y Wladfa* (Caerdydd, 1962); R. Owen Jones, *Yr Efengyl yn y Wladfa* (Pen-y-bont ar Ogwr, 1987).

bawb o bobl Cymru gydag ychydig ymdrech; ffermydd paradwysaidd i'w cael am ddim, heb *rent* na threth, na degwm, a lluwaws o fanteision ereill [sic] nas ceir yn un wlad arall ar y ddaear'.¹¹⁷ Serch hynny, treigl, yn hytrach na thon oedd llif y symudiad i Batagonia, er gwaethaf yr ymdrechion i annog y Cymry i ymfudo yno drwy bwysleisio nad oedd yno na degwm na rhent i'w dalu. Ceir mewnwelediad diddorol i'r siomedigaeth o barthed hyn gan 'Ioan Fynwy' yn y *Celt* ym 1883, 'Gwell gan filoedd yn Nghymru fyw a marw mewn tlodi ... gweithio yn galed, byw yn gynil, a bod mewn cyflwr gwasiaid ar hyd eu hoes, er dal tyddyn a thalu ardreth i'r perchenog [sic] *a degwm i'r offeiriad* [pwyslais yr awdur] heb gael swllt iddynt eu hunain mewn oes.'¹¹⁸ Dichon fod yr awdur yn gorliwio pethau, ond yn amlwg nid oedd y degwm, ymhlith treuliau eraill, yn ddigon o faich a gorthrwm i gymell nifer sylweddol o denantiaid Cymreig i wneud y siwrne i'r Wladfa.

Ym 1891 yr oedd Michael D. Jones yn parhau i hyrwyddo'r hen slogan o, 'na dim rhent, na degwm' yn ei golofn ar y Wladfa.¹¹⁹ Yn amlwg yr oedd ef yn pleidio'r egywddor na ddylai offeiriaid yr Eglwys cael eu cynnal gan y degymau. Ond eto, ffigwr ymylol oedd ef yn ystod 'Rhyfel y Degwm'.¹²⁰ Dichon mai troednodyn bach diddorol yn hanes y degwm yng Nghymru ydyw'r Wladfa yn hytrach na datblygiad o bwys. Er hynny, y mae'n bwysig dangos bod y degwm yn rhywbeth a ddefnyddiwyd gan hyrwyddwyr y fenter er mwyn hybu mwy o wladychwyr i fyned yno i fyw; o safbwynt ariannol yn ogystal â safbwynt moesol.

V.

Gwaith y Dirprwywyr Eglwysig

Drwy gydol 'Rhyfel y Degwm' fe wrthododd y Dirprwywyr Eglwysig pob cais am ostyngiad yn eu degymau. Yn gyfreithiol yr oeddynt â pherffaith hawl i wneud hynny. Yn ogystal â hyn, yr oeddynt eisiau gosod esiampl yng Nghymru nad oedd yn tanseilio eu sefyllfa yn Lloegr.¹²¹ Ond mewn ymgyrch lle gwelwyd

¹¹⁷ *Gwladgarwr* (15 Awst 1874). Gw. hefyd *Gwladgarwr* (12 Gorffennaf 1873; 8 Awst 1874).

¹¹⁸ *Celt* (2 Tachwedd 1883).

¹¹⁹ *Celt* (16 Ionawr 1891).

¹²⁰ Gw. pennod VII.

¹²¹ J. P. D. Dunbabin, 'The Welsh tithe war 1886-1895', yn Andrew Charlesworth (gol.), *An Atlas of Rural Protest in Britain 1548-1900* (Llundain, 1983), t. 179.

gwrthdrawiad rhwng moesoldeb a chyfraith, nid rhyfedd mai fel dihirod cyfoethog o du hwnt i Gymru y candyddwyd y Dirprwywyr gan nifer o bobl, sef fel rhai yn echdynnu symiau sylweddol o arian allan o Gymru ‘dlawd’.¹²² ‘Dyma’r bobl’, ebe’r *Faner*, ‘sydd yn byw ar frasder y wlad! Heb law hynny, y mae ganddynt wrth eu cefnau y swm anferth o £9,498,322. 5s. 2c’.¹²³ Dyma’r fath o naratif a feithrinwyd drwy gydol yr ymgyrch gan y gwrth-ddegymwyr. Ond naratif dryslyd oedd hwn mewn gwirionedd.

Yn ôl un adroddiad swyddogol, yr oedd y Dirprwywyr Eglwysig yn derbyn £31,000 (net) o Gymru ym 1887, ond yn buddsoddi dros £65,000 yn ôl yn y wlad.¹²⁴ Pan ofynnodd T. E. Ellis am adroddiad arall ym 1888, gwelwyd, er bod eu hincwm wedi gostwng i £28,769, yr oedd eu gwariant yng Nghymru wedi cynyddu o’r flwyddyn flaenorol i £67,634.¹²⁵ Felly, ac wrth ystyried bod mwy na hanner o’r gwariant hyn yn mynd i helpu’r bywoliaethau tlotaf yng Nghymru, annheg fyddai portreadu’r Dirprwywyr fel corff barus yn cymryd popeth ond yn rhoddi dim yn ôl yng Nghymru.

O ran y degymau, defnyddiol ydyw’r ffigyrau a geir yn *A History of Tithes* (1891) gan y Parchg. William Clarke o’r sefyllfa erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg (Tabl 3.1). Y mae’n bosib defnyddio ffigyrau Clarke ochr yn ochr â’r rhai a geir mewn adroddiad i eiddo’r Eglwys yng Nghymru (1894) er mwyn cael darlun mwy cywain. Ym 1893 yr oedd £33,500 o ddegymau (gwerth cymudol cofier) yng Nghymru yn nwylo’r Dirprwywyr, ac yr oedd gwerth £6,064 eisoes i ddyfod i’w dwylo unwaith yr oedd y prydlesau wedi dirwyn i ben.¹²⁶ Ond ni chadwyd pob ceiniog o’r degymau oedd wedi dyfod i’w gofal. Dengys fod gwerth £184,515 o ddegymau yng Nghymru wedi eu atodi i’r bywoliaethau erbyn 1891, sef ychwanegiad o oddeutu £30,000 o’r swm gwreiddiol (£154,818) adeg y cymudo.¹²⁷

¹²² Neilltuodd *Y Faner* ofod sylweddol er mwyn proffilio’r D.E. yn niwedd 1886, *Baner ac Amserau Cymru* (Rhwng 24 Tachwedd a’r 29 Rhagfyr 1886).

¹²³ *Baner ac Amserau Cymru* (22 Rhagfyr 1886).

¹²⁴ Taliadau blynyddol i esgobion, cabidylau, archddiaconiaid ac eraill (gan gynnwys £1,500 i Goleg Llanbedr): £32,023. Taliadau blynyddol mewn grantiau i’r bywoliaethau tlotaf: £33,198. PP 1887 XXXVIII, Report of an Inquiry as to Disturbances Connected with the Levying of Tithe Rent Charge in Wales, Appendix A a B, t. 8.

¹²⁵ Erys taliadau i’r esgobion a.y.b. yr un fath, ond cynyddwyd y taliadau mewn grantiau i’r bywoliaethau tlotaf i £35,611. *Western Mail* (27 Mai 1889); *South Wales Daily News* (27 Mai 1889).

¹²⁶ PP 1894 LXIV, Return by Parishes and counties of the property of the Church in Wales and Monmouthshire in Glebe and Tithe Rentcharge and from other Sources, t. 37.

¹²⁷ *Ibid.*, t. 3.

Gellid priodoli'r ychwanegiad hwn yn bennaf i weithredoedd y Dirprwywyr wrth iddynt ail-waddoli'r bywoliaethau gyda degymau'r hen adfeddwyr clerigol, sef yr esgobion a'r rhan fwyaf o'r cabidylau a.y.b., oedd eisoes wedi dod i'w meddiant. Er enghraifft, yr oedd gwerth dros £10,000 o ddegymau wedi'i neilltuo ganddynt i fywoliaethau Cymreig rhwng 1870-1879 (Atodiad 1).¹²⁸

Tabl 3.1 Perchenogion rhentdal-y-degwm o fewn y pedwar Esgobaethau yng Nghymru erbyn 1890.

	Bangor	Llandâf	Llanelwy	Tyddewi	Cyfanswm	Canran
Dirprwywyr Eglwysig	£2,162	£8,347	£14,118	£18,674	£43,301	15%
Periglorion Plwyfol	£35,781	£35,376	£58,499	£56,939	£186,595	63%
Meddianwyr Lleyg	£4,969	£9,646	£20,565	£21,978	£57,158	19%
Ysgolion, Colegau a.y.b.	£1,289	£255	£1,736	£2,100	£5,380	2%
Cabidylau (<i>Chapters</i>)	£1,616	£0	£2,215	£0	£3,831	1%
	£45,817	£53,624	£97,133	£99,691	£296,265	100%

Nodyn: Ceir y ffigwr gwallus o £100,488 fel y cyfanswm i Tyddewi yn y tabl gwreiddiol.

Ffynhonnell: Parchg. Henry William Clarke, *A History of Tithes* (1891), t. 217.

Felly, yr oedd R. T. Jenkins yn gwbl gywir pan ddatganodd bod sefydliad y Dirprwywyr Eglwysig yn, 'achos gwelliannau mawrion' i'r Eglwys.¹²⁹ Ymhell o awgrymu unrhyw fath o faruswydd ariannol, dengys y ffigyrau uchod fod nifer o fywoliathau yng Nghymru wedi elwa o ganlyniad i'r Dirprwywyr ailwaddoli'r degymau i'r plwyfi. Felly, pan ddechreuodd 'Rhyfel y Degwm' ym 1886, yr oedd sefyllfa'r degwm, o safbwynt y periglorion plwyfol o leiaf, yn llawer tecach nag yr oedd wedi bod bron i hanner canrif ynghynt. Fodd bynnag, nid oedd y naratif yma'n un oedd y datgysylltwyr yn rhy barod i hyrwyddo, ac wrth gwrs, nid oedd gwellhad yn y gyfundrefn degymol er budd yr Eglwys yn mynd i ddargyfeirio hwy o'r syniad mai at foddion seciwlar y dylid ailgyfeirio cyllid y degwm.

¹²⁸ PP 1880 LIV, Return of Tithe Commutation Rent-Charges annexed by Ecclesiastical Commissioners to Livings, 1870-79.

¹²⁹ Jenkins, *Hanes Cymru yn y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg*, t. 118.

Ar ddechrau 1888 cyhoeddwyd llyfryn glas o adroddiad yr Arglwydd Wolmer yn dychwelyd yr holl degymau oedd wedi eu cymudo a'u dosrannu hyd at 30 Mehefin 1887.¹³⁰ Ond dengys nad oedd yr adroddiad hwn yn cynnig diweddariad cyflawn o'r newidiadau a fu ym mherchenogaeth y degymau ar ôl y cyfnewidiadau gwreiddiol; yn achos Cymru cwblhawyd y rhan helaeth o'r cyfnewidiadau rhwng 1839-1847. Yr hyn a gawn yma ydyw adroddiad a oedd yn ymgorffori hen adroddiadau eraill rhwng 1847 ac 1867, er mwyn creu un ddogfen hwylus oedd yn dangos yr holl gymudiadau hyd at 1887. Felly, pan ymddangosodd yr adroddiad hwn i'r cyhoedd ym 1888, yn hytrach nag adlewyrchu'r newidiadau o ran gwaith y Dirprwywyr, yr oedd yn adlewyrchu sefyllfa nad oedd bellach yn wirionedd.

Neidiodd y cylchgrawn *Liberator* ar y ffigyrau a gafwyd yn adroddiad Wolmer er mwyn dangos sut yr oedd y degymau yn cael eu 'cam-ddefnyddio' yng Nghymru.¹³¹ Ail-gyhoeddwyd cynnwys yr erthyglau yn y wasg Gymreig; 'Some of the Scandals of the Tithes Question' meddai'r *South Wales Daily News* tra defnyddiodd y *Carnarvon and Denbigh Herald* y pennawd, 'Missappropriation of Welsh Tithes'.¹³² Honnwyd mai dim ond £154,696 o ddegymau yr oedd y periglorion plwyfol yn eu derbyn, ond gwyddom eisoes nad oedd hynny bellach yn wir. Honnwyd hefyd bod esgobion a chabidylau yn Lloegr yn cymryd dros £14,000 y flwyddyn mewn degymau yng Nghymru.¹³³ Oherwydd hyn, fe wfftiodd y *Liberator* arsylliad Lord Selborne, 'the endowments of the Welsh bishoprics and capitular bodies are largely (most of them mainly) supplied, not from Welsh, but from English funds, under the administration of the Ecclesiastical Commissioners'.¹³⁴ Wrth gwrs, Selborne oedd yn gywir. Ysgrifennodd Edward Jones, Felindre, Llanymddyfri, i'r *South Wales Daily News* i esbonio sut yr oedd ffigyrau'r *Liberator* yn gamarweiniol.¹³⁵ Datganodd yn gwbl gywir nad oedd incwm yr esgobion Cymreig bellach yn mynd tu hwnt i £4,500 y flwyddyn, tra bod eu degymau bellach yn rhan o'r gronfa gyffredinol dan ofalaeth y D.E.¹³⁶ Talwyd eu cyfogaau o'r gronfa hon.

¹³⁰ PP 1887 The Returns of Tithes Commuted and Apportioned ... up to 30 June 1887; *Denbighshire Free Press* (4 Chwefror 1888.)

¹³¹ *The Liberator* (Chwefror a Mawrth 1888).

¹³² *South Wales Daily News* (7 Mawrth 1888); *Carnarvon and Denbigh Herald* (9 Mawrth 1888).

¹³³ *South Wales Daily News* (7 Mawrth 1888); *Carnarvon and Denbigh Herald* (9 Mawrth 1888).

¹³⁴ *Ibid.*

¹³⁵ *South Wales Daily News* (10 Mawrth 1888).

¹³⁶ *Ibid*; Best, *Temporal Pillars*, t. 322.

Ond ni ddaru hyn ddarbwylo'r gwrth-ddegymwyr rhag defnyddio'r wybodaeth camarweiniol o adroddiad Wolmer er mwyn hyrwyddo eu agenda. Ym mis Tachwedd 1888 gwelir John Parry, Llanarmon, yn annerch torf o bobl yng Nglyndyfrdwy ac yn ail-adrodd dargynfyddiadau'r *Liberator*.¹³⁷ Gwnaeth y Parchg. W. Thomas, Whitland, hefyd ddefnydd o'r ffigyrau yn ei lyfryn, *The Anti-Tithe Movement in Wales* (1891). Honnodd:

From the Tithe Returns moved for in July, 1887, by Lord Wolmer, we see that Welsh tithes are taken out of the country to swell the revenues of English bishops, cathedral bodies, and colleges. The Bishop of Lichfield thus takes the whole of the tithe of Pennal, £223; Talylyn, £250; and Towyn, £793 in value.¹³⁸

Os edrychwn yn fanylach ar y clwstwr o blwyfi hyn yn ne Sir Feirionnydd, lle nodwyd bod rhan fwyaf o'r degymau yn nwylo Esgob Lichfield, gwelwn mai ffug-naratif oedd yr hyn a roddwyd gan Thomas. Dengys tabl 3.2 fod y Dirprwywyr wedi adwaddoli rhan helaeth o'r degymau i'r clwstwr yma o blwyfi rhwng 1875-1876. Yn wir, erbyn 1893 dim ond dau blwyf yn Sir Feirionnydd oedd yn talu'r degymau i'r Dirprwywyr; £185. 7. 0 yn Llandrillo a £241. 3. 9 ym mhlwyf Tywyn.¹³⁹ Yr oedd degymau'r Esgobion bellach yn rhan o'r gronfa gyffredinol dan ofalaeth y Dirprwywyr. Felly nid oedd Esgob Lichfield ei hun bellach yn echdynnu symiau sylweddol o ddegymau o'r plwyfi hyn.¹⁴⁰

(Tabl 3.2 ar y tudalen nesaf).

¹³⁷ *The Llangollen Advertiser* (23 Tachwedd 1888).

¹³⁸ Rev. W. Thomas (Whitland), *The Anti-Tithe Movement in Wales: Its Justice, Morality, and Legality* (Llanelli, 1891), t. 9.

¹³⁹ PP 1894 LXIV, t. 40.

¹⁴⁰ Fel y nodwyd yn y bennod ddiwethaf, ymddengys fod degymau Pennal wedi dyfod i ddwylo Arglwydd Seaham, sydd yn esbonio efallai pam mai plwyf Pennal oedd yr unig un o'r clwstwr yma o blwyfi i beidio cael ei adwaddoli gan y D.E.

Tabl 3.2 Cyfanswm rhent-dal y degwm a ategwyd gan y Dirprwywr Eglwysig i bedair bywoliaeth yn Sir Feirionnydd rhwng 1875-1876.

Bywoliaeth	Cyfanswm Rhent-dal y Degwm
Aberdyfi (Rhan o blwyf Tywyn)	£352. 4. 6
Tywyn	£200. 1. 9
Llanfihangel-y-Pennant	£190. 0. 0
Tal-y-llyn	£136. 7. 0

Ffynhonnell: PP 1880 LIV, Return of Tithe Commutation Rent-Charges annexed by Ecclesiastical Commissioners to Livings, 1870-79.

VI.

Anawsterau ynghylch casglu'r degymau c.1850-1885

Ar y cyfan fe brofwyd Deddf Cyfnewid y Degwm yn welliant dirfawr o ran chwynnu'r hen arferion cymhleth ymaith o'r gyfundrefn degymol. Ond fel y trafodwyd yn y bennod flaenorol, yr oedd elfennau yn bodoli o hyd i greu rhywfaint o ddryswch cyfreithiol o barthed y lliaws o fân gymalau a geir yn ei ddarpariaeth faith.¹⁴¹ Ceir enghraifft berffaith o hyn ym 1852, mewn achos a elwir gan y *Carnarvon and Denbigh Herald*, '[An] Important Tithe Case'.¹⁴² Nid enghraifft o niwed i 'gydwybod' y gwelwn yma, ond niwed i'r boced. Yng nghefn gwlad Cymru (a Lloegr) yr oedd rhywbeth a elwid 'arfer gwlad' yn bod, neu i ddefnyddio'r ymadroddiad Saesneg, 'custom of the country', sef 'dealltwriaeth' anysgrifenedig o barthed telerau'r tenantiaeth.¹⁴³ Nid oedd trefniadau o'r fath, fodd bynnag, yn cydweddu pob amser gyda llythyren y ddeddf, ac yn yr enghraifft dan sylw gwelir dryswch ynghylch pwy oedd yn fod i dalu'r degwm.

¹⁴¹ Ceir flas o'r cymhlethdodau hyn yn Percy William Millard, *The Law Relating to Tithe Rentcharge and Other Payments in Lieu of Tithe* (Llundain 1912).

¹⁴² *Carnarvon and Denbigh Herald* (10 Ebrill 1852).

¹⁴³ Howell, *Land and People*, t. 73. Gw. hefyd PP 1896 XXXIV, Royal Commission on land in Wales and Monmouthshire. Report of the Royal Commission on Land in Wales and Monmouthshire, tt. 477-488.

Dygodd John Williams achos yn erbyn Richard Humphreys ger bron y llys barn yn Rhuthun er mwyn adfer y swm o £1 12s., sef cyfanswm y degwm a dalodd Williams fel olynnydd Humphreys ar fferm Henfryn, Llanelidan, Sir Ddinbych. Dyma delerau tenantiaeth y fferm:

... merely that he [y deiliad] should hold the land according to the custom of the country paying to his landlord a clear yearly rent of £25. There was no written agreement between the parties, and it is admitted that according to the custom of the country the out-going tenant pays neither rent, rates, nor taxes after the 30th of November.¹⁴⁴

I ychwanegu at y cymhlethdod, amod arall o fewn 'arferiad y wlad' yn y cyffiniau hyn oedd y ffaith bod gan y tenant ymadawol yr hawl i breswyllo yn nhŷ'r fferm a gwneud defnydd o'r beudai hyd at y 1af o Fai'r flwyddyn wedyn, yn ogystal â'r defnydd o dir (8 acer yn yr achos yma) a heuwyd gyda gwenith y cynhaeaf nesaf. Dengys mai'r annibendod hyn oedd wrth wraidd y penbleth, sef bod yna ddwy blaid am gyfnod o amser gyda diddordeb economaidd yn y fferm. Wrth gwrs, achoswyd dryswch o ran pwyl oedd yn fod i dalu'r degwm ac ar ba lecyn o dir.

Gorffwysodd pwysigrwydd yr achos nid ar y swm eithaf pitw o arian a ddadleuwyd am ei gylch, ond yn hytrach ar y canlyniad, oherwydd yr oedd hyn i gael dylanwad ar achosion eraill o'r un natur. Dyfynnwyd lliaws o gymalau o liaws o wahanol ddeddfau, ac ymysg y blinder dywedodd y barnwr nad oedd wedi dod i'w dyfarniad heb rywfaint o amheuaeth a phetruster. Serch hynny, fe aeth y dyfarniad o blaid Humphreys oherwydd teimlodd y barnwr nad oedd ganddo ef y pŵer i ddsrannu'r degwm rhwng y tenant ymadawol a'r tenant oedd yn dyfod i mewn.¹⁴⁵

Gorchwyl anodd iawn i'r hanesydd ydyw datgan gyda phendantwydd pam bod rhai degwm dalwyr wedi bod yn amhrydlon yn talu'r degymau, yn enwedig pan na bu'r dystiolaeth yn cynnig unrhyw gliwiau i'r perwyl hynny. Dyma'r her a wynebwn wrth edrych ar rai o'r rhybuddion a'r hysbysebion atafaelu a yrrwyd allan i sawl diffygdalwr y degwm yng Nghymru. Rhybuddion deng niwrnod oedd y rhain gan amlaf, canys mai dyma'r maint o amser yr oedd gan y diffygdalwr i dalu'r swm

¹⁴⁴ *Carnarvon and Denbigh Herald* (10 Ebrill 1852).

¹⁴⁵ *Carnarvon and Denbigh Herald* (10 Ebrill 1852.)

dyledus cyn i'w eiddo cael ei atafaelu a'i werthu. Dyma oedd y drefn gyfreithiol yn ystod 'Rhyfel y Degwm' hefyd.¹⁴⁶

Ym 1851 fe yrrwyd hysbysebion i wŷr o'r enw Ellis Pritchard a oedd yn dal tir mewn dau blwyf yn Sir Fôn; Cerrigceinwen a Llangristiolus.¹⁴⁷ Esgob Bangor oedd perchennog y degymau yn y plwyfi hyn, ac yn amlwg nid oeddynt wedi'u trosglwyddo i ofal y Dirprwywyr eto, canys mai enw ef (Christopher Lord Bishop of Bangor) a'i dwrnai a geir ar y darnau o bapur. Fodd bynnag, oherwydd newidiadau mewn pensil i rai o'r hysbysebion gwreiddiol, nid ydyw'r sefyllfa yn un hollol eglur. Ni cheir newidiau i'r rhai ar gyfer y fferm yn Llangrystiolus (Cae Rhys Garw) ac ar y 3 Tachwedd 1851 fe awdurdodwyd y beili Evan Jones gan yr Esgob a'i dwrnai i arwerthu cynnyrch Pritchard am y swm dyledus o 13s. 11c.¹⁴⁸ Ar y 12fed cawn wybod fod Jones wedi cwblhau'r arwerthiant, ac os na dalwyd y swm dyledus yn brydlon gan Pritchard o fewn pum diwrnod, fe fyddai'r hyn a atafaelwyd yn cael ei werthu.¹⁴⁹ A dalodd ef neu beidio, ni ellir ddweud.

Deuai pethau yn fwy aneglur o ran y tir a ddalwyd gan Pritchard ym mhlwyf Cerrigceinwen. Yn wreiddiol, cyfeiriodd yr hysbysebion iddo ef, ond am ryw reswm, newidiwyd y swm dyledus, enw'r unigolyn dan sylw, y plwyf a hyd yn oed perchennog y degwm.¹⁵⁰ Yn hytrach nag enw Pritchard cawn Hugh Roberts a David Owen; yn lle plwyf Cerrigceinwen yn Sir Fôn cawn Gyffin yn Sir Gaernarfon; a rhoddwyd enw'r Parchg. James Henry Cotton, sef deon Bangor, yn lle'r Esgob. Fe wnaethpwyd Cotton yn rheithor Gyffin ym 1838, ac yn ôl atodlen y degwm ar gyfer y plwyf hwnnw dywedir, 'and that the Rectory [Gyffin] is appropriated to the Deanery of the Cathedral Church of Bangor'.¹⁵¹ Yn hytrach na gwneud melin a phandy o hyn, y peth pwysicaf i ystyried ydyw'r ffaith fod yr hysbysebion dan sylw wedi'u hanfon i *rywun* gan awdurdodau esgobaeth Bangor, a bod yna atafaeliadau ynghylch y degwm wedi digwydd yng Nghymru ym 1851.

Dengys fod ambell i feddianwr lleyg wedi cael trafferth derbyn eu degymau yn y de tua'r un adeg hefyd. Ar 22 Ionawr 1856 fe yrrwyd rhybydd o ddeng niwrnod

¹⁴⁶ Newidiwyd ychydig ar y drefn ar ôl 1891 pan yr oedd yn rhaid mynd trwy'r llys sirol.

¹⁴⁷ LIGC, Papurau'r Eglwys yng Nghymru/Esgobaeth Bangor/Tithe Documents/General/388-392.

¹⁴⁸ LIGC, Bangor/Tithe Documents/392.

¹⁴⁹ LIGC, Bangor/Tithe Documents/391.

¹⁵⁰ LIGC, Bangor/Tithe Documents/388 a 390. Ni cheir newidiadau i'r hysbyseb awdurdodi, 389.

¹⁵¹ *Y Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940*, tt. 76-77; <http://cynefin.archiveswales.org.uk> – atodlen ar gyfer Gyffin/48-26.

i James Mathias gan Charles Wheeler Townsend Webb Bowen, Ysw., yn galw arno i dalu'r swm o £7. 7s. 4 ½c.¹⁵² Cawn rybudd arall yn cael ei yrru ar 14 Mawrth 1856, ond y tro hyn i Mark Griffiths gan y lleygwyr James Thomas, clerch, a Richard James, bonheddwr, er mwyn ceisio adfer y swm o 10s. 10c.¹⁵³ Unwaith yn rhagor, ni wyddom os talwyd yr unigolion dan sylw neu beidio, ond gan mai gwŷr lleyg oedd y perchennogion, dichon nad rhesymau 'cydwybodol' o ran cefnogi sefydliad crefyddol a geir yma.

Arhoswn yn y deheudir er mwyn ystyried rhagor o hysbysebion ynglŷn â'r degymau. Atafaelwyd Thomas Rees, asiant Deon a Glwysgor Llandaf, ar rai o nwyddau Mrs Margaret Jones, plwyf Mamheilad (Mamhilad), Sir Fynwy, ar 18 Awst 1862 am y swm dyledus o £3 16s. 6c.¹⁵⁴ Nid oedd y swm hyn wedi'i dalu ers yr archwiliad degymol diwethaf ym mis Hydref, a rhybuddiwyd hi os na thalai'r swm o £3 18s 6c (a oedd yn cynnwys costau'r atafaeliad) o fewn pum diwrnod o'r rhybudd, byddai'r nwyddau a atafaelwyd arnynt yn cael eu gwerthu.¹⁵⁵ Mewn achos arall, fe yrrodd Rees (ar ran y Deon a Glwysgor Llandâf unwaith eto) rybudd i William Langley, Eglwysilan, Morgannwg, ar 27 Chwefror 1867 yn datgan yr angenrhaid i gymryd camau cyfreithiol yn erbyn Langley er mwyn adfer y swm dyledus o £7 15s 7c.¹⁵⁶

Dychwelwn yn ôl i'r gogledd, ac i Esgobaeth Bangor unwaith eto, lle anfonwyd chwe rhybudd deng niwrnod rhwng mis Awst a mis Hydref 1874 i ddegwm dalwyr ym mhlwyfi Llannor, Sir Gaernarfon ac Amlwch, Sir Fôn, gan awdurdodau'r esgobaeth hwnnw. Rhybuddiwyd William Jones, Tŷ Du, Llannor ger Pwllheli i dalu'r swm o £1 19s 2c + 2s 6c; William Hughes, Bodfel Bach, Llannor, y swm o £5 8s 5c + 2s 6c; David Williams, Hafod y Myn, Amlwch y swm o £1 16s 1c + 2s 6c; John Parry, Tŷ Fadyn, Amlwch, y swm o £3 15s + 2s 6c; William Jones, Windmill Rocks, Amlwch, y swm o 11s 11c + 2s 6c; William Jones, Tyddyncatiogan, Llaneugrad (ger Amlwch,) y swm o £3 19s 4c + 2s 6c.¹⁵⁷

¹⁵² LIGC, Casgliad Williams and Williams, Haverfordwest – Pembrokeshire Tithe Notices. Complaints and Agitation, 1818-1889, 15394.

¹⁵³ Ibid., 15395.

¹⁵⁴ '1 Hay, 1 Waggon, 1 lash[?].' LIGC, Papurau'r Eglwys yng Nghymru/LlCh/5355.

¹⁵⁵ LIGC, Papurau'r Eglwys yng Nghymru/LlCh/5355.

¹⁵⁶ LIGC, Papurau'r Eglwys yng Nghymru/LlCh/5441.

¹⁵⁷ LIGC, Papurau'r Eglwys yng Nghymru/Bangor/Tithe Documents 382-387. Y mae'n ddiddorol nodi bod yna eiddo o'r enw, 'Windmill and Rocks,' yn ôl atodlen y degwm ar gyfer Amlwch, yn

Arwyddwyd yr hysbysebion hyn gan Robert Lloyd James, cyfreithiwr o Fangor, a weithredodd, y mae'n debyg, ar ran yr Esgob gan fod rhan helaeth o ddegymau plwyfi Amlwch a Llannor yn ei ddwylo ef.

Anodd iawn ydyw ceisio canfod y rhesymau pam a gyrrwyd yr hysbysebion hyn allan, a hyd yn oed os cafodd eiddo yr unigolion yma ei atafaelu. Yr oedd y wasg, o leiaf, yn ddistaw. Ond y mae'n arwyddocaol fod plwyfi Llannor ac Amlwch wedi eu cynhyrfu, ar sawl achlysur, bron i bymtheg mlynedd yn ddiweddarach yn ystod 'Rhyfel y Degwm'.¹⁵⁸ Yn wir, Amlwch oedd y plwyf amlycaf yn Ynys Môn o ran cynnwrf gwrth-ddegymol, ac eto hefyd Llannor yn Llŷn.¹⁵⁹ Erbyn hynny y Dirprwywr Eglwysig oedd yn hawlio canran swmpus o ddegymau Amlwch, tra'r periglor lleol oedd yn hawlio degymau Llannor, ynghyd â ficer Pwllheli.¹⁶⁰

Â Llŷn yn bennaf y deliai llythyrau Arthur Henry Trethewy (asiant Voelas a Chefnamlwch) o barthed y degwm. Yr oedd Wyniaid (Wynn-Finch) Voelas a Chefnamlwch yn berchen ar £671. 14s. 11c. (gwerth cymudo) o ddegymau yn Sir Gaernarfon, ac yr oeddynt ar frig rhestr y perchenogion lleyg yn hyn o beth.¹⁶¹ Gwir, degymau lleyg a gawn yma, felly ni ellir disgwyl gwrthwynebiad ar sail talu tuag at gynhaliad corff crefyddol nad oedd yr unigolyn yn aelod ohono. Serch hynny, y mae llythyrau Trethewy yn cynnig cipolwg gwerthfawr o ran y rhesymau pam nad oedd ambell i berson yn brydlon yn talu'r degymau.

Ar 21 Awst 1867 fe yrodd Trethewy lythyr at Mrs. Mary Jones, Nefyn, yn ei rhybuddio os na thalwyd ei degymau (a oedd yn ddyledus ers y cyntaf o Orffennaf)

nwylo esgob Bangor ym 1841. <http://cynefin.archiveswales.org.uk> – atodlen ar gyfer plwyf Amlwch/44-2, t. 6.

¹⁵⁸ Llannor: *Y Werin* (8 Rhagfyr 1888); *Caernarvon and Denbigh Herald* (21 Rhagfyr 1888); *Baner ac Amserau Cymru* (22 Rhagfyr 1888; 24 Rhagfyr 1890). Amlwch: *Cardiff Times* (3 Mawrth 1888); *North Wales Chronicle*, (30 Mehefin 1888) *North Wales Express* (6 Gorffennaf 1888); *Caernarvon and Denbigh Herald* (10 Gorffennaf 1891).

¹⁵⁹ Yr oedd David Lloyd George yn gynhyrfwr amlwg yn Llŷn ac Eifionydd yn ystod rhyfel y degwm. Gw. Emyr Price, 'Lloyd George a 'Rhyfel y Degwm' yn Llŷn ac Eifionydd 1886-8', *Trafodion Cymdeithas Hanes sir Caernarfon*, c.39 (1978), tt. 150-169. Rhoddodd Lloyd George araith ar ddiwrnod yr arwethiant yn Llannor ym 1890, Emyr Price, *Lloyd George y Cenedlaetholwr Cymreig: Arwr Ynteu Bradwr* (Llandysul, 1999), t.128.

¹⁶⁰ PP 1894 LXIV, Return in Wales (Glebe and Tithe), tt. 14 a 38; *Baner ac Amserau Cymru* (22 Rhagfyr 1888).

¹⁶¹ Davies, *The Tithe Maps of Wales*, t. 92.

yn brydlon, buasai'n rhaid iddo gymryd camau cyfreithiol er mwyn eu hadfer.¹⁶² Ni chafodd unrhyw ateb, ac ymhen tridiau gyrrwyd llythy r arall at Mary Jones yn datgan:

As you have taken no notice of my repeated applications for the Tithes due from you, of the 1st July. I beg to inform you that I can wait no longer and shall take immediate steps to be taken for its recovery (which I shall be very sorry to do) unless prompt payment is made.¹⁶³

Ond dengys mai diffyg arian oedd y broblem, a bod y wraig angen mwy o amser i ddod o hyd i'r arian hwnnw, 'I suppose I must wait till the end of this month for Mrs. Jones' tithes. If she had asked for time before I would have given it to her, but she took no notice whatever of my repeated applications'.¹⁶⁴ Ar 9 Medi 1868 ceir cyfeiriad at ddynes arall hefyd o'r enw Margaret Jones, Nefyn, ac yn ôl Trethewy, 'There is a balance of £1. 0. 7 due from you for Tithes up to July 1st which I shall be glad to receive in order to close my books. I will wait till the 16th inst. But if the amount is not paid then I shall proceed to recover it'.¹⁶⁵

At dalwyr y degymau ym mhlwyf Nefyn y cyfeiriwyd y rhan fwyaf o'r llythyrau.¹⁶⁶ Nid rhyfedd felly i Trethewy ddatgan yn ei lythyr at y Parchg. Evan Bevan (periglor y plwyf hwnnw), 'Your parish affairs seem to be in a deplorable state ... you have a very cantankerous let to deal with'.¹⁶⁷ Dichon mai'r unigolyn mwyaf 'cantankerous' a deliodd Trethewy gydag ef oedd W. L. Roberts, Penygongl, Nefyn. Cawn lythyr (21 Awst 1867) o Trethewy i G. J. Picton Jones, Esq., yn erfyn arno i berswadio Roberts i dalu ei ddegymau:

A tenant of Lord Newborough's W. L. Roberts of Penygongl in Nevyn [sic], is disposed to give us some trouble, especially his tithe rent charge. He owes 1 yrs. tithe to July 1st and although repeated applications have been made to him he takes no notice whatever of them. Perhaps a line from you would bring him to his senses.¹⁶⁸

¹⁶² LLGC, Papurau Voelas a Cefnamlwch, B2, A. H. Trethewy Letter Book (1866-1870), Trethewy i Mary Jones (21 Awst 1867).

¹⁶³ Ibid., Trethewy i Mary Jones (24 Awst 1867).

¹⁶⁴ Ibid., Trethewy (21 Medi 1867).

¹⁶⁵ Ibid., Trethewy i Margaret Jones (9 Medi 1868).

¹⁶⁶ Ibid., Trethewy i J. L. Jones (2 Medi 1867); J. Owen Jr. (29 Gorffennaf 1869); Griffith Griffiths (24 Ionawr 1868); Griffith Williams (24 Ionawr 1868); Richard Williams (24 Ionawr 1868); William Jones (24 Ionawr 1868); John Jones (24 Ionawr 1868); W. J. [?] (24 Ionawr 1868); Owen Owens, Esq. (17 Chwefror 1868); M. W. Jones (19 Hydref 1868).

¹⁶⁷ LLGC, A. H. Trethewy Letter Book, Trethewy i Rev. Evan Bevan (19 Chwefror 1868).

¹⁶⁸ Ibid., Trethewy i G. J. Picton Jones, Esq. (21 Awst 1867).

Ond arhosodd Roberts yn benderfynol nad oedd am dalu'r degymau. Erbyn mis Chwefror 1868 yr oedd gwerth blwyddyn a hanner o ddegymau yn ddyledus ganddo, a gofynodd Trethewy i Picton Jones, 'Will you on behalf of the Landlord pay me or must I distrain?'¹⁶⁹ Aeth y mater ymlaen hyd at Awst,¹⁷⁰ a dengys fod Trethewy wedi gorfod atafaelu ar nwyddau Roberts, ond gobeithiodd, 'Perhaps ... you [John Evans, Beili] had better, before going to Nevyn, ascertain from Mr. Picton Jones whether he will, on the landlord's behalf [Arglwydd Newborough], pay the demand so as to save the Tenant additional expenses'.¹⁷¹ Dyma enghraifft dda o amwyster o ran y ddealltwriaeth a fodolodd rhwng y tenant a'r tiffeddiannwr o ran pwy oedd yn talu'r degwm. Dengys mai ystyriaeth dechnegol oedd wrth wraidd yr anghydfod:

Two of Lord Newbrough's tenants viz- W. L. Roberts and James Owen, object to pay their Tithe Rent Charge on the ground that they do not occupy the whole of the tenements out of which the Tithes charged on them issues. As the apportionment of Nevyn is not a field one it is impossible for me to make any division, although perhaps these men are correct in saying that other persons occupy portions of their tenements. I cannot make them understand that they are liable for the total amount of Tithes and that it is out of my power to make a re-apportionment. If you would be good enough to enlighten them on the point it may be the means of saving them much expense, as my only alternative appears to be to distrain.¹⁷²

Nid yn annhebyg felly i'r achos a gyfeiriwyd ato ar ddechrau'r adran hon.

Ar 27 Chwefror 1879 cynhaliwyd arwerthiant i adfer y degwm ym Mhenyffordd ger yr Hôb, Sir y Fflint. Cymerodd y *Liverpool Mercury* dipyn o ddi-ddordeb yn yr hanes. Adroddwyd fod y Parchg. Thomas Richard Lloyd (Estyn),¹⁷³ sef periglor Llanfynydd (o fewn plwyf Yr Hôb), wedi atafaelu ar nwyddau Mr Thomas Wilcock, ceidwad Capel y Methodistiaid Cyntefig am y swm eithaf tala o 5s mewn perthynas i ddegwm oedd yn ddyledus ar acer o dir.¹⁷⁴ Safai y Capel, ysgol a thŷ Mr Wilcock ar y tir hwn, a honnwyd na thalodd y Methodistiaid nemor yr un geiniog o ddegwm ers dros ugain mlynedd, a phan dderbyniasant yr

¹⁶⁹ Ibid., Trethewy i G. J. Picton Jones, Esq. (10 Chwefror 1868).

¹⁷⁰ Ibid., Trethewy i Rev. Evan Bevan (21 and 28 Chwefror 1868); G. J. Picton Jones (28 Chwefror 1868).

¹⁷¹ Ibid., Trethewy i John Evans (10 Awst 1868).

¹⁷² Ibid., Trethewy i G. J. Picton Jones (5 Gorffennaf 1868).

¹⁷³ *Y Bywgraffiadur Cymreig Hyd 1940*, t. 556.

¹⁷⁴ *Liverpool Mercury* (3 Mawrth 1879); *Rhyl Advertiser* (8 Mawrth 1879).

hysbysrwydd gan Lloyd, penderfynasant beidio â thalu dim.¹⁷⁵ Dywedasant mai dim ond rhan o'r un acer yr oeddynt wedi ei brynu. Y cyfanswm i'w godi yn yr arwerthiant oedd £1 (gan gynnwys y costau) ond yn ôl yr adroddiad, gwerthodd yr occsiwniar gloc a chiffonier am £3. Terfynwyd yr adroddiad gyda'r arsylwad, 'The matter has excited the utmost indignation among Welsh Nonconformists'.¹⁷⁶

Ymhen ychydig amser, cyhoeddwyd llythyr yn ymwneud â'r achos gan y Parchg. James Crompton, gweinidog y capel dan sylw.¹⁷⁷ Honnodd bod y gyfraith yn ffafrio'r clerigwr Eglwysig:

Before now, the law has sent dissenters to prison for preaching within five miles of a corporate borough; yea, at one time, we know it was by law that heretics were burnt at the stake; and hence it follows that, if the reverend gentleman has no other reason for casting a stigma upon the Primitive Methodists, and endeavouring to humiliate them through their chapel keeper; if he has no other reason, I say, than that the law is with him, then, I say, he is acting on the very principle as his predecessors in the holy order, who persecuted dissenters and burnt heretics by authority of the law.¹⁷⁸

Er mor ddi-flewin-ar-dafod oedd y sylwad hwn, yr oedd Crompton yn amau, neu o leiaf yn gobeithio, nad oedd Lloyd yn dal y fath 'diabolic principles'.¹⁷⁹ Yr oedd Crompton wedi cael ei hysbysu bod yna elyniaeth yn bodoli tuag at y capel gan rai o eglwyswyr Penyffordd, er na wyddai pam, 'Is it revenge for the success of the school board in the neighbourhood, or is it because dissenters support Mr. Osbourne Morgan's Burials Bill? Or is it simply that the revived "Imperial Policy" is spreading into the ecclesiastical department of the State'.¹⁸⁰ Damcaniaeth arall gan weinidog y capel oedd bod Lloyd mewn cynghrair gydag Esgob Lincoln, y gŵr hwn, yn ôl Crompton, a ddaliai tueddiadau rhagfarnllyd tuag at y Methodistiaid Cyntefig.¹⁸¹

Cawn mewnwelediad pellach i'r sefyllfa pan gyhoeddodd y *Liverpool Mercury* gyfres o lythyrau rhwng Crompton a John Jones, y cyfreithiwr a weithredodd ar ran Lloyd adeg yr arwerthiant.¹⁸² Yr oedd Jones wedi bod yn casglu'r

¹⁷⁵ Ibid.

¹⁷⁶ Ibid.

¹⁷⁷ *Liverpool Mercury* (7 Mawrth 1879).

¹⁷⁸ *Liverpool Mercury* (7 Mawrth 1879).

¹⁷⁹ Ibid.

¹⁸⁰ Ibid.

¹⁸¹ Ibid.

¹⁸² *Liverpool Mercury* (10 Mawrth 1879).

degymau i Lloyd ers blynyddoedd, ac mewn ymdrech i wyro'r bai o'r periglor, datganodd y cyfreithiwr mai ef oedd yn gyfrifol am y gweithrediadau yn yr Hôb. Yn ôl Jones yr oedd Lloyd yn hollol ymwybodol o'r sefyllfa pan arwyddodd y warant. Ymddengys fod yr acer o dir dan sylw wedi ei ddsbarthu mewn i sawl llain adeiladol, a fod Wilcock ond un ymhlith sawl un arall oedd yn gorfod talu'r degwm ar y llecyn yma o dir. Ond crybwyllodd Jones nad oedd Wilcock, oblegid ei ymglymiad i'r capel efallai, erioed wedi cyfrannu gyda'r preswylwyr eraill i dalu'r degwm, a theimplant hwythau bellach nad oedd hyn yn deg. Cydymdeimlodd Jones gyda hwy, ac anfonodd hysbysiad i Wilcock yn ei orchymyn i dalu gwerth blwyddyn a hanner o ddegymau (tri taliad hanner blwyddyn).¹⁸³

Cyn yr arwerthiant yr oedd Crompton wedi ysgrifennu at Jones, ac er ei ddatganiad nad oedd ef na'r Methodistiaid eisiau ymglymu eu hunain mewn 'ecclesiastical quarrel', yr oeddynt, er hynny, yn barod i gymryd camau cyfreithiol os buasai rhaid.¹⁸⁴ Dywedodd Crompton bod Wilcock yn fodlon talu'r degwm dyledus ar y tir lle safai ei fwthyn, ond nid oedd am dalu'r degwm cyfan ar ran ei gymdogion.¹⁸⁵ Mewn gwirionedd, dim ond pyped oedd Wilcock yn yr achos gyda Crompton yn tynnu'r llinynnau yn y cefndir. Wedi'r cyfan, llythyrau a safiad Crompton a geir yn y papurau newydd. Yr oedd y safiad moesol a geir yma yn un deublyg; ar y naill law gwrthodwyd talu'r degwm ar y sail nad oedd y Capel a'r bwthyn ond yn meddiannu rhan o'r llain un acer. Ar y llall yr oedd yna uwchseiniau o'r 'cydwybod Ymneilltuol'. Fel y trafodwyd yn gynharach, yr oedd honiadau Crompton yn llwythog â chyfeiriadau crefyddol er mwyn creu'r argraff bod yr Eglwys yn ceisio sathru ar y Methodistiaid Cyntefig. Dyma pam y mae'n debyg cymerodd y *Liverpool Mercury* gymaint o ddiddordeb yn y stori, gan mai capel Anghydffurfiol oedd yn cael ei ddegymu.

Ond nid hwn oedd yr unig achos o'i fath. Ym 1887 ceir hanes am awdurdodau eglwysig plwyf Llandâf, y Parchg. Richard Lewis, yn hawlio 16s. 4c. o ddegwm ar gapel y Bedyddwyr, Canton, Caerdydd.¹⁸⁶ Yr oedd y capel wedi ei adeiladu oddeutu 36 mlynedd ynghynt, ac ni thalwyd y degwm, neu o leiaf ni

¹⁸³ Ibid.

¹⁸⁴ Llythyr (21 Chwefror 1879) yn y *Liverpool Mercury* (10 Mawrth 1879).

¹⁸⁵ Llythyr (26 Chwefror 1879) yn y *Liverpool Mercury* (10 Mawrth 1879).

¹⁸⁶ *Seren Cymru* (11 Tachwedd 1887).

hawliwyd y degwm o gwbl yn ystod y cyfnod hwnnw.¹⁸⁷ Adroddodd *Seren Cymru* yr hanesyn bach isod i gyd-fynd â'r digwyddiad uchod:

Cof genym glywed fod offeiriad am godi degwm ar fynwent yr Alltwn, yn Nghwm Tawe, lle y gweinidogaethai y poblogaidd a'r ffraeth bert Phillip Griffiths. Poenid ef yn aml gan yr offeiriad am y degwm. Un tro pan yn brysur yn ei fyfyrgeall, galwyd ef allan, 'Pwy sydd yna?' Gwas y 'ffeiriad sydd yma yn mofyn y degwm am y fynwent, oedd yr ateb, ac ebai Griffiths, 'Dywed di machgen i wrth dy feistr am aros hyd yr adgyfodiad, a sefyll y pryd hyny ar ben clawdd y fynwent, a chymeryd y *ddegfed* o rhai fo'n codi.'¹⁸⁸

Ym 1909 fe wrthododd ymddiriedolwyr Capel y Methodistiaid yn Gallt Melyd, sir y Flint, talu 2s. 2c. o ddegwm i'r Parchg. D. Griffiths,¹⁸⁹ ac ym 1913 fe atafaelwyd ar ardd fach o datws, chwarter acer, oedd yn perthyn i gapel y Methodistiaid yn Llanpumsaint, sir Gaerfyrddin.¹⁹⁰ Yn ôl yr adroddiad, nid oedd y degwm wedi'i dalu o gwbl ers chwarter canrif, namyn un tro deuddeg mlynedd ynghynt gan un o'r aelodau.¹⁹¹

Yn yr un flwyddyn a atafaelwyd ar y capel yn y Hôb, yr oedd rhai o amaethwyr Cymru yn dechrau teimlo effaith y dirwasgiad amaethyddol. Ar 3 Rhagfyr 1879 fe arwyddodd 24 o ffermwyr plwyf Llanilltud Fawr ddeiseb a'i gyrru at y Dirprwywyr Eglwysig.¹⁹² Dymunwyd ostyngiad yn y degwm oherwydd effaith y dirwasgiad amaethyddol, ond ni chydymffurfiodd y Dirprwywyr Eglwysig â'r cais. Er na wyddai'r Dirprwywyr ar y pryd, dyma'r patrwm blinderus a ddaeth mor gyfarwydd iddynt ymhen saith mlynedd; y ffermwyr yn gyrru eu deisebau a hwythau yn eu tro yn gwrthod pob un ohonynt. Ymddengys ni dderbyniodd y Dirprwywyr Eglwysig yr un cais o Gymru wedyn am ostyngiad yn y degwm nes 2 Chwefror 1886; bwlch o bron i saith mlynedd.¹⁹³

¹⁸⁷ *Seren Cymru* (11 Tachwedd 1887). Ceir adroddiad byr yn y *Carnarvon and Denbigh Herald* (18 Tachwedd 1887), yn datgan bod yna ddyn anhysbys a alwodd ei hun yn 'A Nonconformist' wedi talu ôl-ddyled degymol capel y Bedyddwyr, Heol Llandaf.

¹⁸⁸ *Seren Cymru* (11 Tachwedd 1887).

¹⁸⁹ *Prestatyn Weekly* (23 Ionawr 1909).

¹⁹⁰ *Carmarthen Weekly Reporter* (22 Awst 1913).

¹⁹¹ *Carmarthen Weekly Reporter* (22 Awst 1913).

¹⁹² LIGC, ECE 70,0008i – Part 1 – Estates Management – Tithe Rentcharges – Distraints in Wales: William Thomas (Llantwit Major) i'r Dirprwywyr Eglwysig (3 Rhagfyr 1879).

¹⁹³ LIGC, ECE/GEN 70,0008i: John Jones a John Williams (Llanrhaedr-yn-Nghinmeirch) i'r Dirprwywyr Eglwysig (2 Chwefror 1886).

Ar 8 Chwefror 1884 cyhoeddwyd llythyr diddorol yn y *Cambrian* gan ‘Dissenter’ yn achwyn am orfod talu degymau. Yr oedd yr awdur wedi derbyn hysbyseb yn ei orchymyn i dalu ei ddegymau i Sir J. A. Morris (Sketty Park) ac i’r periglor plwyfol, y Parchg. S. C. Morgan, sef perchnogion y degwm ym mhlwyf-trefgordd Abertawe.¹⁹⁴ Cwestiynodd ‘Dissenter’ y gorchmynion:

Why am I compelled to pay to the vicar a certain amount every year, when I never go near his church, or receive any benefit spiritual or otherwise from him, nor did I take the land upon which my house is built from him.¹⁹⁵

Y mae’n ddiddorol mai at gyfeiriad y periglor y traethodd yr awdur yn bennaf, yn hytrach nag at y meddianwyr lleyg, a cheir yma enghraifft glir o safiad yn erbyn talu’r degwm oedd yn seiliedig ar egwyddorion crefyddol. Credodd ‘Dissenter’ nad oedd y degwm yn wahanol iawn i dreth yr eglwys gynt, dim ond mewn rhith gwahanol, a bod y pwnc, yn ei ôl ef, yn peri cryn ddipyn o ddadl ar y pryd.¹⁹⁶

Er na ddominyddodd hanes adwerthiant y degwm yn Llandudno colofnau’r papurau newydd yn yr un modd a fyddai wedi gwneud pe bai wedi digwydd dwy flynedd yn ddiweddarach, yr oedd, serch hynny, yn ddigwyddiad pwysig iawn o fewn cyd-destun y degwm yng Nghymru. Ar 17 Mawrth 1884, fe atafaelwyd ar ddodrefn Mr. T. Edge, cadeirydd bwrdd ysgol Llandudno, oherwydd nad oedd yn fodlon talu, yn ôl y *Faner*, ‘... o ran egwyddor’, £1. 15s o ddegwm.¹⁹⁷ Gwelwyd ychydig o gyffro yn ystod y rhan gyntaf o’r arwerthiant, ond tawelodd pethau wedi hynny pan rhybyddiodd heddeidwad y dorf y buasai’n troi achoswyr o drwbl ymaith.¹⁹⁸ Er hynny, yr oedd y £2. 11s. 6c. a godwyd gan yr arwerthiant yn annigonol, gan mae £3. 3s. oedd y swm oedd yn ofynol.¹⁹⁹

Ceir esboniad ddiddorol am gefndir yr helynt gan y Parchg. James Spinther James, yr hwn, wrth gwrs, a oedd yn trigo yn Llandudno. Esboniai James fod yna rhan o stad (mwy na thebyg ystâd Mostyn) wedi cael ei werthu fel rhydd-ddaliad er

¹⁹⁴ *Cambrian* (8 Chwefror 1884).

¹⁹⁵ *Cambrian* (8 Chwefror 1884).

¹⁹⁶ *Cambrian* (8 Chwefror 1884).

¹⁹⁷ *Baner ac Amserau Cymru* (17 a’r 22 Mawrth 1884).

¹⁹⁸ *Baner ac Amserau Cymru* (22 Mawrth 1884); *Y Dydd* (28 Mawrth 1884); *North Wales Express* (21 Mawrth 1884).

¹⁹⁹ *Baner ac Amserau Cymru* (22 Mawrth 1884).

mwyn adeiladu tai arno, ond bod y degymau'n dal yn ddyledus ar y tir hwn.²⁰⁰ Yn yr achos dan sylw, yr oedd yna gae oddeutu pum acer wedi cael ei adeiladu arno, nad oedd, wrth reswm, yn cael ei drin, ond bod y degwm yn dal yn ddyledus arno. Yr oedd Edge wedi prynu tŷ ar y tir yma, ac am ryw reswm, efô oedd yn gorfod talu'r degwm cyfan oedd yn ddyledus ar y 'cae' hwn nad oedd, mewn gwirionedd, yn bodoli rhagor fel tir amaethyddol. Gwrthododd Edge talu'r degwm, a dyna pam atafaelwyd ar ei ddodrefn.

Ond pwy oedd yn hawlio'r degwm? Ni ymhelaethodd y papurau newydd na James lawer ar hyn, ond dywedir yn y *Faner*, 'Y mae periglor Llandudno yn cymmeryd cynghaws yn erbyn rhai o'i blwyfolion Ymneillduol, er cael y degwm ...'²⁰¹ Dyn oedrannus a gwanlyd oedd y Parchg. John Morgan, rheithor Llandudno, a oedd wedi bod yn y fywoliaeth ers 1857.²⁰² Bu farw ym 1885 a chymerwyd y fywoliaeth drosodd gan ei fab, John Morgan y ieuangaf.²⁰³ Yn wreiddiol yr oedd holl ddegymau'r plwyf yn berchen i Archddiacon Meirionnydd, ond trosglwyddwyd yr holl swm (£227) i fywoliaeth Llandudno.²⁰⁴ Ond yn amlwg yr oedd chwyddiant tref Llandudno wedi cymhlethu pethau, gan gofio bod yna ddegawdau wedi mynd heibio ers y cymudiadau.

Ar 21 Mawrth 1884 cynhalwyd cyfarfod dicllonedd yn Neuadd Faswnaidd y dref er mwyn trafod yr achos. Nid syndod yw darllen bod y Parchg. James Spinther James wedi cymeryd rhan flaenllaw yn y trafodaethau, gan gynnig:

Fod sefyllfa bresennol y gyfraith mewn perthynas i ddegymau yn hollol anfoddfaol, gan ei bod yn gosod anghyfiawnder gwarthus ar y mwyafrif o dalwyr y degwm, ac yn achosi y fath ddiogllonedd fel ag i brofi yn niweidiol i'r wladwriaeth.²⁰⁵

Cynigiodd y Parchg. J. Raymond:

Wrth gymmeryd i ystyriaeth deimladau crefyddol a moesol pobl y wlad hon, a'r ddarpariaeth helaeth y meant wedi wneyd ar gyfer addoliad crefyddol, yn annibynol ar gynorthwy y Llywodraeth, fod yr amser wedi dyfod pan na ddylai y cyfryw

²⁰⁰ Y mae'r disgrifiad canlynol yn seiliedig ar dystiolaeth y Parchg. James Spinther James, PP 1887 XXXVIII, Minutes, c.3035, t. 88.

²⁰¹ *Baner ac Amserau Cymru* (17 Mawrth 1884).

²⁰² LIGC, B/P/731; *Llangollen Advertiser* (6 November 1885).

²⁰³ LIGC, B/P/734; *Llangollen Advertiser* (6 November 1885).

²⁰⁴ PP 1887 Return of all Tithes, t. 277; PP 1894 LXIV, t. 14.

²⁰⁵ *Baner ac Amserau Cymru* (26 Mawrth 1884); *Western Mail* (24 Mawrth 1884).

gynnorthwy a rheolaeth gael ei estyn i unrhyw adran neillduol o'r Eglwys Gristnogol.²⁰⁶

Gellir gosod hanes yr achos yma o fewn y blynyddoedd cynhyrfus hynny o 1886 ymlaen, a ni fyddai allan o'i le. Dyma beth sydd yn gwneud yr astudiaeth achos yma mor arwyddocaol. Yr oedd yn ergyd rhybudd o'r hyn a oedd i ddod ymhen dwy flynedd; unigolyn yn gwrthod talu'r degwm, perchennog y degwm (ym meddiant yr Eglwys gan amlaf) yn atafaelu, torf yn ymgasglu yn ystod yr arwerthiant a chyfarfod cyhoeddus yn cael ei drefnu gan gynhyrfwyr gwleidyddol er mwyn traethu yn erbyn breintiau'r Eglwys ac i bledio achos datgysylltiad.

Paham na fanteisiodd dynion megis Thomas Gee ar y cyfle i gynhyrfu'n bellach nis gellir fod yn siŵr. Cynhaliwyd cynhadledd bwysig y diwrnod wedyn (18 Mawrth) yn Ninbych dan nawdd y Gymdeithas Rhyddhad Crefydd er mwyn ffurfio cyngor yng ngogledd Cymru (yr oedd un wedi ei sefydlu'n barod yn y de) a fyddai'n gysylltiedig â'r mudiad hwnnw.²⁰⁷ Datgysylltu a dadwaddoli'r Eglwys oedd y prif bwnc a drafodwyd wrth gwrs, a chafwyd ambell i gyfeiriad at y degwm, ond dim byd i argyhoeddi bod yna gyffro ar y lefel sylfaenol yn y gwynt.²⁰⁸

Ceir mewnwelediad diddorol i sefyllfa'r degwm o fewn y plwyfi yn *Y Dywysogaeth* ym 1871:

Pan y mae'r degwm yn eiddo'r Eglwys, y mae person y plwyf yn oedi ac yn aros wrth lawerodd o'r talwyr degwm, hyd y bo'n gyfleus iddynt dalu; maent yn oedi misoedd lawer wrth rai ac anfynych iawn y mae'r Person yn rhoi cyfraith ar y ffarmwr ... Ac fel hyn mae amynedd y Person plwyf yn costio iddo lawer o log arian bob blwyddyn.²⁰⁹

Dichon fod hyn yn dibynnu ar yr unigolyn, yn hytrach na'r clerigwyr ar y cyd. Gwelwn yn nes ymlaen bod rhai clerigwyr yn fwy parod nag eraill i gymryd camau cyfreithiol er mwyn adfer eu degymau ac i gynnig gostyngiad. Ar y naill law, cawn hanes dyn ym mhlwyf Penbryn a frefodd fel buwch pob tro y gwelodd ef beriglor y plwyf oherwydd bod hwnnw wedi gwerthu rhai o'i fuchod er mwyn adfer ei ddegymau oddeutu'r flwyddyn 1876.²¹⁰ Ar y llall, cawn enghraifft o ymddygiad

²⁰⁶ *Baner ac Amserau Cymru* (26 Mawrth 1884); *Western Mail* (24 Mawrth 1884).

²⁰⁷ Ceir adroddiad dra helaeth o'r digwyddiad yn y *Baner ac Amserau Cymru* (26 Mawrth 1884). Gw. hefyd, *North Wales Express* (21 Mawrth 1884); *Tyst a'r Dydd* (28 Mawrth 1884).

²⁰⁸ *Baner ac Amserau Cymru* (26 Mawrth 1884).

²⁰⁹ *Y Dywysogaeth* (25 Mawrth 1871).

²¹⁰ *Cambrian News and Merionethshire Standard* (28 Rhagfyr 1888).

goddefgar gan beriglor Rhyl pan honnodd ym 1889, 'I have never resorted to such measures (atafaelu), but I mean to make an example of one or two, in the course of the next few months, who have withheld tithes (small amounts) for the last five or ten years'.²¹¹

VII.

Y dadmer yn dechrau? 1879-1885

Erbyn 1880 yr oedd y *Faner* wedi dechrau ffocysu yn fwy nag erioed ar bwnc y degwm, a'r dirwasgiad amaethyddol oedd yn bennaf gyfrifol am hynny. Mewn erthygl o'r enw 'Yr Amaethwyr a'r Degwm' ym 1881, maentumiodd y papur:

Y mae yn ddiamheuol fod y caledi amaethyddol sydd wedi gwasgu yn y tair blynedd diweddaf, i raddau mwy neu lai, ar bob rhan o'r Deyrnas Gyfunol, wedi dwyn yr amaethwyr yn gyffredinol i deimlo mai eu dyledswydd ydyw dyfod allan i amddiffyn eu hiawnderau, ac i ddangos i'r byd y gorthrwm a'r anghyfiawnder a ddiodeffir ganddynt. Y pwngc [sic] sydd yn tynu [sic] sylw arbenig [sic] yn eu plith y dyddiau hyn ydyw y cam a wneir a hwynt mewn cyssylltiad a'r Degwm.²¹²

Blwyddyn ynghynt neilltuwyd holl ofod dudalen flaen un rhifyn o'r *Faner* i drafod y degymau.²¹³ Wrth gwrs, nid dadleuon pur economaidd a gawn yma. Plethodd Thomas Gee'r cysyniad o ddatgysylltu a dadwaddoli'r Eglwys i'r ddatl fel y moddion i wellhau'r sefyllfa o barthed y degymau:

O'n rhan ni, ein syniad yw y dylid dadwaddoli a dadsefydlu yr Eglwys Sefydledig. Ac wrth wneyd [sic] hyny, [sic] y dylid adolygu yr amodau ar ba rai y mae y degwm yn cael ei godi, a'i osod ar egwyddor dëg ac uniawn, a throsglwyddo y swm hwnw [sic] at ryw ddybenion cyhoeddus; sef, addysg, a llawer o achosion cyffelyb - drwy yr hyn yr ysgafnheid beichiau y trethi arnynt hwy, ac eraill o ddeiliaid y deyrnas.²¹⁴

Dyma'r safbwynt 'swyddogol' a fabwysiadwyd gan y gwrth-degymwyr yn ystod 'Rhyfel y Degwm'. Hynny yw, dyma safbwynt Gee ac arweinwyr eraill; drwy ddatgysylltu a dadwaddoli'r Eglwys gellid dargyfeirio cyllid y degwm at ddibenion

²¹¹ LIGC, SA/Tithe/1-207/Rhyl.

²¹² *Baner ac Amserau Cymru* (12 Ionawr 1881).

²¹³ *Baner ac Amserau Cymru* (25 Awst 1880). Gw. hefyd 'Y Degwm' ar dudalen flaen y *Faner* (16 Mawrth 1881).

²¹⁴ *Ibid.*

seciwlar. Yr oedd hyn yn gymwys i ddegymau'r Eglwys yn unig. Mater arall, wrth gwrs, oedd y degymau lleyg.

Ym 1881 honnodd *Y Faner* fod ffermwyr siroedd Dinbych a Fflint, 'wedi paratoi deiseb i'w chyflwyno i Dŷ y Cyffredin, yn dymuno am i ryw fesurau gael eu cymmeryd i symmud [sic] ymaith y gorthrwm y mae eu dosbarth hwy yn llafurio dano o herwydd treth y degwm a threth y tlodion'.²¹⁵ Yr oedd hyd yn oed y chwarelwyr wedi'u cynhyrfu'r flwyddyn honno. Ysgrifennodd 'Adlais' i'r *Faner* yn datgan bod y papur hwnnw a phapurau newydd eraill (Rhyddfrydol gellir tybio), yn cael eu darllen pob awr ginio yn y 'caban' yn chwarel Dyffryn Nantlle.²¹⁶ Yn ei ôl ef, yr oedd y chwarelwyr yn ystyried y degwm yn, 'annheg ac anghyfiawn', ac yr oedd, 'liaws ohonynt yn dal mân dyddynod, a thrwy hyny [sic] yn teimlo oddi wrth y gorthrwm'.²¹⁷ Gwelwyd yr un fath o deimlad ymysg y chwarelwyr yn ystod 'Rhyfel y Degwm', ond dengys mai ymylol iawn oedd eu hymrwymiad a'i dylanwad yn ystod yr ymgyrch hwnnw.²¹⁸

Cyfeiriodd 'Adlais' at y cyfarfod a gynhaliwyd yng Nghlawdd Newydd ger Rhuthun ym mis Mehefin 1881. Disgrifiodd *Y Genedl Gymreig* y cyfarfod fel un 'pwysig' ynghylch y degwm, a diddorol ydyw'r rhestr o lefydd y deuai'r gwrandawyr o: Clocaenog, Derwen, Llanelidan, Llanfair, Gwyddelwern, Llanfihangel, Gyffylliog, Llanynys, Llanbedr, Llanfwrog, Llanrhydd, Rhuthyn, Bettws Gwerfil Goch a.y.b.²¹⁹ Dyma rai o'r plwyfi a ffurfiodd cnewyllyn yr helyntion yn Sir Ddinbych pum mlynedd yn ddiweddarach, sef crud yr anghydfod yn y gogledd gellir dadlau. Ond er i Gee fod yn un o'r rhai a draethodd ychydig ar y diwrnod, nid oes yna awgrym bod datgysylltiad yn uchel iawn ar yr agenda. Cwynion economaidd yn bennaf a geir yma, yn enwedig o ran sut yr oedd y cyfundrefn degymol yn cael ei weinyddu.²²⁰

Y mae'n werth nodi un peth arall o bwys hefyd ynghylch y cyfarfod hwn. Arsyllodd Frank Price Jones, '... nid oes awgrym ym *Maner* y dyddiau hynny bod angen unrhyw gymdeithas i'w cynorthwyo nac i ledaenu'r ceisiadau a'r

²¹⁵ *Baner ac Amserau Cymru* (19 Ionawr 1881).

²¹⁶ *Baner ac Amserau Cymru* (6 Gorffennaf 1881).

²¹⁷ *Ibid.*

²¹⁸ Gw. pennod VII.

²¹⁹ *Y Genedl Gymreig* (30 Mehefin 1881).

²²⁰ *Ibid.*

protestiadau'.²²¹ Cyfeirio ydoedd i weithred ffermwyr plwyf Llandyrnog ac eraill yn gofyn am ostyngiad yn eu degymau erbyn dechrau 1886. Y mae hyn yn wir i ryw raddau, ond yn ystod cyfarfod y Clawdd Newydd gwelwyd ymdrech i geisio ffurfio rhyw fath o gymdeithas. Penderfynwyd:

Fod cynghrair i adrefnu y degwm i gael ei ffurfio yn uniongyrchol, a bod holl dirfeddiannwyr, tenantiaid, a holl etholwyr ereill [sic] y sir, i gael eu gwahodd i ymuno âg ef, gyda'r amcan o fabwysiadu pob moddion a fernir yn briodol tuag at ddwyn oddiamgylch ad-drefniant teg o'r baich hwn yn y Senedd y tymhor [sic] nesaf. Cafodd ei basio.²²²

Ymddengys na ddaeth lawer ohono, ac er y bod yna debygolrwydd (o ran amcanion) rhwng yr hyn a gynigir uchod a'r 'Cymdeithas er Cynorthwyo Gorthrymedion y Degwm' a ffurfiwyd yn niwedd 1886, gellir dadlau bod y syniad o gydraddoldeb crefyddol yn llawer mwy blaenllaw yn y diwethaf.²²³

Erbyn 1885 yr oedd R. W. Owen yn ddigon ffyddiog i ddatgan yn *Y Drych* i'r Cymry yn America bod yna, 'Cynwrf y Degwm yn Nghymru'.²²⁴ Serch hynny, nid enghreifftiau o gyfarfodydd o'r famwlad a gawn yma, ond yr apêl at hanes, gyda phwyslais amlwg ar yr ysgrythurau i 'brofi'r anghyfiawnder' o orfod talu'r degwm.²²⁵ Nid peth newydd oedd hyn wrth gwrs, ond erys ef ar hyd y blynyddoedd yn ddull defnyddiol gan feirniaid y degwm i ymosod ar y taliad. Gwelwyd yr un fath o lith yn *Nhariar y Gweithiwr* ym 1876 o dan y pennawd, 'Y Degwm yn Orthrwm'.²²⁶ Ym 1885 fe neilltuwyd ofod sylweddol yn *Seren Cymru* i drafod hanes y degwm dan y pennawd, 'Ffeithiau yn Nghylch y Degwm', gan fod, 'y pwnc hwn yn cael cymmaint o sylw yn bresenol, ac y mae yn debyg o gael mwy o sylw yn y dyfodol ...'²²⁷ Yr oedd hyn yn sicr yn wir.

Apêlio at hanes a wnaeth yr 'Hanesydd Cymreig' yn *Y Genedl Gymreig* hefyd ym 1883.²²⁸ Anelwyd y llith at periglor Llangwm, y Parchg. Ellis Roberts

²²¹ Frank Price Jones, 'Rhyfel y Degwm', yn Alun Llywelyn-Williams ac Elfed ap Nefydd Roberts (gol.), *Radicaliaeth a'r Werin Gymreig yn y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg: Casgliad o Ysgrifau gan Frank Price Jones*, t. 96.

²²² *Y Genedl Gymreig* (30 Mehefin 1881).

²²³ *Baner ac Amserau Cymru* (15 Medi 1886).

²²⁴ *Y Drych* (4 Mehefin 1885).

²²⁵ *Y Drych* (4 Mehefin 1885).

²²⁶ *Tarian y Gweithiwr* (14 Gorffennaf 1876).

²²⁷ *Seren Cymru* (24 Gorffennaf 1885).

²²⁸ *Y Genedl Gymreig* (21 Tachwedd 1883).

(Ellis Wyn o Wyrfa), a ddaeth yn olygydd *Yr Haul* ym 1885.²²⁹ Honnodd yr ‘Hanesydd’, ‘mai drwy rym cyfraith orfodol gan mwyaf y cafwyd y cyllid Eglwysig a elwir y degwm’.²³⁰ Gan fod hanes cyfreithiol y degwm mor ddyrys a niwlog, canlyniad yr ymdrech i droi at hanes i brofi pwynt oedd lleidio’r dyfroedd ym mhellach. Yn wir, gellir cwestiynu pa faint o ddi-ddordeb oedd gan y cyhoedd yn y fath ddadleuon sychlyd eu naws. Yn y *Traethodydd* ym 1876 disgrifiodd y Parchg. John Eiddon Jones (gweinidog gyda’r Methodistiaid a chefnogwr selog o’r mudiad dirwest a’r ymgyrch i ddatgysylltu’r Eglwys), yr ymateb a gafodd gan gyfaill pan eglurodd ef i hwnnw ei fod am ysgrifennu llith ar y degwm. Dywedodd y cyfaill, ‘Yr wyf yn rhoddi rhybudd i chwi yn awr, cyn i chwi ddechre na ddarllenaf fi mohono’.²³¹ Nid bod ei gyfaill, yn nhyb Jones, yn anghytuno gyda’i safiad, ond oherwydd bod y testun ei hun yn un sych.²³²

Hwyrach yr oedd iaith fwy tanbaid yn fwy effeithiol i gynhyrfu’r dyfroedd. Ysgrifennodd W. Rees, Llechryd, i’r *Celt* ym 1885 yn datgelu, yn ei dyb ef, y ‘tri gorthrwm mawr’ yng Nghymru ar y pryd, sef, ‘Y Dafarn, y Degwm, a Landlordiaeth’.²³³ Iaith y pulpud y geir yma, iaith pregethol:

Tri gorthrwm yr hongia tri gair, plyglyfr y felldith uwchben pob un o honynt – “galar, gruddfan, a gwae.” Ni arogl Duw arogl esmwyth mewn capel na llan hyd oni wna diluw dreio bob dafn. Ni saif Eglwys Loegr er ei dysg a’i daioni yn wyneb ei gelynyon tra fyddo y degwm yn ddiolfryd yn ei gwrsyll. Ac ni ddigonir angu y torfeydd byth tra y goddefir i’r ychydig grafangau a thrawsfeddu ddaear.²³⁴

Erys barddoniaeth hefyd yn ffordd amgen i feirniadu’r degwm, megis yr englyn canlynol gan ‘Alwenydd’:

Treth gwlad, ail lladrad, llawdrwm, - ar y maes,
Yw’r gormesol Ddegwm:
Mewn gwarthrudd, miniog orthrwm;

²²⁹ Aled Jones, *Press, Politics and Society in Wales: A History of Journalism in Wales* (Caerdydd, 1993), t. 17.

²³⁰ *Y Genedl Gymreig* (21 Tachwedd 1883).

²³¹ *Y Traethodydd* (1876), t. 474. *Y Bywgraffiadur Cymreig Hyd 1940*, t. 456. Gw. hefyd: *Cambrian* (29 Medi 1876); *North Wales Express* (20 Mehefin 1884); *Y Werin* (23 Ebrill 1887).

²³² *Ibid.*

²³³ *Celt* (3 Ebrill 1885).

²³⁴ *Celt* (3 Ebrill 1885).

A hen fwch trais sy'n faich trwm.²³⁵

Alwenydd.

Dyma englyn arall, y tro hyn gan 'Edno', a ymddangosodd yn *Y Drych* ym 1881:

Duw ddygodd fod i ddegwm – o gynyrch

Ei Ganaan; ond gorthrwm

Hen deyrn trais gyda dwrn trwm

Fu'n d'rysu trefniad rheswm.

Edno.²³⁶

Dengys ei fod yn credu bod y degwm yn y dechreuad yn rhywbeth dwyfol, ond bellach yn orthrwm oherwydd llygredigaeth dyn. Diddorol ydyw sylw sut yr oedd syniadaeth a gawn yn ystod yr 1790au yn dal i fodoli bron i ganrif yn ddiweddarach.

Dychwelwn yn ôl i Ellis Roberts. Ysgrifennodd lythyr i'r *Faner* ym 1882 dan y pennawd, 'Troi yn ôl yn nhaliadau y degwm', gan resymu yn ddigon treiddgar bod gwerth y degwm erbyn hynny yn, 'llai o ddeg punt y cant nag ydoedd wyth mlynedd yn ôl'.²³⁷ Cydnabyddai bod yr amseroedd yn galed i'r ffermwyr, ond disgrifiodd ef ei hun fel 'cyd-ddioddefwr' â'r ffermwyr, canys bod, 'byd gwan y ffermwr yn fyd gwan i'r derbyniwr y degwm'.²³⁸ Yn yr hir dymor, y degwm feddianwyr oedd ar eu colled, nid y rheini oedd yn talu'r degwm. Er enghraifft, dengys tabl 3.3 bod gwerth £7,809 o ddegymau (gwerth cymudiad) wedi'u neilltuo i Esgobaeth Tyddewi gan y Dirprwywyr Eglwysig. Dyma werth gwreiddiol y degymau pan gymudwyd hwy adeg hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ond erbyn 1906 safai'r ffigwr hwn yn £5,312, sef colled yng ngwerth y degymau o £2,497 oblegid y cwmp dirfawr yng ngwerth cynnyrch â'r. Dyma'r anfantais o glymu'r degymau gyda'r farchnad gyfnewidiol hwn.

(Tabl 3.3 ar y tudalen nesaf).

²³⁵ *Y Genedl* (18 Tachwedd 1880).

²³⁶ *Y Drych* (13 Hydref 1881).

²³⁷ *Baner ac Amserau Cymru* (22 Mawrth 1882).

²³⁸ *Ibid.*

Tabl 3.3 Gwerth y degymau a neilltuwyd gan y Dirprwywr Eglwysig i Esgobaeth Tyddewi.

Archddiaconiaeth	Gwerth Cymudiad (1840au)	Gwerth ym 1906
Caerfyrddin	£2,004	£1,340
Tyddewi	£1,261	£863
Aberteifi	£2,269	£1,553
Brycheiniog	£2,275	£1,556
	£7,809	£5,312

Ffynhonnell: Ffigyrau yn T. W. Barker, Diocese of St. Davids: Particulars Relating to Endowments etc. of Livings, Vol's I-IV, (Caerfyrddin, 1907).

Ailadroddodd Roberts (gellir tybio mai ef ydoedd fel yr adolygydd) y pwynt yma yn *Yr Haul* ym 1889, gan ddangos bod gwerth y degwm wedi gostwng o £102. 16s. 2c. ym 1882 (blwyddyn y llythyr blaenorol) i £80. 10s. 8½c. ym 1889 (Atodiad 2).²³⁹ Dywedodd:

Y mae y daflen uchod yn dangos yn eglur fel y mae gwaddol yr Eglwys wedi colli y muned ran oi werth ar gyfartaledd; a miloedd o offeiriaid yn dyoddef [sic] mwy nag un dosbarth arall yn y deyrnas oddi wrth ostyngiad prisiau yr yd, heb son am anonstrwydd y gymdethas wrth-ddegymol yn rhwystro ei dalu.²⁴⁰

Yn sicr yr oedd hwn yn ffaith nad oedd y gwrth-ddegymwyr yn pwysleisio ryw lawer arno. Ys y dywedodd J. P. D. Dunbabin, ‘This was usually passed over in silence by the anti-tithers’.²⁴¹ Unwaith eto, cawn anghytgord yma rhwng realiti ac ideoleg.

Yr hyn oedd gan Roberts dan sylw pan ysgrifennodd i’r *Faner* ym 1882 oedd canlyniadau i holiadur o’r enw, ‘Yr Amaethwyr a’u Hawliau’, ac yn fwy penodol i’r cwestiwn canlynol, ‘A oes symiau wedi eu dychwelyd wrth dalu y Degwm? Os oes, pa faint? – a chan bwy?’²⁴² Cyhoeddwyd yr atebion yn y *Faner* rhwng Hydref 1881 a

²³⁹ *Yr Haul* (1889), t. 63.

²⁴⁰ *Yr Haul* (1889), t. 63.

²⁴¹ Dunbabin, *Rural Discontent in Nineteenth Century Britain*, t. 284.

²⁴² *Baner ac Amserau Cymru* (19 Hydref 1881 – 21 Mehefin 1882).

Mehefin 1882, ac y mae'n ffynhonnell ddefnyddiol o ran pryderon amaethwyr Cymru ar y pryd. Er, rhaid ystyried yr elfen propaganda hefyd. Am ryw reswm fe wnaeth *The Times* benderfynu tynnu sylw i'r holiadur hwn dros bedair blynedd yn ddiweddarach ym 1886. Dywedasant:

The novel catechism was sent to agricultural correspondents in all the counties of Wales. Mr. Gee guaranteed the authenticity and reliability of the categorical replies. This was indeed a species of secret commission, without any precedent in the Principality, and the outcome was clear and significant.²⁴³

Dyweddodd Gee fod y canlyniadau erbyn hynny allan o ddyddiad, a chyhoeddodd holiadur tebyg yn y *Faner* yn ystod misoedd cynnar 1886.²⁴⁴ Ond erbyn hynny yr oedd helynt y degwm yn brysyr codi stem, ac nid ydyw'r arolwg hanner mor ddefnyddiol na chyflawn a'i rhagflaenydd.

Ceir yr holl atebion i'r cwestiwn a gosodir uchod ynghylch y degymau yn Atodiad 3. Dim ond taro golwg ar y rhai mwyaf diddorol a wneir yma. Wrth bori drwy'r atebion y mae'n glir mai'r clerigwyr oedd o dan y lach yn hytrach na'r meddianwyr llewg, ac yr oedd y neges yn un clir; nid oedd y personiaid ar y cyfan wedi gostwng eu degymau. Rhesymeg Roberts wrth gwrs oedd dadlau fod y degymau wedi gostwng oddeutu 10 y cant ers 1874 beth bynnag, ac nid oedd gostyngiadau pellach yn deg. Wrth gwrs, drwy beidio â rhoi gostyngiad yn eu degymau, gadawodd yr offeiriaid eu hunain yn hollol agored i feirniadaeth a llid yr Anghydfurfwyr.

Yr oedd rhai atebwyr yn fwy hallt nag eraill wrth fynegi eu cwynion, megis yr enghraifft hon o Landdewi Brefi a'r cylch:

“Offeiriaid” yn dychwelyd symiau wrth dalu! Na: ni ddychwelasant hwy yr un geiniog. Credaf y gallasech yn hawdd hebgor y pennawd hwn. A welodd rhyw un y cymeriadau hyn yn tosturio wrth yr amaethwyr – neu rywrai eraill? Yn hytrach, gwelant yr hyn a dderbynir ganddynt yn rhy fychan!²⁴⁵

Ateb cyffelyb a geir o ardal Gwytherin hefyd:

²⁴³ *The Times* (16 Ionawr 1886).

²⁴⁴ Gw. rhifau o'r *Baner ac Amserau Cymru* am y flwyddyn 1886.

²⁴⁵ *Baner ac Amserau Cymru* (28 Rhagfyr 1881).

Yn 1880, nac oes. Yn hytrach, y maen't fel merched y Gele, yn gwaeddi "moes, moes." Pwy erioed a glywodd am wir 'ffeiriad' y trefniad gwladol, mewn cyssylltiad â degwm na threth, yn gofyn llai nag eithaf cyfraith! Yn 1881 – Dim! Dim! Chwaith.²⁴⁶

Cangen arall o feirniadaeth oedd yr honiad fod rhai clerigwyr wedi ymddwyn yn rhy eiddgar wrth geisio hawlio'r hyn a oedd yn ddyledus iddynt. Honnodd rhywun o Sir Drefaldwyn bod clerigwr yno wedi mynd a thenant i'r cwrt oherwydd bod hwnnw ar ei hôl hi o dri neu bedwar diwrnod yn talu ei ddegwm.²⁴⁷ Ceir awgrym arall o Sir y Fflint bod y clerigwyr yno am gosbi'r ffermwyr os na thalent eu degymau.²⁴⁸ Dichon fod yna elfen o ragrith yn perthyn i'r sylwadau hyn; gorliwio yn sicr. Ond rhaid bod yn ofalus rhag taflu hwy ymaith fel celwyddau hefyd. Beth bynnag oedd y gwirionedd, nid ydyw'n syndod fod cynifer o blwyfi yng Nghymru wedi gweld helynt ynghylch y degymau pan ystyriwn natur y sylwadau negyddol hyn tuag at glerigwyr yr Eglwys.

Er bod y rhan fwyaf o'r atebion yn negyddol, ceir ambell i ateb oedd yn fwy positif, megis yr ateb hwn o ardal Cyffylliog, Sir Ddinbych:

Y mae chwe cheiniog y bunt wedi ei throi yn ôl gan y Parchg. W. R. Williams yn y tâl cyntaf o'r flwyddyn hon; ac o'r blaen, oddeutu dwy flynedd yn ôl, yr un swm. Dyma y cyntaf y clywasom sôn am dano. Pa mor lleied bynag oedd, yr oedd yn dangos cydymdeimlad â'r amaethwyr.²⁴⁹

Datgelir hefyd bod, '... mab Mr. Gladstone hefyd wedi troi deg punt y cant yn ôl yn y degwm; ac hefyd fod y Parchg. T. B. LL. Brown, Bodfari, wedi troi punt y cant!²⁵⁰ Gwelwn nes ymlaen yn y traethawd sut y daeth Brown yn ffigwr cynhennus yn ystod 'Rhyfel y Degwm' oherwydd ei wrthwynebiad dygn i'r ymgyrch hwnnw.²⁵¹

Cymerwn yn ganiataol mai Eglwyswyr oedd pen praffaf o'r rheini a oedd yn derbyn y degwm; yr offeiriaid wrth gwrs, ond hefyd y meddianwyr lleyg. Ond ymysg y lleygwyr hynny oedd yn cymryd y 'briwsion', dichon fod yna Gapelwyr yn eu plith. Yn wir, crybyllicodd rhywun o ardal Llanrhystyd yn ei ateb i holiadur Gee bod hyn yn ffaith, 'Nac oes, dim o'r degwm wedi ei ddychwelyd gan yr Ymneillduwyr

²⁴⁶ *Baner ac Amserau Cymru* (11 Ionawr 1882).

²⁴⁷ *Baner ac Amserau Cymru* (28 Rhagfyr 1881).

²⁴⁸ *Baner ac Amserau Cymru* (30 Tachwedd 1881).

²⁴⁹ *Baner ac Amserau Cymru* (31 Mai 1882).

²⁵⁰ *Baner ac Amserau Cymru* (29 Mawrth 1882).

²⁵¹ Gw. Pennod V.

sydd yn derbyn rhan flynyddol ohono – na chan yr ‘offeiriad’ chwaith’.²⁵² I Gee, yr oedd y syniad o Ymneilltuwyr yn *derbyn* y degwm, heb sôn am rai yn gwrthod cydymffurfio i ostyngiad, yn un annychmygadwy. Yr oedd yr atebiad hwn wedi pericryn syndod iddo, ac fe ofynnodd, ‘Pa fodd y mae yr Ymneilltuwyr yn derbyn rhan o’r degwm? Byddwn ddiolchgar am atebiad’.²⁵³ Yn amlwg felly nid oedd hyn yn rhywbeth cyffredin iawn - yn y gogledd o leiaf. Daeth yr ateb o Lanrhystud mewn ychydig o amser:

Y mae yr Ymneilltuwyr a dderbyniant ddegwm yn y plwyf hwn yn ei dderbyn yn rhinwedd prydles a ganiatawyd i’w tadau gan Ganoniaid Tyddewi, o drigain i bedwar ugain mlynedd yn ôl. Ni buasid yn dwyn y ffaith hon am yr Ymneilltuwyr i sylw oni bae fod rhai o’ch gohebwyd yn rhy law-drwm ar yr ‘offeiriad’ fel derbynwyr degwm.²⁵⁴

Yr oedd y gohebydd felly efo’i resymau dros ddatgelu’r ffaith uchod, ond llais unig ydoedd mewn gwirionedd. Hefyd, gellid dadlau mai amgylchiadau arbennig a roddodd bod i’r sefyllfa uchod.

Pa faint o sylwedd y gellid priodoli i atebion yr holiadur o ran mesur yr ymdeimlad ar y pryd tuag at y degwm ni ellir fod yn hollol sicr. Fel y digwyddir yn aml, y rheini a deimla rhyw fath o gamwri ydyw’r rhai sydd mwyaf uchel eu cloch. Hwyrach gall daearyddiaeth daflu mwy o olau ar hyn. Diddorol ydyw edrych ar Atodiad 3 o ran enwau’r ardaloedd. Dichon ei fod yn arwyddol o gylchrediad a dylanwad *Y Faner* yng Nghymru, a gan mai papur Cymraeg oedd hwnnw, nid syndod ydyw gweld nifer o ardaloedd yn y siroedd Cymreicaf eu hiaith wedi’u rhestru. Er enghraifft, dim ond un atebiad a gafwyd o Sir Faesyfed, a hwnnw o ran uchaf y sir, un atebiad o Sir Frycheiniog ac un atebiad o Sir Forgannwg, a dengys ni dderbynwyd dim byd o gwbl o Sir Fynwy.²⁵⁵ Wrth gwrs, patrwm cyffredinol bras a geir yma, ac nid ydyw’r ffaith na enwir nifer o ardaloedd (yn enwedig yn y siroedd Cymreicaf o ran eu hiaith) yn golygu unrhyw ddiffyg cylchrediad yno, nag unrhyw

²⁵² *Baner ac Amserau Cymru* (12 Ebrill 1882).

²⁵³ *Baner ac Amserau Cymru* (12 Ebrill 1882).

²⁵⁴ *Baner ac Amserau Cymru* (3 Mai 1882).

²⁵⁵ Sir Faesyfed: 6.1% yn medru’r Gymraeg ym 1891; Sir Frycheiniog: 37.8% yn medru’r Gymraeg ym 1891; Sir Forgannwg: 49.5% yn medru’r Gymraeg ym 1891; Sir Fynwy: 15.4% yn medru’r Gymraeg ym 1891. Data yn Dot Jones, *Tystiolaeth Ystadegol yn Ymwneud â’r Iaith Gymraeg, 1801-1911*, t. 225.

ddifaterwch ynglŷn â'r pwnc. Yn yr un modd, nid ydw'r diffyg atebion o'r ardaloedd mwy diwydiannol yn golygu unrhyw ddifaterwch yno ychwaith.

Yn ail, fe chwareodd y rhan helaeth o'r ardaloedd hynny a enwir yn yr holiadur rhyw fath o ran yn ystod 'Rhyfel y Degwm'.²⁵⁶ Gwir, ni chymerodd rhai ohonynt fawr o ran o gwbl yn yr ymgyrch hwnnw, megis yr ardaloedd chwarelyddol o gwmpas Llanberis a'r cyffiniau. Ond ar y cyfan yr oedd holiadur Gee wedi darogan i ryw raddau'r ardaloedd hynny a ffurfiodd asgwrn cefn yr ymgyrch gwrth-ddegymol yng Nghymru yn ystod ail hanner yr 1880au.

Erbyn Ionawr 1886 yr oedd rhai o ffermwyr gogledd Cymru wedi ffurfio cynghreiriau a chlybiau lleol er mwyn deisebu'r landlordiaid am ostyngiad yn y rhenti oblegid y dirwasgiad amaethyddol. Yn nhyb David Howell, dyma'r agosaf y daeth ffermwyr Cymru i gyd-weithio gyda'i gilydd i gyflawni'r diben hon.²⁵⁷ Trafodwyd y degymau hefyd yn ystod y cyfarfodydd hyn, megis yr un a fynychwyd gan dros 90 o ffermwyr yn Nyffryn Clwyd ac un arall yn Llanelwy, Sir y Fflint.²⁵⁸ Gwelodd eraill sut yr oedd y degymau yn pontio dau bwnc pwysig ar y pryd; sef 'cwestiwn y tir' a Datgysylltiad yr Eglwys.²⁵⁹ Ond er i gwŷr megis T. W. Bowdage, Cotton Hall, Dinbych, arsyllu ar ddechrau 1886, '... we hear of movements on foot with the view of obtaining relief from rent and tithes', nid oedd yna unrhyw sôn eto am 'ryfel' yn erbyn y degymau.²⁶⁰ Yn ogystal â hyn, yr oedd disgwyliad y radical o Wyddel, Michael Davitt, i areithio yng ngogledd Cymru ym mis Chwefror wedi creu tipyn o stŵr yn y wasg. Yr oedd ffermwyr a chynhyrfwyr yn rhanedig o barthed ymweliad y Gwyddel; nid yn unig oherwydd ei gefndir troseddol, ond hefyd teimlai rhai nad oedd angen help Davitt i gynorthwyo gyda'r cwestiwn tirol yng Nghymru.²⁶¹

Yn ystod y cyfarfod yn Llanelwy, ystyriodd y ffermwyr ddau opsiwn ynglŷn â sut i leihau eu 'baich' ariannol: 1) Y landlordiaid yn talu'r trethi ar degymau, a'r rhenti yn aros yr un peth; 2) gostyngiad o 50 y cant yn y rhenti, ar ddegymau ar trethi

²⁵⁶ Gw. y map a lunwyd gan Dunbabin yn, J. P. D. Dunbabin, 'The Welsh tithe war, 1886-1995', yn Andrew Charlesworth (gol.), *An Atlas of Rural Protest in Britain 1548-1900* (Llundain, 1983), t. 178.

²⁵⁷ David W. Howell, 'The land question in nineteenth-century Wales, Ireland and Scotland: A comparative study', *Agricultural Review*, cyf. 61, rhif. 1 (Mehefin, 2013), t. 97.

²⁵⁸ 'The Land Agitation in the Vale of Clwyd', *Denbighshire Free Press* (16 Ionawr 1886); 'The Revolt of the Farmers', *Rhyl Advertiser* (23 Ionawr 1886).

²⁵⁹ *North Wales Express* (29 Ionawr 1886).

²⁶⁰ *Denbighshire Free Press* (16 Ionawr 1886).

²⁶¹ Gw. Pennod VII.

i aros yr un fath. Fodd bynnag, yr oedd yna opsiwn amgen arall hefyd. Gellir dadlau fod y ceisiadau am ostyngiad yn y rhenti wedi gosod cynsail oedd yn gymwysedig, yn nhyb rhai degwm dalwyr, i berchenogion y degwm hefyd.²⁶² Felly, yn groes i fwriad Deddf Cyfnewid y Degwm, fe ystyriwyd y degwm fel rhyw fath o rent, a'r degwm feddianwyr fel rhyw fath o landlordiaid. Dyma'r llwybr y cymerodd y rhan fwyaf o ffermwyr, a dyma sut y daeth yr holl helynt i fod. Drwy ddelio gyda pherchnogion y degwm yn uniongyrchol, a gan mai'r Eglwys oedd yn berchen ar swm sylweddol o'r degymau, datblygodd helynt y degwm i fod yn frwydr dros ddatgysylltu'r Eglwys, yn hytrach na chynnwrf yn erbyn y landlordiaid.

VIII.

Casgliad

Felly, ai cyfnod o lonyddwch oedd yr hanner canrif hwnnw ar ôl 1836 o ran anniddigrwydd o barthed y degwm, ynteu cyfnod o gynnwrf cynyddol? Gellir gosod yr ateb rhywle rhwng y ddau begwn. Ar y naill law gellir dadlau mai achlysurol a gwasgaredig oedd yr enghreifftiau o wrthod talu, a'r rhain gan amlaf oherwydd rhesymau economaidd. Nid oes yna reswm i gredu fod yna ymgyrch uniongyrchol i wrthod talu'r degymau wedi ei ddechrau yn ystod y cyfnod hwn, nid hyd yn oed yn ystod terfysgoedd Beca. Ar y llaw arall, parhawyd y rhethreg gwrth-ddegymol, ac wrth i'r nifer o gyfnodolion a phapurau newydd gynyddu yn ystod y ganrif, cynyddu wnaeth y nifer o erthyglau o barthed y degwm.

Ond nid hyd oni'r 1880au cynnar pan ddechreuodd y dirwasgiad amaethyddol ddangos ei ddannedd y cawn y teimlad bod y gwynt yn dechrau newid cyfeiriad. Cyd-ddigwyddodd hyn gyda'r cwestiwn o ddatgysylltu'r Eglwys yn nesau at cyraedd ei anterth. Ys dywedir K. O. Morgan, 'the period when it [disestablishment] was a dominant issue was relatively brief ... only in the 1880s and 1890s did the question clearly come to dominate political and social discussion in Wales ...'²⁶³ Y mae'n ddilys gofyn, os dilynwn y llinyn bod pen praffaf o

²⁶² 'Farmers' Rent Agitation in Wales' *Cardiff Times* (3 Ionawr 1885); 'Land Agitation in North Wales – A Meeting of Flintshire Farmers,' *Weekly Mail* (26 Rhagfyr 1885); *North Wales Express* (25 Rhagfyr 1885).

²⁶³ K. O. Morgan, *Freedom or Sacrilege? A History of the Campaign for Welsh Disestablishment* (1965), t. 31

Anghydfurfwyr yn casáu talu'r degwm i gynnal yr Eglwys, pam y cymerodd hi mor hir i unrhyw fath o anghydfod arwyddocaol ymddangos yng Nghymru. Yn amlwg nid oedd y gydwybod Ymneilltuol ynddo'i hun yn ddigon. Yr oedd yn rhaid cael rhyw fath o sbardun, a phan ddaeth y sbardun hwnnw erbyn diwedd y ganrif mewn ffurf o dirwasgiad economaidd amaethyddol, yr oedd yr hinsawdd wleidyddol erbyn hynny yn foddianol iawn i gynnal protest gwrth-ddegymol. Os oedd Cymru i gael 'Rhyfel y Degwm,' yn yr 1880au a'r 1890au buasai hynny, a dyna, fel y gwyddom, a ddigwyddodd.

RHAN II

‘RHYFEL Y DEGWM’, 1886-1895

Pennod IV

Braslun o'r Helynt

Rhagarweiniad

Nid ydyw'r bennod hon yn ymgeisio i roddi cyfrif naratif llawn o'r helynt ynglŷn â'r degwm yng Nghymru rhwng 1886-1895. Hynny yw, nid oes modd trafod pob cais am ostyngiad, pob atafaeliad, pob arwerthiant a phob mân ddigwyddiad yng Nghymru a oedd yn gysylltiedig â'r degwm. Yn hytrach, yr amcan ydyw hel rhai o'r prif ffeithiau at ei gilydd a'u gosod mewn rhyw fath o unoliaeth gronolegol - i greu 'sgerbwd' o'r helynt, megis. Gwendid mwyaf o fewn yr hanesyddiaeth ydyw diffyg cyfrif cronolegol cyflawn o 'Rhyfel y Degwm'. Y mae yna ddau brif rheswm am hyn: 1) Strwythur a 2) Ffocws rhanbarthol. Gan bod y rhan helaeth o'r triniaethau ar ffurf erthygl (neu bamffled byr), y mae cyfyngiadau gofodol wedi peri haneswyr i geisio darganfod cydbwysedd rhwng cynnig cefndir cyffredinol, adrodd yr hanes ac i gynnig dadansoddiad. Oblegid hyn y mae lliw a manylder y cyfrif cronolegol yn tueddu i ddiodef.

Y mae yna duedd i'r gweithiau hyn fod yn rhanbarthol eu natur. Nid ydyw hyn yn feirniadaeth o astudiaethau rhanbarthol. Ar y cyfan y mae'n eglur o'r teitlau (neu o'r cylchgrawn hanesyddol sirol yr ymddangosant ynddynt) mai ffocysu ar ardal benodol o Gymru y gwnânt. Ond rhaid bod yn fwy beirniadol o'r gweithiau hynny sydd yn ffocysu'n ormodol ar y gogledd-ddwyrain wrth gynnwys y term 'Rhyfel y Degwm' yn gyffredinol yn eu teitlau. Dewisodd Donald Richter y teitl canlynol i'w erthygl yn *Cylchgrawn Hanes Cymru*, 'The Welsh Police, The Home Office, and the Welsh Tithe War of 1886-91'. Y mae'n wallus i ddyddio 'Rhyfel y Degwm' rhwng 1886-1891 oherwydd nid ydyw'r ffrâm amser hyn yn cymryd i ystyriaeth y digwyddiadau yng Nghymru rhwng 1891 ac 1895. Pe byddai Richter wedi ystyried hyn, dichon fe fyddai wedi ymdrin ag ymyrraeth H. H. Asquith (Ysgrifennydd Cartref) ym 1893 a 1894 ynghylch yr heddlu a helyntion y degwm.¹ Y mae J. P. D. Dunbabin yn delio'n gyffredinol â 'Rhyfel y Degwm', ond cryfder ei waith ef ydyw

¹ Eto, y mae Richter yn cyfeirio at waith Dunbabin yn ei erthygl, ac y mae Dunbabin yn sôn am ymyrraeth Asquith fel Ysgrifennydd Cartref.

syniadau a damcaniaethau, yn hytrach na chynnig cronoleg cyflawn o'r helynt. Elwyn L. Jones yn anad neb sydd wedi ymgeisio i roi sylw neu lltuol i helyntion y de-orllewin, ochr yn ochr â'r rhai yn y gogledd. Serch hynny, y mae'n ddiddorol nodi ei fod wedi rhannu ei benodau yn, 'Hynt y Gogledd' a 'Hynt y De'. Yn ogystal â hyn, amharwyd ychydig ar lif y gronoleg oherwydd y ffactorau a soniwyd am eisoes ynghylch strwythur.

Gyda hyn i gyd mewn golwg, prif fwriad y bennod hon ydyw cynnig cyfrif cyffredinol cryno o hynt a helynt y cyffro er mwyn gosod fframwaith cronolegol i'r penodau mwy thematig a dadansoddol yn yr adran nesaf. Un o brif fanteision strwythur o'r fath ydyw gellir rhoddi cyfrif cronolegol o 'Rhyfel y Degwm' heb amharu ar lif yr ysgrifen drwy ei horlwytho â ffeithiau a digwyddiadau. Prif fwriad y penodau thematig ydyw edrych yn *fanwl* ar wahanol elfennau o fewn 'Rhyfel y Degwm', ac i ymhaelaethu ar yr hyn a geir yn y bennod hon. Y mae'n hanfodol gosod y penodau hyn o fewn cyd-destun cronolegol, oherwydd os na wneir hynny, y mae yna berygl o greu ychydig o ddryswch drwy neidio o un dyddiad i'r llall heb unrhyw fath o gyfeirnod cronolegol.

Bwriad arall y bennod ydyw dod â holl weithiau haneswyr eraill at ei gilydd, ac i ategu'r rhain at ffynonellau cynradd er mwyn ychwanegu at ein gwybodaeth i greu cronoleg mwy cyflawn a chywir. Ond wrth greu naratif cydlynol o'r helyntion yng ngwahanol ardaloedd yng Nghymru, rhaid gwyllo rhag ofn ystyried hwy fel rhan o symudiad unedig ar draws Cymru. Dywedodd R. R. Davies er medr y Cymry i gyd-drefnu yn ystod gwrthryfel Owain Glyn Dŵr, '... long periods of the revolt was little more than the sum of its local episodes'.² Er bod bron i bum can mlynedd yn gwahanu'r ddau ddigwyddiad, gellir dadlau fod yr union arsylliad yn addas mewn termau cyffredinol i ddisgrifio 'Rhyfel y Degwm' hefyd.³

² R. R. Davies, *The Revolt of Owain Glyn Dŵr* (Rhydychen, 1995), t. 100.

³ Nodyn: Er mwyn osgoi gorlwytho'r bennod hon â throednodiadau, cyfyngwyd hwy i ddiwedd pob paragraff.

I.

Ionawr 1886 – Ebrill 1887

Gellir olrhain tarddiad yr ymgyrch a ddeuai i'w adnabod yn boblogaidd fel 'Rhyfel y Degwm' i weithred ddigymell rhai o ffermwyr plwyf Llandyrnog yn ystod mis Rhagfyr 1885. Gan fod y degymau yn ddyledus ym mis Ionawr, deisebwyd y Parchg. David Williams am ostyngiad o 10 y cant cyn eu talu. Talodd oddeutu 50 o ffermwyr eu degymau yn llawn i orychwyliwr y rheithor yn Ionawr 1886, ond gwrthododd 17 os na chaent ostyngiad. Yr oedd Williams yn amharod i gydymffurfio gyda chais y ffermwyr am ostyngiad o 10 y cant, ac o ganlyniad fe ymgasglodd rhai o'r ffermwyr yn y Golden Lion er mwyn penderfynu ar y cam nesaf. Dyma'r diferyn cyntaf o aniddigrwydd a ddatblygodd yn llif chwymr erbyn diwedd 1886.⁴

Ymledodd rhagesiampl ffermwyr Llandyrnog fel tân gwyllt i blwyfi eraill yn y cyffiniau. Ym mis Chwefror fe dderbyniodd y Dirprwywyr Eglwysig ddeisebau yn gofyn am ostyngiad yn eu degymau o Lanrhaedr-yn-Nghinmeirch, Llanynys, Llanefydd, Bodfari a Llansannan. Dengys mai rhwng 10-25% oedd y gostyngiad arferol a roddwyd yn eu rhenti gan landlordiaid, a felly'r symiau hyn oedd hefyd yn ddisgwyliedig fel gostyngiad gan y Dirprwywyr. Gwrthododd y Dirprwywyr phob cais. Nid oeddynt eisiau gosod cynsail y gellid ei ddilyn yn Lloegr. Yr oedd y periglorion plwyfol, a oedd yn gorfod byw ymhlith y plwyfolion, yn llawer mwy tebygol o ostwng rhywfaint yn eu degymau. Yr oedd *rhywfaint* yn well na *dim*. Pa fodd bynnag, yr oedd rhai yn fwy parod nag eraill i wneud hynny.⁵

Cyd-ddigwyddodd dechreuad 'Rhyfel y Degwm' â thryblith gwleidyddol ym Mhrydain oherwydd y dadlau a'r rhwygiadau a fu ynghylch pwnc llosg y dydd - Ymreolaeth i'r Iwerddon. Pan gyflwynodd Gladstone ei fesur Hunanlywodraeth i Iwerddon ym mis Chwefror, fe ddieithriodd y garfan Chwigaid yr ardalydd Hartington a charfan radical Chamberlain o fewn ei blaid. Trechwyd y mesur, ac

⁴ Gan amlaf yr oedd y degwm yn ddyledus pob Ionawr a Gorffennaf o fewn y flwyddyn. PP 1887 XXXVIII, Minutes of Evidence of an Inquiry as to Disturbances Connected with the Levying of Tithe Rentcharge in Wales, C. 3420-41.

⁵ Aberystwyth, Llyfrgell Genedlaethol Cymru (LIGC), ECE 70,008i – Part 1 - Estates Management – Tithe Rentcharges – Distraints in Wales: Deiseb o Lanrhaedr-yn-Nghinmeirch (2 February 1886); Deiseb o Llanynys (6 February 1886); Deiseb o Llanefydd (12 February 1886); Deiseb o Bodfari (17 February 1886); Deiseb o Llansannan (25 February 1886). Llythyrau yn gwrthod y deisebau yn dilyn pob un yn y casgliad. Llythyr o G. Pritchard (Llanefydd) i'r Dirprwywyr, 'Many clergymen returned 10% and Landlords from 10-20% on rents'. (8 March 1886). Gw. deiseb o Aberwheeler, *Denbighshire Free Press* (13 Chwefror 1886).

oherwydd i Gladstone golli ymddiriedolaeth y Tŷ Cyffredin, yr oedd yn rhaid cael etholiad cyffredinol arall ym mis Gorffennaf. Yr oedd hyn llai na blwyddyn ar ôl cynnal yr un diwethaf. Collodd Gladstone, a rhwng 1886-1892 y Ceidwadwyr o dan arweinyddiaeth yr Arglwydd Salisbury oedd mewn grym. Arhosodd y Cymry yn deyrngar i Gladstone, a dichon mai'r canlyniad mwyaf arwyddocaol oedd i'r garfan Gymreig ffurfio 'Plaid Gymreig' o fewn y Blaid Rhyddfrydol. Hyrwyddwyd a galwyd am ddeddfwriaeth i Gymru'n unig: datgysylltiad, addysg ganolradd, pwnc y tir, ymreolaeth a.y.b.⁶

Y mae'n arwyddocaol felly mai gwrthblaid oedd y Rhyddfrydwyr drwy ran helaeth o 'Ryfel y Degwm', a hwyrach fe ychwanegodd hyn ychydig o fin i'r ymgyrch. Nid oedd yna fawr o obaith am fesur i ddatgysylltu'r Eglwys yng Nghymru, gyda llywodraeth Geidwadol Salisbury yn mabwysiadu'r safiad i amddiffyn y drefn bresennol yn ddygn. Dyma oedd rhan o apêl y Ceidwadwyr i garfan sylweddol o'r etholaeth, yn enwedig yn Lloegr. Ar 9 Mawrth 1886 fe gyflwynodd Lewis Llewellyn Dillwyn gynigiad o blaid datgysylltu'r Eglwys yng Nghymru ger bron y Tŷ Cyffredin. Yr oedd hyn ychydig dros bymtheg mlynedd wedi cynigiad Watkin Williams nôl ym 1870. Er trechwyd cynigiad Dillwyn o 241 o bleidleisiau i 229, cynnydd aruthrol o'r 45 a bleidleisiwyd o'i blaid ym 1870. Nid oedd dim perygl y tro hwn o orfod disgwyl dros bymtheg mlynedd am y cynnig nesaf. Gwasgwyd helyntion y degwm rhwng cynigiad Dillwyn ym 1886 a'r mesur cyntaf i Ddatgysylltu'r Eglwys yng Nghymru ym 1894. I nifer o ddatgysylltwyr, yr oedd amseriad y cynnwrf yn y plwyfi yn ffodus i ddweud y lleiaf oherwydd fe ychwanegodd helyntion y degwm elfen o nwydwylltedd i'r ymgyrch.⁷

Yn y de-ddwyrain y gwelwyd yr achos cyntaf ym 1886 o eiddo unigolyn yn cael ei atafaelu a'i werthu er mwyn adfer y degwm. Ar 17 Ebrill fe gymerodd y Parchg. J. C. Llewellyn, Trefethin, gamau cyfreithiol er mwyn adfer y swm o £2. 6s.

⁶ K. O. Morgan, *Wales in British Politics, 1868-1922* (Caerdydd, 1991), Pennod III; K. O. Morgan, *Rebirth of a Nation: A History of Modern Wales* (Rhydychen, 1981), Rhan I.

⁷ Gw. y gweithiau canlynol am wahanol agweddau o hanes yr ymgyrch i ddatgysylltu'r Eglwys yng Nghymru o ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg ymlaen: K. O. Morgan, *Freedom or Sacrifice? A History of the Campaign for Welsh Disestablishment* (1965); Morgan, *Wales in British Politics*; P. M. H. Bell, *Disestablishment in Ireland and Wales* (Llundain, 1969), tt. 226-329; 'W. B. George, 'Welsh disestablishment and Welsh nationalism', *Journal of the Historical Society of the Church in Wales*, 20, 25 (1970) tt.39-76, 77-91; Paul O'Leary, 'Religion, nationality and politics: disestablishment in Ireland and Wales, 1868-1914', yn J. R. Guy a W. G. Neely (gol.), *Contrasts and Comparisons: Studies in Irish and Welsh Church History* (Llandysul, 1999), tt. 89-113.

8c. oedd yn ddyledus iddo gan Ryddfrydwr selog o'r enw Peter Eckersley, Trefethin, Pont-y-pŵl. Yn amlwg yr oedd yna deimlad cryf yn erbyn gweithred Llewelyn yn y plwyf, canys fe wrthododd sawl arwerthwr i werthu asyn Eckersley y diwrnod hwnnw. Cynhaliwyd cyfarfod ar ddiwrnod yr arwerthiant yn datgan na ddylid talu'r degwm er mwyn cynnal yr Eglwys Sefydliedig. Er nad ydyw'r digwyddiad bach hwn wedi dyfod i lôn gwerin 'Rhyfel y Degwm', credodd y Parchg. W. Thomas, Hendy-gwyn ar Daf, ym 1891, 'That was the first seizure I read of in Wales, and to me it seemed a most significant incident that an intelligent bailiff should inaugurate the tithe coercion campaign in South Wales by seizing a donkey with a view to cast him into the purse of the Established Church'. Ni fu fawr o gynnwrf wedi hyn ym mhlwyf Trefethin, felly dichon i Thomas orliwio pethau.⁸

Nôl yn y gogledd fe ymunodd ffermwyr Llangwyfan â'u cyd-amaethwyr yn Llandyrnog yn eu safiad, ac yr oedd y cynnwrf wedi ymledu i Lanarmon yn Iâl, Llandegla, Llanfair Dyffryn Clwyd, Cerrigydrudion a Rhuddlan (rhan o Gymdeithas Ffermwyr Rhyl a'r Cyffuniau) erbyn diwedd Gorffennaf. Yr oedd yr aniddigrwydd wedi ymledu i'r de-orllewin hefyd, gydag amaethwyr Penbryn, Sir Aberteifi, Elim a Ffynnon Ddrain, Sir Gaerfyrddin a Hendy-gwyn-ar-daf, ar y ffin rhwng Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin, yn cynnal cyfarfodydd. Yr oedd hen ardal Beca wedi deffro.⁹

Parhaodd y tensiwn yn Llandyrnog am rai misoedd nes i'r amser ddyfod i dalu'r degwm unwaith yn rhagor yng Ngorffennaf. Ond erbyn hyn yr oedd David Williams yn awyddus i ddod i ryw fath o gytundeb gyda'r ffermwyr. Cynigiodd 5 y cant o ostyngiad yn y degymau oedd yn ddyledus yn Ionawr, ac o dan bwysau fe gytunodd i ostyngiad o 10 y cant yn y degymau oedd yn ddyledus yng Ngorffennaf - er bod y cais wedi codi i 20 y cant erbyn hynny. Yr oedd hyn yn ddigon am y tro i ohirio'r trwbl a ddisgwylwyd gan rai o'i gyd-frodyr yn y plwyfi cyfagos.¹⁰

⁸ *South Wales Echo* (21 Ebrill 1886); *Pontypridd Chronicle* (23 Ebrill 1886); *Tarian y Gweithiwr* (22 Ebrill 1886); *Dydd* (23 Ebrill 1886); Rev. W. Thomas, *The Anti-Tithe Movement in Wales: Its Justice, Morality and Legality* (Llanelli, 1891), t. 3; *South Wales Daily News* (14 Mai 1887; 31 Hydref 1889; 8 Tachwedd 1890).

⁹ *Baner ac Amserau Cymru* (19 Mai; 23 Mehefin; 28 Gorffennaf 1886); LIGC, ECE 70,008i – Part 1 - Estates Management – Tithe Rentcharges – Distraints in Wales: Deiseb o blwyf Rhuddlan (6 Ebrill 1886); Robert M. Morris, 'The Tithe War', *Trafodion Cymdeithas Hanes sir Ddinbych*, cyf. 32 (1983), t. 67.

¹⁰ PP 1887 XXXVIII, Minutes of Evidence of an Inquiry as to Disturbances Connected with the Levying of Tithe Rentcharge in Wales, c. 3412-3461; *Denbighshire Free Press* (8 Mai 1886; 31 Gorffennaf 1886; 18 Medi 1886).

Ni ellir fod yn hollol bendant pwy oedd y cyntaf i fabwysiadu'r term 'Rhyfel y Degwm' i ddisgrifio'r symudiad yngylch y degymau yng Nghymru. Ar 2 Awst datganodd y *South Wales Daily News*, 'An Impending Tithe War in Wales', tra ar 6 Awst 1886 cyhoeddodd y *Tyst a'r Dydd* bod yna, 'Rhyfel y Degwm yn Nghymru'. Erbyn diwedd mis Awst yr oedd y term wedi lledaenu i bapurau newydd eraill, nid yn unig yng Nghymru, ond yn Lloegr a Iwerddon hefyd.¹¹ Daeth y term i sylw'r Tŷ Cyffredin ar 23 Awst pan ofynnodd J. G. Hubbard (a oedd dros ei bedwar ugain) i'r Ysgrifennydd Cartref, 'Whether his attention has been called to an article in *The Daily News* of the 23rd of August, entitled The Tithe War in Wales?' Aeth Hubbard ymlaen i ymosod ar yr ymgyrch yn fuan wedyn yn y *Times*, gan resynu bod Cymru yn dilyn esiampl 'lamentable' yr Iwerddon. Ymddengys na wnaeth y *Faner* ddefnydd o'r term nes dechrau mis Medi, gan ddefnyddio 'Helynt y Degwm', neu 'Brwydr Fawr y Degymau' cyn hynny yn ei benawdau. Ond y mae un peth yn sicr, yr helyntion yn Llanarmon-ar-iâl a roddodd fod iddo.¹²

Lle bo dwy garfan mor benstiff â'i gilydd, ceir trwbl. Nid oedd y Parchg. Evan Evans am ostwng ei ddegymau o 25 y cant, ac nid oedd ffermwyr Llanarmon am dalu'n llawn ychwaith. Ar 17 Awst daeth pum beili i Lanarmon i atafaelu ar wartheg rhai o'r ffermwyr hynny oedd yn gwrthod talu, a daeth hi'n hysbys bod yr arwerthiant i gymryd lle ar 23 Awst. Methwyd â chael gafael ar arwerthwr, ac fe gynhaliwyd cyfarfod ar un o'r ffermydd, gyda John Parry, Llanarmon a Howel Gee, Dinbych, fel y prif siaradwyr yn condemnio ymddygiad y ficer. Yn y cyfamser yr oedd oddeutu 50 o fwynwyr calch o Minera wedi gorymdeithio yno yn cario pastynau. Apeliodd yr arweinwyr am heddwch, ond pan gyrhaeddodd y cerbyd a oedd yn cludo'r bagad gwerthu i'r golwg, gorchwyl anodd iawn oedd i geisio ffrwyno cyffro'r dorf. Tarwyd y clerc ar ei ffordd mewn i'r fferm, ond fe lwyddodd i ddianc i'r tŷ. Rhedodd oddeutu 40 o bobl ar ôl y trap, ac wrth i hwnnw gyflymu, taflwyd un o'r beiliaid oddi arno, ac yn ôl un adroddiad curwyd ef yn ddirugaredd. Dihangodd y clerc wedi i bethau dawelu ychydig. Dyma'r ysbrydoliaeth y tu ôl i ddarlun 4.1.¹³

¹¹ *Y Goleuad* (28 Awst 1886); *Werin* (28 Awst 1886); *Gwylidydd* (1 Medi 1886); *Daily News* (23 Awst 1886); *Times* (28 Awst 1886); *Freeman's Journal* (23 Awst 1886).

¹² Hansard HC 23 Awst 1886, cyf. 308, col. 254; *Times* (30 Awst 1886); *Baner ac Amserau Cymru*, (18, 21, 25 Awst 1886; 4 Medi 1886; 15 Medi 'Rhyfel y Degwm').

¹³ *Baner ac Amserau Cymru* (18 Awst 1886); *Daily News* (23 Awst 1886); *The Standard* (24 Awst 1886).

Buddugoliaeth fer oedd hon mewn gwirionedd i drigolion Lanarmon. Dychwelodd y bagad gwerthu ar 26 Awst, ond y tro hwn yr oedd 60 o blismyn yn eu gwarchod. Llwyddwyd hwy i osgoi ail-adroddiad o'r chwalfa a fu ynghynt, er gwaethaf ymdrechion y dorf i'w profocio drwy taflu cerrig atynt. Yr oedd yn rhaid dychwelyd ar 10 Medi i orffen y gwaith. Yn y cyfamser ar 3 Medi yr oedd 80 o blismyn yn diogelu arwerthwr nid nepell i ffwrdd mewn arwerthiant yn Llanfair Dyffryn Clwyd. Oni bai am eu presenoldeb, mwy na thebyg buasai'r dorf wedi ymosod arno. Wythnos yn ddiweddarach fe ddychwelodd y criw gwerthu a bagad o 81 blismyn i Lanarmon. Yr oedd torf o oddeutu 400-500 wedi ymgynnull, ac fe daflwyd cerrig a wyau at yr arwerthwyr. Ond ymddengys ni ddigwyddodd unrhyw fath o drais difrifol. Wedi'r helyntion hyn fe ildiodd Evans a rhoddodd 2s. yn y £1 yn ôl yn ei ddegymau i bawb (hyd at 1889), oblegid yr oedd ef wedi gorfod gwario oddeutu £100 i adfer gwerth £30 o ddegymau.¹⁴

Darlun 4.1 Yr helynt yn Llanarmon-yn-iâl ar 23 Awst 1886

Ffynhonnell: The Illustrated Police News (18 Medi 1886)

¹⁴ LIGC SA/Tithe/1-207/Llanarmon yn Iâl; PP 1887 XXXVIII, c. 1049-50, 2946-52 a 4594; Jones, *Gwaedu Gwerin*, tt. 33-34; Frank Price Jones, 'Rhyfel y Degwm', t. 79; Tim Jones, 'Rioting in North East Wales', tt. 57-58.

Yn amlwg fe deimlodd cynhyrfwyr megis y tylwyth Gee, John Parry, Owen Williams, Glan Clwyd ac eraill bod yna botensial i'r ffenomenon o wrthod talu'r degymau. Ar 7 Medi fe ffurfiwyd, 'Cymdeithas er Cynorthwyo Gorthrymedigion y Degwm'. Gellid ystyried hyn yn ymdrech i roddi cyfeiriad a nawswyddogol i'r holl beth. Prif amcanion y Gymdeithas oedd casglu arian er mwyn cynnig cymorth i'r rheini a oedd ar eu colled drwy wrthod talu'r degwm, i gynnig cymorth cyfreithiol, ac i sicrhau bod yr ymgyrch yn cael ei 'ymladd' mewn modd cyfansoddiadol. Bwriad arall y Gymdeithas oedd cysylltu'r ymgyrch degymol â'r ymgyrch i ddatgysylltu a dadwaddoli'r Eglwys yng Nghymru. Fel rhan o bwyllgor y Gymdeithas, penodwyd Owen Williams a Howel Gee yn ysgrifenyddion, a Thomas Gee a John Parry yn drysoryddion.¹⁵

Ystyriodd y ddwy ochr eu hunain fel 'dioddefwyr' yn ystod 'Rhyfel y Degwm', ac fe ddaeth yn frwydr i brofi pwy oedd yn dioddef fwyaf. Ym mis Hydref fe sefydlwyd 'Cymdeithas Amddiffyn y Clerigwyr' yng Nghaer gan ambell i glerigwr a thirfeddianwyr pryderus gyda chysylltiadau â Chymru. Ychydig wedi sefydliad y Gymdeithas fe apeliodd yr Esgob Joshua Hughes (Llanelwy) at ei glerigwyr i fod yn 'amyneddgar' o barthed eu degymau. Yn y blynyddoedd i ddod yr oedd yn rhaid i nifer o glerigwyr ymarfer amynedd nes i wasgfa ariannol brofi'n ormod.¹⁶

Parhaodd y protestiadau i ledaenu ar draws y gogledd-ddwyrain yn ystod tymor yr Hydref, ac hefyd i'r gorllewin i Sir Gaernarfon ac i'r de i Sir Feirionnydd a Sir Drefaldwyn. Yr oedd David Lloyd George, nid eto'n ffigwr adnabyddus drwy'r wlad, yn cynhyrfu y tu ôl i'r llenni o gwmpas ardal Llanystumdwy a'r cylch. Y mae'n werth nodi mai'r helyntion ynghylch y degymau yn Llanarmon a ysgogodd T. E. Ellis, yr Aelod Seneddol ifanc newydd dros Feirionnydd, i ofyn ei gwestiwn cyntaf yn Nhŷ'r Cyffredin. Yr oedd gwahanol rannau o'r de yn gofyn am ostyngiadau erbyn hyn hefyd, megis, Llangolman, Dinas Powys, Bedwellte,

¹⁵ *Baner ac Amserau Cymru* (15 Medi 1886); PP 1887 XXXVIII, Report, Appendix C., t. 9.

¹⁶ Jones, 'Rhyfel y Degwm', t. 89; *Caernarvon and Denbigh Herald* (29 Hydref 1886).

Cwmaman, Bryncethin, Llanfihangel-Talyllyn, Llandybie, Llantrisant a Llandilio Pertholey ger Y Fenni.¹⁷

Erbyn wythnosau cyntaf Rhagfyr fe geisiodd asiantiaid y Dirprwywyr Eglwysig atafaelu yn ardal Chwitfordd, Sir y Fflint. Cwmni o'r enw Smiths and Gore oedd yn gyfrifol am hyn, a gŵr o'r enw Charles Vivian Stevens oedd gyda'r dasg anniolchgar (am weddill y cythrwfl) o fod yng nghanol y cyffro yn trefnu pethau. Y broblem fwyaf oedd gwarchod yr eiddo nes diwrnod yr arwerthiant. Ar un fferm fe wnaeth torf o oddeutu 200-300 o bobl hela dau feili am filltiroedd drwy'r cefn gwlad a'u gorfodi i fynd ar drên yn ôl i Gaer. Ar 20 Rhagfyr daeth dydd yr arwerthiant, ac oblegid yr helynt a fu ynghynt, gwarchodwyd yr arwerthwr (E. J. Roberts 'ap Mwrog') gan 80 o blismyn.¹⁸

Pan gyrrhaeddasant y fferm gyntaf (un o bedair y diwrnod hwnnw) yr oedd torf rhwng 1,000-2,000 yn eu disgwyl, ac fe taflwyd peli eira atynt. Ond aeth pethau yn fwy difrifol pan ddechreuodd pobl daflu cerrig a phastynnu'r heddlu. Ciliodd y criw i werthu ar fferm arall. Yr oedd y dorf erbyn hyn wedi chwyddo i oddeutu 3,000 o bobl, ac yr un fath o ymddygiad a welwyd ar yr ail fferm. Ail-adroddwyd hyn ym mhob fferm. Ond er gwaethaf yr amodau, yr oedd Stevens a'i griw wedi llwyddo i gasglu'r arian dyledus. Y diwrnod wedyn aeth Prif Gwnstabl sir Ddinbych a 80 o blismyn i gyffiniau Abergele (Pensarn) er mwyn gwarchod ap Mwrog a'i griw. Er cafwyd ysgarmes fach rhwng rhai o'r dorf a'r heddlu, nid oedd y lefel o drais cyn waethed â'r diwrnod ynghynt. Serch hynny, fe gafodd y dorf afael ar ap Mwrog y tro hwn, a'i daflu i mewn i bwll gerllaw. Er bod y dorf yn Chwitfordd ac Abergele wedi dangos rhywfaint o ddisgyblaeth o ran gwthio'r ffiniau â'r heddlu, yr oedd y digwyddiadau hyn yn rybudd o sut y gallai pethau fynd o ddrwg i waeth yn weddol gyflym.¹⁹

¹⁷ *Baner ac Amserau Cymru* (28 Mai; 13 Hydref; 23 Hydref 1886); *Cardiff Times* (6 Tachwedd 1886); *South Wales Daily News* (28 Hydref 1886); *Western Mail* (30 Hydref 1886); *Goleuad* (30 Hydref 1886). Emyr Price, 'Lloyd George a 'Rhyfel y Degwm' yn Llŷn ac Eifionydd 1886-8', *Trafodion Cymdeithas Hanes sir Gaernarfon*, cyf. 39 (1978), t. 155; T. I. Ellis, *Thomas Edward Ellis – Cofiant*, *Cyfrol 2* (Lerpwl, 1948), t. 168.

¹⁸ LIGC, ECE 70,008i – Part 1 - Estates Management – Tithe Rentcharges – Distraints in Wales: Smiths and Gore i'r Dirprwywyr (17 Tachwedd 1886); Smiths and Gore i'r Dirprwywyr (1 Rhagfyr 1886); Jones, *Rioting*, t. 59.

¹⁹ LIGC, ECE 70,008ii – Part 2 - Estates Management – Tithe Rentcharges – Distraints in Wales: Smiths and Gore i'r Dirprwywyr (22 Mawrth 1887); Jones, *Rioting*, tt. 59-60.

Cymerodd y Gymdeithas Rhyddhad Crefydd rhywfaint o ddi-ddordeb yn yr ymgyrch erbyn diwedd 1886, ond dengys nad oeddynt yn awyddus i gysylltu ei hunain gydag 'anghyfreithlondeb'. Nid oedd yna fawr o gyfle iddynt gael unrhyw ddylanwad ar yr ymgyrch beth bynnag. Yr oedd datgysylltiad bellach wedi datblygu uwchseiniau cenedlaetholdeb Cymreig, ac yr Aelodau Seneddol Cymreig (o dan arweinyddiaeth Stuart Rendel) oedd ei brif hyrwyddwyr erbyn hyn. I bob pwrpas fe nodweddodd 'Rhyfel y Degwm' y diwedd i ddylanwad y gymdeithas yng Nghymru fel grym ym materion cydraddoldeb crefyddol. Yr oedd y gymdeithas a wnaeth cymaint i hyrwyddo datgysylltiad yng Nghymru bellach wedi cael ei ddiystyru.²⁰

Ym mis Rhagfyr fe gynhaliodd Gee gyfrifiad dirgel o rifau presenoldeb rhai o addoldai Dyffryn Clwyd a'r cyffiniau. Heb os y rheswm oedd i geisio dangos 'mantais rifiadol' yr anghydfurfwyr yn yr ardal, ac i 'gyfreithloni'r' ymgyrch gwrth-ddegymol drwy drïo 'profi' mai eglwys y 'lleiafrif' oedd yr Eglwys Sefydledig. Gan na hysbyswyd yr awdurdodau eglwysig o'r cyfrifiad hwn, fe gynhaliwyd un arall ar 9 Ionawr 1887 – ond y tro hwn drwy Gymru gyfan. Mewn gwirionedd nid oedd gan Gee'r trefniant addas i reoli'r fath cyfrifiad. Yr oedd bylchau mawr yng nghanlyniadau'r de, ac ni dderbyniodd nifer o'r capeli mwyaf anghysbell y ffurflenni priodol mewn pryd. Cyhuddodd yr Anghydfurfwyr a'r Eglwyswyr ei gilydd o ffugio'r ffigyrau, ac oblegid hyn fe ddibrisiwyd y ffigyrau, yn enwedig gan y Methodistiaid. Ni chyhoeddodd Gee'r canlyniadau yn llawn nes canol 1889. Yr oedd yr holl beth wedi bod yn gamgymeriad.²¹

Yr oedd Mesur Adferiad y Degwm eisoes wedi'i gyflwyno yn Nhŷ'r Arglwyddi ym mis Mawrth 1886, ond fe wrthodwyd ef gan y Tŷ Cyffredin. Gyda'r trwbl yng Nghymru yn cynyddu, a rhai ardaloedd o Loegr megis Swydd Caint wedi'u cynhyrfu, fe gyflwynodd Arglwydd Salisbury fesur arall ym mis Mawrth 1887. Cyfaddefodd fod cymal 80 o Ddeddf y Degwm 1836 wedi'i osgoi gan gytundebau rhwng landlordiaid a thenantiaid. Un o brif amcanion y mesur felly, ymysg pethau eraill, oedd trosglwyddo'r cyfrifoldeb i dalu'r degwm o'r tenant i'r tîrfeiddiannwr. Rhoddodd hyn obaith i'r clerigwyr ac i dderbynwyr eraill y degwm

²⁰ D. W. Bebbington, *The Nonconformist Conscience: Chapel and Politics, 1870-1914* (Llundain, 1982), tt. 33-34.

²¹ Am esiamplau o'r cylchlythyrau a anfonodd Gee i swyddogion y capeli a'r eglwysi ynghylch y cyfrifiad gw. LIGC, 782B. HC Deb 14 May 1889, cyf. 336, col. 70-120; *Baner ac Amserau Cymru* (5,12,15 Mehefin 1889); Jones, *Cofiant Thomas Gee*, tt. 460-464; Ieuan Wyn Jones, *Y Llinyn Arian* (Dinbych, 1998) tt. 128-129.

oherwydd credasant y buasai'r tირfeddianwyr, ac yn enwedig y tირfeddianwyr o Eglwyswyr, yn fwy parod na'r tenantiaid anghydfurfiol i dalu'r degwm. Ond cafwyd eu siomi. Methodd y Mesur, nid yn unig ym 1887, ond hefyd ym 1888, 1889 ac ym 1890 nes o'r diwedd fe basiwyd ef ym 1891. Canlyniad hyn, wrth gwrs, oedd galluogi 'Rhyfel y Degwm' i barhau'n llawer hirach na'r angen. Ond ni newidiodd y modd yr adferwyd y degwm lawer, ac wrth gwrs, nid oedd cymal cyntaf y ddeddf yn gymwys i rydd-ddeiliaid.²²

Gyda'r degwm yn ddyledus erbyn Ionawr 1887, yr oedd y perchenogion yn cael eu deisebu unwaith yn rhagor am ostyngiad. Derbyniodd y Dirprwywyr Eglwysig geisiadau o bob cwr o Gymru, ac yr un llythyr o wrthodiad a yrrwyd yn ôl i bob un. Erbyn mis Mai 1887 adroddwyd Smiths and Gore i'r Dirprwywyr nad oedd swm sylweddol o'r degymau wedi cael eu talu ym mis Hydref 1886 na mis Ionawr 1887. Gyrwyd cyfanswm o 201 o rybuddion deng-niwrnod i'r diffygdalwyr; 153 yn Sir Ddinbych, 41 yn Sir y Fflint a 7 yn Sir Feirionnydd. Gwyddai'r asiantiaid bod ganddynt orchwyl anodd o'u blaenau. Yr oeddynt yn llygaid ei lle.²³

II.

Mai – Tachwedd – 1887

Fe ddechreuodd cynrychiolwyr y Dirprwywyr Eglwysig ar eu gwaith o atafaelu nwyddau yng nghanol mis Mai. Nid syndod ydyw canfod na chafodd hwy fawr o groeso yn yr ardal. Yn wir, fe yrrwyd bagad o feiliaid ymaith o dref Dinbych gan dorf pan ddarganfuwyd eu bod yn lletya yno. Dioddefodd mintai atafaelu amser go ddyrys ohoni ym mhlwyf Llandrillo, Sir Feirionnydd, hefyd. Fe'i rhwystrwyd rhag atafaelu ar ambell i fferm gan y dorf a oedd wedi arfu eu hunain â ffyn. Taflwyd cerrig atynt yng Nghynwyd ac yr oedd yn rhaid iddynt ddianc i lochesu rhag y dorf. Yr hanesyn digrifaf ydyw'r un am wraig fferm yn gollwng tarw yn rhydd ar y beiliaid. Gofynnwyd iddi a oedd 'meistr' y tŷ ar gael. Aeth y wraig i 'nôl' y meistr iddynt, ac wrth gwrs, nid ei gŵr a groesawodd hwy ond tarw! (llun 4.2).²⁴

²² Dunbabin, *Rural Discontent*, t. 224.

²³ LIGC, ECE 70,008ii – Part 2 - Estates Management – Tithe Rentcharges – Distraints in Wales: Smiths and Gore i'r Dirprwywyr (11 Mai 1887).

²⁴ *Baner ac Amserau Cymru* (21 Mai 1887); *Rhyl Advertiser* (21 Mai 1887).

Yn ystod 'Rhyfel y Degwm' fe ysgrifennodd yr Archddiacon D. R. Thomas, Meifod, yn aml i'r *Times* i gondemnio'r ymgyrch. Ond eto, ni wnaeth fawr o safiad o ran mynnu bod ei ddegymau'n cael eu talu'n llawn. Yn ei dyb ef, yr oedd derbyn rhywbeth yn well na derbyn dim. Fodd bynnag, mynnodd awdurdodau Coleg yr Iesu, Rhydychen, taliadau llawn gan ddegwm dalwyr y plwyf. Ar 11 Mai ymgeisiwyd cynnal arwerthiannau ger Meifod, ond oherwydd ymddygiad y dorf fe fethwyd gwerthu dim. Dychwelodd yr arwethwr yn ôl yn niwedd y mis gyda 130 o blismyn i'w ddiogelu. Ond yr oedd y dorf yn drech arno unwaith eto, a methiant oedd y diwrnod ar y cyfan. Ceisiodd y cigydd a oedd wedi prynu'r eiddo o flaen llaw adfeddiannu ambell i fuwch gyda'r nos. Y canlyniad oedd cynhyrfu'r plwyfolion ym mhellach.²⁵

Darlun 4.2 Digwyddiad y tarw ym mhlwyf Llandrillo, Sir Feirionnydd, Mai 1887.

Ffynhonnell: The Illustrated Police News (4 Mehefin 1887)

²⁵ Dunbabin, *Rural Discontent*, tt. 214-216.

Ar 25 a 27 Mai cafwyd yr helyntion adnabyddus yn Llangwm. Yn gyffelyb i'r sefyllfa ym Meifod, yr oedd y periglor plwyfol a golygydd *Yr Haul*, y Parchg. Ellis Roberts (Ellis Wyn o Wyrfai), wedi cytuno i 10% o ostyngiad yn ei ddegymau. Nid oedd y Dirprwywyr Eglwysig wedi rhoddi dim yn ôl fel y gwyddom. Yr oedd Stevens ac ap Mwrog wedi atafaelu ar un neu ddau o fuchod ar 14 Mai, ac yr oedd yr arwerthiant i gymryd lle ar y 25 Mai. Dychwelodd y criw gwerthu am 7.30 y bore i brisio'r anifeiliaid, gyda 12 o blismyn yn eu gwarchod. Hysbyswyd y fro drwy 'gyrn y degwm' neu 'cyrn cinio', a chyn bo hir yr oedd dros gant o bobl wedi dyfod i rwystro Stevens a'i griw. Gyrrwyd y buchod i lawr lôn bach gul, ac yn y diwedd yr oedd yn rhaid i'r bagad gwerthu ymgilio'n waglaw.

Daeth Stevens ac eraill yn ôl ar 27 Mai, ond dim ond un rhingyll a dau gwnstabl oedd yn gwarchod hwy y tro hwn. Penderfyniad rhyfedd gan gofio'r helynt a fu ychydig o ddiwrnodau ynghynt. Aeth pethau yn ddrwg o'r dechrau. Yr oedd trigolion y fro wedi cael gwybod o flaen llaw yr union amser yr oedd Stevens a'i griw yn cyrraedd y bore hwnnw. Yr oedd yr amser yn fod yn gyfrinach. Amgylchynwyd coets y criw gwerthu gan y dorf, ac fe darawyd y ceffylau gan achosi iddynt droi yn y fan a thorri polyn y cerbyd. Carlamodd y ceffylau mewn ofn i lawr y ffordd gan daflu'r teithwyr allan. Yr oedd yn rhaid saethu un o'r ceffylau nes ymlaen oherwydd ei anafiadau. Ymosodwyd ar Stevens, ap Mwrog, Amos Maltby ac Edward Vaughan (y priswyr). Ymddengys nad anafwyd y tri heddwes, ond dihangodd Stevens i dŷ cyfagos ar ôl cael ei daro ar ei ben. Daliwyd y gweddill ac fe orfodwyd ap Mwrog a Vaughan i arwyddo datganiad yn eu rhybuddio i beidio â dyfod yn ôl i'r ardal i werthu. Trowyd eu cotiau tu chwith allan, ac fe orymdeithiwyd y bagad gwerthu am saith milltir i orsaf Corwen.²⁶

Ar 11 Mehefin cafwyd ychydig o gyffro ym Modfari. Er mwyn osgoi'r chwalfa a fu yn Llangwm, sicraodd y prif gwnstabl Leadbetter bod y fintai diogelu

²⁶ LIGC, ECE 70,008ii – Part 2 - Estates Management – Tithe Rentcharges – Distraints in Wales: Datganiad gan Charles V. Stevens a gymerwyd ar 31 Mai 1887 (9 Mehefin 1887); Llangwm – Denbigh – Tithe Rent Charge (9 Mehefin 1887); S. A. Blackwood (Ysgrifennydd y Swyddfa Bost, Llundain) i'r Dirprwywyr (13 Mehefin 1887); LIGC, MS 19752E, Llythyrau Helynt y Degwm gan Thomas Thomas, Tŷ Nant; Price Jones, 'Rhyfel y Degwm', tt. 80-82; Eirlys Lewis Evans a Gwilym Evans, 'Rhyfel y Degwm yn Llangwm a'r cylch', *Llên y Llannau* (1986), tt. 62-66; Llwyd o'r Bryn, *Y Pethe* (Bala, Pedwerydd-argraffiad 1962), y bennod 'Stori nhad – un o Ferthyron y Degwm, Llangwm, tt. 95-101; Hugh Evans, *Cwm Eithin* (Lerpwl, Pumed argraffiad 1950), tt. 218-220; Robin Gwyndaf, *Y Ffynnon Arian: Cymdogaeth, Diwylliant a Chapel yn Llangwm, Uwchaled* (Pen-y-groes, 1996), tt. 95-98.

yn ddigonol y tro hwn. Galwyd y fyddin am y tro cyntaf, ac ynghyd â 50-60 o heddweision cafwyd dau blatŵn o gatrrawd Gaer (71 o filwyr) i hebrwng y bagad gwerthu. Serch hynny, ni rwystrodd hyn y dorf o oddeutu 100-200 rhag gwneud pethau'n anodd iddynt. Taflwyd wyau a cherrig, ac aeth pethau'n ddifrifol ar un adeg pan ymatebodd yr heddlu i weithredoedd y dorf. Dilynodd rhywun esiampl Llandrillo drwy adael tarw yn rhydd i ddychryn y criw gwerthu. Yr oedd Ynad o'r enw Turnour yn bresennol ar y diwrnod i ddarllen y Ddeddf Terfysg (*Riot Act*), ond er yr anrhefn, penderfynodd Uwchgaptan Leadbetter i gilio'n ôl yn hytrach na gwneud defnydd o'r ddeddf hwnnw.²⁷

Yr oedd atafaeliadau wedi'u cynnal ar 24 Mai yn ardal Llanelwy a Mochdre, ac yr oedd yr arwerthiannau i gymryd lle ar 16 Mehefin. Diogelwyd y beiliaid ar y diwrnod gan 76 o blismyn ac oddeutu'r un faint o filwyr. Cafwyd ychydig o gyffro yn Llanelwy yn y bore, ond dim byd difrifol. Atseiniwyd sŵn cynn y degwm drwy'r cymoedd a gwelwyd fflagiau ar y brynau i hysbysu'r bobl fod y bagad wedi cyrraedd Mochdre'r prynhawn hwnnw. Chwyddodd y dorf i oddeutu 500, ac yn ôl ap Mwrog yr oedd 3,000 o bobl wedi tyrru yno. Wrth geisio gwerthu ar y fferm gyntaf cafwyd yr ysgarmes waethaf hyd yn hyn rhwng y dorf a'r heddlu. Cafwyd ysgarmes arall nes ymlaen, ac erbyn y drydedd fferm darllenwyd y Ddeddf Terfysg. Ond erbyn hynny yr oedd y gwaethaf o'r ffrwgwd drosodd. Anafwyd 50 o sifiliaid a 34 o blismyn. Fe driniwyd anafiadau'r bobl mewn tŷ o'r enw'r Felin ger llaw, ac edrydd un hanes bod llechi'r llawr yn rhedeg yn goch â gwaed.²⁸

Cyd-ddigwyddodd yr helyntion ag ymweliad enwog Gladstone i Abertawe a'r daith yno o ogledd-ddwyrain Gymru. Cofier bod ei fab, y Parchg. Stephen Gladstone, yn rheithor ym mhlwyf Penarlâg. Yr oedd ef wedi datgan ei fwriad yn niwedd 1886 i ostwng 10% yn ei ddegymau a oedd yn ddyledus yn Ionawr a Gorffennaf 1887. Ond amwys oedd agwedd Gladstone yr hynaf tuag at yr ymgyrch gwrth-ddegymol. Ni chondemniodd ef yr ymgyrch, ond ni ddangosodd fawr o gefnogaeth iddo ychwaith. Er hynny, teimlodd y wasg geidwadol na wnaeth Gladstone ddigon yn ystod ei daith i ddarbwylllo'r Cymry i beidio dilyn esiampl y Gwyddelod sef defnyddio trais i wrthwynebu'r degymau. Ond yr oedd Gladstone yn

²⁷ PP 1887 XXXVIII, Report, t. 5; Jones, *Rioting*, tt. 62-63.

²⁸ PP 1887 XXXVIII, Report, tt. 5-7; Norman Tucker, *Colwyn Bay: Its Origin and Growth* (Bae Colwyn, 1953), tt. 176-179.

gobeithio nad oedd yr helyntion cyn waethed â'r hyn a ddarllenai yn y papurau newydd.²⁹

Dechrau mis Gorffennaf fe wysiwyd 31 o wŷr Llangwm gerbron ynadon Rhuthun am derfysgu. Dengys fodd bynnag mai dim ond 28 a wysiwyd yn swyddogol. Trosglwyddwyd yr achos i'r Brawdlys, ac fe gafwyd dadl ynghylch cael gwrandawriad yng Ngherrigydrudion, gan fod hwnnw'n agosach iddynt yn Llangwm. Ond i fawr syndod pawb fe gynigiodd Henry Matthews, yr Ysgrifennydd Gwladol, y dylid symud yr achos i Lys y Frenhines er mwyn sicrhau prawf 'teg'. Yr awgrym oedd yr amhosibilrwydd o reithgor amhleidiol yn Rhuthun. Trechwyd cynigiad Matthews. Yn y cyfamser fe labelwyd gwŷr Llangwm yn 'Ferthyron y Degwm', ac fe ddechreuwyd cronfa amddiffynol i godi arian tuag at gostau'r achos. Ymddangosodd wyth o'r 'merthyron' gerbron brawdlys Rhuthun ar 28 Chwefror 1888. Cytunwyd iddynt bledio'n euog, ac fe rwymwyd hwy i dalu £20 ac i ymddangos gerbron y llys eto ymhen mis. Ond ni alwyd hwy'n ôl, a dyna oedd ddiwedd yr achos, er anfodlonrwydd ambell i Eglwyswr.³⁰

Tynnwyd sylw Tŷ'r Cyffredin i'r helyntion ym Mochdre gan G. Osborne Morgan, T. E. Ellis ac eraill. Mynnwyd ymchwiliad i ymddygiad yr heddlu'r diwrnod hwnnw, a hefyd i helyntion eraill hyd yn hyn a oedd yn gysylltiedig â chasglu'r degwm. Yr unig achos tu hwnt i'r ymchwiliad oedd yr un yn Llangwm oherwydd bod hwnnw wedi dyfod eisoes yn fater i'r llysoedd barn. Penodwyd John Bridge (ynad yr heddlu o Lundain) fel comisiynydd yr ymchwiliad, er nad oedd yn siarad gair o Gymraeg. Gwrandawodd ar dystiolaeth yng Nghonwy (26-29 Gorffennaf); Rhyl (30 Gorffennaf), Bae Colwyn (1 Awst); Rhyl (2 Awst), Dinbych (2 a 4 Awst); Y Trallwng (5 Awst) a Meifod (6 Awst). Dyfarniad Bridge ar ddiwedd yr holl beth oedd datgan nad oedd yna fai ar yr heddlu na'r awdurdodau. O bosib i osgoi cynhyrfu'r dyfroedd ymhellach, nid oedd yn rhy lawdrwm ar y gwrth-ddegymwyr ychwaith. Ond tueddodd i roddi'r bai ar yr arweinwyr, yn hytrach na'r lliaws

²⁹ *Denbighshire Free Press* (11 Rhagfyr 1886); *South Wales Daily News* (1 Awst 1889); Mike Benbough-Jackson a Neil Evans, 'Ritual, symbol and politics: Gladstone, Swansea and Wales in 1887', *Cylchgrawn Hanes Cymru*, cyf. 26, rhif. 3 (2013), t. 466; Jones, *Cofiant*, tt. 473-474.

³⁰ Gw. Archifdy Sir Ddinbych (ASD), Rhuthun, DD/DM/673/2 – Llyfr yn cynnwys rhestr o'r Tanysgrifwyr tuag at Drysorfa Amddiffynol 'Merthyron y Degwm yn Llangwm'.

cyffredin, am ymgasglu yn y lle cyntaf. Credodd mai'r modd gorau o osgoi'r fath helyntion yn y dyfodol oedd i'r landlordiaid dalu'r degwm yn uniongyrchol.³¹

Dechrau mis Awst yr oedd torf o 500 o bobl ym mhlwyf Trewyddel, Sir Benfro, wedi pledu'r fintai gwerthu (yn cael eu gwarchod gan 20 o blismyn) ag wyau. Ond yn y gogledd o leiaf yr oedd y Dirprwywyr Eglwysig ac eraill wedi gohirio'r atafaelu a'r gwerthu nes i ganlyniad adroddiad Bridge gael ei gyhoeddi. Gobeithiwyd cael mesur i roddi'r degwm ar ysgwyddau'r landlordiaid wedi'i basio hefyd. Ni phasiwyd unrhyw ddeddf ac ymddengys na chafodd adroddiad Bridge fawr o effaith ar gwrs yr ymgyrch.³²

Yn ystod mis Gorffennaf daeth hi'n hysbys bod cynlluniau ar y gweill i ehangu amcanion y Gymdeithas er Cynorthwyo Gorthrymedigion y Degwm. O fis Hydref ymlaen daeth y gymdeithas i'w hadnabod fel, 'Cynghrair Cenedlaethol Tirol Cymru'. Ymhlith ei hamcanion oedd ad-drefnu cyfundrefn y degwm, i alw am ddatgysylltu a dadwaddoli'r Eglwys, ac i hyrwyddo diwygiad yn ymwneud â'r tir yn gyffredinol. Ni alwyd am ddiddymu'r degwm, ond i'w ddargyfeirio tuag at amcanion seciwlar megis addysg. Ynghylch degymau'r Eglwys, deuai hyn yn sgil dadwaddoliad.³³

III.

Rhagfyr 1887 – Mai 1890

Datganodd y *Faner* ym mis Tachwedd fod y 'rhyfel' wedi ail-ddechrau, ond, 'Y Parsoniaid sydd yn ymysgwyd fwyaf yn y dyddiau hyn - ac nid y Dirprwywyr. Pan y cofiwn fod degymau lliaws o honynt heb eu talu er's blwyddyn a hanner, ac y bydd y nesaf yn bedwerydd mewn llawer man, nid rhyfedd eu bod yn methu dioddef yn hwy'. Nid oedd hi'n bosib adfer y degymau os oedd y symiau dyledus wedi dyfod yn ddwy flwydd oed. Creodd hyn elfen o echryndod ymysg nifer o'r clerigwyr, ac fe gyflogwyd cwmni o'r enw Girdleston, Peterson & Todd gan Gymdeithas Amddiffyn y Clerigwyr i gasglu'r degymau iddynt. Daeth yr enw E. W. J. Peterson yr un mor

³¹ Price Jones, 'Rhyfel y Degwm', tt. 88-89.

³² HC Deb 8 Awst 1887, cyf. 318, col. 1541; LIGC, ECE - 70,008ii – Part 2 – Estates Management – Tithe Rent Charge – Distraints in Wales: Smiths and Gore i'r Dirprwywyr (31 Hydref 1887).

³³ *Baner ac Amserau Cymru* (20 Gorffennaf 1887; 22 Hydref 1887); *South Wales Daily News* (Swansea Edition) (23 Rhagfyr 1887).

gyfarwydd ag un Stevens i'r rheini oedd yn darllen yr adroddiadau beunyddiol yn y papurau newydd o barthed 'Rhyfel y Degwm'. Yr oedd gan y cwmni dros 700 o enwau ar eu llyfrau oedd angen eu hymweld er mwyn casglu eu degymau.³⁴

Yr oedd Smiths and Gore bellach wedi newid eu tactegau hefyd. Yn hytrach nag atafaelu ar gyfran fechan o ffermydd o fewn un plwyf cyn symud ymlaen i'r nesaf, penderfynwyd mynd o blwyf i blwyf gan gasglu'r *holl* ddegymau oedd yn ddyledus i'r Dirprwywyr Eglwysig. Cytunodd Smiths and Gore i gydweithio â Girdlestone a'i gwmi, ond daeth y cytundeb hwn i ben ar 30 Mawrth 1888 oherwydd y costau. Yn ystod y misoedd Mawrth, Ebrill, Mai a Mehefin 1888, yr oedd 615 o ymweliadau wedi'u gwneud i ffermydd yn sir Ddinbych yn unig. Yr oedd 706 o heddweision wedi'u cyflogi am gyfnod o 54 o ddiwrnodau; oddeutu 13 y diwrnod ar gyfartaledd. Rhwng 1 Hydref 1887 a 31 Gorffennaf 1888 yr oedd y Dirprwywyr Eglwysig wedi ymweld â 469 o ffermydd yn Sir y Fflint, Sir Ddinbych, Sir Feirionnydd a Sir Fôn. Yr oedd hyn i gymharu â dim ond 26 ym 1886 a rhan helaeth o 1887 gyda'i gilydd. O'r ffigwr hwn fe atafaelwyd ar 251 o ffermydd. Er casglwyd y swm o £10,001. 6s. 7c., yr oedd y broses o gasglu'r degwm yn y modd hyn yn un costus iawn - £2,480. 7s. 6c. Ymddengys bod y Gymdeithas Amddiffyn y Clerigwyr yn talu comisiwn o wyth swllt yn y bunt i Peterson a'i gwmi, a hwythau yn troi yn ôl dau swllt i'r ffermwyr.³⁵

Erbyn hyn yr oedd yr atafaeliadau wedi dechrau o ddifrif yn y de-orllewin. Ym mis Rhagfyr 1887 atafaelwyd ar nwyddau yn Hendy-gwyn ar Daf a Llanddewi-Aberarth. Yn ystod 1888 gwelwyd atafaeliadau ger Bangor Teifi a Llandyfriog (lle taflwyd cerrig at yr heddlu), Llanddarog, Llanfihangel rhos-y-corn, Llanbadarn Trefglwys, Llanrhystud, Aberystwyth, Aberaeron, Llanfallteg, Cei Newydd, Llanfihangel-ar-arth a Cellan i enw ond rhai o'r plwyfi cynhyrfus. Datganodd y *South Wales Daily News* ym mis Medi 1888 bod 'Rhyfel y Degwm' wedi cyrraedd Sir Forgannwg pan gafwyd arwerthiant ym Mhorthcawl. Yn Sir Drefaldwyn gwelwyd atafaelu yng Nghemaes, Manafon, Llangurig a Meifod, ac yn Sir Feirionnydd cafwyd ychydig o gyffro yn ardal Tywyn a Dyffryn Ardudwy. Anerchodd Lloyd George y

³⁴ *Baner ac Amserau Cymru* (30 Tachwedd 1887); Jones, *Cofiant*, t. 488.

³⁵ Rhuthun, Archifdy Sir Ddinbych, NTD/760 – Chief Constable's Report on Tithe Proceedings in the County of Denbigh for March, April, May and June 1888; LIGC, ECE - 70,008iii – Part 3 – Estates Management – Tithe Rent Charge – Distraints in Wales: Smiths and Gore i'r Dirprwywyr (29 Tachwedd 1887); Smiths and Gore i'r Dirprwywyr (15 Mai 1888); Smiths and Gore i'r Dirprwywyr (1 Awst 1888); Price Jones, 'Rhyfel y Degwm', t. 89.

dorf yn y lle diwethaf hwn. Cafwyd atafaeliadau yn Sir Gaernarfon yn ystod Rhagfyr 1888 ac Ionawr 1889 yn Llannor, Llanaelhaearn, Llandwrog a Llanfairfechan. Nid oedd yn rhaid cael arwerthiant yn y plwyf diwethaf.³⁶

Yn y gogledd-ddwyrain y gwelwyd y rhan helaeth o'r cythrwfl. Ar 8 Ionawr 1888 cyrhaeddodd 60 o filwyr o'r '13th Hussars' ac oddeutu 20 o 'emergency men' â phrofiad yn yr Iwerddon yn Nhreffynnon. Yr oeddynt yno i gynorthwyo'r heddlu i atafaelu a gwerthu eiddo yn Sir y Fflint. Ni chafwyd helynt difrifol, ond yr oedd yna gwynion o barthed yr 'emergency men'. Honnwyd bod rhai ohonynt yn cario drylliau a chleddyfau, yn ogystal â phastynau. Datganodd Matthews fod cyfreithiwr y Gymdeithas Amddiffyn y Clerigwyr ac un o'i feiliaid wedi cario rifolfer ar un achlysur yn unig, a bod eraill wedi gorchuddio 'cutlasses' yn eu cotiau. Ymddengys yr oeddynt wedi derbyn bygythiad noson cyn un o'r atafaeliadau bod mintai o fwynwyr yn bwriadu eu niweidio. Yng Nghwm ar 26 Ionawr fe honnwyd bod un o'r 'emergency men' wedi gwthio dynes yn ôl nes iddi ddisgyn ar ei chefn ger drws ei thŷ. Ond yn ôl Prif Gwnstabl Sir y Fflint, y ddynes mewn gwirionedd oedd wedi ymosod ar y gŵr â ffon ddrwchus cyn cilio yn ôl.³⁷

Yn ystod mis Chwefror aeth Peterson i Heneglwys, Sir Fôn, ynghyd â'r 'emergency men', 50 o blismyn a'r Prif Gwnstabl i atafaelu. Gwnaeth y dorf ei orau i wneud pethau mor anodd â phosibl i Peterson. Pan syrthiodd ef ac un o'r 'emergency men' ymysg y dorf, adroddwyd fod dryll a chleddyfau wedi cael eu gweld. Taflodd y dorf gerrig a pheli eira at y bagad atafaelu, ac yr oedd yn rhaid iddynt gilio o'r ardal. Gan fod 10 arwerthiant allan o 13 wedi'u gwblhau, ni welodd y Prif Gwnstabl reswm pam na dderbyniwyd fod Peterson wedi cwblhau ei waith. Yr oedd Petersein wedi ysgrifennu adroddiad o'r helynt ac wedi gwneud cais am gymorth gan y fyddin. Yr oedd ei gais yn llwyddiannus, er dengys nad oedd Prif Gwnstabl Sir Fôn yn gefnogol i'r syniad.³⁸

³⁶ *South Wales Echo (Special Edition)* (9 Rhagfyr 1887); *Cambrian News and Merionethshire Standard* (16 Rhagfyr 1887); *South Wales Daily News* (1 Medi 1888); *Western Mail* (15 Medi 1888); *Cardigan Observer* (22 Medi 1888); HC Deb 26 Mawrth 1889, cyf. 334, col. 848-9.

³⁷ HC Deb 23 Chwefror 1888, cyf. 322, col. 1217; HC Deb 27 Chwefror 1888, cyf. 322, col. 1476; HC Deb 8 Mawrth 1888, cyf. 323, cols. 578-9.

³⁸ Eryl Wyn Rowlands, 'Agweddau gwleidyddol ym Môn, 1885-95', *Cymdeithas Hynafiaethwyr a Naturiaethwyr Môn*, tt. 96-97; HC Deb 19 Mawrth 1888, cyf. 323, col. 1626-7; HC Deb 20 Ebrill 1888, cyf. 325, col. 17-8.

Llun 4.3 Y '13th Hussars' yn Nhreffynnon, Ionawr 1888.

Ffynhonnell: The Penny Illustrated Paper and Illustrated Times (28 Ionawr 1888)

Ar Ebrill 18 fe ddychwelodd Stevens yn ôl i Langwm, ond ni fu ailadroddiad o'r helynt enwog y tro hwn. Arweiniodd Prif Gwnstabl Leadbetter 80 o blismyn i warchod y bagad atafaelu, ac yr oedd Howel Gee ac Alun Lloyd (cyfreithiwr y Gynghrair) yno hefyd i ddarbwylllo'r dorf. Rhuthrodd rhai o'r heddlu'r dorf mewn un man, ac fe afaelwyd mewn ambell i berson. Ond fe adawyd hwy fynd pan ymyrodd Lloyd. Er na welwyd digwyddiad difrifol hyd at hynny, yr oedd ymddangosiad Stevens a'r 'emergency men' yn yr ardal wedi creu tensiwn ymysg trigolion Sir Ddinbych.³⁹

Yr oedd hi'n ddiwrnod ffair yn nhref Ddinbych ar 9 Mai, ac yr oedd mwy o bobl nag arfer yno. Yr oedd Stevens a'i griw yn aros yn y Royal Oak, a phan gyrhaeddasant y dre'r noson hynny fe fwriodd y dorf eu llid tuag atynt. Aeth pethau yn fwy difrifol pan ddechreuwyd taflu cerrig at gerbyd y bagad atafaelu, ac oni bai am bresenoldeb yr heddlu, dichon fod pethau wedi bod yn llawer gwaeth. Parhaodd y cynnwrf nes oddeutu 11 o'r gloch y nos. Torrwyd un o ffenestri'r gwesty, ac fe

³⁹ Jones, *Rioting*, t. 66.

ganwyd caneuon ‘gwleidyddol’ gan y dorf. Yr oedd Gwilym Parry, ysgrifennydd y Gynghrair Tirol, yn bresennol, ac fe ddarbwyllodd y dorf i dawelu. Hwn oedd y ‘cwrs cyntaf’ i Stevens. Yr oedd y ‘prif gwrs’ eto i ddod yn Llanefydd.⁴⁰

Ffolineb oedd dyfod i Llanefydd y diwrnod wedyn i atafaelu gyda dim ond dau heddwes. Gan nad oedd yna ddigwyddiadau difrifol wedi bod yn y 313 o ffermydd cyn atafaelu yn Llanefydd, ni ddisgwylwyd fawr o drafferth yno. Yr oedd Prif Gwnstabl Leadbetter hefyd yn ceisio arbed rhagor o gostau i’r sir drwy ddefnyddio cyn lleiad o blismyn â phosib. Wrth gwrs, cafodd y dorf y gorau o Stevens a’i griw. Ar 16 Mai dychwelodd y bagad atafaelu gydag 11 o heddwesion a saith ‘emergency men.’ Ond unwaith eto fe’u trechwyd hwy gan drigolion yr ardal. Y diwrnod wedyn arweiniodd Leadbetter 32 o blismyn (ac hefyd yr Arolygwr Vaughan) i warchod y bagad atafaelu. Yr oedd torf o oddeutu 300-400 o bobl yn eu disgwyl; rhai wedi arfogi eu hunain â ffyn tra bod y merched yn taflu cerrig. Cafwyd ysgarmes waedlyd a oedd yn gyffelyb i’r un ym Mochdre. Yr oedd yn rhaid i feddyg o’r enw Dr Pritchard drin nifer o anafiadau i’r pen yn ffermdy’r Bryngwyn. Yn ôl yr adroddiadau a dderbyniodd yr Ysgrifennydd Cartref fe anafwyd oddeutu 20 o bobl. Dywedodd Pritchard fod rhwng 16-17 o ddynion, ifanc a hen, wedi derbyn anafiadau i’w pennau.⁴¹

Yr oedd Tom Ellis yn flaenllaw iawn o ran trafod helyntion Llanefydd yn y Tŷ Cyffredin, gan roddi’r bai ar ymddygiad yr heddlu. Cafwyd ymchwiliad i’r helbul, a fe ryddhawyd yr heddlu o unrhyw fai. Yr oedd Matthews eisoes wedi amddiffyn ymddygiad yr heddlu. Ar ôl trwbl unwaith eto ar 18 Mai, penderfynodd Leadbetter bod yn rhaid cael cymorth y fyddin i gynorthwyo’r heddlu. Cyrhaeddodd y ‘9th Lancers’ yn nhref Dinbych ar 23 Mai. Yr oedd Llanefydd, Llansannan a Llanfair Talhaearn yn blwyfi gwledig eang ac anghysbell, a gorchwyl afrwydd oedd ceisio atafaelu yno. Dechrewyd y gwaith o atafaelu y diwrnod wedyn, ac yr oedd yn rhaid i’r heddlu a’r milwyr wersyllu allan yn y wlad yn ystod y broses. Er cafwyd digon o swm gan y dorf, nid oedd yn rhaid darllen y Ddeddf Derfysg. Yn wir, profodd y milwyr i fod yn eithaf poblogaidd.⁴²

⁴⁰ *Denbighshire Free Press* (12 Mai 1888); *Carnarvon and Denbigh Herald* (11 Mai 1888).

⁴¹ ASD, NTD/760 – Chief Constable’s Report on Tithe Proceedings in the County of Denbigh for March, April, May and June 1888; HC Deb 4 Mehefin 1888, cyf. 326, col. 1021-2; HC Deb 7 Mehefin 1888, cyf. 326, col. 1378-80 a 1415-38; *Denbighshire Free Press* (19 Mai 1888).

⁴² Jones, Rioting, tt. 68-69; *Baner ac Amserau Cymru* (16 Mehefin 1888).

Llun 4.4 Atafaelu yn Chwitfordd, Sir y Fflint, Ionawr 1888.

Ffynhonnell: The Graphic (21 Ionawr 1888)

Diwedd mis Mehefin dychwelodd y bagad atafaelu i Sir Fôn. Yr oedd cais eisoes wedi'i wneud am gymorth gan y fyddin, ac fe yrrwyd hanner cwmni o Gatrawd Swydd Gaer yno, yn groes i ddymuniadau'r Prif Gwnstabl ag eraill. Gan fod Stevens yn atafaelu ym mhlwyf Amlwch ar ran y Dirprwywyr Eglwysig, fe ddisgynnodd yr orchwyl o fyned i Heneglwys i orffen gwaith Peterson iddo ef. Gwelwyd cryn dipyn o ffrwgwd yno, ac fe ddarllenwyd y Ddeddf Derfysg. Serch hynny, cafwyd dadl yn ddiweddarach os oedd y weithred hon yn un angenrheidiol, gan gofio'r ffaith nad oedd Cymraeg C. F. Priestley (yr hwn a ddarllenodd y Ddeddf Derfysg) yn ddigon da i'r dorf i'w ddeall. Y diwrnod wedyn aeth Stevens, ynghyd ag 50 o filwyr a 50 o heddweision, i blwyf Amlwch. Yn ei ôl ef, yr oedd y dorf o oddeutu 1000 o bobl wedi ymddwyn mor fygythiol nes gorfu i'r milwyr roi bigodau ar eu gynnu. Ond dengys nad oedd yn rhaid darllen y Ddeddf Derfysg.⁴³

Cafwyd helynt go ddifrifol yn niwedd y flwyddyn ym mhlwyf Llanrhystud, Ceredigion. Ar 29 Tachwedd aeth Stevens yno i werthu ar ran cabidwl Tyddewi, gyda phedwar beili ac 20 o blismyn dan awdurdod Dirprwy Brif Gwnstabl Lloyd. Yr oedd dynion ar gefn meirch wedi ymdeithio ar hyd yr ardal i annog y bobl i ffurfio adeg yr arwerthiannau. Cafodd Stevens gryn drafferth cael hyd i'r nwyddau atafaeledig, ac fe bron a rwygwyd ei ddillad i ffwrdd gan y dorf. Ond aeth pethau yn fwy difrifol pan fethodd carreg go sylweddol ei ben o drwch blewyn. Gorchmynnodd Stevens i ynad o'r enw James James i ddarllen y Ddeddf Derfysg os nad oedd am wneud rhywbeth i dawelu'r dorf. Yr oedd James yn un o'r ffermwyr a atafaelwyd ar yn y plwyf, a dengys iddo ddarbwylllo'r dorf yn y Gymraeg i beidio ag achosi mwy o drwbl. Yr oedd Stevens yn llwyddiannus yn 8 allan o'r 11 o ffermydd, ac fe gymerodd enwau a chyfeiriadau sawl person oedd wedi creu trwbl y diwrnod hwnnw.⁴⁴

Yn amlwg yr oedd cefn gwlad Cymru felly yn ansefydlog. Ond beth am y sefydliad? Digwyddiad o bwys sylweddol yr adeg hon oedd ffurfio cynghorau sirol yn sgil y Ddeddf Llywodraeth Leol. Pan ffurfiwyd cyngor Sir Ddinbych yn mis Ionawr 1889, etholwyd gwrth-ddegymwyr blaenllaw megis John Parry, Llanarmon,

⁴³ Rowlands, 'Agwedd Gwleidyddol ym Môn', tt. 97-98; *North Wales Express* (29 Mehefin 1888); *Carnarvon and Denbigh Herald* (29 Mehefin 1888); LIGC, ECE - 70,008iv - Parts 4 and 5 - Estates Management - Tithe Rent Charge - Distraints in Wales: Stevens i Smiths and Gore (3 March 1890). Yr oedd cyflogi'r milwyr i gadw trefn ar bethau ym 1888 wedi costio £197, ond dengys ni osodwyd y costau hyn ar y trethi lleol. HC Deb 16 Gorffennaf 1888, cyf. 328, col. 1388.

⁴⁴ LIGC, ECE - 70,008iii - Part 3 - Estates Management - Tithe Rent Charge - Distraints in Wales: Messrs. Clutton i'r Dirprwywyr (4 December 1888).

Owen Williams, Aberwheeler a Thomas Thomas, Llangwm. Yn ogystal â hyn, fe wnaethpwyd Thomas Gee yn gadeirydd y cyngor yn ystod y flwyddyn gyntaf. Arwyddocâd hyn oedd bod nifer o gefnogwyr blaenllaw'r ymgyrch gwrth-ddegymol nawr mewn sefyllfa lle gellid cael fwy o ddylanwad ar ei hynt, yn enwedig dros yr agwedd plismona drwy'r Cydbwyllgor Sefydlog.⁴⁵

Cafwyd datblygiad arall o bwys hefyd. Pan fu farw Joshua Hughes, Esgob Llanelwy, ym mis Ionawr 1889 yn 82 mlwydd oed, yr oedd yn rhaid dewis olynydd cymwys. Ar ôl pwyso a mesur, dewiswyd yr Arglwydd Salisbury Alfred G. Edwards, gŵr a oedd eisoes wedi lleisio ei anghymeradwyaeth o 'Ryfel y Degwm' yn y papurau newydd ac mewn pamffledi gwleidyddol. Apwyntiwyd John Owen fel ei ddeon, a daethant yn ffigyrau amlwg o fewn yr hyn a ddeuai i'w adnabod fel 'clic Llanymddyfri'. Gogleddwyr oeddynt, ond yr oedd ill dau wedi bod yn dysgu yng ngholeg Llanymddyfri. Yr oedd amddiffyn yr Eglwys yn uchel iawn ar agenda Edwards, ac fe brofodd ef yn wrthwynebydd teilwng i Thomas Gee ac eraill.⁴⁶

O ran yr ymgyrch gwrth-ddegymol ei hun, gellir ystyried 1889 fel y tro bwynt yn hanes yr helynt. Datblygodd Uwchgaptin Godfrey, Prif Gwnstabl Sir Drefaldwyn, bolisi o'r enw 'moral suasion'. Y ddamcaniaeth y tu ôl i'r cysyniad hwn oedd defnyddio cyn lleied o blismyn â phosib ac i drefnu pethau o flaen llaw â'r arweinwyr lleol er mwyn sicrhau protest mwy cyfansoddiadol a di-drais. Yr oedd yn strategaeth fentrus gan gofio'r helbul a fu oherwydd y methiant i ddarparu amddiffyniad digonol yn y gorffennol. Ond ymddengys fod y polisi wedi llwyddo ar y cyfan. Ni chafwyd llawer o drafferth adeg yr arwerthiannau yn Llannor, Llanaelhaearn a Llandwrog yn ystod Rhagfyr 1888 ac Ionawr 1889. Er bod torfeydd sylweddol wedi ymgasglu adeg yr arwerthiannau, credodd Prif Gwnstabl Sir Gaernarfon na chafwyd trafferth ddifrifol oherwydd y rhesymau canlynol: bagad bychan o heddlu (dim ond un neu ddau o blismyn), cefnogaeth y ffermwyr ac arweinwyr eraill yr ardal, ymddygiad siriol yr arwerthwr a hefyd gallu'r Prif Gwnstabl i siarad yn Gymraeg.⁴⁷

⁴⁵ *Denbighshire Free Press* (19 Chwefror 1889); *Denbighshire Free Press* (23 Chwefror 1889).

⁴⁶ Roger Lee Brown, *In Pursuit of a Welsh Episcopate: Appointments to Welsh Sees* (Caerdydd, 2005), tt. 206-7; Frances Knight, 'The ecclesiastical personnel', yn Glanmor Williams, William Jacob, Nigel Yates a Frances Knight (goln.), *The Welsh Church from Reformation to Disestablishment 1603-1920* (Caerdydd, 2007), tt. 339-40.

⁴⁷ HC Deb 26 Mawrth 1889, cyf. 334, col. 848-9.

Ym mis Mawrth 1889 yr oedd T. J. Webb Bowen, Prif Gwnstabl Sir Benfro, wedi cwrdd â chynrychiolwyr o'r saith plwyf yng ngogledd Sir Benfro a oedd wedi'u cyffroi gan gwestiwn y degwm. Yr oedd yn ffyddiog na fyddai dim trwbl yn yr arwerthiannau a oedd i ddod. Yn ogystal â hyn yr oedd gyrru dyrniad bach o blismyn i warchod y bagad gwerthu yn arbed cryn dipyn o arian hefyd. Penodwyd Smiths and Gore fel asiantiaid Cymdeithas Amddiffyn y Clerigwyr yn ne Cymru, ac felly cymerodd Stevens yr awenau yn y de. Eto gwrthododd Stevens i barhau â'i waith yng ngogledd Sir Benfro y mis hwnnw oblegid y driniaeth garw a gafodd ef a'i ddyinion ym mhlwyf Cilrhedyn. Yr oedd Bowen yn ddiysgog y dylai Stevens fynd ymlaen â'r gwaith, a dyna a wnaeth.⁴⁸

Ond ni fabwysiadwyd y polisi hwn gan bob sir ar unwaith. Ar 19 Mawrth cafwyd terfysg go ddifrifol ym mhlwyf Penbryn, Ceredigion. Yn hytrach na gyrru un neu ddau o blismyn yno i warchod y bagad atafaelu, anfonwyd 40, yn ogystal â'r Prif Gwnstabl a dau arolygwr. Taflwyd cerrig atynt ac fe ymosododd rhai o'r dorf arnynt gyda phicweirch a phastynau. Anafwyd tri heddeidwad ac ambell i berson arall, a chredodd y Prif Gwnstabl y dylid gwneud cais am gymorth y fyddin. Codwyd y mater nifer o weithiau yn Nhŷ'r Cyffredin. Gofynnodd A. Williams a Tom Ellis pam nad oedd y polisi o 'moral suasion' wedi'i fabwysiadu yng Ngheredigion. Cysylltodd Matthews ag ynadon Ceredigion i awgrymu y dylid efelychu siroedd eraill yng Nghymru yn hyn o beth. Nid oedd Stevens yn fodlon i ymweld â Phenbryn oni fyddai'n cael digon o blismyn i'w warchod. Ar 1 Mai aeth Stevens ynghyd â 46 o blismyn, y Prif Gwnstabl a dau ynad i Benbryn. Cafwyd ychydig o drwbl gan y dorf, ond fe wnaeth yr ynadon ddarbwylllo hwy i dawelu. Y diwrnod wedyn dychwelodd y Prif Gwnstabl i'r plwyf gyda dim ond 18 o heddeidwad, ond ni ddigwyddodd dim byd difrifol.⁴⁹

Cafwyd hanes cyffroes o Sir Benfro pan honnwyd fod ambell i feili wedi'i yrru ymaith gan y dorf a bod cŵn wedi'u gollwng ar eu hôl. Pan ddaliwyd hwy, yr oedd yn rhaid iddynt arwyddo darn o bapur (yn gyffelyb i'r hyn a ddigwyddodd yn Llangwm) yn eu rhwymo i beidio â dychwelwyd yn ôl i'r ardal er mwyn atafaelu

⁴⁸ LIGC, Papurau Williams and Williams, *Tithe Agitation in Pembroke – 1889*, rhifau: 15413-15457; Pamela Horn, *The Tithe War in Pembrokeshire* (Dinbych-y-pysgod, 1982), t. 10.

⁴⁹ HC Deb 21 Mawrth 1889, cyf. 334, col. 400; HC Deb 22 Mawrth 1889, cyf. 334, col. 528-30; HC Deb 25 Mawrth 1889, cyf. 334, col. 720-1; HC Deb 29 Mawrth 1889, cyf. 334, col. 1157-8; HC Deb 1 Ebrill 1889, cyf. 334, col. 1233-4; HC Deb 29 Ebrill 1889, cyf. 335, col. 674; HC Deb 30 Ebrill 1889, cyf. 335, col. 779-80; HC Deb 7 Mai 1889, cyf. 335, col. 1353-5.

ynghylch y degwm. Nid ydyw'n hollol glir os 'helwyd' hwy gan gŵn, ond yn sicr yr oeddynt wedi'u gorfodi i arwyddo'r darn papur.⁵⁰

Er y cyffro mewn rhai manau yn y de, erbyn Gorffennaf 1889 yr oedd Y *Faner* yn datgan nad oedd yr atafaeliadau bellach yn cynhyrfu'r bobl i'r un raddau ac yr oeddynt ynghynt. Erbyn diwedd haf 1889 yr oedd yr ymgyrch gwrth-ddegymol ar y cyfan yng Nghymru yn dechrau pallu. Gellir priodoli hyn i gyfuniad o resymau: diflastod, gwellhad mewn prisiau cynnyrch, 'moral suasion' a'r ffaith fod nifer o landlordiaid wedi dechrau talu'r degwm yn uniongyrchol. Ergyd arall oedd gwrthwynebiad pwyllgor gwaith Cynghrair Rhyddfrydig Gogledd Cymru i ymgysgu â Chynghrair Cenedlaethol Tirol Cymru ar gais Howell Gee yng Nghaer ym mis Rhagfyr. Yr oedd Thomas Gee yn feirniadol iawn o'r penderfyniad.⁵¹

Ond nid pawb oedd o'r farn fod y polisi o 'moral suasion' wedi bod yn un effeithiol. Credai cwmni Smiths and Gore bod y cynnwrf yn dal i barhau oherwydd nad oedd yr awdurdodau sifil yn fodlon darparu digon o heddweision i warchod y criw gwerthu ac atafaelu. Canlyniad hyn oedd gwariant sylweddol gyda diffyg canlyniadau i gyfiawnhau costau o'r fath. Yn eu ôl hwy dyma un o'r rhesymau pam y diddymwyd Cymdeithas Amddiffyn y Clerigwyr ym mis Medi 1889, gydag achosion llys ar y gweill.⁵²

Gwyddom nad oedd Stevens yn gefnogwr brwd o 'moral suasion'. Yr oedd ef wedi atafaelu ym mhlwyf Amlwch ar 10 Rhagfyr 1889, ond yr oedd yn amharod i fynd yn ei flaen â'r arwerthiannau oherwydd gwrthododd yr awdurdodau ei gais am amddiffyniad digonol. Anogwyd ef gan Gyrnol Thomas y Prif Gwnstabl i drefnu â'r ffermwyr lleol i gadw trefn ar bethau yn ystod yr arwerthiannau. Er yn anfodlon fe gytunodd Stevens i gydffurfio â dymuniadau'r Prif Gwnstabl. Ar 10 Ionawr 1890 fe gyrhaeddodd Stevens orsaf Amlwch ar ôl gadael Bangor ar y trê. Gaddwyd cludiant iddo yno, ac ni ddisgwylwyd lawer o drwbl. Ond i'r gwrthwyneb, yr oedd torf sylweddol wedi ymgynnull yno, a dengys nad oedd yna fawr o awydd ar ran y gwŷr â dylanwad i'w tawelu. Gwrthodwyd cludiant, ac yr oedd yn rhaid i Stevens

⁵⁰ HC Deb 22 Awst 1889, cyf. 340, col. 119-20; *South Wales Daily News* (Swansea Edition) (20 Awst 1889).

⁵¹ *Baner ac Amserau Cymru* (17 Gorffennaf 1889); Jones, *Y Llinyn Arian*, t. 140; Jones, *Cofiant*, t. 491.

⁵² LIGC, ECE - 70,008iv - Parts 4 and 5 – Estates Management – Tithe Rent Charge – Distraints in Wales: Smiths and Gore i'r Dirprwywyr (6 March 1890).

ddychwelyd yn ôl ar y trêen. Ond wrth i'r trêen adael, fe dorrwyd ffenestr ei gerbyd ac fe'i regwyd gan wŕ a oedd yn cario ffon. Yr oedd y gŵr hwn nid yn unig yn aelod o'r Cyngor Sir, ond yn aelod o'r Cydbwyllgor Sefydlog hefyd.⁵³

IV.

Mehefin 1890 – Mehefin 1895

Erbyn haf 1890 yr oedd tagfa ôl-ddyledion y degwm yn Llanefydd, Llansannan a Llanfair Talhaearn wedi dyfod yn broblem unwaith eto. Ar 12 Mehefin aeth Stevens a dau wŕ arall i Llanefydd i atafaelu. Ar ôl ymweld â dwy fferm cynyddodd y dorf gymaint nes y teimlodd Stevens y dylent ddychwelyd i Ddinbych. Gwrthodwyd llety a bwyd i'w ddynion yno, ac yr oedd yn rhaid iddynt deithio chwe milltir ychwanegol i Ruthun. Ar 18 Mehefin aeth dau heddeidwad a dau 'emergency men' gyda Stevens i'r plwyf. Ond unwaith eto fe yrrwyd hwy ymaith o'r ardal ac yn ôl i dref Dinbych. Ar y trydydd cynnig (11 Awst) gyrrwyd dwsin o blismyn i warchod Stevens a'i griw, ond mewn ofer. Nid oedd gan Brif Gwnstabl Leadbetter unrhyw ddewis ond i alw'r fyddin am gymorth, ac fe gyrhaeddodd y 10th Hussars o Swydd Efrog yn Ninbych yn fuan wedyn.⁵⁴

Cafodd yr helyntion yn Llanefydd eu trafod yn Nhŷ'r Cyffredin, gyda'r ymdeimlad bod y cynnwrf yn 'ail-ddechrau'. Unwaith eto fe gyfeiriwyd at Sir Drefaldwyn fel y 'model' i'w ddilyn. Yn ôl Stuart Rendel A.S., yn ystod y tair mlynedd blaenorol yr oedd 122 o atafaeliadau wedi'u gwneud yn Sir Drefaldwyn, a 43 o arwerthiannau wedi'u cynnal. Y bwriad oedd i ddangos nad oedd yna drwbl difrifol wedi digwydd yn ystod y cyfnod hwnnw. Ond ar 12 Gorffennaf soniwyd am derfysg yn Llanfihangel yng Ngwynfa, Sir Drefaldwyn, lle tarwyd y Prif Gwnstabl a chiciwyd Ernest Albert Craft, yr arwerthwr, nifer o weithiau gan y dorf. Ond yn ôl y Prif Gwnstabl nid oedd yr helynt yn un difrifol. Ni tharwyd ef o gwbl, ac fe gicwyd

⁵³ LIGC, ECE - 70,008iv - Parts 4 and 5 – Estates Management – Tithe Rent Charge – Distraints in Wales: Charles V. Stevens i Smiths and Gore (3 March 1890).

⁵⁴ LIGC, ECE - 70,008iv - Parts 4 and 5 – Estates Management – Tithe Rent Charge – Distraints in Wales: Smiths and Gore i'r Dirprwywr (11 Mehefin 1890); Smiths and Gore i'r Dirprwywr (17 June 1890).

Craft dim ond unwaith. Cynhaliwyd arwerthiannau ym Meifod yn niwedd y flwyddyn heb fawr o drafferth.⁵⁵

Ar 18 Awst fe aeth y Prif Gwnstabl, 12 o heddweision, 44 o filwyr dan awdurdod Capteiniaid Cole a Mesham, dau 'emergency men' ac wrth gwrs Stevens a'i griw i Llanefydd. Yr oedd Howell Gee yno hefyd i geisio darbwylo'r dorf i gadw'r heddwch. Er cafwyd digon o gyffro, gan gynnwys merched yn bygwith Stevens â ffyn, yr oedd presenoldeb y milwyr yn ddigonol i atal unrhyw ddigwyddiad difrifol. Dychwelodd y fintai hon i Llanefydd sawl gwaith cyn ddiwedd mis Awst heb fawr o drwbl. Diwedd y flwyddyn honno fe benderfynodd Pwyllgor yr Heddlu yn Sir Ddinbych i gynnal ymchwlad i wahoddiad y fyddin i gynorthwyo â'r gwaith o gasglu'r degymau. Penodwyd Thomas Gee yn gadeirydd yr ymchwil, ac fe gyhoeddwyd y canlyniadau yn Ionawr 1891. Nid syndod ydyw canfod mai anghytuno â'r weithred o alw'r fyddin i mewn oedd prif gasgliad yr adroddiad.⁵⁶

Gwyddom mai nid adeg yr atafaeliadau a'r arwerthiannau yn unig y cafwyd ymddygiad bygythiol gan dorf o bobl. Rhywdro yn ystod mis Medi ym Maenclochog, Sir Benfro, yr oedd tri gŵr yn dychwelyd i Narberth ar ôl bod yn atafaelu yn yr ardal. Taniwyd coelcerth yn ganol y ffordd i rwystro hwy rhag mynd yn eu blaen, y tu ôl iddynt rhwystrodd y dorf hwy rhag dianc. Gadawodd dau ohonynt y cerbyd tra ymgeisiodd y llall i lywio'r ceffyl a thrap o gwmpas y goelcerth, ond mewn ofer. Trowyd y trap drosodd ac fe daflwyd pob math o bethau atynt nes dyfod i ffiniau'r plwyf. Dygwyd achos yn erbyn dau ffermwr lleol am ddfrod, er mai dim ond £25 (mynnwyd £50 yn wreiddiol) o gostau difrod y dalwyd allan.⁵⁷

Yr oedd y Parchg. Ebenezer Jones, periglor Llanefydd, wedi osgoi denu llid ei blwyfolion drwy gytuno i ostwng ei ddegymau dros y blynyddoedd blaenorol. Ond yr union adeg y gorffennodd y Dirprwywyr Eglwysig eu busnes yn Llanefydd, yr

⁵⁵ HC Deb 1 Gorffennaf 1890, cyf. 346, col. 457-8; HC Deb 3 Gorffennaf 1890, cyf. 346, col. 689-90; HC Deb 10 Gorffennaf 1890, cyf. 346, col. 1299-301; HC Deb 28 Gorffennaf 1890, cyf. 347, col. 1054; Dunbabin, *Rural Discontent*, t. 218.

⁵⁶ LIGC, ECE - 70,008iv - Parts 4 and 5 – Estates Management – Tithe Rent Charge – Distraints in Wales: Smiths and Gore i'r Dirprwywyr Welsh (17 Mehefin 1890); Smiths and Gore i'r Dirprwywyr (2 Gorffennaf 1890); Jones, *Rioting*, tt. 69-72; Lloyd Jones, 'Llanefydd', tt. 31-32; Jones, *Cofiant*, t. 492.

⁵⁷ Horn, *The Tithe War*, t. 9.

oedd yn rhaid i Jones atafaelu am y tro cyntaf er mwyn adfer ei ddegymau. Ar 30 Rhagfyr aeth Craft yr arwerthwr i Llanefydd. Credodd Uwchgapten Leadbetter nad oedd angen yr heddlu i'w warchod gan fod pethau wedi distewi yno bellach. Yn anffodus i Craft cafodd brofiad llaw gyntaf nad oedd yna wirionedd yn hyn, a methiant oedd ei ymdrech cyntaf i atafaelu. Y diwrnod wedyn hebryngwyd Craft gan Arolygwr Vaughan a 35 o blismyn. Er y trwbl, cwblhawyd yr atafaelu. Dychwelodd Craft ar 12 Ionawr 1891 i werthu'r nwyddau atafaeliedig, gyda 36 o blismyn yn ei warchod. Dygwyd achosion llys yn erbyn tri gŵr am ymosod ar Craft ar 31 Rhagfyr a'r 12 Ionawr. Yr oedd un ohonynt yn Gyngorydd Sir.⁵⁸

Erbyn hyn yr oedd y polisi o 'moral suasion' yn dechrau gwegian yn y de-orllewin. Yr oedd Peterson wedi cael cryn dipyn o drafferth wrth geisio casglu'r degymau yng ngogledd Sir Benfro yn ystod gaeaf 1890. Dechrau 1891 fe ganiataodd Pwyllgor Heddlu Sir Benfro gais y Prif Gwnstabl i gyflogi 30 o heddweision (£430) am gyfnod o fis i warchod y beiliaid yn eu gwaith o atafaelu am y degymau os oedd angen.⁵⁹ Ond ar y cyfan yr oedd Prif Gwnstablaid siroedd y de-orllewin yn amharod iawn i gefnu ar y polisi o 'moral suasion'.

Ar 26 Mawrth 1891 daeth Deddf Adferiad Rhent-dal y Degwm i weithred yng Nghymru a Lloegr. Serch hynny, yr oedd y degymau a oedd yn ddyledus ar neu cyn Ionawr 1891 yn adferadwy o dan yr hen ddull. Yr oedd gan y Dirprwywr Eglwysig werth £4,000 o ôl-ddyledion i'w gasglu oddi wrth dros 1,000 o ddegwm dalwyr yng Nghymru erbyn Ionawr 1891. Yr oeddynt eisoes wedi casglu gwerth £8,267 9s. 10c. rhwng 31 Mai 1890 a 31 Mawrth 1891.⁶⁰

Ond nid enwau Peterson a Stevens a gipiodd y penawdau'r adeg hon ond gŵr o'r enw Robert Lewis, Pentywyn. Yr oedd yn Eglwyswr pybyr, ac fe aeth ati i gasglu'r degymau gyda'r fath sêl grefyddol nes gellir ystyried ei ymdrech fel rhyw fath o groesgad personol. Apwyntiwyd ef gan Gymdeithas Amddiffyn Clerigwyr de Ceredigion a Gogledd Penfro i gasglu eu degymau ym 1891. Aberteifi oedd pencadlys y Gymdeithas, a gŵr o'r enw W. Picton Evans oedd yn gyfrifol am yr ochr

⁵⁸ ASD, NTD/760 Report of a Quarterly Meeting on Tithe Disturbances by Maj. Leadbetter (16 Ionawr 1891); *Denbighshire Free Press* (7 Chwefror 1891).

⁵⁹ *The Pembroke Herald* (6 Chwefror 1891).

⁶⁰ LIGC, ECE - 70,008iv - Parts 4 and 5 – Estates Management – Tithe Rent Charge – Distraints in Wales: Smiths and Gore i'r Dirprwywr (6 Mai 1891); Smiths and Gore i'r Dirprwywr (28 Mai 1891).

gyfreithiol. Gwelir ei enw yn aml yn adroddiadau'r papurau newydd y cyfnod. Hwyrach ymlaen ym 1892 fe gytunodd Lewis i fod yn feili i'r cwrt sirol yng Nghastell Newydd Emlyn gan nad oedd yna fawr o neb arall a diddordeb yn y swydd.⁶¹

Aeth Lewis i ardal Clynderwen, Sir Benfro ym mis Mawrth i werthu, ac er yr hoff swm a chyffro, yr oedd y diwrnod yn un llwyddiannus. Ar 21 Ebrill 1891 aeth i werthu ym mhlwyf Llanychlwydog, Sir Benfro gyda'r Arolygwr Philips ac un heddwas arall. Pan ymwelodd â fferm o'r enw Penrhiw, fe amgylchynwyd ef gan griw o ferched, gan gynnwys Mary Ann Havard a oedd yn wraig i'r ffermwr yno. Ceisiodd y merched rwygo dillad Lewis oddi arno, ond fe ddihangodd cyn iddynt lwyddo i wneud hynny'n gyfan gwbl. Serch hynny, fe wysiwyd Mrs. Havard ger bron cwrt bach Dinbych-y-pysgod ac fe orfodwyd hi i dalu dirwy o £5. Yn gam neu'n gymwys, nid oedd Lewis yn ofn erlid y rheini a'i gamdriniodd yng nghwrs ei waith wrth gasglu'r degymau.⁶²

Y gri yn y de-orllewin yr adeg hon oedd, "Yr ydym efo Plevna yn Whitechurch a Plevna ym Mhenbryn!" Yn amlwg yr oedd trigolion yr ardal yn cymryd diddordeb yn rhyfeloedd y cyfandir, canys cyfeiriad oedd y gri at dre fach Plevna yng ngogledd Bwlgaria lle bu'r Twrciaid yn amddiffyn am bron i bum mis yn erbyn y Rwsiaid ym 1877. Ond fel Plevna, ni pharodd y gwrthsafiad am byth ym Mhenbryn nac yn mannau eraill. Pa fodd bynnag, yr oedd yn rhaid i Lewis ddiodeff cryn dipyn cyn i hynny ddigwydd. Ar 13 Mehefin aeth Lewis i Benbryn gydag Howell Evans y Prif Gwnstabl, un heddgidwad a dau gynhorthwy arall i werthu am y degwm. Gwerthwyd un fuwch yno, ac fe ddilynwyd y bagad gwerthu gan oddeutu 200 o bobl wrth iddynt yrru'r fuwch i Gastell Newydd Emlyn.⁶³

Dychwelodd Lewis a'i griw ar y dydd Llun (15 Mehefin), ac yno fe geisiodd dorf o oddeutu 300-400 o bobl wneud popeth o fewn eu pŵer i rwystro Lewis rhag mynd ymlaen â'i waith. Wrth geisio nôl un o'r buchod i werthu, fe ymosodwyd ar Lewis gan darw, yr hyn a greodd gryn dipyn o ddifyrrwch ymysg y trigolion lleol ac yn destun siarad yn y fro wedi hynny. Gwerthwyd y fuwch ac fe yrrwyd hi i Aberteifi i stablau ficer Penbryn. Ceisiodd torf o bobl 'achub' y fuwch, ond fe

⁶¹ Lewis, *Gwaedu Gwerin*, t. 48; Horn, *The Tithe War*, t. 17.

⁶² *Pembrokeshire Herald* (21 Mai 1891).

⁶³ *Carmarthen Journal* (19 a'r 26 Mehefin 1891).

lwyddodd y Prif Gwnstabl ac ambell i heddgidwad arall i rwystro hwy rhag cyflawni eu cenhadaeth. Gwyswyd dau berson am ymosodiadau ynghylch yr helynt yn Aberteifi, ond fe wrthodwyd yr achosion yn y pen draw.⁶⁴

Cafwyd digwyddiad mwy difrifol ar 19 Mehefin yng Nghrymymch. Yr oedd yr ardal wedi'u hysbysu bod Lewis ar y ffordd, ac felly yr oedd stoc y fferm a oedd i'w atafaelu arno wedi'i guddio. Oblegid hyn a natur fygythiol y dorf, penderfynodd Lewis i gilio'n ôl o Grymymch a dychwelwyd yn ôl i Aberteifi. Ond wrth ymyl y Crymymch Arms aeth pethau o ddrwg i waeth. Taflwyd cerrig ac wyau at Lewis a Mr. Needle (gohebydd â'r *Western Mail*) ac aethant i mewn i'r adeilad. Dilynwyd Lewis gan ambell i berson, ac fe gafwyd ychydig o ysgarmes y tu mewn i'r Crymymch Arms. Llwyddodd Lewis i ddianc o'r adeilad, ac i mewn i'r cerbyd y tu allan. Ond wrth iddo ddringo'r trap cafodd drawiad gan garreg yn gefn ei ben, ac fe suddodd i lawr yn ei unfan gyda gwaed yn llifo o'i anaf. Yr oedd yn rhaid i Needle redeg efo'r cerbyd, ac fe lwyddasant i gyrraedd yr orsaf drên, lle gafodd Lewis driniaeth i'w ben. Fe lwyddodd i ddal y trên yn ôl i Aberteifi'r bore hwnnw. Gwyswyd wyth dyn ac un ddynes ger bron cwrt bach Newchapel am ymosod ar Lewis. Yr oedd yn rhaid i ddau dalu dirwy o £3 a chostau, un arall £2 a chostau ac fe daflwyd allan yr achosion yn erbyn y pedwar gŵr arall. Gohiriwyd yr achos yn erbyn Mary Anne Bowen.⁶⁵

Ar 13 Awst fe ddychwelodd Lewis yn ôl i Benbryn. Amgylchynwyd ef, y Prif Gwnstabl a heddgidwad arall gan dorf o oddeutu 300 o bobl, ac fe fygythiwyd ef gan ŵr o'r enw Thomas James â ffon. Yr oedd Lewis erbyn hyn yn gwisgo helmed i warchod ei ben rhag anafiadau, ond teimlodd nad oedd yna obaith am arwerthiant y diwrnod hwnnw. Dilynwyd ei gerbyd gan ambell i ŵr ar ben ceffyl, ac fe drywanwyd Lewis ar draws ei wyneb gan Samuel Owens wrth iddo fyned heibio ar garlam. Rhwymwyd Jones ac Owens i gadw'r heddwch am chwe mis ac i dalu'r costau a'r dirwyon.⁶⁶

Rhwng Mai 1891 a Gorffennaf 1892 yr oedd Stevens wedi ymweld â 596 o ffermydd (allan o'r 1,000 a soniwyd amdanynt) mewn 28 o blwyfi yng ngogledd Cymru heb fawr o drafferth. Ni ymwelodd â phob fferm oblegid pitw oedd nifer o'r symiau a oedd yn ddyledus, ac felly nid oedd yna fawr o synnwyr i fynd i fwy o

⁶⁴ *Carmarthen Journal* (19 a'r 26 Mehefin 1891).

⁶⁵ *Carmarthen Journal* (26 Mehefin; 7 Awst 1891).

⁶⁶ *Carmarthen Journal* (28 Awst 1891).

gostau drwy geisio ymweld â'r ffermydd mwyaf anghysbell. Rhwng 1883 a 1891 collodd y Dirprwywyr Eglwysig £1,000 mewn degymau anadferadwy allan o'r £80,000 a oedd yn ddyledys iddynt yn y cyfnod hwnnw. Wrth gwrs, fe dalasant lawer mwy na'r £1,000 hyn mewn costau a ffioedd proffesiynol i wahanol bobl a chwmnïoedd am adfer eu degymau mewn cyfnod go flinderus iddynt.⁶⁷

Dyweddodd Stevens fod y drwg deimlad ym Meidrim, Abergwili, Llanpumsaint, Llanllawddog a Llanfynydd (Sir Gaerfyrddin) yn gyffelyb i'r hyn a brofodd yn y gogledd rhai blynyddoedd yn ôl. Ar 29 a 30 Mawrth 1892 fe atafaelodd yn y plwyfi uchod heb fawr o drafferth. Ond pan ddychwelodd ar 6 a 7 Ebrill yr oedd y torfeydd yn llawer mwy bygythiol. Fe 'achubwyd' un fuwch o feddiant Stevens, tra'm mhlwyf Llanfynydd yr oedd rhai o'r dorf wedi arfogi eu hunain â ffyn. Ymwelodd Stevens â phlwyfi Llanrhystud, Llansantffraid a Llanarth yng Ngheredigion yr haf hwnnw. Er y drafferth y cafodd o'r blaen yn Llanrhystud, dengys nad oedd y gwrthwynebiad mor ffyrnig y tro hwn, a ni chafodd fawr o drwbl wrth gasglu'r degymau dyledus yn y plwyfi hyn. Ond datganodd Stevens nad oedd y gost o gasglu'r degymau yn y modd hwn yn cyfiawnhau'r swm a oedd i'w gasglu yn y lle cyntaf. Pa fodd bynnag, erbyn diwedd haf 1892 yr oedd y 'rhyfel' ar ben i'r Comisiynwyr Eglwysig.⁶⁸

Yn y cyfamser nid oedd Lewis yn cael amser hwylus ohoni wrth geisio casglu'r degymau yn ne Ceredigion. O bosib ni wnaeth erlid rhai o'r trigolion lleol nemor dim i esmwytho pethau ychwaith. Yn Ebrill 1892 yn ardal Bangor-teifi ger Llandysul fe daflwyd 'clonc wy' ato gan fachgen un ar bymtheg oed o'r enw Evan Evans. Gwysiwyd ef ger bron y cwrt ac yn hytrach na talu'r dirwy fe ddewisiodd fynd i'r carchar am fis. Gelwid ef yn 'ferthyr Bangor', ac yr oedd sawl Aelod Seneddol Rhyddfrydig yn bresennol pan gafodd ei ryddhau o'r carchar, gan gynnwys Samuel Evans, A.S. Yr oedd ei gyflogwr, Dr Enoch Davies, yn wrth-ddegymwr amlwg yn yr ardal. Ar 23 Awst aeth Lewis ar un o'i ymweliadau fynych i Benbryn, ac yr un hen drafferth a gafodd yno. Areiniwyd Williams Rees, Joshua Davies, Griffith Davies, James Thomas, Daniel a Sarah Williams (brawd a chwaer) am

⁶⁷ LIGC, ECE - 70,008iv - Parts 4 and 5 – Estates Management – Tithe Rent Charge – Distraints in Wales: Smiths and Gore i'r Dirprwywyr (11 Ionawr 1892); Smiths and Gore i'r Dirprwywyr (31 Hydref 1892).

⁶⁸ LIGC, ECE - 70,008iv - Parts 4 and 5 – Estates Management – Tithe Rent Charge – Distraints in Wales: Cluttons i'r Dirprwywyr (16 Mai 1892); Cluttons i'r Dirprwywyr (24 Tachwedd 1892).

ymosod arno. Talodd William Rees a Joshua Davies ddirwy o £5 ond taflwyd allan yr achosion yn erbyn y gwŷr eraill. Aeth yr achos yn erbyn Daniel a Sarah Davies ymlaen am ychydig yn hirach. Dygodd Lewis achos yn erbyn Josiah Jones am ymosod arno pan aeth i Benbryn ar 18 Hydref, a dengys mai dirwy o £5 oedd cosb Jones hefyd.⁶⁹

Erbyn diwedd 1892 yr oedd swyddogion cwrt Castellnewydd Emlyn ac eraill yn galw am ddiwedd i ‘moral suasion’ ac i alw am fwy o heddlu i amddiffyn Lewis a’i griw. Canol 1893 daeth helyntion y degwm yng Nghymru yn destun siarad unwaith eto yn Nhŷ’r Cyffredin. Erbyn hyn y Rhyddfrydwyr oedd mewn grym, ac Asquith oedd yr Ysgrifennydd Cartref. Ar 5 Mai 1893 wrth gasglu’r degymau ym Mhenbryn fe anafwyd Lewis yn ddifrifol pan drawyd ef mwy nag unwaith ar ei ben, ac fe gollol ymwybyddiaeth am ychydig o funudau wedi hynny. Arestwyd dau ŵr mewn cysylltiad â hyn; John Thomas (27) a Watkin Griffiths (17). Rhyddhawyd y ddau yn wreiddiol ‘on a technicality’, ond drwy ymyrraeth Asquith fe ystyriwyd yr achos gan yr Erlynydd Cyhoeddus, ac fe ddedfrydwyd Thomas i dri mis yn y carchar a llafur caled am ymosodiad cyffredin. Dengys mai hwn oedd y dedfryd lymaf hyd at hynny am ymosodiad ar unrhyw gasglwr y degwm ers dechrau’r cyffro ym 1886.⁷⁰

Mynnodd Arthur Griffith-Boscawen (yr Aelod Seneddol i’r Ceidwadwyr dros Tunbridge, Swydd Caint) pam nad oedd y nifer o heddlu yn ddigonol i warchod Lewis wrth gasglu’r degymau? Tueddodd Griffith-Boscawen i orliwio pethau, fel yr adeg pan honnodd bod Lewis bron wedi ei lofruddio ar y 5 Medi. Ym marn Asquith nid oedd y trafferthion casglu degymau yn y de orllewin yn ganlyniad i benderfyniadau’r Pwyllgor Heddlu na’r Prif Gwnstabl. Yn hytrach roeddynt yn tanlinellu’r gwendid yn y ddeddf newydd nad oedd yn galluogi’r heddlu i sicrhau mynediad trwy orfodaeth i’r beili i atafaelu am y degwm. Dywedodd Prif Gwnstabl Caerfyrddin nad oeddynt wedi cael dim trafferthion yn ddiweddar wrth gasglu’r degymau. Mynnodd Prif Gwnstabl Sir Benfro fod ‘Moral Suasion’ wedi bod yn llwyddianus, a dim ond ar ddau achlysur yn unig y penderfynodd i gadw trefniadau’r diwrnod yn gyfrinach. Serch hynny, yr oedd Asquith wedi ysgrifennu at Prif

⁶⁹ *The Cambrian News and Merionethshire Standard* (2 Medi 1892); *Carmarthen Journal* (2 Medi 1892); *Cardiff Times* (15 Hydref 1892); *South Wales Daily News* (14 Rhagfyr 1892); *Western Mail* (15 Chwefror 1893). T. M. Bassett, *Bedyddwyr Cymru* (Abertawe, 1977), t. 298.

⁷⁰ HC Deb 17 Gorffennaf 1893, cyf. 14, col. 1700-2.

Gwnstabl Evans yn ei atgoffa ei fod yn ddyletswydd arno i sicrhau bod y nifer o heddweision yn ddigonol i arbed Lewis rhag niwed.⁷¹

Gyda ymhell dros 100 o gorchmynion llys i gasglu'r degymau yng Ngheredigion, nid oedd gan Lewis amser i orffwys. Ond cafwyd ychydig o groestyniad rhwng Lewis a'r Prif Gwnstabl erbyn diwedd y flwyddyn. Yn ôl Lewis yr oedd wedi methu casglu rhai o'r degymau ym Mhenbryn dechrau mis Rhagfyr oherwydd bod y nifer o blismyn (5) yn annigonol, a bod ymddygiad y dorf yn fygythiol. Pa fodd bynnag, yn ôl y Prif Gwnstabl nid oedd y dorf yn rhifo mwy na 11 o ffermwyr ar ben ceffylau, a bod y nifer o blismyn yn ddigonol. Yn sicr yr oedd yna densiwn yn dechrau datblygu rhwng Lewis a Evans. Ar 14 Mawrth ymosodwyd ar Lewis ym Mhenbryn ac hefyd ar 16 Mawrth ym mhlwyf Betws Ifan. Dygwyd pedwar gŵr o flaen y llys a'u dirywio am £5. Cyhuddodd Lewis y Prif Gwnstabl Evans yn gyhoeddus o wneud datganiad cyfeiliornus o barthed y digwyddiadau hyn ym Mawrth, ond nid oedd Asquith yn credu bod yna ddigon o wahaniaeth i orfodi ymchwiliad.⁷²

Brasgamwn ymlaen i fis Mawrth 1895 lle cymerodd y *Western Mail* diddordeb yn adrodd hanes Lewis yn casglu'r degwm yn y de-orllewin. O bosib y nodwedd fwyaf trawiadol ydyw'r darluniau a geir o fewn yr erthyglau (Atodiad 4). Gŵr o'r enw Joseph Morewood Stanisforth (JMS) oedd yn gyfrifol am rai ohonynt. Dichon iddo fod yn fwyaf cyfarwydd i ni fel crëwr y cymeriad 'Dame Wales' y gwyddom ef orau. Yr oedd hyd yn oed Lloyd George yn hoffi ei waith, er bod Stanisforth gan amlaf yn bychanu'r blaidd Ryddfrydig a'u pholisïau! Y mae'r elfen hiwmor yn amlwg yn y darluniau, a cheir yr argraff fod y darlunwyr wedi ceisio creu'r ddelwedd o ryw fath o 'frwydr' - fersiwn digrif o frwydr 'Plevna' gellir dadlau. Yr oedd Lewis yn bwrw iddi unwaith eto yn ystod haf y flwyddyn honno. Ond hwnnw oedd 'brwydr' olaf 'Rhyfel y Degwm'. Ceir ambell i hanesyn achlysurol

⁷¹ HC Deb 12 Mai 1893, cyf. 12, col. 791-2; HC Deb 1 Mehefin 1893, cyf. 12, col. 1736-8; HC Deb 1 Mehefin 1893, cyf. 12, col. 1769-70; HC Deb 8 Mehefin 1893, cyf. 12, col. 508-9; HC Deb 3 Gorffennaf 1893, cyf. 14, col. 662-5; HC Deb 17 Gorffennaf 1893, cyf. 14, col. 1700-2; HC Deb 24 Gorffennaf 1893, cyf. 15, col. 308-9; HC Deb 17 Awst 1893, cyf. 16, col. 405; HC Deb 22 Awst 1893, cyf. 16, col. 754-5; HC Deb 24 Awst 1893, cyf. 16, col. 974-6; HC Deb 29 Awst 1893, cyf. 16, col. 1347-8.

⁷² HC Deb 14 Rhagfyr 1893, cyf. 19, col. 1365; HC Deb 3 Ebrill 1894, cyf. 22, col. 1245-7; HC Deb 28 Mai 1894, cyf. 24, col. 1392-4; HC Deb 3 Awst 1894, cyf. 28, col. 27-8. *South Wales Daily News* (Third Edition) (10 a'r 11 Mai 1894).

o wrthod talu ar ôl hynny yn y gogledd, ond yr oedd y 'gynnau mawr' wedi hen ddistewi.⁷³

⁷³ Christopher Williams, 'Contesting radical cultures: the cartoons of J. M. Staniforth of the Western Mail', yn Krista Cowman a Ian Packer (gol.), *Radical Cultures and Local Identities* (Newcastle-upon-Tyne, 2010), tt. 149-173. LIGC, John Glyn Davies Papers, General Correspondence/9568, Llythyr oddi wrth John Morris, Lerpwl (19 Rhagfyr 1898).

Rhan III

RHAI AGWEDDAU O 'RYFEL Y DEGWM'

Pennod V

Caneuon, Gwŷr Gwellt a Fandaliaeth

Rhagymadrodd

Ym 1889 ysgrifennodd y Parchg. Evan Jenkins, rheithor plwyf Manafon, Sir Drefaldwyn:

Caricatures and effigies of the parson [ohono ef adeg arwerthiant ar 18 Tachwedd 1888 ym Manafon] were exhibited and burnt and the parson was in otherwise held up to scorn, and ridicule. He is also made the subject of song, and the mark of ridicule. The windows of the Rectory house were some 3 months ago broken late at night by 2 lads who no doubt were instigated by the tithe agitators.¹

Yr oedd y berthynas rhwng Jenkins a nifer o'i blwyfolion wedi troi'n sur erbyn hyn. Gwrthododd gwrdd â'r amaethwyr i roddi deg y cant yn ôl yn ei ddegymau, ac fe gymerodd gamau cyfreithiol er mwyn eu hadfer.² Serch hynny, dengys bod y rheithor yn ansad yn feddyliol. Credodd Roger Brown fod yr helynt ynghylch y degymau wedi gyrru Jenkins at alcohol, ac ymhen ychydig o amser yr oedd mewn gwallgofdy. Bu yno am ddwy flynedd.³ Ni wellodd pethau pan ryddhawyd ef, ac ei achos ef oedd y cyntaf i gael ei ystyried o dan delerau'r Ddeddf Disgyblu Clerigwyr (1892). Caniataodd y ddeddf hon i Esgobion gosbi offeiriaid a gafwyd yn euog yn y llysoedd barn yn y llysoedd eglwysig.⁴ Ar 26 Mai 1893 fe amddifadwyd Jenkins o'i fywoliaeth, ac fe ddiflannodd i ddinodedd yn Lloegr.⁵

Y mae'r esiampl uchod yn un eithriadol. Yr oedd cyflwr meddyliol bregus Jenkins wedi gwingo a methu o dan straen a phwysau'r ymgyrch gwrth-ddegymol yn ei blwyf. Ond wedi dweud hynny, nid oedd y grymoedd oedd ar waith yn rhywbeth

¹ Aberystwyth, Llyfrgell Genedlaethol Cymru (LIGC), SA/Tithe/1-207/Manafon, Mont.

² Roger Lee Brown, 'Sad, mad or bad: the case of Evan Jenkins, rector of Manafon', *Montgomeryshire Collections*, 83 (1995), t. 180.

³ Brown, 'Sad, mad or bad', t. 182.

⁴ Yr oedd Jenkins wedi ymosod ar heddwes, *Montgomeryshire Express and Radnor Times* (13 Mawrth 1893).

⁵ Brown, 'Sad, mad or bad', t. 188.

yn gyfyngedig i Fanafon yn unig. Wrth edrych ar achos Jenkins, gellir adnabod tri math o wrthglerigaeth ar y lefel sylfaenol yng nghefn gwlad Cymru'r adeg honno:

- 1) Caneuon gwrth-ddegymol oedd yn gwawdio'r clerigwyr.
- 2) Delwau gwellt neu 'gwŷr gwellt' i ddynwared offeiriaid yr Eglwys.
- 3) Fandaliaeth i eiddo'r clerigwyr a'r Eglwys, gan gynnwys bygythiadau hefyd.

Bwriad y bennod hon ydyw edrych yn fanwl ar bob un er mwyn asesu pa mor gyffredin oedd gweithredoedd o'r fath. Beth oedd y neges a'r symbolaeth y tu ôl iddynt? Beth oedd ymateb y cyfryngau ac eraill iddynt? Hwn ydyw'r ymgais gyntaf i edrych ar y mathau yma o wrthglerigaeth yn ystod 'Rhyfel y Degwm' mewn modd systematig a manwl. Trwy wneud hynny, y mae'n bosib dadorchuddio elfen o'r ymgyrch sydd eisoes wedi'i hesgeuluso o fewn yr hanesyddiaeth.

I.

Baledi a chaneuon gwrth-ddegymol

Cyhoeddwyd a chanwyd baledi a chaneuon gwrth-ddegymol yn ystod 'Rhyfel y Degwm' gyda'r nod deublyg i ddiddanu ac i farnu. Nid ydynt yn grefftwaith barddonol o'r safon uchaf. Nid hynny oedd y nod. Yr oedd yn rhaid iddynt apelio at y bobl gyffredin, y 'werin,' i arfer y gair amwys ond poblogaidd hwnnw. Felly iaith syml ond grymus a geir yma, gydag odli gafaelgar yn melysu'r neges wleidyddol oedd wrth eu craidd. Wrth lygadu'n frysiog dros y lliaws o gerddi, caneuon a baledi yn ystod 'Rhyfel y Degwm', daw un peth yn glir. Y cynhwysyn anhepgor ynddynt oll mwy neu lai ydyw ceryddu'r Eglwys a'i chlerigwyr. Nid oes yna ddigon o ofod i drafod y rhain i gyd, felly dim ond detholion o ambell i faled a chân a geir yma sydd yn gynrychiadol o gynnwys y gweddill.

Storiwyr oedd baledwyr yn bennaf, yn adrodd ar lafar digwyddiad neu ddigwyddiadau penodol mewn modd diddorol a difyr i'r cyhoedd. Yr oedd yr elfen newyddiadurol yn un bwysig, ac yn rhan o'u hapêl. Ond wrth i'r nifer o bapurau newydd yng Nghymru gynyddu'n aruthrol yn ystod ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg, lleihawyd dylanwad y baledwyr. Cafwyd ymdrechion i gyhoeddi eu gwaith

yn y papurau newydd, ond ni wnaeth hyn atal y dirywiad.⁶ Ystyriwyd Abel Jones (Bardd Crwst) fel baledwr ‘mawr’ olaf y ganrif, a fe ysgrifennodd dros 106 o faledi yn ei amser.⁷ Yn ôl Tegwyn Jones, yr oedd yn, ‘llawdrwm iawn’ ynddynt, yn enwedig o ran amddiffyn y ‘tlawd.’⁸ Nid oedd ganddo fawr o air da i ddweud am yr Eglwys. Felly nid syndod ydyw canfod ef yn ochri â’r ffermwyr yn ystod ‘Rhyfel y Degwm’, ac yn ceryddu’r Eglwys.

Dyma dair enghraifft o dair wahanol faled (i’w canu ar y dôn ‘Robin yn Swil’) gan y Bardd Crwst. Y maent yn arddangos y fath o eiriau fflamychol a ddefnyddiwyd i feirniadu clerigwyr yr Eglwys:

(Detholiad 1.)

Mae’n debyg ceir gwybod y cyfan cyn hir
Am yr arwerthiant – daw pethau’n mwy clir;
Does gan y personiaid sy’n myraeth a’r peth
Fawr o wir grefydd – eu gras ydyw’r dreth.⁹

(Detholiad 2.)

Y degwm y sydd,
I’n poeni drwy’r byd,
O claddwn y degwm
Ar Person ar ei hyd.¹⁰

(Detholiad 3.)

Ond Person yr Eglwys, medd
Esgob y Llan,
Yw tad yr holl ddegwm yn
Gyflawn ‘mhob man.’¹¹

⁶ Tegwyn Jones, ‘Baledi a baledwyr y bedwaredd ganrif ar bymtheg’, *Cof Cenedl*, 6 (1991), t. 114.

⁷ R. T. Jenkins, ‘Abel Jones (Bardd Crwst)’, yn y *Bywgraffiadur Cymreig Ar-lein*:
<http://yba.llgc.org.uk/cy/c1-JONE-ABE-1830.html>;

⁸ Jones, ‘Baledi a baledwyr’, t. 114.

⁹ Abel Jones (Bardd Crwst), *Can Newydd i’r Degwm’ – Cenir ar Robin yn Swil*. Cerddi Bangor, cyf. 24.

¹⁰ Abel Jones (Bardd Crwst), *Can Newydd am y Driniaeth Gafodd Rhai o’r Bilaid a’r Arwerthwyr yn Meifod, Swydd Drefaldwyn, Hefyd, yn Llangwm a Llandrillo, sir Feirionydd*. Copi digidol:
<https://syllwr.llyfrgell.cymru/1062282>

¹¹ Abel Jones (Bardd Crwst), *Rhyfel y Degwm: Can Newydd i’r Degwm – Gwroldeb Ffarmwyr Môn, a Rhyddhad Gwŷr Llangwm gan y Barnwr yn Rhuthyn; Cenir ar ‘Robin yn Swil’*. Cerddi Bangor, Atod. 2, 349.

Perfformiwyd y baledi hyn mewn ffeiriau, ac efallai yn ystod rhai o'r arwerthiannau hefyd. Cawn enghraifft yn y *Gwyliedydd* o Abel Jones yn canu cerdd i 'Ryfel y Degwm' yn ystod mis Tachwedd 1886 yn ffair brysur Pwllheli:

Yn mhlith y dyrfa yr oedd y Bardd Crwst yn gwaeddi nerth asgwrn ei en wrth ganu, neu ddyweyd mewn gwahanol nodau, rigwm ar ffurf cerdd i "ryfel y degwm." Gallwn dybio fod y cerddi yn gwerthu yn gyflym, gan eu bod yn bethau newydd yn ffair Pwllheli.¹²

Yr helynt yn Llanarmon oedd prif testun siarad y pryd hynny. Y mae detholiad 1 yn rhan o faled sy'n cyfeirio'n fynych at Lanarmon. Efallai mai hon a ganwyd yn ystod y ffair. Gellid dadlau bod ei waith yn boblogaidd iawn efo'r bobl gyffredin. Hwyrach ni ellir priodoli gormod o sylwedd i'r arsylliad nesaf hwn, ond y mae'n fewnwelediad diddorol i boblogrwydd Abel Jones ar y pryd:

Nad oedd dim tri dwsin yn gwrandaw ar Hwfa Mon yn traddodi ei ddarlith gampus ar Dr Rees yn Nhalybont noson Ffair Lanbad, a phe buasai Bardd Crwst – y canwr baledi – yn dod i fewn o'r stryd, y cawsai lond y capel o wrandawyr?¹³

Gwyddom hefyd bod Abel Jones yn mynychu rhai o'r arwerthiannau degymol hyn. Cawn hanes ohono ym Modfari ym 1887:

Ar y bont uwchlaw yr oedd y dorf, yn canu *Caneuon y Degwm*. Wedi peth ddistawrwydd, clywid seiniau perseiniol yn dyfod o gyfeiriad y bont; ac nod ychydig ydoedd y chwerthon pan ddeallwyd mai "Bardd Crwst" oedd y datgeiniad.¹⁴

Oherwydd bod Abel Jones yn cymysgu mor aml â'r bobl gyffredin, yn amlwg yr oedd yn gwybod beth oedd yn apelio atynt. Os oedd am werthu ei waith, yn amlwg yr oedd yn rhaid iddo ddenu poblogrwydd. Gellir awgrymu felly bod gwneud hwyl am yr Eglwys a'i chlerigwyr yn ddeunydd oedd yn apelio ac yn gwerthu. Tybed beth fuasai'r ymateb wedi bod pe buasai Abel Jones wedi canu o blaid y clerigwyr a'r Eglwys yn ystod 'Rhyfel y Degwm'? Hwyrach fe fuasai'i apêl wedi lleihau braidd.

Dyma droi yn awr i edrych yn fanwl ar rai o ganeuon y degwm. Ym mis Chwefror 1887 fe gyhoeddodd Thomas Gee gystadleuaeth i greu caneuon gwrth-ddegymol. Y nod oedd i ddarparu stôr ddefnyddiol i'w chanu yn ystod yr

¹² Y *Gwyliedydd* (17 Tachwedd 1886).

¹³ *Werin* (23 Hydref 1886).

¹⁴ *Baner ac Amserau Cymru* (15 Mehefin 1887); *Werin* (18 Mehefin 1887).

arwerthiannau degymol.¹⁵ Cynigwyd gwobr o 10 a 5 swllt am y ddwy gân orau, ac erbyn mis Mawrth yr oedd swyddfa'r *Faner* wedi derbyn 68 o ganeuon.¹⁶ Argraffwyd y 16 cais buddugol yn y papur cyn y cyhoeddwyd hwy mewn cyfrol fechan 1c. ym mis Mai.¹⁷

Llun 5.1 Hysbysiad a ymddangosodd yn *Y Faner* o 1887 ymlaen pan gyhoeddwyd y llyfryn 'Caneuon y Degwm'.

Ffynhonnell: Baner ac Amserau Cymru

Bwriad y caneuon oedd i ychwanegu elfen mwy safonol i'r arwerthianau. Credodd D. G. Lloyd Hughes, 'gobeithid clywed rhai o'r caneuon yn diasbedain trwy fro yn yr awyr agored ar fore arwerthiant er mwyn creu sŵn mwy dymunol na hwtian, er enghraifft, neu oernadu'.¹⁸ Pwynt arall a wnaeth Hughes oedd crybwyll mai poeni am yr 'awyrgylch bygythiol' oedd un o'r rhesymau i Gee gyhoeddi'r gystadleuaeth. Ai ymdrech oedd hwn i hyrwyddo'r 'mytholeg' o Gymru fel 'gwlad y gân' ddi-drais, fel y ceir yn y bennill bach isod?

Têg galw Cymru, "Gwlad y Gân,"

A "Gwlad y Menyg Gwynion glân,"

¹⁵ D. G. Lloyd Hughes, 'Caneuon y Degwm', *Y Casglwr*, 60 (1997), tt. 16-17.

¹⁶ Lloyd Hughes, 'Caneuon y Degwm', t. 16.

¹⁷ Amryw, *Caneuon y Degwm* (Dinbych, 1887).

¹⁸ Lloyd Hughes, 'Caneuon y Degwm', t. 16.

Caiff hi y gair gan wledydd byd,-
Ei bod yn lân – yn gân i gyd.¹⁹

J. Coedfryn Davies

Os mai dyma oedd un o fwriadau Gee, y mae'n werth nodi fod yr helynt yn Llangwm wedi digwydd yn ystod yr un mis ag y cyhoeddwyd y llyfryn. Mis yn ddiweddarach cafwyd yr helynt ym Mochdre. Wrth ddarllen y caneuon nid oes yna fawr ddim yn eu cynnwys i'n hargyhoeddi mai llonyddu'r ysbryd oedd y bwriad. Yr oedd yr ymdrinaeth o'r Eglwys a'i chlerigwyr yn eithaf milwriaethus ac yn wrthglerigol ei naws.

Rhed un llinell yn y gân 'Llywelyn' fel y canlyn, 'Safwn fel gwroniaid, Trown ar yr estroniaid, Dryllwn iau yr eglwys frau, ei chyrtau a'i churataid.' Y mae yna gri filwrol i'r neges hon a oedd yn gymwys i enw'r ymgyrch - 'Rhyfel y Degwm'. Yr Eglwys oedd y 'gelyn', a'r gwrth-ddegymwyr oedd y 'milwyr' a 'frwydrant' dros 'gyfiawnder'. Dyma'r fath o neges a geir yn y caneuon hyn. Portreadwyd yr Eglwys a'r clerigwyr fel sefydliad a phobl oedd yn blaenoriaethu arian ar draul popeth arall. Yng nghân 'Nid Lefiad', y plwyfolion a ddaeth yn eilradd. Canwyd, 'Caru pwrs y ceir y parson: Chwys a lludded ei blwyfolion'.²⁰ Mewn cerdd arall canodd 'Corn y Gad', 'Mae'r 'Hen Fam' fethiantus yn gwasgu y pwrs'.²¹ Aeth ymlaen i adlewyrchu cwyn 'Nid Lefiaid' o ran y berthynas rhwng y clerigwr a'i blwyfolion, 'Y beichiau i chwi, Diogi a degwm i mi'.²² Yn sicr yr oedd y geiriau hyn yn ysgubol, ond heb os yr oedd trosglwyddo damcaniaethau gwrthglerigol trwy ffurf y caneuon yn ffordd effeithiol i geisio dylanwadu'r bobl.

Profodd y bennill isod o un o'r caneuon yn eithaf poblogaidd mewn rhai ardaloedd, yn enwedig yn Nantglyn, Sir Ddinbych, lle arhosodd ar lafar gwlad:²³

(Y Parson yn anerch y Bobl.)

¹⁹ *Goleud* (14 Chwefror 1906). Gw. gwaith Hywel Teifi Edwards, *Gwyl Gwalia* (Llandysul, 1980) a *Codi'r Hen Wlad yn ei Hól* (Llandysul, 1989).

²⁰ *Caneuon y Degwm*, t. 6.

²¹ *Ibid.*, t. 8.

²² *Ibid.*, t. 8.

²³ Sain Ffagan, *Amgueddfa Werin Cymru*, Tâp AWC 5854 - Owen Hughes Davies. Nodiadau gan Robin Gwyndaf.

Os chwi d'od i'r heglwys, chwi g'neuthur yn call,
Chwi dim myn'd i'r capel at pobl y fall;
Chwi talu y degwm, a d'od i'r iawn lle,
Chwi myn'd, pan yn marw, i canol y Ne.²⁴

Dyma'r person yn ceisio denu'r Anghydfurfwyr i'r Eglwys gan honni mai rhywbeth dwyfol oedd talu'r degwm, ac os na wnaethpwyd hynny, nid oedd lle yddynt yn y Nef. Addaswyd a chrewyd caneuon gwrth-ddegymol yn rhannau eraill o Gymru hefyd. Yn ôl Robert Lewis, casglwr y degwm yn y de-orllewin, 'Cân y degwm was sung at this period with gusto in most parts of the agitated area of west Wales and often with an added verse or two suitable to any particular locality.'²⁵ Dyma un bennill a ganwyd ar y dôn y Mochyn Du:

Eglwys Loegr sy ar ffyn-baglau
Yn methu pwyso ar ei choesau
Yr offeiriaid a'r Esgobion
Gyd-orphwysant ar y tlodion.²⁶

Unwaith eto gwelwn y cysyniad hwn o'r Eglwys a'r tlodion, ond y neges a gafwyd yn y bennill uchod oedd bod yr Eglwys yn dibynnu ar ddegymau'r wlad i fodoli fel sefydliad.

Yr oedd Archddiacon D. R. Thomas, rheithor Meifod, yn cyfrannu'n eithaf aml i'r *Times* y pryd hwn. Yn un o'i lythyrau fe geisiodd ddenu sylw'r Saeson i 'anfoesoldeb' caneuon y degwm, gan gynnwys ambell i ddetholiad wedi'i gyfieithu i brofi hyn.²⁷ Galwodd ef y rheini oedd yn ymgasglu adeg yr arwerthiannau ac yn canu caneuon y degwm yn 'dupes', ac yn amlwg Thomas Gee ac eraill oedd yn cael y bai am eu hysgogi i wneud hynny.

Ceir cyfeiriadau at ganu'r caneuon buddugoliaethus yn Ninbych, Llangwm, Llansannan, Cwm a Bodfari (fel y soniasom eisoes.)²⁸ Cawn wybod bod y caneuon

²⁴ *Caneuon y Degwm*, t. 23.

²⁵ LIGC, MS1532D Lewis.

²⁶ *Ibid.*

²⁷ 'To say that they are antagonistic to the Church is superflous ... In ordinary circumstances, such a scheme of agitation and abuse might be passed over in silence, and eventually I have no doubt they will, like chickens and curses, return home to roost. But read in the light of the practical commentaries of the tithe riots, one is forced to ask, Is it right that while some unfortunate dupes, misled by such influences, will inevitably have to pay the penalty of breaking the law, those who egg them on should be allowed to get off scot-free?' *Times* (22 Rhagfyr 1887).

²⁸ Lloyd Hughes, 'Caneuon y Degwm', t. 16; *Baner ac Amserau Cymru* (25 Ionawr 1888).

yn boblogaidd iawn ymysg ‘bechgyn’ Llangolman, ac felly hefyd yn Ffestiniog, ‘yn y farchnadfa a’r chwarelau, dyma oedd yn cael eu canu. Y maent yn ddoniol mewn gwirionedd.’²⁹ Soniasom fod rhai o’r caneuon wedi aros ar lafar gwlad, a mewn rhifyn o’r *Celt* yn Nhachwedd 1889 datganwyd, ‘... mae “Caneuon y Degwm” ac “Emynau y Dadgysylliad” mor gydnabyddus ar lafar gwlad heddyw ag yw “Hen wlad fy Nhadau” neu “God Save the Queen”...’³⁰

Nid ‘Caneuon y Degwm’ oedd yr unig gystadleuaeth o’i fath yn ystod ‘Rhyfel y Degwm’. Y mae yna gefndir difyr i’r enghraifft nesaf sydd yn werth manylu arno. Daeth Pegi Lewis yn enwog yn ystod ‘Rhyfel y Degwm’ oherwydd y cyhoeddusrwydd yn y wasg.³¹ Gwyddom ei bod hi’n wraig weddw oedrannus, ac ei bod yn meddiannu mân ddaliad ym mhlwyf Trewyddel, gogledd Sir Benfro.³² Yr oedd cyffro’r degwm wedi gafael yn y plwyf ym 1887 pan welwyd dros 20 o blismyn yn hebrwng y bagad atafaelu ymysg torf o oddeutu 500 o bobl a oedd yn taflu wyau atynt.³³ Y mae’r adroddiadau yn sôn am ambell i weinidog Anghydfurfiol yn bresennol ar y diwrnod, gyda sylw neilltuol yn cael ei roddi i’r Parchg. William Jones, gweinidog â’r Annibynwyr o Drewyddel.³⁴

Ym 1889 cafwyd helynt unwaith eto yn y plwyf pan wrthododd dau o blwyfolion Trewyddel (Margaret Lewis “Pegi Lewis” a Thomas Thomas) talu eu degymau i’r Parchg. Evan Evans, y rheithor.³⁵ Yr oedd Trewyddel yn un o ddwsin o blwyfi yn yr ardal lle yr oedd yn rhaid i’r awdurdodau atafaelu am y degymau. Fe ysgrifennodd y gangen leol o’r Gymdeithas Gwrth-Ddegymol i Aelod Seneddol Sir Benfro yn erfyn arno beidio gyrru’r heddlu ar y diwrnod.³⁶ Ond yr oedd T. J. Webb Bowen, y Prif Gwnstabl, yn bryderus bod y weithred o ymarfer canu ‘corn y degwm’ cyn yr arwerthiannau yn yr ardal yn arwydd o drwbl i ddod. Aeth ymlaen i honni, ‘The Rev. W. Jones, Moylgrove, I know to be a very influential man amongst the

²⁹ *Baner ac Amserau Cymru* (8 Mehefin 1887); *Baner ac Amserau Cymru* (6 Gorffennaf 1887).

³⁰ *Celt* (1 Tachwedd 1889).

³¹ Nid ydyw’n hollol eglur beth oedd enw iawn Pegi. Ceir Margaret Lewis mewn rhai ffynonellau, ond cyfeiriodd y *Western Mail* ati fel Margaret Davies. Gelwid hi’n ‘Peggi Lewis’ ‘Peggi Davies’ a ‘Peggi’r Degwm’ hefyd. *Western Mail* (21 Ebrill 1900); *Cambrian* (20 Ebrill 1890). Gan mai Lewis oedd cyfenw ei thad hi, efallai mai Davies oedd ei henw priodasol hi.

³² *Werin* (16 Mawrth 1889); *South Wales Daily News* (28 Tachwedd 1889).

³³ HC Deb 8 Awst 1887, cyf. 318, col. 1514.

³⁴ *Cardigan Observer* (6 Awst 1887); *Weekly Mail* (6 Awst 1887); *Pembrokeshire Herald* (5 Awst 1887).

³⁵ LIGC, Papurau Williams and Williams, Tithe Agitation in Pembroke 1889, 15455-56, Nodiadau.

³⁶ LIGC, Papurau Williams and Williams, Tithe Agitation in Pembroke 1889, 15417, Anti-Tithe Society, Penygroes, Crymmych Arms i Mr. William Davies, Esq., M.P. (8 Mawrth 1889).

people in the north east section of this county, But I am of opinion that he is not advising the people well in this matter'.³⁷

Yn sicr yr oedd pobl o'r farn bod gan Jones ddylanwad yn yr ardal. Wedi'i farwolaeth ym 1898, ysgrifennodd y *Cambrian*, '[he was] famous in his own circle [and was] best known as the leader of the "anti-tithers and the friend of the redoubtable "Pegi Lewis"'.³⁸ Bu farw Pegi dwy flynedd yn ddiweddarach, a mewn cofiant bach iddi gan y Parchg. J. Myfenydd Morgan, ficer Llandudoch, datgelodd mai Annibynwraig oedd hi o dan ofal y Parchg. William Jones.³⁹ Wedi sefydlu'r cysylltiad rhwng Lewis a Jones, rhaid ystyried a wnaeth Jones annog Pegi Lewis i wrthod talu'r degwm? Neu yntai hi oedd yn bennaf gyfrifol? Yn ôl un ffynhonnell, 'Roedd gan ei thad, Dafydd Lewis y Crudd, a oedd yn Annibynwr, farn flaengar gweledol o'i amser ac yn ôl yr hanes roedd Pegi Lewis yn un mor effro a'i thad er ei fod wedi marw yn 1869'.⁴⁰ Hwyrach yr oedd Pegi yn fwy na pharod i wrthod talu ei degymau, ynghyd â Thomas Thomas, a oedd, yn ôl y *Werin*, yn, 'Ymneillduwr egwyddorol, a Radical i'r carn'.⁴¹

Ar 27 Chwefror derbyniodd Pegi rybudd atafaelu ac ar 15 Mai fe gafwyd ymgais i atafaelu ar rhai o'i heiddo. Pan gyrhaeddodd y bagad fwthyn Pegi fe ddarganfuwyd fod y drysiau wedi'u cloi, ac nid oedd golwg yn unman o'r hen wraig na'r fuwch a oedd i'w gwerthu.⁴² Yn amlwg yr oedd yr holl beth wedi'i gynllwynio o flaen llaw. Neidiodd y wasg Ryddfrydol ar y cyfle i bortreadu Pegi fel yr 'hen dioddwraig weddw dlawd' a ddioddefai drwy weithred lawdrwm yr Eglwys. Ys dywedodd y *South Wales Daily News*, '[a] poor widow, and some time ago buried her only son. Living in a wayside cottage, she eked out a bare subsistence by keeping a couple of cows on a small holding, and thus escaped the last resource of the lone, infirm, and unfortunate – the workhouse.'⁴³ Dygwyd achosion yn erbyn Pegi ac eraill am 'pound breach' yng nghwrt sirol Aberteifi. Cynrychiolwyd y diffynyddion gan

³⁷ LIGC, Papurau Williams and Williams, Tithe Agitation in Pembroke 1889, 15424, T. J. W. Bowen i William Davies, Esq, M.P. (15 Mawrth 1889).

³⁸ *Cambrian* (15 Gorffennaf 1898). Yn ôl y *South Wales Daily News*, '[he] took a leading part in all political and religious movements in the county of Pembroke, as well as large gatherings in South Wales. (8 Gorffennaf 1898).

³⁹ *Cambrian* (20 April 1900).

⁴⁰ Erthygl, 'Rhyfel y Degwm' ar wefan ysgol Trewyddel: freespace.virgin.net/j.guest/TitheWarW.htm

⁴¹ *Werin* (16 Mawrth 1889).

⁴² *Cardigan Observer* (18 Mai 1889); *South Wales Daily News* (28 Tachwedd 1889).

⁴³ *South Wales Daily News* (28 Tachwedd 1889).

Asa ac Ivor Evans, cyfreithwyr Cymdeithas Gwrth-ddegymol gogledd Sir Benfro a dwyrain Sir Gaerfyrddin. Ariannwyd yr amddiffyniad gan Undeb Rhyddfrydol De Cymru, sydd yn dangos bod yr achos yn cael ei ystyried yn un bwysig gan Ryddfrydwyr de Cymru, ac yn fuddugoliaeth wleidyddol os gellid ei ennill.⁴⁴

Buddugoliaeth i'r amddiffynwyr a gafwyd pan dynnodd yr achwynnwyr yr achosion yn ôl. Galwodd y *South Wales Daily News* hyn yn, 'Wholesale Clerical Capitulation'.⁴⁵ Yr oedd yn fuddugoliaeth symbolaidd i'r gwrth-ddegymwyr. Penderfynwyd bod rhaid cofnodi a dathlu'r achlysur drwy agor cystadleuaeth i ysgrifennu cân a chytgan, neu faled am, 'hanes helynt Pegi Lewis a'r Degwm'. Yr oedd yr enillydd i gael gwobr o £5. Apwyntiwyd Rowland Williams (Hwfa Môn) ac Evan Rees (Dyfed), fel y beirniaid; yr oedd y cyntaf yn weinidog â'r Annibynwyr a'r olaf efo'r Methodistiaid.⁴⁶ Yr holl bwynt oedd i wneud Pegi yn 'arwres,' ac ni ellir ond ei hystyried fel gwerinwraig mewn gêm o wyddbwyll gwleidyddol. Yr oedd y ddelwedd o hen ddynes yn cael ei gwysio i'r llys gan yr awdurdodau Eglwysig, ac yn ennill yr achos hwnnw, yn gyfle euraidd i hyrwyddo'r propaganda datgysylltiad.

Cyhuddwyd y gwrth-ddegymwyr ac eraill gan y Ceidwadwyr o wneud môr a mynydd allan o hyn. Ym mis Rhagfyr 1889 ysgrifennodd 'Veritas' i'r *Western Mail* i ddinoethi 'clwyddau' y, 'tub and stump orators and political preachers,' fel y galwodd ef y cynhyrfwyr.⁴⁷ Honnodd 'Veritas' ei fod wedi holi rhywun a oedd yn gyfarwydd â Pegi Lewis, a maentumiodd ei bod hi'n byw mewn tŷ wedi ei ddodrefnu dda:

... with eight acres of good land, whereon she is able to keep two cows in full profit and a heifer. Her rent is only £6 per annum and her tithe is commuted at 8s. Many persons would be glad of her little farm at the rent of £10 a year.⁴⁸

I gadarnhau'r ffaith nad oedd Pegi Lewis mewn cyflwr o wir dlodi, honnwyd ei bod yn menthyg arian i'w chymdogion mewn angen, 'upon certain conditions'.⁴⁹ Y mae'n bosib fod y wasg Ryddfrydol wedi gorliwio pethau o ran y 'bara' a'r tlodi,

⁴⁴ *South Wales Daily News* (28 Tachwedd 1889).

⁴⁵ *Ibid.*

⁴⁶ *South Wales Daily News* (12 Rhagfyr 1889).

⁴⁷ *Western Mail* (20 Rhagfyr 1889).

⁴⁸ *Ibid.*

⁴⁹ *Ibid.*

ond efallai mai'r gydwybod, yn hytrach na'r boced, oedd y ffactor mwyaf pwysig ym meddwl Pegi (gyda William Jones yn ei hannog) pan wrthododd hi dalu'r degwm.

Cafwyd llythyr arall yn y *Western Mail* o fewn ychydig o ddiwrnodau gan ficer Trewyddel ei hun. Yr oedd Evans wedi cael ei bortreadu fel dihiryn yn y wasg. Datganodd y *Celt* bod 'dewrder' Pegi yn 'smotyn du' ar ei wenwisg.⁵⁰ Wfftiodd Evans y honniad nad oedd gan Pegi Lewis fara yn y tŷ, '[and] before taking any steps to secure the tithes due from her [I] made careful inquiries as to her condition, and found that she was in easy circumstances.'⁵¹ Atodwyd llythyr gan E. C. Philipps, 'gentleman farmer' a oedd yn byw nid nepell i ffwrdd o Pegi. Honnodd hwnnw nad oedd hi'n agos at fynd i'r Wyrcews, '[and] she has for many years been in the habit of lending sums of money at very high interest, and it was only the other day she had a dispute with one who had borrowed money from her.'⁵² Os amheurn mai nad 'Veritas' oedd Philipps, dyma ddau berson yn maentumio bod Pegi yn weddol gyfforddus ei byd yn ariannol. Aeth y ddadl yn ôl ac ymlaen, ac ysgrifennodd William Jones i amddiffyn Pegi a'i chefnogwyr gan wfftio honiadau'r uchod bod hi mewn cyflwr cyfforddus, yn ariannol ac yn gyffredinol mewn bywyd.⁵³

Nid amharodd y dadleuon hyn ar y gystadleuaeth ysgrifennu cân, ac erbyn dechrau 1890 yr oedd 67 o geisiadau wedi'u derbyn. Serch hynny, crybwyllwyd nad oedd yr un yn deilwng o'r wobr. Ond fe ddewiswyd cais Watcyn Wyn, 'Pegi Lewis: Arwres Rhyfel y Degwm', fel yr enillydd.⁵⁴ Y Parchg. Watkin Hezekiah Williams oedd 'Watcyn Wyn,' a oedd erbyn 1890 yn gyd-olygydd *Y Diwygiwr*.⁵⁵ Gwnaeth Williams bwynt dyllys yn y *Western Mail* wrth amddiffyn ei gân drwy resymu bod 'Hwfa Môn' a 'Dyfed' fel arfer yn ymdrin â, '[certain] class of poetry,' a dylid wedi penodi cerddor hefyd i feirniadu'r caneuon.⁵⁶ Wedi'r cwbl, yr oeddynt i fod i apelio at y cyhoedd yn gyffredinol.

⁵⁰ *Celt* (1 Tachwedd 1889).

⁵¹ *Western Mail* (23 Rhagfyr 1889).

⁵² *Ibid.*

⁵³ *South Wales Daily News* (31 Rhagfyr 1889).

⁵⁴ *Tarian y Gweithiwr* (20 Chwefror 1890); *Celt* (21 Chwefror 1890). Ceir y faled yn llawn yn y rhifau hyn.

⁵⁵ *Y Bywgraffiadur Hyd 1940*, tt. 1011-1012.

⁵⁶ *Western Mail* (18 Chwefror 1890).

Datgysylltiad oedd prif thema'r gwaith, ac fel pob cân arall a oedd yn gysylltiedig â'r degwm, llabyddio'r Eglwys oedd y ffordd orau o geisio apelio at y gynulleidfa. Dyma ddetholiad o gân Watcyn Wyn:

Datgysylltiad fynodd Pegi,
Dwedai rhai ei bod yn tyngu:-
“Ni chaiff eirwy unrhyw Dori
Gadw'r fuwch rhag myn'd i bori!”

Yr oedd y faled yn seiliedig ar yr adroddiadau yn y *South Wales Daily News*, felly'r fersiwn Rhyddfrydol o'r achos a gafwyd yn y gân hon ac eraill hefyd.⁵⁷

Ar 3 Chwefror 1890 cynhaliwyd cyfarfod Undeb Rhyddfrydol De Cymru yn y Colonial Hall yng Nghaerdydd. Ymysg dynion megis David Lloyd George (ychydig cyn iddo gael ei ethol fel yr Aelod Seneddol dros Fwrdeistref Caernarfon) a gwleidyddion o bwys eraill yr oedd Pegi Lewis. Adeg araith gan David Randall, A.S., adroddodd y *Carnarvon and Denbigh Herald*:

Peggy Lewis, dressed in the ordinary costume of a Welsh peasant, entered the room, and ascended the platform. She received quite an ovation from the moment her presence was observed. Mr. Randall, who had been speaking on the revival of national spirit, happily observing that she was living evidence of Welsh nationality.⁵⁸

Dyma uchafbwynt y 'propaganda' ynghylch Pegi Lewis a'r degwm. Y mae'r ffaith ei bod wedi gwisgo mewn dillad plaen gwerinol (ei dillad arferol mwy na thebyg) yn adrodd cyfrolau o ran y ddelwedd a chwennychwyd. Dyma ymgais i geisio portreadu Pegi fel rhywun oedd yn 'nodweddiadol Gymreig'. Y nod oedd i greu gwrthgyferbyniad gweledol rhwng y degwm dalwr 'tlawd' a'r Eglwys 'gyfoethog' i gyfrannu i'r math o rethreg oedd yn cael ei hyrwyddo ar y pryd.⁵⁹ Dengys bod Pegi, ynghyd â'i chyfaill y Parchg. William Jones, wedi ymweld â sawl tref yn y deheudir i

⁵⁷ 'Pegi Lewis a'r Degwm,' gan W. R. Edwards, *Baner ac Amserau Cymru* (21 Mai 1890); 'Pegi Lewis a'r Degwm,' gan 'Penfro', *Celt* (14 Mawrth 1890); 'Pegi Lewis,' gan 'Samson', *Tarian y Gweithiwr* (20 Chwefror 1890); 'Can newydd yn rhoddi hanes Arwres y Degwm – Pegi Lewis – A'r modd y curodd hi yr awdurdodau a chadw ei buwch.' <https://syllwr.llyfrgell.cymru/1060785>; 'Can y Cwmp'ni (Neu gellir ei chanu ar 'Brefiad Lloiau Pegi Lewis.' <https://syllwr.llyfrgell.cymru/1105801>)
⁵⁸ *Carnarvon and Denbigh Herald* (7 Chwefror 1890).

⁵⁹ Ursula Masson, *'For Women, for Wales and for Liberalism': Women in Liberal Politics in Wales 1880-1914* (Caerdydd, 2010), t. 28.

hyrwyddo'r ddelwedd yma.⁶⁰ Gorffennodd y cyfarfod yng Nghaerdydd gyda datganiad o gân Watcyn Wyn.⁶¹

Yn naturiol yr oedd y ceidwadwyr a beirniaid yr ymgyrch gwrth-ddegymol yn feirniadol iawn o'r cyfarfod. Yr oedd y Parchg. T. B. Williams, ficer Sant. Pedr, Caerfyrddin, yn ddeifiol dros ben yn ei feirniadaeth. Disgrifiodd ymddangosiad Pegi Lewis fel, '[a] comedy of comedies ... [and that the] story about her is one tissue of falsehoods from start to finish'.⁶² Honnodd y *Western Mail*, '[the whole incident was] laughed at and ridiculed to an extent that every mention of it afterwards made a Radical feel sore'.⁶³ Neilltuodd y papur hwnnw ofod sylweddol i labyddio'r holl beth, gydag un person yn disgrifio'r gân fuddugol yn 'unsingable,' tra galwodd rhywun arall ef yn, 'miserable trash'.⁶⁴ Yn sicr yr oedd yna flas chwerw i'r holl beth o'i ddechrau hyd at ei ddiwedd. Yr oedd hyn, mewn gwirionedd, yn arwyddol o 'Ryfel y Degwm' yn gyffredinol.

Pedair mlynedd yn ddiweddarach fe wysiwyd a dedfrydwyd Pegi Lewis am greulondeb tuag at anifeiliaid.⁶⁵ Yr oedd yn gyfle euraidd i'r *Western Mail* gael pigo hen grachen. Dywedodd y papur hwnnw, 'It is certainly startling to find Peggy once more attracting the attention of the public. But what an alteration of circumstances! The martyr of a few years ago now appears in the character of an ill-treater of a lamb and a starver of a cow!'⁶⁶ Oni bai am y cyhoeddusrwydd a gafodd Pegi o'r blaen, ni fyddai'r stori wedi cael fawr o sylw. Ond yr oedd yr hen wraig bellach wedi dod yn ffigwr gwleidyddol ac yn symbol o'r ymgyrch gwrth-ddegymol. Oblegid hynny, cafodd gefnogaeth cangen Caerdydd o Gymdeithas *Cymru Fydd*, a hefyd awdur ei gân fuddugoliaethus, Watcyn H. Williams.⁶⁷ Rhyddhawyd hi o'r carchar ar ôl i neb llai na'r Ysgrifennydd Cartref ymyrryd yn y mater.⁶⁸

Yn amlwg prif bwrpas y caneuon a'r baledi gwrth-ddegymol yn ystod 'Rhyfel y Degwm' oedd i brocio hwyl am ben ac i farnu'r Eglwys a'i chlerigwyr.

⁶⁰ *Cambrian* (20 Ebrill 1900).

⁶¹ *Carnarvon and Denbigh Herald* (7 Chwefror 1890).

⁶² *Welshman* (14 Chwefror 1890).

⁶³ *Western Mail* (17 Tachwedd 1890).

⁶⁴ *Western Mail* (15 a'r 16 Chwefror 1890).

⁶⁵ *Western Mail* (17 Tachwedd 1894).

⁶⁶ *Ibid.*

⁶⁷ *Western Mail* (1 Rhagfyr 1894); *Cymro* (13 Rhagfyr 1894).

⁶⁸ *Western Mail* (1 Ionawr 1895).

Efallai nad oedd cywirdeb ffeithiau yn cymryd fawr o flaenoriaeth, a gweini at ragfarnau sefydledig oedd y peth hawsaf i wneud wrth geisio apelio at y bobl gyffredin. Yr oedd y fath beth yn sicr o gythruddo'r clerigwyr ac eglwyswyr eraill. Serch hynny, nid oes yna fawr o dystiolaeth i awgrymu fod yna adwaith wedi bod i greu caneuon a baledi i ateb yn ôl i'r gwrth-ddegymwyr. Yn amlwg mai gwneud hwyl am ben y clerigwyr a'r Eglwys a apeliodd at ddant y werin, ond nid ydyw hyn yn golygu bod yna atgasedd wedi treiddio a ffynnu o fewn y gymdeithas.

II.

Y 'Gwŷr Gwellt'

Nid ydyw'r weithred o greu a dinistrio 'gwŷr gwellt' o glerigwyr yr Eglwys wedi denu fawr o sylw gan haneswyr.⁶⁹ Dichon bod yr enghreifftiau o drais yn ystod rhai arwerthiannau wedi bwrw cysgod dros y ffenomenon hwn, ac yn naturiol wedi denu mwy o sylw. Er hynny, y gwŷr gwellt, yn hytrach na thrais, oedd un o'r nodweddion mwyaf cyffredin yn ystod yr arwerthiannau o ddiwedd 1887 ymlaen. Felly, bwriad yr adran hon ydyw dadorchuddio'r lluwys o enghreifftiau o ddelwau gwellt er mwyn ceisio dadansoddi'r ffenomenon diddorol hwn yn fanwl. Yn ogystal â hyn ceisir dangos pa mor gyfoethog oedd yr eirfa symbolaidd (symbolic vocabulary).

Diben y gwŷr gwellt oedd i fychanu ac i farnu ar yr un pryd - rhyw fath o fersiwn gweledol o'r caneuon a baledi dychanol. Yr oedd gan weithredoedd o'r fath eu gwreiddiau yn arferion gwerinol y wlad. Fel y dywedodd David Williams, 'The practice of holding someone up to derision by carrying him, in person or in effigy, on a wooden pole or ladder is common to the folk-custom of many lands'.⁷⁰ Yn Lloegr a'r Alban gelwir defodau o'r fath yn 'rough music', 'skimmington' a 'riding the stang', tra defnyddwyd y term 'charivari' yn Ffrainc fel term cyffredinol i ddisgrifio'r amryw ffurf o ddefodau darostyngol.⁷¹ Yng Nghymru, defnyddir y term

⁶⁹ Ceir triniaeth fer o un paragraff gan Dunbabin, *Rural Discontent in Nineteenth Century Britain* (Llundain, 1974), t. 288.

⁷⁰ David Williams, *The Rebecca Riots* (Caerdydd, 1953), t. 69.

⁷¹ Gw. y bennod 'Rough Music' yn E. P. Thompson, *Customs in Common* (1991), tt. 467-533; A. James Hammerton, 'The targets of 'Rough Music': respectability and domestic violence in Victorian England', *Gender and History*, cyf. 3, rhif. 1 (Ebrill, 1991), tt. 23-44.

‘ceffyl pren’ gan haneswyr fel *pars pro toto* i ddisgrifio’r amryw ffurf o ddefodau dychanol, ac o dan y gorchudd hwn y perthynai’r gwŷr gwellt.⁷²

Canolbwynt y defodau darostyngol oedd gosod y ‘toseddwr’, naill ai’n llythrennol neu fel delw, ar bolyn neu ysgol er mwyn i’r unigolyn hwnnw dderbyn llid y dorf fel cosb – y ddedfryd.⁷³ Camwedd yr unigolyn gan amlaf oedd mynd yn groes i ddisgwyliadau moesol y gymuned. Yr oedd rhai defodau yn fwy llafurfawr nag eraill, ond erys yr egwyddor yr un fath. Ys dywedodd Iorwerth C. Peate, ‘ridicule could be extremely effective,’ a dyma brif nod y ‘cyrtiau’ hyn - i farnu ac i gosbi drwy gywilyddio.⁷⁴ Er ymdrechion yr awdurdodau i atal defodau o’r fath, rôl gynyddol y capeli fel disgyblwyr a gwarchodwyr ‘moesol’ y gymuned, ac amryw o ffeithiau cymdeithasol eraill, nid oedd defodau darostyngol wedi diflannu yn gyfan gwbl o Gymru hyd yn oed yn ystod ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Fel y dywed Rosemary Jones, ‘Social change was neither cataclysmic nor total’.⁷⁵

Yn ystod mis Mawrth 1877 fe ymgasglodd trigolion ardal Ffestiniog er mwyn dangos, ‘their utmost condemnation to an act of unacceptable immorality’.⁷⁶ Honnwyd bod gŵr o’r ardal yn bwriadu gadael ei wraig, a chredwyd bod ei ymweliadau cyson â dynes arall yn yr ardal wrth wraidd yr holl beth.⁷⁷ Cipiwyd ef gan y dorf ac aethant ar orymdaith drwy strydoedd Blaenau Ffestiniog gyda’r gwylwyr yn bloeddio hwre. Ychydig o nosweithiau ynghynt yr oedd gŵr gwellt o’r ‘toseddwr’ wedi ei greu a’i losgi’n ulw.⁷⁸ Ond eithriad mewn gwirionedd oedd cipio a gorymdeithio’r unigolyn yn llythrennol erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Dengys mai creu delw o’r person oedd y drefn gyffredinol erbyn hynny.

⁷² Y Mae Rosemary A. N. Jones wedi ysgrifennu’n helaeth yn y maes hwn, yn enwedig o safbwynt menywod: ‘Popular culture, policing and the “disappearance” of the *Ceffyl Pren* in Cardigan c. 1837-1850’, *Ceredigion: Cylchgrawn Hynafiaethwyr Sir Aberteifi*, cyf. 11, rhif. 1-4 (1989-1992), tt. 19-39; idem, ‘Women, community and collective action: the *Ceffyl Pren* tradition’, yn Angela V. John (gol.), *Our Mother’s Land: Chapters in Welsh Women’s History, 1830-1939* (Caerdydd, 2011; Ail Argraffiad), tt.24-47; idem., ‘Sociability, solidarity, and social exclusion: women’s activism in the south Wales Coalfield, ca.1830 to 1939’, yn Laurie Mercier and Jaclyn J. Gier (Gol.), *Mining Women: Gender in the Development of a Global Industry 1670-2000* (Efrog Newydd, 2006) tt.96-118. Gw. hefyd, Rhian E. Jones, *Petticoat Heroes: Gender, Culture and Popular Protest in the Rebecca Riots* (Caerdydd, 2015).

⁷³ Jones, ‘Women, community and collective action’, t. 27; Iorwerth C. Peate, *Tradition and Folk Life: A Welsh View* (Llundain, 1972), t. 78.

⁷⁴ Peate, *Tradition and Folk Life*, t. 78.

⁷⁵ Jones, ‘Popular Culture’, t. 36.

⁷⁶ *Cambrian News and Merioneth Standard* (2 Mawrth 1877).

⁷⁷ Ibid.

⁷⁸ Ibid.

Ceir amryw o enghreifftiau ar hyd a lled Cymru. Ym 1884 fe orymdeithiwyd delw o organydd eglwys Llanandras drwy strydoedd y dre gyda seindorf yn gyfeiliant.⁷⁹ Blwyddyn yn ddiweddarach fe losgwyd gŵr gwellt o warcheidwad y tlodion ym Mhenarth ger Caerdydd oblegid ei ymddygiad honedig o barthed treth y tlodion.⁸⁰ Ym 1886 crewyd a llogwyd delw gwellt o ddynes yng Nghas-gwent cyn iddi cael ei gorfodi i adael y dref. Honnwyd ei bod hi wedi esgeuluso'i llysferech.⁸¹ Yr oedd masnachwr o Gaerdydd wedi gwneud rhywbeth i ddenu enllib criw o bobl ifanc ym 1893, canys fe losgwyd delw ohono yn James Street, er gwaethaf ymdrechion yr heddlu i geisio cadw trefn.⁸²

Ceir ambell i esiampl arall yn y gogledd hefyd. Ym 1893 yr oedd gŵr o'r enw Robert Owen wedi cythryddo trigolion ardal Amlwch oherwydd ei ymddygiad tuag at ei wraig. Dengys bod Owen wedi dechrau rhyw fath o berthynas gyda dynes arall, a thorrwyd ffenestri ei annedd cyn i ddelw ohono cael ei losgi o flaen torf a wnaeth ymgasglu o flaen ei dŷ.⁸³ Aeth pethau mor ddrwg i warantu gwylidwriaeth swyddogol o'r tŷ. Ar ben hyn i gyd yr oedd yn rhaid i'r ddynes nad oedd yn wraig i Owen adael gyda'r trê'n o dan wylidwriaeth Rhingyll Hughes o Amlwch.⁸⁴ Crëwyd delw gwellt arall o Owen, ac y tro hyn yr oedd ail ddelw gydag ef, sef un o'r 'ddynes arall'. Yn ôl y *Werin* fe losgwyd hwy o flaen torf o dros 2,000 o bobl.⁸⁵ Pedair mlynedd yn ddiweddarach ym 1897 fe wnaeth trigolion Henllan, Sir Ddinbych, creu delw o heddwes amhoblogaidd oedd yn trigo yn y pentref. Yn ogystal â hwn fe grëwyd, '... a rudely suggestive effigy of a married woman, resident in the village'.⁸⁶ Llogwyd y gwŷr gwellt, ac awgrymodd y *Denbighshire Free Press* fod hi'n beth da nad oedd yr heddwes yn bresennol yn y pentref y diwrnod hwnnw.⁸⁷

Y mae'r enghreifftiau a ddyfynnwyd uchod yn cadarnhau'r hyn a ddywed Rosemary Jones, 'most regions of Wales retained some form of public sanction allied to the *ceffyl pren* tradition well into the twentieth century.'⁸⁸ Gwelir hefyd bod creu

⁷⁹ LIGC, Llysdinam Estates Records, B1029, W. Stephens, Prestigne (25 Tachwedd 1884).

⁸⁰ *Weekly Mail* (19 Medi 1885); *South Wales Daily News* (14 a'r 22 Medi 1885).

⁸¹ *Cardiff Times* (28 Awst 1886).

⁸² *Cardiff Times* (16 Medi 1893).

⁸³ *Y Werin* (13 Chwefror 1892); *Y Drych* (25 Chwefror 1892).

⁸⁴ *Ibid.*

⁸⁵ *Ibid.*

⁸⁶ *Denbighshire Free Press* (6 Tachwedd 1897).

⁸⁷ *Ibid.*

⁸⁸ Jones, 'Women, community and collective action', t. 29.

delwau allan o wellt yn rhywbeth a wnaethpwyd mewn achosion domestig cyn, yn ystod ac ar ôl helyntion y degwm. Fel arfer yr oedd hyn yn cynnwys rhyw fath o gamwedd rhywiol neu unrhyw gamwedd ‘moesol’ arall o barthed ymddygiad yn y cartref. Awgrymir yn yr achos o Benarth o barthed treth y tlodion (gweler uchod) fod y defnydd o wŷr gwellt hefyd yn addas i fynegi anfodlonrwydd mewn materion cyhoeddus. Yn yr un modd gwelwyd defodau darostyngol yn cael eu defnyddio a’u trawsffurfio i gosbi camweddau moesol tu hwnt i faterion y cartref yn ystod terfysgoedd ‘Beca.’⁸⁹ Yn yr un traddodiad felly, defnyddiwyd y gwŷr gwellt i fynegi beirniadaeth wleidyddol a chymdeithasol o’r Eglwys Sefydledig a’i chlerigwyr yn ystod ‘Rhyfel y Degwm.’

Nid oes yna fawr o dystiolaeth i awgrymu bod creu delw o glerigwyr yr Eglwys yn rhywbeth cyffredin iawn yng Nghymru cyn 1887. Ond ar ôl hynny nes oddeutu 1895, daeth y weithred yn un boblogaidd mewn ambell i ran o Gymru (ffig. 5.1). Yr hyn a welwn yma ydyw ffenomenon unigryw dros dro; beirniadaeth gymdeithasol o rai clerigwyr am gymryd camau cyfreithiol er mwyn adfer eu degymau. Plethwyd hyn â beirniadaeth wleidyddol yn erbyn Eglwys Lloegr fel eglwys Sefydledig. Yr oedd y weithred o greu gwŷr gwellt fel procsi o ‘droseddwr moesol’ yn cymathu’n effeithiol i’r diben cymdeithasol a gwleidyddol hwn. Ni welodd Cymru'r fath beth tu hwnt i gyfnod ‘Rhyfel y Degwm’.

Nid oedd y weithred o greu gwŷr gwellt o glerigwyr yr Eglwys yn rhywbeth nodweddiadol o ‘Ryfel y Degwm’ nes diwedd 1887. Er enghraifft, nid oes yna unrhyw sôn am ddelwau gwellt yn ystod y gwrthdaro adnabyddus yn Llangwm ar 25 a’r 27 Mai 1887. Ond pan ddychwelodd y beiliaid yn ôl yno ym mis Ebrill 1888, yr oedd y trigolion lleol wedi creu gŵr gwellt. Honnwyd mai delw o’r Esgob Joshua Hughes ydoedd, gyda’r geiriau, ‘Mynaf y degwm a chymerwch chwithau eich siawns’, oddi tano.⁹⁰ Nid ydyw’n hollol glir pam nad oedd creu delwau gwellt yn rhywbeth a welwyd yn ystod 1886 na rhan helaeth o 1887. Un rheswm o bosib ydyw’r ffaith mai’r Dirprwywyr Eglwysig, yn hytrach na’r periglorion plwyfol, oedd y mwyaf gweithgar yn ystod y dyddiau hyn yn adfer ei degymau.

⁸⁹ Prys Morgan, ‘The hunt for the Welsh past in the romantic period’, yn Eric Hobsbawm a Terence Ranger (gol.), *The Invention of Tradition* (Caergrawnt, 1983), t. 97.

⁹⁰ *Celt* (27 Ebrill 1888); *Cambrian News and Merionethshire Standard* (20 Ebrill 1888); LIGC, SA/Tithe/1-207/Llangwm.

Ffig. 5.1 Ardaloedd a welodd achos neu achosion o greu 'gŵr gwellt' i gynrychioli offeiriad yr Eglwys, 1887-1895.



Ffynhonnell: Yn seiliedig ar adroddiadau papurau newydd y cyfnod.

Ym mis Tachwedd 1887 gwelwyd un o'r enghreifftiau cyntaf o greu gŵr gwellt o glerigwr mewn arwerthiant yn Nerwen, Sir Ddinbych. Yr oedd John Davies, Rhewl Fawr a Mrs. Jones, gwraig weddw o Rhewl Fach, wedi derbyn rhybuddion deng-niwrnod i dalu eu degymau.⁹¹ Nid oedd y Parchg. Morgan Hughes yn barod i ostwng 20 y cant a hanner yn ei ddegymau, ac felly aeth yr arwerthiannau yn eu blaen. Ar ben das o wair ar fferm Rhewl Fawr gwelwyd 'gŵr gwellt' wedi ei wisgo

⁹¹ *Werin* (26 Tachwedd 1887).

mewn crys gwyn budr a oedd, mae'n debyg, yn cynrychioli gwenwisg yr offeiriaid.⁹² Yn ôl y *Faner* fe ychwanegwyd bwrdd o flaen y delw, ac arno, 'botel llawn o rywbeth tebyg i'r hyn yr ymffrostia y gwŷr Eglwysig ynddo ynghyd â dau wydryn, un at wasanaeth y person ei hunan, a'r llall i'w gydymaith (delw o'r arwerthwr)'.⁹³ Datgelodd Hughes fod y delw wedi'i losgi wedi'r arwerthiant.⁹⁴ Ond dichon mai un o'r pethau sydd yn cynnig syniad o ran newydd-deb y peth ar y pryd ydyw'r hanes am arlunydd yn dyfod yno'n unswydd i dynnu llun y ddau wŷr gwellt.⁹⁵

Ym 1890 fe gymerodd Hughes y llwybr cyfreithiol unwaith eto er mwyn adfer ei ddegymau. Yr oedd llawer mwy o ymdrech wedi'i fuddsoddi yn y gŵr gwellt y tro hyn, gyda het sidan o'r ffasiwn ddiweddaraf ochr yn ochr â'r wenwisg. Arwyddocâd hyn efallai oedd ceisio cyfleu'r neges bod cyllid y degwm yn cael ei ddefnyddio i brynu pethau moethus er budd y clerigwr.⁹⁶ Yr oedd y Parchg. Thomas Prichard, Llanelidan, wedi gwneud ymholiadau i weithgareddau'r diwrnod. Yn ôl ef, yr oedd gŵr o'r enw Jonah Thomas wedi cyfaddef wrtho fod y gwrth-ddegymwyr wedi'i dalu i hebrwng delw Hughes o gwmpas y lle.⁹⁷ Yn ogystal â hyn, honnodd Prichard fod dyn o'r enw John Roberts wedi dweud wrtho iddo glywed, '... references to mocking the Communion ...'.⁹⁸

Yr oedd Roberts wedi ymweld â Hughes hefyd wedi'r arwerthiant, gan ddweud wrth hwnnw fod y gŵr gwellt wedi'i losgi, a fod rhywun yn y dorf wedi gweiddi, 'Let us give him [effigy] the Communion before we kill him'.⁹⁹ Dywedodd hysbyswr arall ei fod wedi gweld potel wag yn cael ei rhoi wrth ymyl ceg y gŵr gwellt, gan ddyfod i'r casgliad, 'it was intended for a mockery of the celebration of the Communion'.¹⁰⁰ Ychydig ar ôl yr arwerthiant honnwyd mewn sgwrs yn y Crown Inn, Gwyddelwern, bod tri blaenor gyda'r Methodistiaid yn bresennol adeg yr ymryson gyda'r gŵr gwellt. Cafwyd tri enw: Robert Jones, Llwyn Gresych, Robert

⁹² *Werin* (26 Tachwedd 1887).

⁹³ *Baner ac Amserau Cymru* (30 Tachwedd 1887).

⁹⁴ LIGC, SA/Tithe/1-207/Derwen.

⁹⁵ *Baner ac Amserau Cymru* (30 Tachwedd 1887). Y mae lleoliad y darlun yma yn anhysbys i'r awdur.

⁹⁶ *Baner ac Amserau Cymru* (Ebrill 19/23 1887).

⁹⁷ Rhuthun, Archifdy Sir Ddinbych (ASD), NTD/588, Affidavits Rev. Thomas Prichard, Llanelidan, 6 November 1890.

⁹⁸ *Ibid.*

⁹⁹ ASD, NTD/588, Affidavits Rev. Morgan Hughes, Derwen, 6 November 1890.

¹⁰⁰ *Ibid.*

Lloyd, Tai Teg a Rowland Edwards, Derwen.¹⁰¹ Yr oedd Godfrey Davies, tŵr, o'r farn mai Edwards oedd wedi bygwth 'lladd' y delw, fel y dyfynwyd uchod. Tramgwyddwyd Methodist o'r enw Edward Edwards gan yr honiad, ac os ymddengys mai blaenor oedd yr un a ddrwgdybir, dywedodd, 'I will see that he is punished by our rules'.¹⁰² Ond yr oedd yn ffyddiog mai, 'one of the roughs, a young fellow from Melin y Wig', oedd yn gyfrifol.¹⁰³

Y mae'n werth nodi yma adroddiad byr yn *Y Dydd* yn honni fod carreg wedi ei daflu at wraig clochydd plwyf Derwen oddeutu hanner awr wedi un ar ddeg y nos yn ystod mis Rhagfyr 1890:

... dychrynwyd preswylwyr ty clochydd y plwyf gan swm rhywrai yn gwneud ymosodiad ar y ty. Aeth Mrs Roberts, gwraig y clochydd, i'r drws i edrych beth oedd yr holl helynt; ond gydag iddi agor y drws tarawyd hi yn ei gwyneb gan gareg fawr, fel y cwmpodd ar lawr. Bu y gareg o fewn ychydig i fyned i un o'i llygaid.¹⁰⁴

Pa faint o sylwedd sydd i'r stori hwn ni ellir fod yn hollol sicr, ond y mae'n arwyddocaol mai annedd rhywun a oedd yn gysylltiedig â'r eglwys leol a dargedwyd, adeg cyfnod digon dyrys i'r periglor.

Nid yn Nerwen oedd yr unig achos o'r cymun bendigaid yn cael ei sarhau. Ar 29 Mehefin 1888 fe atafaelwyd ar nwyddau Elias Parry Tŷ Ucha, Caerwys, am iddo wrthod talu ei ddegymau i'r Parchg. Edward Jones. Yn ôl Henry Truby (y beili), a Thomas Deed (gwyliwr yr afonydd), fe welsant fwrdd wedi ei orchuddio gyda chynfas gwyn, gyda jwg o gwrw a darn o fara arno wrth fynedfa'r fferm.¹⁰⁵ O flaen y bwrdd oedd delw o'r offeiriad, a chredodd Truby, 'that the whole thing was a mockery of the Holy Communion'. Gofynnwyd iddo 'gymryd rhan yn y sacrament' hefyd.¹⁰⁶ Arsyllodd Deed bod gŵr o'r enw Robert Edwards wedi ei orchuddio efo cynfas gwyn i ddynwared clerigwr mewn modd digrifol.¹⁰⁷

Yr oedd y Parchg. Hugh Williams Jones, Llanferres, yn cael trafferth derbyn yr holl ddegymau oedd yn ddyledus iddo. Ar dri achlysur gwahanol: 10 Ebrill 1888,

¹⁰¹ ASD, NTD/588, Affidavits Rev. Thomas Prichard, Llanellidan, 6 November 1890.

¹⁰² Ibid.

¹⁰³ Ibid.

¹⁰⁴ *Y Dydd* (26 Rhagfyr 1890).

¹⁰⁵ ASD, NTD/588, Affidavits Henry Truby, St. Asaph, 6 November 1890; ASD, NTD/588, Affidavits Thomas Deed, St. Asaph, 6 November 1890.

¹⁰⁶ ASD, NTD/588, Affidavits Henry Truby, St. Asaph, 6 November 1890.

¹⁰⁷ ASD, NTD/588, Affidavits Thomas Deed, St. Asaph, 6 November 1890.

1 Ionawr 1889 a 1 Ionawr 1890, teimlodd yr angen i gymryd camau cyfreithiol er mwyn adfer ei ddegymau.¹⁰⁸ Adeg yr arwerthiannau ym 1889, dywedodd gwas fferm o'r enw Edward Edwards Ieu., iddo weld dau ddyn, gan gynnwys gwas fferm o'r enw Edward Morris, yn cario delw o'r rheithor. Yr oedd mab Williams-Jones wedi marw ychydig o fisoedd ynghynt, ac yr oedd Morris wedi dangos y gŵr gwellt i Edwards ychydig o ddiwrnodau cyn yr arwerthiant. Dywedodd, 'and [Morris] referred to the Rector being in mourning as the reason for putting on this black band', o gwmpas braich y delw.¹⁰⁹ Nid oedd gan Edwards fawr o feddwl o'r gŵr gwellt, ac yn ei dyb ef, 'Several people afterwards expressed to me what a shame it was for the Rector to be so illtreated'.¹¹⁰

Daeth yr hanesion hyn i sylw A. G. Edwards, Esgob Llanelwy. Ar 4 Medi 1890 cododd Edwards y mater ger bron cyfarfod blynyddol Esgobaethol Llanelwy yng Nghroesoswallt. Ond yn anffodus iddo ef, fe'i gamddyfynnwyd yn y papurau ynghylch un digwyddiad pan honnodd, 'and the people who were deacons of Methodist chapels went so far as to minister the holy rite to the effigy (shame)'.¹¹¹ Gwadodd yr Esgob hyn gan grybwyll, 'I did not charge any official of the Calvinistic Methodist body with taking part in the travesty of the Holy Communion, but with being present at the time'.¹¹² Wrth gwrs yr oedd y Methodistiaid yn gandryll.

Cyfaddefodd y *Faner* bod creu a llosgi gwŷr gwellt i ddynodi offeiriaid meddw yn gyffredin erbyn hynny mewn nifer o blwyfi yng Nghymru. Ond ni cheir yr un enghraifft, yn nhyb y papur, o ddiaconiaid nag unrhyw wrth-ddegymwyr eraill yn sarhau'r sacrament.¹¹³ Y broblem yma wrth gwrs ydyw dehongli'r ddelweddaeth symbolaidd. Er enghraifft, ym 1888 crëwyd delw o'r Parchg. J. Skinner Jones, Heneglwys, Sir Fôn, ac o'i flaen gosodwyd bwrdd ac arno blatiau, dwy feipen, jwg a chwpan wydr.¹¹⁴ Ar y naill law gellir dehongli hyn fel ymgais bwrpasol i sarhau defodau'r Eglwys. Ond ar y llall, gellir ei ddehongli fel ymgais i bortreadu'r periglor fel un bollog a meddw, yn byw oddi ar y degymau. Hynny yw, un o farusrwydd.

¹⁰⁸ ASD, NTD/588, Affidavits Rev. Hugh Williams Jones, Mold, 7 November 1890.

¹⁰⁹ AD/NTS/588, Affidavits Edward Edwards Jr., Mold, 7 November 1890.

¹¹⁰ Ibid.

¹¹¹ *Rhyl Journal* (6 Medi 1890); *North Wales Chronicle* (13 Medi 1890).

¹¹² *The Times* (4 Rhagfyr 1890).

¹¹³ *Baner ac Amserau Cymru* (17 Medi 1890).

¹¹⁴ *Werin* (25 Chwefror 1888).

Yr oedd Esgob Edwards yn ôl yng Nghroesoswallt ar 30 Hydref 1890 fel rhan o'i ymweliad teirblwydd. Gresynodd fod helyntion y degwm wedi creu bwlch rhwng yr offeiriaid a'u plwyfolion, a fod hwy wedi colli eu, 'dylanwad ysbrydol'.¹¹⁵ Cwestiynodd Edwards foesoldeb 'Rhyfel y Degwm' drwy ddefnyddio'r achosion o losgi delwau o'r periglorion plwyfol, ac yr oedd yn awyddys iawn i gyfeirio at yr achos gyda'r frawddeg honedig, 'Let us give him the Communion before we kill him'.¹¹⁶ Yr oedd Edwards eisiau rhoi cyhoeddusrwydd i'r digwyddiadau hyn er mwyn, 'shame down these outrages upon morality and religion'.¹¹⁷ I gloi ei araith taranodd ef y sylwad hyn:

What must young men and women of Wales think of their Dissenting preachers who in the week spurred them to burn the effigy of his brother and then preached to them Sundays about Christian brotherhood? (Cheers). If they would be benefactors to the Welsh nation and to their countrymen, let them banish such poison from the country. (Loud Cheers).¹¹⁸

Er na enwodd Edwards unrhyw lefydd nac unrhyw berson (rhywbeth a gythruddodd ei wrthwynebwyr) y mae'n amlwg mai'r enghreifftiau a ddyfynwyd eisoes yn yr affidafidau oedd ganddo dan sylw. Datganodd Edwards fod ganddo yn ei feddiant, 'irrefragable proof' i gadarnhau ei honiadau.¹¹⁹ Nawr, y mae'n ddiddorol nodi fod yr affidafidau wedi'u dyddio rhwng 6 a 17 Tachwedd 1890. Y mae hyn yn codi'r cwestiwn, pa dystiolaeth oedd gan Edwards mewn llaw ychydig o fisoedd cyn hynny adeg y cynadleddau? Y mae'n bosib ei fod wedi derbyn y dystiolaeth a geir yn yr affidafidion mewn ffurf answyddogol. Ond wedi tynnu nyth cacwn i'w ben yn ystod y cynadleddau Esgobaethol, fe ofynnodd i'r tystion dyngu llw er mwyn rhoi cred i'r wybodaeth. Gan fod papurau Edwards wedi eu llosgi, y mae'n debyg na chawn wybod yn iawn. Ond yr oedd Gee ac eraill yn pwysu arno i ddatgelu'n union at bwy ac at le yr oedd yn cyfeirio, yn enwedig o barthed yr honiadau ynglŷn â'r diaconiaid Methodistaidd.¹²⁰ Y mae'n arwyddocaol fod yr affidafidion wedi eu dyddio ychydig wedi'r cynhadleddau Esgobaethol.

¹¹⁵ *Gwylidydd* (5 Tachwedd 1890).

¹¹⁶ *Llangollen Advertiser* (7 Tachwedd 1890).

¹¹⁷ *Ibid*,

¹¹⁸ *Ibid*.

¹¹⁹ *Ibid*.; *Gwylidydd* (5 Tachwedd 1890).

¹²⁰ *Baner ac Amserau Cymru* (8 Tachwedd 1890).

Yn wir, daeth yr holl beth mor gynhennus nes peri iddo gael ei drafod yn Nhŷ'r Cyffredin. Ar 1 Rhagfyr 1890, cyfeiriodd George Osborne Morgan at yr helynt yn ystod dadl ynghylch Mesur Rhent-dal y Degwm:

The Bishop of St. Asaph three months ago brought a most offensive charge against certain leading members of the important body of Welsh Calvinistic Methodists. He was reported to have said that at some tithe distraints a mock celebration of Holy Communion was actually carried out by a deacon of that body. The Bishop afterwards corrected this, and said that it had been done in the presence, and apparently with the sanction, of a deacon of that Church, but, though challenged by Major Godfrey, Chief Constable of Montgomeryshire, and myself, and many others, to give names and dates, he has never done so. If charges of this kind are to be made they ought to be proved; if not true, it is disgraceful that they should be made.¹²¹

Ni wastraffodd Edwards unrhyw amser cyn ymateb i sylwadau Osborne Morgan. Yn amlwg yr oedd wedi paratoi ei hun, ac ysgrifennodd llythyr i'r *Times* a gyhoeddwyd ar 4 Rhagfyr. Datganodd, 'For each of these statements I hold sworn affidavits, which I submitted to Lord Selborne, and I am allowed to publish his lordship's estimate of their value in the accompanying letter'.¹²² Daeth yr affidafidion yn ddefnyddiol wedi'r cyfan.

Unwaith eto, gwelodd Edwards hyn fel cyfle arall i gondemnio moesoldeb creu a llosgi'r gwŷr gwellt yn gyhoeddus. Anelodd ei ddyfarniad at arweinwyr yr ymgyrch gwrth-ddegymol:

Those who have been guilty of these outrages are, in my opinion, less culpable than the people who have organized the unprincipled agitation, and if there is to be a public exposure of individuals, I trust that such exposure will fasten upon the real culprits rather than upon their innocent dupes.¹²³

Y mae naws y neges hon yn gyffelyb â'r un a geir gan Thomas o barthed 'Caneuon y Degwm'. Credodd yr arweinwyr o fewn yr Eglwys mai ar yr arweinwyr oedd y bai am hyn i gyd. Ond y mae'r ffaith eu bod hwy wedi galw'r bobl gyffredin yn 'dupes' yn arwyddol o ragfarn hefyd. Yr oedd gan y bobl hyn *ddewis* ac *ewyllys rydd* i gefnogi'r fath weithredoedd os fynnent. Yr hyn oedd Edwards yn ceisio'i wneud

¹²¹ HC Deb 1 Rhagfyr 1890, cyf. 349, col. 276.

¹²² *Times* (4 Rhagfyr 1890).

¹²³ *Ibid.*

oedd ‘lladd y sarff’ drwy ‘dorri ffwrdd ei ben.’ Dyma pam oedd yr arweinwyr yn cael y bai.

Sonnir eisoes am lythyr Selborne. Yr oedd y llythyr hwnnw wedi ei ddyddio’r 27 Tachwedd 1890, felly yr oedd wedi bod ym meddiant Edwards ychydig cyn i Osborne drafod yr achos. Yr oedd Selborne wedi derbyn saith o’r affidafidion, ac fel Edwards, ni ddatgelodd dim o ran enwau’r unigolion na’r lleoliadau. Wrth gwrs, mae’r wybodaeth hyn yn hysbys i ni erbyn heddiw, a dengys mai’r achos cyntaf y cyfeiriodd ato oedd hwnnw’n Nghaerwys. Dywedodd, ‘there was an unmistakable and very profane travesty of the outward circumstances attending the celebration of the Sacrament of the Lord’s Supper according to the order of the Church’.¹²⁴ Yr ail achos a ddyfynnodd Selborne oedd y digwyddiadau yn Llanferres, ac yn olaf cyfeiriodd at affidafid periglor Llanfihangel Glyn Myfyr. Disgrifiodd yr achos olaf hwn, ‘a malicious insinuation of immorality’.¹²⁵

Nid oedd Osborne Morgan wedi’i argyhoeddi gan ddatganiadau ‘*ex parte*’ yr Arglwydd Selborne.¹²⁶ Yr oedd ef wedi’i gythruddo gan y ffaith fod yr honiadau yn parhau i fod dan orchudd o anhysbysrwydd. Nid oedd yn deall ychwaith, ‘how “affidavits” came to be sworn at all in a case in which no legal proceedings are as yet pending’.¹²⁷ Gellir dadlau fod yr holl beth wedi dyfod bellach yn fath o ddrama ddigrif; cast am gast rhwng dwy garfan benderfynol. Tynnodd Osborne Morgan sylw at y ffrwgwd tair mlynedd yn ddiweddarach er mwyn llabuddio cymeriad yr Esgob Edwards mewn araith yng Nghefn Mawr ym 1893.¹²⁸

I ddychwelyd yn ôl i’r syniad hyn o ‘foesoldeb’ y gwŷr gwellt. Diddorol ydyw taro cip olwg ar yr ymryson rhwng Thomas Gee a’r Parchg. John Owen, deon Llanelwy, a elwid yn ‘foesoldeb Rhyfel y Degwm’.¹²⁹ Un o’r cwestiynau a osododd Owen i Gee oedd, ‘A yw Mr. Gee yn cyfiawnhau gwawdio gweinidogion yr Efengyl

¹²⁴ *Times* (4 Rhagfyr 1890). Dyfynwyd Selborne yn, Alfred George Edwards, *Memories* (Llundain, 1927), t. 131.

¹²⁵ *Times* (4 Rhagfyr 1890).

¹²⁶ *Times* (6 Rhagfyr 1890).

¹²⁷ *Ibid.*

¹²⁸ *North Wales Express* (2 Mehefin 1893).

¹²⁹ Cyhoeddwyd y ddadl rhwng Gee ac Owen yn y *Faner* rhwng Awst a Thachwedd 1890 o dan y pennawd ‘Moesoldeb Rhyfel y Degwm’. Cyhoeddwyd yr erthyglau fel pamffled y flwyddyn wedyn, *Moesoldeb Rhyfel y Degwm, ac Ymneillduwyr, ac Amaethwyr Cymru: Testynau y Ddadl rhwng y Tra. Pharch. John Owen, Deon Llanelwy, a Thomas Gee, a Ymddangosodd yn “Maner ac Amserau Cymru* (Dinbych, 1891).

trwy eu llosgi yn wŷr gwellt? A all efe nodi interliwd mwy llygredig na hyn er pan burwyd Cymru gan Dadau y Diwygiad?’¹³⁰ Dyma ddehongliad Gee o symbolaeth y gwŷr gwellt:

Nid gwawdio gweinidogion yr efengyl a wnaed, ac nid gwawdio y swydd weinidogaethol, ac nid gwawdio clerigwyr plwyfydd neillduol chwaith. ‘Cyfundrefn lygredig’ yr Eglwys Sefydliedig oedd yn cael ei chondemnio – y gyfundrefn sydd yn gosod ac yn caniatáu i ddynion hollol anghymmhwys [sic] weinyddu mewn swyddau eglwysig. Yn y gwisgoedd gwynion ymddengys y swydd; ond yn y ‘gwŷr gwellt,’ ymddengys y dynion anghymmhwys sydd ynddi. Ac nis gall Deon Llanelwy, na neb arall, wadu nad ydyw yr ‘Estrones’ yn Nghymru yn cynnwys nifer fawr o glerigwyr na oddefid iddynt weinyddu am ddiwrnod, pe yr ymofynid â barn a theimladau y plwyfolion.¹³¹

Credodd Gee mai’r Eglwys fel cyfundrefn oedd yn cael ei chondemnio drwy ffurf y gwŷr gwellt, condemniad mwy eang na chondemniad ar y lefel plwyfol. Yn ei dyb ef, yr oedd yn well gan Owen, ‘i deimladau rhyw barson, neu nifer o barsoniaid, ddiodef, nag i’r holl gyfundrefn Eglwysig syrthio dan gondemniad y wlad wrth losgi gwŷr gwellt ar arwerthiadau degymol’.¹³²

Gwrthododd Gee felly i gondemnio’r weithred o greu a llosgi gŵr gwellt. Cyfiawnhaodd y safiad hwn drwy grybwyll mai cyfundrefn, yn hytrach nag unigolyn, oedd yn cael ei farnu. Hwyrach fe wyddodd Gee fod y ddelwedd o ddelw glerigwr penodol rhyw blwyf yn cael ei losgi yn rhywbeth cynhennus, ond drwy grybwyll mai cynrychioli ‘cyfundrefn’ oedd y gŵr gwellt, yr oedd hyn yn gwneud y weithred yn llai ‘personol’, yn llai sinistr. Credodd mai dedfryd gwladol oedd llosgi’r gwŷr gwellt yn erbyn yr Eglwys fel sefydliad, ‘... ac nad ydynt yn ddim amgen na dadganiadau cyhoeddus y bobl fod yr hen ‘Estrones’ wedi ei phwyso yn nghlorian cydwybod y trigolion, ac wedi ei chael yn brin! Dyma’r ddedfryd!’¹³³

Wrth gwrs, dehongliad Gee ydyw’r uchod. Ni chytunodd y *Llan* gydag ef, gan gwestiynu parchusrwydd y weithred drwy ddyfynnu ambell i achos treisgar ei naws. Honnodd y papur hwnnw fod blaenor (unwaith eto) gyda’r Annibynwyr yn ne Ceredigion wedi datgan ei fod am ‘dywallt gwaed’ cyn mynd yn ei flaen i drywanu

¹³⁰ *Baner ac Amserau Cymru* (12 Tachwedd 1890).

¹³¹ *Baner ac Amserau Cymru* (19 Tachwedd 1890).

¹³² *Ibid.*

¹³³ *Baner ac Amserau Cymru* (19 Tachwedd 1890).

gŵr gwellt gyda chyllell cigydd.¹³⁴ Pa faint o sylwedd sydd i'r hanes hwn ni ellir fod yn siŵr, ond y pwynt oedd ceisio dangos mai gweithred sinistr oedd creu'r delwau yn y lle cyntaf. Ceir yr un fath o bortread gan y papur ym 1913 wrth edrych yn ôl ar y cythrwfl, pan ddisgrifiwyd y weithred o losgi delw o glerigwr mewn modd teimladwy er mwyn pwysleisio'r trychineb dynol y tu ôl i'r holl beth.¹³⁵

Yr ydym hyd yn hyn wedi trafod yn fanwl ambell i enghraifft o greu gwŷr gwellt a'r adwaith i'r gweithredoedd hynny. Y mae'n bryd yn awr i daro golwg ehangach ar y nifer eraill o wŷr gwellt a grëwyd yn ystod 'Rhyfel y Degwm' er mwyn cael gwell syniad o ran y symbolaeth ddiddorol a chymhleth y tu ôl i'r delwau. Dichon fod Thomas Gee yn rhannol gywir pan honnodd mai cyfundrefn, yn hytrach nag unigolion, oedd yn cael ei wawdio mewn ffurf y gwŷr gwellt. Er hynny, cofier fod y *Faner* wedi crybwyll bod sarhau'r offeiriadon fel meddwon yn rhywbeth nodweddiadol o'r 'achlysur'. Felly nid oedd y symbolaeth yn un bur wleidyddol. Yr hyn a gawn yma ydyw cyfuniad o sarhad digrifol o'r clerigwr lleol ar yr naill law, a neges wleidyddol yn ymwneud â datgysylltiad ar y llall. Er enghraifft, yn Solfa ym 1890 crëwyd gŵr gwellt i gynrychioli'r periglor lleol, ac nid oes amheuaeth mai unigolyn oedd yn cael ei farnu:

... the effigy of the Rev. John Evans, vicar of Llanhowell, was to be seen, dressed apparently after the style of a sailor, the idea being to represent the vicar as a seafaring person, which vocation, it appears, he followed before he entered the Church. On a card pinned on the breast of the figure and written in a bold, clear hand were the words, "Dan y ddeddf ac nid o dan ras ..."¹³⁶

Soniasom eisoes yn y traethawd am y cysylltiad rhwng y degwm a chwrw cyn 'Rhyfel y Degwm'. Mewn pwt bach a ymddangosodd yn y *Werin* ym 1887 honnwyd bod awdurdodau Coleg yr Iesu, Rhydychen:

... yn rhoddi cerdyn i'r ychydig a dalasant y degwm iddynt y dydd o'r blaen yn Trallwm ac arno yn argraffedig "Peint y Degwm," yr hyn, wrth gwrs, a roddai hawl iddynt i beint o'r ddioden. *Discount* cymmhwys iawn, onide, i'w roddi yn ol ar arian a hawlid yn enw crefydd?¹³⁷

¹³⁴ *Llan* (28 Tachwedd 1890).

¹³⁵ *Llan* (26 Medi 1913).

¹³⁶ *Carmarthen Journal* (26 Medi 1890).

¹³⁷ *Werin* (26 Tachwedd 1887).

Gwelwyd sylwad tebyg yn yr un papur blwyddyn yn ddiweddarach wrth ddisgrifio gŵr gwellt yng Nghellan, Ceredigion. Yr oedd y delw yn dal peint o gwrw, canys mai dyma, yn nhyb y *Werin*, oedd y degwm dalwyr yn ei dderbyn gan y clerigwyr ar ddiwrnod talu'r degwm.¹³⁸ Mewn achos arall, crybwylodd y *Tyst a'r Dydd* fod Archddiacon James, Tyddewi, wedi cynnig cwrw i rai o'i ddegwm dalwyr ym mhlwyf Abergwili, Caerfyrddin, yn niwedd 1886.¹³⁹

Ym 1892 ymddangosodd dadl danbaid ar dudalennau'r *North Wales Express* rhwng unigolyn o'r enw 'Justice' a'r Parchg. J. Arthur Evans. Y pwnc oedd casglu'r degwm mewn ambell i dafarn yn Sir Fôn. Yr oedd 'Justice' yn honni fod degymau rhai plwyfi ar yr ynys yn cael eu casglu mewn tafarndai, a fod sawl talwr yn derbyn 'tocyn cwrw'.¹⁴⁰ Yr oedd Evans o dan yr argraff bod 'Justice' wedi cyhuddo ef yn bersonol o'r weithred hon, a phenderfynodd gymryd camau cyfreithiol.¹⁴¹ Pa fodd bynnag, yr oedd 'Justice' yn gywir pan ddywedodd, 'I have never attributed to him personally the baneful practise of issuing tickets for drink in exchange for tithes, and this he is fully aware of'.¹⁴² Aeth ymlaen i ddyfynnu ambell i hysbysiad y degwm ym mhlwyf Llandegfan, gan honni fod ganddo ddau 'docyn' yn ei feddiant o'r flwyddyn 1891. Honnwyd, 'The accounts being duly settled, the payers of the tithes were handed a ticket each, or to be more correct, one of them was handed a ticket entitling him to a glass of beer, the other being a teetotaller declined to accept it'.¹⁴³

O dan y pennawd, 'Tithe and Beer' yng ngholofn olygyddol y papur, cyfeiriodd y golygydd at un o lythyron 'Justice', gan grybwyll fod yna rhyw fath o gynllwyn yn bodoli rhwng y clerigwyr a'r tafarnwyr:

'... the bulk of clergymen would denounce such a pernicious practice in the strongest terms – if they only dared do so. As a matter of fact, however, they dare not ... The clergyman is aided by the publican to retain the tithe, and in return he does all he can to help and protect the publican. It is the old game of "Beer and the Bible," or to put it more accurately, "Beer and the Tithe."' ¹⁴⁴

¹³⁸ *Werin* (21 Ionawr 1888).

¹³⁹ *Tyst a'r Dydd* (10 Rhagfyr 1886).

¹⁴⁰ *North Wales Express* (17 Mehefin 1892).

¹⁴¹ *North Wales Express* (24 Mehefin 1892).

¹⁴² *North Wales Express* (1 Gorffennaf 1892).

¹⁴³ *Ibid*,

¹⁴⁴ *North Wales Express*, (1 Gorffennaf 1892).

Yn sicr mae rhyw wirionedd yn hyn o ran cyfnewid tocyn am gwrw yn dilyn tâl prydlon. Ond rhaid cwestiynu i ba raddau a pha mor eang oedd digwyddiad ar draws Cymru. Credai W. R. Lambert mai eithriad oedd yr arfer hwn ar ôl yr 1870au oherwydd y mudiad dirwest.¹⁴⁵ Eto, gwelwn yr arfer yn dal ymlaen mewn ambell i ardal. Y mae'n bosib y trodd ambell i glerigwr at yr hen arfer hon yn ystod dyddiau caled 'Rhyfel y Degwm' er mwyn gwneud rhywbeth i annog y ffermwyr ac eraill i dalu.

I ddyfod yn ôl at ein llinyn, hwyrach mai dyma'r rheswm am osod poteli o gwrw gyda'r gwŷr gwellt. Efallai mai ceisio portreadu clerigwyr fel meddwon annheilwng oedd y nod. Yng nghanol mis Mehefin 1888, atafaelwyd ar lond dwrn o ffermydd yn Sir Fôn. Ar fferm Bodednyfed, Amlwch, daeth amryw o wŷr ifanc o'r ysgubor yn cario delw o'r Parchg. R. Roberts, wedi ei orchuddio yn y wenwisg a photel o whisgi gwag yn ei law.¹⁴⁶ Yn ystod mis Rhagfyr 1888 disgrifiodd y *Caernarvon and Denbigh Herald* ŵr gwellt yn Llannor, fel y canlyn, '... there was a big horse, astride of which was an effigy of a parson in full surplice, wearing huge sea-boots, and under his left arm a bottle of spirits'.¹⁴⁷ Nid nepell i ffwrdd yn Llanaelhaearn yn ystod dechrau 1889, atafaelwyd nwyddau gweinidog anghydfurfiol, y Parchg. H. E. Williams, ac yn ôl gohebydd y *Caernarvon and Denbigh Herald*, 'Awaiting us ... was a donkey cart, inside which (the cart of course) was a life-size effigy of a surpliced parson, with a bottle hanging by the neck'.¹⁴⁸ Yr ydym eisioes wedi ymdrin â'r Parchg. Jenkins, Manafon. Ond tybed a oedd yna si yn yr ardal fod ganddo broblem â'r botel, canys fe gafwyd potel o *champagne* yn grogiedig ar wregys y gŵr gwellt ym Manafon.¹⁴⁹ Tybed a oedd dewis *champagne* yn ymdrech i gysylltu'r periglor plwyfol â moethusrwydd ariannol, canys mai diod fonheddig oedd hon?

Yn sicr yr oedd yna elfen o hwyl a digrifwch yn perthyn i'r gwŷr gwellt. Yr oedd yna dipyn o feddwl ac ymdrech wedi cael eu buddsoddi i greu ambell un

¹⁴⁵ W. R. Lambert, *Drink and Sobriety in Wales, c. 1820- c.1895* (Caerdydd, 1983), t. 11.

¹⁴⁶ *Werin* (30 Mehefin 1888); *North Wales Chronicle* (30 Mehefin 1888). Diddorol ydyw nodi marwolaeth y Parchg. Richard Roberts ar 16 Awst 1888 o drawiad y galon. *North Wales Express* (24 Awst 1888).

¹⁴⁷ *Caernarvon and Denbigh Herald* (21 Rhagfyr 1888).

¹⁴⁸ *Caernarvon and Denbigh Herald* (11 Ionawr 1889).

¹⁴⁹ *Baner ac Amserau Cymru* (8 Rhagfyr 1888).

ohonynt. Yn Nannerch, Sir y Fflint, crewyd delw llafurfawr o'r Parchg. Watkin Williams:

It wore a wide-awake hat, beneath which a mask was foxed, and a wig of grey horse hair. It was dressed in a clerical coat, with a white choker around the neck, and a boot was attached to each leg.¹⁵⁰

Ym mhlwyf Bangor Teifi, Ceredigion, yr oedd gwyneb y gŵr gwellt (o'r person), wedi ei beintio'n binc, gyda'i drwyn wedi ei liwio'n goch a chetyn bach yn ei geg.¹⁵¹ Serch hynny, ochr yn ochr â'r elfen hwyliog yr oedd yna elfen fwy tywyll. Yma cawn symbolaeth o farwolaeth.

Yng Nghwm, Sir y Fflint, fe grogwyd delw o glerigwr mewn gŵn du o grocbren wedi'i osod ar das o wair.¹⁵² Mewn ambell i ardal gwelwyd y gŵr gwellt yn cael ei gludo mewn ffurf angladdol. Er enghraifft, fe orymdeithiwyd delw o'r Parchg. J. Banks-Price, Llandwrog, mewn arch. Wedi ysgrifennu ar hwnnw oedd y geiriau, 'Parson y degwm, wedi marw Rhagfyr 21 1888'.¹⁵³ Yn Llanddarog, Sir Gaerfyrddin, 'The people hustled the auctioneers and conducted a mock funeral of the rector whose effigy was carried on the coffin'.¹⁵⁴ Ar 19 Mawrth 1888 mewn arwerthiant yn Nyserth, sir y Fflint, fe ddatganwyd bod delw a grëwyd o'r Parchg. Thomas Morgan (neu 'Pharoah' fel y gelwid) i'w gladdu am hanner awr wedi pump ar y dydd Gwener. Yr oedd yr angladd i'w gynnal o dan delerau'r 'deddf newydd', h.y. Deddf Claddu Osborne Morgan, 1880.¹⁵⁵ Diwedddwn gyda'r enghraifft hon o Dreclyn, gogledd Sir Benfro, lle gwelwyd gŵr gwellt o glerigwr gyda chleddyf drwy'r 'galon'.¹⁵⁶ Gan amlaf fe gurwyd a llosgwyd y gwŷr gwellt yn y pendraw. Yr oedd hyn yn ganolig i'r symbolaeth o 'farwolaeth'.

Serch hynny, nid marwolaeth yn ystyr llythrennol a geir yma. Y mae'n annhebygol fod y gwrth-ddegymwyr eisiau lladd y clerigwr plwyfol, er gwaethaf y drwgdeimlad ar y pryd. Yr hyn a gawn yma ydyw marwolaeth ddrosiadol. Ys dywedodd E. P. Thompson, 'To burn, bury or read the funeral service over someone

¹⁵⁰ *Caernarvon and Denbigh Herald* (23 Chwefror 1888).

¹⁵¹ LIGC, MS 15321D Lewis.

¹⁵² *Rhyl Record and Advertiser* (28 Ionawr 1888).

¹⁵³ *North Wales Express* (28 Rhagfyr 1888).

¹⁵⁴ *South Wales Daily Echo* (21 Rhagfyr 1888).

¹⁵⁵ *Rhyl Record and Advertiser* (24 Mawrth 1888).

¹⁵⁶ *Cardigan Observer* (18 Mai 1889).

still living was a terrible community judgement, in which the victim was made into an outcast, one considered to be already dead. It was the ultimate excommunication'.¹⁵⁷ Ar y naill law gellir ystyried hyn yn ddyfarniad lleol, yn ddyfarniad cymdeithasol yn erbyn ymddygiad y periglor plwyfol. Ar y llaw arall, gellir dadlau bod yna ystyr mwy eang hefyd, sef 'marwolaeth' Eglwys Lloegr fel eglwys Sefydledig.

Er nad ydyw'r enghraifft nesaf yn un o wŷr gwellt, gellir ei blethu mewn i'r ddadl hyn o 'farwolaeth ddrosiadol'. Ym 1894 ym mhlwyf Llansannan, Sir Ddinbych, atafaelwyd buwch a oedd i'w gwerthu yn nhref Dinbych oherwydd nid oedd ei pherchennog, James Davies, wedi talu ei ddegymau. Addurnwyd y fuwch â rubanau coch a chardiau ar ei chyrn, gan gynnwys 'cerdyn claddu' gyda'r geiriau isod arno:

Er serchog goffadwriaeth

am

ANNWYL FUWCH

Mr. James Davies, Nant-y-Merddyn Uchaf, Llansannan,

yr hon a aeth yn aberth i raib anniwall y

Dirprwywyr Eglwysig,

Ebrill 25 ain, 1894.

Ni chaiff offeiriaid Eglwys plwy'

Ei bum cant ac fe allai fwy,

Am weini i hen wraig neu ddwy

Pan geir y DADGYSYLLTIAD.¹⁵⁸

Dyma fuwch, felly, wedi ei gwneud yn ferthyr! Ond ni fu'r fuwch 'farw' mewn ofer, canys yn ôl y 'cerdyn claddu', yr oedd hi wedi chwarae ei rhan yn yr ymgyrch i

¹⁵⁷ Thompson, *Customs in Common*, t. 480.

¹⁵⁸ Cyhoeddiad Archifdy Clwyd, *Rhyfel y Degwm* (Penarlâg, 1978), tt.9-11.

ddatgysylltu'r Eglwys. Gwelwn felly bod y symbolaeth o farwolaeth yn un cymhleth, ac fe gwmpasodd aml i neges moesol.

Y mae'r enghraifft uchod yn dod a ni at ran olaf yr adran hon, sef yr arwyddion a oedd yn mynd gyda rhai o'r gwŷr gwellt. Un elfen amlwg oedd yr iaith grefyddol - iaith y Beibl. Dywedodd Eryn M. White, 'In Wales itself, protest and political ideas were not infrequently couched in biblical terms'.¹⁵⁹ Ceir enghraifft wych o hyn mewn cyfarfod gwrth-ddegymol yng Nghwernogle. Datganodd Y Parchg. R. P. Jones, Pencader:

Mae sicrhau llogellau dynion yn fwy pwysig gan yr offeiriaid na'u calonau. Dyna paham yr aeth yr offeiriaid a'r Lefiad o'r tu arall heibio i'r dyn oedd wedi syrthio yn mysg lladron ar y ffordd i Jericho, am y gwyddent ei fod wedi ei ysbeilio – dim ganddo.¹⁶⁰

Cyfeiriad oedd hwn i Luc 10:30-32, ac y mae'n ddiddorol dilyn sut yr oedd Jones yn cymharu ymddygiad y Lefiaid yn y Beibl i ymddygiad yr offeiriaid yn ei oes ef. Yn syth ar ôl y neges foesol hon cafwyd un arall gan Mr. J. Davies, Ffynondaflog:

Dywedodd Pharaoh wrth y genedl, Ewch chwi â'ch plant, ond gadewch eich anifeiliaid ar ol. Felly y dywed y Llywodraeth trwy Ddeddf Goddefiad wrth yr Ymneillduwyr, Ewch chwi, ond gadwech yr anifeiliaid ar ol. Yr ydym ni fel cenedl yn dyweyd, Na, bydd arnom eu heisieu er cario yn mlaen ein haddoliad ein hunain. Nid oes neb â hawl i'r degwm ond y rhai sydd yn ei enill.¹⁶¹

Unwaith eto, plethwyd neges y Beibl i neges wleidyddol y cyfnod. Dehonglwyd enghraifft anfoesol yn y Beibl a'i chysylltu â gweithred 'anfoesol' yn ystod 'rhyfel y degwm', gan amlaf ymddygiad 'camweddus' yr offeiriaid yn nhyb yr Anghydfurfwyr. Cymerodd y negeseuon Beiblaidd hyn ffurf weledol hefyd yn ystod y protestiadau gwrth-ddegymol drwy ddefnyddio arwyddion ar y delwau.

Ym 1891 cafwyd arwerthiant yn Y Ferwig, Ceredigion, ar fferm y Parchg. John Roberts, gweinidog gyda'r Bedyddwyr oedd bellach wedi ymddeol. Ar blacard wrth yml y gŵr gwellt (mwy na thebyg yn cynrychioli'r Parchg. D. H. Davies) yr

¹⁵⁹ Eryn M. White, *The Welsh Bible* (Stroud, 2007), tt. 145-147.

¹⁶⁰ *Y Tyst a'r Dydd* (2 Rhagfyr 1887).

¹⁶¹ *Ibid.*

oedd y neges hwn, ‘Canys dy bobl sydd yn ynvugson a’r offeiriaid’.¹⁶² Addasiad oedd o’r ymadrodd o Hosea 4:4, ‘Peided neb ag ymryson, ac na chyhudded neb; y mae fy achos yn dy erbyn di, offeiriaid.’ Nid oedd gan y *Carmarthen Journal* fawr o feddwl am y cyfuniad o’r gŵr gwellt a’r ysgrythur gan ddatgan, ‘Fancy and effigy of a Clergyman put up near the house of a Baptist Minister and a parody of scripture pinned to it in order to amuse a crowd of noisy thoughtless people’.¹⁶³

Yn ôl Robert Lewis, casglwr y degymau, gwelodd ar un achlysur, ‘a large wooden cross to which was attached a Welsh inscription as follows: “Efangyl Eglwys Lloegr mewn grym mawr trwy awdurdod yr Offeiriaid”’.¹⁶⁴ Yr oedd y neges ynghyd â’r symboliaeth weledol o’r groes yn un bwerus. Creuwyd yr argraff bod ymddygiad yr offeiriaid, yn ogystal â’r Eglwys fel sefydliad, yn rhywbeth anghristionogol yn nhyb yr anghydfurfwyr. Gwelwyd yr un fath o neges ym Mhenbryn, Ceredigion, ar hysbysiad i gydfynd â’r gwŷr gwellt oedd yno:

Mae crefydd yn cywiliddo, gwirionedd yn ochain, y Beibl yn crwynfan, a’r Nefoedd yn gwirddo wrth feddwl am ystrangeiau cywilyddus Eglwys yr estron ac eraill. Os mai fel hyn y mae cynal crefydd, bydded y Ymneillduwyr droi pob aelod yn auctioneer, a phob gweinidog yn brif gwnstabl. Nis oed a fyno crefydd a danfon warrants. Pa beth feddyliai Paul am gyflogi y rascals Jerico i gasglu arian y weinidogaeth! Ond wele ein holynwyr.¹⁶⁵

Yr oedd plethu sloganau gwleidyddol â iaith grefyddol yn fodd effeithiol i drosglwyddo’r neges i’r cyhoedd. Fe ‘gyfreithlonwyd’ y weithred o wrthod talu’r degwm drwy bortreadu’r bagad eglwysig fel ‘dihiriod’ yn y Beibl.

¹⁶² *Cambrian News and Merionethshire Standard* (1 Mai 1891); *Cardiff Times* (2 Mai 1891); *Carmarthen Journal* (8 Mai 1891).

¹⁶³ LIGC, MS 1532D Lewis; *Carmarthen Journal* (8 Mai 1891).

¹⁶⁴ LIGC, MS 1532D Lewis.

¹⁶⁵ *Cambrian and Merionethshire Standard* (3 Mai 1889).

Llun 5.1 'Gŵr gwellt' ar fferm Wernllygos, Llanfallteg, ger Hendy-gwyn ar Daf (21 Ionawr 1888).

Ffynhonnell: Amgueddfa Caerfyrddin.

Wedi'i atgynhyrchu yn Elwyn L. Jones, *Gwaedu Gwerin* (1983).

Yr oedd eraill yn llai ffraeth ac yn dyfod yn syth i'r pwynt. Ceir enghraifft dda o hyn mewn arwerthiant yn Llanfallteg ym 1888, lle crewyd gŵr gwellt o'r Parchg. E. Felix Lewis (llun 5.2) Wrth yml y delw yr oedd yna bosteri gyda'r sloganau, 'my pound of flesh,' a 'poor Felix'.¹⁶⁶ Crëwyd gŵr gwellt o'r Parchg. Thomas Evans (cyn beriglor y plwyf) pan ddaeth yr arwerthwr yn ôl i'r plwyf wythnos yn ddiweddarach. Am ryw reswm yr oedd Evans, yn ôl y *Cardiff Times*, yn dal i hawlio traean o ddegymau'r plwyf.¹⁶⁷ Ar y delw rhoddwyd placard yn dweud, 'Third part for me, wyddoch,' ac wrth ymyl delw o Lewis gwelwyd y slogan, 'Worse trouble than ever'.¹⁶⁸

Ar 8 Tachwedd 1888 yng Nghemaes, Sir Drefaldwyn, gwelwyd nifer o faneri yn dwyn y sloganau canlynol : 'Coercion in Wales', 'Gorthrwm', 'Trech gwlad na'r parson' (yn seiliedig ar yr hen wireb o ddyddiau Owain Glyndŵr, 'Trech gwlad nac arglwydd), 'Disestablishment', 'My pound of flesh,' a.y.b.¹⁶⁹ Diddorol ydyw nodi digwyddiad 'digrifol' arall ar y diwrnod, 'trwy i un o langciau y gymmydogaeth wneyd ei ymddangosiad mewn gwisg wen, ac yn marchogaeth ar gefn asyn, a'r hwn a ddywedai nad gallasai eu hanerch o herwydd ei fod wedi gadael ei *Gommon Prayer* gartref'.¹⁷⁰ Yr hyn a gawn yma ydyw sarhad o Lyfr Gweddi Cyffredin yr Eglwys. Y mae hyn yn arwyddocaol os cofiwn y sarhad a fu o ddefod cymun bendigaidd drwy ffurf yr Eglwys yng Nghaerwys ym 1888. Efallai nad oedd y weithred yn un faleisus, ond yn amlwg yr oedd yna fwy nag un ffordd i brocio hwyl am ben ddefodau'r Eglwys.

III.

Bygythiadau a Fandaliaeth

Ar y cyfan, ymgyrch di-drais oedd 'Rhyfel y Degwm' gydag ysbeidiau treisgar hwnt ac yma. Âi Frank Welsh cyn belled â datgan bod y gwrthdrawiad yn un

¹⁶⁶ *South Wales Daily News* (27 Ionawr 1888); *Cardiff Times* (4 Chwefror 1888); *Baner ac Amserau Cymru* (4 Chwefror 1888).

¹⁶⁷ *Cardiff Times* (4 Chwefror 1888).

¹⁶⁸ *Ibid.*

¹⁶⁹ *Baner ac Amserau Cymru* (14 Tachwedd 1888). Gw. hefyd *Carmarthen Journal* (26 Medi 1890); *Dydd* (23 Tachwedd 1888).

¹⁷⁰ *Baner ac Amserau Cymru* (14 Tachwedd 1888).

‘cyfeillgar’.¹⁷¹ Ond y mae’r sylw cyffredinol hwn yn un gwallus. Nid ydyw wedi cymryd i ystyriaeth y ffeithiau yr ydym wedi’u trafod yn barod, nac yr hyn yr ydym am ei drafod yn yr adran hon. Y mae’r ffaith fod yr heddlu a hyd yn oed y fyddin wedi gorfod ymyrryd yn arwydd nad oedd pethau yn hollol ‘gyfeillgar’. Wrth gwrs, y mae’n bwysig i beidio gorliwio cyffredinoldeb yr ysbeidiau treisgar, ond yn yr un modd ni ellir eu diystyru ychwaith.

Gan amlaf fe amlygwyd trais drwy ysgarmesau rhwng aelodau o’r dorf a’r rheini oedd yn rhan o’r bagad casglu’r degwm; yr arwerthwr, y beiliaid, yr heddlu a.y.b. Ar 8 Ionawr 1888 gwelwyd eithriad nodedig yn ystod un o’r arwerthiannau yng nghyffiniau Treffynnon. Osgowyd trychineb y diwrnod hwnnw gan lygaid craff Richard Davies, heddwes, pan welodd ef fachgen yn rhoddi cordyn tanio mewn boncyff oedd yn llawn o bowdwr ffrwydrol.¹⁷² Yr oedd y caffaeliad o’r math yma o ddeunydd yn awgrymu paratoad o flaen llaw. Eto y mae’n bosib bod y bachgen yn anwybodus o’r dinistr a fyddai wedi ei greu. Pwy a w’yr beth fyddai ymateb y 13th Hussars wedi bod y diwrnod hwnnw pe bai’r cynllwyn wedi ei wireddu.¹⁷³

Nid ydyw’r gwaith ymchwil wedi darganfod ymosodiadau difrifol ar glerigwyr yr Eglwys yn ystod ‘Rhyfel y Degwm’, naill ai cyn, yn ystod neu ar ôl arwerthiant pan yr oedd y drwg deimlad ar ei waethaf.¹⁷⁴ Serch hynny, yr oedd yn rhaid i’r heddlu gwarchod tŷ ficer Llanarmon-yn-iâl am dridiau yn sgil yr helyntion yn y plwyf, a theimlwyd yr angen i ddau heddwes ei dywys i’r eglwys hefyd. Eto datganodd y ffermwyr nad oeddynt am wneud unrhyw niwed personol i’r ficer.¹⁷⁵ Cafwyd golygfeydd tebyg ym mhlwyf Heneglwys, Sir Fôn, hefyd.¹⁷⁶ Un rheswm amlwg ydyw’r ffaith na fynychodd yr offeiriaid yr arwerthiannau. Os ddigwyddodd ffrwgwd rhwng y periglor a’i blwyfolion adeg ei weithgareddau dyddiol, gan amlaf sylwad sarhaus oedd y peth gwaethaf a ddigwyddodd. Dywedodd Alfred Edwards ym 1927, fe gyfarchwyd rhai offeiriaid yn ystod y dydd, ‘with a scowl, and these

¹⁷¹ Frank Welsh, *The Four Nations: A History of the United Kingdom* (Llundain, 2002), t. 323.

¹⁷² *Caernarvon and Denbigh Herald* (13 Ionawr 1888).

¹⁷³ Tim Jones, *Rioting in North East Wales, 1536-1918* (Wrecsam, 1997), t. 66.

¹⁷⁴ Ym 1884 fe ymosododd ffermwr o’r enw John Evans ar ficer Llangurig mewn achos o fyrgleriaeth, *Dydd* (4 Gorffennaf 1884).

¹⁷⁵ *Denbighshire Free Press* (4 Medi 1886).

¹⁷⁶ Edmund J. Vincent, *Letters from Wales: A Republication of a Series of Letters in the “Times” Dealing with the State of Wales in Special Relation to the Land, The Church, and the Tithe* (Llundain, 1889), tt. 225-226.

Welshmen, hitherto business and courteous, declined even “to tell the road” and passed on with a muttered oath’.¹⁷⁷

Sut bynnag am hynny, ar ambell i achlysur aeth pethau’n bellach na dim ond ambell i air cas. Gwyddom fod plwyf Llanferres wedi’i gynhyrfu gan gwestiwn y degwm pan gymerodd y Parchg. Hugh Williams Jones gamau cyfreithiol er mwyn adfer ei ddegymau ym 1888, 1889 a 1890. Dau fis cyn yr arwerthiannau yn ystod mis Ionawr 1890, yr oedd ficer Llanarmon-yn-iâl wedi gofyn i Williams Jones lywyddu dros angladd yn ei le. Gan fod Llanarmon yn eithaf agos i Lanferres, penderfynnodd y clerigwr a’i wraig gerdded yno. Ond wrth basio fferm o’r enw Clynog, fe waeddodd amryw i unigolyn yn y buarth pethau anghyfeillgar tuag atynt. Yn anffodus i Williams Jones a’i wraig, yr oedd yn rhaid mynd heibio fferm Clynog unwaith eto wrth fyned adref. Ond y tro hwn, yr oedd cudd-ymosodwyr yn disgwyl amdanynt. Dengys mai gwas fferm o’r enw Robert Roberts oedd un o’r tri unigolyn yn y bagad, ac fe dynnodd hwnnw ei wasgod i ffwrdd cyn herio’r clerigwr i ymladd. Gofynnodd Williams Jones i Roberts i adael ef a’i wraig heibio heb ddim ymyrraeth, ond dilynodd y bagad hwy’r holl ffordd adref gan regi a thaflu mwd a cherrig atynt.¹⁷⁸

Os fentrodd y dorf yn agos i’r ficerdy neu’r rheithordy, naill ai’n bwrpasol neu’n ddamweiniol, ei gweithred arferol oedd gosod hysbyslenni neu ŵr gwellt o flaen y tŷ. Ar 23 Chwefror 1888 yr oedd arwerthiannau’r degwm ym mhlwyf Nannerch ger y Wyddgrug, wedi myned heibio heb fawr o stŵr. Yr oedd y ffaith bod y ffermydd i gyd y diwrnod hwnnw wedi talu’r degwm yn ddiffwdan yn sicr wedi helpu.¹⁷⁹ Yn hytrach na thynnu’r 30 o blismyn i’w pennau, difyrrodd y dorf ei hunan gyda dau ŵr gwellt o offeiriaid yr Eglwys.¹⁸⁰ Llosgwyd un ohonynt yn fferm Henfaes, tra aeth y llall ar ‘orymdaith’ drwy gydol y diwrnod o flaen y rheithordy. Cafwyd ei grogi a’i losgi, ‘amid great excitement and uncomplimentary allusions to the vicar’.¹⁸¹ Teimlodd yr heddlu’r angen i aros yn y pentref nes i’r cyffro ostegu ychydig.

¹⁷⁷ Alfred G. Edwards, *Memories* (Llundain, 1927), t. 129.

¹⁷⁸ ASD, NTD/588, Affidavits, Revd. W. J. Williams, Ruthin, 13 September 1890.

¹⁷⁹ *North Wales Express* (2 Mawrth 1888).

¹⁸⁰ *Ibid.*

¹⁸¹ *Ibid.*

Ceir enghraifft arall yn ystod yr arwerthiannau ym Manafon, lle y gorchuddiwyd gataiu'r rheithordy gyda hysbyslenni ynghylch datgysylltiad. Yn ogystal â hyn, crëwyd dau ŵr gwellt o Jenkins a'i forwyn. Ar ôl eu 'perfformiad' o flaen y dorf, fe losgwyd hwy o flaen y rheithordy.¹⁸² Gwelwyd digwyddiad cyffelyb ar 29 Mawrth 1889 yn Llanfihangel Glyn Myfyr o barthed y periglor a'i forwyn. Hen lanc canol oedd y Parchg. William Joseph Williams a ranodd ei dŷ gyda Mary Davies, ei forwyn. Yn ôl dyn o'r enw David Roberts, clywodd flaenor gyda'r M.C. yn gweiddi, "A diolch i Dduw fod gen i wraig ac nad cadw morwyn yr ydwyf neu fe fuasech yn dywedyd y buasion yn cysgu efo hi".¹⁸³ Cyhuddiad arall yn erbyn y rheithor gan un aelod o'r dorf oedd, "Welsoch chwi y person penwyn yn yr ardd ar dop y forwyn".¹⁸⁴ Cyn i'r diwrnod derfyn fe losgwyd delw o Williams a'i forwyn o flaen y rheithordy fel rhyw fath o 'ddyfarniad' ynghylch eu 'perthynas' honedig.¹⁸⁵ Mewn achos arall fe orymdeithiwyd gŵr gwellt o glerigwr y tu allan i reithordy'r Parchg. Watkin Williams, Nannerch, drwy gydol y dydd tra cynhaliwyd yr arwerthiannau.¹⁸⁶

Dyma'r fath o weithredoedd cyhoeddus yr oedd yn rhaid i ambell i glerigwr oddef yn agos i'w gartref. Yn bur debygol yr oedd achlysuron o'r fath wedi bod yn brofiad annymunol iddynt. Yn sicr nid oedd yna nemor dim yn 'gyfeillgar' am weld delw ohonoch yn cael ei losgi o flaen eich tŷ. Ond gellir dadlau nad oedd yna elfen chwithlyd i'r gweithredoedd hyn. Hynny yw, nid oes yna reswm i gredu bod bywyd a lles yr offeiriaid mewn gwir berygl.

Yn ogystal â'r gweithredoedd cyhoeddus cafwyd y weithredoedd anhysbys. Ar 31 Hydref 1886 fe losgwyd eglwys genhadol haearn St. Paul's ym Mae Colwyn yn ulw.¹⁸⁷ Y Parchg. W. Venables Williams (llun 5.3) oedd periglor plwyf Llandrillo-yn-Rhos ar y pryd. Ei ymdrechion ef oedd yn bennaf gyfrifol am adeiladu'r eglwys fach haearn i ateb yr angen o ganlyniad i'r twf sydyn ym

¹⁸² Brown, 'Sad, mad or bad,' t. 181.

¹⁸³ ASD, NTD/588, Affidavits David Roberts, Ruthin, 17 Tachwedd 1890.

¹⁸⁴ ASD NTD/588, Affidavits Rev. W. J. Williams, Ruthin, 13 Tachwedd 1890.

¹⁸⁵ ASD NTD/588, Affidavits Mary Davies, Ruthin, 13 Tachwedd 1890.

¹⁸⁶ *North Wales Express* (2 Mawrth 1888).

¹⁸⁷ *Carnarvon and Denbigh Herald* (5 Tachwedd 1886); *Denbighshire Free Press* (6 Tachwedd 1886).

mhoblogaeth Bae Colwyn.¹⁸⁸ Nid oedd lludw'r eglwys wedi cael siawns i oeri eto pan dderbyniodd ef, ynghyd â'r Dirprwywr Eglwysig, gais am ostyngiad o 25 y cant gan rai o ddegwm dalwyr y plwyf.¹⁸⁹ O fewn ychydig o ddiwrnodau derbyniodd y ficer lythyr bygythiol anhysbys a arwyddwyd gan, 'Home Rulers Cymraeg'.¹⁹⁰ Dywedasant, '... os na wnewch wneud gostyngiad o £25 y cant yn Degwm eich plwyf y bydd eich ty, chwitha ac oll a feddwch yn cael ei dynamitio ei chwythu i fynu ...'¹⁹¹ Danfonodd Williams y llythyr i'r wasg, gan gyfieithu ei gynnwys i'r Saesneg er mwyn denu sylw'r di-Gymraeg hefyd. Dywedodd, 'Yr wyf yn meddwl y dylai ymdrech mor gachgiaidd at frawychu gael ei wneud yn gyhoeddus'.¹⁹² Ofnai, fel sawl un arall ar y pryd, fod 'tactegau Gwyddelig' wedi'u gwreiddio yng Nghymru.¹⁹³

Mwy na thebyg yr oedd y llythyr bygythiol hwn wedi gwneud Williams yn fwy pendant nag erioed i beidio â rhoddi gostyngiad o 25 y cant yn ei ddegymau. Ymhen ychydig amser derbyniodd y ficer lythyr bygythiol arall. Erbyn hyn yr oedd mân siarad yn yr ardal yn crybwyll mai'r 'Home Rulers Cymraeg' oedd wedi llosgi'r eglwys haearn, ac yr oeddynt hwythau yn awyddus i bellhau eu hunain o'r digwyddiad hwnnw. 'Na,' meddai'r 'Dau Home Ruler Cymreig Penderfynol,' 'ni fyddai hyn yn gyfiawnder o gwbl. Dyna yr hyn sydd arnom ni ei eisiau – cyfiawnder'.¹⁹⁴ Bygythiwyd Williams unwaith eto:

Os na roddir allan y rhybudd am ostyngiad bydd i ni gymeryd yn ganiatol nad ydych am ei roddi; ac felly cymerwch rybudd ... Gofalwch na fyddwch yn croesi yr hen afon ddofn cyn pen deng niwrnod.¹⁹⁵

¹⁸⁸ Norman Tucker, *Colwyn Bay: Its Origin and Growth* (Bae Colwyn, 1953), t. 182. Gw. hefyd y bennod, 'Disestablished before his time: W. Venables Williams and the creation of the parish of Colwyn Bay', yn Roger Lee Brown, *Ten Clerical Lives* (Trallwng, 2005), tt. 219-251.

¹⁸⁹ PP 1887 XXXVIII, Minutes of Evidence of an Inquiry as to Disturbances Connected with the Levying of Tithe Rentcharge in Wales, c.3988-3990, t. 121. Yr oedd wedi bod yn derbyn symiau bychain o ddegwm o ambell i blwyf arall, ond teimlodd yn '... diffident about receiving tithes from parishes where he did no duty ...' Brown, *Ten Clerical Lives*, t. 220.

¹⁹⁰ Yr oedd Williams yn derbyn gwerth £397 o ddegymau'r plwyf. *Abergele Advertiser* (3 Rhagfyr 1886); *Y Dydd* (3 Rhagfyr 1886); *Rhyl Advertiser* (4 Rhagfyr 1886); *Denbighshire Free Press* (4 Rhagfyr 1886).

¹⁹¹ *Y Dydd* (3 Rhagfyr 1886).

¹⁹² *Ibid.*

¹⁹³ Gw. pennod VI.

¹⁹⁴ *Gwyllydydd* (29 Rhagfyr 1886).

¹⁹⁵ *Ibid.*

Mewn ambell i adroddiad honnwyd bod y llythyr yn cael ei ystyried fel jôc yn yr ardal.¹⁹⁶ Yn wir, aeth y deng niwrnod heibio a ni chrosodd Williams yr ‘hen afon ddofn’ wedi’r cwbl. Ymddengys ni chafodd y bygythiadau lawer o effaith ar ei safiad, ac arhosodd y ficer yn ddiysgog; 10 y cant o ostyngiad i’r sawl oedd mewn gwir drallod.¹⁹⁷ Agwedd tebyg a fabwysiadodd y Parchg. Walter Jones, Halcyn, hefyd. Er ei fod wedi derbyn sawl llythyr bygythiol ynghylch ei ddegymau, ni rwystrodd hwy rhag iddo gymryd camau cyfreithiol er mwyn adfer ei ddegymau.¹⁹⁸

Llun 5.3 Y Parchg. W. Venables Williams.

Ffynhonnell: The Weekly News and Visitors' Chronicle (16 Nov 1900).

¹⁹⁶ *South Wales Echo* (1 Rhagfyr 1886); *South Wales Daily News* (2 Rhagfyr 1886); *Cardiff Times* (4 Rhagfyr 1886).

¹⁹⁷ PP 1887 XXXVIII, c.3999, t. 121.

¹⁹⁸ LIGC, SA/Tithe/1-207/Halcyn.

Y mae'n werth nodi yma nad rhywbeth i'r gogledd yn unig oedd y bygythiad i chwythu rhywun neu rywbeth i fyny. Yn niwedd 1886 derbyniodd Mr. Muscott, perchennog chwarel Clynderwen, Llangolman, Sir Benfro, lythyr yn bygwth ef, ei wraig a'i dŷ anorffenedig gyda nitroglyserin os dalwyd ef ei ddegwm i'r rheithor.¹⁹⁹ Arwyddwyd y llythyr gan 'Mark Twain', 'a person', meddai'r *Pembrokeshire Herald*, 'of more than average education'.²⁰⁰ Er gwaethaf ymdrechion y gwrth-dddegymwyr i roddi pellter rhyngddynt hwy a'r bygythiad hwn, y mae'n debygol fod y llythyr, fel y honnai Pamela Horn, wedi peri cryn dipyn o ofid i Muscott a'i wraig.²⁰¹ Nid hwn oedd yr unig fygythiad anhysbys a welwyd yn Sir Benfro'r adeg hon. Yn ystod Awst 1890 gwelwyd nifer o hysbyslenni ar ddrysau pob eglwys a chapel o gwmpas ardal Penrith gyda'r geiriau isod:

CAUTION,

Whoever pays tithes are cowards, and all traitors. Bradychawr had better look out,

CAPTAIN MOONLIGHT.²⁰²

Ychydig cyn ymddangosiad yr hysbysiad hwn yr oedd ambell i feili wedi cael eu ymosod adeg arwerthiant, a bod camau cyfreithiol wedi cael eu cymryd. Felly, ychwanegodd y bygythiad uchod i'r drwg deimlad oedd eisioes yn bodoli yn yr ardal.²⁰³

Yn ogystal â 'Captain Moonlight' a 'Mark Twain', gwelwyd Beca yn dychwelyd unwaith yn rhagor i dde-orllewin Cymru. Yn ystod Hydref 1890 gwelwyd achos llys yng Nghaerfyrddin o barthed casglu'r degwm. Dygwyd yr achos ymlaen gan ffermwr o'r enw Thomas John o Gilgerran yn erbyn y Parchedigion Thomas Jones a Thomas Parry (periglor ar y pryd a chyn-beriglor Cilgerran) a Charles V. Stevens, asiant y Dirprwywyr Eglwysig, am or-atafael.²⁰⁴ Adeg yr achos yr oedd yn rhaid i'r barnwr esbonio pam yr oedd yn rhaid symyd yr achos o lys Aberteifi i Gaerfyrddin:

¹⁹⁹ *Pembrokeshire Herald* (12 Tachwedd 1886).

²⁰⁰ *Ibid.*

²⁰¹ Pamela Horn, *The Tithe War in Pembrokeshire* (Fishguard, 1982), t. 7; *Baner ac Amserau Cymru* (20 Tachwedd 1886).

²⁰² *Pembrokeshire Herald* (20 Awst 1889).

²⁰³ *Ibid.*

²⁰⁴ *Cardiff Times* (25 Hydref 1890).

I went to Cardigan to try the case, and found the town placarded with notices signed by “Rebecca,” calling upon the people to come in thousands to hear the tithe case. I therefore moved the case.²⁰⁵

Ym 1895 dewisiodd y *Western Mail* y pennawd ‘Rebecca Days at Penbryn: A Disturbed District in West Wales’, i ddisgrifio’r cyffro gwrth-ddegymol yn y plwyf hwnnw.²⁰⁶ Gan gofio bod y degwm wedi bod yn bwnc cynhennus ym Mhenbryn yn ystod terfysgoedd Beca, nid syndod ydyw canfod sylwadau megis, ‘How faithfully history repeats itself at Penbryn’.²⁰⁷

Gan ddychwelyd yn ôl i Fae Colwyn, a gychwynnwyd y tân a losgwyd eglwys haearn St. Paul yn fwriadol? Ai dyma’r enghraifft fwyaf amlwg o eiconoclastiaeth yn ystod ‘Rhyfel y Degwm’? ‘I am firmly impressed’, meddai Venables Williams ger bron ymchwiliad Bridge, ‘with the belief that it was the act of an incendiary’.²⁰⁸ Eto, nid oedd ganddo ddigon o dystiolaeth i fynd a’r achos yn ei flaen.²⁰⁹ Credodd hefyd fod yna swm sylweddol o galch a dwy gasgen o ‘gas tar’ wedi eu cuddio mewn tŷ fferm, i’r diben o greu ‘peli’ er mwyn anafu’r heddlu ychydig cyn y gwrthdaro ym Mochdre.²¹⁰ Er mai honiad Williams yn unig oedd hwn, yr oedd yna ddigon o chwareli yn yr ardal gyda’r ffrwydron angenrheidiol i wireddu’r bygythiad.

Serch hynny, y mae Tim Jones wedi bod braidd yn fyrbwyll yn priodoli llosgiad yr eglwys haearn i waith gwrth-ddegymwyr.²¹¹ Mewn gwirionedd, ni ellir datgan gyda sicrwydd pwy na beth oedd yn gyfrifol am y tân, er gwaethaf yr hinsawdd a grewyd gan y cyffro gwrth-ddegymol. Gwnaeth Alun Lloyd, cyfreithiwr y gynghrair gwrth-ddegymol, pwynt dilys pan ddywedodd fod yr eglwys wedi ei losgi wythnos cyn i’r ddeiseb am ostyngiad ddod gerbron Williams. Felly ni dderbyniodd y cysylltiad rhwng y tân a’r ymgyrch gwrth-ddegymol.²¹² Yn ogystal â hyn, datgelodd Frank Price Jones fod Anghydfurfwyr yr ardal wedi gyrru llythyr o gydymdeimlad i’r ficer o barthed anffawd yr eglwys fach haearn.²¹³ Yn ffodus i

²⁰⁵ *Carmarthen Journal* (24 Hydref 1890).

²⁰⁶ *Western Mail* (13 Mawrth 1895); *Evening Express* (13 Mawrth 1895).

²⁰⁷ *Ibid.*

²⁰⁸ PP 1887 XXXVIII, C.3994, t. 121.

²⁰⁹ *Llangollen Advertiser* (19 Awst 1887); *North Wales Express* (26 Awst 1887).

²¹⁰ *Ibid.*

²¹¹ Jones, *Rioting in North East Wales*, t. 60.

²¹² Frank Price Jones, *Crwydro Gorllewin Dinbych* (Llandybie, 1969), t. 134.

²¹³ Price Jones, *Crwydro*, t. 134.

Williams yr oedd yr eglwys wedi'i hyswirio am £1,350, ac yn ei lle fe adeiladwyd adeilad llawer gwell allan o gerrig a agorwyd ar 8 Mehefin 1888.²¹⁴

Tra gellid ddadlau mai damwain oedd y tân a losgodd eglwys haearn Bae Colwyn yn ulw, y mae yna enghreifftiau mwy bwriadol o achosi difrod i eglwysi adeg 'Rhyfel y Degwm'. Ar 1 Mawrth 1889 fe ddifrodwyd dwy ffenestr ddeniadol eglwys blwyf Llanddewi Efelffre, Sir Benfro, yn ogystal â dwy ffenestr 'llai costus' eraill yn ystod y nôs.²¹⁵ Cynigwyd gwobr go sylweddol o £50 am dystiolaeth a allai arwain at ddal y gweithredwyr.²¹⁶ Y mae'n arwyddocaol fod arwerthiannau wedi eu trefnu yn y plwyf hwnnw erbyn diwedd y mis. Ysgrifennodd David J. Lewis, cyfreithiwr o Narberth, at T. J. Webb Bowen, prif gwnstabl Sir Benfro, ar 18 Mawrth er mwyn mynegi ei bryderon am y ficer:

I am concerned for the vicar of Llandewi Velfrey in this county in carrying out 2 sales by auction under a distress for tithes rentcharge on the farms of Penroydin Fach and Brynhafod in that parish on Friday the 29th inst. I fear there will be a disturbance and a breach of the Peace committed and shall require a sufficient number of Police Constables there on that day to protect the Bailiffs and auctioneer.²¹⁷

Yr oedd gogledd Sir Benfro mewn cyflwr o gynnwrf yr adeg hon oblegid gweithredoedd y Dirprwywyr Eglwysig ac ambell i glerigwr yn cymryd camau cyfreithiol er mwyn adfer eu degymau. Y mae'n bosib bod y difrod a wneir i eglwys Llanddewi Felfre yn arwydd o'r drwg deimlad oedd yn bodoli yn y plwyf, neu o leiaf ymysg adran o'r plwyf, tuag at y ficer.

Dengys mai gweithred wedi'i chyfyngu i'r de yn bennaf oedd difrodi ffenestri eglwysi. Ym mis Tachwedd 1890 ysgrifennodd y Parchg. Thomas Walters, sef ficer Maenclochog a Llangolman:

Sometimes here the tithe riots are so bad that they have broken the windows [of the church] four times after mending them. It is a reign of terror there just now.²¹⁸

²¹⁴ Brown, *Ten Clerical Lives*, tt. 224-226.

²¹⁵ *Western Mail* (15 Mawrth 1889); *Tenby Observer* (21 Mawrth 1889).

²¹⁶ *Western Mail* (15 Mawrth 1889); *Tenby Observer* (21 Mawrth 1889).

²¹⁷ LIGC, Papurau Williams and Williams, Tithe Agitation in Pembroke 1889, 15425, David J. Lewis i T. J. Webb Bowen (16 Mawrth 1889).

²¹⁸ *Pembrokeshire Herald* (12 Rhagfyr 1890).

Erbyn 1894 yr oedd y *Western Mail* yn honni fod y Parchg. Thomas Jones (llun 5.4), Penbryn, wedi gorfod mynd ag oddeutu 40 i 50 i'r llys sirol er 1891 i adfer ei ddegymau.²¹⁹ Honnwyd fod Anghydfurfiwr nodedig yn yr ardal wedi galw Jones yn 'fwystfil' yn gyhoeddus, a cheir trafodaeth lawnach o'r amser y difrodwyd ei dŷ nes ymlaen.²²⁰ Ar ben hyn i gyd, fe ddifrodwyd ffenestri eglwys newydd St. John (nid am y tro cyntaf) ar 24 Mawrth 1894.²²¹ Gan fod cwestiwn y degwm yn bwnc llosg yn y plwyfi hyn, y mae'n hollol bosib fod yr eglwysi wedi cael eu targedu yn bwrpasol oblegid safiad y periglorion plwyfol. Ond ceir achosion o ddifrodi eglwysi mewn ardaloedd eraill hefyd yn ystod y cyfnod hwn lle nad oedd pwnc y degwm wedi denu fawr o sylw. Er enghraifft, torrwyd ffenestri eglwys yn Abertawe ym 1887 tra difrodwyd cangell eglwys Betws, ger Pen-y-bont ar Ogwr, ar 13 Gorffennaf 1892.²²²

Yn ogystal ag eglwysi, targedwyd trigfannau'r clerigwyr hefyd. Offeiriad arall a lwyddodd i gythruddo'r Anghydfurfwyr oedd y Parchg. Canon. Thomas Birch Llewelyn Browne, Bodfari. Ar 3 Awst 1887 yr oedd Browne wedi rhoddi tystiolaeth gerbron comisiwn Bridge yn Ninbych, lle honodd bod y Gynghrair Gwrth-Ddegymol yn Gymdeithas anghyfreithlon.²²³ Aeth ymlaen hefyd i ddatgan fod yr holl anghydfod wedi deillio, 'from hostility to the Church, envy, hatred and malice'.²²⁴ Nid syndod bod Browne â'i lach ar y Gynghrair pan ddysgw'n nad oedd y berthynas rhyngddo ef ac Owen Williams, ysgrifennydd y Gymdeithas Gwrth-Ddegymol, yn un hollol gyfeillgar.

Yr oedd Williams hefyd yn ysgrifennydd cangen Cymdeithas y Beibl ym Mhrydain a Thramor ym Modfari, ac yn anffodus i'r Gymdeithas honno, yr oedd yr anghydfod ynghylch y degwm wedi effeithio ar ei gweithgareddau. Ym mis Chwefor 1887 fe gyhoeddodd y *Rhyl Record and Advertiser* lythyr oddi wrth Browne wedi ei gyfeirio at Williams.²²⁵ Yr oedd hwn yn ymosodiad ffyrnig ar foesoldeb yr ymgyrch

²¹⁹ *Western Mail* (28 Mawrth 1894); *Evening Express* (28 Mawrth 1894).

²²⁰ *Ibid.*

²²¹ *Ibid.*

²²² *Western Mail* (23 Mehefin 1887); *Evening Express* (16 ac 19 Gorffennaf 1892); *Cardiff Times* (23 Gorffennaf 1892); *Western Mail* (30 Awst 1892).

²²³ PP 1887 XXXVIII, c. 4104, t. 126.

²²⁴ *Ibid.*, c.4106, t. 126.

²²⁵ 'I regret much that I cannot see my way to comply with your request that I should preside at the next meeting of the local branch of the British and Foreign Bible Society, nor to take any part whatsoever therein. My reasons for declining to do so are as follows: As a minister of the Gospel of Christ I would inculcate upon all the duty of obedience "to the powers that be." I cannot, therefore, reconcile it to my conscience to be associated with you [Owen Williams], as an official of this society, so long as you continue to be secretary to the Anti-Tithe League, an organization which impiously

gwrth-ddegymol. Yr oedd yn ymosodiad ar yr Anghydfurfwyr fel Cristnogion, gan fod Browne wedi datgan eu bod hwy'n mynd yn groes i awdurdod y Beibl, a felly i ewyllus Duw. 'He [Browne] was not fond of controversy as has been alleged', dywedodd un sylwebydd ar ôl marwolaeth y Canon ym Mehefin 1891, 'but those who assailed evangelical truth ... found to their cost that he was no coward ... No one ever doubted he had abundantly the courage of his convictions'.²²⁶ Er bod Browne yn ddyn oedrannus erbyn hynny, yr oedd ei sylwadau yn y llythyr ac yn ystod y comisiwn yn sicr wedi creu'r argraff nad oedd ef yn ofn amddiffyn yr Eglwys yn gyhoeddus.

Ond a ddiodefodd Browne oherwydd ei safiad? Ar 22 Awst 1887 fe ddfrodwyd ei annedd, ac ychydig wedi hynny ar 29 Awst, gofynnodd Edmund Swetenham, A.S., Bwrdeistref Caernarfon, i Henry Matthews, Ysgrifennydd Gwladol:

whether he has received any information as to the alleged anti-tithe outrage thus reported in the *Liverpool Courier* of the 25th August ... if so, whether there is any clue to the offenders; and, whether Canon Browne was a witness called before Mr. Bridge during his inquiry in the Anti-Tithe Riots?²²⁷

Atebodd Matthews ei fod wedi derbyn adroddiad gan Brif Gwnstabl Sir y Fflint, sef brawd Browne. Datgelwyd fod ambell i baen o wydr wedi'i dorri, yn ogystal â ffenestr llofft pan daflwyd carreg drwyddi. Ni wnaeth Browne gais i'r heddlu am ddiogelwch.²²⁸ Honnodd y *Rhyl Record and Advertiser* fod Browne ei hunain yn credu fod ei sylwadau yn ystod comisiwn Bridge wedi chwarae rhyw ran yn yr ymosodiad ar ei dŷ.²²⁹

Holodd Thomas Ellis yr Ysgrifennydd Gwladol drannoeth yn y Tŷ Cyffredin gan ofyn os oedd yna unrhyw reswm i gysylltu'r ymosodiad ar annedd Browne

repudiates the divine authority of the Bible by resisting the "ordinance of God," and setting at nought the law of the land.' *Rhyl Record and Advertiser* (12 Chwefror 1887). Ceir erthygl sarhaus ac ysmala yn y *Rhyl Record and Advertiser* (19 Chwefror 1887).

²²⁶ *Denbshire Free Press* (20 Mehefin 1891).

²²⁷ HC Deb 29 Awst 1887, cyf. 320, col. 270.

²²⁸ 'an attack was made on Canon Browne's house on the night of the 22nd. Several panes of glass were broken, the window frames and sashes damaged, and large stones hurled through an upper window into Canon Browne's bedroom. The police are investigating the case, and believe that they have some clue to the offenders. Canon Browne has not applied for police protection. He was called as a witness before Mr. Bridge.' HC Deb 29 Awst 1887, cyf. 320, col. 271.

²²⁹ *Rhyl Record and Advertiser* (27 Awst 1887).

gyda'i sylwadau yn ystod Comisiwn Bridge?²³⁰ Atebodd Matthews, 'The information I have received does not connect this outrage with the fact that the reverend gentleman gave evidence before Mr. Bridge. I have asked the Chief Constable the question; but have not as yet received his reply'.²³¹ Ni ellir neb mewn gwirionedd ddatgan yn bendant beth a ysgogodd y cyflawnwyr i ddifrodi tŷ Browne. Yr oedd Thomas Gee yn bendant nad oedd gan yr Anghydfurfwr nac unrhyw un arall a oedd yn gysylltiedig â'r ymgyrch gwrth-ddegymol dim i'w wneud â'r weithred hon.²³² Nid oedd hyd yn oed Edmund Vincent, critig mwyaf yr ymgyrch gwrth-ddegymol, yn barod i rhoddi'r bai ar yr 'Anti-Tithe Leaguers'.²³³ Fodd bynnag, gan ystyried fod y Dirprwywr Eglwysig wedi awdurdodi arwerthiannau yn yr ardal ar 11 Mehefin 1887, a chan ystyried yr anghydfod o barthed y Gymdeithas Feiblaidd a'i sylwadau cyhoeddus yn erbyn yr ymgyrch gwrth-ddegymol, y mae amseriad y fandaliaeth yn codi'r un fath o ddrwgdybiaeth heddiw ag yr oedd y pryd hynny.

Yn anffodus i Browne, nid hwn fu'r unig achlysur i anffawd ymweld â'r rheithordy. Ar 8 Medi 1888 aeth rhan o'r tŷ ar dân yn ystod oriau mân y bore. Neidiodd rhai adrannau o'r wasg i gysylltu'r tân gyda gweithred bwrpasol. 'Incendiary Fire in Wales', meddai'r *Morning Post*, tra dewisiodd y *Western Mail*, 'A Rectory Set on Fire'.²³⁴ Cafwyd cyfeiriadau i'r achos o fandaliaeth y flwyddyn cynt, tra honnwyd hefyd bod yna drwg deimlad yn parhau rhwng Browne a rhai o'i blwyfolion.²³⁵ Ond y mae yna fwy o reswm i gredu y tro hyn mai damwain oedd y tân. Amrywir yr esbonadau rhwng trawst pren yn y gegin yn mynd ar dân i stôf yn yr ystafell ymolchi yn gorboethi.²³⁶

²³⁰ HC Deb 30 Awst 1887, cyf. 320, col. 461.

²³¹ Ibid.

²³² *Baner ac Amserau Cymru* (31 Awst; 30 Tachwedd 1887).

²³³ 'It is by no means improbable that the crime was merely the result of personal ill-will borne towards the clergyman by a single individual; it may perhaps be just to say that the lawless feeling to which the scenes at tithe distrains have given rise encouraged the perpetrator of the outrage in choosing his method of revenge; it may be that he was driven to admiring imitation of Irish methods; but there seems to be no reason at present for laying the crime directly at the door of the Anti-Tithe Leaguers, who, whatever may be said against them, are wise enough to know that petty brutalities are the surest road to failure.' Vincent, *Letters from Wales*, tt. 51-52.

²³⁴ *Morning Post* (10 Medi 1888); *Western Mail* (10 Medi 1888).

²³⁵ Ibid. Gw. hefyd, *Y Gwyllydydd* (12 Medi 1888).

²³⁶ *Wrexham Advertiser* (15 Medi 1888); *Caernarvon and Denbigh Herald* (14 Medi 1888); *Llangollen Advertiser* (14 Medi 1888).

Yr oedd ambell i un yn awyddus iawn i ddangos nad oedd Browne yn amhoblogaidd yn yr ardal. Dywedodd James Rowland o'r Warren, Bodfari, nad oedd ymadroddion Browne ynglŷn â'r degwm yn gyfrifol am y fandaliaeth na'r tân. Yn wir, credodd, 'there is no such question [tithe] in the parish of Bodfari, no one charges the rector with ever having used an unkind word on the subject, and he possess the goodwill and respect of all his parishioners'.²³⁷ Gwir, nid oedd Browne wedi cymryd camau cyfreithiol er mwyn adfer ei ddegymau, ac yr oedd hyd yn oed wedi rhoi ambell i ostyngiad.²³⁸ Ond yr oedd, fel y gwelir eisoes, yn ddi-flewyn-ardafod wrth gondemnio gweithredoedd y gwrth-ddegymwyr. Yn amlwg yr oedd Rowland yn awyddus i esgeuluso'r ffaith hon. Dyn arall a oedd yn awyddus i esmwytho pethau oedd Cyrnol Mesham o Pontruffydd, Bodfari. Honnodd, 'deepest sympathy has been shown by Churchmen and Nonconformists alike with Canon Browne and his family'.²³⁹ Ond dylir nodi bod Mesham a Rowland ill dau yn aelodau o'r festri leol ac efo cysylltiadau agos â'r Eglwys.²⁴⁰

Os nad oedd Browne yn hoff o ymddadlau, nid oedd ef yn ofn encilio ohono ychwaith. Er gwaethaf digwyddiadau'r blynyddoedd diwethaf, mis ar ôl y terfysg yn Llanefydd (18 Mai 1888) fe ymddangosodd llythyr yn y *Denbighshire Free Press* gan y Canon. Ynddo fe labyddiodd, fel y gwnaeth ynghynt, ymddygiad y gwrth-ddegymwyr. Dywedodd, 'To the Llanefydd Anti-tithe agitators, and their Reverend Allies in the Vale of Clwyd, who would fain defy the law of the land, and who practically repudiate the *moral teaching* of the *New Testament*'.²⁴¹ Y mae'n werth nodi fod y *Faner* wedi neilltuo tudalen flaen cyfan er mwyn wfftio honiadau Venables Williams a Browne.²⁴²

Yr oedd fandaliaeth yn nodwedd o'r helynt yn y de-orllewin hefyd. Safai plwyf Llanfihangel Rhos-y-corn yn y rhan orllewinol o Sir Gaerfyrddin, yn agos i ffin ddeheuol Ceredigion a ddwyreiniol Sir Benfro. Yr oedd yn ardal a gyffrowyd gan gwestiwn y degwm. Fel nifer o glerigwyr eraill yng Nghymru, yr oedd y Parchg.

²³⁷ *South Wales Echo* (18 Medi 1888); *South Wales Daily News* (19 Medi 1888); *Cardiff Times* (22 Medi 1888).

²³⁸ LIGC, SA/Tithe/1-207/Bodfari.

²³⁹ *Carnarvon and Denbigh Herald* (14 Medi 1888).

²⁴⁰ *Llan* (17 Mai 1889); *Denbighshire Free Press* (16 Ionawr 1886). Yr oedd rhwyg amlwg wedi digwydd ym mhlwyf Bodfari, gydag Aberwheeler, o dan arweinyddiaeth Owen Williams, Glanclwyd, yn cynnal festri eu hunain yng Nghapel y Waen (M.C). PP 1887 XXXVIII, c. 2780-2794, t. 78.

²⁴¹ *Denbighshire Free Press* (30 Mehefin 1888).

²⁴² *Baner ac Amserau Cymru* (31 Awst 1887).

Herbert Hughes yn cael trafferth derbyn yr holl ddegymau oedd yn ddyledus iddo, ac yr oedd yn rhaid i'r periglor gymryd camau cyfreithiol drwy'r llys sirol. Yn nhyb y *Werin* yr oedd hyn wedi creu drwg deimlad yn ei erbyn yn y plwyf.²⁴³ Digwyddodd hyn yn ystod 1888 ac 1889, sawl blwyddyn cyn i'w ficerdy cael ei ddifrodi yn ystod mis Mawrth 1894. Cyfaddefodd Hughes fod yna densiwn wedi bodoli yn y plwyf ar un adeg, ond erbyn 1894, 'the Nonconformists of the parish and I are on the best of terms now, at least, my feelings towards them, is, and ever has been, of the friendliest description'.²⁴⁴

Ond dengys nad oedd y teimlad yma o ewyllys da yn cael ei rannu gan bawb. Ar 2 Mawrth 1894 fe dresmasodd mintai o wŷr anhysbys mewn i stabl Hughes gan ddwyn ambell i eitem cyn dianc. Aeth ychydig dros wythnos heibio cyn i'r cyflawnwyr ddychwelyd i'r stabl ar y 10fed. Y tro hwn fe ddifrodwyd offer fferm ac fe dorrwyd mwng a chynffon ceffyl Hughes. Felly, nid lladrata yn unig oedd agenda'r gwŷr hyn. Yr oeddynt am ddychryn hefyd. Daeth yr ymweliadau yn fwy cyson, ac ar y 12fed fe ddifrodwyd ffenestri'r stabl ac fe adawyd marciau ar gorff y ceffyl. Honnodd Hughes fod yna reswm i gredu eu bod hwy wedi ceisio rhoi'r stabl ar dân hefyd, canys fe welodd ambell i fatsien ar y llawr. Ar y 13eg fe dychrynwyd y cyflawnwyr gan gyfarthiad y ci oedd yn preswyllo yn y tŷ, ac ni ddifrodwyd dim y noson hynny. Ond yr oedd y gwŷr hyn yn benderfynol, ac fe ddychwelasant ar y 14eg. Yn y cyfamser yr oedd Hughes wedi mynd i Gaerfyrddin er mwyn siarad â'r heddlu. Difrodwyd ambell i offer fferm unwaith eto ac fe adawyd neges ar ddarn o bren yn bygwth lladd y ficer. Ond nid oedd yna ddihangfa ddistaw i fod y tro hwn. Gollyngodd gwas y ficer y ci ar ôl y bagad anhysbys, ac fe ddarganfyddwyd pedwar dyn yn cuddio, a'u hwynebau wedi'u pardduo. Anafwyd dau ohonynt gan y ci, ond fe lwyddasant i ddianc. Ni ddaethant yn ôl wedi hyn.²⁴⁵

Cysylltiodd y wasg Geidwadol y digwyddiadau gyda'r ymgyrch gwrth-ddegymol. Rhedodd y stori dan benawdau cyffrous megis, 'Tithe Outrages', ac 'A

²⁴³ *Werin* (24 Mawrth 1894).

²⁴⁴ *Western Mail* (16 Mawrth 1894); *Evening Express* (16 Mawrth 1894).

²⁴⁵ *Ibid.* Yn seiliedig ar dystiolaeth Hughes. Cafwyd enghraifft arall o anafu anifeiliaid ym Mhenbryn, ac fe alwodd yr *Aberystwyth Observer* (25 Mai 1889) y weithred fel, 'Revolted Outrage at Penbryn'. Y mae Carl Griffin wedi edrych mewn i ddyfnder o ran y symbolaeth ac yr ideoleg o anafu anifeiliaid: 'Some inhuman wretch': animal maiming and the ambivalent relationship between rural workers and animals', *Rural History*, 25 (2) (2014), tt. 133-160.

Vicar in Fear of the Mob'.²⁴⁶ Atgynhyrchwyd y frawddeg canlynol mewn sawl adroddiad:

Llanfihangel Rhosycorn has ... during the past three or four nights been the scene of some of the most disgraceful outrages yet perpetrated in the course of the lamentable, and, in some respects, scandalous struggles against the payment of tithes in Wales.²⁴⁷

Yr oedd y digwyddiad hwn yn fêl ar fysedd y Ceidwadwyr, ac nid syndod mai colofnau eu horganau hwy a neilltuodd y gofod mwyaf i'r digwyddiad. 'Beth am Rhosycorn!!!' meddai 'Myrddin' yn y *Llan*, pan gyfeiriodd ef at y diffyg ymdriniaeth o'r fandaliaeth yn y 'radical press and the Nonconformist pulpit'.²⁴⁸

Dyma'r naratif a roddwyd gan Hughes, ond i ba raddau y gellir cysylltu'r digwyddiad hwn â'r ymgyrch gwrth-ddegymol? Datgelodd Hughes am y tro cyntaf ei fod wedi derbyn llythyrau bygythiol oddeutu pedair mlynedd yn ôl pan oedd ef wedi atafaelu am ei ddegymau.²⁴⁹ Ond wfftiodd David Thomas Gilbert (Annibynnwr, prifathro a gwrth-ddegymwr amlwg yn yr ardal) honiad y ficer o barthed y llythyrau bygythiol. Dengys y bod yna ychydig o hanes rhwng y ddau ohonynt. Ar 15 Tachwedd 1887 yr oedd Gilbert wedi cadeirio cyfarfod gwrth-ddegymol yng Ngwernogle, ac erbyn Chwefror 1888 yr oedd yn rhaid i Hughes gymryd camau cyfreithiol er mwyn adfer ei ddegymau.²⁵⁰ Yr oedd Gilbert yn ddegwm dalwr hefyd, ac yr oedd 10s. 3c. (12s. 9c. ar ôl costau) yn ddyledus i Hughes ar 1 Hydref 1889.²⁵¹ Atafaelwyd nwyddau Gilbert ar 18 Medi ac yr oedd yr arwerthiant i gymryd lle ar y 30ain. Fodd bynnag, ni chafwyd hyd i'r ddau fochyn ac ambell i lo oedd i'w gwerthu.²⁵²

O ganlyniad i hyn, dygodd Hughes achosion ymlaen yn erbyn Gilbert ac ambell i ddegwm dalwr arall am 'pound breach' ym 1891. Siarswyd Gilbert er mwyn adfer £5 o ddegymau – yr hyn oedd yn cynnwys iawndal triphlyg a chostau.²⁵³ Aeth y dyfarniad o blaid Hughes, ond nid oedd Gilbert ar ei golled, canys fe dalwyd

²⁴⁶ *Western Mail* (15 Mawrth 1894); *Evening Express* (15 Mawrth 1894); *South Wales Daily Post* (15 Mawrth 1894).

²⁴⁷ *Ibid.*

²⁴⁸ *Y Llan* (22 Mawrth 1894).

²⁴⁹ *Western Mail* (16 Mawrth 1894); *Evening Express* (16 Mawrth 1894).

²⁵⁰ *Tyst a'r Dydd* (2 Rhagfyr 1887); *Cambrian News and Merionethshire Standard* (17 Chwefror 1888).

²⁵¹ *Y Dydd* (11 Hydref 1889).

²⁵² *Ibid.*

²⁵³ *Cambrian News and Merionethshire Standard* (23 Ionawr 1891); *Cardiff Times* (23 Mai 1891).

costau'r achos gan y Gymdeithas Gwrth-Ddegymol.²⁵⁴ Er gwaethaf y canlyniad i'r gwrth-ddegymwyr, yr oedd Gilbert ac eraill wedi llwyddo i wneud y broses o gasglu'r degwm mor anodd a chostus â phosibl i'r ficer. Yn hyn o beth yr oeddynt yn llwyddiannus.

Er bod cuddio eiddo cyn arwerthiant yn rhywbeth anghyfreithlon, yr oedd, er hynny, yn nodwedd eithaf cyffredin yn ystod 'Rhyfel y Degwm'. Nid oedd hyn yn rhywbeth oedd yn cael ei ystyried yn warth. Yr oedd llythyrau bygythiol ac unrhyw fath o drais, fodd bynnag, yn cael eu hystyried yn warth, ac yr oedd Gilbert yn awyddus iawn i bellhau ei hun a'i gyd gwrth-ddegymwyr o unrhyw gamwedd:

I challenge your correspondent [Western Mail] to prove that any threats were used during the tithing campaign. Four or five years ago is rather a long time to carry out a threat. Mr. Hughes has the widespread sympathy of the Nonconformists and anti-tithers of the parish, who I may add, do not stand idly by and allow outrages in their midst.²⁵⁵

Yr oedd Hughes yn bendant ei fod wedi derbyn y llythyrau bygythiol, ond yn annhebyg i Venables Williams, ni ddatgelodd yn gyhoeddus ar y pryd ei fod wedi derbyn hwy.²⁵⁶ Addefodd Gilbert, 'I do not hesitate to believe Mr. Hughes that he has received threatening letters', ond gofynnodd, 'Can it be proved that these letters have been received from the anti-tithers of this parish?'²⁵⁷ Yr ateb yn nhyb Gilbert oedd na, 'I do not see why I should preclude myself from publicly asserting my innocence, together with that of my fellow anti-tithers, in connection with these outrages'.²⁵⁸

Ychydig cyn i'r llythyr uchod ymddangos yn y *Western Mail*, yr oedd penderfyniad wedi ei basio un dydd Sul yng nghapel yr Annibynwyr yng Ngwernogle, lle yr oedd Gilbert yn ysgrifennydd. Estynnodd y gynulleidfa eu cyddeimlad i Hughes.²⁵⁹ Er fod Gilbert wedi ymdrechu i wneud pethau yn anodd iawn i Hughes yn y gorffennol, yr oedd yn awr yn cynnig cymorth i'r ficer. Ar y naill llaw,

²⁵⁴ *Evening Express* (24 Ebrill 1891); *Western Mail* (24 Ebrill 1891).

²⁵⁵ *Western Mail* (20 Mawrth 1894).

²⁵⁶ *Western Mail* (29 Mawrth 1894); *Evening Express* (29 Mawrth 1894).

²⁵⁷ *Western Mail* (4 Ebrill 1894); *Evening Express* (4 Ebrill 1894).

²⁵⁸ *Ibid.*

²⁵⁹ 'That we, as a church and congregation, sincerely sympathize with Mr Hughes, and deplore that such disgraceful outrages have been committed within the parish, and that we shall endeavour to do all in our power to suppress any further molestations'. *Aberystwyth Observer* (29 Mawrth 1894).

y mae'n bosib yr ysgogwyd i wneud hyn oherwydd ei fod yn wirioneddol cydymdeimlo â Hughes. Ar y llall, ni ellir ond amau bod Gilbert yn awyddys iawn i bellhau'r ymgyrch gwrth-ddegymol, yr hwn oedd ef mor flaenllaw yn hyrwyddo yn y plwyf, o'r llythyrau bygythiol ynghynt â'r achosion o fandaliaeth.

Erbyn dechrau mis Ebrill yr oedd yr achos yn cael ei drafod yn y Tŷ Cyffredin. Gofynnodd Arthur Sackville Trevor Griffith-Boscawen, yr aelod seneddol Ceidwadol dros Turnbridge, swydd Caint, i H. H. Asquith (yr Ysgrifennydd Cartref), os oedd camau wedi'u cymryd i adfer trefn unwaith eto yn y rhan yma o'r wlad? ²⁶⁰ Yr oedd Asquith wedi cael ei hysbysu nad oedd yna gysylltiad rhwng yr achos dan sylw â'r ymgyrch gwrth-ddegymol, a bod y ficerdy yn cael ei ddiogelu gan yr heddlu. ²⁶¹ Y mae'r un fath o gwestiynau ac amheuon yn codi unwaith eto o barthed y ddamcaniaeth olaf hon.

Yn gyntaf, nid oes yna unrhyw adroddiad yn y papurau newydd megis y *Western Mail* yn hysbysu fod y gweithredwyr wedi'u dal a'u dedfrydu yn y pen draw. Yn ail, pe bai'r fandaliaeth wedi digwydd yn ystod yr arwerthiannau degymol a gymerodd lle ychydig o flynyddoedd ynghynt, wedyn buasai yna reswm i gredu bod yna gysylltiad rhwng y ddau beth. Ond yr hyn sydd yn peri syndod ydyw'r ffaith fod yr ymosodiadau ar eiddo Hughes wedi digwydd pan oedd y storm gwrth-ddegymol yn y plwyf wedi myned heibio. Ys dywedodd Hughes ei hunain:

I had trouble some times ago, it is true, about my tithes, and had to take legal proceedings to have them recovered, but that appeared to have blown over. These outrages now have surprised me all the more on that account.²⁶²

Felly, ai gweithred hollol ddigymell ac un hollol annibynnol o'r cynnwrf gwrth-ddegymol oedd yr achos o fandaleiddio eiddo Hughes? Y mae'n bosib. Eto, ar yr un pryd ni ellir diystyru gweithredoedd y blynyddoedd cynt ychwaith, er gwaethaf amharodrwydd rhai cyfoeswyr i weld cysylltiad rhwng y ddau beth. Ymddengys fod

²⁶⁰ 'Whether he is aware that a series of night attacks have been made on the vicarage of Llanfihangel Rhosycorn, in the course of which a valuable horse belonging to the vicar has been cruelly mutilated; whether any arrests have been made in connection with this outrage; and what steps he proposes to take to restore law and order to this part of the country?' HC Deb 3 Ebrill 1894, cyf. 22, col. 1246.

²⁶¹ 'I am informed that on four separate occasions damage was done by parties of men in the stables of the vicarage named, including the cutting of the hair from the tail of a horse; and although no arrests have yet been made, the offenders are believed to be known, and it is hoped will shortly be brought to justice ... I am further informed that these outrages have nothing to do with the collection of tithe rent-charge; and the vicarage is now protected.' HC Deb 3 Ebrill 1894, cyf. 22, col. 1246.

²⁶² *Western Mail* (16 Mawrth 1894); *Evening Express* (16 Mawrth 1894).

yr arwerthiannau wedi creu cynnwrf yn y plwyf ym 1888 ac 1889, ac amcangyfrifodd un adroddiad fod torf yn rhifo rhwng 500 i 600 (nifer wedi dyfod o bell) wedi mynychu'r arwerthiannau ym 1888.²⁶³ Y mae'n bosib bod yna ddrwg deimlad yn parhau yn yr ardal, ac y mae natur craff a thargedol yr ymosodiadau ar eiddo'r ficer yn arwyddocaol. Efallai fod yna elfen o oportiwnistiaeth yn perthyn i'r fandaliaeth, ond ni ellir diystyru yn gyfan gwbl dylanwad y cyffro gwrth-ddegymol. Wedi'r cwbl, yr oedd yn fyw ac yn iach yn y plwyfi cyfagos, megis Penbryn, felly y mae'n bosib fod hyn wedi chwarae rhyw ran i ysgogi'r cyflawnwyr i wneud yr hyn a wnaethant.

Y mae'n arwyddocaol nad Rhos-y-corn yn unig a welodd enghraifft o ddifrodi eiddo offeiriad yr Eglwys yn y de-orllewin. Yr oedd gogledd Sir Benfro mewn cyflwr o gynnwrf yn ystod tymor yr Ebrill 1889 oblegid yr oedd diwrnodau'r arwerthiannau yn agosáu. Rydym eisoes wedi trafod y difrod i ffenestri eglwys Llanddewi Efelffre yr adeg honno, a'r ffaith fod Prif Gwnstabl Sir Benfro yn bryderus am daffaerthion tebygol yn ystod yr arwerthiannau.²⁶⁴ Tanlinellwyd ei bryderon pan honnodd wrth William Davies, yr Aelod Seneddol Rhyddfrydig dros Sir Benfro:

I have just received a telegram from the Rev. Herbert [J. B. Herbert], Rector of Cilrhedyn, that an outrage was committed on his premises last night by three men, one of whom he states was armed. He attributes it to the tithe agitation.²⁶⁵

Gan ystyried y tensiynau yn yr ardal ar y pryd, mae'n bosib bod y rheithor yn iawn pan briodolodd yr 'outrage' i helyntion y degwm.

Gan ddychwelyd yn ôl i Benbryn, ymddengys nad yr eglwys yn unig a ddifrodwyd yn ystod 'Rhyfel y Degwm' ychwaith. Targedwyd ficerdy'r Parchg. Thomas Jones, nid unwaith ond ddwywaith ym 1891, ac fe ddifrodwyd y ffenestri ar y ddau achlysur.²⁶⁶ Yr oedd hyd yn oed tad-yng-nghyfraith Jones, Levi James, wedi cael ei wawdio, yn ei dyb ef, o bosib am ei fod wedi adeiladu'r ficerdy i Jones a'i ferch.²⁶⁷ Ond datganodd James fod pobl wedi sicrhau iddo nad oedd gan yr

²⁶³ *Cambrian News and Merionethshire Standard* (17 Chwefror 1888).

²⁶⁴ LIGC, Papurau Williams and Williams, Tithe Agitation in Pembroke 1889, 15424, T. J. W. Bowen i William Davies, Esq. M.P., (15 Mawrth 1889).

²⁶⁵ *Ibid.*

²⁶⁶ *Western Mail* (5 Mai 1891); *Evening Express* (5 Mai 1891).

²⁶⁷ *Carmarthen Journal* (26 Mehefin 1891).

ymsodiadau hyn ddim i'w wneud â'r cynnwrf gwrth-ddegymol.²⁶⁸ Unwaith eto, ceir enghraifft arall o'r elfen 'barchus' yr ymgyrch gwrth-ddegymol yn pellhau eu hunain o weithredoedd o'r fath, er y mae'n gwbl bosib y targedwyd Jones oherwydd y cynnwrf ynghylch y degymau. Gellir dadlau nad oedd gan arweinwyr yr ymgyrch wir reolaeth dros ymddygiad pob aelod o'r gymuned.

Llun 5.4 Y Parchg. Thomas Jones, Penbryn.

Ffynhonnell: Y Llan (28 Medi 1888.)

IV.

Effaith hir dymor

Er gwaethaf natur y digwyddiadau mwyaf eithafol o wrthglerigiaeth ar y lefel sylfaenol yn ystod 'Rhyfel y Degwm', gellir dadlau mai ffenomenon 'dros dro' ydoedd. Yn gyntaf, nid oes yna fawr o sôn yn y papurau newydd ar ôl i 'ryfel y degwm' ddod i ben am wŷr gwellt o glerigwyr yn cael eu llosgi na ffenestri eglwysi

²⁶⁸ *Carmarthen Journal* (26 Mehefin 1891).

a rheithordai yn cael eu difrodi. Yn wir, nid oes yna fawr o enghreifftiau o hyn cyn 1887 o ran hynny. Yn ail, y mae'n arwyddocaol nad oes yna dystiolaeth i awgrymu fod dicter yn erbyn y periglorion plwyfol wedi cyrraedd y fath raddfa na'r fath amllder nes peri iddynt orfod gadael eu bywoliaethau. Os dilynwn dynged yr offeiriaid a nodwyd yn yr adran hon, gwelwn nad oedd y rhan fwyaf ohonynt mewn unrhyw hast i adael eu bywiolaethau.

Un nodwedd amlwg wrth edrych ar dabl 5.1 ydyw'r ffaith fod periglorion Bodfari, Cilrhedyn a Llangolman wedi preswyllo dros eu bywoliaethau am gyfnod maith o dros ddeugain o flynyddoedd, tra treuliodd W. Venables Williams trideg o flynyddoedd yn Llandrillo-yn-rhos, William Harries pymtheng mlynedd yn Llanddewi Efelffre a Jones am bron i bymtheng mlynedd yn Llanferres. Diddorol hefyd ydyw'r faith bod y gwŷr hyn wedi aros yn y bywoliaethau uchod hyd at eu marwolaethau; Browne a Harries ym 1891, a Herbert, Walters, Venables Williams a Jones ymhell ar ôl i'r cyffro gwrth-ddegymol ballu yn eu plwyfi. Felly, ni adawodd y periglorion hyn eu bywoliaethau o ganlyniad i flynyddoedd tymhestlog 'Rhyfel y Degwm'. Yn ogystal â hyn, pan fu farw Browne a Harries ym 1891, dengys nad oedd yna fawr o ddrwgdeimlad eithafol tuag at eu hollynwyr, canys treuliodd y Parchg. Thomas David bymtheng o flynyddoedd yn Llanddewi Efelffre tra treuliodd y Parchg. S. F. Phillips deunaw mlynedd ym Modfari. Yn wir, yr oedd David yn flaenllaw iawn yn yr ymdrech i ail-agor eglwys Llanddewi Efelffre ym 1894.²⁶⁹

Ni fu farw Herbert Hughes yn Llanfihangel Rhos-y-corn, ond arhosodd yn y fywoliaeth honno nes 1898 pan dderbyniodd ef fywoliaeth Mothvey.²⁷⁰ Yr unig gofnod yn y tabl sydd yn mynd yn groes i'r gweddill ydyw'r un ar gyfer bywoliaeth Penbryn, a gwyddom mai'r plwyf hwnnw oedd un o'r rhai mwyaf tanbaid yng Nghymru o ran cwestiwn y degwm. Gwelir mai dim ond am ddwy flynedd yn unig yr arosodd y Parchg. A. Britten ym fywoliaeth Penbryn - o 1886 hyd at 1888. Dengys fod Britten, yn ogystal â'r amfeddwr lleig yn y plwyf, wedi cael eu deisebu am ostyngiad yn eu degymau ym 1886. Ond gan mai apwyntiad newydd i'r fywiolaeth oedd Britten, teimlodd nad oedd yn medru cydymffurfio â chais y

²⁶⁹ *South Wales Daily News* (6 Mehefin 1894).

²⁷⁰ *Evening Express* (20 Gorffennaf 1898).

deisebwyr.²⁷¹ Fodd bynnag, ni ellir ystyried y cyfnod rhwng 1886 ac 1888 fel y rhai mwyaf tymhestlog o barthed y degwm ym mhlwyf Penbryn.

Tabl 5.1 Nifer o flynyddoedd y treuliodd offeiriaid yr Eglwys yn y bywoliaethau hynny a welodd achos neu achosion o ddifrodi adeiladau yn gysylltiedig â'r Eglwys Sefydledig yn ystod 'Rhyfel y Degwm'.

Periglor	Bywoliaeth	Blynyddoedd yn y fywoliaeth
T. B. Ll. Browne	Bodfari	1850-1891 (41) (marw ym 1891)
James B. Herbert	Cilrhedyn	1856-1897 (41) (marw ym 1897)
Thomas Walters	Llangolman a Maenclochog	1863-1905 (42) (marw ym 1905)
W. Venables Williams	Llandrillo-yn-rhos	1869-1900 (31) (marw ym 1900)
William Harries	Llanddewi Efelffre	1876-1891 (15) (marw ym 1891)
Hugh William Jones	Llanferres	1883-1897 (14) (marw ym 1897)
Herbert Hughes	Llanfihangel Rhos-y-corn	1885-1898 (13)
A. Britten	Penbryn	1886-1888 (2)
Thomas Jones	Penbryn	1888-1902? (14)
Thomas David	Llanddewi Efelffre	1891-1906 (15)
Samuel Frederick Phillips	Bodfari	1891-1909 (18)

Ffynhonnellau: Bodfari: LIGC, SA/V/28 – Clergy List – 1894; LIGC, SA/P/101; Cilrhedyn: LIGC, Diocese of St. David's Records, SD/P/1124; *Western Mail* (26 Ionawr 1897); Llangolman a Maenclochog: LIGC SD/P/3095; *Carmarthen Weekly Reporter* (2 Mehefin 1905); Llandrillo-yn-rhos: LIGC SA/V/28 – Clergy List – 1894; *Chester Courant and Advertiser for North Wales* (14 Tachwedd 1900); Llanddewi Velfery: LIGC SD/P/1079; SD/P/273; *Carmarthen Journal* (16 Ionawr 1891); Llanferres: LIGC, SA/V/28 – Clergy List – 1894; *Llan* (15 Ionawr 1897); Llanfihangel Rhos-y-corn: LIGC, SD/P/1228; *Evening Express* (20 Gorffennaf 1898); Penbryn: LIGC, SD/P/176; SD/P/1724.

²⁷¹ *Baner ac Amserau Cymru* (16 Hydref 1886).

Cynigwyd bywoliaeth Mydrim i Britten yn sgil marwolaeth y Parchg. Thomas Jenkins ym 1888, a derbyniodd ef y fywoliaeth wag.²⁷² Yr oedd Britten yn ffodus iawn i adael Penbryn cyn i bethau droi'n fwy sur yn ystod yr 1890au. Honnodd y *Western Mail* mai ficer Llanddarog, sef y Parchg. N. Thomas, a gafodd y cynnig cyntaf i gymryd drosodd ym Mhenbryn, ond am ryw reswm fe wrthododd ef y cynnig.²⁷³ Teg yw mentro gofyn os wyddai am y teimlad cryf oedd yn bodoli yn y plwyf ynglŷn â'r degymau? Yn y diwedd aeth y swydd i Thomas Jones, ac efô a gafodd y pwysau o ddelio gyda'r cyfnod blinderus hynny yn y plwyf yn ystod y 1890au cynnar. Erbyn 1901 yr oedd y Parchg. D. Owen Davies, Pontypŵl, yn ddigon hyderus i ddatgan yn y *Carmarthen Journal*:

That [Tithe War], happily, is now a thing of the past. I have known five successive vicars of Penbryn, but the present vicar – the Rev Thomas Jones, B.A. – has had the unique experience of a peculiarly trying period. By his admirable tact and patience, he has completely subdued the disaffection which existed, and removed the opposition to the payment of tithe. He is now, probably, more popular, more respected, more beloved, than any of the good men who have preceded him as Vicars of Penbryn.²⁷⁴

V.

Casgliad

Gellir dadlau mai ffenomenon cymhleth oedd gwrthglerigiaeth ar y lefel sylfaenol yng Nghymru yn ystod 'Rhyfel y Degwm'. Ar y naill law, yr oedd canu caneuon dychanol a chreu delwau sarhaus, smala hyd yn oed, o'r clerigwyr yn fodd effeithiol o ran creu elfen 'pantomime' yn ystod y protestiadau. Ar y llall, gellir dadlau bod yna negeseuon mwy difrifol y tu ôl iddynt. Yr oedd geiriau'r caneuon yn filwriaethus ac yn fygythiol, ac yr oedd llosgi'r 'gwŷr gwellt' yn ddyfarniad cymdeithasol o ymddygiad honedig y clerigwyr ynghylch y degymau. Aeth fandaliaeth a bygythiadau treisgar y tu hwnt i sffêr y protestio, ac felly y tu hwnt i sffêr 'swyddogol' yr ymgyrch gwrth-ddegymol. Condemniwyd swyddogion yr

²⁷² *Llan* (11 Mai 1888); *Western Mail* (7 Mehefin 1888).

²⁷³ *Western Mail* (7 Mehefin 1888).

²⁷⁴ *Carmarthen Journal* (16 Awst 1901).

ymgyrch gweithredoedd o'r fath, ond mewn gwirionedd nid oeddynt yn medru rhwystro unigolyn neu unigolion rhag gweithredu fel 'gwarchodwyr' (vigilantes).

Hwyrach mai'r peth pwysicaf i ddatgan ynghylch gwrthglerigiaeth ar y lefel sylfaenol yn ystod 'Rhyfel y Degwm' ydyw mai ffenomenon dros dro ydoedd. Ni welwyd y fath beth cyn helyntion y degwm, ac ni welwyd y fath beth ar ôl i bethau dawelu ychwaith. Yn ail, cyfyngwyd ef i rai ardaloedd yng Nghymru yn unig. Pa fodd bynnag, nid ydyw hyn yn tynnu oddi wrth y ffaith mai hwn oedd y cyfnod mwyaf gwrthglerigol yn hanes Cymru fodern o ran gelyniaeth tuag at glerigwyr yr Eglwys ar y lefel sylfaenol.

Pennod VI

‘Newyn Clerigol’?

Rhagarweiniad

Wedi edrych yn fanwl ar y gwahanol fathau o wrthglerigiaeth ar y lefel sylfaenol yng Nghymru adeg ‘Rhyfel y Degwm’, trown ein sylw yn awr at yr effaith ariannol a gafodd yr ymgyrch gwrth-ddegymol ar fywyd beunyddiol y clerigwyr. Cyhoeddodd y cylchgrawn dychanol Saesneg *Funny Folks* pennill bach dychanol yn disgrifio penbleth y clerigwyr yng Nghymru:

The Tithe War in Wales

In Wales the titheless parson writhes,
And thinks, with indignant hot,
They are good Welsh who pay their tithes,
And wicked ‘Welshers’ who will not!¹

Wrth gwrs, nid oedd diffynyddion yr Eglwys na’r clerigwyr hynny a oedd yn cael trafferth derbyn y degymau yn rhannu’r synnwyr digrifwch hwn. Tra bod y gwrth-ddegymwyr yn gadarn yn yr argyhoeddiad fod eu hymgyrch hwy yn un iawn a moesol, yr oedd y clerigwyr a’i cefnogwyr yr un mor gadarn mai ymgyrch anfoesol ydoedd. Defnyddiwyd y cysyniad o ‘newyn clerigol’ i adlewyrchu hyn, yn bennaf i ddarllenwyr yn Lloegr.

Yn ogystal âg edrych ar gyflwr y clerigwyr, y mae’r bennod hon yn edrych yn fanwl ar yr unigolion neu sefydliadau a oedd yn fan cymorth i’r clerigwyr. Yn gyntaf edrychir yn benodol ar ymateb Esgob Llanelwy a’i ddeon, sef ‘penseiri’r’ cysyniad o ‘newyn clerigol’. Yn ail, edrychir ar yr ohebiaeth a dderbyniodd y Dirprwywyr Eglwysig gan glerigwyr plwyfol yn canmol, neu’n barnu, eu safiad i wrthod rhoi dim yn ôl yn y degymau. Yn olaf, astudiwn ymateb y landlordiaid a oedd yn elfen amwys yn yr holl helynt oherwydd natur y cytundebau rhyngddynt hwy a’u tenantiaid.

¹ *Funny Folks*, rhif. 655, cyf. 13 (11 Mehefin 1887), t. 197.

I.

Y Gostyngiadau

Yn ôl Frank Price Jones, yr oedd Joshua Hughes wedi ‘cymell’ clerigwyr yr Eglwys i fod yn ‘amyneddgar’ o barthed eu degymau.² Daeth yr apêl hon ychydig wedi sefydliad Cymdeithas Amddiffyn y Clerigwyr yng Nghaer yn ystod mis Hydref 1886 gan ambell i glerigwr a thirfeddiannwr pryderus gyda chysylltiadau â Chymru.³ Ond erbyn 1888 yr oedd amynedd nifer o’r offeiriaid wedi dirwyn i ben. Yr oeddynt wedi gobeithio gweld Mesur Rhent-dal y Degwm wedi’i basio erbyn hynny, a’r cyfrifoldeb o dalu’r degwm wedi ei drosglwyddo i’r landlordiaid. Gan na phasiwyd y mesur, yr oedd yn rhaid i nifer o glerigwyr gymryd y penderfyniad anodd o weithredu yn erbyn rhai o’u plwyfolion. Heb os yr oedd y ffaith bod ôl-ddyledion rhai o’r degymau bron a chyrraedd dwy flynedd, ac ni ellid adfer hwy ar ôl hynny.⁴ Ym mis Chwefror 1888 cyhoeddodd Cymdeithas Amddiffyn y Clerigwyr ddatganiad yn esbonio, ‘Every peaceful means [has been] used to induce the tithe rent-charge payers not to force the tithe rent-charge owners into legal proceedings’, ond gan fod y sefyllfa wedi dyfod mor anffafriol i’r degwm feddianwyr, yr oeddynt yn barod, ‘to vindicate the law’.⁵

Eto, yr oedd yna ddiffyg undod ymysg y clerigwyr yn ystod ‘Rhyfel y Degwm’. Ysgrifennodd yr Archddiacon D. R. Thomas, Meifod, yn aml i’r *Times* i gondemnio’r ymgyrch. Ond ni wnaeth fawr o safiad o ran mynnu bod ei ddegymau’n cael eu talu’n llawn. Yn ei dyb ef, yr oedd derbyn rhywbeth yn well na derbyn dim, ac fe gytunodd i ostyngiad.⁶ Er bod y Parchg. Ellis Roberts (Elis Wyn o Wyrfai) yn olygydd *Yr Haul*, dengys iddo fod yn fwy na pharod i roi 10 y cant o ostyngiad yn ei ddegymau.⁷ Dichon mai ceisio cadw’r ddysgyl yn wastad oedd ef, canys ym 1889 cawn ef yn datgan na feiddiai atafaelu yn y plwyf oherwydd yr aflonyddwch y byddai hynny’n ei greu.⁸

² Frank Price Jones, ‘Rhyfel y Degwm’, yn Alun Llywelyn-Williams ac Elfed ap Nefydd Roberts (gol.), *Radicaliaeth a’r Werin Gymraeg yn y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg: Casgliad o Ysgrifau gan Frank Price Jones* (Caerdydd, 1977), t. 89.

³ Jones, ‘Rhyfel y Degwm’, t. 89; *Caernarvon and Denbigh Herald* (29 Hydref 1886).

⁴ Jones, ‘Rhyfel y Degwm’, t. 89.

⁵ *North Wales Express* (24 Chwefror 1888).

⁶ J. P. D. Dunbabin, *Rural Discontent in Nineteenth Century Britain* (Llundain, 1974), tt. 214-215.

⁷ Jones, ‘Rhyfel y Degwm’, t. 80.

⁸ LIGC, SA/Tithe/1-207, Llangwm.

Defnyddiol ydyw'r ffigyrau a gyhoeddwyd gan R. E. Prothero ar gyfer Esgobaethau Bangor a Llanelwy pa ymchwiliodd ef i gyflwr y clerigwyr yng ngogledd Cymru.

Tabl 6.1 Tabl yn crynhoi darganfyddiadau R. E. Prothero ynghylch ôl-ddyledion a gostyngiadau'r degwm yn Esgobaethau Bangor a Llanelwy, 1886-1889.

Nifer o fywoliaethau yn Esgobaeth Bangor a Llanelwy: 349.
Nifer o dderbyniadau wedi'u hastudio: 317 (31 bywoliaeth lle nad oedd yna degwm i'w dalu).
Nid oedd gan 85 o fywoliaethau allan o 286 ôl-ddyledion.
Yr oedd gan 201 o fywoliaethau allan o 286 ôl-ddyledion.
Cafwyd gostyngiadau mewn 185 o fywoliaethau allan o 286.
Ni roddwyd gostyngiad mewn 101 allan o 286 o fywoliaethau.

Ffynhonnell: R. E. Prothero, *The Anti-Tithe Agitation in Wales* (Llundain, 1889), tt. 16-17.

Gwelir felly bod 65% o fywoliaethau yng ngogledd Cymru wedi cydymffurfio i dderbyn gostyngiad yn y degymau hyd at 1889. Serch hynny, yr oedd 70% o'r bywoliaethau dal gydag ôl-ddyledion; yn ymestyn o symiau sylweddol i rai eithaf pitw.⁹ Felly, nid oedd cynnig gostyngiad yn gwarantu fod pob ceiniog o'r degwm yn dyfod i law'r clerigwr ar amser. Yn rhan helaeth o'r achosion hynny lle nad oedd yna ôl-ddyledion na gostyngiadau, dengys mai gweithred y tირfeddianwyr yn talu'r degymau'n uniongyrchol oedd y rheswm am hynny.¹⁰ Ceir drafodaeth lawnach o hyn nes ymlaen yn y bennod.

Ond ar y cyfan yr oedd symiau boddhaol o arian yn cael eu derbyn ar ôl gostyngiad cytunedig.¹¹ Y mae ffig. 6.1 yn dangos mai 10% oedd y gostyngiad mwyaf poblogaidd o bell ffordd, ac os na roddwyd y canran hwnnw, yn fwy aml na dim ffigwr is ydoedd yn hytrach nac un uwch. Y mae hwn yn dangos dau beth: anghysondeb ymysg y clerigwyr o ran pa faint o ostyngiad y dylid ei ganiatáu; ac anghysondeb ymhlith y gwrth-ddegymwyr o ran am faint o ostyngiad y dylid gofyn. Er y gellir

⁹ R. E. Prothero, *The Anti-Tithe Agitation in Wales* (Llundain, 1889), t. 16.

¹⁰ *Ibid.*, tt. 16-17.

¹¹ Dunbabin, *Rural Discontent*, t. 219.


ystyried ‘Rhyfel y Degwm’ fel symudiad, y mae’r ffaith hwn yn dangos pa mor bwysig oedd yr elfen leol hefyd. Yn wir, yr oedd y ffaith fod nifer sylweddol o glerigwyr wedi cytuno i ostyngiadau wedi cythruddo nifer o Eglwyswyr. Ym 1887 ysgrifennodd Esgob Bangor at Syr George Pringle, aelod o’r Dirprwywyr Eglwysig, yn datgan am helyntion y degwm, ‘It is thought the storm would have passed over... had not some clergymen given way – As yet the opposition though spreading is far from general’.¹² Dywedodd William Edward Sackville West, rheolwr ystâd Penrhyn, rhywbeth tebyg pan ysgrifennodd lythyr i Cynol Wynne-Finch, ‘I am very glad the Commissioners have succeeded in Flintshire. If the clergy could have continued they would have soon, but it was ... more on the part of the agitators to attack in detail men who could not defend themselves’.¹³ Yr oedd hi’n hawdd i wŷr o’r fath wneud y sylwadau hyn oherwydd nid oeddynt yn gorfod gwynebu dicter y plwyfolion.

(Ffig. 6.1 ar y tudalen nesaf)

¹² LIGC, 70,000ii – Part 2 – Estates Management – Tithe Rent Charge – Distraints in Wales: Esgob Bangor i’r Dirprwywyr Eglwysig (8 Ionawr 1887).

¹³ LIGC, Voelas and Cefnamlwch Estate Records, C1-411. C82 – William Edward Sackville West i Col. Wynne-Finch (23 Rhagfyr 1886).

Ffig. 6.1 Graff yn dangos y gwahanol ganrannau a ostyngwyd yn eu degymau gan glerigwyr yr Eglwys, 1886-1889.



Ffynhonnell: R. E. Prothero, *The Anti-Tithe Agitation in Wales* (Llundain, 1889), tt. 16-17.

II.

Yr effaith ariannol

Gwyddom fod gwerth y degymau wedi gostwng yn barhaol o ddiwedd yr 1870au ymlaen (atodiad 2). Yn amlwg o ran incwm nifer o glerigwyr nid oedd hyn yn ddelfrydol, a llai delfrydol byth oedd derbyn llai na swm dirwasgedig y degwm. Ond fel y gwelwyd yn yr adran ddiwethaf, yr oedd nifer fawr o glerigwyr wedi lleihau eu degymau er mwyn derbyn rhywfaint o arian, ac i gadw ar delerau da â'u plwyfolion.¹⁴ Portreadodd amddiffynwyr yr Eglwys ddarlun llwm iawn o sefyllfa ambell i glerigwr oherwydd yr amddifad ariannol hyn. Adroddodd Prothero hanes un clerigwr a oedd wedi symud o fywoliaeth drefol i un wledig, gan wario swm sylweddol ar atgyweirio'r annedd. Fe fu farw ei wraig, ac ymhen deng niwrnod fe dderbyniodd gais am ostyngiad yn ei ddegymau. Fe syrthiodd ei ddwy ferch yn wael oherwydd diffyg arian i'w bwydo, ac fe farwont yn fuan wedyn. Gyrrodd y plwyfolion focs llawn baw i'r clerigwr yn

¹⁴ PP 1887 XXXVIII, Report of an Inquiry as to Disturbances Connected with the Levying of Tithe Rentcharge in Wales, t. 7.

dweud, ‘Yr ydym yn clywed eich bod yn newynu, dyma fwyd i chi’.¹⁵ Y mae’r hanes hwn yn enghraifft eithafol o wrthglerigiaeth, er rhaid cadarnhau ei ddilysrwydd cyn ei dderbyn fel ffaith. Yr hyn sydd yn bwysig yma ydyw’r darlun a grëwyd gan yr awdur fel ergyd yn erbyn moesoldeb y ‘gydwybod Ymneilltuol’. ‘Is it necessary’, meddai Prothero, ‘that the battle of religious freedom should be fought with such missiles as these?’¹⁶ Cydnabu Prothero bod hwn yn enghraifft eithafol, a soniodd am glerigwyr eraill yn gwerthu carpedi, llyfrau a.y.b. i dalu eu dyledion.¹⁷

Nid Prothero oedd yr unig un i ddatgan ar goedd effaith ariannol ‘Rhyfel y Degwm’ ar y clerigwyr. Yr oedd y Parchg. Walter Evans, Halcyn, yn aelod blaenllaw o’r Gymdeithas Amddiffyn y Clerigwyr yn y gogledd. Yn ystod comisiwn Bridge dywedodd ei fod wedi bod yn brysur iawn yn cynorthwyo nifer o’r clerigwyr cyffredin, yn enwedig y rhai a theuluoedd mawr, oherwydd y diffyg arian i brynu nwyddau angenrheidiol.¹⁸ Ym 1889 fe ddarllenodd Mr. J. G. Talbot, Prifysgol Rhydychen, yn Nhŷ’r Cyffredin ddau lythyr gan ddau glerigwr oedd yn dioddef o ganlyniad i ‘Ryfel y Degwm’.¹⁹ Yn y llythyr cyntaf honnwyd mai dim ond £12 o ddegymau oedd y clerigwr wedi derbyn adeg yr archwiliad diwethaf. Nid oedd hyn yn ddigon i sicrhau’r Premiwm Yswiriant, ac yr oedd gan y clerigwr wraig ac wyth o blant dan ei ofal.²⁰ Yn yr ail lythyr, dywedodd clerigwr 68 oed o Sir Fôn nad oedd yn medru ymdopi â chyffro’r arwerthiannau, a fod saith degwm dalwr wedi gwrthod talu degymau iddo am dros ddwy flynedd a hanner. Yr oedd £150 yn ddyledus iddo.²¹

Nid oes yna reswm i gredu mai ffuglen propaganda oedd yr honiadau uchod, canys cawn ambell i lythyr preifat a didwyll gan sawl clerigwr a oedd yn datgan yr un peth. Yr oedd y Parchg. J. S. Rogers, rheithor Selatyn, mewn gohebiaeth â’r bonheddwr William Richard Ormsby-Gore, Brogyntyn, y pryd hwn ynghylch yr anghydfod am y degymau. Ym 1887 ysgrifennodd:

I simply cannot afford to comply with the request made. I do not feel it right to do so under all circumstances and I feel I should be wronging my family in doing so ... When I entered upon this living I found a heavy debt upon it, being [sums] borrowed by former Rectors which I have had to pay amounting to about £550. £40 goes annually to the

¹⁵ Prothero, *The Anti-Tithe Agitation in Wales*, tt. 11-12.

¹⁶ Ibid.

¹⁷ Ibid.

¹⁸ PP 1887 XXXVIII, c. 3373-74, t. 98.

¹⁹ HC Deb 19 Gorffennaf 1889, cyf. 338, col. 741-818.

²⁰ Ibid.

²¹ Ibid.

incumbent of Hengoed. I am obliged to pay £150 a year in life in Insurance in connection with this benefice ...²²

Dengys hyn fod nifer o glerigwyr yn ei chael yn anodd i dalu dyledion ac hanfodion beunyddiol pan nad oedd arian y degwm yn cael ei dalu'n llawn. Ym 1889 ysgrifennodd y Parchg. Richard Owen, rheithor Eryrys (Wyddgrug), i John Owen, deon Llanelwy, er mwyn disgrifio'r amser caled yr oedd ef a'i deulu yn ei brofi. Y mae'n werth dyfynnu rhan helaeth o'r llythyr preifat hwn canys y mae'n enghraifft didwyll o brofiad clerigwr cefn gwlad yng Nghymru adeg 'Rhyfel y Degwm':

I have suffered very greatly from the Anti-Tithe Agitation and the outlook is very dark, darker than ever now since the Bill has been withdrawn. I have 10 children all dependent upon me more or less. I must keep at least 2 at home who ought to be in school: We dismiss our domestic servant next week and the man for general work is under notice to leave and most of the stock I have to be sold. This is the course that I have deemed best to adopt under the present circumstances, but if matters turn out better all well and good. I fear that the expense of levying the tithes by distraint will be nearly equal to the amount recovered and several cases of half years have already become unrecoverable. I have given 10 per cent abatement and the entire cost of collection is very considerable. Can't something be done to help me tide over this difficulty? I have had £40 this year from the clergy Distress Fund, but it is very little to meet school fees and travelling expenses and requirements of a large family. It has occurred to me that there ought to be united action in the Diocese under the sanction in leadership of the Bishop. This is not written for publication and if you make any use of it please suppress the name.²³

Y mae'r llythyr uchod yn datgelu sawl pwynt pwysig ynghylch y problemau a wynebodd clerigwyr y pryd hwn. Yn gyntaf, nid oedd cynnig gostyngiad yn y degymau yn sicrhau gwelliant o ran ei sefyllfa ariannol. Yr oedd y broses o atafaelu er mwyn adfer y degymau yn gostus ac yn gynhennus, yn enwedig yn y plwyfi gwledig ag anghysbell. Yn ail, nid oedd y cymorth ariannol o gronfa'r Gymdeithas Amddiffynnol y Clerigwyr yn ddigonol i liniaru'r colledion yn y degymau. Yn drydydd, dengys mai'r clerigwyr hynny a theluedd mawr a ddiodeffodd mwyaf o ganlyniad i'r colledion a fu yn eu degymau.

Nid oedd y clerigwyr yn cael cadw pob ceiniog o'r degwm a ddeuai i'w llaw. Un o'r hen gwynion yn erbyn y degwm oedd nad oedd rhan ohono yn mynd at y tlodion, fel yr awgrymwyd yn yr Hen Destament.²⁴ Mewn gwirionedd yr oedd rhan

²² LIGC, Brogyntyn Estate Records, Llythyr i William Richard Ormsby-Gore, 1842-1896, O-S, PEC 8/5 – Llythyr oddi wrth Parchg. J. S. Rogers, Rheithor Selatyn (9 Mawrth 1887).

²³ LIGC, Papurau John Owen, Deon Llanelwy, Llythyr i'r Degymau, 1888-1890, Bocs 2/8, R. Owen, Eryrys, Wyddgrug i John Owen (21 Awst 1889).

²⁴ 'Ar ddiwedd pob tair blynedd tyrd â degwm dy holl gynnyrch am y flwyddyn honno, a'i gadw yn dy dref. Caiff y Lefiaid, nad oes ganddynt ran na threftadaeth gyda thi, a'r dieithryn a'r amddifad a'r weddw yn dy dref, ddod a bwyta'u gwala; a bydd yr Arglwydd dy Dduw yn dy fendithio di yn y cwbl yr wyt yn ei wneud'. Deuteronomium 14:28.

ohono yn mynd at y tlodion oherwydd bod incwm rhent-dal y degwm yn agored i'w asesu gan oruchwyliwyr treth y tlodion. Dyma gofnod ar gyfer y Parchg. William Williams yn llyfr coch asesu treth y tlodion plwyf Llanfihangel Glyn Myfyr ym 1885/86:

Tabl 6.2 Asesiad treth y tlodion ar gyfer rhent-dal y degwm a oedd ym meddiant y Parchg. William Williams, Llanfihangel Glyn Myfyr.

Gross Estimated Rental	Rateable value	Rate @ 1 shilling in the pound
£198. 0. 0	£160. 0. 0	£8. 0. 0

Ffynhonnell: LIGC, 19228E, Papurau Bob Owen, Rate Book of the Parish of Llanfihangel Glyn Myfyr, Co. Denbigh, 1885-6.

Y mae'r tabl uchod yn rhoi syniad o ran sut yr oedd incwm y degwm yn cael ei asesu, a faint oedd i'w dalu. Wrth gwrs, yr oedd asesiad o'r fath yn cymryd yn ganiatol fod perchennog y degwm yn mynd i dderbyn pob ceiniog o'r degwm. Yn anffodus i nifer o glerigwyr yn ystod 'Rhyfel y Degwm', nid oedd yr asesiadau yn adlewyrchu'r ffaith nad oeddynt yn derbyn yr oll a oedd yn ddyledus iddynt. Yr oedd hyn yn faich ariannol ychwanegol.

Ceid nifer o straeon yn y wasg adeg 'Rhyfel y Degwm' am glerigwyr yn cael eu gwysio o flaen y cwrt bach am fethu (neu wrthod) talu treth y tlodion. Yn Hydref 1886 cawn hanes y Parchg. Edward Jones, Caerwys, yn methu talu swm o £15. 11s.²⁵ 'I regret to say', meddai Jones, 'I am unable to pay the amount claimed. My parishioners refuse to pay their tithe from January last ... Out of an income tax of £425 from tithe I have to pay in rates, taxes, and charges connected with the living, £108, and from January last to the present time I have not received sufficient tithes to pay these rates, taxes, and charges alone'.²⁶ Gohiriodd y cadeirydd warant Edward Jones am atafaelu am fis. Ond ymddengys na thalodd Jones oherwydd cafodd warant yn y pen draw.²⁷ Dyma felly clerigwr yr Eglwys yn derbyn gwarant atafaelu oherwydd diffyg taliad yn deillio o'r degymau, gyda'i blwyfolion yn derbyn gwarant am wrthod talu'r degymau

²⁵ *Rhyl Advertiser* (23 Hydref 1886); *North Wales Express* (22 Hydref 1886).

²⁶ *Ibid.*

²⁷ *Rhyl Advertiser* (20 Tachwedd 1886); *Y Werin* (20 Tachwedd 1886).

hynny! Ym 1888 yr oedd Jones yn ôl yn y cwrt bach oherwydd nad oedd wedi talu gwerth £42 o dreth wedi'i asesu ar werth ei ddegymau. Er, yr oedd yn ddigon bodlon i dalu'r dreth os aseswyd ef ar y swm yr oedd ef wedi'i dderbyn.²⁸

Nid Jones oedd yr unig un a wrthododd, neu a fethodd, i dalu treth y tlodion a ddeilliodd o'r degymau'r bryd hwn. Ym 1887 fe fethodd Parchg. David Jones, Sir Aberteifi, dalu'r swm o £9 ac fe wrthododd y Parchg. David Jones, rheithor, Llanenddwyn, dalu'r dreth oherwydd nad oedd y ffermwyr wedi talu'r degymau.²⁹ Ym 1888 gwyswyd y Parchg. Samuel Evans, Llysfaen, am ôl-daliad o £16. 10s. 2c, a'r Parchg. James Jones, ficer Rhydymwyn, Sir y Fflint, am £15. 0s. 10c. Nid oedd Jones wedi derbyn 80% o'i ddegymau.³⁰ Yn yr un flwyddyn fe dderbyniodd y Parchg. Jones, Llanberis, daliad gan ddim ond un o'i ddegwm dalwyr, ac yr oedd yn fodlon talu'r dreth ar yr un taliad yna'n unig.³¹ Ym 1890 fe wyswyd y Parchg. David Morgan Thomas, rheithor, Llanellian am y swm o £5. 3s. 8c.³² Yn yr un flwyddyn apeliodd y Parchg. William Williams, Eglwyswen, Sir Benfro, am ostyngiad yn asesiad y dreth, yn dilyn y ffaith ei fod wedi methu adfer gwerth £169. 15s. 6c. o ddegymau. Oherwydd hyn, rhwng 1887-1889 yr oedd wedi gwrthod talu swm yr asesiad gwreiddiol.³³

Ond yr oedd yna elfen amwys o ran y gyfraith yn perthyn i'r achosion uchod ac eraill o'u math. Yn ogystal â bod yn glerigwr yr oedd y Parchg. Venables Williams yn Ynad, ac fe ddefnyddiodd ei ddylanwad i geisio diogelu'r clerigwyr rhag y broses o atafaelu. Mor gynnar â Rhagfyr 1886 yr oedd Venables Williams ei hun wedi gwrthod talu'r dreth:

Rev. Venables Williams was the first to maintain that the titheowner could not legally be distrained upon for rates and taxes on tithes and the first to point out to the clergy a means of escaping a most cruel incidence of taxation, had the owners been forced to pay rates upon tithes never received. He gave notice to the rate collector of the parish on the 9^h December 1886 that he would not pay the rates, but that he must recover them from the occupiers.³⁴

²⁸ *Denbighshire Free Press* (25 Chwefror 1888).

²⁹ *South Wales Daily News* (3 Medi 1887); *Cardiff Times* (8 Hydref 1887); *North Wales Chronicle* (8 Hydref 1887).

³⁰ *Carnarvon and Denbigh Herald* (16 Mawrth 1888); *North Wales Chronicle* (7 Ebrill 1888).

³¹ *North Wales Chronicle* (7 Ebrill 1888).

³² *North Wales Express* (13 Mehefin 1890).

³³ *South Wales Daily News* (20 Mawrth 1890).

³⁴ *North Wales Chronicle* (8 a'r 15 Hydref 1887); *Baner ac Amserau Cymru* (15 Rhagfyr 1887).

Ym 1888 cafwyd cysail pan ddyfarnodd y barnwr Wills yn yr achos Parchg. D. Lamplugh, rheithor, Yalding, Swydd Caint yn erbyn Norton, nad oedd gan y goruchwyliwr y dreth yr hawl i atafaelu ar nwyddau'r perchennog. Hynny yw, y dylid atafaelu ar y degwm dalwr, yn hytrach nag ar y clerigwr.³⁵ Defnyddiodd Venables Williams y pwynt hyn yn ystod achos Samuel Evans, ac hefyd adeg achos David Morgan Thomas. Yn ystod yr achos diwethaf hwnnw dywedodd Mr. Wallis Davies (ar ran y dirprwy goruchwyliwr), y dylid Venables Williams sefyll i lawr fel cadeirydd gan awgrymu ei bod hi'n amhosib iddo fod yn amhleidiol. Gwrthododd y clerigwr yn herfeddiol, gan ddatgan, 'I shall at once stop the case, on the ground that our clerk (Mr F. Sisson) states that a decision has already been given in the case of Lamplough v Orton, that rates on tithes are not recoverable from the owner'.³⁶ Y mae hwn yn enghraifft arall o'r amwyster hyn a berthynai i unrhyw ddarn o ddeddf a oedd yn gysylltiedig â'r degymau.

III.

Cefnogwyr clerigwyr y plwyf

Gwelir bod clerigwr megis W. Venables Williams a Walter Evans yn ddigon parod i gymryd safiad ac i gynorthwyo eu cyd-offeiriaid yn ystod yr amser dyrys hwn. Ond at bwy arall y gallai offeiriaid y plwyf droi am gymorth, boed yn ariannol neu'n bwysicach fyth, at geisio chwalu'r cynnwrf gwrth-ddegymol? Yn gyntaf yr oedd yr Esgobion a swyddogion eraill yr Eglwys. Dengys mai Esgob Llanelwy a'i ddeon John Owen oedd y mwyaf blaenllaw'r adeg hon o ran amddiffyn yr Eglwys a'r clerigwyr. Yn ail yr oedd y Dirprwywyr Eglwysig. Yr oedd eu safiad cadarn hwy o wrthod rhoi dim yn ôl yn eu degymau yn ysbrydoliaeth i nifer o glerigwyr. Yn drydydd yr oedd y tîrfeddianwyr. O ran difodi'r anghydfod ar y lefel plwyfol, dichon mai hwy, yn anad neb arall, oedd efo'r gallu i wneuthur hynny. Yn yr adran hon fe edrychir yn fanwl ar y triawd hyn.

³⁵ *Carnarvon and Denbigh Herald* (13 Gorffennaf 1888); *Cambrian News and Merionethshire Standard* (13 Gorffennaf 1888).

³⁶ *North Wales Express* (13 Mehefin 1890).

i) Yr Esgob A. G. Edwards, Llanelwy, a'i ddeon John Owen.

Nid oedd gan Edwards nac Owen fawr o brofiad o ran pregethu a gweithredu ar y lefel plwyfol, a gellir priodoli dyrchafiad y ddau yn rhengoedd yr Eglwys i'w hamser yng Ngholegau Llanymddyfri a Llanbed.³⁷ Dichon mai oherwydd y ffaith hon y daeth y ddau ohonynt yn ffigyrau gwleidyddol yn hytrach na rhai crefyddol. Fel y dywed D. Denzil Morgan, 'Both were to make their reputation not so much as pastors, administrators and certainly not preachers, but as ecclesiastical politicians'.³⁸ Gellir ychwanegu hefyd yr amwyster, neu diffyg parch hyd yn oed, a ddangosodd y ddau ŵr tuag at yr iaith Gymraeg; Edwards yn gwahardd astudio'r iaith tra'n bennaeth yng ngholeg Llanymddyfri yn ystod yr 1870au, ac Owen yn gwrthod siarad Cymraeg gyda'i gyd-glerigwyr.³⁹ Tybed beth oedd barn y Cymry pybyr o glerigwyr megis Ellis Wyn o Wyrfai, a oedd yn bardd a beirniad eisteddfodol?⁴⁰ Yr oedd hyn yn rhywbeth nodweddiadol ymysg yr Anghydfurfwyr hefyd, megis y gwahaniaeth mewn barn ynghylch yr achosion Seisnig rhwng y Parchg. Emrys ap Iwan a'r Parchg. Dr. Lewis Edwards.⁴¹

Yr oedd Edwards yn adnabyddus fel amddiffynydd yr Eglwys cyn iddo ddyfod yn Esgob Llanelwy ym 1889, gyda'r *Llan* yn ei alw'n 'filwr dewr'.⁴² Yn ei bamffled *Facts and Figures about Church and Dissent in Wales* (1888), yr oedd yn neilltuol o feirniadol o'r Methodistiaid, a oedd, yn ei dyb ef, wedi'u rhannu'n ddau, 'In one you see the purely political and socialistic and revolutionary agitators, those words are seen in the *Baner*, and their deeds in the Tithe War'.⁴³ Yr oedd y garfan arall yn fwy 'oddefgar', yn dilyn cynsail John Elias.⁴⁴ Yr eironi yma ydyw bod ysgrifau Edwards yr un mor wleidyddol ac ymosodol â'r rhai a gyhoeddwyd gan wŷr megis Thomas Gee. Nid oedd yna nemor dim o'r ysbryd Cristnogol mewn sylwadau megis, 'The

³⁷ D. Denzil Morgan, *The Span of the Cross: Christian Religion and Society in Wales* (Caerdydd, 1999), t. 33.

³⁸ Ibid.

³⁹ Ibid., t. 35; Frances Knight, 'The Ecclesiastical Personnel', yn Glanmor Williams, William Jacob, Nigel Yates, Frances Knight (goln.), *The Welsh Church: From Reformation to Disestablishment, 1603-1920* (Caerdydd, 2007), tt. 338-341.

⁴⁰ *Y Bywgraffiadur Cymreig Hyd 1940*, tt. 810-811.

⁴¹ Frank Price Jones, 'Yr Achosion Saesneg', yn *Radicaliaeth a'r Werin Gymraeg yn y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg*, tt. 108-131.

⁴² *Y Llan* (22 Chwefror 1889).

⁴³ A. G. Edwards, *Facts and Figures about the Church and Dissent in Wales* (1888), t. 25.

⁴⁴ Edwards, *Facts and Figures about the Church and Dissent in Wales*, t. 25.

incontrovertible fact is this. The Church in Wales is everywhere; the Nonconformist bodies are only somewhere'.⁴⁵

Yn ôl Adrian J. Parry, y pamffled mwyaf llwyddiannus a gyhoeddwyd gan Sefydliad Amddiffynnol yr Eglwys (The Church Defence Institution) oedd, A *Handbook on Welsh Church Defence* (1894) gan Edwards.⁴⁶ Dyma bamffled sydd yn llawn ystadegau i wftio honiadau'r Datgysylltwyr, a oedd eu hunain yn hoff o ystadegau i 'brofi' eu safiad hwy. Dyma oedd holl bwrpas cyfrifiad crefyddol Gee ym 1887. Yr oedd Edwards yn sicr yn ddygn yn ei amddiffyniad o'r Eglwys, ond teimlodd nad oedd nifer o'r clerigwyr cyffredin yn gwneud digon yn yr un modd. Ym 1895 dywedodd, 'there is a certain amount of apathy and people will not put their shoulders to the wheel ... A number of people say, "I do not care about Church societies," and they will not work until they are told to do so by the Archbishop'.⁴⁷

Defnyddiodd Edwards ei ddylanwad hefyd i geisio hel arian tuag at gynorthwyo'r clerigwyr anghenus. Yn ei lyfr *Memories* (1927) dywedodd Edwards wrth edrych yn ôl ar helyntion y degwm:

... the position of the clergy was well-nigh desperate – insurance-premiums sometimes dropped, sometimes paid by selling the clergyman's library, children taken away from school ... One fact was beyond dispute or denial. The clergy were on the verge of starvation.⁴⁸

Yr oedd y gair 'starvation' yn un pwerus iawn, ac yr oedd Edwards yn awyddus iawn i'w ddefnyddio yn ystod 'Rhyfel y Degwm' i greu'r argraff nad oedd yna sail foesol i'r symudiad gwrth-ddegymol. Ymddangosodd y term hwn mewn llythyr a ysgrifennodd Edwards i'r *Times* a'r *Standard* yn ystod Hydref 1889 o'r enw, 'The Distress of the Welsh Clergy'.⁴⁹ Apeliodd at Eglwyswyr Seisnig am gymorth ariannol, gan ddatgan mai ei esgobaeth ef oedd yn dioddef fwyaf o ganlyniad i'r helynt gwrth-ddegymol yng Nghymru. Defnyddiodd y cysyniad o newyn i greu darlun eithaf llwm o'r sefyllfa:

⁴⁵ A. G. Edwards, *Landmarks in the History of the Welsh Church* (Llundain, 1913), t. 246.

⁴⁶ Adrian J. Parry, 'The Church Defence Institution, 1859-1896, with Special Reference to Wales', (Traethawd M.A., Prifysgol Cymru, Aberystwyth, 1982), tt. 43-48. Am astudiaeth lawnach o gyhoeddiadau amddiffyn yr Eglwys y pryd hwn gw. Barry Edward Owen, 'The Welsh Disestablishment Crisis, 1868-1906: The Anglican Intellectual Response (Traethawd Doethuriaeth, Prifysgol Cymru, Bangor, 1987).

⁴⁷ Dyfynwyd yn Parry, 'The Church Defence Institution, 1859-1896', tt. 38-39.

⁴⁸ A. G. Edwards, *Memories* (Llundain, 1927), tt. 131-32.

⁴⁹ *The Times* (18 Hydref 1889); *The Standard* (19 Hydref 1889).

Starvation is an ugly word, but it represents the condition to which several of the Welsh clergy are being brought by this agitation. The distress is keenest in the small country parishes. The stipend of the country clergyman in Wales is too often but a poor pittance at the best.⁵⁰

Dichon bod y sefyllfa yn fwy enbyd erbyn hyn oherwydd tranc Cymdeithas Amddiffyn y Clerigwyr yn y gogledd o ganlyniad i raddfa'r costau a thaliadau, fel y disgrifiwyd ym mhennod IV.

Oddeutu mis yn ddiweddarach ysgrifennodd eto i'r *Times* yn diolch am yr arian a dderbyniodd yn sgil ei apêl.⁵¹ Sicrhaodd y rhoddwyr, 'that none of the money so generously intrusted to me will be unwisely or unworthily distributed'.⁵² Y mae'n bosib mai cyfeiriad oedd hwn at y £5,000 o danysgrifiadau Seisnig a helwyd ym 1887 gan Gymdeithas Amddiffyn y Clerigwyr. Honnodd un clerigwr bod yr arian hwn, 'was worse than wasted'.⁵³ Yr oedd Walter Evans yn awyddus iawn i beth o'r arian cael ei dargyfeirio at gostau'r atafaelu a'r arwerthiannau hefyd:

I am glad to see that the Bishop has taken actions in the Tithe matter. I am anxious to know whether he contemplates devoting any portion of the fund he is receiving for the purpose of "assisting the clergy in the recovery of; or perhaps I ought to say, the attempt to recover their arrears." If he does not the sooner the better for all parties that it should be known.⁵⁴

Cafodd Edwards gymorth medrus gan John Owen wrth fynd i afael â 'Rhyfel y Degwm'. Yn wir, dywedodd Esgob Llanelwy mai Owen yn anad neb arall, a dorrodd 'asgwrn cefn' y symudiad hwnnw.⁵⁵ Wrth gwrs, barn bersonol Edwards oedd hyn, ac yn ei dro fe ymatebodd Owen mai llafur caled yr Esgob adeg y dadlau ynghylch Deddf y Degwm (1891) a chwalodd 'Rhyfel y Degwm'.⁵⁶ Ar 22 Awst 1890 fe ymddangosodd, *The Morality of the Anti-Tithe Agitation in Wales* yn *Y Times*.⁵⁷ Nid oedd Owen yn

⁵⁰ Ibid.

⁵¹ *The Times* (15 Tachwedd 1889).

⁵² Ibid.

⁵³ Dyfynwyd yn J. P. D. Dunbabin, *Rural Discontent in Nineteenth Century Britain* (Llundain, 1974), t. 220.

⁵⁴ LlGC, Papurau John Owen, Deon Llanelwy, Llythyrâu'r Degymau, 1888-1890, Bocs 2/8, Parchg. Walter Evans, Halcyn i Owen (21 Hydref 1889).

⁵⁵ Eluned E. Owen, *The Early Life of Bishop Owen: A Son of Lleyn* (Llandysul, 1958), t. 91. Gw. hefyd, Eluned E. Owen, *The Later Life of Bishop Owen: A Son of Wales* (Llandysul, 1961). Gan mai merch i John Owen oedd Eluned, ni ddisgwylir hanes amhleidiol yma.

⁵⁶ Owen, *The Early Life of Bishop Owen*, t. 97.

⁵⁷ Gwnaethpwyd hwn yn bamffled, John Owen, *The Morality of the Anti-Tithe Agitation in Wales: A Letter Addressed to the Editor of The Times, Aug 22 1890* (Llanelwy, 1890).

credu bod yna sail foesol i'r ymgyrch yn erbyn y degymau, ac fe apeliodd at gymanfaoedd yr Anghydfurfwyr, '... to face, without delay, the serious consequences of the revolt of a large section of their adherents from the rudiments of morality, and to speak out in unmistakable terms'.⁵⁸ Y mae hwn yn enghraifft arall o'r modd y gweithredodd *The Times* fel llwyfan i amddiffynwyr yr Eglwys yng Nghymru i leisio'u barn ynghylch 'anfoesoldeb' 'Rhyfel y Degwm' ger bron darllenwyr Lloegr.

Achosodd llythyr Owen dipyn o stŵr, ac fe benderfynodd Thomas Gee i daro ergyd yn ôl yn *Y Faner*. Datblygodd hwn yn ymryson rhwng Gee ac Owen a gyhoeddwyd ar dudalen flaen *Y Faner* rhwng 27 Awst a 18 Tachwedd 1890 o dan y pennawd, 'Moesoldeb Rhyfel y Degwm'.⁵⁹ Credodd Eluned Owen, merch John Owen, mai llythyrau Owen i'r wasg a 'dorodd asgwrn cefn' yr helynt drwy apelio at resymeg y werin.⁶⁰ Mewn gwirionedd nid oedd yna 'enillydd' yn y frwydr rethregol hon gan nad oedd y naill yn mynd i ddarbwylllo'r llall ei fod yn anghywir. Yn ogystal â hyn, erbyn diwedd 1890 yr oedd yr ymgyrch gwrth-ddegymol yn rhedeg allan o stêm beth bynnag.

Y mae'n bwysig ystyried rhai o'r llythyrau a dderbyniodd Owen adeg 'Rhyfel y Degwm'. Ceir eisoes gyfeiriad at un llythyr a yrrwyd i Owen gan glerigwr pryderus. Ysgrifennodd y Parchg. J. Williams, Llangadwaladr, ato i'w hysbysu am araith a roddodd John Parry yn Llanarmon Dyffryn Ceiriog. 'It is shameful to deceive the ignorant in this manner', meddai Williams.⁶¹ Ceir llythyr arall gan y Parchg. Walter H. Williams, Bodolwyddan, yn datgan, 'I am very thankful that in these parlous times, we have you in your present position in the Diocese, and that I am sure we shall work right brotherly together in backing up the Bishop in the work of the Church'.⁶² Dengys felly bod apwyntiad Edwards ac Owen wedi rhoi ysbrydoliaeth a ffydd i nifer o'r clerigwyr

⁵⁸ Owen, *The Morality of the Anti-Tithe Agitation in Wales*, t. 8.

⁵⁹ Cyhoeddwyd y llythyrau'n bamffled, *Moesoldeb Rhyfel y Degwm ac Ymneillduwyr ac Amaethwyr Cymru* (Dinbych, 1891). Fe ddaru Gee gynnwys canlyniadau ei gyfrifiad yn y pamffled hwn hefyd: 'Dengys y cyfanrifau ... fod Gwrandawyr yr Ymneillduwyr yn lliosach o 229,640 nag eiddo yr Eglwys, a bod eu hysgolion sabbothol yn rhifo mwy o 110,469.

⁶⁰ Owen, *The Early Life of Bishop Owen*, t. 97.

⁶¹ LIGC, Papurau John Owen, Deon Llanelwy, Llythyrau'r Degymau, 1888-1890, Bocs 2/8, Parchg. J. Williams, Llangadwaladr i Owen (7 Tachwedd 1889).

⁶² LIGC, Papurau John Owen, Deon Llanelwy, Llythyrau'r Degymau, 1888-1890, Bocs 2/8, Parchg. Walter H. Williams, Bodolwydden i Owen (14 Awst 1889).

cyffredin o ran eu tywys trwy'r amser dyrys. Yr oedd Owen hefyd mewn gohebiaeth â chlerigwyr dylanwadol megis Walter Evans a Venables Williams.⁶³

Llun 6.1 A. G. Edwards, Esgob Llanelwy.

Ffynhonnell: Y Llan (29 Mawrth 1889).

Llun 6.2 John Owen, Deon Llanelwy.

Ffynhonnell: Y Llan (7 Mai 1897).

⁶³ LIGC, Papurau John Owen, Deon Llanelwy, Llythyrau'r Degymau, 1888-1890, Bocs 2/8, Parchg. Walter Evans, Halcyn i Owen (21 Hydref 1889); Parchg. W. Venables Williams, Bae Colwyn i Owen (9 Awst 1889).

ii) Y Dirprwywyr Eglwysig

Gwyddom na newidiodd y Dirprwywyr eu safiad o gwbl ynghylch gostyngiadau yn eu degymau drwy gydol ‘Rhyfel y Degwm’. Edmygwyd y safiad diffuant hwn gan nifer o glerigwyr mwy ‘milwriaethus’ eu gogwydd. Ysgrifennodd y Parchg. E. L. D. Glanley, Pontarddulais, at Ddirprwywyr yn datgan eu bod hwy, ‘[were] better able to fight the battle than individual clergymen’.⁶⁴ Galwodd yr ymgyrch gwrth-ddegymol yn ‘wicked agitation’, ac aeth mor belled â dweud, ‘any clergyman conceding in my opinion is an enemy to his own Church!’⁶⁵ Ysgrifennodd liaws o glerigwyr eraill at y Dirprwywyr i ddangos eu cefnogaeth, ac i erfyn arnynt i beidio â throi dim yn ôl yn eu degymau. Dywedodd y Parchg. [S/L.] W. Morgan, Rhuddlan, ‘The commissioners should be firm and just in connection with this question (tithe question)’.⁶⁶

Galwodd y Parchg. D. M. Thomas, Llanelian, yr anghydfod fel, ‘a death struggle ... between the Tithe Owners and Tithe payers’.⁶⁷ Aeth ymlaen i grybwyll, ‘The Ecclesiastical Commissioners alone can at present save us from ruin’.⁶⁸ Yr oedd y Parchg. Walter Evans, Halcyn, yn ysgrifennydd i’r Gymdeithas Amddiffyn y Clerigwyr, ac yr oedd ef yn awyddus iawn i atgoffa’r Dirprwywyr o’r canlyniadau pe buasent yn gostwng eu degymau:

Having had a good opportunity of forming an opinion as to what would happen in the event of the Ecclesiastical Commissioners making any concession to the demands of the Welsh Anti Tithe League. I am anxious to state it we. i.e. the clergy of north Wales feel very keenly that their doing so would place us in a very unfavourable position ... It must also be borne in mind that concessions made to the disturbed districts in Wales would have to be made elsewhere. They would simply fan the flame of the agitation and they would also have the result of compelling those amongst us who are fighting the battle as a matter of principle give way. I venture therefore to give expression to an earnest hope that the Commissioners will be firm.⁶⁹

⁶⁴ LIGC, ECE 70,008i – Part 1 - Estates Management – Tithe Rentcharges – Distraints in Wales: Rev. E. L. D. Glanley, Pontardawe i’r Dirprwywyr (11 Hydref 1886).

⁶⁵ Ibid.

⁶⁶ Ibid., Rev. S/L. W. Morgan, Rhuddlan, i’r Dirprwywyr (12 Hydref 1886).

⁶⁷ Ibid. Rev. D. M. Thomas, Llanelian, i’r Dirprwywyr (16 Tachwedd 1886).

⁶⁸ Ibid. Gw. hefyd Rev. W. Owen Edwards, Henfenyw, Aberaeron i’r Dirprwywyr (5 Ionawr 1887).

⁶⁹ LIGC, ECE 70,008ii – Part 2 - Estates Management – Tithe Rentcharges – Distraints in Wales: Rev. Walter Evans, Halcyn, i’r Dirprwywyr (3 August 1887).

Nid oedd gan Evans reswm i boeni ynghylch hyn oherwydd nid oes yna un gronyn o dystiolaeth i awgrymu bod y Dirprwywyr ar fin rhoi gostyngiad yn eu degymau ym 1887. Ond y mae'n adlewyrchiad o'r ymdeimlad yma o bryder ymysg rhai o'r clerigwyr ar y pryd. Yn amlwg buddsoddant eu ffydd yn y Dirprwywyr Eglwysig i weithredu fel rhagfur i arafu neu rwystro lledaeniad yr ymgyrch gwrth-degymol yng Nghymru.

Serch hynny, nid oedd pob clerigwr yn ganmoliaethus o dactegau'r Dirprwywyr. Dechrau mis Rhagfyr 1886 fe dderbyniasant lythyr gan 'a Boycotted Welsh Clergyman', gyda'r marc post ar yr amlen yn awgrymu mai yn ardal Llangollen y bostiwyd ef. Teimlodd y clerigwr nad oedd y Dirprwywyr wedi ymateb i'r argyfwng yn ddigon cyflym:

A terrible calamity has fallen upon hundreds of poor Welsh clergymen and their numerous families, a calamity that might, in many instances, have been averted, if the commissioners had promptly, put the law in force to recover their tithes from the radical and dissenting farmers. If they, rich men as they are, had acted energetically in the very beginning of the agitation, we poor incumbents should not now be on the verge of starvation and disgrace ... But their [commissioners] dilatory conduct has had only the remicious effect of encouraging and stimulating lawlessness'.⁷⁰

Ysgrifennwyd y llythyr hwn yr un adeg y dechreuodd y Dirprwywyr atafaelu yn y gogledd. Mewn gwirionedd y mae'n annhebygol y byddai cwrs yr anghydfod wedi newid yn sylweddol pe buasai'r Dirprwywyr wedi dechrau atafaelu yn gynt. Gwyddom nid oedd bygwth gweithredu'r gyfraith wedi gwneud nemor dim ond darparu hanesion i'r wasg Ryddfrydig a radicalaidd i geryddu'r Eglwys.

Dechreuodd y Parchg. D. Morgan, Ysgeifiog, ei lythyr at y Dirprwywyr gan honni:

The Ecclesiastical Commissioners are severely blamed by some clergymen in Wales for paying the costs of distraining on the farmers who were proceeded against for non-payment of the Tithe Rent Charge. Statements to the same effect have appeared in some of the local Journals and a Clergyman told me this morning that he had been halted by someone who gave evidence on the enquiry at Denbigh that they had excused the farmers from the payment of such expenses, and discharged them out of their own funds. This supposed stance [encourages] the farmers to resist payment of their tithes to the Clergy.

⁷⁰ LIGC, ECE 70,008i – Part 1 - Estates Management – Tithe Rentcharges – Distraints in Wales: 'A Boycotted Welsh Clergyman' i'r Dirprwywyr (8 Rhagfyr 1886).

But I am in some doubt as to the truth of the allegation, and therefore take leave to ask if it is true or not.⁷¹

Atebodd y Dirprwywyr i gadarnhau nad oeddynt yn talu costau'r atafaelu. Ond yr oeddynt wedi gwneud hynny mewn ambell i achos o dan amgylchiadau arbennig.⁷² Aeth Morgan yn ei flaen i ddweud, 'I returned 10% myself to my tithe payers and am of opinion it would have been better for the Commissioners to have done so ...'⁷³ Yr oedd R. D. Roberts (Mwrog), sef tad ap Mwrog yr arwerthwr, o'r un farn:

I shall strongly advise the Commissioners to allow the 10 per cent they ask for which I am positive would lead to good results and be the means of smoothing down matters that are growing more bitter, "and especially when the poor clergy (as they say) allow from 10 to 15 per cent and the rich commissioners will give no abatement." I feel assured that the reduction will take the wind out of the sails of agitating "Patriots" and would be applauded by all the admirers of the Church in Wales and all true Christians.⁷⁴

Nid syndod efallai ydyw canfod mai llythyr gan y Parchg. Ebeneser Jones, Llanefydd, oedd y mwyaf llym yn ei gondemniad o dactegau'r Dirprwywyr Eglwysig. 'I think the Clergy have ample reasons to complain of the tactics of the Ecclesiastical Commissioners towards their tithe payers', meddai, 'They [coldly?] talk of their right and that they are only Trustees. Farmers care not a button for their claims and treat with contempt their stamped circulars'.⁷⁵ Cyfeiriad oedd hwn at y cylchlythyrau a anfonwyd allan i'r plwyfi yn esbonio hawl cyfreithiol y Dirprwywyr Eglwysig i'r degymau a'r rhesymau pam nad oeddynt yn medru cydymffurfio i unrhyw ostyngiad. Credodd Jones, 'It [agitation] is chiefly due to the ... tactics of the Ecclesiastical Commissioners. They have already done uncalculable harm to the clergy by their want of tact ...'⁷⁶

Ni ellir fod yn hollol siwr o ran pa faint o glerigwyr oedd yn cefnogi safiad y Dirprwywyr a pha faint oedd yn amheus o'i dulliau. Ond y mae'r enghreifftiau uchod

⁷¹ LIGC, ECE 70,008ii – Part 2 - Estates Management – Tithe Rentcharges – Distraints in Wales: Rev. D. Morgan, Ysgeifiog Rectory, i'r Dirprwywyr (24 Awst 1887).

⁷² LIGC, ECE 70,008ii – Part 2 - Estates Management – Tithe Rentcharges – Distraints in Wales: Commissioners i'r Dirprwywyr (26 Awst 1887).

⁷³ LIGC, ECE 70,008ii – Part 2 - Estates Management – Tithe Rentcharges – Distraints in Wales: Rev. D. Morgan, Ysgeifiog Rectory, i'r Dirprwywyr (24 Awst 1887).

⁷⁴ LIGC, ECE - 70,008iii – Part 3 – Estates Management – Tithe Rent Charge – Distraints in Wales: R. D. Roberts (Mwrog) i'r Dirprwywyr (19 Tachwedd 1887).

⁷⁵ LIGC, ECE - 70,008iii – Part 3 – Estates Management – Tithe Rent Charge – Distraints in Wales: Rev. Eb. Jones, Llanefydd i'r Dirprwywyr (10 Rhagfyr 1887).

⁷⁶ Ibid.

yn awgrymu bod yna hollt mewn barn. Dywedodd Menna H. Cunningham fod y clerigwyr cyffredin yn dibynnu arnynt, ‘fel esiampl dda, er na allai llawer ohonynt fod yn gyson â’r esiampl’.⁷⁷ Hynny yw, nid oedd nifer o’r clerigwyr, hyd yn oed os oeddynt yn edmygu safiad y Dirprwywyr, yn medru eu hefelychu oherwydd cyfyngiadau ariannol. Er hynny, gellir crybwyll nad oedd pawb yn ystyried eu hesiampl fel un ‘da’. Diddorol ydyw dyfalu beth fuasai’r canlyniadau wedi bod pe buasai’r Dirprwywyr wedi gostwng rhywfaint ar eu degymau.

iii) Y Tirfeddianwyr

Gellid cytuno gyda dyfarniad Dunbabin nad oedd cysylltiadau ‘Rhyfel y Degwm’ â Chwestiwn y Tir cyn gryfed â’i gysylltiadau â’r ymgyrch i ddatgysylltu a dadwaddoli’r Eglwys yng Nghymru.⁷⁸ Nid oedd yr ymgyrch gwrth-ddegymol yn rhywbeth a fygythiodd y landlordiaid yn uniongyrchol. Hynny yw, nid oedd yn ymgyrch yn erbyn y rhenti. Pa fodd bynnag, yr oedd yn rhaid iddynt ymyrryd am sawl rheswm: a). Y posibilrwydd o’r ymosodiadau ar freintiau’r Eglwys Sefydledig yn *datblygu* i fod yn ymgyrch yn erbyn y landlordiaid a’u rhenti. b). Y cytundebau amwys rhyngddynt hwy a’u tenantiaid a aeth yn groes i adran 80 Deddf Cyfnewid y Degwm.

Yr oedd yna ymdeimlad o arswyd y pryd hwn bod syniadau ‘Gwyddelig’ yn gwreiddio yng Nghymru. Yn bosib nid oedd enwi Mitchelstown a Mochdre yn yr un pennawd yn helpu i esmwytho pethau.⁷⁹ Ym mis Medi 1886 fe ysgrifennodd Cynol Wynne Finch, Voelas a Cefnamlwch, at ei asiant (Trethewy) yn dweud, ‘I do not like this tithe agitation if for tithe one substitutes rents (and will soon be worked together) we shall be as bad as Ireland, and we are not much better now in some parts of Wales’.⁸⁰ Dyma’r fath o neges a hyrwyddwyd gan J. E. Vincent yn ei ‘Letters from Wales’ yn y *Times*. Cyfeiriodd yn gyson at Iwerddon, ac ar y cyfan nid oedd ganddo air da i ddweud am y Gwyddelod na’r Anghydfurfwyr Cymreig, yn enwedig y Methodistiaid Calfinaidd. Dywedodd, ‘I do not say that the art and the science of

⁷⁷ Menna H. Cunningham, ‘Y Gymdeithas Amethyddol yn Nyffryn Clwyd (1880-1900) (Traethawd M.A. anghoeddiedig, Prifysgol Cymru, 1977), t. 184.

⁷⁸ Dunbabin, *Rural Discontent*, tt. 229-231; David W. Howell, ‘The land question in nineteenth-century Wales, Ireland and Scotland: a comparative study, *Agricultural History Review*, cyf. 61, rhif. 1 (Mehefin 2013), t. 86.

⁷⁹ ‘Mitchelstown and Mochdre: Defence or Assault’ yn *The North Wales Express* (23 Medi 1887).

⁸⁰ LIGC, Voelas and Cefnamlwch Estate Records, C1-411. C57 – Col. Wynne Finch to Trethewy (21 Medi 1886).

boycotting are practised with anything like Irish perfection in Denbighshire; but I do say that the germs of the practise are visible ...'⁸¹

Yr oedd Vincent yn ddiysgog mai modd i gyflawni diben arall oedd yr ymosodiadau ar y degwm. Y diben hwnnw oedd tanseilio'r landlordiaid:

If, then, as I am confidently assured on all hands, the attack upon tithes is but a prelude to the attack against the rent, if farmers, or some of them, were only to join the Anti-tithe League by the representation that it would be well to attack the weaker outwork first, then surely the policy which some landlords have pursued has been little short of suicidal.'⁸²

Cyfeiriad oedd 'short of suicidal' at y ffaith nad oedd nifer o landlordiaid (yn ei dyb ef) wedi ymyrryd digon o barthed y degwm. Honnodd:

A curious thing, and one worthy of mention, is that to a great extent the men who have taken up an active part in favour of the clergy have been not Conservative but Liberal and even Radical owners ... But the majority, [Conservative] as a clergyman complained somewhat bitterly to me "have not held up a finger," and some have gone to the length of saying that the parsons ought to feel the pressure of bad times as immediately as the landlords and the tenants.'⁸³

Diddorol ydyw cymharu sylwadau Vincent gyda'r rhai a wnaethpwyd gan Michael Davitt, y cynhyrfwr o Wyddel o barthed helyntion y degwm yng Nghymru. Mewn cyfweliad i'r *Herald Cymraeg* dywedodd:

The tithe is the weakest point in the citadel of landlordism. You have in this connection three things to complain of – first, high rents; second, the Established Church; third, the tithes. The tithe is the weakest point; therefore proceed along the line of the least resistance, abolish the tithe, get inside the citadel, and you have foothold for carrying the other reforms.'⁸⁴

Ymchwilir yn ddyfnach i ymweliad Davitt i Gymru a'i effaith ar yr ymgyrch gwrth-ddegymol yn y bennod nesaf. Ond yr hyn a gawn yma mewn gwirionedd ydyw cam ddealltwriaeth ar ran Vincent, Davitt ac eraill o'r sefyllfa a'r ymdeimlad ymysg y tenantiaid Cymreig. Yn gyntaf, ni chafwyd unrhyw fath o 'ryfel' yn erbyn y rhenti ac yn

⁸¹ J. E. Vincent, *Letters from Wales: A Republication of a Series of Letters in the "Times" Dealing with the State of Wales in Special Relation to the Land, The Church, and the Tithe* (Llundain, 1889), t. 28, t. 80, tt. 128-29.

⁸² Ibid., tt. 100-1. Gw. hefyd t. 16.

⁸³ Ibid., 100.

⁸⁴ *Herald Cymraeg*, (12/19 Gorffennaf 1887).

erbyn y tîrfeiddianwyr yn gyffelyb i'r hyn a gafwyd yn erbyn perchnogion y degwm. Fel y mae D. W. Howell a Matthew Cragoe wedi dangos, nid oedd y berthynas rhwng meistr a thenant yn Iwerddon yn gyffelyb i'r un yng Nghymru. Nid oedd yr atgasedd mor chwyn yng Nghymru ag yr oedd yn Iwerddon, ac ni chafwyd mudiad poblogaidd trefnus gan denantiaid Cymru yn erbyn y tîrfeiddianwyr.⁸⁵ Gwireddwyd Datgysylltiad yn y pen draw. Ni aeth Cwestiwn y Tir ddim pellach na chomisiwn a gyhoeddwyd ym 1896.

Y mae'n bosib na wyddai cynllunwyr Deddf Cymudo'r Degymau ar y pryd pa mor arwyddocaol y byddai Adran 80 o'r ddeddf hwnnw o ran achosi blinder a gofid i nifer fawr o ddegwm feddianwyr. Dyma amodau'r adran:

Every tenant or occupier who shall occupy any lands by any lease or Agreement made subsequent to such Commutation, and who shall pay any such rent-charge, shall be entitled to deduct the amount thereof from the Rent payable by him to his landlord and shall be allowed the same in account with the said Landlord.⁸⁶

Os atafaelwyd ar eiddo tenant er mwyn adfer y degwm, yn yr achosion hynny ble nad oedd yna gytundeb rhyngddynt hwy a'i meistr tir, yr oedd adran 80 yn galluogi iddynt adfer y swm o'i rhent. Os oedd yna gyfamod yn bodoli rhwng tenant a'i feistr tir yn amodi mai'r tenant oedd i dalu'r degwm, dim ond fel asiant yn talu ar ran y meistr tir oedd hyn i fod o safbwynt y tenant.⁸⁷ Dengys, fodd bynnag, mai ychydig iawn o bobl oedd yn gyfarwydd â'r cymal hwn. Dywedwyd yn ystod comisiwn Bridge nad oedd nifer fawr o denantiaid yn gyfarwydd â darpariaethau Adran 80, '... [and] received it with complete surprise', pan hysbyswyd hwy o'u hawliau.⁸⁸

Dywedodd William Easterby yn ei draethawd buddugoliaethus ym 1889, 'It was evidently the intention of the Legislature [Tithe Act 1836] that payment of the rent-charge should be made by the landlord, but in consequence of the wording of the clause this seldom takes place'.⁸⁹ Yn wir, yr oedd rhaid pasio deddf arall (Deddf y Degwm

⁸⁵ Howell, 'The land question in nineteenth-century Wales, Ireland and Scotland', tt. 97-100; Matthew Cragoe, 'A Contemptible Mimic of the Irish': The land question in Victorian Wales', yn Matthew Cragoe a Paul Readman (gol.), *The Land Question in Britain, 1750-1950* (2010), tt. 92-108.

⁸⁶ Tithe Act 1836, c.71, 6 and 7 Will. 4, sec. 80.

⁸⁷ PP 1887 XXXVIII, Tithe Disturbances Inquiry ... Report, t. 3.

⁸⁸ PP 1887 XXXVIII ... Minutes, C.3385i a C.3358h, t. 98.

⁸⁹ William Easterby, *History of the Law of Tithes in England: Being the Yorke Prize Essay of the University of Cambridge for 1887* (Caergrawnt, 1888), t. 42.

1891) er mwyn gwneud hyn yn hollol glir mai'r tîrfeddianwr oedd i dalu'r degwm.⁹⁰ Cynigiodd y Parchg. William Clarke ddamcaniaeth gyffelyb a darlun diddorol o'r sefyllfa:

There are few instances in which the tenants deduct the tithes from their rents according to this section [80]. The general practise is that the farmer, in his lease or agreement, agrees to pay the tithes himself to the tithe-owner, and the rent is computed accordingly. If a tenant should take a farm without making any such agreement then the 80th section comes into force. But in the other case the landlord contacts himself out of the 80th section. There is no doubt that the Legislature in 1836 intended that the landlords should pay the rent-charges, and thus prevent any friction which may occur in the collection between the clergyman and his parishioners.⁹¹

Felly, dengys fod cytundebau neu 'arferion' yn bodoli a oedd, mewn gwirionedd, yn mynd yn groes i Adran 80.

Ym 1889 fe ysgrifennodd y Parchg. Thomas Edwards, rheithor Llanfihangel-y-Pennant, Sir Feirionnydd, bamffled mewnweledol i achosion 'Rhyfel y Degwm' a'r 'moddion' i'w drechu.⁹² Datganodd yn bendant, '...the cause of the agitation is the evasion by landlords, in Agreements with tenants, of the provisions of Section 80 of the Commutation Act'.⁹³ Galarnodd nad oedd Deddf 1836 wedi manylu fod cytundebau a aeth yn groes i'w hamodau wedi'u diddymu.⁹⁴ Priodolodd y Parchg. Edwards achos yr holl ddryswch i anwybodaeth y tenantiaid, gan honni mai dim ond syniadau 'niwlog' oedd ganddynt o fecaneg cyfundrefn y degwm.⁹⁵ Er fod pamffledau yn bodoli, yn y Gymraeg a'r Saesneg, yn torri lawr darpariaethau Deddf y Degwm 1836, y mae'n amlwg ni ddarllenodd fawr o neb mohonynt.⁹⁶

Ystyriodd Edwards yr esiampl isod fel y cymal mwyaf cyffredin yng Nghymru rhwng tenant a thirfeddiannwr ynghylch y degymau:

⁹⁰ 'Tithe rentcharge as defined by this Act issuing out of any lands shall be payable by the owner of the lands, notwithstanding any contract between him and the occupier of such lands, and any contract made between an occupier and owner of lands, after the passing of this Act, for the payment of the tithe rentcharge by the occupier shall be void'. Tithe Act 1891, 54 Vict. Ch. 8, sec. 1

⁹¹ Revd Henry William Clarke, *A History of Tithes* (Llundain, 1891; ail argraffiad), t. 205.

⁹² Revd Thomas Edwards, *The Anti-Tithe Agitation in Wales: Its Real Causes and Cure* (Bangor, 1890).

⁹³ *Ibid.*, t. 19.

⁹⁴ *Ibid.*, t. 12.

⁹⁵ *Ibid.*, tt. 10-11.

⁹⁶ Un enghraifft gynnar, wedi'i chyfieithu o'r Saesneg y mae'n debyg, oedd pamffled John Meadows White Esq, *Talfyriadau o Gyfraith y Degwm yn Nghymru a Lloegr, yr Hon a Ddaeth i Weithrediad ar y 13eg o Awst, 1836* (Caerfyrddin, 1836). Esboniwyd darpariaethau Adran 80 ar dudalen 16.

The Tenant shall pay all Tithe Rent-charge, Poor and other Rates, Taxes and Assessments, payable for and in respect of the said Premises, save and except the Landlord's Property or Income Tax.⁹⁷

Credodd bod iaith y cytundebau'n hollol gyfrifol am greu dryswch:

... when signing these *English* Agreements, as often as not without understanding one-half their contents, little dreamt that by the unsuspected provision above referred to the landlord was contracting himself out of the plain provision of the Commutation Act'.⁹⁸

Y mae'r arsylliad hwn yn un diddorol os cymharwn ef â'r hyn a ddywedodd K. O. Morgan ynglŷn â Deddf Daliad Amaethyddol Dug Richmond yn 1875. Dywedodd '... it seems to have had little effect in Wales, few tenants in a largely monoglot Welsh community appearing to appreciate its effects, and few landlords being anxious to explain them'.⁹⁹ Gellir dadlau bod y damcaniaeth hwn yr un mor wir ynghylch y degymau hefyd.

Yr oedd y Parchg. John Griffiths, Archddiacon Llandaf, yn llai beirniadol o rôl y ffermwyr ynghylch Adran 80, oherwydd mewn llythyr i ffermwyr Llanilltud (Llantwit) dywedodd:

Both yourselves and myself have not been fairly dealt with in this matter of rentcharge ... It is the misfortune of the farmer and of the clergyman also that the landlord should have allowed during the past 50 years to have contracted himself out of the obligation imposed upon him by the act.¹⁰⁰

Er bod cytundebau o'r fath wedi bodoli ers dros hanner canrif, ni ddaeth y ffaith hon i amlygrwydd nag yn destun trafod nes helyntion y degwm yn ystod yr 1880au a'r 1890au.

Darllenodd eraill braidd gormod i mewn i'r mater. Ysgrifennodd Charles Townshend, Caer, ychydig wedi'r atafaeliad 'clodfawr' hwnnw yn Llanarmon-yn-iâl:

... these recussant [sic] gentlemen [tenantiaid] have contracted with their landlords to relieve him of this liability [i dalu'r degwm] by paying it out of their own pockets. I know

⁹⁷ Edwards, *The Anti-Tithe Agitation in Wales*, t. 11.

⁹⁸ *Ibid.*, t. 12.

⁹⁹ K. O. Morgan, *Wales in British Politics 1868-1922* (Caerdydd, 1991; trydydd argraffiad), t. 55; Howell, *Land and People in Nineteenth Century Wales*, t. 74; J. E. Thomas, *Social Disorder in Britain, 1750-1850: The Power of the Gentry, Radicalism and Religion in Wales* (Llundain, 2011), t. 151.

¹⁰⁰ *Cardiff Times* (16 Hydref 1886).

of no other means of relieving the landlord of it. If so, where is their honesty in wilfully contracting themselves into a liability, and then repudiating it? In the hope, I suppose, of *thus* advancing their sectarian prejudices!!¹⁰¹

Y mae'n annhebygol fod y degwm dalwyr wedi contractio'u hunain allan yn fwriadol o delerau Adran 80 er mwyn hyrwyddo safiad gwleidyddol. Mewn gwirionedd, yr oedd y cyfamodau amwys yma wedi bod mewn cyflwr o gwsg ers hanner canrif nes i ddirwasgiad amaethyddol a hinsawdd wleidyddol cydnaws greu sefyllfa danllyd. Pe buasai gosodiadau Deddf y Degwm 1891 wedi cael eu mabwysiadu yn ôl ym 1836, hwyrach ni buasai Cymru wedi gweld 'Rhyfel y Degwm' o gwbl, neu o leiaf ni fuasai'r ymgyrch wedi bod mor eang. Wedi'r cwbl, ym 1887 yr oedd 88.9% o dir amaethyddol yng Nghymru yn cael ei drin gan denantiaid.¹⁰²

Er na gyhuddodd y Dirprwywyr Eglwysig gamweddau'r tenantiaid yn y cytundebau 'arbennig'¹⁰³ yma, awgrymodd hwy, er hynny fod yr amaethwyr wedi elwa o ganlyniad i'r trefniadau hyn:

... landlords and tenants have agreed between themselves that instead of the tenant paying a larger rent and deducting from it the tithe rentcharge, the tenant shall pay a reduced rent and take the payment of the tithe rentcharge upon himself. By so doing the tenant has had for several years past the benefit of the fall in averages, as in fixing the rent, it is the "commuted amount" which is deducted, and not the sum payable in any particular year ...¹⁰⁴

Felly, yr oedd y Dirprwywyr o'r farn nad oedd y rhent yn adlewyrchu gwir werth y degwm yn ôl y gyfundrefn graddfa symudol oedd yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn. Tynnwyd sylw bod gwerth rhent-dal y degwm ym 1887 yn 25 y cant yn llai nag yr oedd yn ôl ym 1878, gan grybwyll mai swm uwch y cymudiad oedd yn cael ei ystyried yn y rhent, ac nid y swm llai, sef gwir werth y degwm mewn blwyddyn benodol.¹⁰⁵ Yr oedd gwerth y degwm wedi gostwng i £89. 15s. 9.c ym 1855 (roedd yn werth £100 ym 1835), ond esgyn oedd ei hanes wedi hynny yn sgil cynnydd ym mhrisiau cynnyrch amaethyddol, gyda ffermwyr yn elwa o'r twf ym mhoblogaeth y trefi datblygol ac o

¹⁰¹ *Denbighshire Free Press* (4 Medi 1886).

¹⁰² David W. Howell, *Land and People in Nineteenth Century Wales* (Llundain, 1977), t. 58.

¹⁰³ LIGC ECE/GEN 70,008i – Part 1 – Estates Management – Tithe Rent Charges – Distraints in Wales: Dirprwywyr Eglwysig i Edward Evans (27 Medi 1886).

¹⁰⁴ PP 1887 XXXVIII ... Report, Appendix A, t. 8.

¹⁰⁵ *Ibid.*

ddiffyg cystadleuaeth o dramor. Cyrhaeddodd gwerth y degwm £112 15s 7c ym 1879, y pinicl, ond fel meddai Best, ar ôl hynny aeth gwerth y degwm, ‘i lawr, i lawr ac i lawr’, nes cyrraedd isafbwynt newydd ym 1887 o £87 8s 10c.¹⁰⁶ Erbyn troad y ganrif yr oedd y ffigwr mor isel ag £66. 5s. 1c. Gan efyddu’r degwm i’r farchnad gyfnewidiol grawn, yr oedd yr effaith hir dymor yn fwy trychinebus i’r degwm meddianwyr yn hytrach na’r degwm dalwyr.

Parhaodd y defnydd o’r term ‘degwm’ ar lafar gwlad yng Nghymru yn hytrach na’r enwau mwy cyfreithiol megis ‘rheith-dal y degwm’ neu ‘rheith-dal yn lle degwm’. Oblegid mai ‘degfed’ yw ystyr llythrennol y gair degwm, crëwyd yr argraff mai’r degfed ran o rywbeth y dylai fod, er mae digyswllt oedd syniadau’r bobl ynglŷn â beth yn union oedd y ddegfed ran yma yn fod i gynrychioli.¹⁰⁷ Yr oedd rhaid cywiro’r Parchg. James Spinther James, pregethwr gyda’r Bedyddwyr o Landudno, ar sawl achlysur yn ystod comisiwn Bridge oherwydd ei sylwadau amryfus ynglŷn â’r degwm, gan gynnwys ei argyhoeddiad fod y degwm yn dal i gynrychioli degfed ran o gynnyrch.¹⁰⁸

Os oedd y tiffeddiannwr yn cydymdeimlo â sefyllfa anodd periglor y plwyf (neu am resymau mwy hunanol os ofnai am gynnwrf ynglŷn â’r rhenti) yr oedd yn ail-gymryd y cyfrifoldeb o dalu’r degymau yn uniongyrchol i berchennog y degwm. Ym 1887 fe wrthododd ambell i denant Dug Westminster, Sir Y Fflint, dalu eu degymau i reithor plwyf Halcyn os na fyddai’n cytuno i ostyngiad.¹⁰⁹ Ond ymyrodd y Dug, ac fe orfodwyd y tenantiaid i dalu’n llawn.¹¹⁰ O’r adeg yma ymlaen fe ostyngodd y Dug renti ei denantiaid o 25% ar yr amod eu bod yn talu’r degymau yn llawn.¹¹¹ Ysgrifennodd Arglwyddes Dudley i’w thenantiaid yn Llandrillo yn rhybuddio hwy i dalu eu degymau’n llawn os talent yn uniongyrchol.¹¹² Ond rhoddodd yr Arglwyddes ddewis amgen hefyd, sef i ail gymryd y fferm o dan delerau newydd gyda’r degwm wedi’i

¹⁰⁶ Best, *Temporal Pillars*, t. 471.

¹⁰⁷ PP 1887 XXXVIII ... Report, t. 4; J. P. D. Dunbabin, *Rural Discontent in Nineteenth Century Britain* (Llundain, 1974), t. 285.

¹⁰⁸ PP 1887 XXXVIII ... Minutes, C. 3038-3040, t. 88.

¹⁰⁹ *Y Dydd* (18 Chwefror 1887).

¹¹⁰ *Ibid.*

¹¹¹ *Rhyl Journal* (12 Hydref 1889).

¹¹² *Y Dydd* (27 Mai 1887).

gynnwys yn y rhent.¹¹³ Yn Sir Fôn, cymerodd Ardalydd Môn y cyfrifoldeb o dalu'r degymau yn lle rhoi gostyngiad yn y rhenti.¹¹⁴

Heb os pylodd y cynnwrf gwrth-ddegymol mewn nifer o blwyfi oherwydd gweithredoedd o'r fath. Ceir enghraifft dda o hyn yng Ngherrigydrudion. Dywedodd periglor y plwyf hwnnw fod y cyffro yno wedi'i ddymchwel gan bendantrwydd tîrfeiddianwyr y plwyf: Cynol Wynne Finch, y teulu Mainwaring (Galltfaenan) a'r Parchg. G. E. Ashley, Rheithordy Stretton, Henffordd.¹¹⁵

Pur anaml a geir hanesion o denantiaid yn cael eu troi allan am wrthod talu'r degymau. Dywedodd R. Roberts, a oedd wedi byw ar ystâd Iarll Dudley ym mhlwyf Llandrillo, fod asiant y stad wedi mynnu nad oedd y tenantiaid i gymryd rhan yn yr ymgyrch gwrth-ddegymol. Soniodd am un tenant yn derbyn hysbyseb i adael ei fferm oherwydd fe wrthododd i dalu'r degwm ond trwy arwerthiant. Ond fe ail-gymerodd y fferm o dan delerau newydd gyda'r degwm wedi'i gynnwys yn y rhent.¹¹⁶ Yr oedd Richard Parry, Llanfihangel, Sir Drefaldwyn, yn denant i Syr Watkin Wynn, ac fe wrthododd dalu'r degwm ar sail egwyddor. Cafodd hysbyseb i adael ei fferm, ond ail-gymerodd y fferm gyda'r degwm wedi'i gynnwys yn y rhent. Yr oedd Rowland Evans yn gymydog i Parry, ac fe dderbyniodd ef hefyd hysbyseb i adael ei fferm. 'I do not care', meddai pan dderbyniodd yr hysbyseb gan yr asiant, 'I will never pay a parson. I will die on the road before I do it'. Gwrthododd y telerau newydd ac fe adawodd y fferm yn gyfan gwbl.¹¹⁷ Cafodd David Edwards a oedd yn denant ar Ystâd Kinmel hysbyseb i adael ei fferm am wrthod talu'r degwm, a dengys iddo ef hefyd adael yn gyfan gwbl.¹¹⁸ Yr enghraifft mwyaf adnabyddus oedd troi allan Nathaniel Watkins, Moat Farm, Meifod, am beidio â thalu'r degwm.¹¹⁹

¹¹³ Ibid.

¹¹⁴ *North Wales Express* (24 Medi 1886). Gw. hefyd LIGC, SA/Tithe/1-207/Bryneglwys. Diddorol ydyw nodi fod R. J. L. Price, Rhiwlas, wedi gofyn i'r clerigwr lleol, y Parchg. W. Morgan, am ostyngiad yn negymau ei ystâd. Gwrthododd y clerigwr. Archifdy Gwynedd, Dolgellau, Papurau Ysâd Rhiwlas, Z/DDD/Z/164, Y Parchg. W. Morgan i E. Watkins (rheolwr y stâd) (22 Rhagfyr 1883). Am gyfres o lythyrau lle gwelir clerigwr yn gofyn cyngor y tîrfeiddianwr lleol gw. LIGC, Papurau Voelas a Cefnamlwch, C.57-C.114. Y mae'r gyfres yma o lythyrau yn ddiddorol hefyd oherwydd y maent yn dangos y gwahaniaeth a fu o ran ymateb y tîrfeiddianwyr i'r argyfwng.

¹¹⁵ LIGC, SA/Tithe/1-207/Cerrigydrudion.

¹¹⁶ PP 1896 XXXIV, Report of the Royal Commission on Land in Wales and Monmouthshire, t. 538.

¹¹⁷ PP 1895 Minutes of Evidence taken before the Royal Commission on Land in Wales and Monmouthshire, Vol. IV, c. 69,944. tt. 754-55.

¹¹⁸ PP 1896 XXXIV, t. 538.

¹¹⁹ PP 1895, Royal Commission on Land ... Minutes of Evidence, vol. IV., tt. 659-661.

IV.

Casgliad

Heb os, yr oedd nifer o glerigwyr wedi profi caledi ariannol yn ystod 'Rhyfel y Degwm'. Ond ydy'r term 'newyn clerigol' yn addas i'w ddefnyddio? Yr oedd un hanes yn crybwyll fod y diffyg arian wedi arwain yn llythrennol i newyn. Os yn wir, enghraifft eithafol a phrin oedd hwn. Serch hynny, dengys fod y clerigwyr hynny a theuluoedd mawr wedi ei chael yn anodd os na thalwyd eu degymau'n llawn i dalu eu dyledion. Ni ellir cynnig dyfarniad cyffredinol oherwydd fod y sefyllfa yn newid o blwyf i blwyf; yr oedd canran y gostyngiadau yn amrywio, yr oedd y nifer o ddiffygdalwyr yn amrywio ac yr oedd symiau'r ôl-ddyledion yn amrywio. Cofier hefyd na welodd nifer sylweddol o blwyfi yng Nghymru unrhyw wrthdystio sylweddol yn erbyn y degymau; neu o leiaf fe sicrhaodd ymyrraeth y tiffeddianwyr fod y degymau'n cael eu talu'n llawn. Gan fod y darlun yn un anghyson, gellir awgrymu fod rhai clerigwyr wedi dioddef yn fwy nag eraill yn ariannol, a gwallus fyddai awgrymu bod pob clerigwr mewn cyflwr o 'newyn' adeg 'Rhyfel y Degwm'.

Pennod VII

Proffilio'r Cynhyrfwyr a'r Cynhyrfus

Rhagarweiniad

Pwy oedd y cynhyrfwyr a phwy oedd y cynhyrfus? Gan fod y cast o actorion hanesyddol a chwaraeodd eu rhan yn ystod 'Rhyfel y Degwm' yn niferu yn y miloedd, nid syndod mai canran bitw iawn sydd wedi'u hachub o'r gwyll. Dichon mai dim ond drwy gyfres o astudiaethau lleol manwl y gellir ateb y cwestiynau hyn yn llawn. Yn ddiweddar y mae Manon Jones wedi dangos sut y gellir defnyddio un achos o brotestio (Llangwm) i ddadansoddi'r berthynas rhwng y lleol a'r cenedlaethol er mwyn creu cyfanwaith.¹ Cryfder astudiaeth Jones ydyw dangos dylanwad gwŷr lleol fel arweinwyr 'naturiol' y bobl ar ddiwrnod yr atafaelu a'r arwerthiannau. Nid ydyw hi'n cyfeirio at waith Dunbabin, ond yr oedd ef eisoes wedi maentumio yn y 1970au cynnar, '... despite Gee's undoubted prestige, the real centres of decision were more local'.² Yn wir, yr oedd Frank Price Jones wedi crybwyll rhywbeth tebyg yn yr 1950au. Er iddo roi pwyslais sylweddol ar ddylanwad Thomas Gee adeg 'Rhyfel y Degwm', cyfaddefodd y bod Gee, '... ond un ymhlith llawer o arweinwyr y gwrthddegymwyr ...'³

Gan fod digon wedi'i ysgrifennu'n barod ar wŷr megis Thomas Gee, David Lloyd George, T. E. Ellis a.y.b., nid ydyw'r bennod hon yn ymgeisio i'w proffilio.⁴

¹ Manon Jones, 'Y lleol a'r cenedlaethol: Rhyfel y Degwm yn Llangwm', *Trafodion Cymdeithas Hanesyddol sir Ddinbych*, cyf. 57 (2009), tt. 64-82.

² J. P. D. Dunbabin, *Rural Discontent in Nineteenth-Century Britain* (Llundain, 1974), t. 227.

³ Frank Price Jones, 'Rhyfel y Degwm', yn Alun Llywelyn-Williams ac Elfed ap Nefydd Roberts (gol.), *Radicaliaeth a'r Werin Gymreig yn y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg: Casgliad o Ysgrifau gan Frank Price Jones* (Caerdydd, 1977), t. 93.

⁴ Yn ôl Marvin Rintala, '... Lloyd George was distinctly anticlerical in his politics', *Lloyd George and Churchill: How Friendship Changed History* (1990), t. 35; Datgandodd K. O. Morgan rhywbeth tebyg yn, 'The Member for Wales: Stewart Rendel (1834-1913)', *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion* (1984), t. 158; Idem., 'Lloyd George and the historians', *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion* (1971). Gw. hefyd, Bentley Brinkerhoff Gilbert, *David Lloyd George, A Political Life: The Architect of Change, 1863-1912* (Llundain, 1987); Emyr Price, *Lloyd George y Cenedlaetholwr Cymreig: Arwr ynteu Bradwr* (Llandysul, 1999); Travis L. Crosby, *The Unknown Lloyd George: A Statesman in Conflict* (Efrog Newydd, 2014). Am T. E. Ellis gw. T. I. Ellis, *Cofiant, Cyfrol I a II* (Lerpwl, 1944 a 1948); Neville Masterman, *The Forerunner* (Abertawe, 1972); Wyn Jones, *Thomas Edward Ellis* (Caerdydd, 1986); J. Graham Jones, 'Biography: Thomas Edward Ellis (1859-1889)', *Journal of Liberal Democrat History*, cyf. 24 (Hydref, 1999); J. Graham Jones, 'David Lloyd George and Thomas Edward Ellis', *Cylchgrawn Llyrgell Genedlaethol Cymru*, cyf. 34, rhif. 2

Yn hytrach, edrychir ar yr haen hynny o bobl nad oedd yn wleidyddion nac yn ffigyrau cenedlaethol adnabyddus. O ran y cynhyrfwyr cawn weinidogion Anghydffurfiol, Cynghorwyr Sir, Ynadon Heddwch, Masnachwyr, Ffermwyr cefnog a.y.b. Dyma'r fath o wŷr a ffurfiodd asgwrn cefn 'Rhyfel y Degwm' o ran trafnidiaeth ac areithiau tanllyd ysbrydoli'r bobl.

O ran y cynhyrfus, y mae Russell Davies wedi pwysleisio'r ffaith fod y gymuned i gyd wedi'i chynrychioli yn y torfeydd a oedd yn ymgynnull adeg arwerthiannau'r degwm.⁵ Ceir crynodeb ddefnyddiol o'r helynt yn y de-orllewin ganddo, ond nid ydyw'n mynd i fanylder o ran dadansoddi'r haenau gwahanol o'r gymdeithas o fewn y 'dorf' yn yr ardal honno. Gellir dadlau nad ydyw Manon Jones ychwaith yn mynd i fanylder o ran dadadeiladu'r dorf ac i ofyn cwestiynau megis: pwy oedd y dorf? Beth oedd eu galwedigaethau? A oedd yna ferched yn eu plith? Y mae sawl hanesydd, gan gynnwys Russell Davies ac yn enwedig Rosemary A. N. Jones, wedi cyfeirio'n fyr at rôl merched yn ystod 'Rhyfel y Degwm'.⁶ Serch hynny, y mae'n elfen annatblygedig arall o 'Ryfel y Degwm' sydd angen ei astudio'n fanylach os yr ydym am gael gwell dealltwriaeth o'r fath o bobl oedd yn ymgynnull adeg helyntion y degwm yng Nghymru.

I.

Y Gweinidogion Anghydffurfiol

Credai Matthew Cragoe, 'In the closing years of the Victorian period ... particularly in the rural areas ... the chapels and their ministers had come to occupy the dominant position within Welsh politics that, between 1832 and 1867, the landed

(2007). Grahame V. Nelves, 'Stuart Rendel and Welsh Liberal political organization in the late nineteenth century', *Cylchgrawn Hanes Cymru*, cyf. 9 (1978/1979).

⁵ Russell Davies, *Secret Sins*, tt. 136-137.

⁶ Rosemary A. N. Jones, 'Women, community and collective action: the *ceffyl pren* tradition', yn Angela V. John (gol.), *Our Mother's Land: Chapters in Welsh Women's History, 1830-1939* (Argraffiad Newydd, Caerdydd, 2011), t. 39; Rosemary Jones, "'Sfferau ar wahân?': Menywod, iaith a pharchusrwydd yng Nghymru oes Victoria', yn Geraint H. Jenkins (gol.), *'Gwnewch bopeth yn Gymraeg' Yr Iaith Gymraeg a'i Pheuoedd, 1801-1911* (Caerdydd, 1999), tt. 196-197; Matthew Cragoe, *An Anglican Aristocracy: The Moral Economy of the Landed Estate in Carmarthenshire 1832-1895* (Rhydychen, 1996); Cyfeiriad yn unig a geir yn Eugenio F. Biagni, *British Democracy and Irish Nationalism 1876-1906* (Caergrawnt, 2007), t. 104.

estates had enjoyed'.⁷ Nid ydyw astudiaeth Cragoe yn mynd ymhellach na 1886, felly ni cheir dadansoddiad o rôl y gweinidogion Anghydfurfiol yn ystod 'Rhyfel y Degwm' ynddi. Serch hynny, mewn astudiaeth arall ganddo cawn gyfeiriadau at ymglymiad y gweinidogion yn helyntion y degwm yn Sir Gaerfyrddin.⁸ Y mae David W. Howell wedi rhoi pwyslais cryf iawn ar ddylanwad y gweinidogion Anghydfurfiol yn ystod 'Rhyfel y Degwm'. Credai, '... the role of local Nonconformist preachers was a crucial factor. Their preaching against payment of tithes to an alien Church was a highly attractive message to a Nonconformist farming community feeling the pinch of agricultural depression'.⁹ Ceir datganiad cyffelyb gan David J. V. Jones hefyd o barthed y gweinidogion a helyntion y degwm, 'Nonconformist ministers were now at the front, channelling and controlling anger ...'¹⁰

Gorchwyl anodd fyddai ceisio darganfod yn union faint o'r gweinidogion Anghydfurfiol oedd yn rhwymedig i dalu'r degwm. Y mae'n dibynnu a oeddynt yn ffermwyr yn ogystal â phregethwyr, yn berchen fferm, neu'n berchen ar darn o dir gyda degwm i'w dalu arno. Un enghraifft nodedig o hyn oedd Thomas Gee. Yr oedd ei frawd wedi methu gwneud elw ar fferm o'r enw Eglwys-Wen, felly cymerodd Gee'r awenau. Yr oedd yna ddegymau i'w talu ar y fferm, ac fel hyrwyddwr amlwg yr ymgyrch gwrth-ddegymol, nid oedd am wneud hynny ond drwy brotest. Ond tenant oedd Gee, ac er bod y berthynas rhyngddo a Mr Hughes, Cinmel, yn un gyfeillgar, nid oedd y tiffeddiannwr am drosglwyddo'r cyfrifoldeb o dalu'r degwm i'w denant er mwyn rhoi cyfle iddo ef i orfodi arwerthiant fel protest.¹¹ Yr oedd hyn ym 1891, a fe ddywedodd Gee nad oedd yn fodlon i barhau fel tenant.¹² Ond dengys bod Gee wedi cael ei ddymuniad, canys ym 1893 cawn hanes yn y *Faner* o achos llys rhyngddo a rheithor Dinbych, y Parchg. John Morgan, o barthed atafaeliadau ar

⁷ Matthew Cragoe, *Culture, Politics, and National Identity in Wales 1832-1886* (Rhydychen, 2004), tt. 173-205; Cragoe, 'Conscience or coercion? Clerical influence at the general election of 1868 in Wales', *Past & Present*, 149 (Tach. 1995), tt. 140-169; Ioan Matthews, 'Debate: conscience or coercion? Clerical influence at the general election of 1868 in Wales', *Past & Present*, 169 (Tach. 2000), tt. 194-204; Cragoe, 'Debate: Conscience or Coercion? Clerical Influence at the General Election of 1868 in Wales', *Past & Present*, 169 (Tach. 2000), tt. 205-213.

⁸ Cragoe, *An Anglican Aristocracy*, tt. 237-238.

⁹ David W. Howell, *Land and People in Nineteenth-Century Wales* (Llundain, 1978), t. 85.

¹⁰ David J. V. Jones, 'Crime, protest and community in 19th century Wales', *Llafur*, 1/3 (May, 1974), t. 14.

¹¹ LIGC, Papurau Thomas Gee, MS 11011E, Correspondence, 1891, between Thomas Gee (copies of letters) and Sir John Charlton, Cholmondeley, Malpas, Cheshire, concerning the tithe of Eglwys-Wen farm, which Thomas Gee held as tenant.

¹² *Ibid.*, [llythyr 5] Gee i Charlton (7 Medi 1891).

fferm Eglwys-Wen ar 10 Mai a'r 13 Rhagfyr 1892.¹³ Dyfarnwyd bod rhan o'r atafaeliad yn anghyfreithlon, ond yn groes i ddymuniadau Gee, dyfarnwyd bod y rhan arall yn gyfreithlon.¹⁴

Cawn enghreifftiau eraill o bregethwyr yn gwrthod talu'r degwm. Ar 24 Ionawr 1887 ac ym 1890, gwerthwyd eiddo'r Parchg. W. E. Jeffreys, Capel Saron, Llangeler, Sir Gaerfyrddin. Ond fe brynwyd yr anifail gan ei gymydog, ac fe rhoddwyd yn ôl i'r gweinidog.¹⁵ Ar 24 Medi 1890 gwerthwyd eiddo'r Parchg. J. G. Thomas, Whitchurch Dewsland, Sir Benfro; ar 7 Medi 1888 gwerthwyd eiddo'r Parchg. Dan Evans, Llanwinio, Sir Gaerfyrddin; ar 5 Medi 1890 gwerthwyd eiddo'r Parchg. R. Morgan, St. Clears, Sir Gaerfyrddin.¹⁶ Ym 1891 cafwyd arwerthiant yn Y Ferwig ar fferm y Parchg. John Roberts/Richards, gweinidog gyda'r Bedyddwyr a oedd bellach wedi ymddeol.¹⁷ Mor hwyr â 1895 cawn hanes atafaeliad ar fferm y Parchg. John Davies, gweinidog gyda'r Methodistiaid, Castell Pridd, Sir Benfro.¹⁸ Soniodd Vincent am weinidog Anghydfurfiol yng Ngheredigion yn gwrthod talu ei ddegymau, 'fel esiampl i'w braidd cael dilyn'. Ond ni efelychwyd ei weithred ganddynt. Yn hytrach, fe dalodd y gynulleidfa ei ddegwm drosto, ac fe dynnwyd y swm hwn o'r arian a fyddai wedi mynd at gynnal y gweinidog.¹⁹ Pa faint o wirionedd sydd yn yr hanesyn hwn ni ellir bod yn sicr (dywedodd Vincent bod sawl person 'parchus' wedi adrodd y stori iddo).²⁰ O barthed gweinidogion yn talu'r degwm, gellir tybio ar sail y dystiolaeth hyd yn hyn mai canran fechan ohonynt oedd yn rhwymedig i dalu'r degymau. Ar y cyfan, anaml y ceir hanes am arwerthiant ar eiddo gweinidog Anghydfurfiol, o gymharu ag adroddiadau ohonynt yn areithio ar ryw fferm arall ar ôl yr arwerthiant neu mewn cyfarfod gwrth-ddegymol.

Ynghylch y pwynt diwethaf hwn, diddorol ydyw nodi pa mor aml y cafwyd cyfarfodydd o'r fath yn y capel neu'r festri. Ceir hanes am gyfarfodydd yn festri capel Bozrah, Llaneilian; yn festri capel Hebron, Llanglydwen; capel yr Annibynwyr, Solfa; capel y Methodistiaid, Dolgellau; capel Moriah, Penbryn,

¹³ *Baner ac Amserau Cymru* (12 Ebrill 1893).

¹⁴ *Baner ac Amserau Cymru* (12 Ebrill 1893).

¹⁵ Rev. W. Thomas, Whitland, *The Anti-Tithe Movement in Wales: Its Justice, Morality and Legality – Facts versus Fiction* (Llanelli, 1891), t. 96; Cragoe, *An Anglican Aristocracy*, tt. 237-238.

¹⁶ Thomas, *The Anti-Tithe Movement in Wales*, tt. 96-98.

¹⁷ *Carmarthen Journal* (8 Mai 1891).

¹⁸ *Seren Cymru* (19 Ebrill 1895).

¹⁹ Vincent, *Letters from Wales*, t. 169.

²⁰ *Ibid.*

Ceredigion; capel Tyn Rhyd, Cerrigydrudion.²¹ Hyd yn oed mewn ardaloedd na welodd unrhyw fath o helynt ynghylch y degymau, cafwyd cyfarfodydd yn trafod pwnc y degwm. Er enghraifft, yn y Tabernacle (Annibynwyr), Ferndale, Y Rhondda, penderfynwyd y dylid dangos cefnogaeth i'r ffermwyr yn sir Benfro ac ardaloedd eraill drwy hel arian.²² Cafwyd cyfarfodydd cyffelyb yng nghapel Saron, Aberaman ac yng nghapel y Methodistiaid yn Huyton Quarry, Lerpwl.²³

Wrth sôn am 'indignation meeting' mewn capel yn Llanboidy, dywedodd Cragoe, 'In this case and others Nonconformist ministers became heavily involved'.²⁴ Yn y cyfarfod a sonnir amdano yn Ferndale, cawn enwau'r Parchg. John Jones, Parchg. O. Hughes a'r Parchg. D. J. Williams yn annerch y gynulleidfa.²⁵ Yn ôl yr adroddiadau yr oedd capel Tyn Rhyd, Cerrigydrudion, yn orlawn, ac yr oedd y Parchg. R. Richards yn bresennol.²⁶ Sonir mwy am y gŵr hwn nes ymlaen. Ond wrth ddarllen yr adroddiadau, nid ydynt yn cyfleu'r darlun mai'r gweinidog neu'r gweinidogion oedd canolbwynt pob un o'r cyfarfodydd hyn yn y capeli. Er enghraifft, D. A. Thomas, A.S., oedd y prif siaradwr yn y cyfarfod yn Aberaman, ac yn y cyfarfodydd eraill hefyd dengys mai gwŷr lleyg oedd nifer o'r siaradwyr blaenllaw.²⁷ Y mae'n hawdd tybio fod y defnydd o gapeli fel mannau cwrdd wedi gweithredu fel cyfrwng i'r gweinidogion ddanfôn neges wleidyddol mewn modd lled-grefyddol; fel rhyw fath o bregeth ceid ar y Sul. Fe ddywedodd Ioan Matthews o barthed y defnydd o gapeli fel mannau i drafod gwleidyddiaeth, 'if the minister was the leader of the congregation, he was also its servant ... such permission was not theirs to grant ... Laymen often had greater influence than the minister, and certain chapels were renowned for their powerful deacons', sylwedd efallai i'r hanes a geir gan Vincent ynghylch y gweinidog a'i ddegwm yng Ngheredigion.²⁸

Wrth gwrs, nid ydyw hyn yn golygu bod y gweinidogion Anghydfurfiol yn hollol amddifad o ddylanwad a statws adeg 'Rhyfel y Degwm'. Y mae adroddiadau'r

²¹ *Y Werin* (30 Gorffennaf 1887); *Y Dydd* (10 Rhagfyr 1886); *The Pembrokeshire Herald* (10 Medi 1886); *Banner ac Amserau Cymru* (6 Gorffennaf 1887); *Cambrian News and Merionethshire Standard* (12 Ebrill 1889).

²² *South Wales Daily News* (16 Hydref 1889).

²³ *Western Mail* (5 Tachwedd 1889); *Cambrian News and Merionethshire Standard* (26 Awst 1887).

²⁴ Cragoe, *An Anglican Aristocracy*, t. 238.

²⁵ *South Wales Daily News* (16 Hydref 1889).

²⁶ *Baner ac Amserau Cymru* (6 Gorffennaf 1887).

²⁷ Gw. y troednodiadau uchod.

²⁸ Matthews, 'Debate: conscience or coercion?', tt. 198-199; Tim Williams, 'Language, religion, culture', yn Trevor Herbert a Gareth Elwyn Jones (gol.), *Wales, 1880-1914* (Caerdydd, 1988), t. 81.

papurau newydd yn frith o enwau yn dechrau gyda'r rhagddodiad 'Parchg.' Nid oes digon o ofod yma i drafod pob un gweinidog a gafodd ryw fath o ddylanwad yn ystod helyntion y degwm. Ond dichon fod detholiad o weithredoedd ambell un ohonynt yn ddigon ar gyfer yr astudiaeth hon. Yr ydym eisoes mewn pennod flaenorol wedi sôn am ddylanwad posibl y Parchg. William Jones, Trewyddel, ynghylch Pegi Lewis a'i degwm. Sonniodd Vincent am weinidog gyda'r Methodistiaid a oedd yn ddylanwadol yn Llanidloes.²⁹ Yr oedd rheithor Bodfari yn awyddus iawn i nodi mai'r Parchedigion. Evan Jones, W. Owen a Thomas Gee a oedd yn gyfrifol am 'violent speeches' ar bont yn y plwyf o barthed y degymau.³⁰ Sonniodd periglor Llanasa am y Parchg. E. Pierce, pregethwr gyda'r Methodistiaid, '[A] bitter and vicious enemy of the Church'.³¹ Cawn enw'r Parchg. E. Griffiths, hefyd gyda'r Methodistiaid, fel cynhyrfwr ym mhlwyf Pont Robert, Sir Drefaldwyn; y Parchg. T. Rowlands yn Nhowyn, Sir Ddinbych; ac '[a] dissenting minister' yn Rhesycae, Sir Ddinbych.³²

Cyfeirir eisoes am y Parchg. R. Richards, gweinidog gyda'r Annibynwyr, a cheir trafodaeth lawn o 'ferthyron y degwm' yn Llangwm hwyrach ymlaen yn y bennod. Ond gellir nodi yma er nad oedd Richards yn un ohonynt (yn yr ystyr swyddogol o leiaf), yr oedd yn ffigwr amlwg y tu ôl i'r llenni. Cafwyd cyfarfod yn Nhŷ Nant Inn, Llangwm, wedi'r beiliad fod yno. Dywedodd y *Faner* bod yr areithiau 'llawn tân', a dengys bod Richards yn un o'r rhai a siaradodd yn y cyfarfod.³³ Ychydig yn ddiweddarach yr oedd yn bresennol mewn cyfarfod yng Ngherrigydrudion ar 28 Mehefin 1887 lle penderfynwyd y dylid, 'Ddadsefydlu a Dadwaddoli Eglwys Loegr yn Nghymru, a defnyddio y degwm er budd y Dywysogaeth yn gyffredinol'.³⁴ Yn amlwg yr oedd yn unigolyn gyda statws a pharch yn yr ardal, canys fe benodwyd ef yn Llywydd parhaol Pwyllgor Trysorfa Amddiffynnol Gwŷr Llangwm.³⁵

²⁹ Vincent, *Letters from Wales*, t. 99.

³⁰ LIGC, SA/Tithe/1-207/Bodfari.

³¹ LIGC, SA/Tithe/1-207/Llanasa.

³² LIGC, SA/Tithe/1-207/Pont Robert; Towyn; Rhesycae.

³³ *Baner ac Amserau Cymru* (1 Mehefin 1887).

³⁴ *Baner ac Amserau Cymru* (6 Gorffennaf 1887).

³⁵ LIGC, MS. 12077B – Cofnodlyfr Pwyllgor Trysorfa Amddiffynol 'Merthyron y Degwm yn Llangwm', (29 Awst 1887).

Ar 15 Mehefin 1888 rhoddodd y Parchg. J. T. Evans, Aberaeron, ddarlith ar yr ‘Eglwys a’r degymau’, gan ddatgan mai’r unig ffordd i ddelio â’r mater oedd drwy ddatgysylltu a dadwaddoli’r Eglwys’.³⁶ Diwedd y flwyddyn honno cawn ef ymhlith sawl gweinidog eraill mewn cyfarfod ar ôl arwerthiant y degwm yn cefnogi’r brotest yn erbyn talu’r degymau i’r Eglwys, ac yn datgan y dylai’r degymau fynd at ddibenion ‘cenedlaethol’.³⁷ Gweinidog dylanwadol arall oedd y Parchg. T. D. Evans (Gwernogle), a oedd yn perthyn i’r Annibynnwyr. ‘Fel gwleidyddwr,’ meddai *Papur Pawb*, ‘cymer sylw manwl o bynciau’r dydd, a diangen nodi mai Rhyddfrydwr yw. Cymerodd ran flaenllaw yn Rhyfel y Degwm yn sir Gaerfyrddin.’³⁸ Ar 15 Tachwedd 1887 cawn ef yn traethu mewn cyfarfod gwrth-ddegymol a gadeirwyd gan D. T. Gilbert. Dywedodd Evans, ‘... eu bod wedi profi yn y plwyf hwn fod ysbryd y tadau gynt yn aros yn y plant eto – digon o wroldeb i wrthod talu y degwm, er cael eu troi o’u ffermydd. Er cael eu gwerthu, y fyddin yn gryfach y flwyddyn hon. Gwaed y saint yw had yr eglwys. Fod amryw yma wedi derbyn y *ten days notice*, a thebyg y gwerthir yma yn fuan’.³⁹

Yr oedd y Parchg. W. Thomas, Hendy-gwyn ar Daf, gweinidog gyda’r Annibynnwyr, yn ffigwr amlwg iawn yn helyntion y degwm yn y de-orllewin. Cyhoeddodd ef y llyfryn, *The Anti-Tithe Movement in Wales* ym 1891, gyda’r bwriad o amddiffyn moesoldeb y symudiad. Y mae’n ddarn o waith defnyddiol iawn i haneswyr (yn yr un modd â gwaith R. E. Prothero) o ran cynnig ffeithiau a damcaniaethau o’r cyfnod ynghylch ‘Rhyfel y Degwm’. Datganodd *Seren Cymru* yn eu golygiad o’r llyfryn hwn, ‘y mae yr awdur wedi cymmeryd dyddordeb personol ac arbenig yn y symudiad gwrth-ddegymol o’i gywehryn, fel yr ysgrifena, nid yn unig fel gohebydd sylweddol ar faes y frwydr, ond hefyd fel milwr profiadol yn cymmeryd rhan yn yr ymgyrch ...’⁴⁰ Yn wir, yr oedd yna sawl elfen i’w weithgareddau yn ystod ‘Rhyfel y Degwm’ heblaw yr un fel awdur.

³⁶ *Cambrian News and Merionethshire Standard* (22 Mehefin 1888).

³⁷ *South Wales Daily News* (11 Rhagfyr 1888).

³⁸ *Papur Pawb* (15 Ebrill 1899).

³⁹ *Tyst a’r Dydd* (2 Rhagfyr 1887).

⁴⁰ *Seren Cymru* (28 Awst 1891).

Ffynhonnell: Papur Pawb (15 Ebrill 1899)

Ym 1889 siaradodd Thomas mewn cyfarfod ar ôl yr arwerthiannau yn ardal Hendy-gwyn ar Daf. A ‘champion of disestablishment’, meddai’r *South Wales Daily News*, dywedodd Thomas, ‘a Church that worked against itself cannot stand’.⁴¹ Ym 1893, gyda John Thomas (y gŵr a garcharwyd am 3 mis am ymosod ar Robert Lewis) ar fin cael ei ryddhau, datganodd y *Carmarthen Journal* fod posteri wedi eu rhoi o gwmpas ardal Aberteifi a Phenbryn yn hysbysu bod y gwŷr canlynol am anerch Thomas: Major Jones, A.S., David Lloyd George, A.S., Dr. Enoch Davies, Llandysul, Parchg. Towyn Jones, Cwmamman, Parchg. W. Thomas, Whitland a’r Parchg. J. Williams, Bethania, Ceredigion.⁴² Cyfeiriwn fwy at Dr Enoch Davies nes ymlaen, ond gwelir bod Thomas yn rhan o fintai ddylanwadol a oedd yn hyrwyddo’r ymgyrch gwrth-ddegymol. Ym 1888 fe areithiodd ef yng Nghapel Trerhondda,

⁴¹ *South Wales Daily News* (30 Mawrth 1899).

⁴² *Carmarthen Journal* (6 Hydref 1893).

Ferndale, o barthed datgysylltiad a ‘Gwir Genhadaeth yr Anghydfurfwyr Modern’.⁴³ Pwrpas yr araith oedd i ‘addysgu’r werin’ o barthed cydraddoldeb crefyddol, ac fe gafwyd penderfyniad ar ddiwedd y cyfarfod oedd yn cefnogi hyn a hefyd gwladoliad y degymau.⁴⁴ Yr oedd gwladoli’r tir yn anathema i nifer o Ryddfrydwyr y pryd hwn, ond daeth y cysyniad o wladolir degymau yn gonglfaen yr ymgyrch i ddatgysylltu a dadwaddoli’r Eglwys.

Llun 7.2 Parchg. W. Thomas, Whitland

Ffynhonnell: Cardiff Times (12 Rhagfyr 1908)

Nid yn unig oedd Thomas yn weinidog, yr oedd yn Gyngorydd Sir (Sir Gaerfyrddin) hefyd. Mewn cyfarfod y Cydbwyllgor Sefydlog, protestiodd Thomas yn erbyn talu’r swm o £89 11s 2c a oedd yn gysylltiedig ag anfon yr heddlu i Drelech i fynychu arwerthiannau’r degymau yno.⁴⁵ Yng nghyfarfod chwarterol Cyngor Sir Gaerfyrddin ychydig yn ddiweddarach, daeth Thomas â phwnc y degwm ger bron y cynghorwyr eraill. Cynigiodd, ‘That we desire to enter an earnest protest against burdening the ratepayers of the county with the the expenses of large bodies of

⁴³ *Cardiff Times* (10 Tachwedd 1888).

⁴⁴ *Cardiff Times* (10 Tachwedd 1888).

⁴⁵ *South Wales Echo* (4 Gorffennaf 1889).

constables at tithe sales'.⁴⁶ Dyma enghraifft dda felly o weinidog Anghydfurfiol a geisiodd ddylanwadu ar hynt a helyntion y degwm drwy fanteisio ar ei safle fel Cynghorydd Sir.

Trown yn awr at y Parchg. J. Gwynoro Davies, deheuwr a ymgartrefodd yn y gogledd. Dywedodd William Watkin Davies am ei dad, 'yr oedd Gwynoro yn Rhyddfrydwr pybyr ac yn Gymro gwladgarol; yr oedd ei ddiddordeb yn fwy mewn materion cyhoeddus, yn enwedig materion addysgol, nag mewn crefydd enwadol'.⁴⁷ Pan oedd yn fyfyrwr yng Ngholeg y Brifysgol, Aberystwyth, daeth i adnabod gwŷr a fyddai'n arwyr y 'werin' yn y blynyddoedd i ddod; gwŷr megis O. M. Edwards a T. E. Ellis.⁴⁸ Ar ôl mynychu Coleg y Bala am ychydig fe argymhellodd y Parchg. Lewis Edwards y dylai ef gymryd ei fugeiliaeth gyntaf yn Llanuwchllyn.⁴⁹ Ym 1887 cymerodd fugeiliaeth Caersalem yn Abermaw, eglwys a oedd gyda chryn dipyn o hanes iddi o fewn y Cyfundeb. Yno bu hyd ei farwolaeth ym 1935.

Ymhell o fod yn berson encilgar, daeth Gwynoro Davies yn ffigur pwysig o fewn ei fro a thu hwnt. Daeth yn Gadeirydd Cymdeithas Methodistiaid Calфинаidd Gogledd Cymru, yn Gadeirydd Cyngor Dosbarth Gwledig Abermaw, yn Ynad Heddwch ac fe deithiodd ar hyd a lled Ewrop a gogledd America.⁵⁰ Ym 1903 cawn Lloyd George yn rhoi anerchiad mewn cyflwyniad i Gwynoro Davies am ei wasanaeth i'r ardal, a hefyd i gymeradwyo'r ffaith mai efô oedd y person mwyaf blaenllaw y tu ôl i gofgolofn T. E. Ellis yn y Bala.⁵¹ Gyda hyn i gyd mewn golwg, nid rhyfedd ydyw canfod bod Gwynoro Davies wedi cymryd rhan yn helynt y degwm yn ardal Ardudwy. Yn ôl y Parchg. T. T. Lucius Morgan, 'Civil Life had been embittered in this charming resort [Abermaw] by the Disestablishment question, a conflict into which he threw himself with full ardour ...'⁵² Yn wir, ym

⁴⁶ *The Carmarthen Journal* (30 Awst 1889).

⁴⁷ *Y Bywgraffiadur Ar-lein*, William Watkin Davies, 'John Gwynoro Davies'.

⁴⁸ Rev. T. T. Lucius Morgan, *The Rev. J. Gwynoro Davies, Barmouth* (Llandysul, 1941), tt. 10-14.

⁴⁹ *Ibid.*, t. 15.

⁵⁰ *Ibid.*, t. 16.

⁵¹ *Cambrian News and Merionethshire Standard* (30 Hydref 1903); LIGC, MS. 96232C, [Llythyr 16] Teulu Gladstone i J. Gwynoro Davies (dim dyddiad). Yr oedd Gwynoro Davies yn gyfaill agos i Ellis, canys cawn lythyr personol iawn iddo gan Annie F. Ellis yn datgan ei hiraeth a'i cholled: LIGC, MS. 96232C, [Llythyr 10], Annie F. Ellis i J. Gwynoro Davies (13 Mehefin 1899).

⁵² Morgan, *The Rev. J. Gwynoro Davies*, t.16.

1894 cawn Gee yn gofyn barn Gwynoro Davies o barthed ei awgrymiadau ynghylch datgysylltiad.⁵³

Llun 7.3 Parchg. J. Gwynoro Davies, oddeutu dechrau'r 20fed ganrif.

Ffynhonnell: Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Ond yn Rhagfyr 1888 yr oedd Gwynoro Davies yn traethu, gyda Lloyd George ifanc, mewn cyfarfod gwrth-ddegymol a gynhaliwyd ar ôl yr atafaeliad a fu yn Nyffryn Ardudwy. Dadleuodd:

What moral or commercial benefit did they, as parishioners, obtain from the Church in that parish? Did not the Rector even get his household goods from the shops in London? It would be well, added Mr. Davies, if Nonconformists who were ready to side with the enemy and blame people for speaking out againsts ecclesiastical

⁵³ LIGC, MS. 96232C, [Llythyr 13] Thomas Gee i J. Gwynoro Davies (12 Ebrill 1894).

oppression, to know what the opinions of Churchmen were concerning Nonconformists.⁵⁴

Ychydig cyn yr atafaeliadau yn Nyffryn Ardudwy ymddangosodd cyfres o lythyrau digon chwerw eu natur yn y *Carnarvon and Denbigh Herald* rhwng Gwynoro a'r Parchg. E. Hughes, sef rheithor Abermaw. Nid oes angen mynd i ddyfnder yma o ran eu cynnwys, ond dengys mai'r gair 'heretic' oedd wrth wraidd yr anghydfod. Dywedodd Gwynoro fod sawl unigolyn yn Y Bermo wedi clywed Hughes yn galw Anghydfurfwr yn 'heretics', tra bod y rheithor wedi cymharu Gwynoro gydag O'Connell drwy greu rhagfarn.⁵⁵ Ail-daniwyd y ffrigwd pan honnodd unigolyn o'r enw 'Anti-Humbug' mewn erthygl o'r enw, 'Rev. J. G. Davies at the Tithes Sales' yn y *Cambrian News*. Honnodd fod Gwynoro wedi cyfeirio yn ei anerchiad ar ôl yr atafaelu at arfer hanesyddol swyddogion yr Eglwys o erlid a llosgi Anghydfurfwr yn y wlad.⁵⁶ Ym 1891 dywedodd Gwynoro nad oedd anghydfod rhwng Eglwysywr ac Anghydfurfwr, ond yn hytrach rhwng Anghydfurfwr a'r rheithor.⁵⁷

Naturiol ydyw gofyn pa mor awyddus oedd y gweinidogion Anghydfurfiol o'r gwahanol enwadau i gyd-weithio gyda'i gilydd yn ystod 'Rhyfel y Degwm'? Soniodd R. Tudur Jones am yr hunanglodfori a geir yng nghylchgronau a phapurau'r cyfnod a oedd yn gysylltiedig ag enwad penodol. Yr oedd, 'Sectyddiaeth', meddai, 'yn uchel ei phen.'⁵⁸ Serch hynny, onid oedd y 'Cydwbybod Anghydfurfiol' ynghylch materion gwleidyddol, megis y degwm a datgysylltiad, yn eu rhwymo gyda'i gilydd? Diddorol ydyw codi detholiad o *Gŵr Pen y Bryn*, sef nofel y Parchg. E. Tegla Davies yn seiliedig ar 'Ryfel y Degwm', lle ceir dau gapelwr yn barod i gwffio:

Ymsythasant ger bron ei gilydd, ysgydwasant law, a dechrau taro, a theimlai llawer mai ardderchog o beth oedd rhyfel degwm, os dyma'r dechrau. Ar hyn, pwy a ddaeth heibio ond yr offeiriad, a bu'n ddigon dewr ac anffodus i ddyfod i'r dyrfa, - oherwydd os gwahaniaethai Harri ac Isaac yn eu perthynas a Gŵr Pen y Bryn a Samuel Jones, yr oeddynt yn un yn eu perthynas a'r offeiriad. Ac wrth iddo ymyrryd troesant arno, hebryngwyd ef adref gan y dorf, a Harri ac Isaac yn arweinwyr iddi. Diwedd yr helynt oedd i Harri atgoffa Isaac mai Annibynnwr ydoedd ef, ac i Isaac atgoffa Harri mai Weslead oedd yntau. Tyngasant gasineb tragwyddol at bob enwad arall nes dyfod o

⁵⁴ *Cambrian News and Merionethshire Standard* (14 December 1888).

⁵⁵ *Carnarvon and Denbigh Herald* (20 Gorffennaf 1888; 3 Awst 1888; 10 Awst 1888).

⁵⁶ *Cambrian News and Merionethshire Standard* (11 Ionawr 1889).

⁵⁷ *Carnarvon and Denbigh Herald* (30 Ionawr 1891).

⁵⁸ R. Tudur Jones, *Ffydd ac Argyfwng Cenedl: Hanes Crefydd yng Nghymru, 1890-1914* (Abertawe, 1981), tt. 65-83.

Dwm y Rhydd Isaf ymlaen i'w hatgoffa fod y Methadus, hwythau, yn erbyn y person, ac mai Methadus oedd ef. Penderfynasant ar hyn y cyd-unent ill tri, ac y medrent wedi uno ysgybo'r wlad dros eu gwahanol enwadau. Adduneddasant ffyddlondeb bythol i'w gilydd yn yr ymdrech glodwiw honno, ac aeth y tri chenhadwr adref fraich-ym-mraich...⁵⁹

Gan mai gweinidog gyda'r Wesleaid oedd Tegla Davies, gellir amau bod yna neges yn yr olygfa hon yn mynegi'r cysyniad bod yr enwadau Anghydfurfiol yn unedig ynghylch eu perthynas â'r Eglwys. Credodd Vincent, '... there can be little doubt that the Nonconformists as a body are willing to drop their internal differences for the sake of fighting against the Church'.⁶⁰ Cawn enghraifft o hyn mewn cyfarfod gwrth-ddegymol yn Llanferres ar 1 Ionawr 1890 mewn cae oddeutu 30 canllath o Reithordy'r Parchg. Hugh W. Jones. Arsyllodd y rheithor:

... speeches were delivered by John Parry, Llanarmon, Edward Jones, Calvinistic Methodist Minister at Cilcen, David Roberts of Tynllan, Llanferres a preacher with the Calvinistic Methodists. I was informed at the time by John Hughes the Police Officer stationed in this parish that there were also present a Wesleyan preacher from Nerquis and the Independent minister from Llanarmon yn Yale. There were six ministers and preachers present.⁶¹

Dyma olygfa nid annhebyg i'r cysyniad a geir gan Tegla Davies o gydweithrediad rhwng yr enwadau.

Er hyn, ymddengys fod yna tensiynau yn bodoli hefyd ymhlith yr enwadau. Er bod y Methodistiaid Calфинаidd, yn enwedig yn y gogledd, yn un o'r enwadau mwyaf blaenllaw o ran cynhyrfu yn ystod 'Rhyfel y Degwm', gellir awgymru hefyd mai hwythau oedd y mwyaf rhanedig. Barnwyd cyfrifiad Gee yn ffyrnig gan y *Goleuad*, sef organ y Methodistiaid, ac er fod yr Annibynwyr, y Bedyddwyr a Sasiwn y De wedi dangos eu cydymdeimlad â'r mudiad gwrth-ddegymol, oeraidd iawn oedd ymateb Sasiwn y Gogledd ym 1887.⁶² Yn y cyfarfod chwarterol hwnnw, darllenwyd penderfyniad cyfarfod misol Nant-y-Mwn, Sir Ddinbych, yn datgan bod yna gysylltiad agos rhwng y degwm a dadwaddoliad. Gofynnwyd hefyd i'r

⁵⁹ E. Tegla Davies, *Gŵr Pen y Bryn: Stori o Gyfnod Rhyfel y Degwm* (Caerdydd, Argraffiad Newydd, 1955), t. 88.

⁶⁰ Vincent, *Letters from Wales*, t. 11.

⁶¹ Archifdy Sir Ddinbych, Rhuthun, NTD/588, Affidavits, Rev. Hugh. W. Jones, Llanferres (7 November 1890).

⁶² Price Jones, 'Rhyfel y Degwm', t. 94.

Gymdeithasfa i anghymeradwyo'r Dirprwywyr Eglwysig a'r clerigwyr hynny a oedd yn gwrthod rhoi gostyngiadau yn eu degymau.⁶³ Yr oedd y Parchg. S. T. Jones, Rhyl, a'r Parchg. Griffith Ellis, Bootle, yn gefnogol o'r cynigiad. Ond er bod y Parchg. Owen Thomas, Lerpwl, yn cydymdeimlo â'r ffermwyr, yr oedd yn amau prioldeb o ddwyn cwestiwn y degwm ger bron y Gymdeithasfa. Awgrymodd y Parchg. D. Rowlands, Bangor, y dylid trefnu pwyllgor i ystyried y mater.⁶⁴ Yr oedd y Gymdeithasfa yn cydymdeimlo â'r ffermwyr, ac yn argymhell iddynt i, 'ymdrechu am eu hiawnderau mewn ffordd cyfreithiol', ac mewn ffordd a oedd yn, 'anrhydedd i grefydd ac yn addurn i'r efengyl y maen yn ei phroffesu'.⁶⁵ Dichon mai cyfeiriad oedd hwn at y protestiadau mwy treisgar eu naws.⁶⁶ Dywedodd Gee, 'Buasai yn llawn cystal i Gymdeithasfa Caernarfon beidio a pasio penderfyniad o gwbl ar bwnc y degwm na phasio'r un a wnaed'.⁶⁷

Cawn enw'r Parchg. J. Machreth Rees, gweinidog 'pur flaenllaw' gyda'r Annibynwyr ac Ysgrifennydd Coleg yr Annibynwyr ym Mangor (1889), ymhlith y rhai a ddewiswyd i fod yn rhan o'r 'pwyllgor allanol' oedd yn gysylltiedig â'r achos yn erbyn gwŷr Llangwm.⁶⁸ Diddorol ydyw darllen ambell i lythyr a dderbyniodd Rees gan Cadwaladr Richard Jones (C. R. Jones), Henadur blaenllaw gyda'r Annibynwyr o Lanfyllin, Sir Drefaldwyn.⁶⁹ Yr oedd Jones yn ddatgysylltwr teyrngar, rheolwr y *Dysgedydd* a gafodd ddysteb am ei wasanaeth i Ryddfrydiaeth a chydoddoldeb crefyddol.⁷⁰ Ond y mae ei lythyrau i Rees yn cynnig mewnwelediad diddorol i'w gymeriad. Ar y naill law galwodd ef Esgobion Llanelwy a Bangor yn, 'gythraul perffaith', yn ogystal âg enwau sarhaus eraill.⁷¹ Ar y llall, cwynodd ef am y, 'Parnell stench ... spreading far and wide'.⁷² Mewn llythyr arall cawn ef yn

⁶³ *Gwyllydydd* (31 Awst 1887).

⁶⁴ *Ibid.*

⁶⁵ *Ibid.*

⁶⁶ Gw. hefyd datganiad yn *Y Drysorfa* (1886) a ddyfynwyd yn Robert Pope, 'Methodistiaeth a chymdeithas', yn John Gwynfor Jones a Marian Beech-Hughes (goln.), *Hanes Methodistiaeth Calfnaid Cymru, Cyfrol III: Y Twf a'r Cadarnhau (c. 1814-1914)* (2011), t. 397.

⁶⁷ Price Jones, 'Rhyfel y Degwm', tn. 119, t. 105.

⁶⁸ Archifdy Prifysgol Bangor (APB), bywgraffiad J. Machreth Rees yn Casgliad Cyffredinol o Lawysgrifau Bangor, cyf. IV, t. 129; LIGC, MS. 12077B – Cofnodlyfr Pwyllgor Trysorfa Amddiffynol 'Merthyron y Degwm yn Llangwm', (29 Awst 1887).

⁶⁹ Ceir ychydig o'i hanes yn y papurau newydd pan farwodd ef yn 74 oed ym 1902: *Y Dydd* (1 Awst 1902); *Baner ac Amserau Cymru* (26 Gorffennaf 1902). Gw. hefyd, J. Iorwerth Davies, 'The History of Printing in Montgomeryshire, 1789-1960', *Montgomeryshire Collections*, cyf. 71 (1983), tt. 53-54.

⁷⁰ *Baner ac Amserau Cymru* (26 Gorffennaf 1902).

⁷¹ APB, BMSS/3617, C. R. Jones i J. Machreth Rees (17 Rhagfyr 1890).

⁷² *Ibid.*

gresynu fod cyfarfod Ffederasiwn Rhyddfrydol y gogledd yng Nghaernarfon wedi boicotio'r Annibynwyr er mwyn ffafrio'r Methodistiaid, 'Extreme Rads' a 'Home Rulers'.⁷³ Cyhuddodd ef y *Tyst* a'r *Dysgedydd* (cylchgrawn a oedd yn gysylltiedig ag ef) o 'seboni' gormod.⁷⁴ Nid rhyfedd felly ydyw ei ganfod yn gofyn i Rees, 'Beth a wneir a Dadgysylltiad debygech chwi? Gwaith anhawdd iawn yn Nghymru ar hyn o bryd. Y mae helynt y Degwm os [gwnaeth?] les, gwnaeth ddrwg ofandwy.'⁷⁵ Yn amlwg nid oedd Rees yn credu fod 'Rhyfel y Degwm' yn niweidio'r ymgyrch ehangach o ddatgysylltiad, neu ni fyddai wedi gwirfoddoli i helpu gydag achos y 'merthyron'. Er mai enghraifft 'micro' ydyw hwn, y mae, serch hynny, yn dangos nad oedd pob Rhyddfrydwr a phob Anghydfurfiwr yn unedig ynghylch rhinweddau'r ymgyrch gwrth-ddegymol; hyd yn oed gyfeillion y gweinidogion Anghydfurfiol.

Yr oedd yna ddiffyg cytgordd rhwng Thomas Gee, y Parchg. Michael D. Jones a'r Parchg. Evan Pan Jones adeg 'Rhyfel y Degwm'. Yr oedd Gee a Pan Jones yn cynrychioli dau wahanol fersiwn o sut i ddiwygio'r tir; gyda'r diwethaf yn ffafrio'r syniad mwy radical o wladoliad.⁷⁶ Nid oedd y berthynas rhwng Michael D. Jones a Thomas Gee yn un gwych, ac er bod Pan Jones yn gyfaill iddo, dengys nad oedd M. D. Jones yn gwbl gefnogol i'w syniadau o barthed y tir.⁷⁷ Fe amlygwyd yr hollt hon pan wahoddodd Evan Pan Jones (gyda chefnogaeth Michael D. Jones ac W. J. Parry) y radical o Wyddel, Michael Davitt, i draethu yng ngogledd Cymru yn ystod Chwefror 1886.⁷⁸ Nid oedd y *Denbighshire Free Press* yn coelio bod yna unrhyw sail i'r sibrydion fod Davitt am ddyfod i Gymru er mwyn sefydlu cynghrair dirol yn y wlad.⁷⁹ Ond fe gadarnhawyd ymweliad Davitt pan gyhoeddwyd *Y Celt* lythyr gan Michael D. Jones yn datgan fod y Gwyddel wedi gaddo ymweld â Chymru. Credodd

⁷³ APB, BMSS/3617, C. R. Jones i J. Machreth Rees (14 Chwefror 1890).

⁷⁴ Ibid.

⁷⁵ Ibid.

⁷⁶ Peris Jones-Evans, 'Evan Pan Jones – land reformer', *Cylchgrawn Hanes Cymru*, cyf. 4, rhif. 2 (1968), tt. 143-159; E. G. Millward, 'Dicter poeth y Dr Pan', *Cof Cenedl* 9, tt. 165-190.

⁷⁷ Dafydd Tudur, 'The Life, Work and Thought of Michael Daniel Jones (1822-1898)' (Traethawd Doethuriaeth anghyhoeddedig, Prifysgol Cymru, Bangor, 2006), t. 403.

⁷⁸ J. Graham Jones, 'Michael Davitt, David Lloyd George and T. E. Ellis: the Welsh experience, 1886', tt. 450-482; John Davies, 'Wales and Ireland: parallels and differences in the nineteenth century', *Planet*, 95 (Hyd/Tach 1992), tt. 7-16.

⁷⁹ *Denbighshire Free Press* (9 Ionawr 1886).

Jones y byddai profiad Davitt o barthed cwestiwn y tir o gymorth mawr i'r Cymry.⁸⁰ Serch hynny, nid oedd pawb mor frwdfrydig â M. D. Jones.

Honnodd Pan Jones fod Gee wedi dweud, '... y byddai cael Gwyddel i Gymru yn ddinystri i Ryddfrydiaeth y Dywysogaeth'.⁸¹ Oherwydd edmygedd pybyr T. E. Ellis o Iwerddon a'r Gwyddelod, galwodd ef Gee yn 'philistine' ynghylch ei safiad oeraidd tuag at Davitt.⁸² Dwy flynedd yn ddiweddarach ym 1888 gwahaddodd Ellis Wyddel dadleuol arall i draethu ym Mlaenau Ffestiniog, sef William O'Brien.⁸³ Nid yn unig oedd daliadau gwleidyddol Davitt yn gyffelyb i rhai Pan Jones, ond yr oedd gan y Gwyddel gefndir 'lliwgar' nad oedd efallai yn ei annwylu i nifer fawr o'r Cymry.⁸⁴ Ar 6 Chwefror mewn cyfarfod o ffermwyr yn Llanrwst, cynigiodd Edward Edwards, Tyddyn Du, 'They might as well get that Irishman Michael Davitt down to teach them how to form a league, and how to get their evils corrected'.⁸⁵ Er hynny, credodd John Parry, Friddarw, '... that it was quite unnecessary to get Michael Davitt over to instruct them. He believed that they had plenty of good men amongst themselves to carry out their movement'.⁸⁶

Serch hynny, fe areithiodd Davitt yn Fflint (11 Chwefror), Blaenau Ffestiniog (12 Chwefror) a Llandudno (13 Chwefror), gan dderbyn croeso gwresog ym mhob un o'r llefydd hyn.⁸⁷ Y mae'n ddiddorol nodi fod Davitt wedi dychwelyd i Gymru yn ystod mis Gorffennaf i areithio yn Llanbedr Pont Steffan ac Aberystwyth. Y rheswm am ei ymweliad i'r llefydd diwethaf hyn oedd i leisio'i gefnogaeth i William Bowen Rowlands, yr ymgeisydd Rhyddfrydig tros Geredigion. Er nad oedd Rowlands yn medru'r Gymraeg yn rhugl, yn uchel Eglwyswr a ddaeth yn Babydd yn y pendraw, trechodd ef yr enillydd disgwylidig o drwch blewyn gyda 9 o bleidleisiau. Honnodd

⁸⁰ *Celt* (8 Ionawr 1886); *Werin* (9 Ionawr 1886).

⁸¹ E. Pan Jones, *Oes Gofion neu Fraslun o Hanes fy Mywyd* (Bala, 1911), t. 176.

⁸² LIGC, Papurau D. R. Daniel, 302, Ellis i Daniel (17 Chwefror 1886).

⁸³ *Freeman's Journal* (10 Hydref 1888); *Y Genedl* (17 Hydref 1888); *North Wales Chronicle* (13 Hydref 1888); *Baner ac Amserau Cymru* (17 Hydref 1888).

⁸⁴ David W. Howell, 'The land question in nineteenth century Wales, Ireland and Scotland: a comparative study', *Agricultural History Review*, cyf. 61, rhif. 1 (Mehefin, 2013), t. 98.

⁸⁵ *North Wales Chronicle* (6 Chwefror 1886).

⁸⁶ *North Wales Chronicle* (6 Chwefror 1886).

⁸⁷ *Baner ac Amserau Cymru* (17 Chwefror 1886; 20 Chwefror); *Freeman's Journal* (12 Chwefror 1886; 13 Chwefror; 15 Chwefror); *North Wales Chronicle* (13 Chwefror 1886; 20 Chwefror). Gw. hefyd Siôn Edward Jones, 'The Land Question and Tithe in Ireland and Wales in the Nineteenth Century' (Traethawd M.A. anghyhoeddiedig, Prifysgol Aberystwyth, 2010).

yr *Aberystwyth Observer* mai dylanwad y gweinidogion Anghydfurfiol oedd y rheswm am ei fuddugoliaeth. Nid oes yna sôn am ymweliad Davitt.⁸⁸

Y mae ymweliad Davitt â Chymru yn cyd-ddigwydd â dyddiau cynnar ‘Rhyfel y Degwm’ yng Nghymru. Ydyw’n bosib cyfrif Davitt fel un o gynhyrfwyr cynharaf ‘Rhyfel y Degwm’? Nid syndod ydyw canfod y Parchg. David Williams, Llandyrnog, yn cysylltu dechreuad helyntion y degwm âg ymweliad Davitt i ogledd Cymru. Wedi’r cyfan, yn ei blwyf ef y dechreuodd y cynnwrf. Credodd Williams fod Davitt wedi ymweld â Chymru yn ystod gaeaf 1885, a bod y cythrwfl ynghylch y degymau yn ei blwyf wedi dechrau yn ystod mis Ionawr 1886.⁸⁹ Wrth gwrs, nid oedd hyn yn gywir canys mai yn ystod mis Chwefror y daeth Davitt i ogledd Cymru. Credodd Oliver George, cleric yr Ynadon, Llandudno, fod Davitt a’i ‘ffrindiau’ wedi helpu’r symudiad yn ei flaen.⁹⁰ Y mae hwn yn fwy credadwy na’r honiad mai Davitt a ddechreuodd y symudiad. Pa fodd bynnag, gellir dadlau mae ymylol iawn oedd dylanwad Davitt a’i ‘ffrindiau’ o barthed hybu helyntion y degwm. Yn wir, cyfaddefodd un o’r ‘ffrindiau’, sef Pan Jones, na chafwyd fawr o effaith ar y symudiad:

Mr. Michael Davitt came over at my request, being an intimate friend of mine; but all the farmers were against me ... and they thrashed me [yn foisol] awfully for bringing him there ... He [Davitt] and myself were against the agitation in the shape it has taken. We go in for no tithe at all.⁹¹

Er i Davitt ddatgan ym Mlaenau Ffestiniog fod dyddiau’r degymau ‘wedi diwedd’, a dylid y clerigwyr ‘trefnu eu tai’, nid oedd gwrthglerigiaeth yn elfen amlwg.⁹² Yn ogystal â hynny, rhaid cwestiynu pa faint o ddegwm dalwyr oedd yn bresennol yn ystod y cyfarfodydd hyn. Fel y dywedodd Merfyn Jones, nid oedd gan ran fwyaf o drigolion Blaenau Ffestiniog gysylltiad uniongyrchol â’r tir.⁹³ Serch hynny, mewn erthygl a ymddangosodd yn *Y Werin* ym 1892 o’r enw, ‘Chwarelwyr

⁸⁸ Kenneth O. Morgan, ‘Cardiganshire politics: the Liberal ascendancy, 1885-1923’, *Ceredigion: Journal of the Cardiganshire Antiquarian Society*, cyf. 5 (1964-67), tt. 324-25; *Cambrian News and Merionethshire Standard* (9 Gorffennaf 1886); *South Wales Daily News* (5 Gorffennaf 1886); *Aberystwyth Observer* (10 Gorffennaf 1886; 17 Gorffennaf 1886); *Weekly Mail* (10 Gorffennaf 1886); *Western Mail* (5 Gorffennaf 1886).

⁸⁹ PP 1887 XXXVIII, *Minutes*, c. 3416, 3444-3448.

⁹⁰ *Ibid.*, c. 970-974.

⁹¹ PP 1887 XXXVIII, *Minutes*, c. 3957, 3961-3963.

⁹² *Gwyllydydd* (24 Chwefror 1886).

⁹³ Merfyn Jones, *The North Wales Quarrymen 1874-1922* (Caerdydd, 1982), t. 22.

Bethesda a Rhyfel y Degwm', fe wnaeth yr awdur addo y byddai chwarelwyr gogledd Cymru yn cefnogi'r ymgyrch gwrth-ddegymol.⁹⁴ O ran y protestiadau, ni ddigwyddodd arwerthiannau yn yr ardaloedd hynny a oedd agosaf at y chwareli llechi, er bod pethau yn edrych yn dywyll i'r Parchg. R. Killin, Ffestiniog, am gyfnod cyn iddo gyuno i ostwng ei ddegymau ym 1888.⁹⁵

Yr oedd James Edmund Vincent, Eglwyswr, Ceidwadwr, gohebydd gyda'r *Times* ac ymgynghorydd y PDA (North Wales Property Defence Association), yn credu:

... it seems to be agreed that Michael Davitt and others like him produced absolutely no effect. They were a card played by the leaders of the agitation in a moment of forgetfulness, for which it is difficult to account. No men are more familiar than the leaders of the anti-tithe agitation with the indisputable fact the man who wishes to influence Welshmen must address them in Welsh. This none but a Welshman can do. Davitt, then, and his fellows may be dismissed as being important for harm in Wales ... They [y Cymry] were able to see through Davitt, to calculate the consequence of a lawless course of action, and, having formed the calculation, to avoid the danger ... we may dismiss the Irish agitators from consideration at once ...⁹⁶

Y mae'n debyg fod Vincent yn cyfeirio at ymweliad O'Brien yma hefyd, yn ogystal â'r un gan Davitt. O ran y rhwystr ieithyddol, cyfaddefodd Lloyd George er nad oedd oddeutu traean o'r gynulleidfa ym Mlaenau Ffestiniog yn deall Davitt, yr oeddynt, fodd bynnag, wedi deall ei brif bwyntiau.⁹⁷ Rhaid anghytuno gyda Vincent o ran ei sylwad ynghylch 'a lawless course of action' oherwydd gellir dadlau mai dyna oedd 'Rhyfel y Degwm' yn ei hanfod. Nid oedd amheuan nifer o amaethwyr Cymru am Davitt yn golygu nad oeddynt yn gefnogol i'r ymgyrch gwrth-ddegymol. Serch hynny, gellir cytuno gyda Vincent na chafodd ymweliad Davitt nac O'Brien fawr o effaith ar yr ymgyrch hwnnw. Yr oedd yr ymweliadau hyn yn rhai symbolaidd a phwysig o ran y cysylltiad rhwng gwleidyddion Gwyddelig a Chymreig, ond nid oeddynt yn rhan o gyfres o ymweliadau i Gymru. Yr oedd yna sôn fod Davitt am

⁹⁴ *Werin* (18 Medi 1886).

⁹⁵ *Werin* (Chwefror 1888).

⁹⁶ J. E. Vincent, *Letters from Wales: A Republication, by Permission, of a Series of Letters in the 'Times' Dealing with the State of Wales in Especial Relation to the Land, the Church, and the Tithe* (Llundain, 1889), tt. 8-9.

⁹⁷ LIGC, Dyddiadaur D. Lloyd George am y flwyddyn 1886, t. 22.
<http://www.gtj.org.uk/en/small/item/GTJ26444>.

ymweld â Chymru ym 1887 pan oedd 'Rhyfel y Degwm' wedi gwir ddechrau, ond dengys ni ddaeth ddim o hyn.⁹⁸

Wrth bori drwy'r gwahanol ffynonellau, gellir cytuno fod y gweinidogion Anghydfurfiol wedi chwarae rhan amlwg yn ystod 'Rhyfel y Degwm'. Serch hynny, rhaid bod yn wylidwrus rhag rhoi gormod o bwyslais ar ddylanwad ac ymglymiad y gwŷr hyn yn ystod yr helyntion.

II.

Y Cynhyrfwyr Lleyg

Yr un mor bwysig oedd rôl y cynhyrfwyr lleyg. Yn yr holiadur a anfonodd A. G. Edwards allan i'w glerigwyr ym 1889, gofynnodd cwestiwn rhif saith am enwau a chyfeiriadau unrhyw gynhyrfwyr a oedd wedi corddi'r dyfroedd yn y plwyf. Yr oedd rhai clerigwyr yn fwy selog a manwl nag eraill wrth roddi'r manylion briodol. Er enghraifft, cawn atebion amwys megis, 'outside agitators', 'political dissenters' a 'Calvins', a all olygu gweinidogion yn ogystal â lleygwyr.⁹⁹ Ond o'r atebion a gawn, gwasgarog oedd enwau'r gweinidogion Anghydfurfiol o'i gymharu â'r enwau lleyg.¹⁰⁰ Enghraifft nodweddiadol ydyw'r holiadur a geir ar gyfer Cwm, lle enwyd Thomas Morgan; Thomas Jones; Thomas Davies; Hugh Davies a Francis Jones fel y 'chief agitators' gan y periglor.¹⁰¹ Y mae'n ddigon posibl fod nifer ohonynt yn flaenoriaid blaenllaw, gwŷr megis Thomas Jones, Hendy-gwyn ar Daf, nad oedd wedi talu ei ddegymau ers 1886 pan atafaelwyd ar ei eiddo ym 1888.¹⁰² Y 'chief agitator' yn Llanfor oedd W. J. Rowlands, Tan-y-Coed, a oedd yn Ysgrifennydd y Cynghrair Gwrth-Ddegymol yn y plwyf.¹⁰³ Ar ôl yr atafaelu yn y plwyf hwnnw ym 1889, anerchwyd y dorf gan Howel Gee a Thomas Thomas, Cynghorwr o Langwm, ac fe gafwyd cyfraniad gan Rowlands.¹⁰⁴ Nid oes sôn yn yr adroddiad am weinidog Anghydfurfiol yn annerch y dorf. Wrth ddarllen cofnodion cyfarfodydd amaethwyr ardal Dysynni, Sir Feirionnydd, nid oes yna'r un enw â'r arddodiad 'Parchg.' i

⁹⁸ *Herald Cymraeg* (12/19 Gorffennaf 1887).

⁹⁹ LIGC, SA/Tithe/1-207/Caerwys/Cerrigydrudion/Clocaenog.

¹⁰⁰ Cymerwn yn ganiataol bod absenoldeb y rhagddodiad 'Parchg.' a'r ffaith nad ydynt yn cael eu cyfeirio fel 'minister' neu 'preacher' yn arwydd mai lleygwyr oeddynt. Am enwau'r gweinidogion hynny gweler troednodiadau 30-32.

¹⁰¹ LIGC, SA/Tithe/1-207/Cwm.

¹⁰² *Cardiff Times* (4 Chwefror 1888).

¹⁰³ LIGC, SA/Tithe/1-207/Llanfor.

¹⁰⁴ *Baner ac Amserau Cymru* (3 Ebrill 1889).

gael.¹⁰⁵ Yn wir, gwŷr megis T. E. Ellis, A.S., John Parry, Llanarmon ac Owen Williams, Bodfari, oedd ffynhonnell cyngor i ffermwyr Dysynni.¹⁰⁶

Ysgrifennydd y Gynghrair yn yr ardal honno oedd Ysgolfeistr o'r enw Edwin Jones. Yn ôl ei ysgrif goffa:

During the 1870s, Mr Joseph Chamberlain was a frequent visitor and Mr Jones put him in the right path to acquire exact knowledge on the then burning question of the Disestablishment of the Church in Wales.¹⁰⁷

Yr oedd yn Rhyddfrydwr brwdfrydig ac yn Anghydfurfiwr pybyr o ogwydd Methodistaidd.¹⁰⁸ Felly, nid rhyfedd ydyw canfod ef yn taflu ei hun i'r ymgyrch gwrth-ddegymol yn Nhywyn; er nad oedd ef, fel nifer o bobl eraill a gymerodd ran cyffredinol yn yr ymgyrch hwnnw, yn talu'r degwm. Pa fodd bynnag, ym 1888 cafodd Jones dystlythyr gan oll weinidogion Tywyn (Anghydfurfiol ac Eglwysig) am ei wasanaeth i addysg yn y dre. Yr oedd llofnod y Parchg. J. Lewis, ficer Tywyn, ar y llythyr. Dyma'r gwŷr a dderbyniodd llythyr gan Jones ar ran y ffermwyr yn gofyn am ostyngiad yn eu degymau ac a ildiodd mewn sefyllfa anodd.¹⁰⁹

Rhodddwyd hwb i bŵer a dylanwad rhai o'r gwŷr mwyaf blaenllaw yn y plwyfi pan ddaethant yn Gynghorwyr Sir am y tro cyntaf ym 1889. Yr ydym eisoes wedi sôn am y gynllwynion i geisio cael dylanwad mwy 'swyddogol' ar hynt yr ymgyrch gwrth-ddegymol. Daeth John Parry, Llanarmon, ac Owen Williams yn Gynghorwyr Sir; dau ŵr blaenllaw o fewn y Gynghrair Gwrth-Ddegymol.¹¹⁰ Yn ôl W. Thomas, yr oedd yna bedwar Cynghorydd Sir ymhlith y rheini a wrthododd talu'r degwm yn y de-orllewin.¹¹¹ Ceir enghraifft ddiddorol o effaith gwrth-ddegymwyr fel cynghorwyr pan geisiodd Charles V. Stevens atafaelu yn Amlwch. Yr oedd Stevens wedi ceisio trefnu diogelwch gan yr heddlu cyn myned i Amlwch i gasglu'r degymau. Ond yn ei ôl ef:

At a meeting convened by the Police committee of the County Council (the leading Agitator upon whom we distrained being a prominent member of the Committee) a

¹⁰⁵ LIGC, Papurau Edwin Jones, 7323B; 7324B.

¹⁰⁶ LIGC, Papurau Edwin Jones, 7338C.

¹⁰⁷ Gwybodaeth anghyhoeddedig gan Mary Davies. Yr oedd Jones yn hen daid iddi.

¹⁰⁸ Ibid.

¹⁰⁹ LIGC, Papurau Edwin Jones, 7336E.

¹¹⁰ *Denbighshire Free Press* (19 Ionawr 1889).

¹¹¹ Thomas, *The Anti-Tithe Movement in Wales*, tt. 96-98.

resolution was passed that no protection should be given, and an appeal from us to the Chief Constable to accompany Mr. Stevens alone in his Brake was met with refusal. It is needless to add that the Tithe distrained for will be lost to the Commissioners.¹¹²

Ar 10 Ionawr 1890 cyrhaeddodd Stevens orsaf drên Amlwch, heb ddiogelwch, oherwydd yr oedd arweinwyr yr ardal wedi gaddo cadw'r heddwch.¹¹³ Ond yn amlwg nid oeddynt wedi llwyddo i wneud hynny, canys yr oedd agwedd y dorf yn fygythiol. Yr oedd yn rhaid i Stevens fynd yn ôl ar y trên, ac wrth wneud hynny dywedodd:

As the train moved out of the station, one of the most influential of the committee, and a County Councillor, and a member of the Police Committee, rushed at the carriage in which my clerk and interpreter were seated, banged his stick on the door and swore at them. Since this last attempt I have been again in communication with the Chief Constable, but under the instructions of the Police Committee, among whom are some the persons distrained upon, he refuses all help, and he himself declines to accompany me.¹¹⁴

Trown yn awr i edrych ar ambell i gynhyrfwr yn fanylach. Ceir hanes byr rhai o'r cynhyrfwyr hyn yng ngholofn, 'Y mae sôn amdanynt' yn *Papur Pawb*. Gan aros yn Sir Fôn, cawn hanes R. R. Parry, Brynala, a oedd yn Fedyddiwr amlwg ar yr ynys. Cyflawnodd ysgrifenyddiaeth Cymanfa Ganu Bedyddwyr Môn ac Ysgolion Sul Bedyddwyr Môn, ac yn ôl y papur:

Y mae wedi arfer cymeryd rhan lled flaenllaw gyda gwleidyddiaeth. Gwnaeth wasanaeth anmhrisadwy ynglyn a helynt y degwm yn Heneglwys a Bodwrog. Trwy ei arweiniad doeth a gofalus ef yn benaf y llwyddwyd i gario'r helynt hwnw trwodd mor llwyddiannus. Efe ydyw is-lywydd Cymdeithas Ryddfrydol Mon eleni.¹¹⁵

Dichon felly mai Parry oedd wrth wraidd poendod y Parchg. J. Skinner Jones a'i ddegymau yn Heneglwys.

¹¹² LIGC, ECE – 70,008iv – Parts 4 and 5 – Estates Management – Tithe Rent Charge – Distraints in Wales: Smiths and Gore i'r Dirprwywyr (6 Mawrth 1890).

¹¹³ Am rôl rhai o gynghorwyr Sir Fôn yn ystod 'Rhyfel y Degwm' gw. W. P. Griffith, *Power, Politics and County Government in Wales: Anglesey 1780-1914* (Llangefni, 2006), tt. 261-262; t. 282; t. 340.

¹¹⁴ LIGC, ECE – 70,008iv – Parts 4 and 5 – Estates Management – Tithe Rent Charge – Distraints in Wales: Charles V. Stevens i Smiths and Gore (3 Mawrth 1890).

¹¹⁵ *Papur Pawb* (26 Ionawr 1901).

Ffynhonnell: Papur Pawb (26 Ionawr 1901)

Tebyg mai'r tylwyth Gee oedd y cynhyrfwyr amlycaf a hanodd o dre Dinbych. Ond yr oedd gŵr arall, cyfaill heb os, a chwaraeodd ran amlwg yn ystod 'Rhyfel y Degwm'. Yr oedd Gwilym Parry yn Ryddfrydwr selog, ac ym 1880 dewiswyd ef i edrych ar ôl rhestr etholiad bwrdeisdref Dinbych, cyn mynd ymlaen i fod yn ysgrifennydd Cymdeithas Ryddfrydig Dinbych.¹¹⁶ Ym 1885 etholwyd ef yn ysgrifennydd Cymdeithas Ryddfrydig Gorllewinbarth sir Ddinbych, a dengys mai fel rheolwr a goruchwyliwr mewn gwahanol etholiadau yr amlygwyd ei ddoniau orau.¹¹⁷ Honnodd *Papur Pawb*, 'Daeth Mr Parry i sylw nodedig yn amser Rhyfel y Degwm. Yr oedd yn un o ysgrifenyddion y Cynghrair Gwrth-ddegymol, ac aeth drwy yr oll o'r cadgyrch cyffrous hwnw'.¹¹⁸

¹¹⁶ *Papur Pawb* (25 Ebrill 1899).

¹¹⁷ *Ibid.*

¹¹⁸ *Papur Pawb* (25 Ebrill 1899).

Ffynhonnell: Papur Pawb (25 Ebrill 1899)

Tra gellid ystyried Alun Lloyd fel ‘y cyfreithiwr’ yn y gogledd, heb os Ifor Evans oedd ‘y cyfreithiwr’ yn y de-orllewin.¹¹⁹ Yr oedd Evans yn Anghydfurfiwr ac yn Rhyddfrydwr eiddgar, felly nid syndod mae’r cwmni cyfreithiol Meistri Asa ac Ivor Evans a ddefnyddiwyd gan Bwyllgor Amddiffynnol Ffermwyr De Cymru (a oedd yn gysylltiedig â Chynghrair Rhyddfrydig De Cymru) i amddiffyn gwrth-ddegymwyr de Cymru.¹²⁰ Mae’n werth nodi mai Evans oedd cyfreithiwr Pegi Lewis.¹²¹ Yr oedd hefyd yn berchen fferm o’r enw Danyrallt ym mhlwyf Cilgerran, ac ym 1891 cawn hanes o Robert Lewis yn ceisio atafaelu am y swm o £5 yno.¹²² Ym 1894 etholwyd Evans (fel yr ymgeisydd Rhyddfrydig) yn unfrydol fel Maer Aberteifi, sydd yn dangos y fath o ddylanwad a statws oedd gan gynifer o’r

¹¹⁹ Gw. yr adran nesaf am fwy o wybodaeth ar Alun Lloyd.

¹²⁰ *Papur Pawb* (8 Rhagfyr 1894); Am restr o’r achosion gw. Thomas, *The Anti-Tithe Movement in Wales*, tt. 92-93.

¹²¹ *South Wales Daily News* (15 Mawrth 1890). Gw. hefyd, *South Wales Daily News* (27 Tachwedd 1889); *Cardiff Times* (14 Rhagfyr 1889); *South Wales Daily News* (18 Hydref 1890);

¹²² *Carmarthen Journal* (14 Awst 1891).

cynhyrfwyr gwrth-ddegymol yng Nghymru erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg.¹²³

Darlun 7.6 Ifor Evans, Maer Aberteifi

Ffynhonnell: Papur Pawb (8 Rhagfyr 1894)

Er pwysigrwydd y gwŷr uchod ac eraill o’u tebyg, yr oedd yna ddau gynhyrfwr a oedd yn sefyll allan ymysg y gweddill. Yr oedd *Y Cymro* o’r farn:

Heb y cynhwrf gwrth-ddegymol yn y Gogledd o dan arweiniad John Parry o Lanarmon, a’r cynhwrf cyffelyb yn sir Aberteifi o dan arweiniad Dr Enoch Davies, mae yn amheus genym a fuasai Mesur Dadgysylltiad yr Eglwys yn Nghymru wedi cael ei ddwyn ger bron ein Senedd o gwbl.¹²⁴

Dichon fod y datganiad uchod braidd yn ysgubol. Ond wedi dweud hynny, yr oedd Parry ac Evans yn sefyll allan o ran eu gweithgarwch yn ystod ‘Rhyfel y Degwm’. Dechreuwn drwy edrych ar y blaenaf yn gyntaf.

¹²³ *South Wales Daily News* (7 Tachwedd 1894).

¹²⁴ *Y Cymro* (10 Rhagfyr 1896).

Hyd yn oed cyn marwolaeth John Parry ym 1897 yn 61 oed, fe alwodd *Y Werin* ef yn, ‘Arwr Rhyfel y Degwm’.¹²⁵ Mewn drafft o’i feddargraff ym meddiant Tom Ellis, galwodd Ellis y gŵr o Llanarmon yn ‘Arwr Rhyfel y Degwm’, yn ogystal â sawl gohebydd yn *Y Faner* yn y blynyddoedd wedyn.¹²⁶ Ym mynwent Capel y Methodistiaid yn Llanarmon y mae yna gof golofn iddo, gyda’r geiriau isod:

EGLWYS RYDD A GWLAD RYDD/ Y / GOLOFN HON / A / GODWYD / GAN /
WLADWYR CYMRU / ER COF AM / JOHN PARRY / LLANARMON / ARWR /
RHYDDID GWLADOL A CHREFYDDOL/GANWYD GORPHENAF 24, 1835 /
BU FARW MEHEFIN 3, 1897.

Y mae’r tystebau hyn yn eu hunain yn dangos fod Parry wedi ennill edmygedd nifer o’i gyd-wladwyr yn y maes gwleidyddol, a’i rôl yn ystod helyntion y degwm oedd yn bennaf gyfrifol am hynny.

Daeth Parry yn ffigwr amlwg o’r dechrau pan siaradodd i dyrfa o bobl yn Llanarmon yn Iâl ym mis Awst 1886.¹²⁷ Yn wir, dywedir ni thalodd ef y degwm o 1886 hyd at ei farwolaeth; cyfnod o dros ddegawd.¹²⁸ Cawn ef yn dal i achosi poendod i’r Parchg. Evan Evans cyn hwyred â 1896. Yn yr achos llys hwnnw dywedodd Parry nad oedd am dalu ar, ‘sail egwyddor’.¹²⁹ Yr hyn sydd yn gwneud Parry yn unigryw ydyw’r ffaith fod ef wedi traethu o barthed y degwm ar hyd a lled Cymru. Yn niwedd mis Rhagfyr 1886 cawn ef yn dweud wrth ffermwyr ardal Abergele i ‘sefyll fel un’ yn erbyn talu’r degymau tuag at yr Eglwys.¹³⁰ Yr oedd ffermwyr ardal Tywyn, Sir Feirionnydd, yn benderfynol i geisio cael Parry i ddyfod yno i draethu ynghylch y degymau, ‘Penderfynwyd fod cais etto i’w anfon at Mr. John Parry, Llanarmon yn ei wahodd i fod yn bresennol yn nghyfarfod nesaf y gymdeithas, ac i annerch y Gymdeithas ac hefyd cyfarfod cyhoeddus yn yr hwyr’.¹³¹ Cafwsant eu dymuniad, canys yn ystod haf 1887 daeth Parry i annerch cyfarfod ym

¹²⁵ *Y Werin* (28 Mehefin 1890).

¹²⁶ LIGC, Papurau J Herbert Lewis: D27/6: Draft epitaph on monument to John Parry Llanarmon. In the writing of Tom E. Ellis; *Baner ac Amserau Cymru* (6 Ionawr 1900; 16 Ebrill 1902).

¹²⁷ Price Jones, ‘Rhyfel y Degwm’, t. 79.

¹²⁸ William Williams, ‘The Parry, Llanarmon, Library’, *National Library of Wales Journal*, cyf. 1 rhif.4. (Gaeaf, 1914), tt. 219-220.

¹²⁹ *Y Cymro* (8 Hydref 1896).

¹³⁰ *Abergele and Pensarn Visitor* (11 Rhagfyr 1886).

¹³¹ LIGC, Papurau Edwin Jones 7323B (25 Chwefror 1887).

mhentref Abergynolwyn (7 milltir i ffwrdd o Dywyn).¹³² Erbyn hyn yr oedd ef wedi cyhoeddi'i erthygl 'Helynt y Degwm' yn y *Traethodydd*.¹³³

Yn ystod mis Ionawr 1888 ymwelodd, 'y câd-flaenor gwrth-ddegymol' (fel y gelwid Parry gan y *Faner* erbyn hyn) wahanol rannau o Geredigion. Y mae'n rhaid fod Parry wedi creu argraff ffafriol ymysg trigolion y sir oherwydd cyhoeddodd Y *Faner* ddyddiadau'r holl lefydd yn y de-orllewin lle y bwriadai siarad yn ystod mis Mehefin 1888: Mehefin 11 1888, Aberystwyth; 12 Mehefin, Penbryn; 13 Mehefin, Troed-yr-aur; 14 Mehefin Llanllwchaiarn; 15 Mehefin, Aberaeron. Ar ddiwedd yr hysbyseb dywedyd, 'Drwg ganddo nas gall hebgor ond y nosweithiau uchod. Yr oedd amryw fanau eraill yn y sir hon (Aberteifi) wedi dymuno ei gael ar yr ymweliad hwn. Ond yr wyf yn deall nas gall roddi rhagor o amser yn awr. Ond daw etto os gall. Y Trefnwr'.¹³⁴ Ym 1889 cawn Parry yn siarad yng Nghapel yr Undodiaid, Cwrt Newydd, ger Llanybydder ynghylch y degymau.¹³⁵ Serch hynny, y mae yna reswm i amau na chafodd groeso gwresog ym mhobman. Yn ôl periglwr y Drenewydd, daeth Parry i'r ardal i geisio 'cynhyrfu', ond, 'he had a cold reception and never came back'.¹³⁶

Ni chyfyngwyd teithiau John Parry i Gymru. Gydag ymweliad Michael Davitt i Gymru ym 1886, T. E. Ellis yntau yn mynd i'r Iwerddon ym 1887 a Michael O'Brien yn dyfod i Flaenau Ffestiniog yn ystod Hydref 1888, nid oedd ymweliad cynhyrfwr o Gymro yn myned i'r Iwerddon mor allan o'i le'r pryd hwn.¹³⁷ Yr oedd Parry wedi bod mewn damwain difrifol yn ystod mis Chwefror 1888, ond yr oedd wedi gwella digon erbyn haf y flwyddyn honno i ymweld âg Iwerddon (ynghyd â grŵp bach o gyfoedion).¹³⁸ Cymerodd gŵr o'r enw Fred Llewellyn-Jones y cyfle i ymuno â hwy, ac ar y daith sylwodd, 'The foremost member of the party was Mr John Parry, of Llanarmon, the president of the Welsh National League, who on the journey was constantly relieving his mind by giving vent to expressions not very

¹³² *Y Dydd* (10 Mehefin 1887).

¹³³ John Parry, 'Helynt y Degwm', *Y Traethodydd* (1887), tt. 45-53.

¹³⁴ *Baner ac Amserau Cymru* (6 Mehefin 1888). Am adroddiad o ymweliad Parry i Gapel y Twr Gwyn, Troed-yr-aur Gw. *Baner ac Amserau Cymru* (23 Mehefin 1888).

¹³⁵ *Carmarthen Journal* (14 Mehefin 1889).

¹³⁶ LIGC, SA/Tithe/1-207/Newtown.

¹³⁷ Ellis yn yr Iwerddon: Dulun (8 Medi 1887); Cahir (9 Medi 1887); Mitchelstown (9 Medi 1887); Cork (10 Medi 1887). *Freeman's Journal* (9 a'r 10 Medi 1887); *South Wales Daily News* (10 a'r 12 Medi 1887); *Baner ac Amserau Cymru* (14 Medi 1887).

¹³⁸ *Baner ac Amserau Cymru* (18 Chwefror 1888).

complimentary to British rule in Ireland ...'¹³⁹ Adlewyrchwyd hyn yn y gyfres o erthyglau gan Parry ar 'Yr Iwerddon' wedi iddo ddychwelyd i Gymru, gan ddatgan ei gefnogaeth frwd i Hunanreolaeth i'r Iwerddon.¹⁴⁰

Llun 7.7 John Parry, Llanarmon

Ffynhonnell: Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Fel Parry, daeth Dr Enoch Davies, Llandysul, yn gynghorwr sir ym 1889 ac fe alwyd yntau yn, 'Arwr Rhyfel y Degwm' hefyd.¹⁴¹ Meddyg ydoedd o ran ei alwedigaeth, ond cymerodd ddiddordeb arbennig yng ngwleidyddiaeth ac mewn materion cyhoeddus. Etifeddodd y 'gydwybod Ymneilltuol' ynghylch materion gwleidyddol o'i dad, yr hwn, meddai'r *Cymro*, a oedd yn, 'Ymneillduwr a Rhyddfrydwr a ystyrir yn dra eithafol yn yr oes hono. Efe oedd arweinydd yr ardal yn y gwrthwynebiad i dalu y Dreth Eglwys yn y cyfnod hwnw'.¹⁴² Cyfeiriwyd yn gynharach at ymweliad Davitt i Geredigion i gefnogi cais Bowen Rowlands yn ei

¹³⁹ *Cardiff Times* (25 Awst 1888).

¹⁴⁰ *Baner ac Amserau Cymru*, 'Yr Iwerddon': Erthygl I (5 Medi 1888); Erthygl II (12 Medi 1888); Erthygl III (19 Medi 1888); Erthygl IV (26 Medi 1888); Erthygl V (3 Hydref 1888); Erthygl VI (10 Hydref 1888).

¹⁴¹ *Y Cymro* (10 Rhagfyr 1896).

¹⁴² *Ibid.*

ymdrech i ennill y bleidlais yno. Pa ddylanwad gafodd Davitt ni ellir fod yn hollol siŵr, ond yr oedd *Y Cymro* o'r farn mae Davies, yn anad neb arall, a sicraodd lwyddiant Bowen Rowlands yn y rhan deheuol o'r sir.¹⁴³

Yn sicr ei ymdrechion yn ystod 'Rhyfel y Degwm' oedd yn bennaf gyfrifol am iddo ddod i amlygrwydd ar y llwyfan gwleidyddol. Honnodd y *South Wales Daily News*, 'So great was his influence that in southern Cardiganshire especially dozens of freeholders embraced the "opposition doctrine," and became martyrs for conscience' sake'.¹⁴⁴ Yn wir, daeth 'cynhyrfu' yn swydd lawn amser i Evans nes gorfodwyd ef i roi'r gorau iddi fel meddyg.¹⁴⁵ Efô oedd yn bennaf gyfrifol am sefydlu Cronfa Amddiffynnol Ffermwyr De Cymru cyn i Gynghrair Rhyddfrydig y De gymryd y cyfrifoldeb, yn ogystal ag am areithiau hyd a lled y de.¹⁴⁶ Dywedir mai yn un o'r cyfarfodydd hyn y daliodd ef oerni a oedd yn gyfrifol yn y pendraw am ei farwolaeth.¹⁴⁷

Gan fod Evans yn Ynad Heddwch yn ardal Penbryn ac yn aelod o'r Cydbwyllgor Sefydlog adeg yr helyntion, fe farnwyd ef gan rai am 'gefnogi gwrthryfel'. Ond yn ôl y *Cymro*, 'dylid cofio hyn, ei fod bob amser yn cynghori y gwrthdegywyr i gyfyngu eu hunain i foddion cyfansoddiadol. Ni chynghorai hwynt i beidio talu degwm o gwbl, ond i beidio gwneud hynny ond o dan wrthdystiad pendant yn erbyn yr anghyfiawnder'.¹⁴⁸ Y cwbl y gallai Evans ac arweinwyr eraill ei wneud oedd datgan eu safiad 'rhesymol' hwy o sut y dylid mynd ati i wrthod talu'r degymau. Ond yr oedd ymddygiad y dorf ar ddiwrnodau'r atafaelu a'r arwerthiannau, mewn gwirionedd, y tu hwnt i'w rheolaeth.

Cwtogwyd gweithgareddau Evans gan salwch. Credodd y *South Wales Daily News*, 'In his absence they [ffermwyr] were like sheep without a shepherd'.¹⁴⁹ Erbyn dechrau 1892 yr oedd cyfreithiwr Cymdeithas Amddiffynnol y Clerigwyr, Aberteifi, o'r farn bod y gwrthwynebiad yn y de-orllewin yn pallu.¹⁵⁰ Ond gwyddom fod yr

¹⁴³ *Y Cymro* (10 Rhagfyr 1896).

¹⁴⁴ *South Wales Daily News* (4 Rhagfyr 1896).

¹⁴⁵ *Y Cymro* (10 Rhagfyr 1896).

¹⁴⁶ *South Wales Daily News* (4 Rhagfyr 1896); Areithiodd ef gyda'r Parchg. W. Thomas, Whitland, yn Llanpumsaint a Burry Port ym 1889: *Cambrian News and Merionethshire Standard* (22 Tachwedd 1889); *South Wales Daily News* (23 Tachwedd 1889).

¹⁴⁷ *South Wales Daily News* (4 Rhagfyr 1896).

¹⁴⁸ *Y Cymro* (10 Rhagfyr 1896).

¹⁴⁹ *South Wales Daily News* (4 Rhagfyr 1896).

¹⁵⁰ *Carmarthen Journal* (1 Ionawr 1892).

anghydfod yno, neu ym Mhenbryn o leiaf, wedi ymlwybro ymlaen nes 1895. Pan fu farw Evans yn 1896, yn 52/53 mlwydd oedd, cafodd angladd sylweddol, gyda gorymdaith o dros filltir yn ôl un papur newydd.¹⁵¹ Darllenwyd lythyrau gan bobl nodedig yr ardal a thu hwnt, gan gynnwys S. T. Evans, A.S., a J. Lloyd Morgan, A.S.¹⁵²

Llun 7.8 Dr. Enoch Davies, Llandysul

Ffynhonnell: South Wales Daily News (4 Rhagfyr 1895)

III.

Merched a Phrotest

Erys rôl merched yn ystod ‘Rhyfel y Degwm’ yn rannol guddiedig o fewn hanesyddiaeth y pwnc.¹⁵³ Nid ydyw hyn yn syndod, canys mai dim ond yn yr ugain mlynedd diwethaf y mae erthyglau a llyfrau ar hanes menywod yng Nghymru (ac yng ngwledydd eraill) wedi gwir flodeuo.¹⁵⁴ Yn ddiweddar y mae Rhian E. Jones a Paul O’Leary wedi crynhoi'r heriau sydd yn gwynebu haneswyr wrth geisio

¹⁵¹ *South Wales Daily News* (8 Rhagfyr 1896).

¹⁵² *South Wales Daily News* (8 Rhagfyr 1896).

¹⁵³ Gw. tn. 5.

¹⁵⁴ Gw. y rhagarweiniad, ‘Two Decades of Development: Introduction to the New Edition’ yn John, (gol.) *Our Mother’s Land*, am arolwg cyffredinol o’r gweithiau mwyaf pwysig sydd yn delio â hanes menywod yng Nghymru hyd yn hyn.

integreiddio profiadau menywod i'r naratif ehangach.¹⁵⁵ Drwy geisio plethu'r adran hon â'r astudiaeth yn gyffredinol, y mae'n bosib ychwanegu ac ehangu'r naratif cyfredol ac osgoi'r ddelwedd o arwahanrwydd rhwng merched a dynion.

Delir yma gyda'r cysyniad o 'sfferau ar wahân' neu 'cwlth y cartref', fel y trafodwyd yng nghwaith Rosemary Jones.¹⁵⁶ Yn ei hanfod dyma gysyniad a glodforwyd gan ddiwylliant 'parchus' Anghydfurfiaeth yng Nghymru. Ynghyd â sffêr y tŷ yr oedd wrth gwrs 'sffêr' y capeli a'r eglwysi. Yn sicr yr oedd crefydd drefniadol yn apelio at liaws o fenywod, canys yn aml iawn y capel neu'r eglwys oedd yr unig sefydliad cyfagos y gellid myned iddo'n eithaf rhwydd i gymdeithasu â chymdogion a chyfoedion (boed ar y Sul neu'n ystod cyfarfodydd nos yn ystod yr wythnos). Yn aml iawn fe gyflogwyd menywod i lanhau'r capeli. Er enghraifft, fe dalwyd £1 i Elizabeth Roberts, Catherine Williams a Martha Jenkins am lanhau capel y Methodistiaid yn Llanfihangel Glyn Myfyr.¹⁵⁷ Talwyd oddeutu £2 yng Nghapel y Methodistiaid, Garn Fadryn, Llyn.¹⁵⁸ Gan edrych ar gofnod arall yn llyfr taliadau'r capel hwnnw, gwelir ym 1891 bod swm o £3.17.0 wedi'i dalu i Ellen Jones, Tanygrisiau, am fwyd y pregethwyr.¹⁵⁹ Cofnodion digon dibwys gellir dadlau, ond y maent yn dangos y fath o weithgareddau a luniodd y cysylltiad rhwng merched â'r Capeli, ac yn wir, teuluoedd â chapel penodol.

Arwyddocaol hefyd ydyw'r ffaith mai menywod oedd ymhlith y cefnogwyr mwyaf brwdfrydig yn niwygiad Evan Roberts rhwng 1904-05.¹⁶⁰ Ar y naill law gellid ystyried y diwygiad fel y symudiad arwyddocaol olaf o dduwioldeb a cheidwadaeth gymdeithasol yng Nghymru. Er y cyfleoedd cymdeithasol a gynigwyd gan y capeli i fenywod, nid oedd trefniadau'r cyrff Anghydfurfiol yn gwbl ddemocratig. Ni chaniatawyd fod merched i'w hethol yn flaenoriaid nac yn weinidogion.¹⁶¹ Yr oedd y 'ffiniau enwadol' yn ddigon pendant i roddi bod i'r arfer o

¹⁵⁵ Rhian E. Jones, *Petticoat Heroes: Gender, Culture and Popular Protest in the Rebecca Riots* (Caerdydd, 2015); Paul O'Leary, 'Masculine histories: gender and the social history of modern Wales', *Cylchgrawn Hanes Cymru*, cyf. 22 (2004), tt. 252-277.

¹⁵⁶ Gw. tn 5.

¹⁵⁷ LIGC, MS 19174A, Llanfihangel C. M. Chapel Accounts, 1859-1872.

¹⁵⁸ Bangor, Archifdy Prifysgol Bangor [APB], BMSS/4155, Llyfr y Trysorydd Capel Newydd, Nefyn, 1881-1882.

¹⁵⁹ Ibid.

¹⁶⁰ Am asesiad diweddar gweler y bennod, 'Y Ferch' yn Anna Lluan Gruffudd, 'Pileri'r Chwedloniaeth: Creu ac Ail-greu Diwygiad Crefyddol 1904-05 yng Nghymru yn ei Ganrif Gyntaf' (Heb ei gyhoeddi, Traethawd Doethuriaeth, Prifysgol Caerdydd, 2010), tt. 120-153.

¹⁶¹ Tim Williams, 'Language, religion, culture', yn Trevor Herbert a Gareth Elwyn Jones (gol.), *Wales, 1880-1914* (Caerdydd, 1988), tt. 82-83; Rosemary Jones, 'Sfferau ar wahân?': Menywod, Iaith

annog y wraig i ymuno âg enwad ei gŵr ar ei phriodas. Ond lle y cafwyd ddynes benderfynol yr oedd yn bosib iddi oresgyn y norm cymdeithasol hwn.¹⁶² Yr oedd y cylchgronau Anghydfurfiol Cymraeg i ferched, megis *Y Gymraes*, yn hyrwyddo'r ddelwedd o'r 'Gymraes ddelfrydol'; delwedd a oedd yn adwaith i feirniadaeth llym y Llyfrau Gleision ar foesoldeb Merched Cymreig. Ys dywedodd Sian Rhiannon Williams, '... the Nonconformist ideal, while eulogizing the respectable and virtuous 'Cymraes', also confined her to her separate sphere in the home and within the chapel'.¹⁶³

Ar y llaw arall, nododd Anna Lleuan Gruffudd, '... mae gweithgarwch merched yn arwyddocaol o safbwynt y modd y democrateiddiwyd cymuned y capel o dan ddylanwad y mudiad'.¹⁶⁴ Oherwydd trefniadau newydd y cyfarfodydd, yr oedd cyfle i bawb i siarad. Hyd yn oed erbyn yr 1890au, yr oedd y cynnydd aruthrol yn y nifer o Gymdeithasau Rhyddfrydig i Ferched yng Nghymru wedi galluogi menywod i gyfrannu yng ngwleidyddiaeth Gymreig.¹⁶⁵ Os oedd y 'sfferau' hyn yn bodoli, nid oeddynt yn rhai anhyblyg. Gellir dadlau, fel y gwnaiff Rosemary Jones, bod merched oes Fictoria yn, 'arbennig o wydn a dyfeisgar', drwy symud yn ôl ac ymlaen rhwng dau fodel o fenywdod; y ferch 'barchus' yn ôl safonau'r amser, a'r ferch gydag elfen o awdurdod.¹⁶⁶ Dichon ni cheir enghraifft gwell o hyn nag yn ystod 'Rhyfel y Degwm'.

Yr oedd 'rough music', fel y gwyddom, yn elfen amlwg o fewn protestiadau'r degwm, ac fe chwaraeodd merched ran amlwg yn y miri. Pan ddaeth yr arwerthwr i Lanrhystud fe groesawyd ef gan hanner dwsin o ferched ifanc yn curo tuniau a phwcedi.¹⁶⁷ Yn Llangolman yr oedd merched a phlant yn chwythu cynn, tra'n Nerwen fe adroddwyd fod y merched yno'n cario tuniau o bob maint a siâp ac yn eu curo'n ddi-dor.¹⁶⁸ Ceir hanesyn o ardal Brynccrug, ger Tywyn, am ddynes ifanc a

a Pharchusrwydd yng Nghymru Oes Victoria' yn Geraint H. Jenkins (gol.), *Gwnewch Bopeth yn Gymraeg: Yr Iaith Gymraeg A'i Pheuoedd, 1801-1911* (Caerdydd, 1999), t. 197.

¹⁶² R. Tudur Jones, *Ffydd ac Argyfwng Cenedl: Hanes Crefydd yng Nghymru, 1890-1914* (Abertawe, 1981), t. 67.

¹⁶³ Sian Rhiannon Williams, 'The true 'Cymraes': images of women in women's nineteenth-century Welsh periodicals', yn Angela V. John (gol.), *Our Mother's Land*, t. 91

¹⁶⁴ Gruffudd, 'Pileri'r Chwedloniaeth', t. 122.

¹⁶⁵ Ursula Masson, *For Women, for Wales and for Liberalism: Women in Liberal Politics in Wales, 1880-1914* (Caerdydd, 2010), pennod gyntaf.

¹⁶⁶ Jones, "Sfferau ar wahân"?, t. 205.

¹⁶⁷ *Aberystwyth Observer* (28 Ionawr 1892).

¹⁶⁸ *Pembroke Herald* (3 Ebrill 1891); *Pontypridd Chronicle/Times* (2 Mai 1890).

oedd yn dioddef o ddarfodedigaeth. Pan ddaeth swyddogion yr arwerthu i'w gweld, byddarwyd hwy gan sŵn y ddynes yn taro tin. Honnwyd fe wellodd y ddynes wedi hynny.¹⁶⁹ Yn ogystal â churo tuniau yr oedd merched hefyd yn gweiddi ar y swyddogion atafaelu. Yn Aberaeron yr oedd y merched ymhlith y dorf yn flaenllaw iawn yn hyrddio sylwadau dirmygus at y bagad gwerthu, ac ym Mryncrug, ger Tywyn, yr oedd gwragedd yr ardal yn gweiddi o ddrysai eu tai.¹⁷⁰ Yn Llangwm yr oedd Sioned Tanty'r Ffordd a'i hwyres yn chwifio eu siolau ar yr orymdaith i Gorwen.¹⁷¹

Rhyfygus fyddai meddwl mai dyma oedd ffin eithaf ymddygiad merched yn ystod y protestiadau. Yng Ngwaunysgor yr oedd yn rhaid i'r heddlu ymyrryd i achub yr arwerthwr rhag mintai o ferched cynhyrfus a oedd yn ei fygwth ef â thrais.¹⁷² Yn ôl un adroddiad yn y wasg yr oedd oddeutu 50-60 o ferched wedi ymgynnull yn Llanddewi Aberarth, '... and they were by no means the most easily-managed portion of the crowd'.¹⁷³ Disgrifiwyd grŵp arall o ferched fel 'Amasoniaid' wrth iddynt geisio taflu beili i mewn i bwl o ddŵr.¹⁷⁴ Cyfeiriodd Thomas Thomas, Llangwm, at 'wrth-ddegymwraig' yn taflu wŷ ar heddeidwad ger Tŷ Nant, ac yn ddiweddarach yn y diwrnod yn taflu gyda, 'bloedd a nerth', potel o wisgi a oedd wedi disgyn allan o boced un o'r bagad.¹⁷⁵

Wrth edrych ar dabl 7.1, gwelir mai merched oedd 11 allan o 106 (10.3%) o bobl a wysiwyd o flaen y llys ynghylch trosedd a oedd yn gysylltedig â chasglu'r degwm. Ymosodiadau o ryw fath oedd natur y cyhuddiadau yn eu herbyn. Wrth gwrs, nid ydyw hyn yn golygu bod yr ymosodiadau hyn oll yn ddifrifol eu natur. Er enghraifft, pan geisiodd Mary Ann Havard dynnu dillad Robert Lewis oddi arno, cyhuddwyd hi o 'ymosod' arno. Wrth gwrs, gellir awgrymu nad ydyw'r cyfanswm o 106, sydd yn cynnwys dynion a merched, yn ffigwr afresymol o uchel os amcangyfrif fod rhai miloedd o bobl wedi ymgynnull ar hyd a lled Cymru rhwng 1886-1895 adeg diwrnodau'r atafaelu a'r arwerthiannau.

¹⁶⁹ *Cambrian News and Merionethshire Standard* (13 Rhagfyr 1889).

¹⁷⁰ *Ibid.*; *Cambrian News and Merionethshire Standard* (14 Rhagfyr 1888).

¹⁷¹ Menna H. Cunningham, 'Y Gymdeithas Amaethyddol yn Nyffryn Clwyd (1880-1900), (Traethawd MA. anghyhoeddedig, Prifysgol Cymru, Bangor, 1977), t. 195.

¹⁷² *Cardigan Observer* (5 Hydref 1889).

¹⁷³ *Cambrian News and Merionethshire Standard* (16 Rhagfyr 1887).

¹⁷⁴ Jones, *Women, community and collective action*, t. 39.

¹⁷⁵ LIGC, MS. 19752E, Llythyrau Helynt y Degwm, Thomas Thomas, tt. 4-5, 9.

Tabl 7.1 Rhestr o bobl a wysiwyd o flaen y llys ynghylch â throsedd neu droseddau a oedd yn gysylltiedig â chasglu'r degwm yng Nghymru, 1886-1895

Sir	Enw	Plwyf	Dyddiad yr	Natur y Cyhuddiad	Canlyniad
Ceredigion					
	John Jones	Llanrhystyd	29 Tachwedd 1888	Rhwystro'r ffordd	Dirwy o o 10s a chostau
	Daniel Morgans	eto	eto	eto	eto
	John Pugh	eto	eto	Ymosodiad	eto
	John Davies	eto	eto	eto	eto
	Humphrey Morgans	eto	eto	Rhwystro'r ffordd	eto
	Henry Lynne	Troed-yr-Aur	2 Mai 1889	Ymosodiad	Dirwy o £1 a chostau
	Hannah Richards	Llanddewi Aberarth	8 Rhagfyr 1887	Ymosodiad	Dirwy o £2 a chostau
	Evan Evans (o dan 18) (Gwas Fferm)	Bangor-Teifi/Llandysul	26/27 Ebrill 1892	Ymosodiad	Dirwy o £1 a chostau (dewis carchar am fis yn lle)
	David Griffiths (o dan 18) (Gwas Fferm)	eto	eto	Ymosodiad	Dirwy o 10s a chostau
	Enoch Jones (o dan 18)	eto	eto	Ymosodiad	Dirwy o 10s a chostau (yn y carchar am 3-4 diwrnod cyn talu)
	Hannah Evans (oddeutu 28)	eto	eto	Ymosodiad	Gwrthodir yr achos
	Thomas Lewis (Solicitor's Clerk)	Aberteifi	15 Mehefin 1891	Ymosodiad	Gwrthodir yr achos
	James Ladd (Bragydd)	eto	eto	eto	eto
	Daniel Bowen (Ffermwr)	Crymych	19 Mehefin 1891	Ymosodiad	Gwrthodir yr achos
	John Bowen (Ffermwr)	eto	eto	eto	Dirwy o £3 a chostau
	Thomas Morris (Gof)	eto	eto	eto	Dirwy o £3 a chostau
	Thomas Sandbrook (Ffermwr)	eto	eto	eto	Gwrthodir yr achos
	David Sandbrook (Ffermwr)	eto	eto	eto	Gwrthodir yr achos
	David Vaughan	eto	eto	eto	Dirwy o £2 a chostau
	Simon Lewis (Ffermwr)	eto	eto	eto	Gwrthodir yr achos
	David Thomas (Ffermwr)	eto	eto	eto	Gwrthodir yr achos
	Mary Anne Bowen (Merch Fferm)	eto	eto	eto	Gohiriwyd yr achos

	Thomas James	Penbryn	13 Awst 1891	Ymosodiad	Wedi'i rwymo i gadw'r heddwch
	Samuel Owens (Ffermwr)	eto	eto	eto	eto
	William Rees	Penbryn	23 Awst 1892	Ymosodiad	Dirwy o £5
	Joshua Davies	eto	eto	eto	Dirwy o £5
	Griffith Davies	eto	eto	eto	Gwrthodwyd yr achos
	James Thomas	eto	eto	eto	Gwrthodwyd yr achos
	Daniel Williams	eto	eto	eto	[?]
	Sarah Williams	eto	eto	eto	[?]
	Josiah Jones	Penbryn	18 Hydref 1892	Ymosodiad	Dirwy o £5
	John Thomas (27)	Penbryn	5 Mai 1893	Ymosodiad Cyffredin	Tri mis o Garchar a llafyr caled
	Watkin Griffiths (17)	eto	eto	Ymosodiad	Gwrthodir yr achos
	Evan Owen (Ffermwr)	Penbryn	14 Mawrth 1894	Ymosodiad	Dirwy o £1
	Richard Hughes (Rhydd-ddeiliad)	eto	eto	Annog Terfysg	Dirwy o £5
	Daniel Jones (Beili Fferm)	Bettws Evan	16 Mawrth 1894	Ymosodiad	Dirwy o £5
	John Thomas	eto	eto	eto	eto
Sir Benfro					
	John Edwards (Gwas Fferm)	Eglwyswrw	16 Chwefror 1888	Saethu Gwn	Dim digon o dystiolaeth i brofi'n euog
	Mary Ann Havard	Llanychlwydog	21 Ebrill 1891	Ymosodiad	Dirwy o £5
Sir Gaerfyrddin					
	David Thomas (20) (Labrwr)	Llangar (ger Whitland)	8 Rhagfyr 1887	Ymosodiad	Dirwy o 20s gan gynnwys costau
	John Evans (23) (Labrwr)	eto	eto	eto	eto
	John Hughes (17) (Labrwr)	eto	eto	eto	eto
	Elizabeth Thomas (65) (Gwraig)	eto	eto	eto	eto
	William Jones (32) (Ffermwr)	eto	eto	eto	eto
	Benjamin Phillips (19) (Labrwr)	eto	eto	eto	eto
	Ann Davies (49)	eto	eto	eto	eto
	Maria Nicholas (60)	eto	eto	eto	eto
	Evan Rogers (22) (Masiwn)	eto	eto	eto	eto
	Levi [?] Davies (19) (Labrwr)	eto	eto	eto	eto
	Philip Owen (22) (Labrwr)	eto	eto	eto	eto

	David Lewis (54) (Labrwr)	eto	eto	eto	eto
	John Thomas (42) (Labrwr)	eto	eto	eto	eto
	David Thomas (35) (Labrwr)	eto	eto	eto	eto
	Richard Williams (40) (Labrwr)	eto	eto	eto	eto
	Benjamin Phillips (30) (Labwr)	eto	eto	eto	eto
	David Thomas (21) (Labrwr)	eto	eto	eto	Achos wedi ei dynnu'n ôl
	Anne Davies (30) (Morwyn)	Trelech	12 Mawrth 1889	Ymosodiad	Dirwy o 12s gan gynnwys costau
	John Bowen (42) (Ffermwr)	Cilrhedyn	30 Ebrill 1889	Ymosodiad	Dirwy o 40s a chostau
	David Davies (35) (Cigydd)	eto	eto	eto	eto
Sir y Fflint					
	Edward Williams	Whitford	20 Rhagfyr 1886	Ymosodiad	Dirwy o £5
	John Roberts	Northop	8 Rhagfyr 1887	Ymddygiad Bygythiol	Wedi'i rwymo i gadw'r heddwch
	Isaac Roberts	eto	eto	eto	eto
	William Morgan	Cwm	1888	Terfysg ac Ymddygiad Bygythiol	Wedi'i rwymo i gadw'r heddwch
	John Jones	eto	eto	eto	Wedi'i rwymo i gadw'r heddwch
	John Williams	eto	eto	eto	Wedi'i rwymo i gadw'r heddwch
	Robert Jones	Gwaenysgor	16 Medi 1889	Ymosodiad	Gwrthodwyd yr achos
	Anne Parry	Gwaenysgor	1889	Ymosodiad	Diffynnydd yn ymddiheuro am yr ymosodiad
Sir Fôn					
	Robert Williams	Amlwch	27 Ionawr 1888	Ymosodiad	Gwrthodwyd yr achos Talu am ei gostau
Sir Ddinbych					
	'Merthyron y Degwm' (28) gw. tabl 2.	Llangwm	27 Mai 1887	Terfysgu	Rhwymwyd wyth ohonynt i gadw'r heddwch
	Thomas Roberts	Llangwm	18 Ebrill 1888	Ymosodiad	Dirwy o 9s a chostau
	Edward Jones	Llangwm	eto	eto	eto
	Elizabeth Roberts	Llanefydd	11 Gorffennaf 1889	Ymosodiad	Diffynnydd yn ymddiheuro a thalu costau

	Thomas Laurence Hill (Ffermwr Bonheddig)	Llandyrnog	Rhagfyr 1888	Saethu Gwn	Wedi'i rwymo i gadw'r heddwch
	Hugh Roberts (Ffermwr)	Llanefydd	31 Rhagfyr 1890	Ymosodiad	Dirwy o £1 a chostau (£3. 4s. 2c.)
	Isaac Morris (Labrwr)	eto	eto	Ymosodiad	Dirwy o £1 a chostau (£3. 4s. 2c.)
	John Williams (Ffermwr a Chynghorydd Sir)	eto	12 Ionawr 1891	Ymosodiad ac Annog Terfysg	Dirwy a chostau (£4. 19s. 5c.) Di-euog o Annog Terfysg
Sir Drefaldwyn					
	Thomas Parry	Meifod	9 Mai 1887	Rhwystro'r ffordd	Dirwy o £2 6s a Chostau
	Joseph Jones	eto	eto	Rhwystro'r ffordd	eto
	Hugh Lewis	eto	eto	Ymosodiad	Gwrthodwyd yr achos

Ffynhonnellau: Llundain, Archifdy Genedlaethol, H.O.45/9714, A.51280 - Questionnaires Relating to Charges Arising from Disturbances at Distraints for Tithe Rent-Charge; Papurau newydd y cyfnod (gweler y troednodiadau priodol ym mhennod 3 pan gyfeirir at achos llys)

Anodd iawn ydyw datgan gyda sicrwydd pam ond 10% yn unig o'r diffynyddion oedd yn ferched. Y mae Rosemary Jones yn codi pwynt diddorol wrth ddadlau bod merched wedi elwa ar fanteision eu rhyw; y rhagorfraint fenywaidd i 'ddweud y gwir' yn erbyn unigolion anghyfiawn yn eu tyb hwy.¹⁷⁶ O ganlyniad i hyn, 'efallai iddynt ar adegau deimlo bod ganddynt y grym anghenrheidiol i ymddwyn mewn ffordd a oedd hyd yn oed yn fwy afreolus ac anllad na'r dynion'.¹⁷⁷ O ran y gosbedigaeth, nid ydyw tabl 7.1 yn crybwyll bod merched wedi derbyn cosbau llai llym na'u cyd-ddiffynyddion gwrywaidd. Yn wir, gorfodwyd Mary Ann Havard i dalu'r uchafswm dirwy o £5.

Gwyddom fod canran sylweddol o ferched yn bresennol yn ystod y protestiadau, felly gellir diystyru diffyg presenoldeb merched ymhlith y 'dorf' fel y rheswm am hyn. O ran troseddolrwydd, y mae David J. V. Jones wedi dangos mai dynion oedd 4/5 o'r rheini a gafodd eu harestio a'u gwysio o flaen y llys yng Nghymru erbyn yr 1890au. Hwy hefyd oedd yn fwyaf tebygol o gyflawni troseddau treisgar, megis ymosodiadau.¹⁷⁸ Yn ogystal â hyn, yr oedd troseddu ymysg merched ar ei waethaf yn y trefi mawr drwy gydol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Stori wahanol iawn oedd hi yng nghefn gwlad Cymru. Tra bod 1 mewn pob 335 o ferched yng Nghaerdydd, Abertawe a Chasnewydd wedi'u harestio am drosedd ym 1861, yr oedd y ffigwr ar gyfer merched yn Sir Fôn, Ceredigion a Sir Faesyfed yn newid i 1 mewn pob 5,691 o ferched.¹⁷⁹

Y mae dilyn y trywydd hwn yn ddefnyddiol, ond rhaid bod yn bwylllog wrth geisio cysylltu troseddoldeb â'r elfen fwy 'eithafol' o fewn y protestiadau gwrth-ddegymol. Yn gyntaf, rhywbeth eithriadol oedd y protestiadau hyn. Oddi wrthynt y tyfodd amgylchiadau arbennig, amgylchiadau a roddodd gyfle i ferched i ymddwyn mewn modd a aeth yn groes i'r ideoleg a bennwyd arnynt. Gan mai 'brwydr' moesol oedd 'Rhyfel y Degwm', amlygodd y merched eu dig cyfiawn mewn modd na fuasent efallai wedi gwneud fel arfer yn y sffêr cyhoeddus. Y bagad atafaelu a gwerthu oedd y 'troseddwyr anfoesol' yn nhyb y gymuned leol. Dyma pam y mae'n rhaid bod yn ofalus wrth geisio mesur troseddoldeb ymysg y gwrth-ddegymwyr

¹⁷⁶ Jones, "Sfferau ar wahân?", t. 196.

¹⁷⁷ Ibid.

¹⁷⁸ David J. V. Jones, *Crime in Nineteenth-Century Wales* (Caerdydd, 1992), t. 171.

¹⁷⁹ Jones, *Crime in Nineteenth-Century Wales*, tt. 173-74.

benywaidd yn seiliedig ar droseddau mwy cyffredin; troseddau, y mae'n debyg, a ystyriwyd yn 'anfoesol' gan y gymuned.

Gresynodd rhai cyfoeswyr at ymddygiad menywod yn ystod y protestiadau. Dywedodd Mr Cree, ysgrifennydd y 'Church of England Purity Society' yn y *Carmarthen Journal*, fod 'foul-minded men' (y pregethwyr Anghydfurfiol yn nhyb y papur hwnnw), wedi annog merched Cymreig, 'to behave like the lowest of women'.¹⁸⁰ Aeth y *Journal* ymlaen i ddweud ei fod wedi gwneud ymholiadau o barthed ymddygiad menywod yn ystod arwerthiannau'r degwm ym Mhenbryn, gan ddatgan, 'The behaviour of the young women was painfully scandalous, while their language, epithets and overtures were worthy only of the most abandoned of their sex'.¹⁸¹ Cafwyd sylwadau cyffelyb yn y *Western Mail* hefyd, 'women and girls acting indecently, filling the air with filthy expressions that would shame the strumpets of ... anywhere'.¹⁸² Wrth gwrs, yr oedd y sylwebwyr ceidwadol yr un mor finiog eu barn ynghylch ymddygiad y dynion. Ond oherwydd yr ideoleg Fictorianaid hyn o'r ferch 'wasaid a pharchus', yr oedd hanesion o fenywod yn ymddwyn yn groes i'r ddelwedd penodedig yn rhywbeth mwy brawychus a thruenus i nifer o bobl.

Rhaid cofio nad oedd arweinwyr na chefnogwyr y symudiad gwrth-ddegymol yn clodfori anrhefn a thrais yn ystod yr arwerthiannau. Ys dywedodd Dunbabin, 'Situations were created in which collisions were likely; but violence as such was not planned'.¹⁸³ Serch hynny, yr oeddynt yn llawer mwy parod i gefnogi a chlodfori ymglymiad merched yn yr ymgyrch hwnnw. Mewn cyfarfod Pwyllgor Amddiffynnol Ffermwyr Anghydfurfiol De Cymru a oedd yn gysylltiedig â Chynghrair Rhyddfrydig De Cymru, dywedodd Dr Enoch Davies, 'He knew of hundreds of well-to-do farmers who were prepared to go to prison for contempt of court rather than pay tithe to the church, and many women would be found equally as determined'.¹⁸⁴ Ym 1889 soniodd y *Werin* am, 'fechgyn a merched dewr' plwyf Gwaunysgor ynghylch eu safiad o barthed y degwm.¹⁸⁵

¹⁸⁰ *Carmarthen Journal* (8 Mai 1891).

¹⁸¹ Ibid.

¹⁸² Dyfynwyd yn Jones, "Sfferau ar wahân'?", t. 196

¹⁸³ Dunbabin, *Rural Discontent*, t. 294.

¹⁸⁴ *Cardiff Times* (28 Chwefror 1891); *Cambrian News and Merionethshire Standard* (27 Chwefror 1891).

¹⁸⁵ *Y Werin* (5 Hydref 1889).

Gwyddom ychydig am oed a galwedigaeth rhai o'r rheini a wysiwyd o flaen y llys. Gwraig fferm oedd Mary Ann Havard, y mae'n bosibl mai dyma oedd Elizabeth Thomas hefyd. Disgrifiwyd hi fel 'gwraig' 65 oed o Langar. Gwyddom ychydig am gyd-ddifinyddion benywaidd Thomas hefyd. Yr oedd Ann Davies yn ddynes 49 oed ac yr oedd Maria Nicholas yn 60 oed. Dynes ifanc oddeutu 28 oed oedd Hannah Evans, ardal Bangor Teifi, a morwyn 30 oed oedd Anne Davies, Trelech. Disgrifiwyd Mary Anne Bowen, Crymych, fel merch fferm. Felly, o'r ychydig wybodaeth hyn, gellir tybio fod y merched hyn yn gysylltiedig mewn un ffordd neu'i gilydd ag amaethyddiaeth, ac yn amrywio o ran eu hoedran. Ond pwy oedd y 50-60 o ferched a ymddangosodd yn Llanddewi Aberarth? Neu'r mintai o ferched cynhyrfus yng Nghwaenysgor?

Yn Nhabl 7.2 gwelir galwedigaethau merched mewn saith lleoliad yn ystod y protestiadau gwrth-ddegymol. Y mae'r tabl yn dangos yn glir fod y rhan fwyaf o ferched yn y plwyfi hyn yn disgyn i'r golofn 'Amhenodol ac Anhysbys'; 59% yn Llanddewi Aberarth hyd at 78% yng Ngwaunysgor a Derwen. Yn ail o ran canranau ydyw'r golofn 'Gwasanaeth Domestig'; 9% yn Ngwaunysgor hyd at 26% ym Meifod a Llanddewi Aberarth. Wrth edrych drwy lawer o ddychweliadau cyfrifiadau y bedwaredd ganrif ar bymtheg ar gyfer plwyfi gwledig yng Nghymru, gwelir yn aml iawn ni lenwid y bwlch ar gyfer gwagedd neu merched fferm ynghylch eu galwedigaeth. Felly, nid ydyw'r canranau pitw a geir yng ngholofn 'Amaethyddiaeth' yn golygu mai dyma faint o fenywod oedd yn rhwymedig yn yr economi honno. Mewn gwirionedd, gellir tybio fod rhan helaeth o'r rheini a roddwyd yn y golofn 'Amhenodol ac Anhysbys' yn wragedd fferm neu'n ferched fferm.

Yr ydym wedi sôn hyd yn hyn am weithredoedd merched yn ystod y protestiadau a'u cefnogaeth weledol i'r ymgyrch gwrth-ddegymol. Ond pan ddarllenwn enwau'r unigolion a wrthododd talu'r degymau, enwau dynion ydynt gan amlaf. Gellir tybio fod eu gwagedd ar y cyfan (os oeddynt yn briod) yn cefnogi eu safiad, ond anaml iawn y ceir enwau'r ddau gyda'i gilydd. Un enghraifft pur anghyffredin ydyw'r un a roddir gan y Parchg. W. Thomas am, 'Margaret a J. Williams, Llanginnin', yn gwrthod talu'r degwm ond drwy arwerthiant.¹⁸⁶ Yn sicr mai mater o arddull y cyfnod ydoedd i enwi'r dyn, neu'n hytrach bennaeth y

¹⁸⁶ Thomas, *The Anti-Tithe Movement in Wales*, t. 97.

Tabl 7.2. Galwedigaethau merched mewn pump plwyf yng Nghymru lle gwelwyd protestio yn erbyn y degymau;
yn seiliedig ar gyfrifiad 1881.

<i>Galwedigaeth</i>	<i>Llanddewi Aberarth</i>	%	<i>Meifod</i>	%	<i>Penbryn</i>	%	<i>Derwen</i>	%	<i>Gwaunysgor</i>	%	<i>Llanrhystud</i>	%	<i>Llangolman</i>	%
Cyffredinol/Llywodraeth Leol	0	0	1	0	2	0	0	0	0	0	3	1	0	0
Proffesiynol	8	2	2	0	1	0	0	0	2	3	1	0	0	0
Gwasanaeth Domestig	109	26	105	26	105	24	19	15	6	9	35	15	15	20
Trafnidiaeth	0	0	0	0	1	0	0	0	0	0	0	0	0	0
Gwaith Masnachol	1	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
Amaethyddiaeth	14	3	7	2	28	6	5	4	1	2	26	11	6	8
Bwyd a Llety	11	3	4	1	3	1	0	0	2	3	3	1	1	1
Gwaith Tecstil a Dillad	31	7	13	3	41	9	4	3	3	5	15	6	2	3
Amhenodol ac Anhysbys	252	59	268	67	265	59	98	78	51	78	153	65	52	68

Ffynhonnell: Cyfrifiad 1881: GB Historical GIS/University of Portsmouth; Matthew Woollard (History Data Service, UK Data Archive, University of Essex (Gol.), <http://www.visionofbritain.org.uk>).

cartref/teulu, yn unig fel y diffygdalwr. Ond nid ydyw'r rhestr o'r rheini a wrthododd talu'r degymau yn hollol amddifad o enwau benywaidd. Yn ôl rhestr W. Thomas o'r bobl a wrthododd talu'r degwm yn ne Cymru rhwng 1886 a 1891, cawn yr enwau canlynol: Martha Davies, Clynfelin; Elizabeth Evans, Penbryn; Sarah Davies, Llanbadarn Trefeglwys; Ann Davies, Llanbadarn Trefeglwys; Elizabeth Jones, Llanwchhaiarn; Mary Richards, Llanboidy; Mrs. Davies, Cilrhedyn; Mary Jones, Llanfallteg; Margaret (Peggy) Lewis, Moylgrove; Mary Jones, Llanddewi Felfre.¹⁸⁶ Gwyddom mai gwraig weddw oedd Pegi Lewis, a gellir amau mai gwagedd gweddw neu ferched di-briod oedd y gweddill os dilynwn arfer y cyfnod o enwi pennaeth y cartref yn unig. Annheg fyddai crybwyll fod y merched hyn yn fwy 'gwleidyddol' neu'n fwy 'mentrus' na'u cymaryddion priod. Dichon mai'r peth pwysicaf i ystyried yma ydyw'r ffaith fod nifer o fenywod, boed yn briod, yn ddi-briod neu'n weddw, wedi cyfrannu mewn rhyw fodd i 'Ryfel y Degwm'.

Prin iawn ydyw'r enghreifftiau o gynhyrfwyr ac arweinwyr benywaidd. Cyhuddodd rheithor Manafon ddynes Iseldiraidd o'r enw Mrs. Baynard o fod yn ffigwr blaenllaw iawn yn helyntion y degwm yn y plwyf.¹⁸⁷ O bosib y mae angen mwy o waith ymchwil, ond dengys mai dynion oeddynt i gyd mwy neu lai. Rhaid felly edrych y tu hwnt i'r sffêr traddodiadol o brotestio i gael gwell syniad o'r sefyllfa. Dywedodd Ursula Masson fod cyfleoedd i fenywod i gyfrannu yn y sffêr mwy 'parchus' o wleidyddiaeth bleidiol wedi dod yn sgil rhyddfrenio'r gwahanol ddosbarthiadau cymdeithasol.¹⁸⁸ Cyd-ddigwyddodd 'Rhyfel y Degwm' â chynnydd y Cymdeithasau Rhyddfrydig i Ferched yng Nghymru. Ffurfiwyd y rhai cynharaf yn Ninbych, Bala, Caernarfon a Bangor yng nghanol yr 1880au, ond ni chyrrhaeddasant eu hanterth o ran niferoedd a threfniadaeth yng Nghymru nes ar ôl 1891.¹⁸⁹ Erbyn hynny yr oedd stêm yr ymgyrch gwrth-ddegymol yn gostwng.

Nid syndod mai yn Ninbych y sefydlwyd un o'r Cymdeithasau cyntaf, ac nid syndod ydyw canfod mai Susannah Gee (Miss Gee), sef merch Thomas Gee, oedd un o'r ffigyrau amlycaf yn y Gymdeithas honno.¹⁹⁰ Ym 1887 penderfynodd y Gymdeithas, o dan lywyddiaeth Miss Gee, i yrru nodyn o gydymdeimlad i wragedd

¹⁸⁶ Ibid., tt. 94-98.

¹⁸⁷ Brown, Sad, mad o'r bad, t. 181.

¹⁸⁸ Masson, 'For Women, for Wales and for Liberalism', t. 28.

¹⁸⁹ Masson, 'For Women, for Wales and for Liberalism', t. 27.

¹⁹⁰ Ibid., t. 28.

‘merthyron y degwm’ yn Llangwm, ynghyd â bathodyn newydd y Rhyddfrydwyr Cymreig.¹⁹¹ Yr oedd y Cymdeithasau Cymreig yn gysylltiedig â’r Cynghrair Rhyddfrydig i Ferched, ac yn y cyfarfod blynyddol ym 1892 cawn yr aelodau Cymreig yn trafod ‘Rhyfel y Degwm’ a datgysylltiad. Cynigodd Mrs. Wynford Philipps:

That the position of the Established Church in Wales is a violation of the principle of religious equality, and an injustice to the vast majority of people in Wales, who are not in communion with it. This Council is therefore of opinion that the Disestablishment and Disendowment of the Church of England in Wales should be one of the first measures of the next Parliament.¹⁹²

Rhoddodd Miss Gee ffeithiau ynghylch ‘Rhyfel y Degwm’ yng Nghwm, Sir y Fflint, a dywedodd aelodau eraill, ‘The Welsh tithe war had compelled the Tories to attempt this disease, but it had left the disease untouched. Tithes were collected with difficulty, and could not be collected at all had not the burden been shifted from the tenant to the landlord.’¹⁹³ Talodd yr aelodau Cymreig deyrnged i Tom Ellis, A.S., am ei gefnogaeth selog i’r Cymdeithasau ac i hawliau merched yn gyffredinol, cyn penderfynu, ‘As members of the Welsh Union of Women’s Liberal Associations we are pledged to do our utmost to forward the great measures of Home Rule, Disestablishment and the Enfranchisement of Women ...’¹⁹⁴

IV.

‘Merthyron y Degwm yn Llangwm’

Y mae hanes ‘merthyron’ Llangwm yn dal lle arbennig o fewn llên gwerin ‘Rhyfel y Degwm’. Ym 1987 fe osodwyd cofeb ar Bont y Glyn, fel rhan o ddatliadau canmlwyddiant helyntion y degwm yn Llangwm.¹⁹⁵ Arni fe naddwyd y geiriau hyn, ‘1887-1987, Yma yr heriodd gwŷr Llangwm orthrwm y degwm, Mai 27ain 1887’. Ond pwy oedd y ‘merthyron’? Er yr holl ffanffer ynghylch hanes y

¹⁹¹ *Cardiff Times* (30 Gorffennaf 1887).

¹⁹² *The Women’s Herald* (28 Mai 1892).

¹⁹³ *Ibid.*

¹⁹⁴ *The Women’s Herald* (29 Hydref 1892).

¹⁹⁵ Sain Ffagan, Amgueddfa Werin Cymru, ‘Dathlu Canmlwyddiant Rhyfel y Degwm yn Llangwm (27 Mai 1887): Tapiau AWC 7340; 7341; 7342; 7343; 7344; 7345.

gwrthdystio yn Llangwm, nid ydyw'n gwestiwn sydd wedi'i ateb yn llawn. Yn ffodus iawn i haneswyr, y mae yna ddigon o ddeunydd cynradd ac eilradd ar gael i greu darlun mwy cynhwysfawr o'r bagad o ddynion a labelwyd yn 'ferthyron y degwm'. Gellir ystyried y driniaeth a geir yn yr adran hon fel gwybodaeth gyflenwol i'r astudiaeth leol gan Manon Jones. Gyda'i gilydd, y maent yn taflu golau newydd ar y fath o bobl oedd yn gwrthdystio yn erbyn y degwm yn ardal Uwchaled, yn ogystal ag ardaloedd eraill yng nghefn gwlad Cymru. Yn ogystal â hyn, y mae'n astudiaeth achos manwl o'r fath o bobl (neu o leiaf y fath o ddynion) a oedd yn ymgynnull adeg arwerthiannau'r degymau yng nghefn gwlad Cymru'r adeg honno.

Soniwyd yn aml am 31 o ddynion yn cael eu gwysio o flaen y llys.¹⁹⁶ Serch hynny, gwyddom fawr o ddim am dri ohonynt. Ceir rhestr o'r diffynyddion yng nghofnodlyfr Pwyllgor Trysorfa Amddiffynol Llangwm, ac ynddo ceir y nodyn canlynol, 'Gan na wysiwyd rhif 29, 30 a 31 yn briodol, ni bu raid iddynt ymddangos yn y llys ac am y rheswm hwnw gadewir allan eu henwau o'r rhestr uchod'.¹⁹⁷ Ffotograffwyd 27 (heb gynnwys y cyfreithiwr) o'r gwŷr hyn y tu allan i'r carchar yn Rhuthun ym 1887, gyda'r bwriad o ddarparu cofarwydd gweledol o'r 'merthyron' i'r cyhoedd, yn ogystal â bod yn ffynhonnell amgen ariannol ar gyfer y gronfa.¹⁹⁸ Gorchwyl yr hanesydd ydyw mynd tu hwnt i'r llun ac i ddarganfod mwy ynghylch y bobl a safodd o flaen y camera bron i 130 o flynyddoedd yn ôl.

Crëwyd darlun amlinellol (ffigwr 7.1) o'r ffotograff er mwyn dynodi rhif i bob un o'r 'merthyron' mewn modd eglur a syml. Y mae'r darlun amlinellol hwn yn cyd-fynd a thabl 7.3, sydd yn darparu'r wybodaeth berthnasol ar gyfer pob un ohonynt. Trwy drugaredd fe roddwyd enwau i'r gwynebau yn y darlun gan gyfoeswr yn llyfr Hugh Evans, *Cwm Eithin*. Y mae calendr y brawdlys yn ffynhonnell gwerthfawr iawn o ran datgan enwau, oedrannau a galwedigaethau'r diffynyddion. Mae tabl 2 yn dangos bod 22 o'r diffynyddion yn eu 20au a'u 30au, tra bod chwech yn eu 40au a'u 50au. Gwŷr ifanc felly, yn hytrach na gwŷr canol oed a mwy, oedd rhan helaeth o'r 'merthyron'. Nid ydyw'r patrwm hwn yn wahanol iawn i'r darlun

¹⁹⁶ Jones, 'Rhyfel y Degwm', t. 83.

¹⁹⁷ LIGC, MS. 12077B – Cofnodlyfr Pwyllgor Trysorfa Amddiffynol 'Merthyron y Degwm yn Llangwm'.


¹⁹⁸ Ibid. Dim ond swm o £1. 12. 0 a wnaed drwy werthu'r lluniau.

Llun 7.9 Ffotograff o 'Ferthyron y Degwm' yn Rhuthun, 1887.

Ffynhonnell: Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Ffig. 7.1.

Rhifau i ddynodi pob un o'r 'merthyron' i gyd-fynd â thabl 7.3.



Darlun wedi'i lunio gan Siôn Edward Jones

Tabl 7.3. Enwau, oedrannau, cyfeiriadau a galwedigaethau'r 'merthyron'.

Rhif	Enw	Oed	Cyfeiriad	Galwedigaeth
1	Robert Jones, Ieu.	31	Glasfryn	Crydd
2	Robert Jones	26	Ty Cerrig/Ffynnon Wen, Llangwm	Ffermwr
3	William Hughes	28	Ysgoldy, Glasfryn, Cerrigydrudion	Saer
4	Owen Parry	27	Queen's Head, Cerrigydrudion/Penrhiw, Cerrigydrudion	Labrwr Fferm
5	David Jones*	27	Llwyn Mali, Llangwm	Ffermwr
6	David Roberts	56	Ty'n y Felin, Llangwm	Ffermwr
7	Robert Roberts	28	Cefn Brith/Pant y Mel Bach, Bettws G.G.	Labrwr
8	William Williams*	38	Arddwyfaen/Arddwysfaen, Llangwm	Ffermwr
9	Ellis Johns/Jones	42	Ty'n y Mynydd, Llanfihangel/Cerrigydrudion	Ffermwr
10	John Lloyd*	36	Ty Issa'r Cwm, Cerrigydrudion	Ffermwr
11	Rice/Rhys Jones	59	Ty Cerrig, Llanfihangel G.M.	Ffermwr/Ffarier/Gof
12	John Lloyd	56	Glasfryn, Cerrigydrudion	Labrwr
13	Edward Davies*	51	Bodynlliw, Bettws G.G	Ffermwr
14	Edward Thomas Edwards	30	Saracens Head Hotel, Cerrigydrudion	Gwestywr
15	Edward Evan Jones	31	Cysulog, Maerdy, Dinmael	Ffermwr
16	Thomas Owen Jones	26	Glasfryn Factory, Cerrigydrudion/Aelwydbrys	Dyn Ffatri/Ffarmwr
17	Robert Parry	38	Cerrigydrudion	Cigydd
18	David Edwards	35	Pen Llan, Bettws G.G	Melinydd

(Parhau ar y tudalen nesaf)

19	John Vaughan	27	Bettws G.G	Teiliwr
20	James Metcalf/Metcalf*	21	Shop Uchaf, Cerrigydrudion	Cynorthwywr Dilledydd
21	David Davies	28	Ty'n y Bryn (Plase, Ty Nant) (Penbryn, Cymro)	Ffermwr
22	Alun Lloyd (Y Cyfreithiwr)	30	Llanelwy	Cyfreithiwr
23	John Jones*	48	Brynmadog/Ty Newydd, Llangwm	Ffermwr
24	Morgan Hughes	31	Bryniau Gwynion, Llandderfel	Labrwr
25	John Jones	25	Moelfre Newydd/Ty Newydd, Llangwm	Labrwr
26	Robert Hughes	31	Ty'n y Waen, Glasfryn, Cerrigydrudion.	Ffermwr
27	Thomas Thomas*	28	Post Office, Ty Nant	Siopwr
28	Eirias/Urias Jones	34	Glasfryn, Cerrigydrudion	Gweithiwr Ffatri
Dim yn y llun	Parch. Edward G. Roberts*	23	Ty Nant/Disgarth, Llangwm	Gweinidog gyda'r Wesleiaid

* Dyma'r wyth a wysiwyd o flaen y llys ar 28 Chwefror 1888. Cafwyd *True Bill* (ditment) yn erbyn 28 ohonynt yn ystod sesiwn y Brawdlys yng Ngorffennaf 1887. Erbyn dechrau sesiwn y Brawdlys yn ystod mis Chwefror 1888, yr oedd *Nolle Prosequi* (yr achos yn eu herbyn yn cael ei ollwng) wedi ei roi am 20 ohonynt. Archifdy Genedlaethol/HO/140/103.

Ffynhonnellau: Archifdy Genedlaethol/HO 45/9714/A5128 – A Calendar of Prisoners Tried at the Assizes 20 July 1887, lle ceir enwau, oedrannau a galwedigaethau'r dynion; LIGC 12077B Llangwm Tithie Defence Fund Minutes Book, lle ceir rhestr o enwau a chyfeiriadau'r unigolion ym 1887; Evans, *Cwm Eithin* (1950), llun o'r 'merthyron' gyda'u henwau ar ei waelod yn yr atodiad.

ehangach yng Nghymru. O'r 25 o bobl yn nhabl 7.1 y gwyddom eu hoedran, yr oedd 18 ohonynt o dan 40 mlwydd oed.

Fel y disgwylir mewn ardal wledig fel Uwchaled, yr oedd galwedigaethau rhan fwyaf o'r 'merthyron' ynghlwm âg amaethyddiaeth, ac nid ydynt yn gwahaniaethu llawer i'r rhai a geir yn nhabl 7.1. Yn hyn o beth, rhaid cwestiynu dyfarniad Dunbabin bod llafurwyr a mwyngloddwyr yn fwy tebygol nag eraill i achosi trais.¹⁹⁹ Y mae'n wir fod nifer o lafurwyr ymysg y rheini a wysiwyd o flaen y llys am amharu'r heddwch, ond yr oedd yna ddigon o ffermwyr ag eraill yn eu plith hefyd. Y mae yna wirionedd i'r honiad bod yna elfen filwriaethus ymysg y mwyngloddwyr, fel y gwelwyd yn Llanarmon. Ond gan mai achlysurol oedd eu gweithrediadau yn ystod 'rhyfel y degwm', rhaid bod yn wyliadwrus ynghylch eu hymddygiad. Yn sicr yr enw sydd yn sefyll allan o barthed hyn ydyw'r Parchg. Edward G. Roberts, a oedd yn bregethwr gyda'r Wesleaid. Am ryw reswm nid ydyw'n bresennol yn y ffotograff, ond dengys mai efô oedd yr unig weinidog Anghydffurfiol yn ystod y blynyddoedd hynny i gael ei wysio'n swyddogol o barthed camwedd ynghylch â'r degwm. Tybed a oedd gan ei alwedigaeth rhywbeth i'w wneud â'i absenoldeb o'r llun?

O ran eu crefydd, y mae enwadaeth rhai ohonynt yn hysbys i ni, fel y cawn weld nes ymlaen. Ond yn gyfunol, gellir tybio mai Anghydffyrfwyr oeddynt i gyd (heblaw y cyfreithiwr); naill ai fel aelodau, fel gwrandawyr neu mewn enw o leiaf. Cefnogir y ddamcaniaeth hon gan y data a geir yn nhabl 7.4. Allan o boblogaeth o 2,481, yr oedd 1,171 (47%) yn aelodau o enwad Anghydffurfiol tra dim ond 190 (8%) oedd yn aelodau o'r Eglwys. Anodd ydyw gwybod pa faint o sylwedd y dylid priodoli i'r ffigyrau ar gyfer y gwrandawyr. Ond fel y dywedodd R. Tudur Jones, 'Digon, er mwyn diogelwch ystadegol, yw tynnu'r casgliad fod dylanwad oedfeuron yn cyrraedd cylch mawr y tu hwnt i'r aelodau cyflawn'.²⁰⁰

(Tabl 7. 4 ar y tudalen nesaf).

¹⁹⁹ John P. D. Dunbabin, 'The Welsh Tithe War 1886-1895', yn Andrew A. Charlesworth (gol.), 'An Atlas of Rural Protest in Britain 1548-1900 (Llundain, 1983), t. 179.

²⁰⁰ Tudur Jones, *Ffydd ac Argyfwng, Cyf. 1*, t. 26.

Tabl 7.4 Nifer o Gymunwyr/Aelodau yn ardal Uwchaled gyda'u henwadau ym 1905.

Plwyf	Pop. 1901	Enwad	Cymunwyr/Aelodau	Gwrandawyr
Llangwm	775	E. (1)	82	
		M.C. (2)	226	370
		A. (2)	159	223
		W. (1)	26	67
Cerrigydrudion	1079	E. (1)	70	
		M.C (3)	345	596
		A. (2)	98	135
		W. (1)	54	130
Llanfihangel Glyn Myfyr	370	E. (1)	25	
		M.C . (2)*	226	222
Betws Gwerfil Goch	257	E. (1)	13	
		A. (1)	37	

E = Yr Eglwys yng Nghymru; M.C. = Methodistiaid Calfinaidd; A. = Annibynwyr; W. = Wesleyaid.

(1) = Nifer o addoldai a oedd yn perthyn i'r enwad hwnnw yn y plwyf.

* Y mae'r ffigwr hwn yn cynnwys Methodistiaid Betws G.G. a oedd yn aelodau o Gapel y Gro, Llanfihangel G.M.

Ffynonellau: PP 1910 XVIII, Royal Commission on the Church of England and Other Religious Bodies in Wales and Monmouthshire. Volume VI. Appendices to minutes of evidence. Nonconformist county statistics; PP 1910 XVIII, Royal Commission on the Church of England and Other Religious Bodies in Wales and Monmouthshire. Volume V. Appendices to minutes of evidence. Church of England.

Dyma ymgais yn awr i broffilio rhai o'r 'merthyron'.

(a) Thomas Thomas, Tŷ Nant (rhif 27).

Yr oedd Thomas wedi byw yn Tŷ Nant, Llangwm er 1877, ac fe wnaed yn bostfeistr ym 1881.²⁰¹ Yn ogystal â hyn yr oedd yn siopwr ac yn ddilledydd, felly gellir tybio bod ei siop ef yn ganolbwynt amlwg i drigolion y fro. Gellir fod yn eithaf sicr mai Methodist ydoedd, canys yng nghyfrifiad 1891 yr oedd dau bregethwr M.C. yn lletya gydag ef.²⁰² Hefyd, ym 1889 fe gynhaliwyd cyfarfod yng nghapel y Methodistiaid yn Llangwm er mwyn cefnogi ymgeisiaeth Thomas fel y cynghorwr Rhyddfrydig dros ranbarth Llangwm.²⁰³ Yn amlwg yr oedd yn wŷr poblogaidd a dylanwadol, oblegid fe enillodd y bleidlais yn erbyn yr ymgeisydd Ceidwadol gyda mwyafrif o gant.²⁰⁴ Wrth gwrs, yr oedd helynt y degwm yn sicr wedi helpu Thomas i ennill y fath fwyafrif, ac wedi rhoddi llwyfan iddo arddangos ei ddoniau arweinyddol. Hyd yn oed cyn y gwrthdaro ym 1887, yr oedd Thomas wedi ysgrifennu at John Parry yn gofyn iddo ddod i Langwm er mwyn traethu o barthed y degwm.²⁰⁵

Heb os Thomas Thomas oedd prif arweinydd y bobl yn ystod y gwrthdystio. Gwir, gellir dadlau mai un gŵr dylanwadol ymhlith sawl un arall ydoedd, ond dengys iddo ef geisio cymryd yr awenau yn fwy nag unrhyw unigolyn arall. Dywed Menna Cunningham fod ganddo, '... ddylanwad mawr ar y dorf.'²⁰⁶ Y mae Manon Jones wedi dangos mai enw Thomas a geir ar y darn papur a lofnodwyd gan ap Mwrog ac Edward Vaughan yn addo na ddeuant yn ôl i Langwm i adfer y degymau.²⁰⁷ Yr oedd Thomas hefyd yn un o'r arweinwyr yn marchogaeth ceffyl adeg diwrnod yr arwerthiant.²⁰⁸ Credai M. Jones bod hyn yn dangos, 'pŵer a statws dros y

²⁰¹ AD/DD/DM/673-674/Transcripts of Statements, Ruthin Assizes, 1887 – Thomas Thomas and Alice Roberts (Maid in the employment of Thomas).

²⁰² Cyfrifiad 1891/RG12/4635/65/5; John Jones Evans, Llanberis, Calvinistic Methodist Preacher; John Heulyn Owen, Benllech, Calvinistic Methodist Preacher.

²⁰³ *Baner ac Amserau Cymru* (16 Ionawr 1889). Yr oedd 'Mr. Gee' yno hefyd i'w gefnogi.

²⁰⁴ Thomas Thomas, Llangwm, Rh, 154 o bleidleisiau; David Jones, Llangwm, C, 54 o bleidleisiau. *Denbighshire Free Press* (19 Ionawr 1889).

²⁰⁵ AD/DD/DM/673/11, John Parry (LLanarmon) i Thomas Thomas, Tŷ Nant (30 Tachwedd 1886).

²⁰⁶ Menna H. Cunningham, 'Y Gymdeithas Amaethyddol yn Nyffryn Clwyd (1880-1900), (Traethawd MA, Prifysgol Cymru, Bangor, 1977), t. 195.

²⁰⁷ Jones, 'Rhyfel y Degwm yn Llangwm', tt. 72-73.

²⁰⁸ Jones, 'Rhyfel y Degwm', tt. 75-76; LIGC, MS. 19752E, Llythyrau Helynt y Degwm, 'Brwydr y Degwm yn Cwm Eithin', gan Thomas Thomas: 'Gwelais un or Merthyron [William Williams?] ar gefn merlan fechan nad oedd fawr fwy nac ysgyfarnog a thraed y merthyr bron cyraedd y llawr....Ynghanol y cythrybl ofnadwy, disgynais oddi ar y march a chymerodd rhywun ei gofal (Hen ferlen y degwm a gelwir hon hyd heddiw) ...' t. 8.

dorf ...²⁰⁹ Serch hynny, rhaid bod yn wylidwrus rhag or-bwysleisio dylanwad Thomas ar y diwrnod. Yn sicr yr oedd yn ffigwr amlwg ar ben ei geffyl, ond gorchwyl anodd iawn oedd i un dyn cadw trefn ar ymddygiad cannoedd o bobl cynhyrfus. Ni lwyddodd i atal rhai o aelodau'r dorf rhag anafu aelodau'r bagad gwerthu nac i reoli'r anhrefn yn gyffredinol. Er iddo rwystro'r dorf rhag anafu ap Mwrog yn ddifrifol, fe gollodd Thomas afael ar yr arwerthwr ymysg y dorf, ac fe lwyddodd rhywun i daro ap Mwrog yn ei fol.²¹⁰ Yn ôl Thomas, 'Pryd hyn yr oedd y cynhwrf yn anisgrifiadwy. Hen bobol dawel amyneddgar wedi hanner wallgofi au gwynebau yn crynu fel dail yr coed gan gynddaredd'²¹¹

Ond dengys ffynonellau eraill bod gan Thomas ddylanwad amlwg y tu hwnt i 'faes y gad'. Wedi'r wedd gyntaf o werthu yn Llangwm, yr oedd Thomas mewn cysylltiad â Stevens er mwyn dod i ryw fath o gytundeb ynghylch natur ei ymweliad i'r plwyf i gasglu'r degymau.²¹² Yr oedd hefyd mewn gohebiaeth â Phrif Gwnstabl Leadbetter, Tom Ellis ac Alun Lloyd, cyfreithiwr y 'merthyron'.²¹³ Ceir ei enw hefyd yn ymddangos yn gyson yn Llyfr Cyfrifon y Drysorfa Amddiffynnol.²¹⁴ Yr oedd felly'n ddyn prysur, ac yn ganol y bwrlwm.

(b) Edward Davies, Bodynlliw, Bettws Gwerfil Goch (rhif 13).

Yr oedd Edward Davies yn denant ar fferm dros 140 acer, yn ogystal â ffermio 13 o aceri ychwanegol ym mhlwyf Gwyddelwern.²¹⁵ Yr oedd hefyd yn ddiagon gyda'r Annibynwyr, a dengys fod y teulu yn gapelwyr selog gan chwarae rhan amlwg yn nhrefniadau'r enwad yn y plwyf.²¹⁶ Yn ogystal â bod yn grefyddwr yr oedd Davies yn ychydig o wleidyddwr hefyd. Diddorol ydyw darganfod y gŵr o

²⁰⁹ Jones, 'Rhyfel y Degwm', t. 74.

²¹⁰ LIGC, MS. 19752E, Llythyrau Helynt y Degwm, 'Brwydr y Degwm yn Cwm Eithin', gan Thomas Thomas, t. 8.

²¹¹ Ibid., tt. 9-10.

²¹² AD/DD/DM/673/22, Charles V. Stevens i Thomas Thomas (7 Rhagfyr 1889; 14 Rhagfyr 1889); Gw. hefyd John Lloyd J.P. i Thomas Thomas (13 Rhagfyr 1889).

²¹³ AD/DD/DM/673/8, Alun Lloyd (Cyfreithiwr) i Thomas Thomas, Tŷ Nant (25 Ionawr 1888); AD/DD/DM/613/12 i 17, Cyfres o lythyrau rhwng Alun Lloyd a Thomas Thomas (17 Awst 1887 – 6 Ebrill 1888); AD/DD/DM/673/18, T. J. Ledbetter i Thomas Thomas (12 Ebrill 1888); DD/DM/673/21, T. E. Ellis i Thomas Thomas (dim dyddiad).

²¹⁴ LIGC, MS. 12078A, Llyfr Cyfrifon y Drysorfa Amddiffynnol, Llangwm.

²¹⁵ *Rhyl Advertiser* (7 Mawrth 1885).

²¹⁶ Cyfrifiad 1891/RG12/4635/84/4/6099745 - John Jones, visitor (71) Independent Preacher, Llandrillo; *Celt* (8 Gorffennaf 1881); *Y Dydd* (13 Mehefin 1890); *Papur Pawb* (19 Mai 1900).

Fodynlliw yn cwyno ynghylch y degymau ym 1885; ychydig cyn i'r helyntion ddechrau o ddifrif. Mewn cyfarfod Rhyddfrydig a gynhaliwyd ym mis Chwefror o'r flwyddyn honno yng Nghorwen, datganodd Davies ei fod yn talu £100 o rent, wedi'i werthuso am £90 ac yn talu £25 o ddegymau, sef chwarter ei rent. Tystiodd bod y degymau hyn yn mynd at gynnal y parson a Choryddion Llanelwy.²¹⁷

Wedi hyn fe ymddangosodd llythyr yn y *Rhyl Advertiser* gan ŵr o'r enw R. Roberts. Datgelwyd bod gwerth £15. 4. 2 o ddegymau i'w dalu yn Bodynlliw a £2 ar 13 acer o dir yng Ngwyddelwern. Honnodd Roberts nad oedd yr un geiniog yn mynd at gynnal Coryddion Llanelwy.²¹⁸ Ychydig wythnosau wedyn ysgrifennodd Davies lythyr yn wfftio honiadau Roberts. Dengys fe dderbyniodd ddeng niwrnod o rybydd yn ôl ym 1874 oherwydd nad oedd ei ragflaenydd ym Modynlliw wedi talu'r degymau. Dyfynwyd rhybydd, ac arno dywedwyd fod y swm dyledus yn daliadwy i Goryddion Llanelwy.²¹⁹ Nid oedd Coryddion Llanelwy yn hawlio'r un geiniog o ddegymau plwyf Bettws G.G., ond yr oeddynt yn hawlio £560 allan o £700 (gwerth adeg y cymudo) ym mhlwyf Gwyddelwern.²²⁰ Felly, Davies oedd yn iawn ynghylch hyn.

Yn ôl *Papur Pawb*, cymerodd Davies:

... ran flaenllaw yn rhyfel fawr y degwm, yr hon a dorodd allan yn y flwyddyn 1887. Trwy fod Mr Davies yn cynnrychioli y plwyf ar y gwahanol fyrddau cyhoeddus, yr oedd yr amaethwyr yn naturiol iawn yn edrych ato ef fel eu harweinydd, tra yn ymladd dros eu hegwyddorion.²²¹

Nid ydyw enw Davies yn un sydd yn ymddangos ryw lawer yn y ffynonellau o barthed yr helynt yn Llangwm. Tystiodd 'Ap Mwrog' fod Davies yn un o'r marchogion oedd yn arwain ar y diwrnod.²²² Ond odid mai'r cyfeiriad mwyaf nodedig a thrist ydyw'r un a wnaethpwyd gan Thomas Thomas, pan ddisgrifiodd y bu rhaid i Davies adael am Ruthun o achos bod ei wraig ar ei gwely angau.²²³ Serch hynny, nid ydyw hyn yn golygu nad oedd ef yn weithgar y tu ôl i'r llenni, er y

²¹⁷ *Rhyl Advertiser* (28 Chwefror 1885).

²¹⁸ *Rhyl Advertiser* (7 Mawrth 1885).

²¹⁹ *Rhyl Advertiser* (28 Mawrth 1885).

²²⁰ *Tithe Maps of Wales*, t. 257.

²²¹ *Papur Pawb* (19 Mai 1900).

²²² *Baner ac Amserau Cymru* (13 Gorffennaf 1887).

²²³ LIGC, MS. 19752E, Llythyrau Helynt y Degwm, Thomas Thomas, 'Nodiadau ar y Merthyron'. Enw ei wraig cyntaf oedd Jane Davies.

brofedigaeth oedd ef yn myned drwyddo.²²⁴ Yn wir, ym 1888 cawn hanes cyfarfod lluosog o ffermwyr yng Nghorwen o dan lywyddiaeth Edward Davies, ‘un o ferthyron Llangwm, yr hwn, ar ei ymddangosiad, a gafodd dderbyniad gwresog’.²²⁵

(c) John Lloyd, Tŷ Issa'r Cwm, Cerrigydrudion (rhif 10) a David Roberts, Ty'n-y-Felin (rhif 6).

Tad i Robert Lloyd (Llwyd o'r Bryn) oedd John Lloyd, ac yn sicr y mae'r mab yn fwy adnabyddus na'r tad.²²⁶ Neilltuodd Llwyd o'r Bryn bennod gyfan yn ei lyfr *Y Pethe*, er mwyn adrodd, ‘Stori Nhad – Un o Ferthyron y Degwm’.²²⁷

Annibynwyr oedd y tylwyth Lloyd, ac yn ôl Llwyd o'r Bryn, ‘Am wn i mai'r ddeuair pedeirsill cyntaf a glywais oedd “Dadgysylltiad” a “Dadwaddoliad”’.²²⁸

Adnabyddwyd Lloyd oherwydd efô a arweiniodd yr orymdaith honno o Langwm i'r orsaf drên yng Nghorwen.²²⁹ Cafodd Llwyd o'r Bryn ei eni pan oedd ei dad ‘o flaen ei well’ yn Rhuthun, ac yn ôl Thomas Thomas, yr oedd ei fam yn ddifrifol wael adeg yr enedigaeth.²³⁰ Yn amlwg yr oedd Lloyd yn teimlo balchder ynghylch safiad pobl Llangwm oblegid fe bron iddo rhoi'r enw ‘Budduglyn’ (sef Buddugoliaeth y Glyn) fel enw canol i'w fab.²³¹

Nid oedd pawb, fodd bynnag, yn teimlo mor ddiffiant. Yr oedd David Roberts, Ty'n y Felin yn perthyn o bell i Lloyd, ac hefyd yn Annibynwr.²³² Tra yn y cwrt yn Rhuthun, gofidiodd Roberts yn ei ddagrau, ‘na bai “wedi talu yr hen ungeiniog-ar-ddeg ddegwm gythraul yna rhag dod i le fel hyn”’.²³³ Pan ddaeth un o'r plismyn ymlaen i roi ei dystiolaeth, sylwodd Roberts ei fod yn Annibynwr, ac fe ddisgwylodd dystiolaeth ffafriol ganddo. Yn anffodus iddo ef, ni chafwyd hynny, a

²²⁴ Dengys i Davies ail-briodi yn weddol fuan: Cyfrifiad

1911/RG14/PN34203/RG78PN1977/RD625/SD1/ED1 – Anne Davies, 20 years of marriage.

²²⁵ *Baner ac Amserau Cymru* (25 Chwefror 1888).

²²⁶ *Y Bywgraffiadur Ar-lein*, ‘Robert Lloyd (Llwyd o'r Bryn)’ gan David Tecwyn Lloyd.

²²⁷ Llwyd o'r Bryn, *Y Pethe* (Pedwerydd-argraffiad, Bala, Awst 1962), tt. 95-101.

²²⁸ *Ibid.*, t. 96.

²²⁹ *Baner ac Amserau Cymru* (13 Gorffennaf 1887).

²³⁰ LIGC, MS. 19752E, Llythyrau Helynt y Degwm, Thomas Thomas, ‘Nodiadau ar y Merthyron’.

²³¹ Llwyd o'r Bryn, *Y Pethe*, t. 95.

²³² *Ibid.*, t. 98.

²³³ *Ibid.*, t. 98.

soniwyd iddo gywilyddu dros ei enwad.²³⁴ Dywedodd Thomas Thomas mai David Roberts, Tyn-y-felin, oedd, ‘y diniweitia’ o’r diffynyddion i gyd.²³⁵

(d) James Metcalfe, Siop Uchaf, Cerrigydrudion (rhif 20)

Dichon mai’r rheswm nad ydyw hanes gwŷr megis James Metcalfe yn cael eu lle yn y llyfrau hanes ydyw’r ffaith nad ydynt wedi gadael ‘ôl traed’ digon diddorol i warantu hynny. Nid oedd ef yn ffigwr amlwg yn ystod yr helyntion, nid oedd ef yn un o’r arweinwyr ac nid oes yna reswm i gredu fod ganddo ddylanwad gwleidyddol yn yr ardal ychwaith. Eto, yr oedd Metcalfe yn un o’r wyth ‘merthyron’ hynny a wysiwyd o flaen y llys ar 28 Chwefror 1888, ac yr ieuangaf ohonynt yn 21 mlwydd oed. Daeth ef i’r amlwg yn ystod y brotest yn Llangwm drwy gario un o’r fflagiau coch a du ar yr orymdaith i Gorwen. Yr unigolyn arall oedd John Jones, Moelfre (rhif 25).²³⁶

Ganwyd Metcalfe yn Nhywyn, Sir Feirionnydd. Yn ôl cyfrifiad 1871 yr oedd ei dad yn gwnstabl, ond erbyn 1881 yr oedd y teulu wedi symud i blwyf Cemaes ger Machynlleth. Yno fe nodwyd fod ei dad bellach yn gweithio fel Labrwr yn y chwarel.²³⁷ Yr oedd James Metcalfe Ieu., yr adeg honno yn gweithio i Hugh Hughes yn Llanfihangel y Traethau, Ardudwy, fel cynorthwywr y postfeistr.²³⁸ Nid ydyw’n glir pa bryd y daeth Metcalfe i Gerrigydrudion i weithio fel cynorthwywr dilledydd, ond yn amlwg yr oedd ef wedi bod yno ddigon hir i deimlo fel rhan o gymdeithas glos Uwchaled. Yr oedd yn dal i drigo yng Ngherrigydrudion ym 1889, canys cawn gofnod o’i briodas ar 5 Chwefror 1889 yng nghapel Tynrhyd (A), gyda’r Parchg. R. Richards yn gweinyddu.²³⁹ Dengys iddo adael am y Bala ar ôl y briodas, sef man geni ei wraig, Hannah.²⁴⁰ Ond ni fu yno am hir. Ym 1891 cawn ef yn byw yng Nghaer, yn dal i weithio fel cynorthwywr dilledydd.²⁴¹ Symudodd i Gaernarfon oddeutu 1892/1893, ac yn ôl cyfrifiad 1901 yr oedd bellach yn gweithio fel

²³⁴ LIGC, MS. 19752E, Llythyrau Helynt y Degwm, Thomas Thomas, ‘Nodiadau ar y Merthyron’.

²³⁵ Ibid.

²³⁶ *Baner ac Amserau Cymru* (13 Gorffennaf 1887).

²³⁷ Cyfrifiad 1871/RG10/5602/70/20; 1881/RG11/5479/49/6.

²³⁸ Cyfrifiad 1881/RG11/5549/64/21.

²³⁹ *Carnarvon and Denbigh Herald* (8 Chwefror 1889).

²⁴⁰ Cyfrifiad 1891 RG12/2865/73/25: Ganwyd ei blant yn y Bala ym 1889 a 1891.

²⁴¹ Cyfrifiad 1891 RG12/2865/73/25.

masnachwr gwin ac hefyd fel teithiwr.²⁴² Yr oedd Metcalfe yn dal i fyw yng Nghaernarfon ym 1911 fel cleric a theithiwr mewn tŷ â 9 o ystafelloedd.²⁴³

Nid ydyw'n hollol glir i ba enwad y perthynai Metcalfe iddo. Gwyddom ei fod wedi priodi yng nghapel yr Annibynwyr yn Llangwm. Eto, tra'n Gaernarfon ceir dystiolaeth ei fod yn agosach at y Wesleiaid. Ym 1910 cawn hanes ei ferch yn priodi yng ngapel y Wesleiaid yn y Felinheli.²⁴⁴ Ym 1916 cawn hanes James Metcalfe yn arwain côr mewn cyngerdd a gynhaliwyd yn Ebeneser, sef capel y Wesleiaid yng Nghaernarfon.²⁴⁵ Pa un bynnag gorlan, yr oedd yn Anghydfurfiwr.

Y pwrpas o edrych ar hanes 'micro' fel hyn ydyw ceisio dangos 'cyffredinoldeb' gymaint o'r unigolion hynny a gymerodd ran fel actorion hanesyddol yn ystod 'Rhyfel y Degwm'. Yn y foment honno pan dynnwyd llun Metcalfe yn Rhuthun, yr oedd yn Anghydfurfiwr ifanc a oedd wedi'i gipio gan gyffro'r degwm yn Llangwm. Erbyn 1901 yr oedd yn byw mewn tŷ tref sylweddol yng Nghaernarfon gyda'i wraig ac wyth o blant, ac yn gweithio fel masnachwr gwin. Gellir dadlau bod gweithredoedd y gwŷr mwyaf blaenllaw, 'hoelion wyth' y gymuned, yn hanfodol o ran dylanwadu hynt y symudiad gwrth-ddegymol yng Nghymru. Ond rhaid cymryd i ystyriaeth gweithredoedd gwŷr megis James Metcalfe; gwŷr nad oeddynt yn enedigol o'r ardal a nad arhosodd yno wedi'r helyntion, ond serch hynny a ddylanwadodd drwy '*human agency*' ar hanes 'Rhyfel y Degwm' mewn ardal penodol.

(e) Alun Lloyd (rhif 22)

Rhaid sôn ychydig am Alun Lloyd canys mai ef oedd cyfreithiwr y Gynghrair-Degymol, ac fe frithwyd nifer o'r adroddiadau ynghylch y degymau gyda'i enw ef. Syndod, efallai, ydyw canfod sawl ffaith amdano. Yn gyntaf, mewn cyfarfod ym Manceinion ym 1887 fe gyfaddefodd ei fod yn Dori rhonc cyn i 'Ryfel y Degwm' ddechrau. Ond dengys iddo gael 'tröedigaeth wleidyddol', gan broffesu ei deyrngarwch i'r Blaid Ryddfrydig.²⁴⁶ Yr oedd hefyd yn Eglwyswr, fel y datganodd

²⁴² Cyfrifiad 1901 RG13/5273/92/22: Ganwyd un o'i blant ef yng Nghaernarfon ym 1893.

²⁴³ Cyfrifiad 1911 RG14/34453/127.

²⁴⁴ *Y Clorinydd* (25 Awst 1925).

²⁴⁵ *Y Dinesydd Cymreig* (29 Tachwedd 1916).

²⁴⁶ *Llangollen Advertiser* (16 Awst 1887).

yn ystod comisiwn Bridge.²⁴⁷ Nid oedd ganddo flynyddoedd o brofiad o dan ei wregys, canys mai dim ond ym 1884 enillodd ei gymhwysterau cyflawn fel cyfreithiwr.²⁴⁸ Serch hynny, dengys iddo fod yn fwy na medrus yn cynrychioli'r gwrth-ddegymwyr, naill ai yn y cwrt, yn ystod y comisiwn neu yn ystod yr arwerthiannau.²⁴⁹ Ystyriwyd ei ymdrechion yn ystod 'Rhyfel y Degwm' yn uchafbwynt ei yrfa. Y rheswm pennaf am hynny ydyw oherwydd ei farwolaeth cynnar ym 1897 yn 40 oed ychydig ar ôl symud i Lundain. Honnodd un papur newydd fod Lloyd wedi newid corlan ac wedi dyfod yn Babydd.²⁵⁰ Pa faint o sylwedd sydd i'r honiad hwn ni ellir fod yn sicr, ond fe gladdwyd ef yn Llanelwy yn ôl defodau'r Eglwys Anglicanaidd.²⁵¹

(f) Edward Thomas Edwards, Saracen's Head, Cerrigydrudion (rhif 14)

Y oedd Edward yn Westywr ac yn ffermwr o 60 acer.²⁵² Yr oedd ei dad o'r un enw yn ffermwr o 315 acer ac yn cyflogi 4 o labrwr.²⁵³ Gellir dadlau felly yr oeddynt yn deulu adnabyddus yn yr ardal. Yr oedd Edwards yn gefnogol iawn i'r ymgyrch gwrth-ddegymol yn Llangwm, canys fe gynhalwyd nifer fawr o'r pwyllgorau'r Trysorfa Amddiffynol yn y Saracen's Head o dan delerau hael iawn.²⁵⁴ Ond ni arhosodd fel Gwestywr na ffermwr. Erbyn 1911 cawn ef yn byw yn Mrychdwn (Broughton) ger Wrecsam, yn gweithio fel cludwr a symudwr yng nglofa Westminster Moss.²⁵⁵ Gellir dadlau fod yna cryn dipyn o newid byd wedi bod i Edwards. O fod yn Westywr a ffermwr yn gwrthdystio yn erbyn y degymau i fod yn weithiwr yng nglofa ddiwydiannol ger y Wrecsam; o ardal wledig orllewinol Sir Ddinbych i'r ardal ddwyreiniol ddiwydiannol.

Wedi edrych ar rai o'r gwŷr a ymddangosodd yn y ffotograff yn fanwl, rhaid yn awr dadadeiladu'r fytholeg sydd wedi'i rwymo o gwmpas y term 'merthyron'. Credodd Frank Price-Jones nad oedd yna, 'sail gwerth sôn amdano i'r enw', canys y

²⁴⁷ PP 1887 XXXVIII, c. 4128, t. 127.

²⁴⁸ *Y Werin* (5 Mehefin 1897).

²⁴⁹ Jones, 'Rhyfel y Degwm', tt. 87, 88 a 91.

²⁵⁰ *Rhyl Record and Advertiser* (29 Mai 1897).

²⁵¹ *Denbighshire Free Press* (5 Mehefin 1897).

²⁵² Cyfrifiad 1881/RG11/5539/38/11.

²⁵³ Cyfrifiad 1881/RG11/5539/13/4.

²⁵⁴ LIGC, MS. 12077B – Cofnodlyfr Pwyllgor Trysorfa Amddiffynol 'Merthyron y Degwm yn Llangwm'.

²⁵⁵ Cyfrifiad 1911/RG14/PN34038/RG78PN1965.

ffaith mai ymosod ar griw fach o ddynion oedd y cyhyddiad yn erbyn hwy a 300 o bobl eraill yn Llangwm.²⁵⁶ Aeth ymlaen i honni nad oedd yna awgrym o 'ferthyru' ychwaith, er fod yna siawns y gallai rhai o'r diffynyddion golli eu bywoliaeth, ffermydd a.y.b. trwy eu gweithredoedd.²⁵⁷ Wrth gwrs, nid y 28 o ddynion o Langwm oedd yr unig rai a 'ferthyrwyd' yn ystod 'Rhyfel y Degwm'. Cafodd Nathaniel Watkins, Moat Farm, Meifod ei 'ferthyru' am wrthod talu'r degymau ond drwy arwerthiant, ac yn cael ei ddiarddel o'i fferm.²⁵⁸ Ceir hefyd achos Pegi Lewis y wraig weddw a Evan Evans y 'merthyr' ifanc o Fangor-teifi. Dichon fe ellid wedi 'merthyru' nifer fawr o bobl. Ond o ran safbwynt propaganda a newyddiaduriaeth, yr oedd criw o 28 o ddynion, gwraig weddw oedrannus, ffermwr a gollodd ei fferm a bachgen 16 yn dewis carchar yn hytrach na dirwy yn symbolau pwerus 'moesol' o 'orthrwm'.

Yn ôl Hugh Evans nid oedd rhai o'r prif arweinwyr yn y darlun, ac y mae ynddo hefyd wŷr na chymerasant fawr o ran yn yr helynt.²⁵⁹ Y mae'n debygol mai Thomas Thomas a hysbysebodd Evans am y ffaith hon. Dywedodd Thomas:

Ar hyn sydd yn wrthrym o feddwl am dano ydyw i'r rhan fwyaf o'r rai hollol ddiniwad gael eu cymeryd ar restr y troseddwyd, nid oes ond un o'r rhai a wynebodd y meirch a gallwch ddychmygu pa un ydyw [ofer fyddai ceisio dyfalu], ond yn awr yn ei fedd.²⁶⁰

I ddeall mwy am hyn rhaid ceisio dirnad sut y cafodd y gwŷr hyn eu dewis allan o gannoedd o bobl eraill a ymgynullodd yn Llangwm adeg diwrnod yr arwerthu. Dywedodd Thomas:

Y rheswm paham y pigwyd allan y fath amrywiaeth yn y personau ddaeth yn ferthyron oedd bod un or tri heddeidwaid wedi bod yn byw yn gorsaf Pentre foelas ac yn adnabod y merthyron. Roedd hwn wedi gosod ei hun ar ben y clawdd yr ochr arall ir ffordd gerllaw allor Mwrog.²⁶¹

²⁵⁶ Jones, 'Rhyfel y Degwm', t. 86.

²⁵⁷ Ibid., tn. 68, t. 102.

²⁵⁸ PP 1895 Royal Commission on Land in Wales and Monmouthshire. Minutes of evidence taken before the Royal Commission on land in Wales and Monmouthshire; with appendix of documents. (Sixty-fourth to eightieth days.) Vol. IV, c. 67,986, t. 661.

²⁵⁹ Evans, *Cwm Eithin*, t. 218.

²⁶⁰ LIGC, MS. 19752E, Llythyrau Helynt y Degwm, Thomas Thomas, 'Nodiadau ar y Merthyron'.

²⁶¹ LIGC, MS. 19752E, Llythyrau Helynt y Degwm, Thomas Thomas, t. 10.

Yn ôl yr adroddiad a gawn yn y *Faner* o'r achos yn y llys, y mae'n amlwg fe ddatgelwyd nifer o'r 'merthyron' a oedd wedi dyfod yn amlwg yn ystod yr helynt; megis y rhai a oedd yn marchogaeth ceffyl, yn cario fflagiau a.y.b.²⁶² Dichon, fel yr honnodd Thomas, fod nifer ohonynt wedi cael eu henwi oherwydd fe'u hadnabuwyd gan yr heddwes ymysg y dorf. Ceir yr argraff hwn wrth ddarllen hanes yr helynt gan Robert Roberts (rhif 7).²⁶³

Credodd Thomas, 'Ni fu y fath gamwri mewn prawf...'²⁶⁴ Ar y naill law gellid dadlau mae dyma'r sail y tu ôl i'r label 'merthyron'. Ar y llall gellir awgrymu na fu unrhyw fath o 'ferthyru' yma os cawn un o'r arweinwyr yn cyfaddef nad oedd ran helaeth o'r 'merthyron' wedi gwneud fawr o ddim i haeddu bod yno yn y lle cyntaf. Serch hynny, y mae achos gwŷr Llangwm wedi rhoi'r cyfle i haneswyr ddadansoddi'r fath o bobl oedd yn ymgynnull yn ystod arwerthiannau'r degwm yng nghefn gwlad Cymru ar y pryd.

V.

Casgliad

Wedi proffilio rhai o'r cynhyrfwyr a'r cynhyrfus adeg 'Rhyfel y Degwm', gellid crybwyll ambell i ddatganiad. O ran y cynhyrfwyr, y mae'n amlwg yr oedd gan y gogledd a'r de-orllewin eu 'dynion eu hunain' fel petai. Dichon mai John Parry y daeth yr agosaf i fod yn ryw fath o gynhyrfwr 'cenedlaethol' o ran ymweld a thraethu yng ngwahanol lefydd yng Nghymru. Ond ni chyfyngwyd y 'gydwybod Ymneilltuol' gan ffiniau daearyddol. Os diffiniwn 'mudiad' yn y cyd-destun hwn fel, 'mintai o bobl yn gweithio gyda'i gilydd i hyrwyddo'r un weledigaeth a syniadaeth gymdeithasol a gwleidyddol', gellir dadlau mai mudiad poblogaidd ydoedd 'Rhyfel y Degwm'.²⁶⁵ Yr oedd pob ardal gyda'i harweinwyr naturiol, a gyda'i gilydd ffurfiasant rwydwaith o gynhyrfwyr a oedd yn pregethu'r un efengyl Rhyddfrydig ar y pryd: Datgysylltiad a Dadwaddoliad.

²⁶² *Baner ac Amserau Cymru* (13 Gorffennaf 1888).

²⁶³ LIGC, MS. 19752E, Llythyrau Helynt y Degwm, Robert Roberts, Pant y Mel.

²⁶⁴ LIGC, MS. 19752E, Llythyrau Helynt y Degwm, Thomas Thomas, 'Nodiadau ar y Merthyron'.

²⁶⁵ Geiriadur Rhydychen.

Yn ail, rhaid ail-asesu rôl y gweinidogion Anghydfurfiol yn ystod ‘Rhyfel y Degwm’. Heb os fe weithredasant yn allweddol fel cynhyrfwyr, ac fel y dywedodd Cragoe, ‘The role of the nonconformist minister, was to give a focus to community morality and to the discipline that went with it’.²⁶⁶ Gellir dadlau y rhoddwyd dilysrwydd i’r weithred o wrthod talu’r degymau (fel protest) os cyfiawnhawyd y weithred gan y gweinidog Anghydfurfiol. Naturiol felly ydyw meddwl mai hwy yn anad neb arall oedd wrth wraidd y cynhyrfu. Ond nid ydyw hynny’n hollol wir. Y mae’n amlwg bod gwŷr lleyg, boed hwy’n ffermwyr blaenllaw, yn siopwyr, yn flaenoriaid, yn Ynadon Heddwch, yn Gynghorwyr Sir a.y.b., wedi chwarae rhan yr un mor bwysig, os nad mwy pwysig, na’r gweinidogion Anghydfurfiol. Wedi’r cyfan, lleygwyr oedd y ddau ŵr a gyfarchwyd yn ‘arwyr Rhyfel y Degwm’.

Gellid plethu hyn â damcaniaeth Tim Williams, ‘Wales in this period was not some sort of theocracy, a closed, God-centred society over which *Dissenting* clergy exercised absolute and unchallenged command or ‘social control’.²⁶⁷ Wedi’r cwbl, penderfyniad y degwm dalwyr oedd hi yn y pendraw os oeddynt am dalu neu beidio. Oherwydd hyn, rhaid anghytuno’n gryf â damcaniaeth yr hanesydd J. E. Thomas bod Cymru’n ryw fath o ‘theocratiaeth’ yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg, a bod ‘oligarchiaeth Anghydfurfiol’ yn gyfrifol am orthrymu’r Cymry drwy ddargyfeirio’u sylw tuag at faterion ynghylch cydraddoldeb crefyddol yn unig.²⁶⁸ Er bod David Howell yn rhoi sylwedd i’r honiad olaf hyn, y mae, serch hynny, yn dweud yn ei adolygiad o waith Thomas:

Moreover, he fails to discern the transition from this radical Liberalism to nationalism which occurred from the mid-1880s, so that demands for Disestablishment and land reform were now for the first time driven by the conviction that only their delivery could solve what were distinctive *Welsh* grievances.²⁶⁹

I hyn gellir ychwanegu sylwad David Ceri Jones o barthed llyfr Thomas, ‘He makes little effort to understand the appeal of nonconformist religion, and glosses over both

²⁶⁶ Cragoe, ‘Conscience or coercion?’, t. 168.

²⁶⁷ Williams, ‘Language, religion, culture’, t. 80.

²⁶⁸ J. E. Thomas, *Social Disorder in Britain, 1750-1850: The Power of the Gentry, Radicalism and Religion in Wales* (Llundain, 2011), tt. 186-187.

²⁶⁹ <http://www.cercles.com/review/r59/Thomas.html>.

its genuinely populist and its egalitarian impulse'.²⁷⁰ Dibynnodd y cynhyrfwyr yn llwyr ar ymroddiad y Cymry cyffredin er mwyn cadw fflam 'Rhyfel y Degwm' yn fyw. Onid ydyw'r ffaith fe losgodd y fflam hwnnw am bron i ddegawd yn un cyrhaeddgar?

O ran y lliaws, gwelir bod y gymdeithas gyfan wedi cymryd rhan yn y protestiadau yn ystod 'Rhyfel y Degwm'. Ymhell o encilio o 'faes y gad', gwelwn fod merched wedi cofleidio'r cyfle i fwrw eu dig tuag at y 'troseddwyr moesol'; gweithred gyda'i wreiddiau yn nefodau cymdeithasol. Ond erbyn diwedd y ganrif yr oedd agoriad i fenywod gyfranogi mewn gwleidyddiaeth mewn modd mwy ffurfiol trwy'r Cymdeithasau Rhyddfrydig i Ferched; er iddynt ddyfod braidd yn rhy hwyr i gael unrhyw ddylanwad arwyddocaol ar y symudiad gwrth-ddegymol. Tra bod rhai wedi barnu gweithredoedd merched yn ystod 'Rhyfel y Degwm', fe gymeradwyodd eraill y ffaith fod merched wedi sefyll ochr yn ochr â'r dynion adeg y protestiadau. Er mai dynion oedd rhan helaeth o'r cynhyrfwyr, y mae'n bwysig peidio anghofio'r cydweithio a'r cydlynid a fu rhwng merched a dynion ar y lefel sylfaenol. Dichon mai un o nodweddion pwysicaf y symudiad gwrth-ddegymol oedd i greu undod yn hytrach nag arwahanrwydd rhwng y rhywiau.

²⁷⁰ David Ceri Jones, 'Adolygiad o Social Disorder in Britain, 1750-1850: The Power of the Gentry, Radicalism and Religion in Wales an J. E. Thomas', *The English Historical Review*, cyf. 128 (2013), tt. 976-978.


Diwedd glo

I.

Y degwm yng Nghymru, 1895-1936

Cyn mynd ymlaen i grynhoi casgliadau'r traethawd hwn, y mae'n werth cloi hanes y degwm yng Nghymru drwy olrhain ei hynt wedi 1895 yn gryno. Un o'r prif bethau a wnaeth Deddf Degwm (1891) oedd cadarnhau yn gyfreithiol mai'r tirfeddianwyr oedd yn gyfrifol am dalu'r degwm. Gan mai Eglwyswyr oedd y pen praffaf o'r tirfeddianwyr mwyaf cefnog, nid rhyfedd mai hwy, yn hytrach na'r Anghydfurfwyr, oedd yn talu'r rhan helaeth o swm y degwm yng Nghymru wedi hyn. Fel y gwelir yn ffig. 8.1., yr oedd hyn yn sicr yn wir o fewn Esgobaeth Llanelwy.

Ffig. 8.1 Canran o'r bywoliaethau gyda naill ai Eglwyswyr neu Anghydfurfwyr fel y mwyafrif o'r degwm dalwyr yn Esgobaeth Llanelwy, ym 1906-1907.



Ffynhonnell: Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, SA/Tithe/204-411.

Nodyn: Ni chynhwysir y dychweliadau hynny lle yr oedd y ffigwr ar gyfer 'anhysbys' yn medru dylanwadu ar y canlyniad naill ffordd neu'r llall.

Nid oedd hi'n bosib dargyfeirio cyllid y degwm yng Nghymru tuag at amcanion cenedlaethol nes y datgysylltwyd a dadwaddolwyd yr Eglwys yng Nghymru. Wrth gwrs, dim ond yn berthnasol i ddegymau Eglwysig oedd hyn achos

nid oedd gan yr Eglwys unrhyw awdurdod dros y degymau lleyg. Yn wir, fe achosodd y degymau lleyg ddipyn o benbleth o ran eu perthynas gyda'r achos o ddatgysylltu a dadwaddoli'r Eglwys Wladol yng Nghymru. Eiddo preifat unigolion a sefydliadau eraill oeddynt wedi'r cwbl.¹ Blwyddyn ar ôl i Asquith gyflwyno'i fesur i Ddatgysylltu'r Eglwys yng Nghymru ym 1894, ysgrifennodd D. Rees Edmunds, cyfreithiwr o Lanelli, i D. A. Thomas, A.S., 'Is it intended under the present Bill to acquire all tithes; or only those now in the hands of the Church in Wales?'²

Dim ond am gyfnod byr iawn y cymerodd hanes cyfreithiol y degwm yng Nghymru drywydd gwahanol i'r hwnnw yn Lloegr. Ar ôl datgysylltiad a dadwaddoliad yr Eglwys yng Nghymru ym 1920 (ac ar ôl trafodion cymhleth ynghylch y newid yng ngwerth y degymau ar ôl y rhyfel) yr oedd y degymau yn daliadwy i'r Comisiynwyr Cymreig. Oherwydd oblygiadau ariannol yn sgil dadwaddoliad, rhagwelwyd na fuasai'r cynghorau Cymreig na'r Prifysgol yng Nghymru yn derbyn yr eiddo hyn nes 1954. Ni chafodd y Comisiynwyr fawr o drafferth yn casglu'r degymau nes daeth dirwasgiad amaethyddol yn ystod yr 1930au cynnar. Rhwng 1932-1935 cynhyrfwyd yr ardaloedd hynny a oedd wedi bod mor flaenllaw yn ystod 'Rhyfel y Degwm'.³ Nid oedd yr helyntion yn gyffelyb i'r rhai yn Lloegr (hwn oedd 'Rhyfel y Degwm' hwy), nag ychwaith ar yr un raddfa a'r rhai yn ystod yr 1880au-1890au.

Y mae'n werth nodi fod canran y ffermydd a oedd yn eiddo'r preswlydd yn cynyddu yr adeg hon. Ym 1887 dim ond 10.5% o ffermydd oedd yn eiddo'r preswlydd. Erbyn 1941-43 yr oedd y ffigur wedi cynyddu i 37%.⁴ Diddorol ydyw dyfalu beth fyddai arwyddocâd hyn petai'r Eglwys yng Nghymru heb ei datgysylltu a'i dadwaddoli ym 1920. Canrif wedi Deddf y Degwm (1836) fe basiwyd Deddf y Degwm arall ym 1936 yn dileu'r degymau yn gyfan gwbl, gyda'r tîrfeddianwyr yn

¹ Jones (gol.), *The Disestablishment and Disendowment of the Church of England in Wales*, t. 123.

² LIGC, Papurau David Alfred Thomas (Viscount Rhondda), A1/288, D. Rees Edmunds, Solicitor, Llanelli i D. A. Thomas Esq. M.P., (6 Ebrill 1895).

³ PP 1933 IX, Nineteenth Report of the Commissioners of Church Temporalities in Wales for the Year 1932; PP 1933 IX Nineteenth Report ... for the Year 1933; PP 1934-35 Twentieth Report ... for the Year 1934; PP 1935-36 VII Twenty-first Report ... for the year 1935. R. F. Watkins, 'A ydyw'r degwm yn deg?', *Y Ford Gron*, cyf. 2, rhif. 9 (Gorff. 1932), t. 197; R. F. Watkins, *Y Gwir am y Degwm* (Wrecsam, 1933); W. Lloyd Davies, 'Y genedl biau'r degwm', *Ford Gron*, cyf. 2, rhif. 11 (Medi 1932), tt. 245-246. Gw. hefyd, 'Hanes Rhyfel y Degwm yng Ngheredigion', *Bro*, cyf. 20 (1982), tt.6-7.

⁴ John Davies, 'The end of the great estates and the rise of freehold farming in Wales', *Cylchgrawn Hanes Cymru*, cyf. 7, rhif. 2 (1974), 212.

talw blwydd-dal dros gyfnod o 60 mlynedd nes bod yr holl ddegymau wedi'u hadbrynu erbyn 1996.⁵ Digolledwyd perchnogion y degymau gan y llywodraeth, er nid yn llawn.⁶ Caniataodd hyn i'r Comisiynwyr Cymreig ddsbarthu'r eiddo seciwlar i'r cynghorau a'r Brifysgol yn gynt na'r disgwyl, ac fe cwblhawyd y broses rhwng 1942-1947.⁷

II.

Damcaniaethau

Nid hawdd ydyw darganfod gwreiddyn 'Rhyfel y Degwm' gan mor gymhleth oedd y rhesymau mewn gwahanol blwyfi; gwrthglerigiaeth, y 'gydwybod Ymneilltuol' ynteu gofynion ariannol? Y cwestiwn felly i'w ystyried ydyw, cwynion ynghylch cyllid ynteu cwynion ar sail cydraddoldeb crefyddol oedd yn bennaf gyfrifol am wrthod talu'r degymau yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg yng Nghymru? O ran y blaenaf, gellir dadlau nad ydyw unrhyw dreth orfodol erioed wedi bod yn boblogaidd, a thaliad gorfodol oedd y degwm wedi'r cwbl. Os oedd unigolyn yn teimlo eu bod yn gorfod talu mwy nag y dylent, neu yn gorfod talu degwm pan nad oeddynt erioed wedi gwneud hynny o'r blaen, yr oedd y rheswm am wrthod talu yn un amlwg. Gellir dadlau mai'r economi foesol, yn anad dim, oedd yn bennaf gyfrifol am gyfarwyddo unigolyn i wrthod talu'r degwm cyn 1836. Ond hyd yn oed wedi hynny, yr oedd cymhlethdodau ac amwyster yng nghyfraith y degwm wedi ennyn cwynion ariannol. Yn ogystal â hyn, cofier mai cwmp ym mhrisiau cynnyrch amaethyddol oedd yr achlysur a roddodd fod i 'Ryfel y Degwm', yn ogystal ag i'r gwrthdystio yn ystod yr 1930au.

Gellir datgan gyda sicrwydd felly fod ffactorau pur ariannol wedi bod ynghlwm wrth y degwm yn ystod y cyfnod modern o'i ddechrau hyd at ei ddiwedd. Ond i ba raddau y chwaraeodd y 'gydwybod Ymneilltuol' ran yn annog yr Anghydfurfwyr i gymryd safiad moesol ynghylch defnydd y degymau? Y mae'r cwestiwn hwn yn llawer anoddach i'w ateb oherwydd yr ydym yn delio â chysyniad sydd yn llawer mwy cymhleth ac amhendiant a safiad yn ymwneud â budd ariannol

⁵ Eric J. Evans, *Tithes and the Tithe Commutation Act 1836* (Llundain, 1978), t. 34.

⁶ Bell, *Disestablishment in Ireland and Wales*, t. 317.

⁷ *Ibid.*, tt. 317-318.

personol. Ar yr adeg fe gysylltwyd y degymau gyda'r Eglwys Sefydledig, ond gwyddom nad oedd y sefyllfa mor syml â hynny. Cyn 1836 yr oedd lleygwyr yr un mor, os nad mwy, ymglymedig i'r gyfundrefn degymol a'r clerigwyr. Yn sicr y mae hyn yn cymhlethu pethau oherwydd ni ellir disgrifio'r degwm fel tal pur Eglwysig. Wedi dweud hynny, ar ôl 1836 ac yn sgil ffurfiant y Comisiynwyr Eglwysig, yr oedd rhan fwyaf o'r degymau yng Nghymru ym meddiant yr Eglwys, er fe amrywiodd hyn o le i le.

Y mae'n debyg yr oedd hi'n hawdd defnyddio'r degymau i geryddu'r Eglwys Sefydledig am ei ffaeiddau honedig, na llabyddio lleygwyr fel unigolion. Wrth gwrs, yr oedd gan Eglwyswyr ddigon o resymau eu hunain i resynu dros golled nifer o'r degymau i'r perchnogion lleyg. Ond a gafodd y rhethreg wrthglerigol unrhyw effaith ar y lefel sylfaenol? O'r 1790au hyd at chwarter olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ni welwyd unrhyw fath o gynnwrf ar y lefel sylfaenol i'n hargyhoeddi fod y 'gydwybod Ymneilltuol' wedi'i haflonyddu ddigon i wrthod talu'r degwm. Yn sicr nid oedd yna ymdrech gyfunol i wrthod talu'r degymau cyn 'Rhyfel y Degwm'. Hyd yn oed adeg terfysgoedd Beca, pryderon economaidd, yn hytrach na rhai moesol, oedd yn amlwg wrth wraidd y gwrthdystio.

Gweithred ddigymell amaethwyr mewn un plwyf yn Sir Ddinbych a ddechreuodd y symudiad poblogaidd yn erbyn talu'r degymau erbyn ail-hanner yr 1880au. Er bod digon o gwyno ynglŷn â moesoldeb talu'r degymau tuag at gynhaliaeth yr Eglwys Anglicanaidd, yn amlwg nid oedd hyn yn ddigon i gymell y Cymry i drefnu ac i ddechrau symudiad yn erbyn eu talu. Dengys mai cwynion economaidd oedd tarddiad 'Rhyfel y Degwm'. Ond gyda datgysylltiad a dadwaddoliad yr Eglwys Anglicanaidd yng Nghymru wedi cyrraedd ei anterth fel pwnc gwleidyddol erbyn hyn, gellir dadlau nad oedd ffawd ar ochr y clerigwyr. Ni gymerodd yn hir i'r ymgyrch droi o fod yn un bur economaidd i un a frwydrwyd ar sail yr egwyddor o gydraddoldeb crefyddol pan wrthododd ambell i glerigwr ostwng ei ddegwm.

Daeth moesoldeb yn thema amlwg fel y datblygodd yr anghydfod. O ran safbwynt cyfreithiol, nid oedd gorfodaeth ar y clerigwyr i ostwng eu degymau. Beth a welwyd felly yn ystod 'Rhyfel y Degwm' oedd y gwrthgyferbyniad rhwng disgwyliad 'moesol' y plwyfolion a safiad moesol nifer o glerigwyr a wreiddiwyd

mewn hawliau cyfreithiol. Arweiniodd hyn at fathau o wrthglerigiaeth ar y lefel sylfaenol na welodd Cymru cyn cyfnod ‘Rhyfel y Degwm’ nac wedi ei dranc ychwaith. Daeth y weithred o greu a difa delw o glerigwr yn eithaf cyffredin, a ni chondemniwyd y weithred hon gan arweinwyr yr ymgyrch. Mwy eithafol oedd yr enghreifftiau o ymosod ar eiddo’r clerigwyr a aeth tu hwnt i’r sffêr cyhoeddus o brotestio. Er bod yna ychydig o baranoia ynghylch ambell i achos, yr oedd y gweithredoedd hyn yn rhywbeth yn gyfyngedig i gyfnod ‘Rhyfel y Degwm’ yn unig. Os cyfunwn y gweithredoedd hyn gyda’r caneuon milwriaethus eu natur a grëwyd i’w canu yn ystod y protestiadau, gellir datgan mai hwn oedd y cyfnod mwyaf gwrthglerigol yn hanes Cymru fodern.

A ellir, felly, ystyried ‘Rhyfel y Degwm’ fel baromedr dibynadwy i fesur gwrthglerigiaeth yng Nghymru? Yr hyn sydd yn rhyfeddol am ‘Ryfel y Degwm’ ydyw mai ffenomenon dros dro ydoedd. Ni welwyd y fath wrthglerigiaeth yng Nghymru cyn 1886 nac wedi 1895. Y mae’n bwysig hefyd cadw mewn golwg natur rhanbarthol yr ymgyrch. Y mae angen gwaith ymchwil pellach o ran asesu lefel yr anghydfod ym mhob plwyf yng Nghymru er mwyn cael darlun clir a chywrain. Ond y mae’r gwaith ymchwil hyd yn hyn yn dangos mai anghyson ydi’r darlun hwnnw. Y mae yna sawl rheswm am hyn: natur cyfundrefn y degwm, agwedd y tîrffeddiawyr lleol, agwedd y clerigwr plwyfol, agwedd y plwyfolion a dylanwad a sêl yr arweinyddion lleol i enwi ond rhai o’r ffactorau. Yr oedd amodau lleol felly yn holl bwysig i sicrhau ffyniant neu dranc yr anghydfod gwrth-ddegymol ar y lefel blwyfol. Er bod ‘Rhyfel y Degwm’ wedi’i ‘ymladd’ ar sail cydraddoldeb crefyddol, gyda’r amcan cenedlaethol o wladoli’r degymau yn sgil datgysylltiad a dadwaddoliad, yr oedd ei lwyddiant yn hollol ddibynnol ar ymglymiad casgliadol y bobl gyffredin ar y lefel blwyfol.

Y mae proffilio’r cynhyrfwyr a’r cynhyrfus wedi taflu ychydig o olau ar y gymdeithas yn y cyfnod hwn. Gellir didoli’r cynhyrfwyr mewn i ddwy gorlan: y gweinidogion Anghydfurfiol a gwŷr efo ‘statws’ o fewn y gymuned leol. Gyda’i gilydd, fe ffurfiasant rwydwaith effeithiol o ran lledaenu’r cynnwrf. Er bod hanesyddiaeth wedi tueddu i roi fwy o bwyslais ar ymglymiad a dylanwad y gweinidogion Anghydfurfiol, gellir dadlau fod dylanwad a gweithredoedd lleygwyr yr un mor bwysig o ran ymgyrchu yn erbyn y degymau. Cafodd yr arweinwyr gefnogaeth frwd gan ferched adeg diwrnod yr atafaelu a’r arwerthu. Gwelir nad oedd

merched yn ofn mynd y tu hwnt i 'sffêr y tŷ', ac yn groes i'r ddelwedd 'barchus' Fictorianaidd a osodwyd arnynt. Gellir dadlau mai'r prif reswm am hyn oedd oherwydd ystyriasant eu safiad fel un foesol, ac ystyriwyd dyrchafiad y fintai werthu fel troseddwyr moesol o fewn y gymuned. Ond cofier bod y cysyniad hwn o ddangos dicter moesol tuag at dramgwyddwyr o fewn y gymdeithas yn un hynafol. Yr oedd y safiad foesol hwn yn gymwys i'r dynion hefyd. Wedi'r cwbl, safiad cymunedol ydoedd.

Fflach o wrthglerigiaeth oedd 'Rhyfel y Degwm'. Ond fflach bwysig, serch hynny. Ym 1891 dywedodd David Lloyd George wrth T. E. Ellis, 'It [Rhyfel y Degwm] was such a glorious struggle for Wales. Wales practically monopolised the attention of the House for fully three weeks'.⁸ Yn wir, yr oedd Ellis ei hun wedi datgan, 'It [Rhyfel y Degwm] is a form of the awakening of Wales ...'.⁹ Yn gam neu'n gymwys, dargyfeiriodd 'Rhyfel y Degwm' am ysbaid sylw'r Tŷ Cyffredin o Iwerddon at Gymru. Er yn naturiol, fe betrusodd rhai mai cysylltiad Iwerddon â'r achos oedd yn gyfrifol am hynny. Er ymweliad Davitt ac O'Brien â Chymru, gellir awgrymu mai symudiad cwbl Gymreig oedd 'Rhyfel y Degwm'.

Er i Lloyd George ac Ellis ganmol rhinweddau gwleidyddol a chenedlaetholgar yr ymgyrch gwrth-ddegymol, heb os fe ddiodeffodd nifer o glerigwyr o'i herwydd. Yn ogystal â hyn, yr oedd digwyddiadau plentynnaidd yn perthyn i 'Ryfel y Degwm' o ran y cweryla a'r cyhuddiadau a daflodd y ddwy ochr at ei gilydd. Er na osododd 'Rhyfel y Degwm' gysail gwrthglerigol hirdymor yng Nghymru, rhyfygus fyddai ceisio gwadu surni y berthynas rhwng Llan a chapel mewn ambell i le o'i ganlyniad. Yn wir, yn 2002, dywedodd Jane Owen, Llanuwchllyn:

O'dd 'y Nhad yn hollol anfaddeugar i'r eglwys. O'dd o'n cofio'r Degwm, doedd. Ag o'dd yr eglwys yn anathema. Wnai yr eglwys ddim. A mae'n beth rhyfedd, hyd heddiw fyddai'm yn ffordd o fynd i eglwys – mae o'di ffeithio ar farn rywun, ma'n rhaid. O'dd 'y Nhad yn teimlo yn chwerw iawn efo'r Degwm, achos fuodd 'na dipyn o helynt yn Llanuwchllyn efo hynny.¹⁰

⁸ LIGC, Papurau T. E. Ellis, 683, David Lloyd George i Ellis (11 Ebrill 1891).

⁹ LIGC, Papurau D. R. Daniel, 325, T. E. Ellis i Daniel (1 Hydref 1886).

¹⁰ Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, Tapiau Awc, 9643/1, Jane Owen (31/1/2002).

Ar y cyfan, ni ddangosodd y ‘gydwybod Ymneilltuol’ dueddiadau aflonyddgar gwrthglerigol ar y lefel sylfaenol yng Nghymru; o leiaf yn achos y degymau. Drwy ran helaeth o’r bedwaredd ganrif ar bymtheg, ni chafodd yr ymgyrch i ddatgysylltu’r Eglwys fawr o effaith yn y plwyfi o ran creu'r fath o wrthglerigiaeth a welwyd yn ystod ‘Rhyfel y Degwm’, er gwaethaf y rhethreg. Dim ond am oddeutu degawd rhwng 1886-1895 y gellir datgan fod cwestiynau ynghylch dyfodol yr Eglwys wedi gwir effeithio ar y berthynas feunyddiol rhwng y plwyfolion a’r periglor plwyfol. Serch hynny, nid oedd yn ffenomenon a ymledodd dros Gymru gyfan. Tra welodd Sbaen wrthglerigiaeth eithafol yn ystod yr 1930au, rhywbeth a berthynwyd yn y gorffennol ydoedd yng Nghymru erbyn hynny. Yn wir, gellir dadlau nad oedd y ‘gydwybod Ymneilltuol’ bellach yn bwysig o ran annog y Cymry mewn materion gwleidyddol. Beth oedd Ymneilltuaeth yng Nghymru yn ei olygu ar ôl 1920, heb Eglwys Sefydledig bellach i herio? Yr oedd pwysigrwydd gwleidyddol Ymneilltuaeth ynghylch cydraddoldeb crefyddol drosodd.

Atodiad 1

Symiau rhent-dal y degwm a atodwyd gan y Dirprwywyr Eglwys i fywiolaethau o fewn yr Esgobaethau Cymreig rhwng 1870 -1879

Am y flwyddyn yn gorffen:	Bywoliaeth	Sir	Esgobaeth	Cyfanswm Rhent-dal y Degwm
31 Hydref 1870				
	Gwersyllt	Dinbych	Llanelwy	£271 17 11
	Rossett, Christ Church	Dinbych	Llanelwy	£275 0 0
	Uzmaston	Penfro	Tŷ Ddewi	£205 0 0
31 Hydref 1871				
	Colwyn, St. Catharine	Caernarfon a Dinbych	Llanelwy	£358 10 10
	Dyserth	Fflint	Llanelwy	£348 3 0
	Holt	Dinbych	Llanelwy	£295 14 7
	Is-y-Coed	Dinbych	Llanelwy	£274 13 9
	Llanasa	Fflint	Llanelwy	£58 12 2 1/2
	Llanddewi with Knelston	Glamorgan	Tŷ Ddewi	£62 0 0
	Llanfairisgaer	Caernarfon	Bangor	£21 14 3
	Llangwstenin	Caernarfon	Llanelwy	£284 0 0
	Llanyblodwell	Salop	Llanelwy	£70 5 0
	Llysfaen	Caernarfon	Llanelwy	£41 14 9 1/2
	Prestatyn, Christ Church	Fflint	Llanelwy	£125 12 7
	Rhydymwyn, St. John the Evangelist	Fflint	Llanelwy	£127 15 11
	Rhyl	Fflint	Llanelwy	£52 17 4
31 Hydref 1872				
	Caerau	Glamorgan	Llandaf	£150 7 6
	Llandogo, V. with Whitebrook	Mynwy	Llandaf	£151 13 5
	Llandrillo-yn-Rhos	Caernarfon a Dinbych	Llanelwy	£125 3 3
	Llanelian	Dinbych	Llanelwy	£75 14 6 1/4
	Llansantffraid Glan Conway	Dinbych	Llanelwy	£23 12 0

	Penmynydd	Môn	Bangor	£260 8 9
	Penrhos	Trefaldwyn	Llanelwy	£35 1 4
	Rhuddlan	Fflint	Llanelwy	£18 5 6
31 Hydref 1873				
	Bodfari	Dinbych a Fflint	Llanelwy	£29 10 0
	Connah's Quay, St. Mark (Northop)	Fflint	Llanelwy	£120 8 0
	Ystradowen	Glamorgan	Llandaf	£184 10 0
31 Hydref 1874				
	Rhyl	Fflint	Llanelwy	£269 1 10
	Saint Hilary	Glamorgan	Llandaf	£52 3 0
	Towyn, St. Mary	Dinbych	Llanelwy	£307 9 4
	Trofarth, St. John	Dinbych	Llanelwy	£306 7 1
31 Hydref 1875				
	Cwmduddwr	Maesyfed	Tŷ Ddewi	£124 3 4
	Lamphey,	Penfro	Tŷ Ddewi	£60 5 0
	Llanfihangel Abergwessin with Llanddewi Abergwessin	Brycheiniog	Tŷ Ddewi	£58 0 0
	Llanfihangel -y-Pennant	Meirionnydd	Bangor	£190 0 0
	Llangammarch	Brycheiniog	Tŷ Ddewi	£190 1 0
	Llanthew	Brycheiniog	Tŷ Ddewi	£209 2 0
	Llanwrtyd	Brycheiniog	Tŷ Ddewi	£14 8 1
	Trefonen	Salop	Llanelwy	£74 5 8
31 Hydref 1876				
	Aberdovey	Meirionnydd	Bangor	£352 4 6
	Glascombe	Maesyfed	Tŷ Ddewi	£171 3 5
	Llanarth with Llanina	Ceredigion	Tŷ Ddewi	£190 14 6
	Llansilin	Dinbych a Salop	Llanelwy	£40 9 0
	Sarn, Holy Trinity	Trefaldwyn	Llanelwy	£341 3 3
	Talyllyn	Meirionnydd	Bangor	£136 7 0
	Towyn	Meirionnydd	Bangor	£200 1 9

31 Hydref 1877				
	Caerfallwch. St. Paul	Fflint	Llanelwy	£246 18 9 1/2
	Cardff, All Saints	Glamorgan	Llandaf	£26 0 0
	Clydach	Glamorgan	Tŷ Ddewi	£371 16 3
	Clydey	Penfro	Tŷ Ddewi	£250 0 0
	Dolfor, St. Paul (in Kerry)	Trefaldwyn	Llanelwy	£214 16 8
	Kefnlllys with Llandrindod	Maesyfed	Tŷ Ddewi	£100 3 0
	Llanfabon	Glamorgan	Llandaf	£200 0 0
	Llangyfelach	Glamorgan	Tŷ Ddewi	£185 18 5
	Ystradyfodwg, St. John	Glamorgan	Llandaf	£186 13 0
31 Hydref 1878				
	Llangadwaladr	Dinbych	Llanelwy	£78 19 7
	Llanwonno	Glamorgan	Llandaf	£42 0 8
31 Hydref 1879	Warren with St. Twinnels	Penfro	Tŷ Ddewi	£80 0 0

Ffynhonnell: PP 1880 LIV, Return of Tithe Commutation Rent-Charges annexed by Ecclesiastical Commissioners to Livings, 1870-79.

Atodiad 2

Gwerth rhentdal-y-degwm

Blwyddyn	Gwerth £100 Rhentdal-y-Degwm		
1837	£98. 13. 9 3/4	1881	£107. 2. 10 1/2
1838	£97. 7. 11	1882	£102. 16. 2
1839	£95 7. 9	1883	£100. 4. 9 3/4
1840	£98. 15. 9 1/2	1884	£98. 6. 2 1/4
1841	£102. 12. 5 1/2	1885	£93. 17. 3
1842	£105. 8. 2 3/4	1886	£90. 10. 3 1/2
1843	£105. 12. 2 1/4	1887	£87. 8. 10
1844	£104. 3. 5 1/4	1888	£84. 2. 8 3/4
1845	£103. 17. 11. 1/4	1889	£80. 19. 8 1/2
1846	£102. 17. 8 3/4	1890	£78. 1. 3 1/4
1847	£99. 18. 10 1/4	1891	£76. 3. 3 1/8
1848	£102. 1. 0	1892	£75. 18. 3 3 1/4
1849	£100. 3. 7 3/4	1893	£74. 15. 2 3/4
1850	£98. 16. 10	1894	£74. 3. 9 1/2
1851	£96. 11. 4 3/4	1895	£73. 13. 0 1/2
1852	£93. 16. 11 1/4	1896	£71. 9. 6 3/4
1853	£91. 13. 5 3/4	1897	£69. 17. 11 1/2
1854	£90. 19. 5	1898	£68. 14. 11
1855	£89. 15. 8 3/4	1899	£68. 2. 4 3/4
1856	£93. 18. 1 1/4	1900	£66. 55. 9 3/4
1857	£99. 13. 7 1/4		
1858	£105. 16. 3 1/2		
1859	£108. 19. 6 1/4		
1860	£110. 17. 8 1/2		
1861	£112. 3. 4 3/4		
1862	£109. 13. 6		
1863	£107. 5. 2		
1864	£103. 3. 10 3/4		
1865	£98. 15. 10 1/2		
1866	£97. 7. 9 1/4		
1867	£98. 13. 3		
1868	£100. 13. 8		
1869	£103. 5. 8 1/4		
1870	£104. 1. 0 1/4		
1871	£104. 15. 1		
1872	£108. 4. 0 1/4		
1873	£110. 15. 10. 1/4		
1874	£112. 7. 3		
1875	£112. 15. 6 3/4		
1876	£110. 14. 11		
1877	£109. 16. 11 1/2		
1878	£112. 7. 5 1/4		
1879	£111. 15. 1 1/2		
1880	£109. 17. 9 1/4		

Ffynhonnell: The Times

Atodiad 3

Atebion i'r holiadur, 'Yr Amethwyr a'u Hawliau' a gyhoeddwyd yn *Y Faner* rhwng 19 Hydref 1881—21 Mehefin 1882 o barthed y cwestiwn canlynol: 'A oes symiau wedi eu dychwelyd wrth dalu y Degwm? Os oes, pa faint? - a chan bwy?'

Sir	Plwyf/Plwyfi/Ardal	Sylwadau
Sir Fôn	Canol yr Ynys.	Ni chlywais fod neb o'r clerigwyr wedi dychwelwyd dim yn ôl yn 1880, nac yn 1881.
	Caergybi, Rhoscolyn, Llanfair yn Neubwll a Llanynghenedl.	Nid oes dim o'r degwm wedi ei droi yn ôl yn y ddwy flynedd – nac yn oes neb sydd yn cofio.
	Gwalchmai, rhannau o Aberffro, Llanbeulan, Bodwrog, Heneglwys, Cwmwd Llifton a Chwmwd Malltraeth.	Nid oes yma ddim sôn am y fath beth. Byddai yn ddigwyddiad i'w ryfeddu drwy yr holl wledydd. Yn 1881 – Dim sôn! Na, dim sôn! –na thebyg!
	Y rhan ogleddol – Llanbadrig, Llanfechell, Llanrhwydrys a Rhosbeirio.	Nid oes un ddimai wedi eu dychwelyd o'r degwm gan un o'r personiaid, na chan Mr. Griffiths, o Gaerhun, chwaith
	Plwyf Aberffro a.y.b.	Nid oes symiau wedi eu dychwelyd wrth dalu y degwm chwaith: Dim o gwbl. Ond y maent wedi codi yn hytrach, gan y byddai ceiniog y bunt i'w gael bob taliad o'r blaen, hyd y ddwy flynedd ddiwethaf. Ond yn awr, nid oes un ddimai, trwy fod y <i>rector yn anfon ei was o fferm i fferm, y ddwy flynedd ddiweddfaf yma, i dderbyn y degwm, ac yn codi hyd yn oed y ddimai.</i>
	Niwbwrch, Llangeinwen, Brynsiencyn a Llangaffo	Nid oes dim wedi ei ddychwelyd wrth dalu y degwm.
	Caergybi.	Nid oes dim gan neb chwaith wrth dalu y degwm.
	Y rhan orllewinol: 14 o blwyfi	Nid oes yr un geiniog wedi ei dychwelyd gan y parsoniaid.

Sir Aberteifi	Caron-Is a Charon-Uwch, Clawdd, Ystrad Rhondda a Gwnws.	Nid ydyw un o'r clerigwyr wedi dychwelyd dim o'r degwm yn un o'r ddwy flynedd uchod.
	Canolbarth y sir.	Nid oes neb o'r 'offeiriad,' fel y gelwir hwy yma, wedi dychwelyd dim yn 1880, nac yn 1881.
	Llandygwydd, Llangoedmor, Blaenporth a Llechryd.	Na ddo, ddim o'r degwm yn ôl. Yn 1881 – Na ddo, ddim etto.
	Lledrod ucha a Lledrod isa ac Ystradmeurig.	Yn 1880 – Ni ddychwelwyd dim gan 'offeiriad' y cymmydogaethau hyn – nac yn 1881 chwaith.
	Llanina, cydblwyf Henfynyw a rhan helaethaf o Lanarth	Nid oes dim wedi ei ddychwelyd gan dderbynwyr y degwm.
	Llanbadarn Fawr.	oddi eithr Syr Pryse Pryse, Gogerddan, yr hwn a ddychwelodd y degwm am y flwyddyn ddiweddfaf i'w holl denantiaid. Nid oes un o'r 'offeiriad' yn y wlad hon wedi dychwelyd dim – ac nid oes tebyg y clywir am y fath beth – yn fuan beth bynag.

Llanfair Clydogau, Llanddewi Brefi, Llangybi, Betws Bledrws, Silian, a Llanbedr-Pont-Steffan.	‘Offeiriad’ yn dychwelyd symiau wrth dalu y degwm! Na: ni ddychwelasant hwy yr un geiniog. Credaf y gallasech yn hawdd hebgor y pennawd hwn. A welodd rhyw un y cymeriadau hyn yn tosturio wrth yr amaethwyr – neu rywrai eraill? Yn hytrach, gwelant yr hyn a dderbynir ganddynt yn rhy fychan!’
Llanddeiniol a’r cyffiniau.	Nid oes neb yn y rhan yma o’r sir wedi derbyn dim yn ôl o arian y degwm yn y flwyddyn 1880, nac yn 1881.
Melindwr, Parsel Canol a Threfeurig.	Eiddo cymmunweinyddwyr Syr A. B. Chichester ydyw y degwm; ond ni ddychwelwyd dim ganddynt yn 1880, nac yn 1881.
Canolbarth y sir.	Yn 1881 ac 1881 – Nac oes ddim o’r degwm wedi ei ddychwelyd.
Blaenpennal.	Nid oes dim o’r degwm wedi ei ddychwelyd, yn 1880 nac yn 1881.
Dosbarth polio Tal-y-Bont.	Nid oes symiau wedi eu dychwelyd wrth dalu y degwm gan neb, ond gan Syr Pryse Pryse ar yr achlysur o briodas yr etifedd
Aberporth a Thremain.	Nid oes dim wedi ei ddychwelyd o’r degwm. Codir y ddimai uchaf! Oni bae i mi weled hanes am un yn eich colofnau, buaswn yn credu mai ffolindeb ynoch oedd gofyn y fath gwestiwn.
Llanwnnen a Llanwenog.	Wrth dalu y degwm, nid oes dim wedi ei ddychwelyd; ond pe y byddai yn bossibl, cymerent mewn llawer o blwyfydd lawer yn rhagor
Aberystwyth.	[Pryse Pryse – Degwm – 1880 – Ond y farn gyffredin yw, mai caledi yr amseroedd oedd y gwir achos.] Ni chlywais fod neb o’r clerigwyr wedi dychwelyd un ddimai yn ôl, er fod mwy o achos gyda’r degwm na’r rhent – ac y mae mwy na digon ar hwnw.
Llanrhystud, Llansantffraid, Llanbadarn, Trefeglwys, Llanddewi, Aberarth a Henfynyw.	Nid oes dim symiau wedi eu dychwelyd o gwbl wrth dalu y Degwm yn un o’r ddwy flynedd
Llanrhystud.	Nac oes, dim o’r degwm wedi ei ddychwelyd gan yr Ymneillduwyr sydd yn derbyn rhan flynyddol o hono – na chan yr ‘offeiriad’ chwaith. [Pa fodd y mae yr Ymneillduwyr yn derbyn rhan o’r degwm? Byddwn ddiolchgar am atebiad – Gol.]’*
Troed-yr-Aur, Betws Ifan, rhan o Ben-y-Bryn, Llangunllo a Llanfair Tref Helygen.	Yn 1880, ni ddychwelwyd dim gan na thirfeddiannwr nac ‘offeiriad’ – nac yn 1881, gyda’r eithriad uchod. [Syr Pryse Pryse, Gogerddan – Dychwelodd y boneddwr y degwm yn ôl y llynedd i’w denantiaid, er dathlu priodas ei fab hynaf.] Codiad mawr a gafodd amaethwyr ar ystâd Gogerddan ryw bedair blynedd yn ôl.
Caron Uchaf ac Isaf, Gwnws a Lledrod	Ni chlywais sôn fod neb o dderbynwyr y degwm wedi dychwelyd dim yn ôl.
Llangeitho.	Nid oes symiau wedi eu dychwelyd wrth dalu y degwm yn 1880, nac yn 1881.
Llandyfrïog, Llangunllo, Henllan a Llanfair-oer-llwyn, ynghyd â Bangor.	Yr ydym yn sicr nad oes yr un ‘offeiriad’ wedi troi dim yn ôl yn un o’r ddwy flynedd.
Rhan ddeheuol o’r sir.	Nid oes symiau wedi eu dychwelyd wrth dalu y degwm yn un o’r ddwy flynedd.
Llanwnnen a Llanwnnog.	Wrth dalu degwm, nid oes dim wedi ei ddychwelyd; ond pe bae yn bossibl, byddai yn dda ganddynt gael llawer yn rhagor.

Sir Ddinbych	Llanychan, Llangynhafal a Llanynys.	Nid oes dim wedi ei ddychwelyd gan glerigwyr y plwyfydd uchod i'r amaethwyr yn 1880, nac yn 1881.
	Clocaenog, Derwen a Llanelidan.	Nac oes, gan neb yn y ddwy flynedd ddiweddaf. Y mae degymau y plwyfydd uchod gyda'u gilydd yn cyrhaedd y swm o £1,300., ac ni ddychwelwyd dim yn ôl. A ffaith gwerth ei chofnodi ydyw, fod poblogaeth y tri phlwyf gyda'u gilydd rhwng dwy fil a dwy fil a hanner; ond nad oes gynifer a dwsin o'r rhai sydd yn talu y degwm yn y tri ynghyd yn aelodau o'r Sefydliad Gwladol. Ond y mae y boblogaeth yn mynychu deuddeg o gapeli Ymneillduol.
	Llanelidan, Clocaenog a Derwen.	Nid oes dim wedi ei ddychwelyd yn 1880 nac yn 1881, gan neb o'r personiaid. A gwaeth na hynny – yn niffyg na thelir y degwm yn yr amser, anfonir beili i'w ymofyn gyda chost. Gwnaed hynny yma gydag amryw o denantiaid bychan.
	Clocaenog.	Nid ydyw yn wybyddus i mi fod unrhyw swm wedi ei ddychwelyd yn ôl yn nghorph y naill flwyddyn na'r llall; ac nid wyf yn deall fod neb yn breuddwydio am ddychweliad yn ôl o gyfeiriad y cyssegr! Nid oes dim – na rhost, na berw – yn colli oddi ar gigwain dridaint meibion Lefi!
	Gwytherin, rhan o Langernyw a rhan o Llanfairtalhaiarn.	Yn 1880, nac oes. Yn hytrach, y maent fel merched y Gele, yn gwaeddi "Moes moes." Pwy erioed a glywodd am wir 'ffeiriad' y trefniad gwladol, mewn cyssylltiad â degwm na threth, yn gofyn llai nag eithaf cyfraith! Yn 1881 – Dim! dim! chwaith.
	Llanrwst a Llanddoged.	Yn 1880 – Nac oes! Dyn a'n helpo – nac oes: na'r flwyddyn 1881 chwaith.
	Cerrig-y-drudion a'r cyffiniau.	Nac oes ddim wedi ei dalu yn ôl o'r degwm chwaith – dim ond tocyn, ac yn breintiedig ar hwnw, 'Half pint of ale.' Y mae'r fywoliaeth frâs hon yn werth o chwech i saith gant o bunnau yn y flwyddyn! Gresyn, onid ê, ydyw i'r parson ollwng yr amaethwyr, druain! adref ar eu cythlwg – a llawer o honynt wedi bod mewn cryn bryder rhag ofn methu cael yr arian erbyn y diwrnod.
	Rhan uchaf o blwyf Llanrwst.	Nac oes, dim un ddimai o'r degwm wedi ei dalu yn ôl – mi gwaranta nhw.
	Llanarmon Ceiriog.	Nid oes dim o'r degwm chwaith wedi ei ddychwelyd yn 1880, nac yn 1881.
	Llangwm.	Nac oes, ddim wedi ei ddychwelyd yn ôl o'r degwm chwaith – dim ond rhyw 'bres peint,' a rhyw 'bres chwart' i'r rhai sydd yn talu symiau da o ddegwm. Y mae y degwm yn ddireswm o uchel yn yr ardal yma ar y byd drwg presennol.
	Cerrig-y-drudion a Llanfihangel.	Nid wyf yn gwybod chwaith am neb yn troi dim yn ôl wrth dalu degwm, yn 1880, nac yn 1881.
	Traian, Glyn Ceiriog.	Nid oes dim o'r degwm wedi ei ddychwelyd mewn un o'r ddwy flynedd.
	Llansannan a Llanfairtalhaiarn.	Nac oes – ddim wedi ei ddychwelyd yn ôl o'r degwm. Y dosbarth mwyaf annhebyg o lawer, a'u cymmeryd at eu gilydd, ydyw parsoniaid y wlad i ddychwelyd dim yn ôl.
	Eglwysfach.	Ni ddychwelwyd dim ffyrlling yn ôl o'r degwm yn 1880, nac yn 1881.
	Bryneglwys, Llandegla, Llanarmon, Llanferres a Chilcen.	Nid oes symiau wedi eu dychwelyd wrth dalu y degwm gan un o'r parsoniaid yn 1880, nac yn 1881

Cyffylliog.	Y mae yn ôl chwe cheiniog y bunt wedi ei throï yn ôl gan y Parch. W. R. Williams yn y tâl cyntaf o'r flwyddyn hon; ac o'r blaen, oddeutu dwy flynedd yn ôl, yr un swm. Dyma y cyntaf y clywsom sôn am dano. Pa mor lleied bynag oedd, yr oedd yn dangos cydymdeimlad â'r amaethwyr.
Llanrwst a Chapel Garmon.	Nid oes yma ddim wedi ei droi yn ôl yn y degwm, na thebyg y dychwelir dim yn ôl chwaith. O na! Y mae parsoniaid ein gwlad ni at eu gilydd yn rhy arw am dani o lawer i droi dim yn ôl.

Sir Gaernarfon	Carnguwch, Pistyll, Nefyn, Bodfean, Llannor, Llanfihangel Bachellaeth, Llaniestyn, Llandudwen, Ceidio, Edern, Tudweiliog, Penllech, Sarn, Llangwnnagl, Bryncroes a.y.b.	Nid oes unrhyw swm wedi ei ddychwelyd gan dderbynwyr y degwm chwaith. Mewn ambell i blwyf, dangosir parodrydd yn barhaus i godi, yn hytrach na lleihau, y degwm.
	Tre Faenan (Eglwysfach)	Nid oes yma ddim wedi ei ddychwelyd gan y clerigwyr, yn y ddwy flynedd, o'r degwm. Y mae y degwm yn Maenau yn uwch nag y dylai fod er y flwyddyn 1858. Telir ef i'r Gwydyr Charity fel y canlyn: O Maenan £230; Tre-cefn-y-coed, Tre'r Pennant a Thre Esgor-Ebrill, £400; Tre-Bodnod, i'r ficer, tua £240.
	Gyffin a Llangelynin.	Nac oes un clerigwr erioed wedi dychwelyd dim sydd yn wybyddus i mi. Y mae degymau y ddau blwyf gyda'i gilydd dros £700.
	Etifeddiaeth Gwydyr yn Nhrefriw, Llanrhychwyn, Betws-y-coed, Tre Wydyr, a Dolwyddelan.	Ni chlywodd neb yn holl ddyddiau y ddaear sôn am y fath beth a pharson yn troi yn ôl o'r degwm. Rhaid talu i lawer godi rhyw ddeg punt y cant ar rai ffermydd lle yr oedd y ffermwyr wedi eu gwellhau.
	Caerhun a Llanbedr-y-Cennin.	Nid oes dim wedi ei ddychwelyd yn ôl gan un o'r ddau 'offeiriad' o'r arian degwm (pa rai sydd yn cyrhaedd rhwng y ddau blwyf yn agos i £700), yn un o'r ddwy flynedd ddiweddaf.
	Rhannau o Nant Conwy – Capel Garmon, Pentrefoelas, Ysbyty a Phenmachno.	Dychwelwyd y degwm yn wir! Na choeliaf fi. Y mae ambell un yn hytrach yn dyheu ac yn dyheu eisieu chwaneg. Rhais talu y diwrnod – neu fe roir cost! Ni cheir na thamaid na llymaid pan yn talu y degwm yn Mhenmachno. Yn Llanrwst, ceir rhyw bapur bychan i fyned i'r dafarn i yfed dyferyn o wirod, neu lasiad o gwrw. Ceir amryw ffermwyr yn talu cymmaint a chwe phunt ar hugain – a rhai lawer mwy. Sôn am ostwng y degwm. Ni chlywodd neb erioed am y fath beth. Ond y mae rhai o 'offeiriadon' y sir hon yn methu cael deupen llinyn ynghyd. Ac y maent yn casglu llawer o bres heb law hynny yn mhlith y gynnulleidfa.
	Llanddeiniolen a Llanberis.	Ni throes yr un o barsoniaid y plwyfydd hyn un ffyrlling erioed o'r degwm yn ôl; a gellir meddwl na wnant chwaith, os na orfodir hwy o wneud gan gyfraith y tir.
	Edern, Llandychan, Ceidio, Llaniestyn a Tudweiliog.	Nac oes, dim degwm wedi ei ddychwelyd yn y ddwy flynedd.
	Eidde a Gwernihowel.	Am ostyngiad yn y degwm, nid oes yma ddim gostyngiad. Gellwch fod yn sicr na wnaiff ond ychydig iawn o bersoniaid y wlad droi yn ôl yn y degwm; o herwydd arian ydyw pob peth y bobl hynny – a dim arall.

Treflys, Ynyscynhaearn, Penmorfa, Criccieth.	Nid oes symiau wedi eu dychwelyd wrth dalu y degwm chwaith yn y ddwy flynedd. Mae'r ddau blwyf cyntaf a'r olaf yn perthyn i un parson. Yn eglwys Treflys ni chynnelir gwasanaeth ddydd yn y flwyddyn. Unwaith bob Sabbath y bydd gwasanaeth yn eglwys Ynyscynhaearn.
Beddgelert – y rhan o hono yn sir Gaernarfon, a rhan yn Meirionydd; a phlwyf Llanfrothen yn Meirionydd.	Nac oes, ddim ceiniog chwaith o'r degwm yn y ddwy flynedd.
Llanberis.	Nid oes symiau wedi eu dychwelyd wrth dalu y degwm chwaith – na neb yn ei ddisgwyl chwaith, ysywaeth.
Bangor, Llanfair-is-gaer, Llanddeiniolen, Pentir, Llanrug, Llandegai a Llanllechid.	Nid oes symiau wedi eu dychwelyd wrth dalu y degwm chwaith yn un o'r ddwy flynedd.
Ardal Beddgelert	Nid oes dim o'r degwm chwaith wedi ei ddychwelyd yn ôl yr un o'r ddwy flynedd.

Sir Gaerfyrddin	Llanybydder, Pencarreg, Llanllwni, Aberteifi, Llanwnnen a Llanwenog a'r cylchoedd	Nid oes neb o'r 'offeiriad' wedi dychwelyd dim chwaith wrth dalu y degwm yn y plwyfydd a enwyd.
	Llandingad, Myddfai, Llanfair-ar-y-bryn a Cil-y-cwm	Nid oes yma neb o'r gwŷyr eglwysig wedi dychwelyd ceiniog o'r degwm yn y ddwy flynedd 1880, nac 1881.
	Caerfyrddin ac Aberteifi: Y rhan ohonynt yn ffinio ar ei gilydd.	Yn 1880 – Dychwelwyd yr holl ddegwm am y flwyddyn hon i bob deiliad ar etifeddiaeth Syr Pryse Pryse, Gogerddan, ar ddyfodiad ei fab i'w oedran. Yn 1881 – Nid oes dim wedi ei ddychwelyd gan neb hyd eithaf fy ngwybodaeth.
	Llangadog	Nid oes symiau wedi eu dychwelyd wrth dalu y degwm yn 1880, nac yn 1881.
	Llanfihangel-ar-Arth, Llanllwni a Llanfihangel Rhos-y-corn	Nac oes un geiniogwedi ei ddychwelyd o ddegwm yn y plwyfydd uchus yn un o'r ddwy flynyddoedd.
	Talley, Llansawel, Caio a Llan-crwys	Nid oes yma symiau wedi eu dychwelyd wrth dalu y degwm chwaith.
	Llanfihangel-rhos-y-cron, Brechfa a.y.b.	Ni chlywais ddim sôn am un 'offeiriad' wedi rhoddi cymmaint a cheiniog yn ôl yn 1880, nac yn 1881.
	Llanglydwen.	Nid oes dim o'r degwm wedi cael ei ddychwelwyd chwaith yn y flwyddyn 1880, nac yn 1881. Y mae parson y plwyfi hwn yn gosod y gorehwyl o dderbyn y degwm i gyfreithiwr; ac yn yr amser priodol, rhaid i'r holl degwm-dalwyr fyned i swyddfa hwnw – rhyw ddeg milldir allan o'r plwyf – i'w thalu! Hoffwn yn fawr gael gwybod y ydyw y gyfraith yn caniatáu peth fel hyn. Caled ydyw i lawer nad oes ganddynt anifeiliaid i'w cario, na modd i dalu trê, nac amser i'w golli, fod dan orfod myned mor bell i dalu y degwm, pan gellir ei thalu gartref yn y plwyf!
	Llansadwrn, Llanwnda, Llangadog a Llanddeusant.	Nac oes dim gan neb, hyd y gwyddom, wedi ei ddychwelyd o'r degwm.

Sir Faesyfed	Rhan uchaf, neu orllewinol o'r sir.	Nid ydyw'r yr 'offeiriad' wedi dychwelyd dim un geiniog.
--------------	-------------------------------------	--

Sir Frycheiniog	Rhannau o Brycheiniog a Chaerfyrddin: Llanwrtyd, Llanfair-ym-muallt a Llanymddyfri.	Yn 1880 – Dim yn yr holl wlad – nac yn 1881 chwaith.
-----------------	---	--

Sir Feirionnydd	Corwen	Nid oes yma ddim chwaith wedi cael ei ddychwelyd o'r degwm yn y ddwy flynedd uchod.
	Llanuwchllyn, Llangywer, Llanycil, Llanfor a Llandderfel.	Nac oes neb o'r 'offeiriaid' yn dychwelyd dim un geiniog. Pwy a welodd y dosbarth hwn yn cydymdeimlo â'r bobl mewn na degwm, nac arian? Dangosant yn hytrach barodrwydd i godi y degwm, a'r 'cyflogau bugeiliol' hefyd – yn hytrach na lleihau. Y cyfan a ddychwelwyd gan barsoniaid ydyw, ychydig o geiniogau – rhai dwy, eraill dair – ond nid yn y bunt, cofier. Na, na: "pres peint," fel y dywedir.
	Llandrillo.	Yn 1880 ac 1881 – Dim yn ôl. Ni chlywodd neb sôn am y fath beth a dim yn ôl gan barsoniaid.
	Corwen a Llansilio.	Y mae y swm anferth o werth, ar gyfartaledd, o 3 ½ c. Y llaw- swm anrhydeddus felly – wedi ei ddychwelyd y ddwy flynedd diweddaf.
	Llanuwchllyn a Llangywer.	Na dim wedi ei ddychwelyd wrth dalu y degwm chwaith.
	Llanfachreth.	Etifedd Nannau yw perchenog y degwm; ac felly, y mae y degwm yn cael ei dalu yn y rhent ar etifeddiaeth Nannau. Nid yw y gweddill yn dychwelyd dim.
	Tal-y-llyn.	Nac oes dim. Gofelir am gael cyfreithiwr, neu rywun mewn awdurdod, i'w derbyn; ac fe fyn y rhai hynny y geiniog pe gorfyddai iddynt newid papyr pum punt er mwyn ei chael.
	Llanfor, Llanycil a Llanuwchllyn.	Ni ddychwelwyd dim yn ôl gan y clerigwyr chwaith wrth dalu y degwm, yn 1880 nac 1881.
	Celynin.	Ni chafwyd dim yn ôl o'r degwm yn 1880, nac 1881, yn y plwyf hwn. Gallesid disgwyl hynny ar amseroedd celyd fel y blynyddoedd hyn; on nid oes y gobaith lleiaf y ceir dim mewn llawer o blwyfydd, am fod gwangc y Lefiaidd am y brasder i gyd ydynt eu hunain.
	Dolgellau, Llanfachreth a Llanelltud.	Nid oes symiau wedi eu dychwelyd chwaith wrth dalu y degwm; ac nid oes yma neb yn disgwyl cymaint a hynny o gydymdeimlad gan dderbynwyr y degwm chwaith.
	Meirionydd a Trefaldwyn: Taly-y-llyn (Meirionydd) a Llanwrin (Trefaldwyn).	Nac oes. Y mae y ddau blwyf hyn yn dwyn degwm o tua £400 yr un; ac yn yr eglwysi hyn mynychu tua dwsin yn mhob un o honynt ar y Sabbath. Arferid, flynyddoedd yn ôl, <i>allowio y pres fyddai dan swllt; ond yn awr, rhoddir dyn dyciethr i gasglu y degwm</i> , ac ni allowir dim o'r pres; ond rhoddir tamaid o fwyd ar y pryd y telir y degwm. Y mae anwastadrwydd mawr yn y degwm.
	Trawsfynydd.	Nid oes symiau chwaith wedi eu dychwelwyd wrth dalu y degwm, na sôn am hynny.

Sir Forgannwg	Margam, Briton Ferry, Llangonoyd, Michaelstone ac Ewenny.	Ni ddychwelwyd dim gan un clerigwr yn 1880 nac yn 1881, o fewn cylch fy ngwybodaeth i, yn un o'r plwyfydd uchod.
---------------	---	--

Sir Drefaldwyn	Penegoes, Darowen, Cemaes a Llanbryn-mair.	Ni ddychwelwyd dim gan un clericwr yn un o'r ddwy flynedd chwaith.
	Carno, Llanbryn-mair, Darowen a Cemaes.	Ni ddychwelwyd dim mewn unrhyw fodd gan y personiaid yn y flwyddyn 1880, nac 1881 chwaith.
	Llanwyddelan.	Ni ddychwelwyd dim gan y clericwyr yn un o'r ddwy flynedd. Ond os bydd <i>second application am y degwm</i> , rhaid talu 2s. 6c. o gost, a myned wyth milldir o ffordd i'w dalu!
	Llangyniew, Pontrobert, Meifod a Llanfihangel.	Am ddegwm yn y plwyfydd uchod, ni ddychwelwyd dim! Ond darfu i un o'r parsoniaid gospi tenant – sef, ei roddi yn y county court – o herwydd ei fod dri neu bedwar diwrnod ar ôl y diwrnod talu! Nid oes sôn felly am ddychwelyd dim gan y parsoniaid. Nid oes dim perygl hyd y gallant hwy.
	Llangynog a rhan o blwyf Pennant.	Nid oes dim o'r 'degwm dygyn' a ddaw yn ôl i undyn; ond weithiau ceir ffyrlling!
	Llanllugan a thref ddegwm Dolgwynfelyn. Llanfair Caereinion a Manafon.	Na: dim troi yn ôl yn y degwm – na thebyg chwaith. Nac oes dim wedi ei ddychwelyd o'r degwm yn y plwyfydd uchod yn un o'r ddwy flynedd. Ond bygythir yn ofnadwy, os na thalwn, gan rywun o dref yr esgob yn agos i chwi, yn debyg i hyn: ' <i>The third and last application before proceedings.</i> ' Ond yr oedd y ffermwyr wedi talu i'r ficer. Y mae hyn yn ein gwneyd yn benderfynol na anfonwn Mr. Rendel, na neb arall, i'r senedd, os na bydd efe yn bleidiol i Ddadgyssylltiad, pan y cawn gyfle nesaf.
Sir Benfro	Clydau, Penrith a rhan o Gilrhedyn.	Ni chlywais ddim am un 'ffeiriad' wedi rhoddi dim yn ôl yn 1880, nac yn 1881.
	Y rhan uchaf ohoni.	Nid oes dim wedi cael ei roddi yn ôl o'r degwm chwaith.
	Eglwyswrw, Meline a Nevern.	Dim, dim oll –na thebyg – gan yr 'offeiriaid.'
Sir y Fflint	Treffynnon, Whitford, Ysceifiog, Cilcen, Nannerch, Wyddgrug, Helygain, Fflint, Llanasa, Pen-ar-lâg, Nerquis, Hope, Caergwrle, Tryddyn, Caerwys, Gwaunysgor, Cwm a Llanelwy.	Nid oes yma ddim wedi ei gael gan un o'r clericwyr. Ond yn hytrach bygythia rhai o honynt ein cospi os na thalwn y degwm. Y mae y degwm yma yn orthrymus dros ben!
	Llanasa.	Ni chafwyd dim yn ôl o'r degwm yn 1880 nac yn 1881 yn y plwyf hwn. Pwy, mewn gwirionedd, a ddisgwylai hyn oddi wrth bersoniaid?
	Rhuddlan.	Nid oes yma sôn fod y fath beth yn bosibl ag i ran o'r degwm gael ei droi yn ôl. Yr un peta fyddai disgwyl i'r afon Glwyd redeg yn ôl tua'i tharddle yn y mynydd yn agos i Dderwen.
	Rhan o blwyf Wyddgrug, sef Coedllai a Hartsheath.	Nid oes symiau wedi eu dychwelyd wrth dalu y degwm yn un o'r ddwy flynedd.

Atodiad 4

Lluniau o'r *Western Mail* (14-16 Mawrth 1895)

Ynghylch casglu'r degymau ym Mhenbryn, Ceredigion

'The Attack on "Plevna".'

'Mr. Robert Lewis, The Tithe Bailiff.'

“Plevna” Taken’.

‘The Wrangle at Castell Pridd’.

‘Farmer and Radical Reporter’.

‘Mr. Howell Evans, Chief-constable of Cardiganshire’.

‘One of Wednesday’s incidents’.

‘Breaking Brithdir’s Bulwark’.

Llyfryddiaeth

I. Ffynonellau Cynradd

(a.) Llawysgrifau

Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth

LIGC, SA/Tithe/1-207; SA/Tithe/204-411.

LIGC, Cofnodion y Llysoedd Eglwysig: LL/CC/G; SA/CB; SD/CCCm(G); B/CC/C(G).

LIGC, Papurau'r Eglwys yng Nghymru/Esgobaeth Bangor/Dogfennau Cyffredinol y Degymau.

LIGC, Papurau'r Eglwys yng Nghymru/LlCh.

LIGC, Papurau'r Eglwys yng Nghymru: SA/V/28 – Clergy List – 1894; SA/P/101; SD/P/1124; SD/P/3095; SD/P/1079; SD/P/273; SD/P/1228; SD/P/176; SD/P/1724.

LIGC, ECE 70,0008i – Part 1 – Estates Management – Tithe Rentcharges – Distraints in Wales; 70,0008ii – Part 2 - Estates Management – Tithe Rentcharges – Distraints in Wales; 70,0008iii – Part 3 – Estates Management – Tithe Rent Charge – Distraints in Wales; 70,0008iv - Parts 4 and 5 – Estates Management – Tithe Rent Charge – Distraints in Wales.

LIGC, 782B, Deunydd yn ymwneud â chyfrifiad Thomas Gee ym 1887

LIGC, 935A, Cwrtmawr, Pamffledi gwleidyddol ynghylch yr Eglwys Sefydledig wedi'u rhwymo gan y Parchg. William Thomas, Bwlchnewydd (1823-1899)LIGC, Williams and Williams Collection, Haverfordwest – Pembrokeshire Tithe Notices – Complaints and Agitation, 1818-1889.

LIGC, Papurau Edwin Jones, 7323B; 7324B; 7338C; 7336E.

LIGC, 8201A Common Place Book of Evan Evans (Llanina and Castellhywel), 1790-1797/9.

LIGC, MS. 96232C.

LIGC, Papurau Thomas Gee, MS 11011E, Correspondence, 1891, between Thomas Gee (copies of letters) and Sir John Charlton, Cholmondeley, Malpas, Cheshire, concerning the tithe of Eglwys-Wen farm, which Thomas Gee held as tenant.

LIGC, MS. 12077B – Cofnodlyfr Pwyllgor Trysorfa Amddiffynol 'Merthyron y Degwm yn Llangwm'.

LIGC, MS. 12078A, Llyfr Cyfrifon y Drysorfa Amddiffynnol, Llangwm.

LIGC, MS 15321-15323, Church Defence: The Tithe War in West Wales. Some Reminiscences of Robert Lewis.

LIGC, MS 19174A, Llanfihangel C. M. Chapel Accounts, 1859-1872.

LIGC, 19228E, Papurau Bob Owen, Rate Book of the Parish of Llanfihangel Glyn Myfyr, Co. Denbigh, 1885-6.

LIGC, MS 19752E, Llythyrau Helynt y Degwm gan Thomas Thomas, Tŷ Nant.

LIGC, Papurau Llys y Sesiwn Fawr.

LLGC, Papurau Ystâd Voelas a Cefnamlwch.

LIGC, Papurau Ystâd Dolaucothi,

LIGC, Papurau Ormathwaite.

LIGC, Papurau Ystâd Bute.

LIGC, Papurau Dinas Powis.

LIGC, Papurau Ystâd Llysdinan.

LIGC Papurau John Owen: Tithe Rent Charge Letters, 1888-1890 (Box 2/8).

LIGC, Papurau T. E. Ellis.

LIGC, Papurau D. R. Daniel.

LIGC, Papurau J Herbert Lewis.

LIGC, Papurau David Alfred Thomas (Viscount Rhondda)

LIGC, Papurau John Glyn Davies.

Archifdy Sir Ddinbych, Rhuthun

ASD/NTD/588 – Affidavits concerning tithe distrains and disturbances in Caerwys, Derwen and Llanfihangel Glyn Myfyr, 1888-1890.

ASD/DD/DM/673 – Correspondence and papers concerning the tithe war.

ASD/DD/DM/845/1 – Album concerning tithe disturbances in Denbighshire, Flintshire, Montgomeryshire and Cardiganshire.

ASD/NTD/1495/1 – Letter to St. Asaph diocesan registry concerning tithe distrains, 1889.

ASD/NTD/154/Notes and transcripts re. Tithe War.

ASD/NTD/760/Photocopies concerning the Tithe War in Denbighshire.

Archifdy Gwynedd, Dolgellau

AG, Papurau Ystâd Rhiwlas.

AG, Z/PE/6/12.

AG, Z/DP/5/314.

Archifdy Prifysgol Bangor, Bangor

APB, BMSS/264-296, Dyddiaduron Isaac Ellis, Llanelwy.

APB, BMSS/3617, Llythyrau'r Parchg. Machreth Rees.

APB, BMSS/4155, Llyfr Trysorydd Capel Newydd, Nefyn, 1881-1882.

APB, BMSS/13963, Scrap Book, Rev. W. Keinion Thomas – Cuttings relating to the Tithe War in Wales.

APB, Amlwch/73, Llyfr Llythyrau John Matthews.

APB, Papurau Ystad Penrhyn, PFA/12/56 – Clippings – Tithe.

Archifau'r Amgueddfa Werin Cymru, San Ffagan

AWC, Tâp AWC 5854 - Owen Hughes Davies.

AWC, Dathlu Canmlwyddiant Rhyfel y Degwm yn Llangwm: Tapiau AWC 7340; 7341; 7342; 7343; 7344; 7345.

AWC, Tapiau AWC, 9643/1, Jane Owen (31/1/2002).

Yr Archifdy Genedlaethol, Llundain

AG, H.O. 45/9714/A51280 – Questionnaires Relating to Charges Arising from Disturbances at Distraints for Tithe Rent-Charge, 1890.

AG, H.O. 144/179/A44636 – Tithe Disturbances in Denbighshire, 1886.

(b). Deunydd Printiedig Swyddogol

Hansard.

Data Cyfrifiad (www.Ancestry.com).

Dogfennau Cymudo'r Degymau (<http://cynefin.archiveswales.org.uk/cy/tithe-maps/>).

PP 1831-32 Second Report from the Select Committee on Tithes in Ireland.

PP 1844 XVI Report of the Commissioners of Inquiry for South Wales.

PP 1856 XLVIII, Abstract Return of Names of Parishes in Cities or Parliamentary Boroughs in England and Wales, in which Church Rates have been refused.

PP 1887 LXIV, Return of Tithes commuted and apportioned up to 30 June 1887.

PP 1887 XXXVIII, Com. of Inquiry as to Disturbances connected with Levying of Tithe Rentcharge in Wales: Report, Minutes of Evidence.

PP 1894 LXIV, Church in Wales and Monmouthshire (glebe and tithe). Return, by parishes and counties, of the property of the church in Wales and Monmouthshire in glebe and tithe rentcharge, and from other sources.

PP 1932-33 X, Eighteenth report of the commissioners of church temporalities in Wales for the year 1932.

PP 1933 IX, Nineteenth report of the commissioners of church temporalities in Wales for the year 1933.

PP 1934-5 VII, Twentieth report of the commissioners of church temporalities in Wales for the year 1934.

PP 1935-36 VII, Twenty-first report of the commissioners of church temporalities in Wales for the year 1935.

(c). Papurau Newydd a Chylchgronau

(i). Papurau Newydd Cymraeg

Yr Amserau

Baner ac Amserau Cymru

Y Celt

Y Cenhadwr Americanaidd

Y Clorinydd

Y Cymro

Y Dinesydd Cymreig

Y Drych

Y Dydd

Y Dywysogaeth

Y Genedl

Y Genedl Gymreig

Y Goleuad

Gwladgarwr

Y Gwylidydd

Herald Cymraeg

Y Llan

Papur Pawb

Seren Cymru

Tarian y Gweithiwr

Tyst a'r Dydd

Y Werin

(ii). Papurau Newydd Saesneg

Abergele and Pensarn Visitor

Aberystwyth Observer

The Cambrian

Cambrian News and Merionethshire Standard

Cardiff Times

Cardigan Observer

Carmarthen Journal

Carmarthen Weekly Reporter

Daily News

Denbighshire Free Press

Evening Express

Freeman's Journal

Glamorgan, Monmouth and Brecon Gazette and Merthyr Guardian

The Illustrated Police News

Liverpool Mercury

The Llangollen Advertiser

Monmouthshire Merlin

Morning Post

North Wales Chronicle

North Wales Express

North Wales Gazette

Pembrokeshire Herald

The Penny Illustrated Paper and Illustrated Times

Pontypridd Chronicle

Prestatyn Weekly

Rhyl Advertiser

Rhyl Record and Advertiser

South Wales Daily News

South Wales Echo

The Standard

The Times

The Welshman

Weekly Mail

Western Mail

Wrexham Advertiser

(iii). Cylchgronau Cymraeg

Amddiffynydd yr Eglwys

Cylchgrawn Cyn-mraeg (Cylchgrawn Cymraeg)

Y Diwygiwr

Y Dysgedydd

Yr Eurgrawn

Y Geninen

Greal y Bedyddwyr

Yr Haul

Y Llenor

Lleuad yr Oes

Llusern y Llan

Seren Gomer

Y Traethodydd

(iv). Cylchgronau Saesneg

The Churchman in Wales

Funny Folks

Gentleman's Magazine

The Liberator

Methodist Times

(ch). Llyfrau a Phamffledi

Amryw, *Caneuon y Degwm – Cyfansoddiadau Buddugol* (Dinbych, 1887).

Clarke, Rev. Henry William, *A History of Tithes* (Llundain, 1891).

Davies, Richard, *An Account of the Convincement, Exercises, Services, and Travels, of that Ancient Servant of the Lords, Richard Davies etc.* (Llundain, trydydd argraffiad, 1771).

Davies, Thomas (Tegwyn), *Dinas Mawddwy a'i Hamgylchoedd: Yn Cynnwys Hanes Gwladol, Cymdeithasol, Crefyddol, Hynafiaethol, a Thraddodiadol &c.* (Machynlleth, 1893).

Davies, Walter, *General View of the Agriculture and Domestic Economy of North Wales; Containing the Counties of Anglesey, Caernarvon, Denbigh, Flint, Meirionydd, Montgomery* (Llundain, 1810).

Davies, Walter, *General View of the Agriculture and Domestic Economy of South Wales; Containing the Counties of Brecon, Caermarthen, Cardigan, Glamorgan, Pembroke, Radnor, Vols. I and II* (Llundain, 1815).

Davies, William, *Y Geiriadur Ysgrythol* (Caernarfon, 1858).

Easterby, William, *The History of the Law of Tithes in England: Being the York Prize Essay of the University of Cambridge for 1887* (Caergrawnt, 1888).

Edwards, A. G., *Facts and Figures about the Church and Dissent in Wales* (1888).

Edwards, A. G., *A Handbook on Welsh Church Defence* (1894).

Thomas Edwards (Twm o'r Nant), *Pedair Colofn Gwladwriaeth ... Ar Ddull yr hyn a Gyfenwir Interlude* (Caerfyrddin, argraffiad 1840).

Edwards, Thomas, (Twm o'r Nant) *Tri Chryfion Byd, sef Tlodi, Cariad, ac Angau. Yn y Canlyniad o hyn, y dangosir y modd y mae'r Tri yn Gryfion byd* (1789).

Edwards, Thomas (Twm o'r Nant), *Bannau y Byd; neu Greglais o Grogloffft ... Sef, Ychydid Sylwadau ar Gwrs y Byd, a'r Llygredigaeth sydd ynddo* (Dolgellau, argraffiad 1826).

Edwards, Revd Thomas, *The Anti-Tithe Agitation in Wales: Its Real Causes and Cure* (Bangor, 1890).

Evans, Henry Tobit, *Rebecca and Her Daughters* (Caerdydd, 1910).

Foulkes, I., (gol.), *Gwaith Thomas Edwards (Twm o'r Nant)* (Lerpwl, 1874).

Gee, Thomas a John Owen, *Moesoldeb Rhyfel y Degwm, ac Ymneillduwyr, ac Amaethwyr Cymru: Testynau y Ddadl rhwng y Tra. Pharch. John Owen, Deon Llanelwy, a Thomas Gee, a Ymddangosodd yn "Maner ac Amserau Cymru* (Dinbych, 1891).

Johnes, Arthur James, *An Essay on the Causes which have Produced Dissent from the Established Church in the Principality of Wales* (Llanidloes, 1870; ail-argraffiad).

Jones, Brynmor D., (gol.), *The Disestablishment and Disendowment of the Church of England in Wales: A Handbook on the Subject* (1912).

Llwyd, Morgan, *Llyfyr y Tri Aderyn* (Cyhoeddwyd am y tro cyntaf ym 1653; argraffiad Gwasg Y Brython, 1943[?]).

- Owen, John, *The Morality of the Anti-Tithe Agitation in Wales: A Letter Addressed to the Editor of The Times, Aug 22 1890* (Llanelwy, 1890).
- Paine, Thomas, *The Rights of Man: Being an Answer to Mr. Burke's Attack on the French Revolution, Vol 1* (Llundain, 1791).
- Percy William Millard, *The Law Relating to Tithe Rentcharge and other Payments in Lieu of Tithe* (Llundain, 1912).
- Price Hughes, Dorothea, *The Life of Hugh Price Hughes* (Llundain, 1904).
- Prothero, R. E., *The Anti-Tithe Agitation in Wales* (Llundain, 1889).
- Prothero, R. E., *English Farming, Past and Present* (Llundain, 1912).
- Rees, Thomas, *History of Protestant Nonconformity in Wales: From its Rise in 1633 to the Present Time* (Llundain, ail-agraffiad, 1883).
- Seldon, John, *A Historie of Tithes* (1618).
- Slater, J. H., *The Established Church in Wales, Being a Short Account of Its Origin, Its Development, and Its Maturity* (Llundain, 1893).
- Thomas, D. R., *A History of the Diocese of St. Asaph* (1874).
- Thomas, Parchg. W., *The Anti-Tithe Movement in Wales: Its Justice, Morality, and Legality* (Llanelli, 1891).
- White Esq, John Meadows, *Talfyriadau o Gyfraith y Degwm yn Nghymru a Lloegr, yr Hon a Ddaeth i Weithrediad ar y 13eg o Awst, 1836* (Caerfyrddin, 1836).
- Wood, Sir George, *Observations on Tithes and Tithe Laws* (Llundain, 1832).
- Hawkins, Rev. W. M., *Key to the Tithe Question: A Handbook on Tithes* (Llundain, 1887).
- Jacob, Giles, *A New Law Dictionary* (Savoy, 1750).
- Jones, Davies (The Welsh Freeholder), *Strictures on a Pamphlet Entitled, Thoughts on the Late Riot at Birmingham* (Llundain, 1791).
- Jones, John (Jac Glan y Gors), *Seren Tan Gwmmwl, neu Ychydig Sylw ar Frenhinoedd, Escobion, Arglwyddi, a Llywodraeth Lloegr yn Gyffredin. Wedi ei Ysgrifennu er Mwyn y Cymru Uniaith* (Llundain, 1795).
- Jones, John (Jac Glan y Gors), *Toriad y Dydd; neu Sylw Byr ar Hen Gyfreithiau ac Arferion Llywodraethol: Ynghyd a Chrybwylliad am Freintiau Dyn &c. Wedi ei Ysgrifennu er Mwyn y Cymry Uniaith* (Llundain, 1797).
- Jones, John (Jac Glan y Gors), *Gwaith Glan y Gors – Cyfres y Casglydd* (1905).
- Jones, Evan Pan, *Oes Gofion neu Fraslun o Hanes fy Mywyd* (Bala, 1911).
- Rhys, Morgan John, *Y Drefn o Gynnal Crefydd yn Unol Daleithiau America ynghyd â Darluniad byr o Kentucky ... a chyngor i'r Cymry* (1794).
- John Rhys, Morgan, *Sylwedd Dwy Bregeth a'r Neillduaeth, John Edward a Thomas Jones i Swydd Henuriaid; ac Edward Hughes a John Roberts i Swydd Diaconiaid yn Nhy Cyfarfod Y Bobl, a Elwyr, Feddyddwyr; yn Glyn-Ceiriog, Gorph 2, 1794. Y*

Bregeth Gyntaf, A'r Ddyledswyddau Wyddogion Eglwysig A'r Ail, A'r Ddyledswyddau'r Bobl, At eu Swyddogion (Gwrecsam, 1794).

Roberts, Thomas, Cwyn yn Erbyn Gorthrymder, *Yn ghyd a Sylwiadau ar Hawl Esgobion, a'u Gweinidogion i Ddegymau &c. Wedi ei Ysgrifenu er Mwyn Gwerinos Cymru* (Llundain, 1798; adarg. gan Wasg Prifysgol Cymru, Caerdydd, 1928).

Roberts, Thomas, 'Arvonius', *Amddiffyniad y Methodisitiaid* (1806).

Saunders, Erasmus, *A View of the State of Religion in the Diocese of St. David's in the Diocese of St. David's About the Beginning of the 18th Century: With Some Accounts of the Causes of its Decay, Together with Considerations of the Reasonableness of Augmenting the Revenues of Improprate Churches* (Llundain, 1721).

Symmons, Charles, *Religion in Danger: Addressed to the Archbishop of Canterbury, by the Curate of Snowdon; and Submitted to the Consideration of the Clergy of all Denominations* (Llundain, 1795).

Thomas, D. Lleufer, *The Welsh Land Commission: A Digest of Its Report* (1896).

Thomas (Elwyn), Henry, *Cynwyn Rhys, pregethwr* (Caerdydd, 1900).

Vincent, Edmund J., *Letters from Wales: A Republication of a Series of Letters in the "Times" Dealing with the State of Wales in Special Relation to the Land, The Church, and the Tithe* (Llundain, 1889).

'Vitor Cambrensis', *The Rise and Decline of Welsh Nonconformity: An Impartial Investigation* (Llundain, 1912).

Williams, Peter, *A Short Vindication of the Established Church etc.* (Rhydychen, 1803).

II. Ffynonellau Eilaidd

(a). Gwaith Cyfeiriadol

Y Bywgraffiadur Cymreig

Oxford Dictionary of National Biography

Davies, John, Nigel Davies, Menna Baines a Peredur I. Lynch (goln.), *The Welsh Academy Encyclopaedia of Wales* (Caerdydd, 2008).

Davies, Robert, *The Tithe Maps of Wales* (Aberystwyth, 1999).

Furet, François a Mona Ozouf (goln.), *A Critical Dictionary of the French Revolution* (1989).

Gardiner, Juliet a Neil Wenborn, *The History Today Companion to British History* (Llundain, 1995).

Hughes, T., *Geiriadur Beiblaidd* (Wrecsam, 1926).

Jones, Dot, *Tystiolaeth Ystadegol yn Ymwneud â'r Iaith Gymraeg 1801-1911* (Caerdydd, 1998).

Jones, Ieuan Gwynedd a David Williams (goln.), *The Religious Census of 1851: A Calendar of the Returns Relating to Wales, Vol's I & II* (Caerdydd, 1976 a 1981).

Lloyd, John Edward a R. T. Jenkins (goln.), *Y Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940* (Llundain, 1953).

Williams, John, *Crynhoad o Ystadegau Hanesyddol Cymru, Cyfrolau 1 a 2* (Aberystwyth, 1985).

(b). Llyfrau

Allen, Richard C. a David Ceri Jones (goln.), *The Religious History of Wales: Religious Life and Practise in Wales from the Seventeenth Century to the Present Day* (Caerdydd, 2014).

Archifdy Dinbych, *Rhyfel y Degwm* (Penarlâg, 1978).

Aris, Mary, Julia Latham a Jo Pott, *Crime and Punishment: A Welsh Perspective - Nineteenth Century Crime and Protest* (Cyhoeddiad Gwasanaeth Archifdy Gwynedd, 1987).

Aston, Nigel a Matthew Cragoe (goln.), *Anticlericalism in Britain, c. 1500-1914* (Stroud, 2000).

Bassett, T. M., *Bedyddwyr Cymru* (Abertawe, 1977).

Beales, D., a G. Best (goln.), *History, Society and the Churches: Essays in Honour of Owen Chadwick* (Caergrawnt, 1985).

Bebbington, David, *The Nonconformist Conscience: Chapel and Politics, 1870-1914* (Llundain, 1982).

Bebbington, David a Timothy Larsen (goln.), *Modern Christianity and Cultural Aspirations* (Llundain, 2003).

Bell, P. M. H., *Disestablishment in Ireland and Wales* (Llundain, 1969).

Best, G. F. A., *Temporal Pillars: Queen Anne's Bounty, the Ecclesiastical Commissioners, and the Church of England* (Caergrawnt, 1964).

Biagini, Eugenio F., *Liberty, Rentrenchment and Reform: Popular Liberalism in the Age of Gladstone, 1860-1880* (Caergrawnt, 1992).

Birch, Kenneth H., *The History of Policing in North Wales* (Pwllheli, 2008).

Brown, Roger L., *The Welsh Evangelicals* (Caerdydd, 1986).

Brown, Roger L., *Ten Clerical Lives* (Trallwng, 2005).

Brown, Roger L., *In Pursuit of a Welsh Episcopate: Appointments to Welsh Sees* (Caerdydd, 2005).

Brown, Stewart J. a George Newlands, *Scottish Christianity in the Modern World* (Caeredin, 2000).

- Burrows, Daron, *The Stereotype of the Priest in the Old French Fabliaux: Anticlerical Satire and Lay Identity* (Rhydychen, 2005).
- Constable, Giles, *Monastic Tithes from their Origins to the Twelfth Century* (Caergrawnt, 1964).
- Cowman, Krista a Ian Packer (goln.), *Radical Cultures and Local Identities* (Newcastle-upon-Tyne, 2010).
- Chadwick, Owen, *The Secularization of the European Mind in the Nineteenth Century* (Caergrawnt, 1975).
- Charlesworth, Andrew (gol.), *An Atlas of Rural Protest in Britain 1548-1900* (Beckenham, 1983).
- Charnell-White, Cathryn A., *Welsh Poetry of the French Revolution, 1789-1805* (Caerdydd, 2012).
- Chartier, Roger, *The Cultural Origins of the French Revolution* (1991; argraff. 2004).
- Constantine, Mary-Ann a Dafydd Johnston (goln.), *Footsteps of Liberty and Revolt: Essays on Wales and the French Revolution* (Caerdydd, 2013).
- Corns, Thomas N., a David Loewenstein (goln.), *The Emergence of Quaker Writing: Dissenting Literature in Seventeenth-Century England* (Llundain, 1995)
- Cragoe, Matthew, *An Anglican Aristocracy: The Moral Economy of the Landed Estate in Carmarthenshire 1832-1895* (Rhydychen, 1996).
- Cragoe, Matthew, *Culture, Politics, and National Identity in Wales, 1832-1886* (Rhydychen, 2004).
- Craig, David a James Thompson (goln.), *Language of Politics in Nineteenth Century Britain* (Basingstoke, 2013).
- Crosby, Travis L., *The Unknown Lloyd George: A Statesman in Conflict* (Efrog Newydd, 2014).
- Davies, E. Tegla, *Gŵr Pen y Bryn: Stori o Gyfnod Rhyfel y Degwm* (Caerdydd, Argraffiad Newydd, 1955).
- Davies, John, *Hanes Cymru* (Llundain, 1990).
- Davies, Russell, *Secret Sins: Sex, Violence and Society in Carmarthenshire, 1870-1920* (Caerdydd, 1996).
- Davies, R. R., *The Revolt of Owain Glyndŵr* (Rhydychen, 1995).
- Davies, R. R., a Geraint H. Jenkins (goln.), *From Medieval to Modern Wales: Historical Essays in Honour of Kenneth O. Morgan and Ralph A. Griffiths* (Caerdydd, 2004).
- Davies, R. T., *Religion in the Industrial Revolution in South Wales* (Caerdydd, 1965).
- Dodd, A. H., *A History of Caernarvonshire* (Caernarfon, 1968).

- Dunbabin, John P. D., *Rural Discontent in Nineteenth-Century Britain* (Llundain, 1974).
- Dykema, Peter A., a Heiko A. Oberman (goln.), *Anticlericalism in Late Medieval and Early Modern Europe* (1993).
- Edwards, Alfred G., *Memories* (Llundain, 1927).
- Edwards, E. Roger, *The Tithe Wars of North East Wales* (1989).
- Edwards, Hywel Teifi, *Gwyl Gwalia* (Llandysul, 1980).
- Edwards, Hywel Teifi, *Codi'r Hen Wlad yn ei Hól* (Llandysul, 1989).
- Egan, David, *People, Protest and Politics: Case Studies in Nineteenth Century Wales* (Gwerslyfr) (Llandysul, 1987).
- Ellens, J. P., *Religious Routes to Gladstonian Liberalism: The Church Rate Conflict in England and Wales, 1832-1868* (Pennsylvania, 1994).
- Ellis, T. I., *Thomas Edward Ellis – Cofiant, Cyfrol 2* (Lerpwl, 1948).
- Evans, Eric J., *The Contentious Tithe: The Tithe Problem and English Agriculture 1750-1850* (Llundain, 1976).
- Evans, Eric J., *Tithes and the Tithe Commutation Act 1836* (Llundain, 1978).
- Evans, D. Gareth, *A History of Wales 1815-1906* (Caerdydd, 1989).
- Evans, G. Nesta, *Religion and Politics in Mid-Eighteenth Century Anglesey* (Caerdydd, 1953).
- Evans, Hugh, *Cwm Eithin* (Lerpwl, 1950).
- Evans, J. J., *Morgan John Rhys A'i Amserau* (Caerdydd, 1935).
- Gallie, Duncan, *Social Inequality and Class Radicalism in France and Britain* (Caergrawnt, 1983).
- Griffith, W. P., *Power, Politics and County Government in Wales: Anglesey 1780-1914* (Llangefni, 2006).
- Guy, J. R. a W. G. Neely (goln.), *Constrasts and Comparisons: Studies in Irish and Welsh Church History* (Llandysul, 1999).
- Herbert, Trevor a Gareth Elwyn Jones (goln.), *People and Protest: Wales 1815-1880* (Caerdydd, 1988).
- Herbert, Trevor a Gareth Elwyn Jones (goln.), *Wales, 1880-1914* (Caerdydd, 1988).
- Hobsbawm, Eric a Terence Ranger (goln.), *The Invention of Tradition* (Caergrawnt, 1983).
- Hobsbawm, Eric, *The Age of Empire, 1875-1914* (Llundain, 1987).
- Howell, David W., *Land and People in Nineteenth-Century Wales* (Llundain, 1977).
- Hughes, Dewi Rowland, *Cymru Fydd* (Caerdydd, 2006).

- Humphreys, Melvin, *The Crisis of Community: Montgomeryshire, 1680-1815* (Caerdydd, 1996).
- Isager, Signe a Jens Erik Skydsgaard., *Ancient Greek Agriculture: An Introduction* (Llundain, 1992).
- Jenkins, Geraint H., *The Foundations of Modern Wales 1642-1780* (Rhydychen, 1987).
- Jenkins, Geraint H (gol.), *Gwnewch Bopeth yn Gymraeg: Yr Iaith Gymraeg a'i Pheuoedd, 1801-1911* (Caerdydd, 1999).
- Jenkins, Philip, *A History of Modern Wales 1536-1990* (1992).
- Jennings, Sir Ivor, *Party Politics Vol. III: The Stuff of Politics* (Caergrawnt, 1962).
- Jenkins, R. T., *Hanes Cymru yn y Ddeunawfed Ganrif* (Caerdydd, 1931)
- Jenkins, R. T., *Hanes Cymru yn y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg* (Caerdydd, 1933).
- John, Angela V. (gol.), *Our Mother's Land: Chapters in Welsh Women's History, 1830-1939* (Caerdydd, 2011; Ail Argraffiad).
- Jones, Aled, *Press, Politics and Society: A History of Journalism in Wales* (Caerdydd, 1993).
- Jones, David J. V., *Rebecca's Children: A Study of Rural Society, Crime, and Protest* (Rhydychen, 1989).
- Jones, David J. V., *Crime in Nineteenth-Century Wales* (Caerdydd, 1992).
- Jones, Elwyn L., *Gwaedu Gwerin: Braslun o Hanes Rhyfel y Degwm yng Nghymru* (Dinbych, 1983).
- Jones, Ffion Mair, *Welsh Ballads of the French Revolution: 1793-1815* (Caerdydd, 2012).
- Jones, Ieuan Gwynedd, *Explorations and Explanations: Essays in the Social History of Victorian Wales* (1981).
- Jones, Ieuan Gwynedd, *Communities: Essays in the Social History of Victorian Wales* (Llandysul, 1987).
- Jones, Ieuan Wyn, *Y Llinyn Arian: Agweddau o Fywyd a Chyfnod Thomas Gee* (Denbigh, 1998).
- Jones, John Gwynfor a Marian Beech-Hughes (goln.), *Hanes Methodistiaeth Calfnaid Cymru, Cyfrol III: Y Twf a'r Cadarnhau (c. 1814-1914)* (2011).
- Jones, Merfyn, *The North Wales Quarrymen 1874-1922* (Caerdydd, 1982).
- Jones, R. Owen, *Yr Efengyl yn y Wladfa* (Pen-y-bont ar Ogwr, 1987).
- Jones, R. Tudur, *Hanes Annibynwyr Cymru* (Abertawe, 1966).
- Jones, R. Tudur, *Ffydd ac Argyfwng Cenedl: Hanes Crefydd yng Nghynru 1890-1914 – Cyfrol 1: Prysurdeb a Phryder* (Abertawe, 1981).

- Jones, R. Tudur, *Ffydd ac Argyfwng Cenedl: Hanes Crefydd yng Nghynru 1890-1914 – Cyfrol 2: Dryswch a Diwygiad* (Abertawe, 1982).
- Jones, Rhian E, *Petticoat Heroes: Gender, Culture and Popular Protest in the Rebecca Riots* (Caerdydd, 2015).
- Jones, R. W., *Bywyd Cymdeithasol Cymru yn y Ddeunawfed Ganrif* (Llundain, 1931).
- Jones, T. Gwynn, *Cofiant Thomas Gee* (Dinbych, 1913).
- Jones, Tim, *Rioting in North East Wales 1536-1918* (Wrecsam, 1997).
- Jones, Wyn, *Thomas Edward Ellis* (Caerdydd, 1986).
- Kain, Roger J. P a Hugh C. Price, *The Tithe Surveys of England and Wales* (Caergrawnt, 1985).
- Lambert, W. R., *Drink and Sobriety in Wales, c. 1820- c.1895* (Caerdydd, 1983).
- Le Roy Ladure, Emmanuel, a Joseph Goy (goln.), *Tithe and Agrarian History from the Fourteenth to the Nineteenth Century* (Caergrawnt, 1982).
- Lewis, Henry, Thomas Roberts ac Ifor Williams (goln.), *Cywyddau Iolo Goch ac Eraill* (Caerdydd, 1937).
- Litzenberger, Caroline ac Eileen Groth Lyon (goln.), *The Human Tradition in Modern Britain* (2006).
- Lloyd Evans, Trebor, *Pris ein Rhyddid* (Abertawe, 1961).
- Lloyd, Robert, *Y Pethe* (Bala, 1962).
- Löffler, Marion, *Welsh Responses to the Revolution: Press and Public Discourse, 1789-1802* (Caerdydd, 2012).
- Löffler, Marion, *Political Pamphlets and Sermons from Wales 1790-1806* (Caerdydd, 2014).
- Lowth Goldsmith, James, *Lordship in France 1500-1789* (Efrog Newydd, 2005).
- Lovell Cocks, H. F., *The Nonconformist Conscience* (Llundain, 1943).
- Masson, Ursula, *'For Women, for Wales and for Liberalism': Women in Liberal Politics in Wales 1880-1914* (Caerdydd, 2010).
- McManners, John, *Church and Society in Eighteenth Century France: Volume 1: The Clerical Establishment and its Social Ramifications* (Rhydychen, 1998).
- Molloy, Pat, *And They Blessed Rebecca: An Account of the Toll-Gate Riots 1839-1844* (Llandysul, 1983).
- Morgan, D. Densil, *The Span of the Cross: Christian Religion and Society in Wales* (Caerdydd, 1999).
- Morgan, K. O., *Freedom or Sacrifice? A History of the Campaign for Welsh Disestablishment* (Penarth, 1966).

- Morgan, K. O., *Wales in British Politics 1868-1922* (Caerdydd, Trydydd argraffiad, 1991).
- Morgan, Rev. T. T. Lucius, *The Rev. J. Gwynoro Davies, Barmouth* (Llandysul, 1941).
- Morris, Robert M., *'Beca!* (Caerdydd, 1986).
- Morris, Robert M., *Rhyfel y Degwm* (Gwerslyfr) (Rhydychen, 1989).
- Neely, Sylvia, *A Concise History of the French Revolution* (Plymouth, 2008).
- Oldstone-Moore, Christopher, *Hugh Price Hughes: Founder of a New Methodism, Conscience of a New Nonconformity* (Caerdydd, 1999).
- Outhwaite, R. B., *The Rise and Fall of the English Ecclesiastical Courts, 1500-10860* (Caergrawnt, 2006).
- Owen, Eluned E., *The Early Life of Bishop Owen: A Son of Lleyrn* (Llandysul, 1958).
- Owen Eluned E., *The Later Life of Bishop Owen: A Son of Wales* (Llandysul, 1961).
- Peate, Iorwerth C., *Tradition and Folk Life: A Welsh View* (Llundain, 1972).
- Pope, Robert (gol.), *T&T Clarke Companion to Nonconformity* (Llundain, 2013).
- Pretty, David A., *The Rural Revolt that Failed, 1889-1950* (Caerdydd, 1989).
- Price, Emyr, *Lloyd George y Cenedlaetholwr Cymreig: Arwr ynteu Bradwr* (Llandysul, 1999).
- Price Jones, Frank, *Radicaliaeth a'r Werin Gymreig yn y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg* (Caerdydd, 1977).
- Price Jones, Frank, *Crwydro Gorllewin Dinbych* (Llandybie, 1969).
- Rintala, Marvin, *Lloyd George and Churchill: How Friendship Changed History* (1990).
- Roberts, Elwyn, *Wrth Odre Cadair Idris* (Penygroes, 1989).
- Rudé, George, *The Crowd in History* (Llundain, 1981; argraffiad diwygiedig).
- Sánchez, José M., *Anticlericalism: A Brief History* (1972).
- Scaresbrick, J. J., *Henry VIII* (Argraffiad newydd, 1997).
- Shaw, Jane ac Alan Kreider (goln.), *Culture and the Nonconformist Tradition* (Caerdydd, 1999).
- Snell, K. D. M., a P. S. Ell, *Rival Jerusalems: The Geography of Victorian Religion* (Caergrawnt, 2000).
- Spaeth, Donald A., *The Church in an Age of Danger: Parsons and Parishioners, 1660-1740* (Caergrawnt, 2000).
- Thomas, J. E., *Social Disorder in Britain, 1750-1850: The Power of the Gentry, Radicalism and Religion in Wales* (Llundain, 2011).
- Thompson, E. P. *Customs in Common* (1991).

- Thompson, F. M. L., (gol.), *The Cambridge Social History of Britain, 1750-1950, Vol. 3, Social Agencies and Institutions* (Caergrawnt, 1990)
- Tucker, Norman, *Colwyn Bay: Its Origin and Growth* (Bae Colwyn, 1953).
- Twinch, Carol, *Tithe War 1918-1939: The Countryside in Revolt* (Norwich, 2001).
- Watkins, R. F., *Y Gwir am y Degwm* (Wrecsam, 1933).
- Watts, Michael R., *The Dissenters, Vol. II: The Expansion of Evangelical Nonconformity* (Rhydychen, 1995).
- White, Eryn M., *The Welsh Bible* (Stroud, 2007).
- Williams, David, *History of Wales, 1485-1931* (Llundain, ail-argraffiad, 1948).
- Williams, David, *The Rebecca Riots* (Caerdydd, 1955).
- Williams, David, *A History of Modern Wales* (Llundain, ail-argraffiad, 1977).
- Williams, Glanmor, *The Welsh Church from Conquest to Reformation*, (Caerdydd, 1962).
- Williams, Glanmor (wedi'i drosi a'i dalfyrru gan T. M. Bassett), *Yr Eglwys yng Nghymru o'r Goncwest hyd at y Diwygiad Protestannaidd* (Caerdydd, 1968).
- Williams, Glanmor, *Religion, Language and Nationality in Wales* (Caerdydd, 1979).
- Williams, Sir Glanmor, William Jacob, Nigel Yates a Frances Knight, *The Welsh Church from Reformation to Disestablishment, 1603-1920* (Caerdydd, 2007).
- Williams, Gwyn Alf., *Artisans and Sans-Culottes: Popular Movements in France and Britain during the French Revolution* (Llundain, 1968).
- Williams, Gwyn Alf., *When was Wales?* (Llundain, 1985).
- Williams, R. Bryn, *Y Wladfa* (Caerdydd, 1962).
- Wyn, Gareth, *Blynyddoedd y Cythrwfl, 1603-1660* (Llanrwst, 1983).

(c). Erthyglau

- [?], Hanes Rhyfel y Degwm yng Ngheredigion', *Bro*, cyf. 20 (1982).
- Amryw, Rhifyn Arbennig ar Wrthglerigaeth, *European History Quarterly*, cyf. 13, rhif. 2 (1983).
- Barber, Jill, 'A fair and just demand?' Tithe unrest in Cardiganshire, 1796-1823', *Cylchgrawn Hanes Cymru*, cyf. 16, rhif. 2 (1992).
- Bassett, T. M., 'Rhyfel Chwerw', *Cristion*, 5, Gorff/Awst (1984).
- Benbough-Jackson, Mike a Neil Evans, 'Ritual, symbol and politics: Gladstone, Swansea and Wales in 1887', *Cylchgrawn Hanes Cymru*, cyf. 26, rhif. 3 (2013).
- Brown, Roger L., 'Sad, mad or bad: the case of Evan Jenkins, rector of Manafon', *Montgomeryshire Collections*, 83 (1995).

- Brown, Roger L., 'Traitors and compromisers', *Cylchgrawn Hanes Crefydd Cymru*, cyf. 3 (1995).
- Cragoe, Matthew, 'Conscience or coercion? Clerical influence at the general election of 1868 in Wales', *Past & Present*, 149 (Tach. 1995).
- Cragoe, Matthew, 'Debate: conscience or coercion? clerical influence at the general election of 1868 in Wales', *Past & Present*, 169 (Tach. 2000).
- Cummins, Daniel, 'The social significance of tithes in eighteenth century England', *English Historical Review*, cyf. CXXVIII, rhif. 534 (2013).
- Davies, E. Tegla, 'Fy mhererindod llenyddol', *Y Traethodydd* (1965).
- Davies, Hywel M., 'Morgan John Rhys, "'Y Cylchgrawn Cynmraeg," a'r Cymry iniaith,' *Efrydiau Athronyddol*, cyf. 62 (1999).
- Davies, Hywel M., 'Loyalism in Wales, 1792-1793', *Cylchgrawn Hanes Cymru*, cyf. 20, rhif. 4 (Rhag. 2001).
- Davies, John, 'Wales and Ireland: parallels and differences in the nineteenth century', *Planet*, 95 (Hyd/Tach 1992).
- Davies, John, 'The end of the great estates and the rise of freehold farming in Wales', *Cylchgrawn Hanes Cymru*, cyf. 7, rhif. 2 (1974).
- Davies, John Humphreys, 'Y Crynwyr yng Nghymru', *Y Traethodydd*, (1913).
- Davies, W. Lloyd, 'Y genedl biau'r degwm', *Ford Gron*, cyf. 2, rhif. 11 (Medi 1932).
- Ditchfield, G. M., 'Parliament, the Quakers and the tithe question, 1750-1850', *Parliamentary History*, 4 (1985).
- Dodd, A. H., 'The Nonconformist conscience in public life', *The Hibbert Journal*, cyf. 46 (Hydref 1937-Gorffennaf 1938).
- Erfyl, Gwyn, 'Poenau gŵr Pen y Bryn', *Efrydiau Athronyddol* (1998).
- Evans, D. Eifion, 'Mudiad Rhydychen yng ngogledd Sir Aberteifi', *Journal of the Historical Society of the Church in Wales*, cyf. IV, rhif. 9 (1954).
- Evans, D. Eifion, 'Dylanwad mudiad Rhydychen yng Nghymru: braslun o'i hanes a'i dwf yn yr Esgobaethau - Bangor', *Journal of the Historical Society of the Church in Wales* cyf. VI, rhif. 11 (1956).
- Evans, D. Eifion, 'Dylanwad mudiad Rhydychen yng Nghymru: braslun o'i hanes a'i dwf yn yr Esgobaethau - Llandaf', *Journal of the Historical Society of the Church in Wales*, cyf. VII, rhif. 12 (1957).
- Evans, D. Eifion, 'Dylanwad mudiad Rhydychen yng Nghymru: braslun o'i hanes a'i dwf yn yr Esgobaethau - Llanelwy', cyf. VIII, rhif. 13 (1958).
- Evans, E. D., 'The road to 1811', *Cylchgrawn Hanes Cymdeithas Hanes y Methodistiaid Calfniaid*, rhif. 35 (2011).
- Evans, Eric J., 'Some reasons for the growth of English rural anticlericalism, c.1750-c.1830', *Past & Present*, 66 (Chwefror, 1975).

- Evans, Eric J., 'The Church in danger? Anticlericalism in nineteenth-century England', *European Studies Review*, cyf. 12, rhif 2. (1983).
- Evans, G. G., 'Henaint a thranc yr anterliwt', *Taliesin*, 54 (1985).
- Freeman, Peter, 'The effect of the Oxford movement on some election campaigns in Wales in the mid-nineteenth century', *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, cyf. 31, rhif. 4 (Gaeaf 2000).
- Freeman, Peter, 'The response of Welsh Nonconformity to the Oxford movement', *Cylchgrawn Hanes Cymru*, cyf. 20, rhif. 3 (Mehefin 2001).
- Freeman, Peter, 'Baner y Groes', *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, cyf. 32, rhif. 3 (Haf 2002).
- George, W. B., 'Welsh disestablishment and Welsh nationalism', *Journal of the Historical Society of the Church in Wales*, 20, 25 (1970).
- Glaser, John F., 'Parnell's fall and the Nonconformist conscience', *Irish Historical Studies*, cyf. 12, rhif. 46 (Hydref, 1960).
- Griffin, Carl, 'Some inhuman wretch': animal maiming and the ambivalent relationship between rural workers and animals', *Rural History*, 25 (2) (2014).
- Gruffydd, W. J., 'Morgan Llwyd a Llyfr y Tri Aderyn', *Y Cofiadur: Sef Cylchgrawn Cymdeithas Hanes Annibynwyr Cymru*, rhif 3 (Maw. 1925).
- Hammerton, A. James, 'The targets of 'Rough Music': respectability and domestic violence in Victorian England', *Gender and History*, cyf. 3, rhif. 1 (Ebrill, 1991).
- Howard, Sharon, 'Riotous community: crowds, politics and society in Wales, c. 1700-1840', *Cylchgrawn Hanes Cymru*, cyf. 20, rhif. 4 (Rhag, 2001).
- Howell, David W., 'The land question in nineteenth-century Wales, Ireland and Scotland: a comparative study', *Agricultural History Review*, cyf. 61, rhif 1. (Mehefin, 2013).
- Jacob, W. M., "'In love and charity with your neighbours ...": Ecclesiastical courts and Justices of the Peace in England in the eighteenth century', *Studies in Church History*, 40 (2004).
- James, E. Wyn, 'Rhai Methodistiaid a'r anterliwt', *Taliesin*, 57 (1986).
- James, Margaret, 'The political importance of the tithes controversy in the English Revolution, 1640-60', *History*, cyf. xxvi (1941).
- James, R. Watcyn, 'Ymateb y Methodistiaid Calфинаidd Cymraeg i'r chwyldro Ffrengig', *Cylchgrawn Hanes Cymdeithas Hanes y Methodistiaid Calфинаidd*, rhif.12/13 (1988/89).
- Jarman, A. O. H., 'Gwŷr Llangwm', *Y Ddraig Goch* (Mehefin 1937 – Ebrill 1938).
- Jenkins, Geraint H., 'Rhyfel yr Oen: y mudiad heddwch 1653-1816', *Cof Cenedl*, I (1986).
- Jones, David J. V., 'Crime, protest and community in nineteenth-century Wales', *Llafur* 1/3 (Mai 1974).

- Jones, E. R. Lloyd., 'Ymneilltuaeth a'r genedl', *Y Traethodydd*, cyf. 136, rhif, 579.
- Jones, Evan J., 'The enclosure movement in Anglesey (1788-1866)', *Transactions and Reports of the Anglesey Antiquarian Society and Field Club* (1925).
- Jones, Francis, 'The Mathry tithe suit', *Journal of the Historical Society of the Church in Wales*, 2 (1950).
- Jones, J. Graham, 'Michael Davitt, David Lloyd George and T. E. Ellis: the Welsh experience, 1886', *Trafodion Hanes Cymru*, cyf. 18 (1994/1995).
- Jones, J. Graham, 'Biography: Thomas Edward Ellis (1859-1889)', *Journal of Liberal Democrat History*, cyf. 24 (Hydref, 1999).
- Jones, J. Graham, 'David Lloyd George and Thomas Edward Ellis', *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, cyf. 34, rhif. 2 (2007).
- Jones, Manon, 'Y lleol a'r cenedlaethol: Rhyfel y Degwm yn Llangwm', *Trafodion Cymdeithas Hanes sir Ddinbych*, cyf. 57 (2009).
- Jones, Tegwyn, 'Baledi a baledwyr y bedwaredd ganrif ar bymtheg', *Cof Cenedl*, 6 (1991).
- Jones, R. Tudur, 'The origins of the Nonconformist disestablishment campaign, 1830-1840', *Journal of the Historical Society of the Church in Wales*, cyf. 20, rhif. 25 (1970).
- Jones, Rosemary A. N., 'Popular culture, policing and the "disappearance" of the Ceffyl Pren in Cardigan c. 1837-1850', *Ceredigion: Cylchgrawn Hynafiaethwyr Sir Aberteifi*, cyf. 11, rhif. 1-4 (1989-1992).
- Larsen, Timothy, 'A Nonconformist conscience? Free churchmen in parliament in nineteenth-century England', *Parliamentary History*, cyf. 24, rhif. 1 (2005).
- O'Leary, Paul, 'Masculine histories: gender and the social history of modern Wales', *Cylchgrawn Hanes Cymru*, cyf. 22 (2004).
- Lee, Robert, 'Customs in conflict: some causes of anti-clericalism in rural Norfolk, 1815-1914', *Rural History*, cyf. 14, rhif. 2 (2003).
- Lerry, George, 'The policemen of Denbighshire', *Trafodion Hanes Cymdeithas Sir Ddinbych* (1954).
- Lewis, Eirlys Evans a Gwilym Evans, 'Rhyfel y Degwm yn Llangwm a'r cylch', *Llen y Llannau* (1986).
- Lewis, T. H., 'Y wasg Gymraeg a bywyd Cymru, 1850-1901 (rhan 1.)', *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion* (1964).
- Lewis, T. H., 'Y wasg Gymraeg a bywyd Cymru, 1850-1901 (rhan 2.)', *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion* (1964).
- Lloyd Hughes, D. G., 'Caneuon y degwm', *Y Casglwr*, 60 (1997).
- Lloyd Jones, Gwyn, 'Llanefydd a Rhyfel y Degwm', *Trafodion Hanes Cymdeithas Hanes Sir Ddinbych*, cyf. 37 (1989).

- Machin, G. I. T., 'A Welsh church rate fracas, Aberystwyth, 1832-33', *Cylchgrawn Hanes Cymru*, cyf. 6, rhif. 4 (1973).
- Matthews, E. Gwynn, 'Y Brenin a'i Eglwys: themau yng ngherddi Twm o'r Nant', *Cymdeithas Hanes y Methodistiaid Calфинаidd*, 35 (2011).
- Matthews, Ioan, 'Debate: conscience or coercion? Clerical influence at the general election of 1868 in Wales', *Past & Present*, 169 (Tach. 2000).
- Morgan, Kenneth O., 'Cardiganshire politics: the Liberal ascendancy, 1885-1923', *Ceredigion: Journal of the Cardiganshire Antiquarian Society*, cyf. 5 (1964-67).
- Morga., Kenneth O., 'Lloyd George and the historians', *Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion* (1971).
- Morgan, Kenneth O., 'The Member for Wales: Stewart Rendel (1834-1913)', *Transactions of the Honourable Society of Cymmrodorion* (1984).
- Morgan, Walter T., 'The Diocese of St. David's in the nineteenth century – A. The unreformed Church', *Journal of the Historical Society of the Church in Wales*, cyf. VI, rhif. 12 (1957).
- Morgan, Walter T., 'Cases of subtraction of church-rate before the consistory court of St. David's', *Journal of the Historical Society for the Church in Wales*, IX (1959).
- Morris, Robert, 'The Tithe War', *Trafodion Cymdeithas Hanes sir Ddinbych*, cyf. 31 (1983).
- Nelmes, Grahame V., 'Stuart Rendel and Welsh Liberal political organization in the late nineteenth century', *Cylchgrawn Hanes Cymru*, cyf. 9 (1978/1979).
- O'Gorman, Frank, 'The Paine burnings of 1792-1793', *Past & Present*, cyf. 193 (Tach. 2006).
- Oldstone-Moore, Christopher, 'The fall of Parnell: Hugh Price Hughes and the Nonconformist conscience', *Éire-Ireland*, cyf. 30, rhif. 4 (1996).
- Parry, Edgar W., 'Yr offeiriad a anghofiwyd', *Y Casglwr*, 45, (1991).
- Price, Emyr, 'Lloyd George a 'Rhyfel y Degwm' yn Llyn ac Eifionydd 1886-8', *Trafodion Hanes Cymdeithas Sir Gaernarfon*, cyf. 39 (1978).
- Probert, W. J., 'Monmouthshire parishes and the Tithe Commutation Act 1836', *Gwent Local History: The Journal of Gwent Local History Council*, cyf. 73 (Hydref, 1992).
- Reay, Barry, 'Quaker opposition to tithes 1652-1660', *Past and Present*, cyf. 86 (1980).
- Rees, Lowri Ann, 'Paternalism and rural protest: the Rebecca Riots and the landed interest of south-west Wales', *Agricultural History Review*, 59, 1 (2011).
- Richter, Donald, 'The Welsh police, the Home Office, and the Welsh Tithe War of 1886-1891', *Cylchgrawn Hanes Cymru*, cyf. 12 (1984).
- Roberts, Dr. Enid, 'William Jones, Dolhywel', *Montgomeryshire Collections*, cyf. 70 (1982).

- Rowlands, Eryl Wyn, 'Agweddau gwleidyddol ym Môn, 1885-95', *Cymdeithas Hynafiaethwyr a Naturiaethwyr Môn*.
- Rusling, G. W., 'The Nonconformist conscience', *The Baptist Quarterly*, cyf. 22, rhif. 3 (Gorffennaf, 1967).
- Smith, D. W., 'The tithes to their end in Montgomeryshire', *Montgomeryshire Colletions*, cyf. 84 (1996).
- Ward, W. R., 'The tithe question in England in the early nineteenth century', *The Journal of Ecclesiastical History*, cyf. 16, rhif. 1 (Ebrill, 1965).
- Watkins, R. F., 'A ydyw'r degwm yn deg?', *Y Ford Gron*, cyf. 2, rhif. 9 (Gorff. 1932).
- Williams, A. H., 'Wesleaeth Gymreig a pholitics, 1800-1900', *Bathafarn*, cyf. 6 (1951).
- Williams, William, 'The Parry, Llanarmon, Library', *National Library of Wales Journal*, cyf. 1 rhif.4. (Gaeaf, 1914).
- Williams, Vincent, 'Tithing troubles: farmers' revolt against tithes 1747/8', *Gelligaer Historical Society*, 9 (1972).
- Yates, Nigel, 'The progress of ecclesiology and ritualism in Wales, 1840-1875', *Archaeologia Cambrensis*, cyf. CXLIX (2000).

(ch). Traethodau Anghyhoeddedig

- Cunningham, Menna, 'Y Gymdeithas Amaethyddol yn Nyffryn Clwyd, 1880-1900', (Traethawd M.A. anghyhoeddedig, Prifysgol Cymru, Bangor, 1977).
- Evans, Eric J., 'A History of the Tithe System in England, 1690-1850 with Special Reference to Staffordshire' (Traethawd Doethuriaeth anghyhoeddedig, Prifysgol Warwick, 1970).
- Jones, Siôn Edward, 'The Land Question and Tithe in Ireland and Wales in the Nineteenth Century' (Traethawd M.A. anghyhoeddedig, Prifysgol Aberystwyth, 2010).
- Matthews, Hywel Wynn, 'Y Wasg a Rhyfel y Degwm', (Traethawd M.A. anghyhoeddedig, Prifysgol Cymru, Aberystwyth, 1999).
- Owen, Barry Edward, 'The Welsh Disestablishment Crisis, 1868-1906: The Anglican Intellectual Response' (Traethawd Doethuriaeth anghyhoeddedig, Prifysgol Cymru, Bangor, 1987).
- Owen, Emyr Hywel, 'Bywyd a Gwaith Dr. Owen Owen Roberts, 1793-1866', (Traethawd M.A. anghyhoeddedig, Prifysgol Cymru, 1939).
- Parry, Adrian J., 'The Church Defence Institution, 1859-1896, With Special Reference to Wales' (Traethawd M.A. anghyhoeddedig, Prifysgol Cymru, Aberystwyth, 1982).

Richards Hancock, William Charles, 'Passion Without Perception: Nonconformity and Politics from 1893 to 1914' (Traethawd Doethuriaeth anghyhoeddedig, Coleg Birkbeck, Prifysgol Llundain, 1991).

Thomas, Angharad Maria, 'The Faith and the Fury: Popular Anticlerical Violence and Iconolasm in Spain, 1931-1936', (Traethawd Doethuriaeth anghyhoeddedig, Prifysgol Royal Holloway, Llundain, 2012).

Tudur, Dafydd, 'The Life, Work and Thought of Michael Daniel Jones (1822-1898)' (Traethawd Doethuriaeth anghyhoeddedig, Prifysgol Cymru, Bangor, 2006).